

Bangor University

## DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

**Gwaith barddonol Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Robert Leiaf, Syr Siôn Leiaf a Rhys Goch Glyndyfrdwy**

Taylor, John

*Award date:*  
2014

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

### General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

---

Gwaith Barddonol Ieuan ap  
Gruffudd Leiaf, Robert Leiaf, Syr  
Siôn Leiaf a Rhys Goch  
Glyndyfrdwy

---

John Bernard Taylor

Traethawd Ymchwil Ph. D.

Prifysgol Bangor, 2014

# Datganiad a Chaniatâd

---

## **Manylion y Gwaith**

Rwyf trwy hyn yn cytuno i osod yr eitem ganlynol yn y gadwrfa ddigidol a gynhelir gan Brifysgol Bangor ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall yr awdurdodir ei defnyddio gan Brifysgol Bangor.

## **Enw'r Awdur:**

John Bernard Taylor

## **Teitl:**

Gwaith Barddonol Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Robert Leiaf, Syr Siôn Leiaf a Rhys Goch Glyndyfrdwy

## **Goruchwyliwr/Adran:**

Yr Athro Peredur Ionor Lynch / Ysgol y Gymraeg

## **Cymhwyster/gradd a enillwyd:**

Ph.D.

Mae'r eitem hon yn ffrwyth fy ymdrechion ymchwil fy hun ac mae'n dod o dan y cytundeb isod lle cyfeirir at yr eitem fel "y Gwaith". Mae'n union yr un fath o ran cynnwys â'r eitem a osodwyd yn y Llyfrgell, yn amodol ar bwynt 4 isod.

## **Hawliau Anghyfyngol**

Mae'r hawliau a roddir i'r gadwrfa ddigidol trwy'r cytundeb hwn yn gwbl anghyfyngol. Rydw i'n rhydd i gyhoeddi'r Gwaith yn ei fersiwn presennol neu mewn fersiynau i ddod mewn man arall.

Cytunaf y gall Prifysgol Bangor gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

## **Cadwrfa Ddigidol Prifysgol Bangor**

Deallaf y bydd y gwaith a osodir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys asiantau a pheiriannau chwilio awtomataidd trwy'r We Fyd Eang.

Deallaf unwaith y gosodir y Gwaith, y gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata yn y catalogau neu'r gwasanaethau mynediad cyhoeddus, cronfeydd data cenedlaethol theses a thraethodau hir electronig megis EthOS y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Deallaf y bydd y Gwaith ar gael trwy Wasanaeth Theses Electronig Ar-Lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan y telerau a'r amodau defnydd a ddatganwyd (<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=4676>). Cytunaf fel rhan o'r gwasanaeth hwn y gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

### **Datganiad 1:**

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd onid fel y cytunwyd gan y Brifysgol ar gyfer cymwysterau deuol cymeradwy.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

### **Datganiad 2:**

Canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae maint a natur y cywiriad wedi'i nodi'n glir mewn troednodyn/troednodiadau.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Mae llyfryddiaeth ynghlwm.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

### **Datganiad 3:**

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo, ar gyfer benthyciad rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

#### **Datganiad 4:**

Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, a lle bo angen wedi cael y caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd trydydd parti.

#### **Yn ogystal â'r uchod rydw i hefyd yn cytuno â'r canlynol:**

1. Mai myfi yw'r awdur neu wedi cael awdurdod yr awdur(on) i ddod i'r cytundeb hwn a fy mod i felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor i sicrhau bod y Gwaith ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
2. Bod y copi electronig o'r Gwaith a gadwyd yn y gadwrfa ddigidol ac sydd o dan y cytundeb hwn, yn union yr un fath o ran ei gynnwys â'r copi papur o'r Gwaith a osodwyd yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, yn amodol ar bwynt 4 isod.
3. Fy mod i wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y Gwaith yn wreiddiol a, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad yw'n torri unrhyw gyfreithiau – yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
4. Fy mod i mewn achosion lle mae eiddo deallusol awduron eraill neu ddeiliaid hawlfraint wedi ei gynnwys yn y Gwaith, a lle bo'n briodol, wedi cael caniatâd eglur i gynnwys y deunydd hwnnw yn y Gwaith, ac yn ffurf electronig y Gwaith fel y ceir mynediad ato trwy'r gadwrfa ddigidol mynediad agored, *neu* fy mod i wedi canfod ac wedi dileu'r deunydd hwn na roddwyd caniatâd digonol a phriodol ar ei gyfer ac na fydd modd mynd ato trwy'r gadwrfa ddigidol.
5. Nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran y sawl sy'n cyflwyno'r gwaith, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn y deunydd a gedwir.

6. Y byddaf yn indemnio ac yn cadw wedi ei indemnio Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhag ac yn erbyn unrhyw golled, atebolrwydd, hawl neu ddifrod, gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indemnïad llawn), sy'n gysylltiedig ar unrhyw achos lle'r ydw i wedi torri unrhyw amod yn y cytundeb hwn.

Llofnod: .....

Dyddiad : .....

## Crynodeb

---

Amcan y gwaith a gyflwynir yma yw ymchwilio i waith barddonol y Lleiafiaid ynghyd â Rhys Goch Glyndyfrdwy, a golygu gwaith y beirdd hyn y gellir ei ystyried yn ddilys, gan ddilyn, mwy neu lai, y drefn a fabwysiadwyd yn y gyfres *Beirdd yr Uchelwyr*. Defnyddiwyd MFGLI ac MCF i gael rhestr ragarweiniol o gerddi ar gyfer pob bardd, ac wedyn addasu'r rhestrau yng ngolwg yr hyn a wyddys am waith beirdd eraill a'r cyd-destun hanesyddol. Cafwyd hyd i bob enghraifft lawysgrifol o'r cerddi detholedig, ac fe'u golygwyd yn y ffordd a ddisgrifir yn yr adran *Dull y Golygu* isod. Fel yn y gyfres *Beirdd yr Uchelwyr*, ceir nodiadau esboniadol i bob cerdd a olygir.

Gruffudd Leiaf yw'r hynaf o'r Lleiafiaid, ac er bod MFGLI ac MCF yn rhestru dwy gerdd wrth ei enw, ni ellir priodoli'r naill na'r llall iddo'n hyderus. Dihareb ar ffurf englyn (heb enw wrtho ar y cyfan) yw un, a'r llall yn gywydd a briodolir i sawl bardd, gan gynnwys ei wyrion Robert Leiaf a Syr Siôn Leiaf, a Dafydd ap Gwilym. Golygir y cywydd hwn yma fel gwaith Robert Leiaf.

Cysylltir enw Ieuan ap Gruffudd Leiaf, mab Gruffudd Leiaf, â'r traddodiad canu brud gan rai, eithr dau gywydd brud a olygir yma fel gwaith dichonadwy'r bardd. Y mae cyfnod y cyfansoddi yn ymestyn o tua 1420 i tua 1450 ac efallai y tu hwnt. Trawiadol felly yw canran y gynghanedd sain (hyd at ryw 60%) yn rhai o gerddi'r bardd.

Golygir saith o gerddi fel gwaith Robert Leiaf, gan gynnwys dau gywydd gofyn, cywydd dychan i'r dylluan, cywydd i Galais a'i milwyr, cywydd i'r fernagl a chywydd i bedair merch y Drindod. Dau gywydd yn unig a olygir yma fel gwaith Syr Siôn Leiaf. Y mae un yn foliant i Risiart Cyffin, Deon Bangor a dychan i Guto'r Glyn, Hywel Grythor a Gwerful Mechain. Cywydd serch yw'r llall.

Chwe cherdd gan Rys Goch Glyndyfrdwy a ystyrir yma fel gwaith dilys y bardd, gan gynnwys tri chywydd i deulu'r Pilstwniaid o Emral, Maelor Saesneg. Y mae ei farwnad i Siôn ap Rhosier (rhif 19) yn neilltuol o gain.

Y mae gwaith y beirdd a ystyrir yma yn rhychwantu'r *genres* arferol a gysylltir â beirdd y 'ganrif fawr'. Er bod nifer y cerddi a briodolir i fardd unigol yn gymharol fach, y mae rhywbeth diddorol ym mhob un ohonynt, bron, a gobeithir bod y golygiad llawn a gyflwynir yma yn fodd teilwng o ddathlu bywydau a gwaith y beirdd hyn.

## Dull y Golygu

---

Y mae'r llawysgrifau y ceir ynddynt y farddoniaeth a ystyrir yn y traethawd hwn, yn amrywio'n fawr o ran oedran, cyflwr, ansawdd llawysgrifen y copiŵyr ac ansawdd y copïo. Tardda'r llawysgrifau hynaf o ddegawdau cynnar yr unfed ganrif ar bymtheg (e.e. llyfr Elis Gruffydd, 1527<sup>1</sup>), a'r mwyaf diweddar o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir bylchau sylweddol mewn rhai llawysgrifau (megis ym Mheniarth 85(i), er enghraifft), oherwydd staeniau a chan fod darnau o dudalennau yn eisiau (yr ymylon yn aml, ac weithiau llawer mwy). Ysgrifennwyd llawer o'r llawysgrifau mewn llawysgrifen Ysgrifenyddol yr oes, ond gwahanol braidd yw llawysgrifen rhai copiŵyr, megis yr hyn a geir yn llyfr Elis Gruffydd, rhai llawysgrifau gan gopiŵyr Dr. John Davies, Mallwyd, ac yn enwedig llawysgrifau John Jones Gellilyfdy. Ceir amrywiadau yn yr orgraff, hyd yn oed o fewn un gerdd mewn un llawysgrif, ac weithiau diffyg cysondeb o ran cynnwys y llinellau a threfn y llinellau yn y gwahanol fersiynau llawysgrifol o gerdd neilltuol. Nid oes dim o waith y beirdd dan sylw yn llaw y bardd ei hun; yn wir, y mae pob copi llawysgrifol yn dyddio o gyfnod o leiaf dwy genhedlaeth ar ôl cyfnod tybiedig y cyfansoddi, a'r rhan fwyaf ohonynt yn fwy o lawer na hynny. Dyna, yn fras, natur yr etifeddiaeth llawysgrifol o ran barddoniaeth y beirdd a ystyrir yma. Cyflwynir yr etifeddiaeth hon yma yn y dull a fabwysiadwyd gan y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn y gyfres *Beirdd yr Uchelwyr*, mwy neu lai. Ar gyfer pob cerdd a ystyrir yn waith dilys y bardd, crëir testun golygedig cyfansawdd<sup>2</sup> o'r gwahanol llawysgrifau perthnasol.<sup>3</sup> Yna nodir yr amrywiadau a geir yn y gwahanol copïau llawysgrifol, a darperir nodiadau ar gyfer pob cerdd.

Cyflwynir y testunau golygedig mewn orgraff Cymraeg Diweddar (hynny yw, yn dilyn orgraff 1928) ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi yn ôl y confensiynau cyfoes. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol. Er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *au*), ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ar y llaw arall, ni ddiweddarwyd geiriau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *gwedy*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wŷd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c. Wrth lunio testun

---

<sup>1</sup> Sef Card 3.4 [= RWM 5].

<sup>2</sup> Hynny yw, testun sydd yn 'tynnu ar holl dystiolaeth y llawysgrifau er mwyn cyrraedd mor agos â phosibl at gyfansoddiadau'r bardd ei hun' (Johnston, Dafydd, 'Egwyddorion y Testunau Golygedig', t. 1, ar wefan Dafydd ap Gwilym: gweler [http://www.dafyddapgwilym.net/essays/egwyddorion\\_principles/index\\_cym.php](http://www.dafyddapgwilym.net/essays/egwyddorion_principles/index_cym.php)).



<sup>3</sup> Darperir canllawiau golygyddol manwl gan yr Athro Dafydd Johnston: gweler 'Egwyddorion y Testunau Golygedig', tt. 8 – 11.



golygedig, rhoddwyd sylw arbennig i'r llawysgrifau hŷn, oni bai fod rheswm arbennig dros beidio.

Y mae llinellau'r testun golygedig wedi'u rhifo, ac yn dilyn y testun fe geir yr adrannau canlynol: *Ffynonellau*, *Trefn y Llinellau*, *Darlleniadau Amrywiol*, *Rhaglith* ac *Olnod*. Yn yr adran *Ffynonellau*, rhestrir pob enghraifft<sup>4</sup> o'r gerdd a geir yn y llawysgrifau. Dyma'r ffynonellau a ddefnyddir wrth lunio'r testun golygedig. Er mwyn hwyluso'r broses o gyfeirio at enghraifft benodol yn yr adrannau dilynol, neilltuir llythyren yr wyddor (Saesneg) i bob llawysgrif. Ar y cyfan (ond nid yn ddieithriad), defnyddir y llythyren 'A' i ddynodi'r llawysgrif hynaf, 'B' i ddynodi'r llawysgrif hynaf namyn un &c., cyn belled ag y bo'n bosibl. Ar ôl Z, dilynir y patrwm AA, AB, AC, ... , AZ, BA, BB, BC, ... cyn belled ag y bo angen.

Weithiau mewn enghraifft fe geir y llinellau mewn trefn wahanol i'r drefn yn y testun golygedig. Nodir hyn yn yr adran *Trefn y Llinellau*. Yn yr adran hon, dilynir llythyren llawysgrif gan ddilyniant o rifau, gan ddefnyddio comas i'w gwahanu. Yn y dilyniant, cyfetyb rhif i rif llinell yn y testun golygedig, a'i lleoliad yn y dilyniant yn dangos lleoliad y llinell yn y llawysgrif dan sylw. Os hepgorir llinell mewn llawysgrif, rhoddir rhif y llinell mewn bachau petryal yn y dilyniant. Os yw llawysgrif yn cynnwys ychydig linellau ychwanegol, rhoddir y llinellau hyn yn y lle priodol yn y dilyniant, a defnyddir yr arwydd '|' i ddynodi diwedd llinell. Os yw ychwanegiad yn hir, fodd bynnag, rhoddir yr ychwanegiad, wedi'i rifo â rhif Rhufeinig mewn llythrennau is, ar ddiwedd yr adran, ac '(ychwanegiad: X)' yn y lle priodol yn y dilyniant, lle cyfetyb X i'r rhif Rhufeinig priodol.

O ran egwyddor, pwrpas yr adran *Darlleniadau Amrywiol* yw nodi'r amrywiadau a geir yn yr enghreifftiau gwahanol (gan ddiystyru, ar y cyfan, rhai orgraffyddol pur), heb eu diweddarau, a hynny yn ôl rhif y llinell yn y fersiwn golygedig. Symbol a ddefnyddiwyd yn aml gan gopiŵyr llawysgrifau hŷn fu rhywbeth tebyg i  neu , ac yn yr hyn sy'n dilyn defnyddir y llythyren 'v' i'w dynodi. Yn aml iawn, defnyddiwyd y symbol i ddynodi'r llythyren 'u', ac os felly ni wahaniaethir rhwng y symbol hwn a'r 'u' a ddefnyddiwyd gan gopiŵyr eraill. Ar y llaw arall, llai cyffredin o lawer yw i'r copiŵr ddefnyddio'r symbol i ddynodi 'f', ac os felly gwahaniaethir rhwng y symbol a'r llythyren 'f'. Os yw darlleniad penodol yn digwydd mewn grŵp o llawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff llawysgrif hynaf y grŵp hwnnw. Cyfeiria'r rhifau a ddefnyddir yn yr adran hon at rifau llinellau'r testun

---

<sup>4</sup> Defnyddir y gair *enghraifft* (yng nghyd-destun cerdd benodol) i ddynodi'r fersiwn neilltuol o'r gerdd a geir mewn llawysgrif benodol, ac sy'n dechrau ar dudalen benodol o'r llawysgrif honno.

golygedig. Dilynir rhif y llinell gan ddilyniant o lythrennau, wedi'u gwahanu gan gomas, a cholon ar ddiwedd y dilyniant. Dilynir y colon gan y darlleniad a geir yn yr enghreifftiau a nodir yn y dilyniant blaenorol o lythrennau, a defnyddir hanner colon i ddynodi diwedd y darlleniad. Ceir y drefn hon (sef dilyniant o lythrennau, colon, darlleniad, hanner colon) ar gyfer pob darlleniad gwahanol. Os hepgorir gair (neu eiriau) mewn llawysgrif, rhoddir y gair (neu eiriau) mewn bachau petryal yn dilyn rhif y llinell a llythyren briodol y llawysgrif. Os yw darn o linell yn annarllenadwy neu wedi'i ddileu (oherwydd twll yn y dudalen neu staen, er enghraifft), dynodir hyn â bachau petryal gwag yn y lle priodol yn y llinell. Os yw gair neu ran ohono yn aneglur, cofnodir hyn trwy italeiddio'r darn hwnnw. Os hepgorir llinell gyfan mewn llawysgrif, rhoddir llythyren y llawysgrif mewn bachau petryal yn dilyn rhif y llinell. Os yw'r gwahanol darlleniadau llawysgrifol ar gyfer llinell benodol yn amrywio'n fawr, yna rhoddir pob darlleniad yn llawn, a hynny yn yr orgraff wreiddiol. Trwy ddefnyddio'r adrannau *Darlleniadau Amrywiol* a *Trefn y llinellau*, geill y darllenydd ail-greu testun unrhyw un o'r llawysgrifau, ar wahân i amrywiadau orgraffyddol pur.

Yn yr adran *Rhaglith*, cofnodir unrhyw ragair i'r gerdd dan sylw a geir yn y llawysgrifau, a hynny heb ei ddiweddarau. Fodd bynnag, nid oes rhagair i'r rhan fwyaf ohonynt. Cofnodir unrhyw ddiweddglo i'r gerdd yn yr adran *Olnod*. (Ar y cyfan, enw'r bardd a geir yn y diweddglo).

Yn dilyn testunau golygedig yr holl gerddi gan fardd, ceir nodiadau arnynt, fesul cerdd, gan gynnwys dadansoddiad o bob llinell o safbwynt y gynghanedd. Gwyddys nad oedd rheolau'r gynghanedd mor gaeth yn y cyfod dan sylw ag y maent heddiw.<sup>5</sup> O ganlyniad, ni thynnir sylw'r darllenydd at bob achos o'r hyn a ystyrir yn wall yn ôl safonau cyfoes.

Yn dilyn y nodiadau, ceir geirfa ac wedyn fynegeion i enwau personau ac enwau lleoedd. Ar ddiwedd y gyfrol ceir adran ar y llawysgrifau ynghyd â mynegai i'r llinellau cyntaf.

Bu cryn drafod ynghylch golygu gwaith y Cywyddwyr yn ddiweddar, yn dilyn erthyglau Jerry Hunter<sup>6</sup> a chyhoeddi cyfrol Helen Fulton ar apocrypha Dafydd ap

---

<sup>5</sup> Gweler Parry, Thomas, 'Pynciau Cynghanedd', *B*, Cyf. X, rhan 1 (1939), 1 – 5.

<sup>6</sup> Hunter, Jerry, 'Testun Dadl', *Tu Chwith*, 3 (1994), 81 – 85; Hunter, Jerry, 'A New Edition of the Poets of the Nobility', *CMCS*, 41 (2001), 55 – 64.

Gwilym<sup>7</sup> a'i herthygl yn y gyfrol *Cyfoeth y Testun*.<sup>8</sup> Ceir trafodaeth fanwl ar y materion a godwyd gan Yr Athro Fulton, ynghyd â chyfeiriadau i ymatebion gan eraill yn y maes, gan yr Athro Peredur Lynch.<sup>9</sup> Crynhowyd y problemau ynghlwm wrth destunau canoloesol gan Dr. Barry J. Lewis.<sup>10</sup>

---

<sup>7</sup> Fulton, H., *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* (Gomer, 1996). Gweler yn arbennig tt. xiv – xxxvii.

<sup>8</sup> Fulton, Helen, 'Awdurdod ac Awduriaeth', yn *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland (Caerdydd, 2003), 50 – 76.

<sup>9</sup> Lynch, Peredur I., 'Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym: Tystiolaeth y Llawysgrifau Cynnar', yn Daniel, Iestyn et al. (gol.), *Cyfoeth y Testun*, tt. 109 – 47.

<sup>10</sup> Lewis, Barry, 'Bûm yn lliaws rhith', neu amhosibilrwydd adnabod yr awdur canoloesol', *TuChwith*, **37** (Awst 2012), 25 – 31.

## Diolchiadau

---

Yn gyntaf, carwn ddiolch i'r Athro Peredur Ionor Lynch, fy nghyfarwyddwr ymchwil. Yr wyf yn ddyledus iawn i'w anogaeth ddi-ffael a'i gynghorion doeth. Yn ail, diolchaf i Ysgol y Gymraeg am y cymorth ariannol a gefais ganddi, a'm galluogodd i wneud y gwaith a gyflwynir yma. Carwn ddiolch hefyd i holl aelodau staff a'm cyd-fyfyrrwyr yn Ysgol y Gymraeg, am y croeso a'r cyfeillgarwch a gefais ganddynt yn ystod cyfnod fy ngwaith. Pleser yw cydnabod fy nyled i Dr. A. Cynfael Lake, yr arholwr allanol, am ei waith trylwyr a'i sylwadau craff.

Y mae cyfleusterau'r Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llyfrgell ac Archifdy Prifysgol Bangor ac Archifdy Gwynedd wedi bod yn gymorth hanfodol imi, a diolchaf i'w holl staff am eu cymorth parod. Yr un mor bwysig yw gwaith Adran Gwasanaethau TG y Brifysgol, y gweinyddwyr yn yr amryfal adrannau a phawb arall sy'n cynnal Prifysgol trwy eu gwaith beunyddiol, a diolchaf iddynt oll.

Dechreuais lunio cynllun prosiect ymchwil ar waith barddonol y Lleiafiaid tra oeddwn yn astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yno, taniwyd fy niddordeb ym mhob agwedd ar hanes Cymru a llenyddiaeth Gymraeg. Y modiwl ar feirdd y ganrif fawr, yn enwedig, a'm hysbrydolodd i ymgymryd â gradd ymchwil yn y maes penodol hwn.

Y ddiweddar Miss Annie Cooke, Cristion a phrifathrawes Ysgol Gynradd Caeathro gynt, a blannodd hedyn cariad tuag at ddysg ynof. Tyfodd yr hedyn dan ofalaeth athrawon medrus Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon, ac wedyn yn Adran Mathemateg Prifysgol Gogledd Cymru Bangor, fel y gelwid y brifysgol y pryd hynny. Myfyriwr arall yn yr Adran, yn yr un flwyddyn â mi, oedd Gillian Kendall. Dechreuasom ganlyn ein gilydd ym mlwyddyn olaf ein cwrs gradd, a phiodi ar ôl i'r cwrs orffen.

Cydnabyddaf aberth fy ngwraig Gillian wrth i'w gŵr benderfynu dilyn y llwybr hwn, ac iddi hi, ac er cof am fy rhieni a Miss Annie Cooke y cyflwynaf y gwaith hwn.

# Cynnwys

---

Datganiad a Chaniatâd .....	i
Crynodeb.....	v
Dull y Golygu.....	vi
Diolchiadau .....	x
Cynnwys.....	xi
Byrfoddau .....	xv
Gwaith Ieuan ap Gruffudd Leiaf .....	1
Rhagymadrodd .....	1
Y bardd a'i gefndir.....	3
Ei waith .....	6
Crefft y Cerddi .....	6
Cyfnod tebygol y canu .....	9
Dilysrwydd y Cerddi.....	9
Cerddi dilys .....	9
Cerddi annilys neu ansicr eu hawduraeth .....	12
1. Cywydd moliant i Hywel ab Ieuan Fychan ab Ieuan Gethin a'i Wraig Elen o Foelyrch.....	20
2. Cywydd dychan i Lugwy .....	25
3. I Dafydd ap Siencyn ap Dafydd ab y Crach .....	29
4. I Gwilym ap Gruffudd a'r Penrhyn .....	34
5. Ymryson Ieuan ap Gruffudd Leiaf a Guto'r Glyn .....	38
6. Cywydd brud ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a Charnedd Llywelyn .....	41
7. Cywydd i Anna Sant, mam i'r tair Mair .....	58
8. I Aberconwy a'i chwrw .....	62
9. Cywydd brud ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd ac eog Llyn Llyw. ....	70
Nodiadau .....	76
Geirfa.....	115

Enwau personau.....	128
Enwau lleoedd .....	130
Gwaith Robert Leiaf .....	132
Rhagymadrodd .....	132
Crefft y Cerddi .....	133
Cyfnod tebygol y canu .....	134
Dilysrwydd y Cerddi.....	134
Cerddi dilys .....	134
Cerddi annilys neu ansicr eu hawduraeth .....	137
10. Cywydd i Galais a'i Milwyr .....	140
11. Cywydd gofyn âb gan Siôn Moel dros Huw Lewis o Brysaeddfed .....	145
12. Cywydd dychan i'r dylluan am iddi ddychryn cariad y bardd .....	155
13. Cywydd i'r Iesu a'r Fernagl a roddwyd iddo ar y ffordd i Galfaria .....	171
14. Cywydd gofyn March gan Rhys ap Maredudd ap Tudur ap Hywel dros Huw Conwy Hen .....	182
15. Cywydd i ferch ac i'w gwallt .....	187
16. Cywydd i'r Drindod ac i bedair merch y Drindod.....	191
Nodiadau .....	196
Geirfa.....	219
Enwau personau.....	229
Enwau lleoedd .....	230
Gwaith Syr Siôn Leiaf .....	231
Rhagymadrod .....	231
Crefft y Cerddi .....	231
Cyfnod tebygol y canu .....	232
Dilysrwydd y Cerddi.....	232
Cerddi y gellir eu hystyried yn waith dilys y bardd.....	232
Cerddi annilys neu ansicr eu hawduraeth .....	233
17. Moliant i Rhisiart Cyffin a dychan i Guto'r Glyn, Hywel Grythor a Gwerful Mechain.....	235

18. Cywydd serch .....	240
Nodiadau .....	244
Geirfa.....	253
Enwau Personau.....	257
Enwau lleoedd .....	258
Gwaith Rhys Goch Glyndyfrdwy .....	259
Rhagymadrodd .....	259
Crefft y Cerddi .....	260
Cyfnod tebygol y canu .....	260
Dilysrwydd y Cerddi.....	261
Cerddi dilys .....	261
Cerddi annilys .....	264
Cerddi ac iddynt awduraeth ansicr .....	265
19. Marwnad Siôn ap Rhosier, mab Rhosier ap Siôn Pilstwn o Emral .....	267
20. Cywydd i anfon y lleuad i chwilio am Rhys ac Ithel ab Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda, a hwythau'n garcharorion mewn castell. ....	278
21. Cywydd moliant i bum mab Llywelyn ap Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed, Bodedern, Môn. ....	282
22. Moliant i Rhosier ap Siôn (Pilstwn) o Emral ym Maelor Saesneg. ....	290
23. Cywydd i ofyn dau hyddgi gan Siencyn ab Ieuan ap Llywelyn o Blas yn Iâl dros Siôn Hanmer o'r Llai .....	293
24. Cywydd hiraeth am Rhosier ap Siôn Pilstwn ac Emral. ....	299
Nodiadau .....	306
Geirfa.....	323
Enwau Personau.....	329
Enwau Lleoedd .....	331
Llawysgrifau .....	332
Llyfryddiaeth ar gyfer y llawysgrifau .....	350
Llyfryddiaeth .....	352
Mynegai i'r llinellau cyntaf .....	365

Mynegai i'r Noddwyr a'r Gwrthrychau.....367

---



# Byrfoddau

---

## **A. Llawysgrifau**

Aberdâr	Llawysgrif yng nghasgliad Aberdâr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (LIGC 5474 – 5)
Abertawe	Llawysgrif yng nghasgliad Abertawe, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Bangor
Bangor (Mos)	Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Bangor
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Bodewryd	Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
Brog	Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd (rhifau RWM a rhifau'r llyfrgell)
CM	Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Esgair	Llawysgrif yng nghasgliad Esgair, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Gwyn	Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwynedd Davies yn Llyfrgell Prifysgol Bangor
Gwysanau	Llawysgrif yng nghasgliad Gwysanau, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Hafod	Llawysgrif yng nghasgliad Hafod, yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
Iolo Aneurin Williams	Llawysgrif yng nghasgliad Iolo Aneurin Williams, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

J	Llawysgrif yng nghasgliad Coleg yr Iesu, Rhydychen
J. Gwenogvryn Evans	Llawysgrif yng nghasgliad J. Gweogvryn Evans, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Llst	Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
LIGC	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Merthyr Tudful	Llawysgrif Merthyr Tudful, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (LIGC 970E)
Mos	Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (rhifau RWM, yn cyfateb i LIGC 3021–66)
Neuadd Wen	Llawysgrif yng nghasgliad Neuadd Wen, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Panton	Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Pen	Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Stowe	Llawysgrif yng nghasgliad Stowe, yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Tanybwllch	Llawysgrif Tanybwllch, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (LIGC Mân Adnau 1206B)
Thelwall	Llawysgrif Thelwall yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
Wrecsam	Llawysgrif yng nghasgliad Wrecsam, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Wy	Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

## **B. Llyfryddol**

AG	Llwyd, Alan, <i>Anghenion y Gynghanedd: Fersiwn Newydd</i> (Cyhoeddiadau Barddas, 2007)
AHD	Jones, Gwilym H., <i>Arweiniad i'r Hen Destament</i> (Caerdydd, 1966)

- Arch Camb *Archaeologia Cambrensis*
- ASC Bryant-Quinn, M. Paul (gol.), *Apocryffa Siôn Cent* (aberystwyth, 2004)
- BaTh Owen, Morfudd E. a Roberts, Brynley F. (gol.), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- B *Bwletin y Burdd Gwybodau Celtaidd*
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- BD Lewis, Henry (gol.), *Brut Dingestow* (Caerdydd, 1942)
- BDG Jones, O. (Owain Myfyr), Owen, W. (Dr. W. Owen Pughe) a Williams, E. (Iolo Morgannwg) (gol.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Liverpool, I. Foulkes, 1873).
- BHLIG Lewis, J. Saunders, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1986)
- BLS Thurston, H. J., Attwater, D. (gol.), *Butler's Lives of the Saints: Complete Edition* (Christian Classics, 1990)
- BU Bowen, D. J. (gol.), *Barddoniaeth yr Uchelwyr* (Caerdydd, 1959)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum* (Llundain)
- CBT Cyfres Beirdd y Tywysogion
- CD Morris-Jones, J., *Cerdd Dafod* (Caerdydd, 1980)
- CLC<sup>2</sup> Stephens, M., *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Ail argraffiad, Caerdydd, 1997)
- CLIG Jones, Y Parch. Owen (gol.), *Ceinion Llenyddiaeth Gymreig* (4 Cyfrol, Llundain: Blackie, 1876)
- CLIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*
- CLIH Williams, Ifor, *Canu Llywarch Hen* (Caerdydd, 1935)
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies* (1981 - 1993); *Cambrian Medieval Celtic Studies* (1993 - )
- CRhC Parry-Williams, T. H., *Canu Rhydd Cynnar* (Caerdydd, 1932)
- CSTB Donovan, P. J. (gol.), *Cywyddau Serch y Tri Bedo* (Caerdydd, 1982)
- CO Bromwich, R. ac Evans, D. Simon (gol.), *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd, 1988)

- CO<sup>2</sup> Bromwich, Rachel ac Evans, D. Simon (gol.), *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd, 1997)
- CTC Davies, Catrin T. Beynon, ‘Cerddi’r Tai Crefydd’ (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru [Bangor], 1972)
- Cyd<sup>2</sup> Stephens, Meic (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CYSDT Ifans, Rhiannon (gol.), *Cywyddau Ymryson Syr Dafydd Trefor* (Aberystwyth, 2013)
- DD Davies, John, *Dictionarium Duplex* (Londinium, 1632)
- DOC Lloyd, Nesta ac Owen, Morfydd E. (gol.), *Drych yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1986)
- DGA Fulton, Helen (gol.), *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* (Llandysul, 1996)
- DGChSOC Rowlands, John (gol.), *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1975)
- DGG Williams, Ifor a Roberts, Thomas, *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr* (Caerdydd, 1935)
- EANC Thomas, R. J., *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- EB *Encyclopaedia Britannica* (29 o gyfrolau, 15fed argraffiad, 1991)
- EWGT Bartrum, P. C. (gol.), *Early Welsh Genealogical Tracts* (Caerdydd, 1966)
- EWSP Rowland, Jenny, *Early Welsh Saga Poetry* (D. S. Brewer, 1990)
- G Lloyd-Jones, J., *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1988)
- GBDd Daniel, R. Iestyn (gol.), *Gwaith Bleddyn Ddu* (Aberystwyth, 1994)
- GDBMW Daniel, R. Iestyn (gol.), *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel* (aberystwyth 1998)
- GDG Parry, Thomas (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (arg. cyntaf, Caerdydd, 1952)
- GDE Roberts, Thomas, *Gwaith Dafydd ab Edmwnd* (Bangor, 1914)
- GDID Davies, R. Eleri, *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen* (Caerdydd 1992)

- GDGor Rheinallt, Erwain H. (gol.), *Gwaith Dafydd Gorlech* (Aberystwyth, 1997)
- GDLI Richards, W. Leslie (gol.), *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerdydd, 1964)
- GGapM Lewis, Barry J. (cyf. 1 a 2), Owen, Ann Parry (cyf. 3)(gol.), *Gwaith Gruffudd ap Maredudd* (3 cyfrol, Aberystwyth, 2003, 2005, 2007)
- GGG Lewis, Barry J. a Salisbury, Eurig, *Gwaith Gruffudd Gryg* (Aberystwyth, 2010)
- GGGI Williams, Ifor a Williams, J. Llywelyn (gol.), *Gwaith Guto'r Glyn* (Caerdydd, 1961)
- GGLI Ifans, Rhiannon (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth, 2000)
- GGM Lewis, Barry J. (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Maredudd* (3 cyf., Aberystwyth, 2003 – 2007)
- GGME Howells, Nerys Ann (gol.), *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill* (Aberystwyth, 2001)
- GHC Jones, Islwyn (gol.), *Gwaith Hywel Cilan* (Caerdydd, 1963)
- GHSD Evans, Dylan Foster (gol.), *Gwaith Hywel Swrwal a'i Deulu* (Aberystwyth, 2000)
- GlapLIF Bryant-Quinn, M. Paul, *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewis Aled* (Aberystwyth, 2003)
- GlapRh Daniel, R. Iestyn (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth, 2003)
- GIBH Bryant-Quinn, M. Paul (gol.), *Gwaith Ieuan Brydydd Hir* (Aberystwyth, 2000)
- GID Williams, Ifor (gol.), *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn* (Bangor, 1909)
- GIF Jones, Howell Ll. a Rowlands, E. I., *Gwaith Iorwerth Fynglwyd* (Caerdydd, 1975).
- GIG Johnston, Dafydd (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988)
- GIF Jones, Howell Ll. a Rowlands, Eurys I., *Gwaith Iorwerth Fynglwyd* (Caerdydd, 1975)
- GLGC<sup>1</sup> Davies, W. (Gwallter Mechain), Jones, J. (Tegid)(gol.), *Gwaith Lewis Glyn Cothi* (Oxford, 1837)

- GLGC<sup>2</sup> Jones, E. D. (gol.), *Gwaith Lewis Glyn Cothi* (Caerdydd, 1953)
- GLGC<sup>3</sup> Jones, E. D. (gol.), *Lewys Glyn Cothi (Detholiad)*, Caerdydd, 1984)
- GLGC Johnston, Dafydd (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd, 1995)
- GLM Rowlands, Eurys I. (gol.), *Gwaith Lewys Môn* (Caerdydd, 1975)
- GLMorg Lake, A. Cynfael, *Gwaith Lewys Morgannwg* (2 gyf., Aberystwyth 2004)
- GLI Daniel, R. Iestyn (gol.), *Gwaith Llawdden* (Aberystwyth, 2006)
- GLI-C Thomas, Huw, *Geiriadur Lladin – Cymraeg* (Caerdydd, 1979)
- GLIG Daniel, R. Iestyn (gol.), *Gwaith Llywelyn ap Gutun* (Aberystwyth, 2007)
- GLIGapMH Johnston, Dafydd (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth, 1998)
- GMRh Roberts, Enid (gol.), *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion* (Aberystwyth, 2003)
- GP Williams, G. J. a Jones, E. D. (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (4 cyf., Caerdydd, 1950–2002)
- GPC<sup>2</sup> *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- GRhGE Evans, Dylan Foster (gol.), *Gwaith Rhys Goch Eryri* (Aberystwyth, 2007)
- GSCMB *Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor* (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1962)
- GSDT Ifans, Rhiannon (gol.), *Gwaith Syr Dafydd Trefor* (Aberystwyth, 2005)
- GTP Roberts, Thomas (gol.), *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn* (Caerdydd, 1958)
- GMW Evans, D. Simon, *A Grammar of Middle Welsh* (Dulyn, 1964)
- GWL Jarman, A. O. H., Hughes, Gwilym Rees a Johnston, Dafydd (gol.), *A Guide to Welsh Literature 1282 – c. 1550* (Caerdydd, 1997)
- GyG Thomas, Peter Wynn, *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd, 1996)
- HGFM Wynn, Sir John, *The History of the Gwydir Family and Memoirs*, gol. J. Gwynfor Jones (Gomer Press 1990)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth,

1943–)

- HPF Lloyd, J. Y. W., *The History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog, and the Ancient Lords of Arwystli, Cedewen and Meirionydd* (6 chyf., Llundain, 18 )
- IGE Lewis, H., Roberts, Thomas a Williams, Ifor (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill 1350 – 1450* (Bangor, 1925)
- IGE<sup>2</sup> Lewis, H., Roberts, Thomas a Williams, Ifor (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill* (ail arg., Caerdydd, 1937)
- IGP Johnston, Dafydd (gol.), *Iolo Goch: Poems* (Llandysul, 1993)
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols, London, 1907–13)
- LIA J. Morris Jones and John Rhÿs (gol.), *The Elucidarium . . . from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi, A.D. 1346* (Oxford, 1894)
- LIB S. J. Williams a J. E. Powell (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd* (Caerdydd, 1942)
- LlyB Williams, J. E. Caerwyn, Rolant, Eurys, Llwyd, Alan, *Llywelyn y Beirdd* (Cyhoeddiadau Barddas, 1984)
- LIC Llên Cymru
- M The Myvyrian Archaiology of Wales (ail arg., Denbigh, 1870)
- MC Gruffydd, R. Geraint (gol.), *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973)
- MCF *Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth* ('MALDWYN', <<http://maldwyn.llgc.org.uk>>)
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- MWM Huws, Daniel, *Medieval Welsh Manuscripts* (Caerdydd ac Aberystwyth, 2000)
- NCE *New Catholic Encyclopedia* (15 cyf., Washington, 1967)
- NLWCM Davies, J. H., *The National Library of Wales Catalogue of Manuscripts, i* (Aberystwyth, 1921)
- OBWV Parry, Thomas, (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Rhydychen, 1962; adarg. 1989)
- OCS Hughes, H. H., North, H. L., *The Old Churches of Snowdonia* (Cymdeithas Parc Cenedlaethol Eryri, Capel Curig, 1984)

- OED Oxford English Dictionary (Oxford: Clarendon, 1989)
- OPGO Bachellery, E., *L'Oeuvre Poetique de Gutun Owain* (Paris, Premier Fascicule 1950, Second Fascicule 1954)
- PC Rowlands, Eurys I., *Poems of the Cywyddwyr* (Dulyn, 1976)
- PWDN Roberts, Thomas, Williams, Ifor, *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff, MCMXXIII)
- PWLMA Griffiths, Ralph A., *The Principality of Wales in the Later Middle Ages* (Caerdydd, 1972)
- R Evans, J. Gwenogvryn, (gol.), *The Poetry in the Red Book of Hergest* (Llanbedrog, 1911)
- RCAHMWM Royal Commission on Ancient and Historical Monuments in Wales and Monmouthshire.
- RWM Evans, J. Gwenogvryn, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (Llundain, 1898 – 1910)
- RhGi Parry-Williams, T. H. (gol.), *Rhyddiaeth Gymraeg (Y Gyfrol Gyntaf): Detholion o Lawysgrifau 1488 – 1609* (Caerdydd, 1954)
- SC Studia Celtica
- SCWMBLO Madan, F. a Craster, H. H. E., *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Rhydychen, 1924)
- TC Morgan, T. J., *Y Treigladau a'u Cystawen* (Caerdydd, 1952)
- THSC Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion
- TLIM Williams, G. J., *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)
- TYP<sup>3</sup> Bromwich, Rachel, *Trioedd Ynys Prydein* (3ydd. arg., Caerdydd, 2006)
- WATU Richards, Melville, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Caerdydd, 1969)
- WCCR Williams, Glanmor, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Caerdydd, 1976)
- WCD Bartrum, P. C., *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth 1993)
- WG Morris-Jones, J., *A Welsh Grammar: Historical and Comparative* (Gwasg Clarendon, Rhydychen, 1913)



WG1	Bartrum, P. C., <i>Welsh Genealogies AD 300–1400</i> (Caerdydd, 1974)
WG2	Bartrum P. C., <i>Welsh Genealogies AD 1400–1500</i> (Caerdydd, 1983)
YB	Ysgrifau Beirniadol
YBA	<i>Y Bywgraffiadur Ar-Lein</i> (sef fersiwn electronig ByCy ynghyd ag erthyglau ychwanegol a gomisiynwyd gan Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion. Gweler <a href="http://wbo.llgc.org.uk/cy/index.html">http://wbo.llgc.org.uk/cy/index.html</a> ).
YFN	Gruffydd, W. J. (gol.), <i>Y Flodeugerdd Newydd</i> (Caerdydd, Y Cwmni Cyhoeddiadol Addysgol, 1909)
YM	Ifans, Dafydd a Rhiannon (gol.), <i>Y Mabinogion</i> (Gomer, 1995)

### **C. Termau a geiriau**

a.	ansoddair
adarg.	adargraffiad
amhrs.	amhersonol
amherff.	amherffaith
anh.	anhysbys
arg.	argraffiad
<i>art. cit.</i>	articulo citato ( sef 'yn yr erthygl a ddyfynnwyd eisoes')
b. (f.)	benywaidd
ba.	berf anghyflawn
be.	berfenw
bf.	berf, -au
bfl.	berfol
bg.	berf gyflawn
bg.a.	berf gyflawn ac anghyflawn
bnth.	benthyg, benthyciad
c.	circa
c. (g.)	canrif
cf.	cymharer

Cym.	Cymraeg
C. C.	Cymraeg Canol
dib.	dibynnol
e.	enw
e.e.	er enghraifft
f., ff.	ffolio(s)
<i>ffig.</i>	ffigurol
<i>fl.</i>	floruit
g.	gwrywaidd
gorch.	gorchmynnol
gol.	golygydd, golygwyd gan
gorff.	gorffennol
gw.	gweler
<i>ibid.</i>	Ibidem (sef 'yr un unigolyn neu awdur')
<i>loc.cit.</i>	loco citato (sef 'yn y darn a ddyfynnwyd eisoes')
ll.	lluosog, llinell
llau.	llinellau
Llad.	Lladin
llsgr(au).	llawysgrif(au)
m.	marw
myn.	mynegol
n.	nodyn
<i>op. cit.</i>	opere citato (sef 'yn y gwaith a ddyfynnwyd eisoes')
perff.	perffaith
pres.	presennol
prs. (brs.)	person
r	recto
S.	Saesneg
S. C.	Saesneg Canol

t. (tt.)	tudalen(nau)
tf.	torfol
un.	unigol
v	verso

# Gwaith Ieuan ap Gruffudd Leiaf

---

## Rhagymadrodd

Ychydig iawn a wyddys am Ieuan ap Gruffudd Leiaf, ar wahân i'r hyn y gellir ei gasglu o'i farddoniaeth. Cynigir ail hanner y bymthegfed ganrif fel *floruit* Ieuan yn ByCy.<sup>11</sup> O ystyried ei gywydd i Wilym ap Gruffudd a'r Penrhyn (cerdd 4 isod), fodd bynnag, ac yn enwedig llinellau agoriadol y gerdd honno, byddai'n fardd aeddfed erbyn trydydd degawd y bymthegfed ganrif, os nad cynt.

Cynhwysir enw Ieuan, ynghyd â'i dad Gruffudd Leiaf a'i fab Robert Leiaf, yn y rhestr a geir yn llawysgrif BL Add 31055, ymysg enwau'r beirdd hynny *oedd yn amser y trydydd Clymiad ar Gerdd*, ond ni cheir yno ragor o wybodaeth amdanynt.<sup>12</sup> Ni chynhwysodd Dr. John Davies, Mallwyd, enw'r bardd yn y rhestr ar ddiwedd ei *Dictionarium Duplex*, er iddo gynnwys enwau Robert Leiaf a Syr Siôn Leiaf, a'r dyddiad 1480 wrthynt.<sup>13</sup> Ceir enw llawn y bardd (heb ddyddiad) yn *Repertorium Poeticum* Moses Williams, ynghyd ag enwau Robert Leiaf a Syr Siôn Leiaf (a'r dyddiad 1480 wrthynt).<sup>14</sup> Ar y dudalen lle y ceir enw llawn Ieuan (sef tudalen 74), ceir hefyd yr enw *Ieuan Leia*, heb ddyddiad wrtho. Yn ei lyfr *The Cambrian Biography*, y mae William Owen (Pughe) yn disgrifio Ieuan ap Gruffudd Leiaf fel *a poet who wrote between A. D. 1500 and 1530*,<sup>15</sup> er bod Robert Leiaf a Siôn Leiaf ill dau yn *poet and genealogist who flourished between A. D. 1450 and 1490*.<sup>16</sup> Derbyniodd y Parchedig Robert Williams dystiolaeth William Owen Pughe yn ei lyfr *Enwogion Cymru*, gan ychwanegu bod rhai o gerddi'r bardd ar gael yn y llawysgrifau.<sup>17</sup> Yn y llyfr *Traethawd ar Enwogion Swydd Feirion*,<sup>18</sup> gan Edward

---

<sup>11</sup> Tudalen 386.

<sup>12</sup> Dalennau 47<sup>v</sup> a 48<sup>r</sup>.

<sup>13</sup> Davies, John, *Antiquae Linguae Britannicae ... Et Linguae Latinae Dictionarium Duplex ...* (Londini 1632). Ceir mwy o wybodaeth am y llyfr hwn yn Davies, Ceri (ed.), *Dr John Davies of Mallwyd, Welsh Renaissance Scholar* (Cardiff, 2004).

<sup>14</sup> Williams, Moses, *Repertorium Poeticum, sive Prematum Wallicorum ...* (Londini 1726), tt. 74, 77 – 78.

<sup>15</sup> Owen, William, *The Cambrian Biography: or Historical Notices of Celebrated Men Among The Ancient Britons* (London, 1803), t. 200. Diau mai gwall argraffu sy'n esbonio'r ganrif anghywir.

<sup>16</sup> *Ibid.*, tt. 309 a 318.

<sup>17</sup> Williams, Rev. Robert, *Enwogion Cymru: A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen from the Earliest Times to the Present, And Including Every Name Connected with the Ancient History of Wales* (Llandovery, 1852), t. 239. Am Robert Leiaf a Siôn Leiaf, gweler tudalennau 455 a 472.

Davies, disgrifir Ieuan fel *bardd rhwng 1500 a 1540*. Ar y llaw arall, cofnodir gan y Parchedig Josiah Thomas Jones mai *bardd tra enwog yn niwedd y bumthegfed ganrif, a dechreu yr unfed ganrif ar bumtheg oedd Ieuan ab Gruffydd Leiaf*, gan ychwanegu bod *rhai o'i gyfansoddiadau yn awr ar gael mewn llawysgrifau*.<sup>19</sup> Fodd bynnag, ar y dudalen nesaf, sonia ef hefyd am *Ieuan Gruffydd Leiaf*, un o feirdd yr unfed ganrif ar bymtheg a oedd yn byw rhwng 1540 a 1580, bardd a *llawer o'i gyfansoddiadau i'w cael mewn ysgrifen*. Yn ei gyfrolau swmpus ar Gymru,<sup>20</sup> y mae'r Parchedig Owen Jones yn cofnodi pethau lled gyffelyb am ddau fardd a chanddynt yr un enwau. Yn achos *Ieuan Gruffydd Leiaf*, ychwanega i'r bardd hwn gael ei gladdu yn Llandrillo yn ôl 'Beddau y Beirdd'.<sup>21</sup> Tuedd y bywgraffiadau yw dilyn William Owen Pughe.

O ran y llyfrau adnabyddus ar lenyddiaeth Gymraeg, nid oes sôn am Ieuan yn *Hanes Llenyddiaeth Gymreig Gweirydd ap Rhys* (er i'r awdur gynnwys enwau *Rhobert Leiaf* (sillafiad yr awdur) a Syr Siôn Leiaf yn y rhestr ar ddiwedd pennod X).<sup>22</sup> Nid oes sôn am y bardd yn *Llenyddiaeth Cymru o 1450 – 1600* W. J. Gruffydd, nac yn *Llenyddiaeth y Cymry* T. Gwynn Jones ychwaith, er iddo ddyfynnu o'r cywydd *Rhydw gyn rho Duw garnedd* (gweler cerdd 7 isod), a ystyrir bryd hynny yn waith Rhys Goch Eryri.<sup>23</sup> Nid oes sôn am y bardd yn *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* Thomas Parry, nac yn OBWV. Un o fân feirdd ei gyfnod oedd Ieuan ap Gruffudd Leiaf, yn ôl y cyfanswm o'i waith sydd wedi goroesi, ac felly nid yw'n syndod nad ydyw'r llyfrau hyn, pob un ohonynt yn delio â llenyddiaeth o gyfnod helaethach o gryn dipyn, yn sôn amdano. Ar y llaw arall, y mae'r Athro Dafydd

---

<sup>18</sup> Edward Davies (Iolo Meirion), *Traethawd ar Enwogion Swydd Feirion* (Caernarfon, 1870), t. 101.

<sup>19</sup> Jones, Josiah Thomas, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (2 gyf., Aberdar, 1867 a 1870), i, t. 580.

<sup>20</sup> Jones, Y Parchedig Owen, *Cymru: Yn Hanesyddol, Parthedegol a Bywgraphyddol* (2 gyf., Llundain, Blackie a'i Fab, 1875), i, tt. 672 a 675.

<sup>21</sup> Gweler 'Beddau y Beirdd', *Y Brython*, iii (Ebrill 1860), 137-8. Ymddengys fod y rhestr a geir yn yr erthygl hon yn deillio o lawysgrifau BL Add 15022, 53b – 55 a LIGC 872D [= Wrecsam 1], 463 (John Brooke o Fawddwy, 1590–2, gw. RWM ii, 346–60). O ystyried enwau'r beirdd eraill a gladdwyd yn yr un lle, ymddengys mai Llandrillo-yn-Edeirnion yw man claddu honedig Ieuan ap Gruffudd Leiaf. Yn Chwitffordd y claddwyd Gruffudd Leiaf a Robert Leiaf yn ôl y ffynonellau hyn.

<sup>22</sup> Prys, R. I. (Gweirydd ap Rhys), *Hanes Llenyddiaeth Gymreig, o'r flwyddyn 1300 hyd y flwyddyn 1650* (Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol, 1883), t. 258.

<sup>23</sup> Jones, T. Gwynn, *Llenyddiaeth y Cymry* (Dinbych: Gee a'i Fab, Cyf., 1915), t. 71. Golygydd y cywydd hwn gan W. J. Gruffydd (YFN, tt. 48 – 52 a 218 – 9).

Johnston yn cyfeirio at Ieuan (a gweddill y Lleiafiaid) yn ei lyfr pwysig *Llên yr Uchelwyr*.<sup>24</sup>

## Y bardd a'i gefndir

Yr oedd Guto'r Glyn yn gyfoeswr i Ieuan ap Gruffudd Leiaf, fel y dengys yr ymryson rhyngddynt, a chywyddau moliant y ddau fardd i Hywel ab Ieuan Fychan a'i wraig Elen ferch Dafydd ab Ieuan, a'u llys Moelyrch. Fodd bynnag, yr oedd Ieuan yn hŷn na Guto, o ryw bymtheg i ugain mlynedd efallai, o ystyried dyddiadau tebygol gwaith barddonol cynharaf y ddau fardd. Ceir llinell yn y cywydd brud *Och na wn na chawn ennyd* (gan Huw Pennant, mae'n debyg) sydd yn cyfeirio at Ieuan (gwelir isod). Er na cheir cyfeiriad at Ieuan yng ngwaith Rhys Goch Eryri, bu'r ddau fardd yn bresennol ar achlysur dathlu codi llys Y Penrhyn tua 1420. Yr oedd Rhys Goch yn hŷn nag Ieuan o ryw ddeng mlynedd ar hugain.<sup>25</sup>

Yn ôl un traddodiad,<sup>26</sup> cafodd Dafydd ap Gruffudd, brawd Llywelyn ap Gruffudd, fab y tu allan i rwymau priodas, sef Dafydd Goch ap Dafydd, arglwydd Penmachno. Gwyddys am yr hyn a ddigwyddodd i Lywelyn, Owain a Gwladus ap Dafydd, plant cyfreithlon Dafydd ap Gruffudd yn ôl cyfraith Lloegr. Cipiwyd y plant gan swyddogion y Goron. Gyrrwyd Llywelyn ac Owain i gastell Bryste cyn diwedd Gorffennaf 1283, ac yno y treuliodd weddill eu hoes yn garcharorion.<sup>27</sup> Diau mai cyffelyb fuasai tynged Dafydd Goch ap Dafydd pe buasai ei dad wedi ei gydnabod ef fel mab, canys yn ôl y gyfraith Gymreig, buasai ganddo wedyn yr un hawliau â'r plant eraill. Ni chydabuwyd ef gan ei dad, fodd bynnag, a hynny, yn ôl y traddodiad, a'i hachubodd rhag tynged y plant cyfreithlon. Tybia Cledwyn Fychan i Ddafydd Goch 'fel eraill o blant y tywysogion gael ei gipio i ffwrdd yn ddigon pell o'i gynefin, ond mae'n debyg mai ef oedd y Dafydd Goch a ailymddangosodd yng Ngwynedd dros ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach'.<sup>28</sup> Â'r awdur ymlaen i

---

<sup>24</sup> Johnston, Dafydd, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300 – 1525* (Caerdydd, 2005), tt. 269, 354 a 389.

<sup>25</sup> Yn GRhGE, t. 12, mae Dylan Foster Evans yn cynnig 1365 – 1440 fel cyfnod einioes Rhys Goch Eryri.

<sup>26</sup> Gweler er enghraifft WG1, 'Gruffudd ap Cynan' 5; WG1, 'Gruffudd ap Cynan' 6.

<sup>27</sup> Bu farw Llywelyn ym 1287, a'i gladdu yn yr eglwys Dominicanaid ym Mryste. Ni wyddys pan fu farw Owain, ond ceir cyfeiriadau ato hyd at 1325. Anfonwyd Gwladys i leiandy Sixhills, yn agos i leiandy Sempringham, lle anfonwyd Gwenllian ferch Llywelyn ap Gruffudd. Bu farw Gwladys ym 1336. Gweler, er enghraifft, Smith, J. B., *Llywelyn ap Gruffudd, Tywysog Cymru* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1986), tt. 389 - 92.

<sup>28</sup> Cledwyn Fychan, *Pwy Oedd Rhys Gethin?* (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion Gyf., 2007), tt. 21 – 2.

restru'r ffafrau a'r swyddi a gafodd 'David Gouch' (neu 'Gogh') gan Edwart II ac Edwart III. Dyma gynnwys y cofnodion swyddogol perthnasol:

- i. Ionawr 1316. Anfonir 'David Gouch', a wasanaethodd y brenin a'i dad, at Abad a Chwfaint Maenan ger Conwy, i gael cynhaliaeth briodol am oes.<sup>29</sup>
- ii. Mawrth 1316. 'David Gogh' yn cael 'Grant ... of the bailiwick of la wodewardie of Nanconeweeye and of bydel in Crethon, at the usual yearly rent'.<sup>30</sup>
- iii. Awst 1318. Anfonir 'David Gogh' i briordy a chwfaint Wirksop i dderbyn y gynhaliaeth a gafodd yr Hugh de Badburgham ymadawedig ar gais y brenin diweddar.<sup>31</sup>
- iv. Mehefin 1319. 'David Gogh' yn cael 60s. y flwyddyn am oes, gan Siambrlen Caernarfon, am ei wasanaeth da i'r diweddar frenin.<sup>32</sup>
- v. Rhagfyr 1327. Cadarnhawyd gorchymyn iv uchod gan Edwart III.<sup>33</sup>

Yn ogystal â'r cofnodion uchod, ceir dau gofnod ychwanegol sy'n awgrymu'n gryf i 'David Gogh' farw yn gynnar yn y flwyddyn 1342:-

- i. Ebrill 30 1342. John de Chirbury yn cael 'woodwardship of Nanconwey, co. Kaernarvan, North Wales, during good behaviour, with such wages as David Gogh ap Leythyk had in the office, he shall hold the office as David held it, but in place of the said wages he shall receive such fees as David had in his lifetime'.<sup>34</sup>
- ii. Mai 14 1342. Y brenin yn cadarnhau'r grant uchod i John Chirbury.<sup>35</sup>

Priododd Dafydd Goch ddwywaith. Angharad (2<sup>il</sup>) ferch Heilin o dylwyth Marchudd oedd y wraig gyntaf, a chawsant o leiaf dau o blant, sef Gwenllïan a Llywarch. Angharad ferch Tudur oedd yr ail wraig. Erys rhywfaint o ansicrwydd ynghylch pa wraig oedd mam y trydydd plentyn, sef Gruffudd.<sup>36</sup> O gymryd mai

---

<sup>29</sup> Cal CR, Edward II: Volume 2: 1313 – 1318 (1893), t. 319.

<sup>30</sup> Cal FR, Edward II: Volume 2: 1307 – 1319 ( ), t. 273. Dyma swyddi'r wdward a'r bedel y cyfeiria Cledwyn Fychan atynt (Cledwyn Fychan, *op. cit.*, t. 22).

<sup>31</sup> Cal CR, Edward II: Volume 3: 1318 – 1323 (1895), t. 98.

<sup>32</sup> Cal PR, Edward II: Volume 3: 1317 – 1321 ( ), t. 344.

<sup>33</sup> Cal CR, Edward III: Volume 1: 1327 – 1330 (1896), t. 193.

<sup>34</sup> Cal PR, Edward III, Volume 5, t. 425.

<sup>35</sup> Cal PR, Edward III, Volume 5, t. 431.

<sup>36</sup> Gweler WG1, 'Gruffudd ap Cynan' 5.

Angharad (2<sup>nd</sup>) ferch Heilin oedd mam Gruffudd ap Dafydd Goch, dyma gysylltiad uniongyrchol â Barwniaid Edeirnion: yr oedd yr Angharad hon yn ferch i Annes, ferch Owain ap Bleddyn ab Owain Brogyntyn. Yr oedd Owain Brogyntyn yn arglwydd Dinmael ac Edeirnion ac yn fab (er y tu allan i rywmau priodas) i Madog ap Maredudd o hen deulu brenhinol Powys. Gellir ystyried ateb Guto'r Glyn yn yr ymryson rhyngddo ac Ieuan ap Gruffudd Leiaf yn gadarnhad o'r cysylltiad teuluol hwn.<sup>37</sup> (Priododd Gwenllïan, ferch Dafydd Goch, Ruffudd ab Iorwerth o dylwyth Bleddyn ap Cynfyn, cysylltiad arall â Barwniaid Edeirnion, er yn gymharol anuniongyrchol). Y Fedw Deg, Penmachno oedd cartref Gruffudd ap Dafydd Goch. Yr oedd yn etifedd gwely Cynwrig ab Iddon, ac yn dal tiroedd ym Mhenmachno, Cwmlannerch, Llanrwst a Thalybolion ym Môn.<sup>38</sup> Ef oedd pen-rheithiwr rheithgor Nant Conwy a roes dystiolaeth i awdurdodau'r Goron ar gyfer ystent 1352.<sup>39</sup> Erys delw garreg gerfiedig Gruffudd ap Dafydd Goch hyd heddiw yn hen eglwys Llanfihangel, Betws Wyrion Iddon (Betws-y-coed erbyn hyn),<sup>40</sup> ac uwchlaw'r ddelw hysbysiad a ddywed fel a ganlyn:-

Dyma ddelw Gruffudd ap Dafydd Goch. Roedd yn byw gerllaw yn y Fedw Deg. Fe ymladdodd ym mrwydr Poitiers ym 1356 dan arweiniad Iorwerth III. Bu iddo farw mewn brwydr, oddeutu 1370 - 1380, am fod ei draed yn gorffwys ar lew.

Priododd Gruffudd ddwywaith, ac o'i briodas gyntaf (â Margred ferch Tudur o dylwyth Nefydd Hardd, Nanconwy), cafodd fab, sef Gruffudd Fychan ap Gruffudd ap Dafydd Goch. (Cafodd ferch, Efa ferch Gruffudd ap Dafydd Goch, o'i ail briodas, ag Angharad ferch Hywel 'y Pedolau' o dylwyth Hwfa). Priododd y mab Gruffudd Fychan Wladus ferch Gruffudd o gwmwd Llifon, Môn, a bu iddynt naw o blant, gan gynnwys Hywel Coetmor, Rhys Gethin, Robert a Gruffudd Leiaf.<sup>41</sup> Cafodd Gruffudd Fychan, ynghyd â'i feibion Hywel Coetmor, Rhys Gethin, Robert a Gruffudd Leiaf, eu henwi mewn deiseb i'r brenin (Rhisiart II) ym 1390 gan William Broun.<sup>42</sup>

---

<sup>37</sup> Gweler cerdd 5, llinell 9, a'r nodiadau ar ei chyfer isod.

<sup>38</sup> HGFM, t. 110.

<sup>39</sup> HGFM, t. 109.

<sup>40</sup> Gweler Gresham, C. A., *Medieval stone carving in North Wales* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1968), tt. 194 – 6.

<sup>41</sup> Yr oedd gan Gruffudd Fychan wraig arall hefyd, yn ôl Pen 287, 851, sef Tangwystl ferch Maredudd Goch. Gweler Jones, E. D., 'Howel Coytmor (Coetmor)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. 8, rhif 3 (Haf 1954), 352.

<sup>42</sup> Rees, W., *Calendar of Ancient Petitions relating to Wales* (Cardiff, 1975), t. 394; Bird, W. H. B. (gol.), *Calendar of the Close Rolls Preserved in the Public Record Office: Richard II* (London, HMSO, 1922), t. 295.



Apwyntiasid Broun fel person eglwys Llanrwst yn gynnar yn y flwyddyn honno, ac yntau'n ddi-Gymraeg. Pan geisiodd ei sefydlu ei hun yn yr eglwys, rhwystrwyd Broun rhag gwneud hynny gan Ruffudd Fychan a'i feibion uchod (ynghyd â rhai eraill). Gwysiwyd y tad a'r meibion i ddod o flaen y brenin a'i gyngor. O ystyried hyn, gellir tybio fod Gruffudd Leiaf, a'r brodyr eraill a gafodd eu henwi yn y ddeiseb, yn ddynion erbyn 1390. Ym mis Mawrth 1397, bu Hywel Coetmor a'i frodyr Robert, Rhys Gethin a Gruffudd Leiaf yn ysgutorion ewyllys eu tad.<sup>43</sup>

Er nad oes gwybodaeth ar gael ynghylch gwraig Gruffudd Leiaf, gwyddys iddo gael merch, Angharad, a mab Ieuan,<sup>44</sup> ac nid afresymol fyddai tybio fod Ieuan o leiaf yn blentyn ifanc erbyn diwedd degawd olaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ategir y ddamcaniaeth hon gan ei gywydd i Gwilym ap Gruffudd a'r Penrhyn (gw. cerdd 4 isod). Nodir ach Ieuan gan John Jones Gellilyfdy yn LIGC 3039B, 283 (y rhaglith i ymateb Guto'r Glyn yn yr ymryson rhyngddynt, gw. cerdd 5 isod a'r nodiadau cysylltiol). Yn ôl Peter Bartrum, cafodd Ieuan ddau fab, Robert Leiaf a Syr Siôn Leiaf, a dwy ferch, Gwerful a Jonet. Nid yw Bartrum yn enwi'r fam.<sup>45</sup>

## **Ei waith**

### **Crefft y Cerddi**

Seilir y drafodaeth yn yr adran hon ar y sylwadau a geir yn y nodiadau isod ar y cerddi. Gwyddys i rif 4 (i Gwilym ap Gruffudd a'r Penrhyn) gael ei gyfansoddi oddeutu 1420, a bod rhif 2 (dychan i Lugwy) yn fwy na thebyg yn perthyn i'r un cyfnod, mwy neu lai. Dyma waith cynharaf y gellir ei briodoli'n hyderus i Ieuan ap Gruffudd Leiaf, dau gywydd â chanran y gynghanedd sain (oddeutu 60%) ar ei uchaf yng ngwaith y bardd (gweler y tabl isod). Nodweddion amlwg y cywyddau hyn, ac yn enwedig rhif 4, yw'r cymeriad (llythrennol a chynganeddol), y sangiadau, ac yn enwedig y trychiad yn 4.41 – 4.44. Yr un mor amlwg yw'r nodweddion hyn yn rhif 6 (Cywydd brud ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a Charnedd Llywelyn). Ceir trosiadau a phersonoli medrus, yn enwedig yn achos rhifau 2 a 6. Cywydd arall lle ceir canran y gynghanedd sain yn uchel yw rhif 7 (Cywydd i Santes Anna, mam y Forwyn Fair); gweler y tabl isod eto. Ceir y gynghanedd sain gadwynog mewn sawl llinell yn y cywyddau hyn (er enghraifft, 2.12, 2.46, 2.54, 2.58, 4.34, 4.35, 4.41, 4.51, 7.26, 7.60, 7.66).

---

<sup>43</sup> Wynn, Sir John, *History of the Gwydir Family* (Oswestry, Eng., Woodall, 1878), t.111.

<sup>44</sup> Pen 127, 19.

<sup>45</sup> Gweler WG1, 'Gruffudd ap Cynan' 6.

<b>Rhif y gerdd</b>	<b>cyng. groes</b>	<b>cyng. draws</b>	<b>cyng. sain</b>	<b>cyng. lusg</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>groes + draws</b>
1	33	21	24	4	82	54
%	40.24	25.61	29.27	4.88	100	65.85
2	13	5	39	11	68	18
%	19.12	7.35	57.35	16.18	100	26.47
3	40	11	5	2	58	51
%	68.97	18.97	8.62	3.45	100	87.93
4	15	11	38	0	64	26
%	23.44	17.19	59.38	0.00	100	40.63
6	22	12	38	8	80	34
%	27.50	15.00	47.50	10.00	100	42.50
7	15	6	44	9	74	21
%	20.27	8.11	59.46	12.16	100	28.38
8	46	10	10	2	68	56
%	67.65	14.71	14.71	2.94	100	82.36
9	14	19	22	9	64	33
%	21.88	29.69	34.38	14.06	100	51.56
<b>Cyfanswm</b>	<b>198</b>	<b>95</b>	<b>220</b>	<b>45</b>	<b>558</b>	<b>294</b>
%	<b>35.48</b>	<b>17.03</b>	<b>39.43</b>	<b>8.06</b>	<b>100</b>	<b>52.69</b>

Gwyddys hefyd fod rhif 1 (cywydd i Hywel ab Ieuan Fychan a'i lys Moelyrch) yn perthyn i ganol y bymthegfed ganrif. Yn y cywydd hwn, y mae canran y gynghanedd sain oddeutu 30%, a cheir y gynghanedd sain gadwynog yn llinellau 1.54, 1.63 ac 1.70. Yn rhif 3 (moliant i Dafydd ap Siencyn ab y Crach) a rhif 8 (cywydd i Gonwy a'i chwrw) y mae canran y gynghanedd sain ar ei isaf (oddeutu 12%), a dim ond un llinell yn y ddwy gerdd yn gynghanedd sain gadwynog (sef 8.17). O ystyried y cefndir hanesyddol, mae'n debyg mai yn chwedegau'r bymthegfed ganrif y canodd Ieuan i Dafydd ap Siencyn, ac nid cyn diwedd y

ddegawd hon y canwyd rhif 9, os cywir yw cysylltu 9.51 â brwydr Banbri (gw. 9.51n).

Ai dilys yw cysylltu cywyddau ac iddynt ganran uchel o'r gynghanedd sain â chyfnod cynnar yng ngwaith y bardd, a chywyddau ac iddynt ganran isel o'r gynghanedd sain â chyfnod diweddarach yn ei yrfa? Yn GDG, dywed Thomas Parry fel a ganlyn:-

Pur drawiadol felly yw gweld fod cyfartaledd uchel iawn o gynganeddion sain yng ngwaith y cywyddwyr cynnar, a bod y cyfartaledd hwnnw wedi lleihau'n sylweddol erbyn y 15 g. ... Ni fynnir honni nad oes a wnelo tueddfryd a dysg y bardd unigol rywbeth â hyn. Yn wir, y mae lle i gredu fod bardd wrth ymberffeithio yn mynd i ddefnyddio mwy o gynganeddion cytsain. ... Eto i gyd, y mae'n gwbl amlwg fod beirdd canol y 15 g., a'u cymryd at ei gilydd, yn llunio llawer llai o gynganeddion Sain na'u rhagflaenwyr yn y 14 g. Gellir defnyddio'r ffaith hon yn bur hyderus fel praw ar oedran cywydd.<sup>46</sup>

Y mae Eurys Rolant yn ymhelaethu ar y pwnc hwn mewn erthygl bwysig ar arddull y cywydd.<sup>47</sup>

Er bod cywyddau Ieuan ap Gruffudd Leiaf i Hywel ab Ieuan Fychan a'i wraig a'u llys Moelyrch, ac i Gwilym ap Gruffudd a'r Penrhyn, yn cynnwys mawl i'r gwrthrychau, nid cywyddau mawl pur ydynt. Y mae'r ddau gywydd yn foddion i drafod materion cyfoes ynghylch y gyfundrefn farddol (gweler y nodiadau ar gyfer cerddi 1 a 4 isod). Felly hefyd yn achos yr ymryson rhyngddo a Guto'r Glyn (rhif 5), a gyfansoddwyd ar yr un achlysur â rhif 1, yn fwy na thebyg (gweler y nodiadau cysylltiol isod). Nid yw canmol y bardd yn achos Aberconwy a'i chwrrw yn ddiamod ychwaith (gweler y nodiadau ar gyfer cerdd 8 isod). Ys gwir fod ei gywydd i Dafydd ap Siencyn ab y Crach yn gywydd mawl pur, ond câr i'r bardd oedd Dafydd (gweler y nodiadau ar gyfer cerdd 3 isod). Fel Dafydd ab Edmwnd ac eraill, bardd a ganodd ar ei fwyd ei hun oedd Ieuan, a'i gysylltiadau teuluol â thywysogion Gwynedd a barwniaid Edeyrnion yn ddiâu yn rhoi iddo'r moddion byw.

---

<sup>46</sup> GDG, xcvi – xcvi.

<sup>47</sup> Rolant, Eurys, 'Arddull y Cywydd', *Ysgrifau Beirniadol*, II (1966), 36 – 57, ac yn enwedig 39 – 45. Yn ogystal â'r gynghanedd, y mae'r erthygl hon yn trafod iaith y cywydd, gan gynnwys geiriau cyfansawdd a 'dyfalu'.

## **Cyfnod tebygol y canu**

O ystyried y cefndir hanesyddol, mae'n bur sicr bod canu Ieuan ap Gruffudd Leiaf yn rhychwantu'r cyfnod 1420 – 1461 yn fras, fel y gwelwyd uchod. Llawer llai sicr yw ymestyn y cyfnod hyd 1469 (brwydr Banbri), ond nid amhosibl o bell ffordd, o ystyried cyfnod tebygol canu cywyddwyr megis Iolo Goch a Dafydd Llwyd o Fathafarn.

Y mae canran y gynghanedd sain yn ei ganu cynnar yn drawiadol o uchel, ac yn fwy tebyg i ganu rhai o gywyddwyr cynnar y bedwaredd ganrif ar ddeg. Diddorol fyddai cael gwybod pwy oedd ei athro barddol, ond prin y gellir credu y bydd y fath wybodaeth fyth yn dod i'r golwg.

## **Dilysrwydd y Cerddi**

Yn yr adran hon, cyfeirir at gerdd trwy ddefnyddio'r llinell gyntaf.

### **Cerddi dilys**

*Brenin diwarth fu Arthur (Rhif 1: cywydd moliant i Hywel ab Ieuan Fychan a'i wraig Elen o Foelyrch)*

Cerdd foliant i lys Moelyrch a'i berchennog, Hywel ab Ieuan Fychan, yw hon, ar achos ail-godi'r llys, c. 1450 gweler y nodiadau isod). Ceir chwech enghraifft llawysgrifol (dwy yn yr un llawysgrif), fel a ganlyn: Pen 103, 41; Bangor (Mos) 5, 10<sup>r</sup>; LIGC 8330B, 79; LIGC 8330B, 342; BL Add 31060, 171<sup>r</sup>; CM 207, 40. Y mae'r enghreifftiau hyn yn gyson o ran nifer a threfn y llinellau, ac yn debyg iawn i'w gilydd o ran cynnwys (yr eithriad mwyaf pwysig yw llinellau 25-26, lle cynigir cwpled gwahanol yn enghraifft A). O'r llawysgrifau hyn, Pen 103 (c. 1558 – 64) a Bangor (Mos) 5 (c. 1570 – 90) yw'r hynaf o ryw hanner canrif o leiaf. Fe gadwyd Pen 103 ym Moelyrch am gyfnod, ond ymhell ar ôl cyfnod y cywydd dan sylw.<sup>48</sup> Y mae hyd yn oed y ddwy enghraifft hyn yn dyddio o gyfnod ryw ganrif a chwarter ar ôl i'r bardd lunio'r cywydd.

*Curiais och Dduw o'r cariad (Rhif 2: cywydd dychan i Lugwy)*

Ceir y cywydd hwn o wyth llinell a thrigain mewn tair llawysgrif, sef Wy 1, Llŷt 122 a Card 4.10ii [= RWM84]. Y mae'r tri fersiwn yn gyson o ran cynnwys a threfn y llinellau. Ysgrifennwyd yr enghraifft hynaf ryw gant a hanner o flynyddoedd ar ôl dyddiad tebygol y cyfansoddi (c. 1420 – c. 1430).

---

<sup>48</sup> Gweler RWM i, t. 639 am fwy o fanylion.

*Duw i gynnal dy gynnydd (Rhif 3: cywydd moliant i Dafydd ap Siencyn ap Dafydd ab y Crach)*

Cynhwysir y cywydd hwn mewn deg o llawysgrifau, sef Wy 1, LIGC 3051D [= Mos 148], Llst 30, Bodley Welsh e.1, Llst 122, LIGC 3049D [= Mos 146], Card 2.617, BL Add 14908, BL Add14991 a BL Add 31095. Priodolwyd y gerdd i Dudur Penllyn gan Wiliam Owen Pughe yn llawysgrif BL Add 14908, ac ni cheir enw'r bardd yn llawysgrif BL Add 31095; Ieuan ap Gruffudd Leiaf piau'r cywydd yn ôl yr wyth llawysgrif arall. Cynigiwyd fersiynau golygedig, ar sail llawysgrifau Llst 122 a LIGC 3049D [= Mos 146], gan T. Gwynn Jones.<sup>49</sup>

*Er hyn aros yr hanner (Rhif 4: cywydd moliant i Gwilym Gruffudd a'r Penrhyn)*

Pedair enghraifft o'r cywydd hwn sydd ar gael yn y llawysgrifau, sef Pen 85(i), 61; J 137 [= RWM 12], 74; Bangor (Mos) 5, 17<sup>r</sup>; LIGC 3051D [= Mos 148], 578. Er na cheir (hyd yma) enghraifft o'r cywydd hwn mewn llawysgrif ddiweddarach na'r unfed ganrif ar bymtheg, erys bwlch o ryw ganrif a chwarter rhwng y cyfansoddiad gwreiddiol (tua 1420) a'r enghraifft llawysgrifol gynharaf. Cyson yw'r pedair enghraifft o ran hyd a threfn, a chynnwys hefyd ar y cyfan.

*Ni fynnaf ataf lle'i notier - gywely (Rhif 5: Ymryson y bardd a Guto'r Glyn)*

Englyn i Guto'r Glyn yw hwn, sy'n gwahardd Guto rhag rhannu gwely ag ef. Ceir wyth enghraifft llawysgrifol, ynghyd â golygiad printiedig yn GGGI. Golygwyd englyn Ieuan ynghyd ag ateb Guto'r Glyn gan Eurig Salisbury yn ddiweddar: gweler [www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net), cerdd 93.

*Trist fydd sêr pan frodier fry (Rhif 7: cywydd i Anna Sant, mam i'r tair Mair)*

Hyd y gwyddys, dim ond un enghraifft o'r cywydd hwn i Anna, mam Mair, sydd wedi goroesi yn y llawysgrifau, sef yr hyn a geir yn LIGC 5273D, 14<sup>v</sup>. Gwan iawn, felly, yw'r dystiolaeth o blaid Ieuan ap Gruffudd Leiaf fel cyfansoddwr, er yr ymddengys nad oes dystiolaeth o blaid unrhyw fardd arall ar hyn o bryd.

---

<sup>49</sup> Jones, T. Gwynn, 'Cultural Bases: A Study of the Tudor Period in Wales', *Y Cymmrodor*, 31 (1921), 177 – 8; Jones, T. Gwynn, *Llên Cymru: detholiad o ryddiaith a phrydyddiaeth at wasaneth myfyrwyr gwlad ac ysgol* (4 cyfrol, Caernarfon ac Aberystwyth, 1921 – 27), 1, tt. 53 – 54.

*Y ddewisdref ddiestron (Rhif 8: cywydd i Aberconwy a'i churw)*

Gwyddys am bedair enghraifft llawysgrifol ar bymtheng, pedair yn priodoli'r cywydd i Ieuan (neu Ifan) ap Llywelyn ap Mali (sef enghreifftiau Q, R, S a K isod), pedair ar ddeg yn ei briodoli i Ieuan (neu Ifan) ap Gruffudd Leiaf, ac un (enghraifft A isod) lle newidir 'Ieuan ap Llywelyn ap Mali' i 'Ieuan ap Gruffudd Leiaf'. Llawysgrifau Q, A a B yw'r hynaf, Q yn dyddio, yn fras, ganrif neu fwy ar ôl i'r bardd gyfansoddi'r cywydd. Ni phriodolir unrhyw gerdd arall i 'Ieuan ap Llywelyn ap Mali' yn MCF, nac yn MFGLI ychwaith, ac felly fe'i hystyrir yn deg i'w phriodoli i Ieuan ap Gruffudd Leiaf. Fodd bynnag, teg yw gofyn paham y dewiswyd yr enw 'Ieuan ap Llywelyn ap Mali' gan gopiŵyr y llawysgrifau hynaf. Ni cheir yr enw yn *Dictionarium Duplex* John Davies Mallwyd, nac yn y rhestr yn llawysgrif BL Add 31055, ond fe'i geir yn *Repertorium Poeticum* Moses Williams.

Yn ogystal â'r enghreifftiau llawysgrifol, cafwyd fersiwn printiedig gan T. Gwynn Jones yn *Llên Cymru*,<sup>50</sup> a seiliwyd ar fersiwn Pen 112, 91 (sef enghraifft C isod).

*Y gleisiad deiliad dilwfr (Rhif 9: cywydd brud ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd ac eog Llyn Llyw)*

Dosranna'r chwe enghraifft o'r cywydd brud hwn a gedwir yn y llawysgrifau yn ddau ddosbarth,  $\alpha$  a  $\beta$ . Pedwar cwpled ar ddeg ar hugain a geir yn y ddwy enghraifft yn nosbarth  $\alpha$ , sydd yn cynnwys LIGC 408A, 45 a Pen 196, 165. Deuddeng cwpled ar hugain a geir yn nosbarth  $\beta$ , sydd yn cynnwys Card 3.4, 251; LIGC 6499B, 529; LIGC 3077B, 73 a LIGC 668C, 81. Perthyn tri chwpled ar hugain i  $\alpha$  a  $\beta$ ; perthyn un cwpled ar ddeg ychwanegol i  $\alpha$  ond nid i  $\beta$ , a naw cwpled (gwahanol) ychwanegol i  $\beta$  ond nid i  $\alpha$ . Yr enghraifft yn Card 3.4 (Llyfr Elis Gruffydd) yw'r hynaf, o ryw ganrif, ac ymddengys fod y tair llawysgrif arall yn nosbarth  $\beta$  yn dilyn hon, mwy neu lai, gan geisio dehongli rhai llinellau astrus yng ngwaith Elis Gruffydd. Defnyddir y deuddeng cwpled ar hugain yn nosbarth  $\beta$  fel sail i'r golygiad.

---

<sup>50</sup> Jones, T. Gwynn, *Llên Cymru: detholiad o ryddiaith a phrydyddiaeth at wasaneth myfyrwyr gwlad ac ysgol* (4 rhan, Caernarfon ac Aberystwyth, 1921 – 27), 3 (1926), tt. 61 – 62.

## Cerddi annilys neu ansicr eu hawduraeth

### *A gŵr a fedd o Gaerfyddin*

Cywydd brud byr o chwe chwpled yw hwn. Y mae tair enghraifft ar gael yn y llawysgrifau, sef BL Add 14892, 104<sup>r</sup>; LIGC 3077B, 216; a BL Add14994, 56<sup>r</sup>, a'r tri chopiwr yn priodoli'r gerdd i Ieuan ap Gruffudd Leiaf. Ar y llaw arall, ceir ffurf ar linellau'r chwe chwpled hyn yng ngherdd 6. Cywydd brud ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a Charnedd Llywelyn), sy'n dechrau â'r llinell *Rhydedw gyrr rho Duw garnedd*), fel a ganlyn:-

<b>Llinellau 'A gŵr fedd'</b>	<b>Llinellau <i>Rhydedw gyrr</i><sup>51</sup></b>
1 – 2	35 – 36
3 – 6	49 – 52
7 – 12	61 – 66

Y mae amryw llawysgrifau sy'n cynnwys *Rhydedw gyrr* yn hŷn o ryw hanner canrif na'r llawysgrif hynaf sy'n cynnwys y gerdd hon, ffaith sy'n awgrymu'n gryf mai fel rhan o'r cywydd *Rhydedw gyrr* y dylid ei hystyried. O ganlyniad, fel yn achos *Rhydedw gyrr*, ni ellir priodoli'r gerdd hon yn gwbl hyderus i Ieuan. Cynhwysir yr enghreifftiau yn y tair llawysgrif uchod fel enghreifftiau AAA, BBB ac CCC yng ngolygiad y cywydd *Rhydedw gyrr* isod.

### *Difiau o'r Mai da yw'r modd*

Cywydd brud byr arall o chwe chwpled yw hwn, a geir yn llawysgrifau BL Add 14892, 92<sup>v</sup> a BL Add 14994, 48<sup>r</sup>. Priodolir y gerdd yn y ddau achos i '*Ifan ap Gr Fychan*'. Ar y llaw arall, cynhwysir y gerdd yn ei chyfanrwydd yn y cywydd brud *Mae sôn am ddynion neu ddau* (dwy enghraifft yn y llawysgrifau, a'r ddwy wedi'u priodoli i Ieuan ap Gruffudd Leiaf) a'r pum cwpled olaf ohoni yn y cywydd brud *Droganwyd o drigeinawr* (o eiddo naill ai Syr Llywelyn Fychan neu Gruffudd ap Llywelyn Fychan yn ôl y llawysgrifau). Cynhwysir y cywydd *Droganwyd* yn ei dro yn y cywydd *Mae sôn am ddynion neu ddau* (gweler isod). Ar sail y dystiolaeth hon, ni ellir priodoli'r gerdd *Difiau* yn ddiogel i Ieuan ap Gruffudd Leiaf, eithr cynhwysir y cywydd hwn yn y cywydd *Mae sôn am ddynion neu ddau* a drafodir isod.

---

<sup>51</sup> Y mae rhifau'r llinellau yn y golofn hon yn cyfateb i'r rhifau yn y golygiad o'r gerdd a gynigir isod.

### *Dilyn (Dilid) y broffwydoliaeth*

Cywydd brud adnabyddus arall a briodolir i Ieuan ap Gruffudd Leiaf gan rai yw'r un sy'n dechrau â'r llinell *Dilyn (Dilid) y broffwydoliaeth*. Cofnodir dau brif fersiwn yn y llawysgrifau. Priodolir fersiwn α i Robin Ddu bron yn ddieithriad.<sup>52</sup> Gwahanol iawn yw fersiwn β, a briodolir i sawl bardd, gan gynnwys Llywelyn ap Rhys, Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Robin Ddu, Y Bergam a Merddin.<sup>53</sup> Ceir fersiwn arall mewn dwy lawysgrif sydd mewn gwirionedd yn ymgorfforiad o'r cywydd *Brwydr macwy o Brydain*.<sup>54</sup> Yn narlith lenyddol flynyddol, Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1981, cyfeiriodd Enid Roberts at gwpled yn fersiwn β, gan ei briodoli i Ieuan ap Gruffudd Leiaf,<sup>55</sup> ond prin y gellir honni'n hyderus mai ei eiddo ef yw'r cywydd. Yn wir, golygwyd fersiwn hwy, sydd yn dechrau â'r cwpled '*Gwaith anorffen sy genni | Caru Crist er curo ci*' (ac a ddilynnir gan y cywydd dan sylw) gan Rhiannon Ifans yn ei golygiad o waith Syr Dafydd Trefor,<sup>56</sup> ac felly ni olygir y cywydd yma.

### *Gwae a aned o'u geni*

Priodolir y cywydd brud hwn yn y mwyafrif llethol o'r enghreifftiau llawysgrifol i naill ai Dafydd Llwyd o Fathafarn neu Llywelyn ab Ednyfed neu Robin Ddu o Fôn. Nid oes reswm dros ei hystyried yn waith Ieuan ap Gruffudd Leiaf.

### *Hurw Huw Hwre hirwen aeth ymaith*

Dim ond un llawysgrif, sef Card 4.156 sy'n cynnwys yr englyn hwn. Yn RWM ii, 279, priodolir y gerdd i *E. Gr: leia*, ond yn y llawysgrif gwelir yr enw *Evan Gryffydd leia* uwchben yr englyn 'Ni fynaf attaf lle nottier, gywely' (gwaith dilys Ieuan ap Gruffudd Leiaf), ac islaw'r englyn dan sylw. Ni cheir enw awdur yr englyn hwn yn y llawysgrif. *Cŵyn i H Machno ar ôl i gariad* yw teitl yr englyn, a'r ateb yn ei ddilyn. Yn amlwg, os yw *H Machno* yn cyfeirio at Huw Machno y bardd (c. 1560 – 1637), ni all yr englyn fod yn gynnyrch Ieuan ap Gruffudd Leiaf.

### *Mae sôn am ddynion neu ddau*

Cofnodir y cywydd brud hwn mewn dwy lawysgrif o ganol yr ail ganrif ar bymtheg, sef Brog 4 a LIGC 3077B, a'r ddwy yn priodoli'r gerdd i Ieuan ap Gruffudd Leiaf. Pedair llinell a thrigain sydd i'r gerdd hon. Fodd bynnag, mewn pump o

---

<sup>52</sup> Llst 41, 148 ac eraill. Gweler MCF, cerdd 27549.

<sup>53</sup> MCF cerddi 393 ac 15567.

<sup>54</sup> MCF cerdd 5680

<sup>55</sup> Roberts, Enid, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Argraffwyr Gwynedd, 1981), t. 29.

<sup>56</sup> GSDT, tt. 97 – 9, 209 – 15.



llawysgrifau gwahanol,<sup>57</sup> dwy ohonynt (o leiaf) o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, cofnodir cywydd brud,<sup>58</sup> o waith Gruffudd ap Llywelyn Fychan yn ôl pob un o'r llawysgrifau hyn, a chynhwysir y cywydd hwn yn ei grynswth ynddo (llinellau 19 hyd 64). O hepgor cwpled olaf y gerdd hon o waith Gruffudd ap Llywelyn Fychan, ceir cerdd a briodolir i Syr Llywelyn Vaughan mewn chwech o lawysgrifau gwahanol eto.<sup>59</sup> Dyma'r unig gerdd a briodolir iddo, a dichon mai tad Gruffudd ap Llywelyn Fychan yw hwn. Ar ben hynny, cynhwysir y cywydd *Difiau o'r Mai da yw'r modd*, cerdd ac iddi ddeuddeg o linellau a briodolir i 'Ifan ap Gruffudd Fychan' yn llawysgrifau BL Add 14892 a BL Add 14994, yn y cywydd *Mae sôn am ddyinion neu ddau*, y cwpled cyntaf fel llinellau 9 – 10 o *Mae sôn ...*, a'r gweddill y tu mewn i'r rhan a briodolir hefyd i Ruffudd ap Llywelyn Fychan (neu Syr Llywelyn Vaughan).

O ystyried hyn, prin y gellir priodoli'r gerdd hon i Ieuan ap Gruffudd Leiaf, a hwyrach bod llinell 5 (*Ieuan ydwy', un oediauwg*) yn esbonio pam y priodolwyd y gerdd iddo. Ni chynigir fersiwn golygedig ohoni yma.

*Och na wn na chawn ennyd*

O'r un enghraifft ar hugain o'r cywydd brud hwn a restrir ym Maldwyn, dim ond dwy a briodolir i Ieuan ap Gruffudd Leiaf yn unig, ac un i Ddafydd Gorlech a Robin Ddu yn ogystal ag Ieuan. Priodolir y rhan fwyaf i Huw Pennant.<sup>60</sup> Y mae'r cywydd hwn yn cynnwys y darn *Y fo lithr fal dieithrwaed* (gweler isod), ac felly ni ellir priodoli'r darn hwnnw i Ieuan ap Gruffudd Leiaf ychwaith. Yn ddiddorol, cynhwysa'r gerdd *Och na wn na chawn ennyd* linell sydd yn debyg o fod yn gyfeiriad at Ieuan ap Gruffudd Leiaf, sef *Awen loyw Ieuan* (neu *Ifan*) *Leiaf*.

*Rho Duw'r brud ynyd anoeth*

Priodolir y cywydd brud hwn yn y llawysgrifau i Ddafydd Llwyd o Fathafarn (3 enghraifft), Hywel Cilan (1 enghraifft), Maredydd ap Rhys (2 enghraifft), Robin Ddu o Fôn (8 o enghreifftiau) ac Edwart ap Rhys (12 o enghreifftiau) yn ogystal ag i Ieuan ap Gruffudd Leiaf (4 enghraifft). Golygwyd y cywydd (ar sail 15 o lawysgrifau) yn nhraethawd M.A. Heledd Haf Williams.<sup>61</sup> O ystyried cyfnod tebygol y canu, a'r

---

<sup>57</sup> Bodley Welsh e 6, 106; CM 454, 146; Gwyn 2, 123b; LIGC 408, 43b; Pen 196, 165.

<sup>58</sup> *D'roganwyd o drigeinawr* yw llinell gyntaf y gerdd hon.

<sup>59</sup> Bangor 401, 13; Card 2.68, 491; Card 5.10i, 203; LIGC 11115B, 153; Pen 195, 41b; LIGC Mân Adnau 57B, 51.

<sup>60</sup> Sef Syr Huw Pennant, brudiwr a fu yn ei flodau yn ail hanner y bymthegfed ganrif. Gweler ByCy, t. 378; GDGor, t. 10.

<sup>61</sup> Williams, Heledd Haf, 'Rhai Cerddi Anghyhoeddedig a Briodolir i Ddafydd Llwyd' (traethawd M.A., Bangor 2006).

ffaith fod Ieuan yn fardd aeddfed erbyn oddeutu 1420 (os nad cynt), prin y gellir priodoli'r cywydd yn ddiogel iddo.

*Rhydedw gyrn rho Duw garnedd (Rhif 6)*

Cywydd brud ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a Charnedd Llywelyn yw hwn. Fe'i priodolir yn y llawysgrifau i Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Rhys Goch Eryri, Dafydd Llwyd o Fathafarn a Robin Ddu o Fôn, fel a ganlyn:-

<b>Llawysgrif</b>	<b>Beirdd</b>
Bodley Welsh e6, 192;	Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Rhys Goch Eryri
LIGC 659, 91;	Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Robin Ddu
Ba 1267, 51a	Robin Ddu
BL Add 31057, 14a; Llst 133, 246; Llst 136, 3; LIGC 13691C, i; LIGC 1578B, 444; LIGC 3077, 154; LIGC 7191B, 169b;	Ieuan ap Gruffudd Leiaf
Ba 401, 205; BL Add 15010, 113a; BL Add 15027, 33b; BL Add 15011, 69a; BL Add 14866, 200b; BL Add 31058, 111a; BL Add 31080, 11a; BL Add 14887, 27b; Stowe 959, 187b; Card 5.10i, 19; Card 4.156, 439; CM 448, 86; Gwyn 16, 1; LIGC 19904B, 66b; Llst 120, 265; Llst 167, 301; Llst 118, 322; LIGC 11115B, 192; LIGC 672D, 114; LIGC 6209E, 329; LIGC 6881B, 43; LIGC 6499B, 485; Pen 245, 187; LIGC Man Adn 55B, 375; LIGC Man Adn 57B, 47; Wy 7, 175;	Rhys Goch Eryri

BL Add 14886, 10b; Card 5.44, 75b; LIGC 21290E, 123; Llst 134, 117; Llst 133, 797; Llst 48, 50; Llst 51, 5; LIGC 970E, 131; LIGC 13063B, 15; LIGC 13069B, 16;	Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn
LIGC 1578B, 124 <sup>v</sup>	Dienw

Golygwyd y gerdd gan W. J. Gruffydd yn YFN,<sup>62</sup> ar sail y fersiynau llawysgrifol a geir yn Card 5.10i, 19 a Card 4.156, 439 a'r fersiwn a gyhoeddwyd yn *Ceinion Llenyddiaeth Cymru*. Ceir trafodaeth arni gan Dylan Foster Evans yn GRhGE.<sup>63</sup> Yno y mae'n dadlau nad gwaith Rhys Goch Eryri mohoni, er bod y mwyafrif o'r llawysgrifau yn ei phriodoli i'r bardd hwn, ac mae'n derbyn dadl Eurys Rolant yn *Llywelyn y Beirdd*<sup>64</sup> wrth awgrymu mai gwaith Ieuan ap Gruffudd Leiaf ydyw. Sail y ddadl yw'r ystyriaethau canlynol:

- i. Cyfeiria'r darn canlynol yn y gerdd at Harri VII, yn ôl damcaniaeth W. J. Gruffydd:<sup>65</sup>

*Edrych yn ddiddawn ddawnair:*

28 *HRU – gad felly'r gair*

*â dwbl I yn y dabl aur*

*yn hynod wasgod wisgaur*<sup>66</sup>

Tyn Eurys Rolant sylw'r darllenydd at y darn hwn,<sup>67</sup> a dadleua ef y byddai cyfnod Rhys Goch Eryri yn rhy gynnar pe bai darlleniad tybiedig W. J. Gruffydd o'r llinellau hyn, a'r esboniad cysylltiol, yn gywir.

- ii. Nid yw'r dystiolaeth lawysgrifol o blaid Dafydd Llwyd o Fathafarn yn gryf iawn, ac mae'n wannach fyth yn achos Robin Ddu. Cambriodolwyd sawl cerdd i Ddafydd Llwyd o Fathafarn, gan ei fod yn frudiwr mor enwog.

<sup>62</sup> Gruffydd, W. J., *Y Flodeugerdd Newydd* (Caerdydd, Y Cwmni Cyhoeddiadol Addysgol, 1909), tt. 48 – 52 a 218 – 219.

<sup>63</sup> GRhGE, tt. 38 – 39.

<sup>64</sup> LlyB, tt. 127 – 128.

<sup>65</sup> YFN, t. 218.

<sup>66</sup> Fersiwn *Llywelyn y Beirdd*.

<sup>67</sup> Llinellau 12 – 13 yn y darn o'r cywydd ar dudalennau 110 – 111 yn LlyB, llinellau 28 – 29 yn YFN.

- iii. Yr oedd Ieuan ap Gruffudd Leiaf “*yn fardd cymharol anenwog ac anodd felly ddeall pam y buasid wedi priodoli cerdd awdur arall iddo*”.<sup>68</sup>
- iv. Cyfansoddodd Ieuan ap Gruffudd Leiaf gywydd i Lugwy, afon sy’n tarddu ar lethrau Carnedd Llywelyn.

Yn ogystal â’r dadleuon hyn, gellir ychwanegu un arall. Ceir tair enghraifft yn y llawysgrifau o’r cywydd deuddeng llinell *A gŵr a fedd o Gaerfyddin* (gweler uchod), a briodolir i Ieuan ap Gruffudd Leiaf gan bob copiyydd. Ceir holl linellau’r gerdd *A gŵr fedd* yn y cywydd *Rhydew gym*, yn ôl y drefn a nodir uchod, ac felly penderfynwyd cynnwys y tair enghraifft o’r gerdd *A gŵr fedd* yn y golygiad ar gyfer *Rhydew gym*. Y mae’r enghreifftiau cynharaf sydd ar gael ar gyfer y gerdd *Rhydew gym* yn hŷn nag enghraifft gynharaf *A gŵr fedd* o ryw hanner canrif. Awgryma hyn mai fel darn o’r gerdd *Rhydew gym* y dylid ystyried y gerdd *A gŵr fedd*.

Ar y llaw arall, dylid ystyried y dadleuon uchod yn fanylach.

- i. “*ll. r. u. gad felly y gair | dwbwl l yn y dabl aur*” yw’r darlleniad yn BL Add 14866, 201, a’r *ll* yn ddigon clir. Llai sicr yw’r llythyren gyntaf yn Card 4.156, 439 a Card 5.10i, 19, ond ymddengys mai *K* ydyw’r llythyren gyntaf yn y ddwy lawysgrif hyn, er y gallai fod yn *H*. Dylid cofio mai llawysgrifau o’r ddeunawfed ganrif ydyw’r ddwy lawysgrif olaf hyn. Nid oes dim yng ngweddill y cywydd y gellir ei ystyried yn gyfeiriad lawn cyn gryfed at Harri VII.
- ii. Yn ôl y tabl uchod, ymddengys fod y dystiolaeth lawysgrifol o blaid Dafydd Llwyd o Fathafarn yn llawn mor gryf, os nad yn gryfach, na’r dystiolaeth o blaid Ieuan ap Gruffudd Leiaf, a chryfaf oll yw’r dystiolaeth o blaid Rhys Goch Eryri!
- iii. Er mor ddeniadol yw’r syniad hwn, ni ellir ei ystyried yn ddadl derfynol. Gellir dadlau’n hyderus i amryw o gerddi gael eu cambriodoli i Ieuan, megis yn achos y cywydd *Mae sôn am ddyinion neu ddau* uchod.
- iv. Syniad deniadol arall yw hwn. Ar y llaw arall, gellir dadlau bod y cyfeiriad at Rhita Gawr yn llinell 6 yn lleoli’r cywydd ym milltir sgwâr Rhys Goch Eryri.

Yn ogystal â’r dadleuon hyn, dylid cofio mai dim ond un cywydd brud a briodolir yn unfrydol gan y copiŵyr i Ieuan ap Gruffudd Leiaf, sef rhif 9 isod.

---

<sup>68</sup> LlyB, t. 127.

Derbynnir mai go brin y gellir cael tystiolaeth derfynol yn yr achos hwn, ac er gwaethaf ansicrwydd dadleuon ii, iii a iv, credir yma bod pwysigrwydd y cywydd yn ogystal â'r dadleuon o blaid Ieuan ap Gruffudd Leiaf yn ddigon i gyfiawnhau golygu'r cywydd hwn yma: gweler rhif 6 isod.

Mae'r testun yn LIGC 1578B, 124 yn anghyflawn, ac nid oes enw bardd wrtho.<sup>69</sup> Yn achos llawysgrif LIGC 659A, 91 cafodd testun y llaw wreiddiol α (a briodolwyd i Robin Ddu) ei newid a'i ehangu gan law arall, β. Ar ddiwedd y cywydd, yn ymyl chwith y dudalen, dywed β '*Ieuan ap Gr leiaf i Garnedd Llywelyn 1437 o brophwydoliaeth y Bellen*'. Er hwylustod, yn y darlleniadau amrywiol nodir enghraifft α gan AS<sup>1</sup> ac enghraifft β gan AS<sup>2</sup>.

*Y fo lithr fal dieithrwaed*

Darn yw hwn o'r cywydd brud *Och na wn na chawn ennyd*. Trafodir y cywydd hwnnw uchod.

*Y seren ysy' (y sydd) arwydd*

Ceir deg enghraifft ar hugain o'r cywydd brud hwn yn y llawysgrifau, a phedair ar hugain yn ei briodoli i Robin Ddu o Fôn (sef Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd). Mewn pum llawysgrif, priodolir y gerdd i Ddafydd Gorlech,<sup>70</sup> a dim ond un llawysgrif sydd ag enw Gruffudd Leiaf wrthi, sef BL Add 31057, 49r. Er y gallai'r llawysgrif hon fod ymysg y rhai hynaf, nid yw hynny ar ei ben ei hun yn rheswm digonol dros anwybyddu barn mwyafrif y copïwyr.

*Yr (Er) un ferch oerion yw f'ais*

Priodolwyd y gerdd hon i Ddafydd ap Gwilym yn DGG,<sup>71</sup> eithr gwrthodwyd hi gan Syr Thomas Parry:

*Chwe llawysgrif, a'r cwbl, mwy na thebyg, o'r un ffynhonnell. Syml yw'r iaith, ac anghywir rai gweithiau, a'r gynghanedd hefyd yn ansicr.<sup>72</sup>*

Llawysgrif LIGC 6471B ydyw'r unig un a restrir ym Maldwyn o dan enw Ieuan ap Gruffudd Leiaf, ond o chwilio o dan linell gyntaf y gerdd, gan roi '*Er un ferch ...*' yn

---

<sup>69</sup> Tra gwahanol i'r hyn a geir yn LIGC 1578B, 444, yw'r llawysgrifen yn y rhan hon o'r llawysgrif. Llaw John Jones Gellilyfddy yw hon yn ôl Daniel Huws (gw. adran **Y Llawysgrifau** isod). O ran cynnwys, dim ond ychwanegiadau nas ceir yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau sydd yma, ar wahân i'r llinell gyntaf.

<sup>70</sup> Gweler GDGor, t. 11.

<sup>71</sup> DGG cerdd XII (tt. 18-19).

<sup>72</sup> GDG, t. clxxvii.

lle ‘*Yr un ferch ...*’, ceir cyfeiriadau at ddeg o lawysgrifau fel a ganlyn, y cwbl yn priodoli’r gerdd i Ddafydd ap Gwilym:-

Aberdâr 2, 221; Bodley e.1, 58<sup>r</sup>; Bangor 6, 509; BL Add 14870, 238b; CM 381, 74; Llŷt 133, 1002; Llŷt 14, 42; Mos 1, 238; Mos 212, 66; LlGC 5475A, 221.

Ar y llaw arall, ni chynhwysir y cywydd hwn yn y casgliad o waith Dafydd ap Gwilym a geir ar y wefan [www.dafyddapgwilym.net](http://www.dafyddapgwilym.net). ‘*Cywydd di-nod mewn arddull syml iawn*’ yw beirniadaeth Dafydd Johnston yn yr atodiad *Cerddi’r Apocryffa* i’r wefan hon (tudalen 6). Ymddengys, fodd bynnag, nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i briodoli’r gerdd hon yn ddiogel i fardd penodol arall. Fe’i cynhwyswyd gan Helen Fulton yn ei detholiad o Apocryffa Dafydd ap Gwilym,<sup>73</sup> gyda’r golygiad wedi’i seilio ar enghraifft Bodley e.1, 58<sup>r</sup>.

---

<sup>73</sup> Fulton, H. (gol.), *Selections ...*, tt. 23, 165 – 6.

**1. Cywydd moliant i Hywel ab Ieuan Fychan ab Ieuan Gethin a'i Wraig Elen o Foelyrch.**

Brenin diwarth fu Arthur,  
Braisg a ddug â brisg o ddur,  
Bron môr eigion mawr ogyrch,  
4 Y byd i gyd yn ei gylch.  
Perchis Duw Iôn, parchus Dad,  
Peris dilis adeilad,  
Barch wrlym, berw uchelrwysg,  
8 Bort gron ar lan afon Wysg.  
Anfones aur yn fynych  
Yn ei chwmpas, on'd gwas gwych?  
Ni ddaw yno, ni ddenwyd,  
12 Ni adai'r baedd, nid er bwyd,  
Yr un a guddiai'r wyneb,  
Arofun aer, er ofn neb.  
Y mae gŵr, a mi a'i gwn,  
16 Ym Moelyrch, mi a'i molwn,  
Anian hael, yn un helynt,  
Iôn grystur, ag Arthur gynt,  
Powys, yna pan sonio,  
20 Pen y fort, pa un yw fo?  
Hyder ieirll, had yr eurlliw,  
Howel o ffrwyth Huail ffriw;  
Fab Ieuan Fychan ddi-fost,  
24 Fab Ieuan rwyddran roddrost;  
Gwin Ieuan Gethin a gaid,  
Cyff annwyl o'r Cyffiniaid.

- Peris lle bŭm drimis draw
- 28 Penrhaith Cynllaith a'i canllaw,  
A fo cun ar yr un rofft,  
Adeilad llys â dwyloffft;  
Grisial, ei bron a groesir,
- 32 Gryswen, ail Ehangwen hir.  
Ar a ddêl lle mae Elen,  
Iarlles o waed, i'r llys wen,  
O'i gwin, er ei doethineb,
- 36 Ac o'i medd ni omedd neb.  
Tybiwn, fal hyn y tybiaf,  
Elen i haul, olwyn haf.  
Em hynod am ei hanes,
- 40 Ar bob dyn y towyn tes.  
Rhoddes i bawb ei rhoddion;  
O rhoed ym swydd rhaid ym sôn.  
Er hyn, pawb a wŷr hynny,
- 44 Mae bort gron ar y fron fry.  
Ni ddenwn, ni ddaw yno,  
Ynad, fardd, onid a fo  
Â'i barabl wedi'i buraw,
- 48 A'i fath a'i lath yn ei law.  
Myfyr y gwn ymofyn –  
Mogeled, na ddeled ddyn –  
O feirdd at hwn i'w fwrdd tâl,
- 52 I'r fort â cherdd gyfartal.  
Guto, dyred ag ateb,  
Gwybydd nid ar gywydd neb.



- Pwy o brydyddion Powys,  
56 Eddyl parch, a ddeil y pwys?  
Mae yno rai, myn yr Iôn,  
A nadd fel awenyddion,  
A minnau'r awr y mynnwn,  
60 Ar duedd Gwynedd a'i gwn,  
Yn cael arian er clera -  
Pris a ddoeth, pa rai sy' dda.  
Rhown innau ddau eiriau ddart,  
64 Gydwedd o Rys ac Edwart.  
O didolir dau dylwyth,  
Myn y Groes, nid oes ond wyth!  
Beth ddorwn fod bath arall?  
68 Bwrier fyth y berw i'r fall!  
Tarfwn rhag peri terfysg  
Lawer o'r mân glêr o'n mysg,  
Ac awn i'r fort gywir farn  
72 Gydag ail Arthur gadarn.  
Hoywal cerdd, Howel a'i cyrch,  
Hawdd yw moli hydd Moelyrch.  
Carodd foliant cerdd felys,  
76 Cnwd o luwch yw cnawd ei lys;  
Caer Selem uwch côr Silyn,  
Canwn wawd, cawn yno win.  
Conglen glaerwen eglurwedd,  
80 Grisial main, groes heol medd;  
Côr llawn aur, Caerllion ail,  
82 Canoes i'r ddau a'i cynnail.

## *Ffynonellau*

**A**—Pen 103, 41 **B**—Bangor (Mos) 5, 10<sup>r</sup> **C**—LIGC 8330B, 79 **D**—LIGC 8330B, 342 **E**—BL Add 31060, 171<sup>r</sup> **F**—CM 207, 40

## *Trefn y llinellau*

A, B, C, D, E, F: 1-82.

## *Darlleniadau Amrywiol*

**2** D: a brisg a ddvg a braisc ddvr; **4** D: y byd ei gyd yn ei gylch; **5** C: percheis di ion p chvs dad; D: perchis di ion parchvs dad; E, F: parvs dad; **6** A, C: ydeilad; E, F: edeilad; **7** A: vcherlwysk; B: barch wrlyn berw vchelrwysk; C, D: barch wrlyn berw vchelrwysg; E, F: barch wrlyn berw vcherlwysc; **8** A: bort gyron ar lan afon wysk; B: wysk; E, F: wysc; **9** A, C, D, F: avr; E: anfonas avr; **10** A, D, E: yn i chwmpas; B, C: yni chwmpas; **12** C: ni a dai r baedd; E, F: ni ad air baedd; **13** A: yr vn a guddiai yr wyneb; C: yr vn gvddiai r wyneb; **14** A : ar ofvn aer er ofyn neb; B: arofynd; C: ar ofvn ner er ofyn neb; D: arofynd aer (ner); E: ar ofynaer er ofyn neb; F: ar ofyn aer er ofyn neb; **15** A, B, C, D, E, F: mae gwr; **16** A: y moylyrch; B: y moelyrch ni; C: ymoelyrch ni ai kanmolwn; D: ym moelyrch ni ai canmolwnn; E: y molyrych ni ai kammolwn; F: y molyrch ni ai kanmolwn; **18** B: grysdvr ac; C: rystvr; D: vn ystvr ac; **19** A: powys yna pan sonio; B: yno; C, D, E, F: powys yno pen sonio; **20** A: pavn yw fo; B: a fo; D: pen y faingc; **21** D: or evrlliw; **22** D: haela ffrw; E: howel affrwyth; **23** C: faab Jevan; **24** D: fab ifan; **25** A: gyrthiw r cad profiad prifardd; **26** A gethin o hil kyffin hardd; C: y kyffiniaid; **28** A: pen raith kynlaith; B, C: pen rhaith; E, F: pen raith; **29** D: i gwnaeth cvn; E: a fo kvn yr vn rofft; **30** A: ydeilad lys; C, E: y deilad; D: dwyloft; F: ydeilad; **32** A: y hangwen hir; B: i hangwen; D: ehengwen; E: ehain gwen; **33** A: a addel; E: ac a ddel; **35** A: i doythineb; B, C, E, F: i doethineb; **36** A, B, C, E, F: ag oi medd; **37** D: fel hyn; **38** B: o lwyn haf; C: i hael; **39** A, B, C, E, F: i hanes; **40** A: towyn les; **41** A, E, F: roddes i bawb i roddion; B, C: i rhoddion; **42** A: oi roed ym swydd; C: rhaid ymson; D: a rhoed ym swydd; E, F: o roed ym swydd raid ymson; **44** A: bort gyron; **45** E, F: ni ddaw ynof; **46** A, C, D: onid a fo; E: onid afof; F: onid af of; **47** A: ai barabyl wedi bvraw; C, E, F: wedi bvraw; D: medi bvraw; **48** A, B, C, E, F: yn i law; D o fath ai lath; **49** E: i gw[ |n ymofyn; **50** A, C, E, F: na ddeued; **52** D: i'w fort; **53** A: gutto pair imi ateb; D: ac ateb; **54** A, C, D, E: gowydd; F: gwybyd nid ar gowydd neb; **56** B, D, E, F: eiddil parch; C: eiddil parch a ddeil pwys; **57** A: rrai; C: Rhai; **59** A, B, F: a myne yr awr; C: a minaü yr awr a mynwn; E: a nine rawr; **60** A: er duedd; **61** A: er kylera; D: yn klera; **62** A: pris a ddoeth parai y dda; D: sydd; **63** A: o rown yn

ddav; C: Rown; E, F: rown ninav; **64** A, C, E, F: ag edwart; D: i Rys; **66** A: gyroes; **67** A, D, E, F: orwn; B: ddorwn vod; C: orwn bod; **68** B: bwrier vyth i berwir vall; D: bwrir; **69** A: rrag; B: rhac; E: rac; F: rag; **70** A: mangyler; B, C: mangler; **71** A, B, C, D, E, F: ag; **72** A: gida; D: gyda ag; **73** A, C: hoywal; D: hoywal cerdd hywel ai cyrch; E: howal kerdd how[ ]; **74** A: moylyrch; E, F: moylyrch; **75** A, C: foli cerdd felvs; B, E, F: foli; **76** A: kynawd i lys; B, C, E, F: i lys; D: ei lys; **77** A: solas; **79** A: gylaerwen; **80** A: kgyrisial main kroes heol medd;<sup>74</sup> B: grisal; **81** D: Caer lleon;

### *Rhaglith*

C: kowydd i holt etto; D: I foelyrch / holl ap Ieuan fychan; E: Cowydd i henafieth moylyrch;

### *Olnod*

A: Ievan ap gruffudd leia ai kant; B: Ieun ap gruffyth leia; C: Ievan Gryffith lleia ai kant; D: Ieuan ap gryff leiaf; E: Ievan ap gruffydd leia ai cant; F: Ievan ap gruffyth leia ai kant;

---

<sup>74</sup> Ymddengys fod y *k* cyntaf yn y llinell yn wahanol i *k* arferol y copiyydd, gan gynnwys yr ail *k* yn y llinell. Mae'n bosibl mai g oedd llythyren gyntaf y llinell yn wreiddiol, a llaw arall yn gweld yr anghysondeb a'i gywiro.

## 2. Cywydd dychan i Lugwy

- Curiais, och Dduw, o'r cariad,  
Certh yn y tramwy y'm cad.  
Cerddais dan gof i 'mofyn,
- 4 Cur dig a bair caru dyn,  
Am haul, urddasdraul ddisdrych,  
Y Penrhyn fal gwesyn gwych.  
Cwrs ffôl yn ôl Nadolig,
- 8 Cwypais doe, lle campus dig,  
Yng nghanol, afrwol frys,  
Afon ddiwirion ddyrys,  
Lluddwraig o'r dref i'r tefyrn,
- 12 Lugwy, chwaer i Gonwy chwyrn.  
Llyslyd gaer, eigryd rygri,  
Lle mae dan wybr, llwybr y lli,  
Herwraig fferf a wnaeth terfysg -
- 16 Holaf i pam, hwylfa pysg.  
Hirdawdd plwm, gorthrwm gwrthrych,  
Hawdd y gwelid gwrid ei gwrych  
Hyd gal wrth ei dyfalu,
- 20 Heol ddulwfr o'r dwfr du.  
Taran, dylan yn dolef,  
Gwrych draig a rwygodd craig gref.  
Gwythlon yw'r afon ryferf,
- 24 Gwythen o'r ffurfafen fferf.  
Isgell eiry, asgell oerin,  
Ystâl flawr, ystola flin;  
Ystum bagl o ddwfr traglew,

- 28 Ystred ffordd y rhed y rhew.  
Os draw down, ystryd anardd,  
Esgud genlli i boeni bardd,  
Ysbys y gŵyr i'r dwyrain
- 32 Ysgubo manro a main.  
Sercel hen, ffeir yr eira,  
Swrcod llysywod llys iâ;  
Saethodd ei phen dros lennyrch,
- 36 Sarred er gwarded a gyrch.  
Berw diarswyd, bord oersaig,  
Bwnc eira graen, bancr y graig;  
Bliant cannant â'u cynnwrf,
- 40 Blin fydd ei lleferydd llwrf.  
Ffyrnig fydd merwerydd mawr,  
Ffun gam, greiglam gareglawr.  
Buan y rhed o ben rhiw,
- 44 Ball glawdd adeiliawdd dilyw.  
Ffunen lasrew ac ewyn,  
Ffiled llwybr gowared llyn;  
Tawdd oel, Dduw, to addail ddwyn,
- 48 Traws glaig a gaiff tros glogwyn.  
Mydryddyn cwm, môr dreiddio,  
Merch a ran graean a gro.  
Marchnad glaw, canllaw cenllysg,
- 52 Mamaeth i bennaeth o bysg;  
Rhy fuan fydd ei gwaneg  
O'r llyn, talar ewyn teg.  
Rhois fy mryd, gaer eigryd gref,

56 Rheng ddudrist rhwng y ddwydref,

Er ei dwfr, ddilwfr ddylif,

Ei gochel, llath mangnel llif.

Bei gadai hi, ddifri ddwfr,

60 Bwrdd dwylan, o'i bardd dilwfr,

Heb lid, rydid i redeg

At haul y Penrhyn, dyn deg,

Ni ddyfalwn, meddwn, mwy,

64 Oerliw eigion ar Lugwy.

Er maint fo'i chwerwnaint chwyrnion,

A'i rhuad braisg ar hyd bron,

At yr haul, windraul wendroed,

68 Ddechrau'r haf yr af i'r oed.

### *Ffynonellau*

**A**—Wy 1, 254 **B**—Llst 122, 575 **C**—Card. 4.10ii [=RWM 84], 1123.

### *Trefn y llinellau*

A, B, C: 1 – 68.

### *Darlleniadau Amrywiol*

**1** C: Curiaist och Dduw er cariad; **2** A, B, C: im cad; **3** A: im ofyn; **5** A: vrddasdraul; B: vrddasdravl; C: Am hael Urddas drael ddidrych; **6** C: fel; **9** A: ynghanol afrywol; B: yng hanol; C: ynghanol afrwol frus; **11** C: ir Lefryn; **12** C: Lligwy; **13** A: rygri; B: rygrif; C: rygryf; **14** B, C: llif; **15** C: y wnaeth derfysg; **16** A, B, C: hola vi; **18** A: i gwrych; C: Hawdd gweled gwrid i gwrych; **19** A: i dyvalû; B: dyfalv; C: Hyd Iâl; **20** A: ddûlwfr; B: ddvlwfr; C: ddu-lwfr; **21** C: dylain; **22** A, B: craig cref; C: Graig gref; **23** C: ry ferf; **26** A, B: ysdal vlawr ysdola flin; C: ysdal flawr ysdol a flin; **27** A, B, C: ysdym bagl; C: tra glew; **28** A: i rhed; **29** A, B, C: ysdryd; **30** A: gen Lli; B: genthi; C: Esgyd genthi; **31** A:

ysbys i gwŷr; B, C: ysbys i gwyr; **32** C: mân Rô; **34** A, B: llyswod; C: sarcod llyswod; **35** A: i phen; **36** A, B, C: sarred; **37** C: Bad oersaig; **38** C: groen; **39** A: ai cynnwrf; B: ai cynwrf; C: Canant ai Cynnwrf; **40** A: i lleferydd; C: i Llyferydd; **43** C: i ben y rhiw; **44** A, B: a deilawdd diliw; C: a Dialawdd Diliw; **45** B: ffvmer; **46** C: wared llyn; **47** C: Tawdd ael ddu; **48** B: glaic; C: Traws glai ag aiff tros glogwyn; **51** C: Gwlaw; **52** B: o pysg; **53** A: i gwaneg; **54** C: or hyn; **56** A: ddidrist; **57** A: i dwvr; C: i Dwfr; **58** A: i gochel; C: I Gochel llath Magnel llif; **59** A: bei gatai; B: bei gatai; C: pe gadai; **60** C: a bardd; **61** A, B: eb lid rydid; C: Heb lid [Ri]did; **62** C: At hael; **64** A: eig[ ] lûgwy; **65** A: er *maint pei*; B: chwrnion; C: Er maint i chwerw nant chwyrnion; **66** A: *braisg*; **67** A: *windraul*; C: At yr Hael Win drael wen droed; **68** B: ddechrav haf; C: Ddechre'r Haf yr af ir Ioed;

### *Teitl*

C: Cywydd i Ligwy;

### *Olnod*

A: Ieuan ap Gr: Leiaf; B: Ifan ap Gruffydd Leiaf ai cant; C: Ieuan ap Gryffydd Leiaf;

### 3. I Dafydd ap Siencyn ap Dafydd ab y Crach

- Duw i gynnal dy gynnydd  
Yn Nanconwy fwyfwy fydd.  
Dafydd ydwyd, fe dd'wedir
- 4 Mai dewr wyd, ail Medrod hir.  
Aer Siancyn, aros encyd  
I swcrio cant. Oes cawr cyd?  
Bwrw adwy'n north, brawd i Nudd,
- 8 Bawl mawrchwyrn, bual Marchudd.  
Goruchafieth Rhys Gethin  
Sydd yt, a'i lysoedd a'i win.  
Gyr y ffeils i garu'r ffydd,
- 12 Gwaew triphwys, gwaed tau Ruffydd;  
Dôl yno i gad, da y gwn,  
Do'r hendaidd Iorwerth Drwyndwn;  
Ni bu lin uwch heb le'n wan,
- 16 Owain Gwynedd, hen Gynan.  
Gwrda fry, gwisg ar dy frig  
Helm aur Howel Amheurig;  
Oes brifiach nes a brofynt
- 20 I nynnu gwaed Nannau gynt.  
Mawr ydwyd, wayw marwydos,  
Marchog aur rhyfelog Rhos  
A'th wŷr, a thithau hirwst,
- 24 Adar y greim ar dir Grwst;  
A'th lys â tho o laswydd  
Fal gwydrin, ty Ferddin, fydd.  
Aml yw a glwys ym mol glan,



- 28 Gwr y mur gro a marian,  
Parlwr uwch gloywddwr eich glyn,  
Porthcwlis perthi celyn;  
Craig o glos, caregog lan,
- 32 Côr lys derw, caer las darian.  
Gwŷr arfog ar yr orfainc,  
Gwell eu ffrwyth no gallu Ffrainc.  
Cyfannedd yw cefn y ddâr,
- 36 Cŵn a helgyrn cynheilgar,  
A llysieufwyd llys Ifor,  
A gwin mwy nag eigion môr.  
O Gwlen draw y gwelir
- 40 Arwydd o ddail ar wŷdd ir,  
A thir mawr a thrum araul,  
A glyn haf a gloyw iawn haul,  
A daear bonc y daw'r bwyd,
- 44 Ac eilchwyl llys a galchwyd.  
Tŵr Babilon Nanconwy,  
A'i nyth maen o waith mwy.  
A chwi yno cewch henaint,
- 48 Yn ddewr heb rus, yn dda'r braint,  
Cawr ystrîn yn curo stryd,  
Carw Gwynedd, cei wŷr gennyd.  
Dy fodd, a sôn am dy faint
- 52 Sy'n ofni Sais yn Nyfnaint.  
Dyro wisg dur o Wasgwyn  
Am dy gorff mal meudwy gwyn;  
Tor wayw o lwyth y trywyr,

56 Tarfa'r llw, tau arfer Llyr.

Cynnal arnat Nanconwy,

58 Cymer di, o mynni, mwy.

### *Ffynonellau*

**A**—Wy 1, 375 **B**—LlGC 3051D [= Mos 148], 201 **C**—Llst 30, 200 **D**—Bodley Welsh e 1, 32<sup>r</sup> **E**—Llst 122, 552 **F**—LlGC 3049D [= Mos 146], 456 **G**—Card 2.617 [= Hafod 3], 73<sup>v</sup> **H**—BL Add 14908, 1 **I**—BL Add 14991, 293<sup>v</sup> **J**—BL Add 31095, 130

### *Trefn y llinellau*

A, B, C, E, G: 1-2, [3-8], 9-10, [11-20], 21-46, [47-50], 3-4, 51-58.

D: 1-2, 'Dafydd ir trefydd rhovst tro | ap Sieinkin ddewr heb sinkio', [3-8], 9-10, [11-20], 21-46, [47-50], 3-4, 51-58.

F: 1-2, 'dafydd ir trefydd bob tro | ap sieinkin a heb sinc[ ]', , [3-8], 9-10, [11-20], 21-46, [47-50], 3-4, 51-58.

H, J: 1-3, [4], 5-58.

I: 1-2, [3-8], 9-10, [11-20], 21-29, 31, 30, 32-46, [47-50], 3-4, 51-58.

### *Darlleniadau Amrywiol*

**2** A, B: vwyvwy vydd; H: Y nankonwy; I: Nantgonwy; **3** A, B: Davydd ydwyd voi dwedir; C, G, I: fo ddwedir; D: fo ddoidir; E: foi dwedir; **4** B: wyt ail medrot hir; D, F: mae dewr wyt; E, G, I: wyt; **6** H: swrkrio; **8** H: mowrchwyrn; **9** A, B, H: goruchafieth; C, D, E: Gorvwchafieth; F: gorchafieth; G: gorvwch afieth; H: Goruchafieth; I: Goruwchafiaeth; J: Goruchafiaeth; **10** D: ith lysoedd; **11** J: gary; **12** H: triffwys; J: dau; **13** H: ai dau gwn (da y gwn); **14** H: hendaid Ierwerth; J: hendad; **17** J: ... vry ... vrig; 19 **21** A, B, C, D, G, H, I, J: waew; **22** A: marchoc aŭr rhyveloc Rhos; B: marchoc avr rhyveloc Ros; C, E, F: marchog avr rhyfelog rhos; D: marchoc avr rhyfelog rhos; G, I: marchoc avr Rhyfeloc rhos; H, J: marchog aur Rywolog ros; **23** D: thithav i hirwst; G: ath ithav hirwst; H, J: a thi o hirwst; **24** C, G, I: adar a gryn; D: adar a graen; F: adar y grein; H: mal adar grann wladwr grwst; J: mal adar grann waladr Grwst; **26** A: val gwydrin tŷ

vrenin vydd; B: val gwydrin ty verddin vydd; C, E, F, G, I: fal; D, J: val; H: fal gwdrin; **27** B, F, G: ymol; C: ymol glân; D: aml a gloew ymol glan; H, J aml yw a glwys ymol glann; I: fal a glyw; **28** A, B, C, E, G, I: gro am arian; D: gwr a mvr; **29** A, B, C: gloewddwr ych glynn; D: gloewddwr y glynn; F: y glyn; G, H: gloewddwr glynn; I: gloew dwr ychlyn; J: gloyw ddwr glyn; **30** C: porth kelyn; **31** D: kraig o gaer; F: kraig oglos; G: kraic o glos karegoc lan; I: Crud o glos; **32** C: korlys ... kaerlas ...;<sup>75</sup> H, J: kaer laesdo kor Elystan; I: Corlys; **33** A, B: gwyr arvoc ar yr orvainc; C: arfaingk; D: orfaingk; F: orfaingk; G: gwyr arfoc ar yr orfaingk; H: Gwyr hoew arfog ar orfaingk; I: orfainge; J: Gwyr hoew arvog ar orfaingk; **34** A: gwell ffrwyth no gallu ffrainc; B: gwell i ffrwyth no gallv ffrainc; C, F, G: gwell i ffrwyth no gallv ffraingk; D: gwell i ffrwyth na gallv ffraingk; H: well i ffrwyth no llu o ffraingk; I: Gwell o ffrwyth no gallu ffrainge; J well i frwyth na llu o Fraink; **35** A: cyvanedd; **36** A, F: cynhalgar; B, C, E, G, I: cynhaelgar; D: helgwn kynheilgar; H, J: helgwn kynhalgar; **37** A, B, J: llyseuvwyd; D, E, F: llysevfwyd; H: llysiefwyd; **38** A, D, F, J: mwy nog; G: mwy nac; **39** H: o gwlen† draw i gwelir (†*Cologne*)<sup>76</sup>; I: A gwlen; **40** A, B, C, E, G, I: arwydd o ddai; D: arwydd o ddail; F: oddai; H: awyr o ddail ar wydd ir; J: awyr o ddail arwydd ir; **41** C, D: thrwm aravl; I: thrym araul; **42** A, B: haf gloew; C: haf gloew ~~mewn~~ yn havl; D: haf a gloew; E: haf gloyw; F: haf a gloyw; G, I: haf gloew mewn havl; H, J: a glyn haf gloew iawn i havl; **43** C, G, J: bank; D: a dayar bangk; E: daiar; F: a dayar bonk ydiw r bwyd; H: bangk; I: bange; **44** A, B, C, E: ag; D, F: i lechv ag i lochwyd; H: ag eilchwal llys a galchwyd; J: ag eilchwel llys a galchwyd; **45** D, F: yn nankonwy; H, J: Twr Bablon y nankonwy; **46** A: no waith mwy; D ai nyth y mae n o waith mwy; H, J: a thy, mae un oi waith mwy; **51** A, B: dy vodd a son am dy vaint; J: Dy vodd a vo am dy vaint; **52** B: sy n nofni; C: nyfneint; D: yfnaint (*Nyfnaint*)<sup>77</sup>; J: Sy'n ovni Sais yn Nyvnaint; **53** D: Dyro wisg dvr i wascwyn; G: dyra wisg dvr a wascwyn; H: dyro wisg doi i oresgyn; I: wastwyn; J: Dyro wisg doi oresgyn; **54** A, B: gorph val; C, E, F, G, I: fal; D: val; H: mal meydwy gwyn; J: gorph mal; **55** A: torr waew o lwyth trywyr; B, C, G, I: torri waew o lwyth trywyr; D: torr waew ny [ ]; E: torri wayw o lwyth trowyr; F: torr wayw ag o lwyth trowyr; H, J: torr wayw o lwyth y trowyr; **56** A: tarvâ r llû tav arvaû llyr; B, J: tarva r llv tav arver llyr; F: tav arfav; I: Tarfe'r llu; **57** B, C, E, F, G, H, I, J: arnad; D: armad; **58** D: o mynn i mwy; I: a mwyni mwy;

<sup>75</sup> Ar ochr dde'r dudalen, ceir y nodyn canlynol gan gofnodwr C, rhwng y llinell hon a'r nesaf: *yma y mae henwau y gwyr mewn copiâu eraill.*

<sup>76</sup> Cynnwys y cromfachau ar ochr dde'r dudalen.

<sup>77</sup> *Nyfnaint* ar ochr dde'r dudalen, mewn llaw wahanol.

### *Rhaglith*

D: mawl arall i'r un gŵr; E: Cyw: mol: Dafydd o Nanconwy (llanrwst); F: gowydd i dd ap sieingkin o gareg y walch; H: Kowydde moliant David ap Siankin ap Krach; syn wrlyn (Y Cywyddau canlynol sy' o'r un llyfr a'r rhai sy'n diwedd T.D. 94.); I: Ir un Gwr; J: Canu arall i Ddavyd ap Siancyn ap Ddd Crach 44 NS;

### *Olnod*

A: Ievan ap Gruffy leiaf; B: Ieuan ap Gruff leiaf; C: Ifan ap Gruffudd leiaf ai Kant;  
D: Ieuan ap gruffydd leiaf mae penillion wedi kolli or kowydd vchod lle mae gwyr arfoc ar yr orfaingk; E: Ifan ap Gruffydd leiaf ai cant; F: ifan ap gruffydd leiaf; G: Ifan ap Grff leiaf; H: Tudur Penllyn ai kant; I: Ieuan ap Gruf. Leiaf;

#### 4. I Gwilym ap Gruffudd a'r Penrhyn

- Er hyn aros yr hanner,  
Gormodd yw 'ch cwynfan, glân glêr.  
Nid rhaid ywch, nid rhyw duchan,  
4 Un gofal yn cynnal cân.  
Ni ddarfu'r byd trymfryd trwch,  
Na raid. Paham na redwch,  
Plas baun deithras bendithreg,  
8 Parth â'r Penrhyn, tyddyn teg?  
Breiniol lys, bro ni lysa,  
Bryn teg yn cynnal braint da;  
Budd gwlad, balch ehediad hydr,  
12 Bort hardd, wahoddfardd haeddfydr;  
Braisg lathrloyw dâl, arial aur,  
Brisg tŷ maenwisg, to mynwaur;  
 Goch or yri ai canodd; AA Ieuan ap Gr. leiaf a'i cant; AB Dd Llwyd Llë n ab Gr. a'i  
 cant; AC Rhys Goch or yrri yn amser Owen Glyndŵr ai gwaeth; AD Rhys goch or  
 yri; AE P W<sup>m</sup> / Rhÿs Gôch or Eryri yn amser Owen Glyndwr ai gwnaeth, yn frÿd ne  
 ddrôgân drwy ymddiddan err Garnedd; AF Rhÿs Gôch or yrri yn amser Owain  
 Glynn Dŵr ai canodd; AG Rhys Goch or yri ai gwnaeth, yn frÿt neu ddarogan yn  
 amser Owen glyn dŵr; AH Terfyn Gwaith Rrûs a Llaw dyrûs; AI Rhys Goch o  
 Eryri yn Amser Owain Glyndwr ai Cant yn Frÿt neu ddarogan; AJ Rhys goch or yri  
 ai cant; AK Rhys Goch or Eryri ai Cant Yn Amser Owen Glyndwr; AL Rhÿs Gôch o  
 Eryri a'i Cant; AM Rhÿs Goch o Eryri ai Cant; AN Rhys Goch Eryri ai Cant; AQ  
 Rhys Goch o'r Ryri yn amser Owain Glyndwr - D Johns ms - ; AR Rhys Goch o'r  
 Eryri; AS<sup>1</sup> Robyn Ddu; AS<sup>2</sup> Ieuan ap Gr leiaf i Garnedd Llywelyn 1437 o  
 brophwydoliaeth y Bellen; AAA Jevan ap Gruff: Leiaf; BBB Jevan ab gr leia;  
 CCC I ap Gr leia;

## 7. Cywydd i Anna Sant, mam i'r tair Mair

- Trist fydd sêr pan frodier fry,  
Tra da fu Anna ynnny.  
Pa rodd ym, pa'r dda ddameg,  
4 Pan briodes duwies deg?  
Saethodd ryw sôn ohonof,  
Iawnach ym mae gennym gof.  
Coel ynnny, cael o Anna  
8 Calennig urddedig dda,  
A chael o Fair, uchel fu  
O ras, arwain yr Iesu,  
Y gŵr teg o gariad dyn  
12 A roes ei waed yn resyn;  
Trysor chweg o'i fynegi  
Trosom, pan na wyddom ni.  
Hyn yw dechrau'r heiniar,  
16 Bod hefyd y byd ar bâr.  
Gorau pobl, geiriau pybyr,  
Geraint yn saint uwch môr sŷr.  
Doeth fu hwyl annwyl Anna  
20 Dwyn ynn ail Fair ddiwair dda,  
Mam y ddau, mae maddeuaint,  
Apostol, synhwyrol saint.  
Un yw fo Iago agwrdd,  
24 Ieuan 'fangelwr, gŵr gwrdd.  
A'r drydedd Fair, yn dradoeth,  
Dra da, a ddug Anna ddoeth.  
Ac i'r Fair burair barod

28 Honno, hawdd yw cludo clod,  
Y bu drimaib, byw dremyn,  
Yn sant a ddoethant o ddyn:  
Siôn heb ffael ei gael o gant,  
32 Sud ddisymud a Simant.  
Pum cefnderw, dichwerw dachwedd,  
Pefr gynheiliad gwlad a gwledd,  
Gwyn eu byd o'r goglyd gynt,  
36 A gras dadl i Grist ydynt,  
Y Gŵr â'i groes a roes rodd  
Ac ar bren a'n gwir brynodd.  
Nid pryniad, rhoddiad rhuddaur,  
40 Porthmon â'r eidion er aur.  
Heb gêl, er ei bum gweli,  
Y prynodd ef nef i ni.  
A'i nod ef, un nid ofer  
44 Yw'r oed ein holl euraid Nêr.  
Y dydd y dêl Duw Celi  
I'w adnabod, nod i ni,  
Eurwydd y daw, da diorn,  
48 Yno'n wir y cenir corn,  
Yno y cryn, dychryn dichwrych,  
Yr haul wen ar ei hwyl wych,  
A'r sêr golau a'r lleuad,  
52 A'r gwŷdd rhag Duw Dofydd Dad,  
A'r môr, medd pob doctor da,  
A'r gron ddaear a gryna  
Am amarch ei bum archoll,

- 56 A'r gwirion angelion oll.  
 Gwae'r neb rhag cudeb cadarn  
 A ddaw'r dydd lle ni bydd barn.  
 Duw ei hun, gorau un gŵr,
- 60 Ufudd fryd, a fydd Frawdwr.  
 Ni bydd, lludd i'ch rhybuddio,  
 Un adfarn ar ei Farn Fo.  
 Am hyn, dyfyn diofer,
- 64 Gweddïwn ni gwiw Dduw Nêr  
 Ym mhob modd, bwyllrodd bellrym,  
 Ddydd a nos, ry Agios rym,  
 Ac ar lawer o geraint,
- 68 Gwŷr celfydd ysydd yn saint:  
 Hael Iago athro ieithrydd,  
 O hil Edmwn Simwn sydd,  
 A'r ddau Iago, awr ddigam,
- 72 Ac ar y tair Mair a'u mam  
 Am gael rhan gydag Anna
- 74 O'r wledd a chael diwedd da.

*Ffynonellau*

A—LIGC 5273D, 14<sup>v</sup>

*Trefn y llinellau*

A 1-74.

*Darlleniadau Amrywiol*

**3** A: parod ym par dda damec; **5** A: o honof; **6** A: ... yn ... genyn ... ; **8** A: calennic ... dda; **12** A: i waed; **14** A: penna; **22** A: synwryol; **30** A: ddoethant; **31** A: phael; **38** A: ag ar brenn; **39** A: rûddaûr; **42** A: ei ni; **43** A: ai nôd ai phvn nyd ofer; **46** A: y adnabod; **50** A: i hwyl; **51** A: syr goleû; **55** A: i bvm

harcholl; **56** A: all; **60** A: frowdwr; **61** A: ny bydh llûdd ych rhûbyddio; **62** A: i  
farn; **66** A: Agios; **69** A: Iaco athro ieithrûd; **70** A: sût; **71** A: Iaco; **72** A: ai  
mam; **73** A: gidac;

*Rhaglith*

A: Cywydd Anna mam Mair: ar.3.mair.

*Olnod*

A: Ifan ap Grûff: leiaf x.



## 8. I Aberconwy a'i chwrw

- Y ddewisdref ddiestron  
A'r gaer deg ar gwr y don,  
Ym min aber, mewn ebach,  
4 Ar dor yr wyd, a'r dŵr iach.  
Ar war dda wiw i'r ardd wyd,  
A'th le yno y'th luniwyd.  
Angylion nef yng nglan nant  
8 O'th enw eithaf a'th wnaethant.  
Gorau tref, wyd ar gwr traeth,  
I'r fron hon o'r frenhiniaeth.  
Gwell no Llundain, firain farn,  
12 Ac Iorc wyd o gwrw cadarn.  
Cain winllan Conwy wenllwyd,  
Côr gwaywffyn, Caer Gyffin, wyd.  
Ceyrydd ogyrch caer ddigoll,  
16 Can's dy blaid yw'r cwnstabl oll.  
Cair, Wirod Fair, ynod fedd,  
Cair gwin ar gost ceirw Gwynedd,  
Cair bara croyw heb oerin,  
20 A chwrw gwell no chwe o'r gwin.  
Doed fo, gorau diod fydd,  
Drwy'r byd hyd yr â'r bedydd.  
Ef â'r ŵyl i'w farilaw  
24 Y sy' o lyn is ei law;  
Cwrw Camber Hen gogenir;  
Cwrw Hwlfordd, cwrw Henffordd hir;

Cwrw Amwythig, grym weithiau,  
 28 Cawn yn hon cyn ei wanhau;  
 Cwrw Llwydlo, o bu fo falch,  
 Cerwyn ddofn, cair yn ddifalch;  
 Mae arno beth murn a bai,  
 32 Ac ar gwbl o gwrw Gweblai.  
 Tithau glos tai a theg wledd  
 Tref Gonwy, tyrfa Gwynedd,  
 Ysbïais nad oes beiau  
 36 Ar gwrw o daeth o'r gaer dau,  
 Grair euraid gwŷr Yr Yri,  
 Gorau i'w dast dy gwrw di.  
 Gwrthiau a drig wrtho draw  
 40 I'r deyrnas a roed arnaw.  
 Ei furm ef, od yfai'r mud,  
 E' âi i ddadwrdd o ddwedyd;  
 Sef yna, os yf anael  
 44 O'i fwnai hen ef â'n hael;  
 Ac os yf un gwas afiach,  
 O'i feddwi ef a fydd iach!  
 Od â'n wyneb dyn annoeth,  
 48 I'w fin a'i ddaint, ef â'n ddoeth!  
 Weithiau eraill, o thariai,  
 Y doeth yn annoeth a wnâi.  
 Gwir dda lyn, gyrrai ddau lu  
 52 Am gas hen i ymgusanu.  
 O ddi'n drist un dyn i'w dref,  
 Didrist y deuai adref!

- Cai, Aber, gan y glêr glod,  
 56 Conwy dda, caen' hwy ddiod.  
 Cadwed Duw, deced dy dai,  
 Dy fwrdeisiaid, ford osai,  
 A'u gwragedd, gwiw rywogaeth,  
 60 A'u plant - ni methant o'u maeth.  
 Nawdd Mair a'r Grog yn d'ogylch,  
 Nawdd Sain Siôr i'th gôr a'th gylch;  
 Na ddêl ond a ddêl o dda  
 64 I'th deml ac i'th dai yma.  
 Ni wn i fod yn un fâl  
 Nis costiwyd, dinas cystal.  
 Ni chostied wrth na chastell,  
 68 Na chaer i wŷr, na chwrrw well.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14979, 175 B—Wy 1, 37 C—Pen 112, 91 D—LIGC 834B, 74 E—BL Add 14969, 459 F—Brog 5, 330 G—LIGC 727D, 193 H—LIGC 5269, 114 I—LIGC 642B, 90v J—Pen 239, 368 K—BL Add 14881 [= RWM 50], 87 L—Ba 13512, 13 M—LIGC 2025B [=Pant 58], 195 N—Card 4.110 [= RWM 47], 20 O—Card 1.18, 59 P—LIGC 670D, 300 Q—Card 2.114 [= RWM 7], 209 R—J 139 [= RWM 14], 380 S—Llst 125, 263

### *Trefn y llinellau*

A, K: 1-4, [5-6], 7-26, [27-28], 29-68.

B, C, D, E, G, H, I, J, L, M, N, O, P, Q, R: 1-68.

F: 1-36, [37-38], 39-68.

S: 1-4, [5], 6-26, [27, 28], 29-68.

### *Darlleniadau Amrywiol*

**1** A: [ ] ddewisdre; I: [ ] wistref; L: y ddewis=Drêf; P: ddewistref; Q: y ddewisdre ddiesdron; R, S: y ddewisdre; **2** A: [ ] gaer; I: [ ] gaer; **3** A: [ ] min; C, E, F, G, I,

Q, R: y min; K: ai min; L: ymin; P: Yn min; **4** A: [ ] dwr ir wyd oror iach; C, D, E, F, G, H, I, J, N, O, P : y dwr ir wyd oror iach; K: or dŵr ir wŷt oror iach; L: y dwr yr wŷt oror iâch; M: ar dorr ir wyd ar dwr jach; Q: ar ~~dwr~~ (dor) i rwyd ar ~~dor~~ (y dwr) y iach; R: ar dor irwyd i dwr iach; S: or dwr iro wyd oror iach; **5** [A]; B, R: ar awr dda wi or ardd wyd; C: Ar wâr dda wy or ardd wyd; D, H, P: Ar war dda wy or ardd wyd; E: ar warr dda wiw ir ardd wyd; F, G: ar war dda wiw or ardd wyd; H, I: Ar war dda wy ar ardd wyd; J: Ar war dda or arwydd wyd; [K]; L: ar wâr ddû yw or ardd wyd; M: ar awr dda wiber ardd wyd; N, O Ar war dda yw ir ardd wyd; Q: ar awr dda wi o rardd wyd; **6** [A]; C, F, G, I, J: oth le yno; E: oth lv; H: at le yno; [K]; L: Lyniwyd; Q: lwniwyd; R: lyniwyd; **7** A: [ ]gylion nef ynglan nant; B: Dirgelion nef; C: y nefylion nef yneflan nant; E, G, I: yngylion nef ynglan nant; F: Engylion; L: Anylion nêf yng lan nant; M, N, O, P: ynglann; Q, R: yngylion nef ynglan nant; S: yngylion ne ymlaen nant; **8** A: [ ]th wnai weithwyr ath wnaethant; B, M: ath naw ieithwyr ath wnaethant; E, G: ith enw; F: ith wnaethant; K, S: oth wnai weithwyr ath wnaethant; Q: *weth* nai weithwyr ath wnaethant; R: wrth nai weithwyr, ath wnaethant; **9** A: [ ]u tref; B, M: gorau tref ar gwrr y traeth; L: goreu Têf wyd; N, O: Goreu tref ar gwr y traeth; P: Goreu tref wyd; Q: gore tre ar gwr traeth; R: gore tref, ar gwrr i traeth; S: tre wyd; **10** A: [ ] fron; B, M: ar vron honn ir frenhiniaeth; H, L, N, O, P: ar frenhiniaeth; K, S: or fron hon ir frenhiniaeth; Q: ar fron hon ir frenhiniaeth; R: ar frvn honn or frenhiniaeth; **11** A: [ ]ell; B: gwell no Llundain vain i varn; K: gwell no llyndain fvrain; L: gwêll na llÿndain firein farn; M: gwell no Llundain fain o farn; Q: fain farn; R: llyndain, fain farn; S: fvrain farn; **12** A: [ ] Iork wyt; B: nag Jorc wyd o gw[ ]; J: am gwrw; L: ag york; M: nag Iorc; N, O: Ag Iorc; P: Ag Yorck; Q, R: nog iork wyd o gwrw kadarn; S: ag iorc; **13** A: [ ]in winllan; B: cain winllan Conwy [ ]; L: Cair winllan; M: wenllys; **14** A: [ ]er gewin oi ffen gyffin wyd; B: Cor gwaewffyn Aer [ ]; C: Kaer gwaywffyn aer yr gyffin wyd; D, E, F, G, H, I, J: kaer gwaywffynn aer gyffin wyd; K: kaer gewin oi ffen gyffin wyd; L: Caêr gwaew ffynn aêr gyffin wŷd; M: Côr gwayw ffyn Caer . . . ; N: Caer gwaywffyn aer gyffin wyd; O: Caer gwayw ffyn aer gyffin *wyd*; P: Caer gwaewffyn ar Gyffin wyd; Q, R: kaer gwayw ffyn kaer gyffin wyd; S: Caer gwin ei ffen Gyffin wyd; **15** A: [ ]redd o gylch; B: C[ ]redd o gylch; C: Kewrydd o gylch; H: kerdd ddigoll; K, S: kyredd o gylch; L: ogŷlch Cerdd; M, Q: Cyrredd ogylch; N: cerdd ddigoll; O, P: Ceurydd ogylch cerdd ddigoll; R: kyredd ogŷlch; **16** A: [ ]ans; B: Conis dy blaid [ ]onstabl oll; M, R: Canys dy blaid cwnstabl oll; P: Canys; Q: kanis dy blaid kwnsdabl oll; **17** A: [ ]air nod i fair ynod fedd; Q, B, M: kair wirod fair ynod fedd; C, D, E, F, G, H, I: Kaer nod Vair kair ynod vedd; J, L, N, O, P: Caer nod Fair ceir ynod fedd; K: kair nod i fair ynot

fedd; S: cair nod i Fair y nod fedd; **18** A: [ ]air gwin; I: gwyned[ ]; N, O, P: Ceir gwin; Q: gosd; **19** A: [ ]air bara kroyw heb oirin; B: croew eb oerin; E, F, G, J: kroew heb oerin; H, I: kroyw heb oerin; K: kroew heb oirin; L: Ceir bara croew heb oirin; N, O: Ceir bara croyw heb oirin; P: Ceir bara croyw heb oerin; R, S: heb oirin; **20** A: [ ] chwrw; B: chwrf; I: gwi[ ]; L, M, N, P: na; O: gwell na chwe oi gwin; **21** C, D, H, I: doed vo gwell no diod vydd; E, F, G, J, N, P: gwell na diod; K: doyd fo gore; L: doyd fo gwell no diod fydd; M: dod; Q: gore; R: gore diod fydd; **22** A: or byt hyd nar bedydd; E: drwy byd; K: or byd hyd irar bedydd; L: Drwy or byd; M: a bedydd; Q: irar bedydd; R: drwyr bud; S: or byd hyd ir â bedydd; **23** A, K: fariliaw; C, D, E, G, H, I: Ef a r wyl; F: ef ai rwyl yw ferilaw; J, L: Ef a'r wyl; K: ef â r wyl; N: â'r wyl; O: â r wyl; Q: ef a rwyl; R: i farilaw; S: ef â 'rwyl; **24** A, K: y sy ar lynn is i law; B, D, E, F, G, H, I: y sy o lynn is i law; C: ys i o lynn is i law; L: [ ] o Lynn is i law; Q: y sy i lynn is i law; R: y sü o lynn is i law; **25** A: kwrw kamber a ogenir; B, M: cwrwf kanpen a ogenir; I: gogeni[ ]; Q: kwrw kenpen a o genir; R: kwrw kanpen a ogenir; S: cwrw canben a ogenir; **26** B: cwrwf henffordd cwrwf howlffordd hir; I: kwrw hwlffordd kwrw h[ ]; M: cwrw Henffordd cwrw Hwlffordd hir; Q, R: kwrw henffordd kwrw howlffordd hir; S: cwrw Howlffordd cwrw Henffordd hir; **27** [A]; B: cwrwf Amwythic rym hithaü; C: Kwrw y Mwythic grym weithiav; D, G, H: kwrw y mwythig grym weithiav; E: kwrw y mwthig grym weithiav; F: kwrw Mwythig grym weithiaü; [K]; I: cwrw y mwythig gr[ ]; J, L, N, O, P: Cwrw y mwythig grym weithiau; M: cwrw Amwythig grym hithau; Q: kwrw ymhwytig krym weithiav; R: kwrw y mvythig, krym weithiaü; [S]; **28** [A]; B, F, L, M, R: cawn yn hon cynn i wanhau; C, D, G, H, Q: kawn yn honn kynn i wanhav; E: kawn yn hwnn kynn i wanhav; I: kawn yn honn kynn [ ]; [K]; [S]; **29** A: o lv fv falch; B: cwrwf Llwdlo; C, D: bv; F, J, N, O, Q, S: Llwdlo; E: kwrw llwdlo bv fo yn falch; G: kwrw llwdlo o bv fo yn falch; I: kwrw llwdlo o bü fo [ ]; K: kwrw llwdlo o by fo falch; M: Cwrf; **30** B: cerwan ddofn cair yn ddivalch; E, G: kerwin; I: yn ddi[ ]; L, N, O, P: ceir; **31** A: gay ... mvrn ...; C, D, E, G, L, N, O, P: mwrn; F: mwyn; H, K: mvrn; I: mwn; J: miwn o'r bai; **32** B: ag ar gwbl o gwrwf Gweblai; D, F, G, H, J, L, M, N, O, P, R: ag ar gwbl; I: ag ar gwbl o gwrw gwebla[ ]; K: ag ar gwblc; Q, S: ag ar gwbl; **33** A, K: tithe; B: wl[ ]dd; C: Tithav glos tai ethec wledd; D, G, H: Tithav; E: tithav glo tai a thec wledd; F: glos glos; I: [ ]ithav glos tai etheg wledd; J: etheg wlëdd; L: Tithaÿ; P: glos dai; **34** A: Dre gonwy tyrva gwynedd; I: [ ] gonwy; K: tre gonwy tyrva gwynedd; **35** A, C, D, E, G, H: beiav; B: [ ]biais; I: [ ]biais nad oes beiav; K: biav; N, O, P: nid oes; Q, R: na does; **36** A: o doyth or gaer dav; B: [ ] gw[ ]; C, D, F, J: arno o doeth or gerwyn dav; E, G: arno doeth or gerwyn dav; H: arno o daeth or gerwyn dav; I: [ ] o doeth

or gerwyn dav; J, L: arno o doeth o'r gerwyn dau; K: dav; N, O, P: Arno daeth o'r gerwyn dau; **37** A, C, E, G, Q, R: yryri; B: [ ] gwyr yr yri; D, H: Gair evraid gwyr yr yri; [F]; I, M, S: yr yri; J: gwyr Eryri yr Yri; K: y ryri; L, N, O, P: gair euraid gwyr yr yri; **38** A, G: gore yw dast; B: [ ]asd dy gwrwf [ ]; C, D, E, H, I, J, L, N, O: gorav yw dast; [F]; K: gor iw dast; M: gorau i dast yw dy gwrw di; P: Goreu iw dast; Q: gore yw dasd; R: gore i dast; S: gorav yw dast; **39** A: gwrthie a dric wrthi draw; B: gwyrthiaü a drig wrthi draw; C, E: Gwrthiav a dric wrthi draw; D, F, H, I, J, L: Gwrthiav a drig wrthi draw; G: gwrthie a drig wrthi draw; K: gwrthie a drig wrtho draw; M: gwyrthiau; N, O, P: Gwyrthiau a drig wrthi draw; S: gwrthav; **40** A, Q, S: dernas; B: ar deyrnas; C, D, E, G, H, I, K, L, R: dyrnas; F: ir dyrnas [ ]r[ ]d[ ]aw; J: royd; M: a'r deyrnas; O: a rodd arnaw; **41** A, R: I fvrvm ef yfer mvd; B: i vûrvm ef yfer mûd; C, D, E, G, H: i fvrvm ef od yfai r mvd; F: i fyrm ef od [ ]f[ ]r[ ]; I: [ ] fvrvm ef od yfai r mvd; K: i fyrym ef yfe r mvd; L: i fyrÿm êf od yfai 'r mÿd; M: i furm ef yfer ym myd; P: Ei furym ef od yfai'r mud; Q: i fvrym ef yfer mvd; S: ei fvrym ef yfer y mvd; **42** A: fo ... ddydyd; B: ef ai ddadwrdd o ddwedüd; C: ddoedvd; D: ddoedyd; F: e. ai ... ddeüdyd; E, G: e ai ddadwrdd o ddoedvd; H: a doedvd; I: [ ] i ddadwrdd o ddoedyd; K: fo ... ddoydyd; L: ddwydyd; M: ef; N, O: A'i ei ddadwrdd i dd'wedyd; P: Ai o ddadwrdd i ddwedyd; Q, S: ef ai ddadwrdd o ddoydvd; R: ef a ddadwrdd, i ddywedüd; **43** A: sef yn os; J: od; N, O: an-hael; P: anhael; **44** A, K, Q, R: ai yn hael; B: oi vwnai hen ef ai n hael; C, M, S: ai n hael; E: ei fwynai hen ef ai n hael; F: oi fwynai hên ef ae , n, hael; I: [ ] fwynai i hên; N, O, P: fe â'n hael; **45** A, C, E: vn; B, D, F, G, H, K, Q, R, S: ag os yf vn; I: [ ] os yf vn; J, L, M, N, O: Ag; **46** B: yw veddwi ef a vydd iach; C: yw feddwi ef a vydd iach; D, E, F, G, H, J, L, N, O, P, S: yw feddwi; I: [ ] feddwi; K: ai feddwi; M, Q: iw feddwi ef e fydd jach; R: yw feddwi ef, fe füdd iach; **47** A: oda yn wyneb dyn anyth; B, M: o daw neb wyneb anoeth; I: [ ] wyneb dyn anoeth; K: o da yn wyneb; N, O, P: Od a'n; Q: o daw yn wyneb; R: o daw in wyneb; **48** A: ef a yn ddoeth; B: oi vin ... ai'n ddoeth; D, K, L: ef a yn ddoeth; E: ef ai n ddoeth; F: yw fin [ ] ddaint [ ] ddoeth; I: [ ] ai ddaint ef a yn ddoeth; M: ai fin ai ddaint ef ai n ddoeth; N, O: fe â'n; P: ai ddant fe; Q: ef ain ddoeth; R: yw fin ai ddain; S: ei fin ai ddant; **49** A, S: weithie; C, D, E, H: Weithiav eraill o thorrai; F, J: thorrai; G: weithie eraill o thorai; I: [ ]av eraill o thorrai; K: weithie eraill o tharai e; L: charai; **50** A: y doyth yn ynyfyd a wnâi; B, Q: a nai; D: y ddoeth; I [ ]th yn anoeth a wnai; K: yn ynyfyd a wnae; R: i wnai; S: yn ynyfyd a wnai; **51** A, S: gyrrre ddav lv; C, D, E, G, H: ddav lv; I: [ ]ir dda lynn gyrrai ddav lv; K: gwyr dda lyn gyre dav lv; R: gyrraü ddaü lü; **52** A, B, C, E, G, H, S: im gvssanv; D: imgvsanv; F: ym gyssanü; I [ ]as hên im gvssanv; J: im gysanu; K: i ymgysanv; L: i ymgysanÿ; M, P: i ymgussanu; N, O: i

'mgysanu; R: ymgysanü; **53** A: o do y yn drist vn dyn yw dre; B: o doe n drist vn dyn i dref; C, D: Ddoe n drist vn dyn yw dref; E, G, H, S: o doe n drist vn; F: o doen; I: [ ] drist vn dyn yw dref; K: o dre yn drist vn dvn; J, L: o doe; M: o doe ... i dref; Q: o doe yn drisd; R: o doe yn drist, vn düw yw dref; **54** A, K: deve; C, E: devai; D: defai adref deuai; I: [ ] devai adref; L: defai; Q: i doe adref; R: i doe ef adref; S: devei; **55** A, K: gen; I: [ ]r gan y gler glod; O: Gai Aber; **56** A: kayn hw; B: cae n wy; C: kai n; D, E, H: kae n; F: kae nhwy; I: [ ] kae n hwy ddiod; M: caen y ddiod; N, O: cae'n; **57** A: kaidwid; B: cedwid düw deced i tai; C, D, E, F, G, H: teged i tai; I: [ ] düw teged i tai; J, N, O, P: teged eu tai; K: deged dy dai; L: teged i Tai; M: Cedwid Duw deced eu tai; Q: kedwid t<sup>u</sup>w deked i tai; R: kedwid t<sup>u</sup>w deked i tai; S: cedwid dw deced ei tai; **58** B: vwrdeisiaid vord; E: vord; F: fwrdeisied; G: fwrdeistiaid; I: [ ]aid ford ossai; K: assai; R: assaü; S: f[ ] osai; **59** A, C, D, E, F, G, H: Ai; B: ai ... rywioga[ ]; I: [ ] gwiw Rywogaeth; J: ai ... rywiogaeth; M: au gwragwedd gwiw rywiogaeth; P: rywiogaeth; Q, R, S: ai gwragedd gwiw rywiogaeth; **60** A, K: Ai plant ... i maeth; B: ai plant nid methiant [ ]; C, D, E, G, H: ai plant ... ai maeth; F: oi maeth; I: [ ] methiant ai maeth; J: a'u maeth; L: [ ]i plant ... ai maeth; M: au plant nid methiant ond maeth; N, O, P: nid methiant eu maeth; Q, R: ai plant nid methiant i maeth; S: ai plant ni methiant ei maeth; **61** A, C, E: groc; B: nawdd mair ar grog ath [ ]; I: [ ] ar grog yn dôgylch; K: groc ar dy gylch; L: yn ogülch; M, Q, R: ith ogylch; N, O, P: yn ogylch; **62** A, K, Q, R, S: oth gor ith gylch; B: nawdd Sain Sior [ ]; I: [ ] Sain Sior ... gylch; L: gülch; M: gwiw oror gylch; N, O: Saint Siôr; P: St Sior; **63** B, M: nid el ond a ddel yn dda; I: [ ]el ond a ddel o dda; N, O, P: ni ddel ond y ddel o dda; Q, R: yn dda; **64** A: demel; B, M: nag ith dai; D, H, K: ag ith dai yma; E, G: nac ith dai yma; F: ai ith dai; I: [ ]eml ag ith dai yma; L: ith Demel nag; N, O: Ith demyl na'th dai yma; P: Ith demyl ath dai yma; Q, R: ith demyl ag ith dai yma; S: ith demel, ath dai ymma; **65** A: vod yn vn fal; B: vod yn vn val; H: Ni wnn fod yn vn fal; R: ifod; **66** A: nis kostied wrth ddinas kystal; B: nis costiau ddinas cystal; C: nis kostiwydd ddinas kvstal; D, F, G, H, I, J: ddinas; K: nis kostied wrth ddinas; L: nis Cestiwyd ddinas Cystal; L: nis costian ddinas cystal; Q: nis kosdan ddinas kystal; R: nis kosten, ddinas kystal; S: nis costied ddinas cystal; **67** B: ni chosted twr; J, L, N, O, P: ni chostiwyd; M: dwr na chastell; Q: ni chosded wrth dwr na chastell; R: ni chosted, wrth dwr na chastell; S: ni chosted wrth na chastell; **68** B: chwrf; I: chwrf we[ ]; Q, R: no chaer; S: na chaer ... no chwrf ...;

*Rhaglith*

**A:** kowydd i gwrw aberkonwy; **D:** K. i Cwrw Aberconwy; **E:** cowydd i dref Aber konwy + yw chwrw; **F:** Cowydd i dref Aber Conwy; **H:** [ ] i gwrw Aberconwy; **I:** [ ] konwy [ ] chwrw; **J:** Cywydd i dref Aber Conwy ac iw chwrw. a gant Ifan ab gryff. leiaf; **K:** kowydd i Gwrw Aber Conway; **M:** I dref Aber Conwy;<sup>87</sup> **N:** Cywydd i Gwrw Aber Conway; **O:** Cywydd i Gwrw Aber Conway; **P:** Molawd Cwrw Aberconwy; **Q:** kowydd moliant i dre aber konwy ag oi chwrw; **S:** Cyw. mol: Tre a chwrw Aberconwy;

### *Olnod*

**A:** Ieuan ap ~~llwn ap mali~~ grffth leiaf; **B:** Ieng ap Gruff Leiaf; **C:** Iefan ap gruffydd leiaf ai cant; **D:** Ieuan ap grvffydd leiaf ai kant; **E:** Ieuan ap gruff leiaf; **F:** Ievan ap Gruff leiaf ai Cant; **G:** Ieuan ap gruffydd leiaf; **H:** Ifan ap Gruffydd leiaf ai kant; **I:** Ieuan ap gr leiaf ai kant; **J:** Ieuan ab Gr leiaf ai Cant; **K:** Ieuan ab Llewelyn ab mali ai cant medd msv; **L:** Evan ap gryffydd Leiaf; **M:** Ieuan ap Gruffudd Leiaf ai cant; **N:** Evan ap Gryffydd leiaf, un o'r Glêr a gawsai Groesaw, Ynghonwy, a'i Cant; **O:** Ivan ap Gryffydd leiaf, un o'r Glêr a gawsai Groesaw, Ynghonwy, a'i Cant; **P:** Evan ab Gruffydd Leiaf; **Q:** Ieuan ap ll ap mali ai kant; **R:** Ifan ap llin ap mali ai kant; **S:** Ifan ap llywelyn ap mali;

---

<sup>87</sup> Mewn llaw wahanol.



**9. Cywydd brud ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd ac eog Llyn Llyw.**

Y bardd:                    Y gleisiad, deiliad dilwfr,  
                                 Rhadlon rhwng y don a'r dwfr,  
                                 On'd rhyfedd y byd heddiw?  
4    Erglyw hyn, eog Llyn Llyw:  
                                 Dechreuad a ga'd o'i gob,  
                                 Cyfle dysg, cofl lwyd esgob,  
                                 A'r blaidd ers llawer blwyddyn  
8    O'r gaer braff dan gwr y bryn,  
                                 Yr eryr mawr o'r Yri  
                                 A rydd cyfraith i'n iaith ni.  
                                 Pam bydd balch y fwyalchen  
12   Pan heuir yr heidd-dir hen?  
                                 At yr hydd drennydd i'r dre',  
                                 Ar hyd unfon Rhedynfre,  
                                 Nid oes wrth hir gydoesi  
16   Neb traean eich oedran chwi.  
                                 Chychwi a welsoch Wion  
                                 A Sionas a'r hen sias hon,  
                                 A'r gŵr a fu'n ymguraw  
20   A gân o Drefaenan draw;  
                                 Ac Adda gynt a guddiwyd  
                                 Dan ddraenen, a'r lletben llwyd.  
                                 Mal ein hawdl mul iawn ydym,  
24   Mynegwch, na chelwch ym,  
                                 Paham yn gall nas d'allwn  
                                 Pa ryw fyd yw'r hyllfyd hwn?  
Yr eog:                    Byd annigrif i brifardd,

- 28 Byd fal y dyfod y bardd.  
Llyma rwystr lle mae'r estron,  
Llyma'r borth a'r dorth yn don,  
A'r hawl a chwbl o'r helynt,
- 32 A'r byd wrth ein gwynfyd gynt.  
Âr gras drwy nerth Duw a'r Grog  
Y ceir allwydd Caer Eiliog.  
Llem yw'r floedd, llyma'r flwyddyn
- 36 Rhag llaw y daw mab y dyn,  
Ac ieirll hydr o gôr Llydaw  
Ac arth drwy Ddeheubarth draw,  
A brad Lloegr a brud llugyrn
- 40 A Beli gwyllt, bual gyrn,  
A'r haul wedi hanner haf  
O liw'r trwch i law'r trechaf.  
Ninnau o chawn enynnu,
- 44 A'r lleuad aur a'r llew du  
A ludd er pan ddêl iddaw  
Y gwŷr drud o'r hen gaer draw.  
A ddeëllwch, weddillion
- 48 Troya, hyd ystoria hon?  
Trigwn yn ein tiriogaeth,  
Nac awn, ni a fuom gaeth.  
Arth mewn brwydr rhwng y ddwydref,
- 52 Heb ddyfyn un dyn ond ef,  
Ac ef a'r plant o'r gefyn  
A bair, nid er anair ynn,  
Ni'n treisir am ein trwsiad,

56 Ni'n troir o'n tir a'n tref tad.

O bai obaith i'r bwbach

Am goroni babi bach,

Un a dau yn y diwedd

60 Od eir byth i dir y bedd.

I'r tir lle bo'r fflamau tân

Y dygir y ddau degan,

A'r hyddod a wisg rhuddaur,

64 A llew a wisg gwcwll aur.

### *Ffynonellau*

**A**—Card 3.4[= RWM 5], 251 **B**—LIGC 408, 45 **C**—LIGC 6499B, 529 **D**—  
LIGC 3077B, 73 **E**—Pen 196, 165 **F**—LIGC 668C, 81.

### *Trefn y llinellau*

A: 1-2, [3], 4-64.

B, E: 1-6, [7, 8], 9-14, [15, 16], 17-20, [21, 22], 23-30, [31, 32], 33-34, [39, 40], 41-  
52, ychwanegiad i, 35-38, [53-56], 59-60, 57-58, ychwanegiad ii, [61, 62], 63-64.

C, D: 1-64.

F: 1-12, 12, 13-64.

### *Ychwanegiadau*

i.

y gwyr o fewn lloegr gav

a godant yn fagadav

yr amser hwnn gwnn y gwir

am goron ir ymgvirir

plant alis ceir offis cann

yn oes warwig a sorran

mae siarad i cãn adwaith  
wedi r s newidir iaith  
os y blaned a gredir  
y term yw colli i tir  
o da ir nenn y wennol  
gaded i ni geidwad yn ol  
os didwyll os da ydiw  
gwyped pan eled pwy n yw

ii.

yr eryr mawr ar warr mon  
pan welo poen i alon  
i gledd y niwedd y nod  
a gymyna gwminod  
er ymwarded dros wledydd  
ynghors fochno y fo fydd

### *Darlleniadau amrywiol*

**1** A: daliattilwvyr; C, D, F: daliad; **2** A: hradlon hrwng; D: radlon ... dwr; **3** B: y dydd eddiw; D: pant ryfedd y by heddiw; E: y dydd heddyw; **4** A: eoc llyw; B, E: evog; C, F: oes llynn lliw; D: oer llyn lliw; **5** A, C, D: ar ferch rad a gad o gob; F: Ar ferch rad a gad y Gob; **6**: A: kof lwydd ddysc kelüydd esgob; B: cyfle dysc cofl lwyd esgob; C, F: kyfliw dysg kofled esgob; D: cyflw dysc cyfled esgob; E: cyfle dysc cafl lwyd esgob; **7** A, C: erys; D: blaid er ys; F: A blaidd a erys llawer blwyddyn; **8** C: gair; D: gaer braf; F: gwr bryn; **9** A: ar eryr or yri; C, F: ar eryr or eryri; D: ar erryr ar eryri; **10** A: awnna kyvraith yniaith ni; C: ar rydd; E: y rydd; **11** A: pan nad balch; B, C, E: pam bydd; D: pam y bydd; F: Pan bydd balch; **12** A: a gyrchir or heidd dir hen; B: pan hei ir yr heiddir hen; C: a gyrchir or hoiwdir hen; D: a chyrchir or heydir hen; E: pan heuir yr heid ddir hên; F: A

gyrchir or hoywdir hen|A gyrchir or hoewdir hen;<sup>88</sup> **13** B, E: i dref; **14** A: hedyndref; B, E: vn fron rred yn fref; C, F: iowndref rhedyndref; D: vn fron rvyndref; **15** A: hen gydoysse; **16** A: neb drayan ychoydran chwi; C: ych amlan chwi; F: ych amgen chwi; **17** A: aelsoch; B: chwchwi; C: a chi; D: chwithe a welsoch gwion; F: Chwychwi; **18** A: asiahanes ar sias hon; C, F: a siohanes ar y saeson; D: ar sy o hanes ar y sayson; **19**: A: ar gwr avū ynymgvraw; B, E: y gwyr a fv n ymgweiriaw; C, F: y gwr; D: a fv yn ymguraw; **20** A: agar an odre vaynnan draw; B: dre fanan; E: dre fanaw; **22** A: draynen; C: ddraen vn; F: lletben; **23** A: makwn owdwl; B, E: mae mab dan gof ich gofyn; C, D, F: mal yn awdwl mvl iawn ydyn; **24** B, E: manegwch na chelwch hynn; C, D, F: na chelwch hynn; **25** A: paham yn gell nasdallwn; B: pam yn gall na ddehalldwn; C, F: pann yn gall na ddeallwn; D: paham yn nas dyallwn; E: Pam yn gall na ddehallwn; **26** A: pa rūw vryd ywr hyllvryd hwn; B, E: pa hyd ywr hvdolfyd hwn; C, F: pa ryw fyd hefyd yw hwnn; D: pa ryw fyd yn r rylfyd hwn; **27** A: brüc vardd y; B, E: brifardd; **28** A: y byd val idyvod y bardd; B, E: bod fal i dyfod y bardd; C, F: fel; D: byd fal y dyrnad y beirdd; **29** A: Rwysdyr; D: rwystyr; F: mae i estron; **30** B, E: porth; D: dyma r barth; **31** A: chwawl; D: er haul; **32** C, D: gwnfyd; **33** A: a groc; B, E: a gras; C: trwy; **34** C, F: allwyd kaer rylliog; D: i bair allwyd; E: Caer ellog; **35** A: llem ywr vloydd llymar vlvüddün; B: *flwyddyn*; C, F: llyma r floedd lle mae r flwyddyn; **36** A: hragllaw; D: rag llaw y daw mal y dyn; **37** A, D: hydyr; B: ag iarll hydyr; E: Ag Iarll hydr; F: Ar Ieirll **38** C, F: ag ar arth o ddehevbarth a ddaw; D: ar arth drwy ddeheybarth draw; E: ag arth; **39** A: abarad lloygyr abydd llwgvrn; D: lloeger; **40** A: gwyllt būal; **41** A: ar haül wedi hanner haaf; B, E: ef a r hawl erbyn yr haf; C, D: ar hawl wedi haner haf; F: Ar hawl wedi hanner hâf; **42** A: yn lle trwch yn llawr trechaf; B: a liw r trwch i law r trech[ ]; C, F: o lawr trwch i law r trechaf; D: a llaw trwch yn llaw r trechaf; E: o liw'r trwch i law'r trecha; **43** A: ynyny; C, D: ninne; F: Ninne o iawn enynu; **44** A: ar lleüad avr a llew dū; B, E: y llevad avr ar llew dv; C, D: ar llevad avr ar llew dv; F: An lleuad aur ar llew du; **45** A: a lüdd ur pan ddel iddaw; B: a bo Nvdd heb benn iddaw; C: a lvdd er penn ddel iddaw; D: a lludd er pen ddel iddaw; E: A bo Nudd heb pen iddaw; F: A ludd er pan ddel iddaw; **46** A: y gwyr drvd or gaer draw; B, E: y gwr drvd or hen gaer draw; C: ir gwyr drvd or hen gaer draw; D: ar gwyr drud or hen gaer draw; F: I gwyr drud or gaer hen draw; **47** A: ef a ellwch; B: ddehallwch; D: ddielwch; E: deallwch; F: ddeallwch; **48** A: ysdoria; B, E: ystyr hyd ystoria honn; **49** A: trigwn yn yntiriogayth; B, C: trigwn yn yn tiriogaeth; D: Trigwn yn diriogaeth; **50** A: nac awn ni avūomgayth; B: ac nag awn ni a fvom gaeth; C, F: nag awn ni a fvom gaeth;

<sup>88</sup> Dwy linell yn y llawysgrif.

D: nag awn ni rag ofn yn gaeth; E: ag nag awn ni fuom gaeth; **51** A: arth mewn brwydyr hrwgdydref; B, E: arvth mewn brwydr rrwng dwydref; C, F: arth mewn brwydr rhwng y ddwydref; D: Arth mi a wn brwydr rhwng dwy dref; **52** A: heb ddyvyn; B, E: heb ofyn; C, F: wrth ddyfyn y dyn ond ef; D: wrth ddir fyn n dynond ef; **53** A: gevyn; C, D, F: ag ef; **54** A: ir annair; C, D, F: er anair; **55** A: nan treissir am yntwssiad; C, D: yn trwsiad; F: aur ein trawsiad; **56** A: nan troi on tir nan treftaad; C: ond tir a tre tad; D: nan tro on tir na n treftad; **57** A: obai; B, E: o bv obaith; F: O bae; **58** B, E: o goroni r babi bach; C, F: am goroni r babi bach; D: yr babi; **59** B: vn a ddaw; C: vn o dav; D, F: vn o daw; E: Un a ddaw yn ei ddiwedd; **60** A: odair byth idir y bedd; B, E: o dair bath o dir y bedd; C: o deir byth i dir y bedd; D: o doir byth y dyr y bedd; F: Od eir byth i dir y bedd; **61** A: ir tir lle bor fflame tan; C, F: lle bo fflamio r tan; D: lle bv r fflamniav tan; **62** A: idygir y ddav degan; **63** A: ar hyddod awisg hrūddavr; B, E: ar hyddod yn rroi rrvddavr; D: ar hyddod wisc rūddaûr; **64** A: a llew awisc gockwll avr; B, E: ar llew a wisc cwcwll avr; C, F: y llew a wisg kwkwll avr; D: ar llew a wysc kwkwll aur;

### *Rhaglith*

C: Cywydd brut y bardd ar gleisiad; F: Brut.

### *Olnod*

A: Ivann leia aikant; B: Ifan ap gruff leia; C: Ifan leia ai kant; D: Ieuan leia; E: Ifan ap Gruff. leia; F: Ifan Leia ai cant.

## Nodiadau

### 1

Yn ôl Statud Gruffudd ap Cynan, yr oedd codi (neu ailgodi) llys yn achlysur pan ganiateid i fardd glera.<sup>89</sup> Cywydd moliant i Hywel ab Ieuan Fychan ab Ieuan Gethin ap Madog Cyffin,<sup>90</sup> a'i wraig Elen ferch Dafydd ab Ieuan, a'u llys Moelyrch<sup>91</sup> yw hwn. Saif Moelyrch ym mhlwyf Llansilin, cwmwd Cynllaith, Powys, rhyw ddwy filltir o Sycharth. Yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr, llosgwyd Moelyrch, yn fwy na thebyg ar yr un pryd ag y llosgwyd Sycharth, oherwydd ffyddlondeb Ieuan Fychan i'r achos. Ailgodwyd Moelyrch gan Hywel, efallai yn ystod ail chwarter y ganrif, a dyma achlysur cyfansoddi'r cywydd. Yr oedd Guto'r Glyn hefyd yn bresennol, ac efallai mai dyma pryd y cafwyd yr ymryson rhyngddo ac Ieuan ap Gruffudd Leiaf (gweler cerdd 5 a'r nodiadau perthnasol isod).

Cafwyd testun golygedig y gerdd hon ynghyd â thrafodaeth gan Dr. Bleddyn O. Huws yn *Dwned*.<sup>92</sup> Seiliwyd y golygiad hwnnw yn bennaf ar enghraifft A, sef Pen 103, 41 (c. 1558 – 64). Y mae tudalennau 41 – 45 y llawysgrif hon (lle ceir cywydd Ieuan ap Gruffudd Leiaf), ynghyd â thudalennau 1 – 5 (lle ceir cywydd Guto'r Glyn i Foelyrch – gweler isod) yn yr un llaw, efallai llaw Morus Wyn o Foelyrch (gorwyr Hywel ab Ieuan Fychan).<sup>93</sup> Yn y fersiwn hwn, ac yn y fersiwn hwn yn unig, ceir cwpled gwahanol yn llinellau 25 – 26 a llinell 77 ychydig yn wahanol hefyd. Bron yr un mor hen ag A yw B, sef Bangor (Mos) 5, 10<sup>r</sup> (c. 1570 – 90), a chan fod C, D, E ac F yn dilyn B, mwy neu lai (ac yn enwedig yn achos llinellau 25 – 26 a 77), penderfynwyd seilio'r golygiad presennol yn bennaf ar enghraifft B.

Nid moliant traddodiadol yw'r cywydd hwn, fel y gwelir isod. Yn y pedair llinell ar ddeg cyntaf, y mae'r bardd yn delweddu'r brenin Arthur a'i lys yng Nghaerllion. Y mae'r disgrifiad yn debyg iawn i'r hyn a geir yn *Historia Regum*

---

<sup>89</sup> Thomas, Gwyn, *Eisteddfodau Caerwys* (Caerdydd, 1968), t. 66 – 68; Thomas, Eimir Gwenllian, 'Astudiaeth Destunol o Statud Gruffudd ap Cynan' (Traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru [Bangor], 2001), t. 92 a'r cyfeiriadau a restrir yno.

<sup>90</sup> WG1, 'Bleddyn ap Cynfyn' 10.

<sup>91</sup> 'Moel' + 'yrch', ac 'yrch' yn ffurf luosog ar 'iwrch' (gw. WG, t. 40). Dyma ffurf enw'r llys a ddefnyddir yn y llawysgrifau a'r cywydd. 'Moeliwrch' yw'r ffurf a ddefnyddir mewn cyhoeddiadau mwy diweddar, e.e. Hubbard, E., *The Buildings of Wales – Clwyd* (Yale University Press, 1994), t. 243. Ceir amrywiadau eraill, e.e. 'Moelwrch' yn *Arch Camb*, 5ed cyfres, cyfrol XV, Rhif LVIII (Ebrill, 1898), t. 154. 'Moelyrch' a ddefnyddir yn yr hyn sy'n dilyn.

<sup>92</sup> Huws, Bleddyn O., 'Ailadeiladu Bywyd ar ôl Gwrthryfel Glyndŵr: Tystiolaeth y Canu i Foelyrch', *Dwned* 13 (2007), 97 – 137.

<sup>93</sup> RWMS, copi gweithiol, gyda chaniatâd caredig Daniel Huws.

*Britanniae* Sieffre o Fynwy, eithr nid oes sôn am y ford gron yn ei waith ef.<sup>94</sup> Cyfieithodd Wace, clerigwr Normanaidd, *Historia* Sieffre i'r Ffrangeg yn ei waith *Le Roman de Brut*. Tynnodd rywfaint ar hanes Sieffre, ond ychwanegodd lawer mwy, gan gynnwys y ford gron, rhywbeth a gafodd o ffynonellau Llydaweg. O ffynonellau Ffrangeg y daeth y ford gron i'r testunau Arthuraidd Cymraeg.<sup>95</sup> Dim ond y rhai haelwch a gâi fynediad i lys Arthur (ll. 10 – 13), a diddorol yw defnydd y motiff beiblaidd '*yr un a guddiai'r wyneb*' yn llinell 13.<sup>96</sup>

Yn llinellau 15 – 42 y mae'r bardd yn moli Ieuan Fychan ac Elen a'u llys yn y dull traddodiadol. Preswylia ym Moelyrch arglwydd hael sy'n farnwr megis Arthur gynt (ll.18, gweler isod). Y mae'r arglwydd hwn yn gyffelyb i Huail, sef Huail ap Caw (ll. 22).<sup>97</sup> Ceir ach yr arglwydd dan sylw yn llinellau 22 – 26, sef Hywel ab Ieuan Fychan ab Ieuan Gethin ap Madog Cyffin, penrhaith (h.y. arglwydd) cantref Cynllaith ym Mhowys (ll. 28).<sup>98</sup> Yn llinellau 29 – 32 rhy Ieuan ap Gruffudd Leiaf ddarlun cryno o lys Moelyrch, a'i gymharu ag Ehangwen, llys Arthur. Moli Elen, gwraig Hywel ab Ieuan Fychan, a wna'r bardd yn llinellau 33 – 42.

Annisgwyl braidd yw cynnwys llinellau 43 – 70 mewn cywydd moliant traddodiadol. Adlewyrcha llinellau 45 – 48 yr hyn a ddywed y bardd ynghylch Arthur yn llinellau 11 – 14, ond y tro hwn yng nghyd-destun barddoneg. Cofia Ieuan ap Gruffudd Leiaf iddo ddweud na ddylai bardd arall ddod â cherdd gyfartal (ag eiddo ei hun) i'r fort (ll. 49 – 52). Yn llinellau 53 – 56 y mae ef yn herio Guto'r Glyn i ddod ag ateb, ond *nid ar gywydd neb*. Ymddengys bod nifer da o feirdd yn bresennol ar yr achlysur (ll. 65 – 66), Guto'r Glyn yn un o gynrychiolwyr Powys, ac Ieuan yntau yn un o gynrychiolwyr Gwynedd (ll. 55 a 59 – 60). Nid yw'r bardd yn esbonio pwy yw Rhys ac Edwart yn llinell 64, ond y mae B. O. Huws yn awgrymu Syr Rhys o Garno ar gyfer Rhys, ac Edwart ap Dafydd ap Gwilym ar gyfer Edwart.<sup>99</sup> Yn llinellau 71 – 82 y mae'r bardd yn dychwelyd at y thema wreiddiol, sef moliant, gan orffen y cywydd trwy ddymuno oes hir i Hywel ac Elen.

---

<sup>94</sup> Gweler, er enghraifft, Lewis, Henry, *Brut Dingestow* (Caerdydd, 1942), tt. 157 – 8; Roberts, Brynley F., *Brut y Brenhinedd* (Dulyn, 1971), tt. 28 – 9; Thorpe, Lewis (trans.), *Geoffrey of Monmouth: The History of the Kings of Britain* (Penguin, 1988), tt. 226 – 7.

<sup>95</sup> Gweler Hughes, Ian, 'Camlan, Medrawd a Melwas', *Dwned* 13 (2007), 13 – 14 ac yn enwedig troednodyn 13; Abrams, M. H. et al., *The Norton Anthology of English Literature* (7<sup>th</sup> Ed., Norton & Co., 2000), 1, t. 118.

<sup>96</sup> Huws, Bleddyn O., *art. cit.*, t. 131.

<sup>97</sup> WCD, t. 368; TYP<sup>3</sup>, tt. 41 – 2, 399 – 402; Huws, Bleddyn O., *loc. cit.* Nid oedd Huail ap Caw am ddarostwng ei hun i neb, gan gynnwys Arthur.

<sup>98</sup> Ceir manylion ynghylch y teulu yn Huws, Bleddyn O., *op. cit.*, tt. 97 – 101; Huws, Bleddyn O., 'Y Bardd a'i Noddwr yn yr Oesoedd Canol Diweddar', *Cof Cenedl*, XVI, 3 – 9.

<sup>99</sup> Huws, Bleddyn O., 'Ailadeiladu Bywyd ar ôl Gwrthryfel Glyndŵr', *Dwned* 13 (2007), t.133.



Y mae'n bosibl mai ar achlysur ailgodi llys Moelyrch y cafwyd yr ymryson englynol rhwng Ieuan ap Gruffudd Leiaf a Guto'r Glyn.<sup>100</sup> Buasai ailgodi'r llys yn achlysur addas i ymryson o'r fath. Yn yr englyn ymryson gan Ieuan a'r cywydd dan sylw y ceir yr unig gyfeiriadau at Guto ganddo, ac yn yr englynion ateb y ceir yr unig gyfeiriad at Ieuan gan Guto. Gellir dehongli llinellau 53 - 54 yn y cywydd dan sylw yng nghyd-destun yr ymryson, cyd-destun sydd hefyd yn esbonio'r ffaith nad yw'r cywydd hwn yn foliant traddodiadol. Ceir rhagor o fanylion ynghylch yr ymryson a'i gysylltiad posibl â'r cywydd yn y nodiadau isod ar gyfer cerdd 5.

Dosberthir y gynghanedd fel a ganlyn:-

	<b>cyng. groes</b>	<b>cyng. draws</b>	<b>cyng. sain</b>	<b>cyng. lusg</b>	<b>cyfanswm</b>
<b>llinellau</b>	33	21	24	4	82
<b>canrannau</b>	40.24	25.61	29.27	4.88	100

Ceir y gynghanedd sain gadwynog yn llinellau 54 a 70.

2. **Braisg a ddug** ymddengys mai 'braisg o ddug' yw'r ystyr, a 'dug' yn enw. Gweler er enghraifft, [www.dafyddapgwilym.net](http://www.dafyddapgwilym.net), 36.49 a'r nodiadau cysylltiol.
5. Gwrthrych *Perchis* yw *Duw Iôn* (sef 'Yr Arglwydd Dduw'), er nas treigilir. Gweler TC, t. 216.
6. **dilis** = dilys a. cymeradwy, teilwng. Gweler GPC, tt. 1014, 1016.
7. **uchelrwyg** a geir yn enghreifftiau B, C a D; 'uchelrwyg' yn A, E ac F. Y mae '*Uch-Erl-Wysg*', sef 'Uwch Iarll Wysg', yn esbonio 'uchelrwyg', os yw 'erl' yn air a ddefnyddid yn y bymthegfed ganrif. O'r unfed ganrif ar bymtheg y daw enghraifft hynaf y gair 'erl' yn GPC (t. 1234), o waith Lewys Morgannwg. (O draethawd M.A. gan E. J. Saunders, 1922, y daw'r enghraifft yn GPC. Golygiad go wahanol a geir yn GLMorg, gweler 48.45 - 46). Gan mai canol y bymthegfed ganrif yw cyfnod y cywydd hwn, pe bai'r acen yn y gair 'uchelrwyg' yn aros ar y goben, byddai'r esboniad uchod yn un rhesymol. Ar y llaw arall, y mae 'uchelrwyg' yn air cydnabyddedig yn GPC (t. 3697), ac yn briodol yn y cyd-destun. Dewisir

<sup>100</sup> Gweler cerdd 5 isod a Huws, Bleddyn Owen, 'Y Bardd a'i Noddwr yn yr Oesoedd Canol Diweddar', *Cof Cenedl* XVI, 18.

‘uchelrwyg’ yma, gan ddilyn B. O. Huws, a derbyn y bai ‘crych a llyfn’ yn y gynghanedd.

10. **gwas gwyach** ‘dyn beiddgar’; gweler GPC, t. 1590.
15. hepgorir yr ‘Y’ ar ddechrau’r llinell (chwe sill) ym mhob llawysgrif. Effaith yr ychwanegiad yw cael saith sill i’r llinell a chreu cymeriad llythrennol i’r cwpled.
18. **crystur** = ‘crys’ + ‘dur’. Gweler B. O. Huws, ‘Ailadeiladu Bywyd ...’, t. 131.
19. Gwall yn y gynghanedd (‘n’ berfeddgoll) ym mhob enghraifft, yn ôl safonau heddiw. Eithr gweler Parry, Thomas, ‘Pynciau Cynghanedd’, B, cyf. X rhan 1, 1939, 1 – 5. Ymddengys mai cynghanedd groes a fwriadwyd yma.
22. **Huail** Cyfeiriad at Huail ap Caw, mae’n debyg. Gweler TYP<sup>3</sup>, tt. 399 - 402.
- 25 - 6. *gyrthiw r cad profiad prifardd | gethin o hil kyffin hardd* a geir gan gopiwr A. Fodd bynnag, ychwanegwyd y cwpled dilynol (mewn llaw arall) rhwng llinell 24 a 25: *gan jein gethin gwin a gaid | kyff anwyl or kyffiniaid* (gw. B. O. Huws, *art. cit.*, t. 129). Ynghylch y cwpled, dywed B. O. Huws (*art. cit.*, t. 131):

Fe welir bod y paragraff yn cynnal cymeriad llethrennol, ac mae’r cwpled yn ffitio’r patrwm. Byddai derbyn y cwpled ychwanegol a geir yng nghopiâu ABCDE yn torri ar y cymeriad.

Er mor ddeniadol yw’r syniad o gadw’r cymeriad llythrennol, ni dderbynnir y ddadl hon yma, oherwydd:-

(i) Ceir sawl enghraifft o dorri ar y cymeriad mewn manau eraill yn y cywydd hwn.

(ii) Gwelir sawl enghraifft gyffelyb o dorri ar y cymeriad mewn cywyddau eraill gan Ieuan ap Gruffudd Leiaf.

Ai enghraifft o gopiwr A yn caboli’r cywydd moliant hwn i’w hynafiaid a welir yma?

32. **Ehangwen** enw’r neuadd yn llys Arthur. Adeilwyd y neuadd gan Gwlyddyn Saer. Gweler CO<sup>2</sup>, tt.10, 95.

33. **Ar a ddêl** 'y rhai a ddelo' (Gweler, er enghraifft, G, t. 34; WG, t. 298). Dylid nodi mai 'a addel' a geir yn enghraifft A.
40. **towyn tes** sef 'disgleirdeb gwres yr haul'. Gweler GPC, t. 3687, o dan tywyn<sup>1</sup>, a GPC, t. 3487.
49. 'Cofiaf imi holi' yw ystyr y llinell hon.
50. Ynghylch y ffurf treigledig *ddyn* yn y llinell hon, gw. TC, tt. 211 – 12.
52. 'r' wreiddgoll.
56. **Eddyl parch** 'bwriad parch' yn llythrennol, hynny yw, 'gyda phob parch', a'r eironi yn amlwg.
58. Defnyddir y ferf 'naddu' i ddynodi 'cyfansoddi' yn achos cerdd.
61. 'n' wreiddgoll.
63. **dau eiriau ddart** Ystyrir *geiriau* yn enw deuol yn y ffurf *dau eiriau*, ac o ganlyniad ceir treigladd meddal i'r ansoddair dilynol (WG, t. 194 – 5; TC, tt. 61 - 4). Enw yw *dart* fel arfer (gweler GPC, t. 899) a'r ystyr 'gwaywffon', 'picell', 'saeth', ond yma, fodd bynnag, y mae'n gweithredu fel ansoddair (ac yn cyfleu ystyr megis 'treiddiol', 'llym', 'cyflym').
64. Y mae 'cydwedd' yn treiglo'n feddal yn y llinell hon am yr un rheswm ag y mae 'dart' yn treiglo'n feddal yn y llinell flaenorol.
65. **dau dylwyth** Powys a Gwynedd, mae'n debyg.
67. **Beth ddorwn fod bath arall?** Ffurf ar y ferf ddiffygiol *dorbod* (neu *darbod*), sef hidio, malio, yw dorwn. Gweler WG, tt. 373 – 4; GPC, tt. 1076 – 7; GyG, t. 68. Y mae darn o waith Ieuan ap Rhydderch yn dangos yn glir sut y defnyddiwyd y ferf hon:

*Gwn beth ddorwn byth eres,*

*Anial yw er na wna les,*

*Rhod y dynghedfen a'i rhan*

*A rhyw igmas a rhagman.*

*Beth ddorwn bethau ereill?*

*Tawer â llawer o'r lleill:*

*Nid iawn i ddyn ond yn dda*

*Eu traethu, talm a'u traetha.*

(O'r cywydd 'Y Fôst', gweler IGE, t. 222; IGE<sup>2</sup>, t. 230. Nid amherthnasol yw byrdwn y cywydd hwn i'r sefyllfa dan sylw yma). Digwydd 'beth ddorwn' yn enghraifft B yn unig, ond yr un o ran sain yw 'beth orwn', sef yr hyn a geir yn y rhai eraill.

71. 'n' berfeddgoll.

73. **Hoywal cerdd** bwrlwm cerdd.

75. **Carodd foliant** *Carodd foli* yw darlleniad pob enghraifft ac eithrio D. Dilynir D yma er mwyn ystyr.

77. **Caer Selem** sef Caer Salem. Dyma ddarlleniad pob enghraifft ac eithrio A, lle ceir *kaer solas*. Wrth dderbyn darlleniad A, dywed B. O. Huws (*art. cit.*, t. 133):-

Gwelir mai *kaer selem* yw darlleniad y llsgrau. eraill, a hynny ond odid am fod y copiŵyr yn gyfarwydd â chywydd Guto'r Glyn i Foelyrch.

Eithr nid oedd dim i rwystro'r ddau fardd rhag ddefnyddio'r un gair, yn gwbl annibynnol, a dyna, mae'n debyg, a ddigwyddodd yma. (Yn wir, ceir esiamplau yng ngwaith y cywyddwyr o ddau fardd gwahanol yn defnyddio'r un llinell gyfan, bron). O ran Pen 103, gwelir mai yr un llaw a gofnododd gywydd Guto'r Glyn ar dudalen<sup>1</sup> a chywydd Ieuan ap Gruffudd Leiaf ar dudalen 41. Mypwy'r cofnodwr hwn, yn fwy tebygol, sy'n esbonio'r gwahaniaeth.

**côr Silyn** Cyfeiriad at gôr eglwys Llansilyn. Adeiladwyd yr eglwys bresennol yn y drydedd ganrif ar ddeg, ar safle eglwys hŷn o lawer. Dechreuwyd ar ffenestr fawr y côr yng nghanol y bymthegfed ganrif dan nawdd Ieuan Bach Henblas. Gorffennwyd y gwaith dan nawdd ei weddw Gwenhwyfar, merch Ieuan Fychan ab Ieuan Gethin a chwaer i Hywel ab Ieuan Fychan. Yn fwy na thebyg, yr oedd y cysylltiad teuluol hwn â'r côr ym meddwl y bardd wrth iddo lunio'r llinell hon. (Gweler, e.e. Baker, A., 'History of St. Silin Church, Llansilin, Montgomeryshire', *Arch Camb*, cyf. XI, 5ed cyf., 1894, tt. 108 – 21).

80. *Grisial* sydd gan bob enghraifft ac eithrio A. Penderfynwyd defnyddio *Crisial* er mwyn cadw'r cymeriad llythrennol.

## 2

Yn ôl Statud Gruffudd ap Cynan, caniateid i fardd ymweld â noddwr ar y tair gŵyl arbennig, sef y Pasg, y Sulgwyn a'r Nadolig.<sup>101</sup> Yn ystod un o'i deithiau i'r Penrhyn amser y Nadolig, syrthiodd Ieuan ap Gruffudd Leiaf i Llugwy,<sup>102</sup> a bu rhaid iddo droi'n ôl. Dyma'r cywydd dychan a ganodd y bardd i'r afon o'r herwydd. Ffynnon Llugwy<sup>103</sup> yw ei tharddle, llyn sy'n cysgodi yng Nghwm Llugwy, cwm uchel, dwfn a ffurfir gan lethr ddeheuol Carnedd Llywelyn a llethr ddwyreiniol Pen yr Helgi Ddu. Mân ffrydiau a'u ffynonellau ar y mynyddoedd hyn sy'n ffurfio Ffynnon Llugwy. O'r llyn, disgyn yr afonig i droed llechweddau is, esmwythach i'r de-orllewin nes iddi gyrraedd yr A5 presennol, a nifer o nentydd bychain yn ymuno â hi ar y ffordd. Mae'n croesi'r A5 o dan Bont Rhyd-goch, nid nepell o hen addoldy Annibynnol Nant y Benglog, a throi'n ddisymwth i'r dwyrain ac i gyfeiriad Capel Curig<sup>104</sup> ar hyd Nant y Benglog, gan gasglu mwy o nentydd bychain ar y ffordd. Y mae'r A5 presennol a'r hen lôn bost ill dwy yn dilyn Llugwy i Gapel Curig, y ffordd gyntaf ar ochr ogleddol yr afon, a'r ail ar ei hochr ddeheuol. Ar y gwastadedd uchel hwn, nid nepell o ffermdy Gwern Gof Isaf ond ar ochr arall yr A5, saif murddun Tŷ Glas, hen dafarn efallai i'r porthmyn o Fôn. Er mai 1746 yw'r dyddiad ar linten garreg y tân, mae'n bur bosibl fod tafarn yma yn oes y bardd.<sup>105</sup> Yng Nghapel Curig, mae Nant Gwryd o Lynnau Mymbyr yn llifo iddi, a Llugwy wedyn yn rhedeg yn droellog i'r dwyrain. Yng nghyffiniau Pont Cyfyng,<sup>106</sup> y mae'r afon yn rhaeadru dros greigiau mawr serth, ac eto yng nghyffiniau Rhaeadr Ewynnol (Rhaeadr Y Wennol).<sup>107</sup> Y mae'r A5 yn dilyn Llugwy, fwy neu lai, i'r drefgordd Betws Wyrion Iddon (sef pentref Betws-y-Coed heddiw),<sup>108</sup> lle ymuna hi â Chonwy ar ôl iddi redeg

---

<sup>101</sup> Gweler, er enghraifft, Thomas, 'Astudiaeth Destunol o Statud Gruffudd ap Cynan', tt.84, 749; Thomas, *Eisteddfodau Caerwys*, t. 66.

<sup>102</sup> Ni cheir cofnod ar gyfer Llugwy yn Thomas, R. J., *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938), ond ar dudalen 83 dywed yr awdur (ynghylch Penllugan (Myn.) fel a ganlyn: "Am *-luc-* (= *-llug-*) yn yr enw hwn, a ddylid ei gysylltu â'r e. llug 'goleuni, disgleirdeb', fel yn LLUGWY (Caern.; Maesd.; Henff.; Meir.; Môn)?"

<sup>103</sup> Cyfeiriad yr Arolwg Ordnans: SH 69249 62754. Cronfa ddŵr ydyw'r llyn erbyn hyn.

<sup>104</sup> Cyf. AO: SH 72112 58197.

<sup>105</sup> Gweler Richards, Emlyn, *Porthmyn Môn* (Gwasg Pantycelyn, 1998), tt. 272 – 274.

<sup>106</sup> Cyf. AO: SH 73419 57192. Adeiladwyd Pont Cyfyng ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg: gweler Archifau Gwynedd, dogfen XPlansB184.

<sup>107</sup> Cyf. AO: SH 77723 57189.

<sup>108</sup> Cyf. AO: SH 79401 56475.

dros y creigiau yng nghyffiniau Pont-y-Pair.<sup>109</sup> Dechreuwyd ar y gwaith o godi Pont-y-Pair dros Lugwy ym 1468 yn ôl rhai ffynonellau,<sup>110</sup> ac os gwir yw hynny, ni fuasai'r bont honno wedi bod at wasanaeth y bardd ar ei ffordd i'r Penrhyn. (Ni ddylid cymryd yn ganiataol mai drwy Betws Wyrion Iddon y daeth y bardd beth bynnag – gweler isod).

Canodd Dafydd ap Gwilym i afonydd, ac yntau'n gofyn iddynt beidio â rhwystro ei ffordd at ei gariadon.<sup>111</sup> Canodd Gwilym ap Sefnyn gywydd i Robin ap Gruffudd, perchennog Cochwillan, a'i wraig gyntaf, ac yn y cywydd mae'r bardd yn cwyno am Fenai ac Ogwen yn ei rwystro ef ar ei deithiau o Fôn i lys Robin.<sup>112</sup> Cerddi gwahanol braidd yw'r rhain i gywydd Ieuan. Anffawd debyg i Ieuan a gafodd Siams Dwinn, fodd bynnag, wrth iddo groesi Trannon ym Maldwyn.<sup>113</sup>

Yn y cywydd dan sylw, cyfeiria Ieuan at ei noddwr fel *dyn* (ll. 4) ac fel *haul* (*haul ... y Penrhyn*, ll. 5 – 6; *At yr haul ...*, ll. 67), eithr nid yw Ieuan nac yn enwi'r noddwr, nac yn awgrymu pwy oedd ychwaith. Fodd bynnag, gwyddys iddo ganu cywydd ar achlysur codi (neu helaethu) llys y Penrhyn oddeutu 1420 (gweler cywydd 4 isod, *Er hyn aros yr hanner*). Yn y cywydd hwnnw, cyfeiria'r bardd at Gwilym ap Gruffudd fel *haul* (ll. 4.15), ac yn fwy na thebyg efe oedd gwrthrych arfaethedig y daith seithug (neu fel arall, ei fab Wiliam 'Fychan' ap Gwilym).<sup>114</sup> Y mae delwedd y noddwr fel cariad a ddefnyddir yn llinellau 1 a 4 yn un gyfarwydd yng ngwaith y cywyddwyr,<sup>115</sup> ond wrth reswm nid yw Ieuan yn datblygu'r trosiad mewn cywydd sydd yn gerdd ddychan i afon yn hytrach na moliant i noddwr.

Ceir trafodaeth ddiddorol ar y cywydd hwn, gan gynnwys fersiwn o'r gerdd (a seiliwyd ar lawysgrif B uchod) gan Dafydd Huw Evans, yn ei astudiaeth

---

<sup>109</sup> Cyf. AO: SH 79149 56698.

<sup>110</sup> Gweler, er enghraifft, The Royal Commission on Ancient and Historical Monuments in Wales and Monmouthshire, *An Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire Vol 1: East* (HMSO, 1956), t. 20.

<sup>111</sup> Gweler, er enghraifft, gwefan Dafydd ap Gwilym ([www.dafyddapgwilym.net](http://www.dafyddapgwilym.net)), cerddi 51 a 129, a'r nodiadau cyfatebol; GDG, tt. 194 – 6 a 502.

<sup>112</sup> Gweler erthygl diddorol yr athro Gruffydd Aled Williams (Williams, Gruffydd Aled, 'Cywydd Gwilym ap Sefnyn i Afon Ogwen ac Afon Menai', *Duned* 3 (1997), 83 – 95).

<sup>113</sup> Ceir golygiad o gywydd Siams Dwinn, gyda thrafodaeth ddiddorol ynghylch cerddi'r beirdd i afonydd, yn Evans, Dafydd Huw, *Astudiaeth o fywyd a gwaith Siâms Dwinn (c. 1570 – c. 1660), cywyddwr o Fetws Cedewain yn Sir Drefaldwyn* (2 gyfrol, Gwasg E. Mellen, 2005), 1, tt. 16 – 63.

<sup>114</sup> Am fwy o fanylion ynghylch Gwilym ap Gruffudd, gweler y nodiadau ar gyfer cerdd 4 isod.

<sup>115</sup> Gweler, er enghraifft, moliant Dafydd ap Gwilym i Ifor Hael ([www.dafyddapgwilym.net](http://www.dafyddapgwilym.net), cerdd 14 a GDG, cerdd 8, tt. 21 - 23 a 441 – 2); moliant Guto'r Glyn i Hywel ab Ifan Fychan (GGG, cerdd XLIII, tt. 115 – 7, 335 – 6 a [www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net), cerdd 91).

gynhwysfawr o fywyd a gwaith Siâms Dwinn.<sup>116</sup> Yn y gwaith hwnnw, cais yr awdur benderfynnu, ar sail yr hyn a geir yn y cywydd a llwybr tebygol y bardd, ym mha le y syrthiodd ef i'r afon.<sup>117</sup> Er ei bod yn ddichonadwy mai yn rhywle rhwng Betws-y-Coed a Chapel Curig y digwyddodd yr anhap - ac os felly mae Rhaeadr Ewynnol a'r rhaeadr gerllaw Pont Cyfyng yn ymgeiswyr amlwg - erys problemau nad oes modd eu datrys:

- a. Ni ellir cymryd yn ganiataol mai o gyfeiriad Edeirnon yr oedd Ieuan yn teithio.
- b. Er nad oedd y pontydd cyfarwydd dros Lugwy yn bodoli pan aeth Ieuan ar ei daith, diau y buasai croesfannau lleol o ryw fath ar gael fel arfer.<sup>118</sup> Ar y llaw arall, o ystyried y modd y disgrifir yr afon gan y bardd, gellir yn hawdd ddychmygu sefyllfa lle'r oedd Llugwy wedi gorlifo pan geisiodd ei chroesi, gyda'r croesfannau arferol o dan dŵr, ac yntau'n gorfod croesi mewn lle arall, mwy peryglus.

Dosberthir y gynghanedd fel a ganlyn:-

	<b>cyng. groes</b>	<b>cyng. draws</b>	<b>cyng. sain</b>	<b>cyng. lusg</b>	<b>cyfanswm</b>
<b>llinellau</b>	13	5	39	11	68
<b>canrannau</b>	19.12	7.35	57.35	16.18	100

Y mae amlder y gynghanedd sain, gan gynnwys y sain drosgl (llinellau 40, 41) a'r sain gadwynog (llinellau 12, 46, 54 a 58), yn debygach i waith bardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>119</sup> Felly hefyd amlder y gynghanedd lusg, a'r dull sangiadol (fel yn achos llinellau 3 – 6, er enghraifft).<sup>120</sup>

1. **Curiais** 'nychais', 'dihoenais' yw'r ystyr yma.
3. **Cerddais** Sylwer mai cerdded yn hytrach na marchogaeth yr oedd Ieuan yn ôl y gerdd. Nid hawdd oedd teithio yng Nghymru'r Oesoedd Canol, fel

<sup>116</sup> Evans, Dafydd Huw, *op. cit.*, tt. 103 – 7.

<sup>117</sup> Evans, Dafydd Huw, *op. cit.*, tt. 103 – 4.

<sup>118</sup> Diddorol yn y cyswllt hwn yw'r hyn a ddywedir yn HPF, cyf. **IV**, t. 272: '*On the Right bank of the Llugwy, in the parish of Capel Curig, below the stepping-stones, are the ruins of an old monastery, on a meadow belonging to a farm called Bryn Gyfeiliau.*'

<sup>119</sup> Gweler, er enghraifft, GDG, xcvi – xcvihi; hefyd Rolant, Eurys, 'Arddull y Cywydd', *Ysgrifau Beirniadol*, **II** (1966), 39 – 46.

<sup>120</sup> GDG, xci – xciii; Parry, T., 'Datblygiad y Cywydd', *Trans. Hon. Soc. Cymmrodorion* (1939), 225 – 227.

y mae sawl hanesydd wedi nodi. Buasai taith gerdded ar lwybrau caregog, weithiau serth, wedi bod yn araf a pheryglus, yn enwedig yn y gaeaf. Gweler, er enghraifft, Jenkins, Geraint H., *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar* (Caerdydd, 1983), tt. 2 – 4.

5. **Urddasdraul, ddisdrych** Dilynir enghreifftiau A a B yma.
11. **o'r dref i'r tefyrn** Nid yw Ieuan yn manylu ynghylch y dref a'r tefyrn (h.y. tafarnau), ond o ystyried hynt Llugwy, mae'n bosibl mai naill ai hen drefgordd Capel Curig neu Fetws Wyrion Iddon (sef Betws-y-Coed heddiw) oedd y dref dan sylw. Nid yw'r bardd yn manylu ynghylch y tefyrn, ond buasai tafarn yn bwysig iawn i deithiwr, ac efallai fod yn rhaid i Ieuan groesi'r afon i gyrraedd y dafarn ar ôl diwrnod o gerdded.
- 13 **eigryd** Digwydd y gair hefyd yn ll. 55. Nis ceir yn GPC. O ystyried cyd-destun y gair, ac yn enwedig ll. 16, mae'n debyg mai *aig* + *rhyd* sydd yma (aig>eig wrth ychwanegu rhyd>ryd), sef 'rhyd ac iddi haig o bysgod', 'rhyd yn llawn o bysgod'.
13. **rhygri** Awgrymir mai *rhwy>rhy* + *cri* sydd yma, sef 'gwaedd fawr'.
15. Ceir y gwrthrych *terfysg* heb dreigladd yn A a B, ond y ffurf dreigledig *derfysg* a geir yn C. Dilyn arfer C. C. y mae'r copïwyr yn A a B (gw. TC, t. 186), ond y mae copïwr C (dafydd Jones o Drefriw) yn dilyn y confensiwn cyfoes.
19. **Hyd gal** 'cyn belled â' yw ystyr *Hyd* yma. Ynghylch y treigladd sydd yn ei ddilyn, gw. TC, t. 393 – 4.
21. **dylan** Mae ystyr yr enw cyffredin 'dylan' (môr, eigion, ton: gweler GPC, t. 1135) yn gwbl addas yn y cyd-destun hwn, er na fyddai'r enw priodol Dylan, sef Dylan Ail Ton o bedwaredd gainc y Mabinogi, yn anaddas ychwaith: gallai *Taran*, *Dylan yn dolef* gyfeirio at gri Dylan adeg ei eni yn fab i Aranrhod, yn ogystal ag at natur y môr a gafodd ar adeg ei fedyddio. Ceir trafodaeth lawn ar Dylan Ail Ton gan gynnwys marwnad iddo o Lyfr Taliesin, gan Marged Haycock (Haycock, Marged, 'Dylan Ail Ton', *Ysgrifau Beirniadol*, XIII (1985), 26 – 38; Haycock, Marged, *Legendary Poems from the Book of Taliesin* (CMCS, Aberystwyth, 2007), tt. 478 – 87).
22. **craig gref** *craig cref* yw cynnig copïwyr A a B, gan amlygu'r caledu a geir yn y sain a greir gan yr 'g' olaf 'craig' a'r 'g' gychwynnol 'gref'. Ynghylch ffurf gysefin gwrthrych 'craig' y ferf 'rhwygodd', gw. TC, t. 218.



23. **rhyferf** Ni cheir y gair hwn yn GPC. Cynigir yn betrus mai *rhy* + *berf*, a 'berf' yn ffurf ar 'berw' (sef 'terfysgldd', gweler GPC, t. 275) sydd yma.
25. **eiry** *eira* sydd gan y tri chopiwr, ond fe'i diwygir i *eiry* yma er mwyn cael llinell saith sill.
30. **Esgud genlli** Dyma fersiwn copi A, ond *genthi* (sef 'ganddi')sydd gan B ac C, a'r ddau fersiwn yn weddus yn y cyd-destun.
33. **ffeir yr eira** Dyma sydd gan bob copi. Credir mai 'ffair yr eira' a olygir yma, a'r ystyr 'cyfnewid' i 'ffair' (gw. GPC, t. 1275), yn hytrach na ffeir 'tân, tân gwyllt' (gw. GPC, t. 1281). Y mae'r eira ar lethrau Carnedd Llywelyn wedi meirioli, a Llugwy'n orlawn o'r herwydd. Bydd y dŵr yn cyrraedd y môr, ac yn y man dod yn ôl i lethrau'r mynydd fel eira eto. Dyma *Sercel hen* y bardd, sef y cylchdro dŵr.
46. **gowared llyn** Ffynnon Llugwy, tarddiad yr afon, yw'r llyn dan sylw.
48. **Traws glaig** 'Trochiad llym' yw'r ystyr yma, mae'n debyg; gw. GPC, t. 496, o dan *cleig(i)af: cleig(i)o*.
49. **mydryddyn** = *mydrydd* + *dyn* = 'prydydd, bardd'. Gweler GPC, t. 2525, o dan *mydrwr, mydriwr, mydrydd* a *mydryddwr*. Ymddengys fod *mydruddyn* (sef 'mwydyn y cefn') yn esboniad arall. Cynghanedd draws ac iddi 'r berfeddgoll' a geir yn y llinell hon: gweler, er enghraifft, Eurys I. Rowlands, *Poems of the Cywyddwyr* (Dublin, 1976), t. xxxv.
50. Ynghylch ffurf gysefin 'graean' yn y llinell hon, gweler TC, tt. 186, 207.
56. **y ddwydref** Awgryma Dafydd Huw Evans (Evans, Dafydd Huw, *op. cit.*, tt.103 – 4 a tt. 195 – 6, n. 130) mai dwy drefgordd a olygir yma. Fodd bynnag, roedd y bardd wedi rhoi ei fryd ar y Penrhyn, ac o ystyried cyd-destun y geiriau (*Rhois fy mryd ... rhwng y ddwydref*), gellir cynnig dehongliad amgen, sef mai Caernarfon a Chonwy yw'r ddwy dref, a'r Penrhyn yntau rhyngddynt. Yr oedd gan y ddwy dref gastell, ac yn wir, yn ei gywydd ef i'r Penrhyn, mae Rhys Goch Eryri yn cyffelybu neuadd y llys i gastell Caernarfon (gweler GRhGE, t. 157: yma mae Dylan Foster Evans hefyd yn tynnu sylw at debygrwydd rhai o ffenestri'r hen llys i ffenestri castell Caernarfon).
58. **llath mangnel** = braich hyblyg mangnel, sef peiriant hyrddio cerrig canoloesol. Gweler y cyfeiriad yn GPC,t. 2100.

### 3

Cywydd moliant i Ddafydd ap Siencyn (Siancyn) ap Dafydd ab y Crach, uchelwr a bardd o Nant Conwy yw hwn. Deugain o linellau sydd i'r cywydd yn ôl A, B, C, E, G ac I, a'r enghreifftiau hyn yn gyson o ran trefn a chynnwys y llinellau (ac eithrio I, lle gosodir llinellau 14 a 15 yn y drefn wrthol). Dyma fersiwn lleiaf y cywydd. Digwydd y llinellau hyn, yn yr un drefn, yn D a F, ond bod cwpled ychwanegol ar ôl cwpled cyntaf y fersiwn lleiaf, sef *Dafydd ir trefydd rhovst tro | ap Sieincin ddewr heb sinkio* yn ôl D, *dafydd ir trefydd bob tro | ap sieinkin a heb sinc[io]* yn ôl F.<sup>121</sup> Er iddo ddefnyddio F yn ei olygiadau yn *Y Cymmrodor*<sup>122</sup> ac yn *Llên Cymru*,<sup>123</sup> penderfynodd T. Gwynn Jones nad oedd am gynnwys y cwpled hwn. Efallai'r ffaith fod y cwpled yn ychwanegiad ar ochr dde'r dudalen (er iddo fod, yr ymddengys, yn llaw copiwr gweddill y cywydd) a barodd i'r Athro ei anwybyddu, a hynny er bod y cwpled yn rhoi enw i wrthrych y moli.

Yn achos H a J, ceir ychwanegiad o ddau gwpled a hanner (yr ail linell yn y cwpled cyntaf yn amlwg ar goll) ar ôl cwpled cyntaf y fersiwn lleiaf, ychwanegiad arall o bum cwpled ar ôl ail gwpled y fersiwn lleiaf, ac ychwanegiad arall o ddau gwpled ar ôl y pymthegfed cwpled yn y fersiwn lleiaf. Hepgorir unfed cwpled ar bymtheg y fersiwn lleiaf (sef *Dafydd ydwyf fe'i dd'wedir | Mai dewr wŷd ail Medrod hir*) yn y ddwy lawysgrif hyn. Fodd bynnag, ymddengys fod llinell gyntaf y cwpled hwn yn cyfateb i linell gyntaf yr ychwanegiad cyntaf (ar wahân i wahaniaethau orgraffyddol), ffaith sydd yn awgrymu'n gryf mai '*Mai dewr wŷd ail Medrod hir*' yw llinell goll yr ychwanegiad hwn. Yn amlwg, mae J yn gopi (gan Owain Myfyr) o H (BL Add 14908, 1). Copi gan Owain Myfyr a Hugh Maurice yw I, sy'n dilyn C a G, mwy neu lai.

William Owen Pughe yw cofnodwr y farddoniaeth yn BL Add 14908. Ar dudalen 1 dywed 'Y cywyddau canlynol sy' o'r un llyfr a'r rhai sy'n diwedd T.D. 94'. Ar ochr dde tudalen 82 (lle dechreua ar gywydd i'r Iesu) dywed Pughe fel a ganlyn:-

Y chwe chywydd canlynol a adsgrifenisais i o hen gwraich sal o eiddo L.  
Morris, yr hwn a fwr[ ]d ymaith gan nad oedd ynddo ond y rhai hyn heb

<sup>121</sup> Ynghylch y gair benthyg 'sincio', gw. GPC, t. 3283; GDBMW, tt. 29 (5.35 – 6), 59; CRhC, t. 81 (25.37 – 8).

<sup>122</sup> Jones, T. Gwynn, 'Cultural Bases: A Study of the Tudor Period in Wales', *Y Cymmrodor*, 31 (1921), 177 – 8.

<sup>123</sup> Jones, T. Gwynn, *Llên Cymru: detholiad ...* (4 cyfrol, Caernarfon ac Aberystwyth, 1921 – 27), 1, t. 53.

gopiau ohonynt mewn ysgriflyfrau eraill yn y Gell yn perthyn i'r Ysgol. Mae'r cywyddau hyn wedi eu ysgrifenu yn union fel yr oeddynt yn yr hen lyfr yr oedd wedi' 'sgrifennu, mae'n debyg ogylch diwedd teyrnasiad Elizabeth – W. Owen 1788.

Y cywyddau eraill a 'sgrifenis yn y llyfr hwn a gymmerais allan o gwrrach arall o'r un ddull a threfn – W O.

Gwelir mai y frawddeg olaf sy'n perthnasol i'r cywydd dan sylw (a dylid nodi nad yw Pughe yn dweud mai o eiddo L. Morris y daeth yr ail gwrrach). Yn bur anffodus, nid yw'r ail gwrrach wedi goroesi, ac ni wyddys pa beth yn union oedd Pughe yn golygu wrth iddo ddefnyddio'r geiriau 'o'r un ddull a threfn'. Ar ben hynny, erbyn 1788 yr oedd Pughe mewn cysylltiad ag Iolo Morganwg.<sup>124</sup> Fodd bynnag, o gymryd yn betrus bod yr ail gwrrach yn perthyn i'r un cyfnod â'r cyntaf, y mae enghraifft H yn un gyda'r hynaf, ac yn cynnwys ach gwrthrych y canu, rhywbeth a ddisgwyllir mewn cywydd moliant arferol.<sup>125</sup> O ystyried y ffactorau hyn, penderfynwyd cynnwys y cwpledi ychwanegol a geir yn H yn y golygiad a gyflwynir yma. (Ymddengys fod copïau eraill o'r cywydd hwn wedi mynd ar goll: gweler yr olnod yn D a throednodyn 75).

Yn ôl HPF, cyf. VI, t. 221, yr oedd Margred ferch Rhys Gethin (sef brawd Gruffudd Leiaf) yn wraig i Siencyn ap Dafydd ab y Crach, tad Dafydd, ac ategir hyn gan Thomas Roberts yn YBA,<sup>126a</sup> J. Gwynfor Jones yn HGFM, tt. 127 - 9. Ar y llaw arall, yn ôl Peter Bartrum,<sup>127</sup> bu gan Siencyn ap Dafydd ddwy wraig: Nest ferch Rhys Gethin oedd y gyntaf, a Margred ferch Iorwerth o lwyth Meirion Goch oedd yr ail. Ymddengys nad oedd Peter Bartrum yn sicr pa un oedd mam Dafydd ap Siencyn, ond o ystyried y dystiolaeth, dichon fod Ieuan ap Gruffudd Leiaf yn gefnder i fam Dafydd. Yn wir, gellir ystyried cyfeiriadau'r bardd at Owain Gwynedd a Cynan<sup>128</sup> yn llinell 16, Iorwerth Drwyndwn<sup>129</sup> yn llinell 14 a Gruffydd<sup>130</sup> yn llinell

---

<sup>124</sup> Gweler, er enghraifft, Carr, Glenda, *William Owen Pughe* (Caerdydd, 1983), tt. 24 – 6, ac yn arbennig t. 25.

<sup>125</sup> Ar y llaw arall, gellir dadlau'n hyderus nad cywydd moliant arferol yw hwn, a Dafydd ap Siencyn ar herw yng nghoedwigoedd Carreg y Gwalch ar y pryd. Anodd credu nad oedd T. Gwynn Jones yn gwybod am waith Pughe yn BL Add 14908, ac eto dewisodd ef ei anwybyddu yn y ddau olygiad ganddo o'r cywydd hwn. Hyd yn oed heb yr achres yn llinellau 5 – 20, buasai cynulleidfa gyfoes wedi deall i'r dim at bwy yr oedd y bardd yn cyfeirio.

<sup>126</sup> Gweler <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-DAFY-APS-1450.html>.

<sup>127</sup> WG1, 'Marchudd' 24.

<sup>128</sup> WG1, 'Gruffudd ap Cynan' 3 ac 1.

<sup>129</sup> WG1, 'Gruffudd ap Cynan' 4.

12 fel cadarnhad mai merch Rhys Gethin oedd mam Dafydd. Yr oedd Morfudd ferch Hywel yn nain i Dafydd ar ochr ei fam, a Morfudd hithau yn ferch i Hywel ap Meurig Fychan o Nannau.<sup>131</sup> Cyfeiria'r bardd at y cysylltiad teuluol hwn yn llinellau 17 – 20.

Ceir amryw hanesion diddorol ynghych Dafydd ap Siencyn yn HGFM, HPF a GTP:-

- i. Bu'n arweinydd y Lancastriaid yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau, ac ar ôl iddo gael ei ddedfrydu'n euog o deyrnfradwriaeth, bu ar herw yn y coedwigoedd a oedd yn amgylchynu Carreg y Gwalch uwchlaw Llanrwst. Dyna gyfnod cyfansoddi'r cywydd hwn, fel y tystia llinellau 7 – 8.
- ii. Daeth Dafydd ap Siencyn a Rhys ab Ieuan ap Llywelyn Chwith '*â deuddeg o wŷr i ddadleudy Dinbych a lladd Dicwn Pemrtwn y pen ustus*'.<sup>132</sup>
- iii. Gydag Ieuan ap Robert ap Meredydd o Gesail Gyfarch, llosgodd dref Dinbych ac anrheithio'r gymdogaeth.<sup>133</sup>
- iv. Llwyddodd i rwystro'r lluoedd Iorcaidd rhag mynd i Nanconwy hyd 1468, pan ddaeth Richard Herbert â byddin gref yno, ac anrheithio'r ardal, gan gynnwys Llanrwst.<sup>134</sup>
- v. Yn ôl Syr Thomas Wiliems o Drefriw, yr oedd Dafydd '*yn Gwnstabl Caer Aberconwy pan fu farw – “wedi lladd ohono ef a'i wŷr ei chonstabl hi a'i gwŷr”*'.<sup>135</sup>

Gweler hefyd E. A. Rees, *Welsh Outlaws and Bandits* (Caterwen Press, 2001), tt. 87 – 90.

Canodd Tudur Penllyn hefyd gywydd i Dafydd,<sup>136</sup> ac yn llinell 34 y mae'r bardd yn cadarnhau bod Rhys Gethin (brawd Gruffudd Leiaf) yn daid i wrthrych ei

---

<sup>130</sup> Gruffudd ap Dafydd Goch, mae'n debyg, neu Gruffudd Fychan, ei fab. Gweler WG1, 'Gruffudd ap Cynan' 6.

<sup>131</sup> Gweler WG1, 'Bleddyn ap Cynfyn' 50.

<sup>132</sup> GTP, t. 100.

<sup>133</sup> HGFM, t. 33; HPF, cyf IV, t.273; GTP, t. 100.

<sup>134</sup> HGFM, t. 51; HPF, cyf. IV, t. 273 - 4; GTP, t. 100; Evans, H. T., *Wales and the Wars of the Roses* (Sutton, 1998), t. 100.

<sup>135</sup> GTP, t. 100. Gweler hefyd *Y Brython* 3, rhif 17 (Mawrth 1860), tt. 100 – 101, er y dylid nodi cyfraniad Iolo Morgannwg at yr erthygl hon.

<sup>136</sup> GTP, tt. 3 – 4, 100 – 101.

gerdd. Cyhoeddwyd fersiynau o gywydd Tudur Penllyn ac Ieuan ap Gruffudd Leiaf gan T. Gwynn Jones yn y *Cymmrodor* ac yn *Llên Cymru*.<sup>137</sup> Yr oedd Dafydd ei hun yn fardd. Ceir wyth o gerddi a briodolwyd iddo ef yn unig yn MCF, a thair arall â'i enw ef wrthynt.

Dosberthir y gynghanedd fel a ganlyn:-

	<b>cyng. groes</b>	<b>cyng. draws</b>	<b>cyng. sain</b>	<b>cyng. lusg</b>	<b>cyfanswm</b>
<b>llinellau</b>	40	11	5	2	58
<b>canrannau</b>	68.97	18.97	8.62	3.45	100

Y mae'r dosbarthiad hwn yn gwbl gyson â gwaith bardd o'r bymthegfed ganrif.

4. **Medrod** Yn HRB, portreadwyd Medrod fel nai Arthur, ac yn y pen draw treisiwr Gwenhwyfar a nemesis Arthur (gweler BD, tt. 182 – 5). Ar y llaw arall, cwbl wahanol i gymeriad Sieffre o Fynwy yw'r marchog cwrtais a dewr hwn yn ôl ffynonellau cynharach (gweler, er enghraifft, WCD, tt. 461 – 2; TYP<sup>3</sup>, tt. 445 – 6). Y marchog delfrydol a fwriedir yma, yn ddiau.
7. **Nudd** sef Nudd Hael ap Senyllt ap Cedig o'r Hen Ogledd, mae'n debyg. Gweler WCD, t. 509; TYP<sup>3</sup>, tt. 464 – 6.
9. **Goruchafieth** Odl llafar sy'n cynnal y gynghanedd lusg.
 

**Rhys Gethin** Cyfeiriad at ei daid ar ochr ei fam, mae'n debyg (neu efallai at gadfridog Owain Glyndŵr). Mae'n bosibl mai cadfridog Owain Glyndŵr oedd y taid. Ceir trafodaeth fanwl a diddorol ar hyn gan Cledwyn Fychan, *op. cit.*, tt. 21 – 31, er y dylid pwysleisio nad yw'r awdur hwnnw'n credu mai Rhys Gethin o Nanconwy oedd cadfridog Owain Glyndŵr.
13. n berfeddgoll.
15. n wreiddgoll.
19. n ganolgoll.
22. **Rhos** Un o gantrefi Gwynedd Is Conwy, ac afon Conwy yn ffin orllewinol iddo. Lleolir Llanrwst ar lan ddwyreiniol Conwy yn Rhos, a Charreg y

<sup>137</sup> T. Gwynn Jones, , 'Cultural Bases: A Study of the Tudor Period in Wales', *Y Cymmrodor*, 31 (1921), 177 – 181; Jones, T. Gwynn, *Llên Cymru: detholiad o ryddiaith a phrydyddiaeth at wasaneth myfyrwyr gwedd ac ysgol* (4 rhan, Caernarfon ac Aberystwyth, 1921 – 27), rhan 1, tt. 51 – 54.

Gwalch yn agos at lan orllewinol Conwy yn Nanconwy, cantref yng Ngwynedd Uwch Conwy. Gweler, er enghraifft, Rees, William, *An Historical Atlas of Wales from Early to Modern Times* (Cardiff, 1951), plât 28.

24. **Adar y greim** Cyfieithiad llac (a dirmygus) 'Birds of crime', ymadrodd a ddefnyddiwyd gan warchodlu castell Conwy, yn ddiau, wrth gyfeirio at yr herwyr a lochesai yng nghoedwigoedd Nanconwy (gweler T. Gwynn Jones, 'Cultural Bases', *Y Cymmrodor*, 31 (1921), 163). Y llinell hon yw'r unig enghraifft o ddefnyddio'r gair 'creim' a roddir yn GPC (t. 590).

**tir Grwst** y gymdogaeth a gysylltir â Sant Grwst, hynny yw, ardal Llanrwst.

26. **gwydrin** tŷ gwydr ac iddo ddeng ffenestr a thrigain (a chymaint â hynny o ddrysau hefyd), a gysylltid â Myrddin Wyllt a'i gariad yn *Vita Merlini* Sieffre o Fynwy (Gweler, er enghraifft, Jarman, A. O. H., 'The Merlin Legend and Welsh Prophecy', yn Bromwich, R., Jarman, A. O. H., Roberts, B. F., *The Arthur of the Welsh* (Cardiff 1991), tt. 132 – 4).

Yn ei erthygl yn y *Cymmrodor* mae T. Gwynn Jones yn cynnig *fal gwydrin dŷ Ferddin fydd* i'r llinell hon, ac yn Llên Cymru y mae ef yn cynnig *fal tŷ gwydrin Ferddin fydd*. Ar y llaw arall, mae pob llawysgrif ac eithrio Wy 1, yn cynnig y llinell *fal gwydrin tŷ ferddin fydd*. Cynigir *fal gwydrin, tŷ Ferddin fydd* yma. Ynghylch treiglo *Merddin* yn feddal, gweler TC, t. 109.

28. **gro a marian** *gro am arian* yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau. Mae'r ddau fersiwn yr un mor dderbyniol o ran cyd-destun.

31. **caregog lan** glan garegog, a glan yn golygu 'llethr'.

32. **côr** 'plethiad', neu 'ffin' yw'r ystyr yma: gw. GPC, 555 (côr<sup>3</sup>).

33. **gorfainc** Yr enghraifft gynharaf o'r gair a geir yn GPC yw o waith Dafydd Trefor (gweler GPC, t. 1477; CYSDT, 9.37).

34. n ganolgoll. Dichon i Ddafydd ap Siencyn a'i filwyr wasanaethu yn Ffrainc.

38. n ganolgoll.

39. **Cwlen** Sef Cologne, dinas bwysig i'r pererin oherwydd creirfa y Tri Brenin, sydd yn y Gadeirlan er 1164. Gweler Hartwell Jones, G., *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (Hon. Soc. Cymmrodorion, 1912), tt. 72 a 308, troednodyn 6.

40. **o ddail** Gair cymharol newydd yw *dai* (sef 'Duw', Gw. GPC, 879), yr hyn a geir yn y mwyafrif o'r llawysgrifau. Buasai *o ddain* (< *eddein* 'dieithr, anghynefin, astron, didoledig') yn bosibiliad arall (gweler GPC, t. 880, o dan *dain*).
46. n wreiddgoll.
49. n ganolgoll.
53. **wisg dur o Wasgwyn** Awgrym arall fod Dafydd ap Siencyn wedi gwasanaethu yn Ffrainc. Collwyd Gwasgwyn ym 1451.
54. **meudwy** amrywiad trosiadol amlwg ar ystyr arferol y gair, sef rhywun sy'n byw o'r neilltu mewn unigedd er mwyn ei grefydd. Gweler GPC, t. 2448.
55. **tor** ail berson unigol modd gorchmynnol y ferf *torri*.  
**trywyr** tri o wŷr. O ystyried y cyd-destun, mae'n debyg mai'r Iorciaid yw 'llwyth y trywyr', a'r 'wayw' yn cyfeirio at eu gweithredoedd militaraid yng Nghymru. Gwyddys i Wiliam a Richard Herbert (a laddwyd ym 1469 ar ôl brwydr Banbury) a'r trydydd brawd Thomas Herbert frwydro yng Ngogledd Cymru, ac efallai mai hwy yw'r 'trywyr' dan sylw.
56. **Llyr** Llyr Llediaith neu Llyr Lluyddog, mae'n debyg. Gweler WCD, tt. 421 – 2; TYP3, tt. 418 – 21.

## 4

Cywydd moliant i'r Penrhyn a'i berchennog, sef Gwilym ap Gruffudd (a fu farw 1431), yw hwn. Yn ôl Statud Gruffudd ap Cynan, caniateid i fardd glera ar achlysur codi llys,<sup>138</sup> ac yn ei erthygl ar y canu i Gwilym ap Gruffudd,<sup>139</sup> mae'r Athro D. J. Bowen yn awgrymu y gallasai'r gerdd hon fod wedi cael ei datgan ar achlysur dathlu codi (neu estyn) y Penrhyn, sef yr un pryd ag y canodd Rhys Goch Eryri i'r llys hwnnw.<sup>140</sup> Gwilym ap Gruffudd ap Heilin ap Tudur ab Ednyfed Fychan, ei daid ar ochr ei dad, a ddechreuodd adeiladu'r stad, trwy ei briodas ag Efa ferch Gruffydd ap Tudur ap Madog ab Iarddur.<sup>141</sup> Dylid nodi, fodd bynnag, mai gwraig

<sup>138</sup> Gweler troednodyn 89 uchod.

<sup>139</sup> Bowen, D. J., 'Y Canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', *Duned*, 8 (2002), 59 – 78.

<sup>140</sup> Gweler Bowen, D. J., *op. cit.*, 62 - 71; GRhGE, tt. 49 – 54 a 157 – 167.

<sup>141</sup> Gweler er enghraifft ByCy, Atodiad, t. 95.

Gruffudd ap Heilin ap Tudur oedd Efa yn ôl Bartrum.<sup>142</sup> Ceir trafodaeth ar y dryswch hwn yn YBA.<sup>143</sup> Bu Ednyfed Fychan a Tudur ap Madog ill dau yn ddisteiniad i dywysogion Gwynedd ac yn berchnogion ar diroedd helaeth, a Gwilym ap Gruffudd ap Heilin yn elwa o ganlyniad. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, yr oedd ei wŷr Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym eisoes yn berchennog ar stad barchus.<sup>144</sup> Ymddengys iddo ymuno ag Owain Glyndŵr yn y gwrthryfel, ond dirgelwch hyd heddiw yw manylion ei gyfranogiad, ac ymostyngodd ef a'i frodyr i'r goron ym 1405.<sup>145</sup> Erbyn diwedd 1407, yr oedd yn berchen ar diroedd fforffededig saith ar hugain o wrthryfelwyr eraill.<sup>146</sup> Yr oedd Gruffudd ap Gwilym (sef tad y Gwilym ap Gruffudd dan sylw) wedi marw ym 1405, ac o ganlyniad etifeddodd Gwilym diroedd ym Môn a Sir Gaernarfon.<sup>147</sup> Trwy ei fam, etifeddodd ran o afael Goronwy ab Ednyfed yn nhrefgordd Cororion, Llandygái.<sup>148</sup> Trwy ei wraig gyntaf, Morfudd ferch Goronwy ap Tudur o Benmynydd, cafodd weddill gafael Goronwy ab Ednyfed yn nhrefgordd Cororion, yn ogystal â thiroedd ym Môn a Nanconwy. Gwyddys i Gwilym ap Gruffudd ddechrau prynu tiroedd yng Nghororion ym 1415, ac iddo farw yn gynnar yn y flwyddyn 1431,<sup>149</sup> ac yn ei draethawd M.A.<sup>150</sup> mae J. R. Jones yn awgrymu iddo ymsefydlu yn y Penrhyn oddeutu'r flwyddyn 1420. Codwyd y llys ar safle annedd hŷn yn ôl y dystiolaeth archeolegol.<sup>151</sup>

Ar ddechrau'r cywydd (llinellau 1-8) y mae Ieuan yn ceryddu'r glêr oherwydd iddynt cwyno am rywbeth yn ymwneud â'r *hanner* yn y llinell gyntaf. Sonia D. J. Bowen am linell agoriadol ryfedd y gerdd.<sup>152</sup> Ymddengys fod dechrau'r cywydd ar goll (ac o ystyried nad oes ond pedwar copi o'r cywydd hwn ar ôl yn y llawysgrifau, a'r pedwar yn debyg iawn i'w gilydd, mae hynny'n bosibl). Fodd bynnag, credir

---

<sup>142</sup> Gweler er enghraifft

<http://cadair.aber.ac.uk/dspace/bitstream/handle/2160/5587/iarddur%20.png?sequence=1> (ymgyngorwyd 09/07/2013).

<sup>143</sup> <http://yba.llgc.org.uk/cy/c3-GWIL-APG-1431.html>, ymgynghorwyd 09/07/2013 ).

<sup>144</sup> Carr, A. D., 'Gwilym ap Gruffudd and the rise of the Penrhyn Estate', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, **15** (Mehefin 1990), 1 – 6.

<sup>145</sup> *Ibid.*, 6 – 8.

<sup>146</sup> *Ibid.*, 9.

<sup>147</sup> Fel a wnaeth ei frawd Robin, perchennog Cochwillan. Gweler Bowen, D. J., *op. cit.*, 60.

<sup>148</sup> Bowen D. J., *op. cit.*, 60.

<sup>149</sup> Carr, A. D., 'Gwilym ap Gruffudd and the rise of the Penrhyn Estate', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, **15** (Mehefin 1990), 17; Bowen, D. J., *op. cit.*, 68.

<sup>150</sup> Jones, J. R., 'The development of the Penrhyn estate to 1431' (traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1955), 217.

<sup>151</sup> RCAHMWM (Caernarvonshire, iii), tt. 123 – 4.

<sup>152</sup> Bowen, D. J., *op. cit.*, t. 75, troednodyn 36.



yma y geill yr ymryson rhwng Ieuan ap Gruffudd Leiaf a Guto'r Glyn esbonio'r llinell.<sup>153</sup> Yn englyn cyntaf ei ymateb i Ieuan yn yr ymryson rhyngddynt, y mae Guto yn ei gyfarch fel *Ifan ddau hanner*, ac yn yr ail englyn mae'n esbonio: mae hanner Ieuan yn hanu o dywysogion, efallai, ond yr hanner arall (hanner ei fam yn ôl rhagymadrodd John Jones Gellilyfdy yn LIGC 3039B, 282) yn hanu o gryddion a thurnorion. Awgrymir yma bod yr *hanner* yn y llinell *Er hyn aros yr hanner* yn cyfeirio at ran fonheddig ach Ieuan, a bod llinell agoriadol y cywydd dan sylw megis ymateb i'r cyhuddiad ei fod ef yn *Ifan ddau hanner*, ac yntau yn ei dro yn mynnu tynnu sylw yn ôl at yr hanner tywysogaidd.<sup>154</sup> Yr oedd Ieuan yn amlwg yn fardd aeddfed erbyn iddo ganu'r cywydd dan sylw; yn ddiau buasai'r berthynas â thywysogion yr oedd Ieuan yn ymffrostio ynddi yn hysbys i feirdd eraill, rhai ohonynt yn gymeriadau yr oedd yn ddewisach ganddynt ddychanu hanner arall ach Ieuan. Felly, gellir dadlau'n hyderus fod y beirdd yn adnabod Ieuan fel *Ifan ddau hanner* cyn cyfnod y cywydd hwn, a lunir ar ffurf ymateb pencerdd i feirdd israddol, yn ôl traddodiad y cyff clêr.<sup>155</sup>

Yn llinellau 9 – 20 y mae'r bardd yn dyfalu'r llys, a'r cymeriad a geir yn llinellau 9 – 18 (rhai ohonynt yn gymeriadau cynganeddol) a'r gynghanedd sain ddwbl yn llinell 19 yn nodedig. Disgrifio cyffro'r ymryson a geir yn llinellau 21 – 28, a chymeriad arall yn nodwedd y llinellau hyn. Yn llinellau 29 – 38 mae Ieuan yn canmol Gwilym ap Gruffudd, ac yn llinellau 39 – 44 try ef at wraig Gwilym, Sioned ferch Wiliam Stanlai. Â'r bardd yn ôl at Gwilym yn llinellau 45 – 48, ac wedyn moli'r llys a pherchentyaeth y perchennog hyd at linell 62, cyn gorffen ei gerdd â dwy linell i Gwilym eto. Ceir cymeriad o linell 51 i ddiwedd y cywydd.

Fel y dywedwyd eisoes, gwyddys i Rys Goch Eryri ganu i Gwilym ap Gruffudd ar yr un achlysur; canodd y bardd farwnad iddo hefyd.<sup>156</sup> Er i Wilym ap Sefnyn ganu i Gwilym ap Gruffudd (ac yn wir, ymddengys i'r bardd wasanaethu teulu'r Penrhyn), nid oes cerdd ganddo ar achlysur codi'r Penrhyn wedi goroesi.<sup>157</sup>

Dosberthir y gynghanedd yn y cywydd hwn fel a ganlyn:-

---

<sup>153</sup> Eithr dylid cofio, o'r hyn a wyddys am Guto'r Glyn hyd yma, sef iddo ddechrau prydyddu yn y 1430'au, nid yw'n bosibl i linellau agoriadol y cywydd hwn gan Ieuan fod yn ymateb i englynion Guto. Gweler y nodiadau ar gerdd 1.

<sup>154</sup> Dylid nodi i Ieuan ddefnyddio ffurf orchmynnol y ferf yn llinell gyntaf y cywydd.

<sup>155</sup> Gweler, er enghraifft, Thomas, 'Astudiaeth Destunol o Statud Gruffudd ap Cynan', t. 93 a'r cyfeiriadau a restrir yno; Hunter, J., 'Cyd-destunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr', *Dwned* 3 (1997), 33 - 52, ac yn enwedig 47 - 48 a 50 - 51.

<sup>156</sup> GRhGE, tt. 55 - 60, 168 - 174.

<sup>157</sup> Bowen, D. J., *art. cit.*, 72 - 5.

	<b>cyngl. groes</b>	<b>cyngl. draws</b>	<b>cyngl. sain</b>	<b>cyngl. lusg</b>	<b>cyfanswm</b>
<b>llinellau</b>	15	11	38	0	64
<b>canrannau</b>	23.44	17.19	59.38	0.00	100

Ceir y gynghanedd sain gadwynog yn llinellau 34, 35, 41 a 51, a'r gynghanedd sain ddwbl yn llinell 19. Fel yn achos cywydd 2 uchod, trawiadol yw canran y gynghanedd sain. Yn wir, ymddengys mai'r cywydd hwn ynghyd â rhif 2 uchod yw gwaith cynharaf y bardd sydd wedi goroesi, a'r ddau yn debyg iawn o ran adeiledd hefyd. Y mae cyd-destun y gerdd hon, sef traddodiad y cyff clêr, yn cadarnhau bod Ieuan ap Gruffudd Leiaf yn bencerdd cydnabyddedig erbyn ugeiniau cynnar y bymthegfed ganrif.

7. Dilynir copi A er mwyn cadw cymeriad y cwpled.
12. **Bort** = bord eb. bwrdd, yn enwedig un wedi ei hulio â bwyd, yn *ffig.* am arlwy o fwyd a diod, lletygarwch, cynhaliaeth; bwrdd y trafodir busnes wrtho. Gweler GPC, t.301.
14. **mynwaur** Ceir *mynwair* eb.g. 'torch' (GPC, t. 2539), ond efallai mai *mynw* e?g. 'Natur, anian, ysbryd' (GPC, t. 2539) ac *aur* sydd yma.
23. baglur = blagur; gweler GPC, t. 283.
28. **Enaid** Ymddengys mai ystyr ffigurol y gair a geir yn y llinell hon, sef 'ysbrydoliaeth'.
35. *Edling cerdd forddwydring ced* sydd gan A, B ac C, ond *Edlin cerdd forddwydring ced* sydd gan D. Yn amlwg, 'morddwyd', a'r ystyr yn fwy na thebyg yn un ffigurol, yw elfen gyntaf *morddwydring* (neu *morddwydring*), ond ansicr yw'r ail elfen yn achos *morddwydring*. Ar y llaw arall, yn achos *morddwydring*, ymddengys mai 'lin', sef 'linach, tras, hil' yw'r ail elfen, sy'n gweddu'n dda i'r cyd-destun. Felly, defnyddir enghraifft D ar gyfer y llinell hon. Ymddengys mai rhywbeth megis 'etifedd cadarn traddodiad y noddwr hael' yw'r neges a fwriadwyd yma. Noder y gynghanedd, sydd yn draws ac yn sain gadwynog.
61. **llen ysbys** Cyfeiriad efallai at y llen a grogid ar y mur y tu ôl i'r ford dâl (gweler, er enghraifft, Roberts, Enid, *Tai Uchelwyr y Beirdd 1350 - 1650* (Cyhoeddiadau Barddas, 1986), t. 49).

## 5

Dyma'r ymryson adnabyddus rhwng Ieuan ap Gruffudd Leiaf a Guto'r Glyn. Er hwylustod, cynhwysir englynion ateb Guto'r Glyn ar ôl englyn Ieuan, a'u rhifo fel un gerdd.

Pwysleisiodd yr Athro Jerry Hunter fod ymrysonau'r cywyddwyr yn ymwneud â rhyw agwedd neu'i gilydd ar y gyfundrefn farddol.<sup>158</sup> Statud Gruffudd ap Cynan (yn ei gwahanol ffurfiau) yw'r ddogfen fwyaf manwl sy'n ymwneud ag arferion y gyfundrefn hon. O'r fersiynau llawysgrifol sydd wedi goroesi, rhoddwyd y cynharaf ar femrwn yn fuan wedi eisteddfod gyntaf Caerwys ym 1523, ond gwyddys fod y Statud yn adlewyrchu arferion sefydledig y gyfundrefn farddol a bod rhai o'r arferion hyn yn ddigon hen.<sup>159</sup> Cofnodir yn rhai fersiynau o'r Statud nad oedd digon o feirdd da ar gael o'r ffynhonnell draddodiadol (sef meibion ieuengaf boneddigion), a bod swydd bardd bellach ar gael i bobl eraill (ac eithrio mab dyn caeth, un ag anaf ar ei wyneb a mab na ellid profi pwy oedd ei dad).<sup>160</sup> Yr oedd Ieuan ap Gruffudd Leiaf yn perthyn i o leiaf un o hen deuluoedd brenhinol Cymru, yn wahanol i Guto'r Glyn, ac ymddengys fod y tyndra rhwng y beirdd o dras fonheddig a'r (y chydig) rai o dras llai breintiedig yn destun amlwg i'r ymryson hwn.

Un frawddeg â dau cymal cydradd yw adeiledd englyn Ieuan, ac yn y cymal yn llinellau 1, 3 a 4, dywed y bardd na fyn ato na Guto'r Glyn nac un o'r glêr i rannu gwely ag ef. Yn y cymal yn yr ail linell, esbonia'r bardd ei fod yn gochel rhag 'dynion ofer'. Yn ei lyfr *A Life of Guto'r Glyn* y mae E. A. Rees yn cynnig esboniad ar 'dynion ofer', sef '*a term for bards and poets (which refers to the notion of presenting poems with music – offeryn), but it might also imply men of prodigality or excess.*'<sup>161</sup> Yn anffodus, nid yw'r naill esboniad neu'r llall yn gweddu i ymateb Guto, sydd yn ymwneud â gwaed (hynny yw, ach). Yn y gymdeithas Gymreig yr oedd y ddau fardd yn rhan ohoni, yr oedd gwaed yn pennu statws dyn, a chynigir yma mai 'dyn heb waed' yw 'dyn ofer'. Dyna dynged Guto'r Glyn, a'r glêr hefyd, yn ôl englyn Ieuan.<sup>162</sup>

---

<sup>158</sup> Hunter, J., *art. cit.*, 35 – 6.

<sup>159</sup> Thomas, Einir Gwenllian, *op. cit.*, t. 9; Thomas, Gwyn, *op. cit.*, tt. 72 – 6; Jones, T. Gwynn, 'Bardism and Romance', *Traf. Anrh. Gym. y Cymmrodorion* (1913 – 1914), 250 – 51.

<sup>160</sup> Thomas, Einir Gwenllian, *op. cit.*, tt. 49 – 50.

<sup>161</sup> Rees, E. A., *A Life of Guto'r Glyn* (y Lolfa, 2008), t. 95.

<sup>162</sup> Ceir trafodaeth estynedig ddefnyddiol ynghylch y gair *clêr* yn Edwards, Huw M., *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Clarendon Press, Oxford, 1996), tt. 13 – 37.

Wrth gyfeirio at ran fonheddig ach Ieuan yn ei ymateb, mae Guto'n tynnu sylw at Edeirnion (sef rhan o hen Bowys) yn hytrach na Gwynedd.<sup>163</sup> Yr oedd Margred ferch Madog ap Maredudd ap Bleddyn ap Cynfyn yn wraig i Iorwerth Drwyndwn, tad Llywelyn Fawr a gorphendaidd i Dafydd Goch. Y tywysog olaf i reoli Powys gyfan, gan gynnwys Edeirnion, oedd Madog ap Maredudd, a daeth ei fab gordderch Owain Brogyntyn yn sylfaenydd llinach barwniaid Edeirnion, a lwyddodd i gadw eu tiroedd a'u statws ar ôl 1282.<sup>164</sup> Yn ddiweddarach yn ach Ieuan, ceir Angharad (2<sup>il</sup>) ferch Heilin yn wraig gyntaf i Dafydd Goch (Angharad ferch Tudur oedd yr ail). Bu Annes, ferch Owain ap Bleddyn ab Owain Brogyntyn, yn fam i Angharad ferch Heilin. Fel y dywedwyd eisoes, nid oedd Bartrum yn sicr ynghylch pa Angharad oedd yn fam i Gruffudd ap Dafydd Goch, ond gellir ystyried cyfeiriad Guto'r Glyn at Edeirnion fel cadarnhad mai Angharad ferch Heilin oedd y fam (a chysylltiad ach Ieuan â hen deulu brenhinol Powys yn sicrach, efallai, na'r cysylltiad â theulu brenhinol Gwynedd).

Agwedd bwysig ar ymryson yw perthynas y beirdd dan sylw.<sup>165</sup> Ar wahân i'r englynion ymryson eu hun, ymddengys mai yn ei gywydd i Hywel ab Ieuan Fychan a'i lys Moelyrch (cerdd 1 uchod) y ceir yr unig gyfeiriad gan Ieuan at Guto'r Glyn: '*Guto, dyred ag ateb | Gwybydd nid ar gywydd neb.*' (1.54 – 1.55). Gweler hefyd y cwpled nesaf (1.56 – 1.57): '*Pwy o brydyddion Powys | Eddyl parch, a ddeil y pwys?*', a llinell 1.60, lle mae Ieuan yn ei weld ei hun yn gynrychiolwr Gwynedd. Ai damwain a hap yw'r ffaith fod llinell gyntaf ateb Guto i englyn Ieuan yn dechrau â'r gair '*Gwybydd*', a'i fod ef wedyn yn dweud mai yn Edeirnion (yn hytrach na Gwynedd) y ceir rhan fonheddig ach Ieuan? Ni cheir unrhyw gyfeiriad arall o gwbl at Ieuan ap Gruffudd Leiaf gan Guto'r Glyn.

Yn ôl rhaglith copi A, datganodd Ieuan ei englyn un diwrnod, a Guto yntau'n datgan ei ymateb fore trannoeth. Dyma batrwm tebyg i ddefod y cyff clêr, a gellir ystyried y cwpled 1.53 – 1.54 yng nghywydd Ieuan i Foelyrch fel cadarnhad ohono. Ymhellach, yn ôl yr olnod i ateb Guto'r Glyn yng nghopi D, cafwyd yr ymryson ym 1450, dyddiad sy'n cyd-fynd â chyfnod tebygol ailgodi llys Moelyrch. Os ym

---

<sup>163</sup> Noder, fodd bynnag, fod copi John Jones Gellilyfdy yn cynnwys *Gwynedd* yn llinell 9.

<sup>164</sup> Ceir cefndir hanesyddol Edeirnion a'i barwniaid yn Carr, A. D., 'The Barons of Edeyrnion 1282 – 1485', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, IV (1963 - 4), 187 – 93, 289 – 99.

<sup>165</sup> Hunter, J., *art. cit.*, 38.

Moelyrch y cafwyd yr ymryson, mae'n bosibl mai Gruffudd ab Ieuan Gethin<sup>166</sup> yw'r *ewyrth Gruffudd* y cyfeirir ato yn y rhaglith yn enghraifft A.<sup>167</sup>

1. **notier** Gweler GPC, t.2599 o dan 'notiaf: notio'. Ffurf amhersonol, modd gorchmynnol y ferf.
3. **coter** (= cotier?) A ydyw'n bosibl mai ffurf amhersonol modd dibynnol y ferf 'cotio' (sef 'disbaddu') sydd yma? Yn anffodus, o c. 1700 y daw'r enghraifft gynharaf yn GPC (t. 571). Yn fwy tebyg, 'codi' yw'r ferf, gyda'r *d* wedi'i chaledu.
5. **Gwybydd** ail brs. un. modd grch. y ferf 'gwybod'. Cymharer â 1.54 uchod.
7. **Ifan ddau hanner** Gweler y nodiadau ar gyfer cerdd 4.
11. Ni cheir enw mam Ieuan yn yr achau, ond nid yw hynny'n golygu'n llythrennol mai hi sydd 'yn dyfod allan o dvrnvrion a chryddion', fel ag a geir yn rhagymadrodd enghraifft A.

## 6

Cywydd brud ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a Charnedd Llywelyn a geir yma. Cyflwynwyd fersiynau printiedig o'r gerdd yn YFN<sup>168</sup> a CLIG.<sup>169</sup> Defnyddiodd W. J. Gruffydd enghreifftiau llawysgrifol AF (Card 4.156, 439) ac AH (Card 5.10i, 19) uchod ynghyd â'r fersiwn yn CLIG wrth baratoi ei olygiad, ond nid yw'r Parchedig Owen Jones yn datgan y ffynonellau a ddefnyddiodd ef. Ceir argraffiad o ddeunaw llinell o'r gerdd ynghyd â thrafodaeth ddiddorol a geirfa gan Eurys Rolant yn LlyB, 110 – 111 a 127 – 8.

Yn llinellau 1 – 26 y mae'r bardd yn cyfarch y mynydd, a llinellau 2 a 3 yn ffurfio trychiad rhwng dwy ran ei enw. Mynydd uchel anghysbell ynghanol mynyddoedd uchel eraill yw Carnedd Llywelyn, a saif ochr yn ochr â Charnedd Dafydd. Buasai Ieuan wedi bod yn weddol agos atynt ar ei ffordd i'r Penrhyn, er enghraifft. Ar adegau tywydd gwlyb buasai'r we o ffrydiau bychain sy'n llifo o gopa

---

<sup>166</sup> Huws, Bleddyn O., 'Ailadeiladu Bywyd ar ôl Gwrthryfel Glyndŵr', 97 – 8.

<sup>167</sup> Gweler Huws, Bleddyn O., *art. cit.*, 110.

<sup>168</sup> YFN, 48 – 52 a 218 – 219.

<sup>169</sup> CLIG, I, 142 – 143. Y mae'r fersiwn hwn yn ychydig yn wahanol i fersiwn W. J. Gruffydd a'r fersiwn a gynigir uchod.

Carnedd Llywelyn i Ffynnon Llugwy wedi bod yn ddigon amlwg iddo wrth iddynt ffurfio'r llun a ddisgrifir yn llinellau 11 – 12. Yn y llinellau agoriadol hyn dengys y bardd ei fod ef yn adnabod y mynydd yn dda. Adeg y gaeaf yw hi, a delweddau gerwindeb y tywydd a llymder y tirwedd yn gefndir cwbl addas i'r proffwydoliaethau dilynol.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar y daroganau yn y Gymraeg hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg gan M. E. Griffiths,<sup>170</sup> a hyd y bymthegfed ganrif gan R. Wallis Evans.<sup>171</sup> Nodwedd ar ganu brud y bymthegfed ganrif yw dylanwad proffwydoliaethau Sieffre o Fynwy, a gwyddys iddo bwysu ar draddodiad Cymreig hyn.<sup>172</sup> Defnyddiodd Sieffre enwau anifeiliaid i gyfeirio at bobl,<sup>173</sup> dyfais a welir yn gyson yn y canu.<sup>174</sup> Dyfais arall yn y canu brud yw cyfeirio at rywun trwy ddefnyddio llythyren gyntaf ei enw; dyma ddull y proffwydoliaethau sibylaidd.<sup>175</sup>

Yn y cywydd hwn y mae'r bardd yn defnyddio'r ddwy ffordd hyn o gyfeirio at unigolyn. Ceir amrywiaeth o greaduriaid stoc y canu brud, gan gynnwys y llewpart (llinell 3), yr hydd (llinellau 31, 64), yr eryr (llinell 36), y wadd (llinell 47), y wenci (llinell 51), y llew (llinell 61), y carw (llinell 63), y baedd gwyn (llinell 65), yr hebog o Ddeheubarth (llinell 67), yr arth (llinell 68) a'r ddraig (llinell 73). Y mae'r anifeiliaid hyn yn cynrychioli cymeriadau ac iddynt rhan yng nghynllwynion gwleidyddol y cyfnod (gweler GWL, tt. 266 – 268 a tt. 270 – 273), ond nid hawdd yw penderfynu'n derfynol ar yr union gyfatebiaeth. Ceir hefyd y dull sibylaidd yn llinellau 28 – 29.

Dosberthir y gynghanedd yn y cywydd hwn fel a ganlyn:-

	<b>cyng. groes</b>	<b>cyng. draws</b>	<b>cyng. sain</b>	<b>cyng. lusg</b>	<b>cyfanswm</b>
<b>llinellau</b>	22	12	38	8	80
<b>canrannau</b>	27.50	15.00	47.50	10.00	100

<sup>170</sup> Griffiths, M. E., *Early Vaticination in Welsh with English Parallels* (Cardiff, 1937).

<sup>171</sup> Evans, R. Wallis, 'Y Daroganau Cymraeg hyd at Amser y Tuduriaid, gan roi Sylw Arbennig i'r Cywyddau Brud' (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru [Caerdydd], 1935); Evans, R. Wallis, 'Prophetic Poetry', yn GWL, 256 – 274; Evans, R. Wallis, 'Trem ar y Cywydd Brud', yn B. B. Thomas (ed.), *Harlech Studies* (Cardiff, 1938), tt. 149 – 63.

<sup>172</sup> Griffiths, M. E., *op. cit.*, tt. 76 – 79.

<sup>173</sup> Gweler, er enghraifft, Thorpe, Lewis (trans.), *Geoffrey of Monmouth: The History of the Kings of Britain* (Penguin, 1988), tt. 171 – 185.

<sup>174</sup> Ceir rhestr yn GWL, 266 – 267.

<sup>175</sup> GWL, 258.

Dyma gywydd arall a chanddo ganran cymharol uchel o gynganeddion sain, rhai ohonynt yn sain gadwynog neu'n sain drosgl.

Bu sawl brudiwr cydnabyddedig arall yn cyfoesi ag Ieuan ap Gruffudd Leiaf, gan gynnwys Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd (Robin Ddu o Fôn), Dafydd Llwyd o Fathafarn, Llywelyn ab Ednyfed ac efallai Syr Huw Pennant a Dafydd Gorlech. Fel y gwelwyd uchod, y mae copiŵyr y llawysgrifau yn dangos cryn ansicrwydd ynghylch awduraeth rhai brudiau (gweler y Rhagymadrodd i waith y bardd uchod).

1. **rho Duw** Awgryma W. J. Gruffydd mai'r llw '*Rhof a Duw*' a olygir yma (YFN, 48 a 218. Gweler hefyd LlyB, 127). Ar y llaw arall, buasai '*gormodedd Duw*' yn ystyrion yn y cyd-destun hwn hefyd (rho = rhy<sup>1</sup> eg. *gormodedd*, gw. GPC, tt. 3083 a 3122), pe bai gan '*rho*' yr ystyr hwn yn y bymthegfed ganrif. Mae'r enghraifft hynaf a roddir yn GPC ryw ganrif yn ddiweddarach.
2. **rhewinawg** Dyma ffurf enghraifft A, a ddyddiwyd gan J. Gwenogvryn Evans i'r flwyddyn 1587 (RWM ii, 1022 – 3). 'Dinistr, distryw, cwmp' yw ystyr 'rhewin' (GPC, 3064), a'r ffurf ansoddeiriol a ddefnyddiwyd yma yn gwbl briodol yng nghyd-destun y gerdd.
6. Nid yw'r llawysgrifau yn gytûn ynghylch y llinell hon, o bell ffordd. O ystyried yr amrywiadau a geir yn y gwahanol enghreifftiau, ynghyd ag anghenion y gynghanedd, cynigir 'Yna gorwedd Rhita gawr' yn betrus, a'r gynghanedd yn sain gadwynog. Gellir dehongli'r cwpled yn llinellau 5 – 6 mewn dwy ffordd: ar y naill law, dyma gyfeiriad at dranc Rhita Gawr (*oer boen dramawr*), ar drum, yn ôl y chwedl (yr Wyddfa yw'r trum yn ôl un fersiwn). Dehongliad arall yw bod y bardd yn cyfeirio at dranc Llywelyn ap Gruffudd ar drum arall. Yn fwy na thebyg, y mae'r ddeuoliaeth hon yn fwriadol.
7. **Coronog** Y mae sawl copi yn cynnig *corniog* (ond nid y rhai hynaf). Fodd bynnag, y mae *coronog*, ynghyd â'r ystyr 'wedi ei oedi, wedi ei ohirio' i *oediog*, yn caniatáu ymestyn deuoliaeth y cwpled blaenorol i'r cwpled hwn.
11. Llinell lwgr, gyda chryn amrywiaeth yn y llawysgrifau. Cynigir *Llawer hen ffynnon ffyniant* yn betrus (cynghanedd lusz), a *ffynnen* y copi hynaf efallai yn gamgymeriad gan y copiwr neu'n ffurf lafar. Y mae'r ystyr

'llifiad neu rediad o ddŵr' i *ffynnon* yn addas yma, ac yn gweddu i ddelwedd yr hwylbren yn y llinell nesaf.

21. **ffwrn** 'Aelwyd' yw'r ystyr tebygol yn y cyd-destun hwn.
22. **dau canllwyth** Gweler TC, t. 131.
28. **ll. r. u.** Y ffurf yn y llawysgrif hynaf, ond lluosog yw'r amrywiadau, fel y gwelir yn yr adran *Darlleniadau Amrywiol* ar gyfer y gerdd hon. Dyma'r ffurf orau o ran y gynghanedd. O ystyried bod y bardd yn cyfarch Carnedd Llywelyn, a'r ddeuliaeth ddichonadwy yn llinellau 5 – 8 y cyfeirir ati uchod, credir y gallai rhywbeth megis 'Llewelinus rex ultimus' esbonio *ll. r. u.*, o bosib. Gweler y rhagymadrodd i waith y bardd uchod.
29. **Dwbl 1** Dyma a geir yn y llawysgrif hynaf, ond *x* yn hytrach nag *l* yw cynnig y rhan fwyaf o'r llawysgrifau.
30. **wasgod** Yn LlyB y mae Eurys Rolant yn awgrymu mai 'amddiffynnwr' yw ystyr y gair hwn, ac yn nodi hynodrydd y treigladd yn yr ansoddair dilynol. Ar y llaw arall, credir yma y buasai'r ystyr 'dilledyn dilewys' yr un mor dderbyniol, yn enwedig o ystyried cyd-destun y llinell flaenorol, ac yn esbonio'r treigladd. Dadleuir yma y gallai'r cwpled yn llinellau 29 – 30 gyfeirio (yn ffigurol) at wasgod a wisgid gan rai tywysogion ac arglwyddi brodorol ar faes y gad, sef gwasgod ac arfbais Tywysogaeth Cymru ac Owain Lawgoch arni; arfbais a fabwysiadwyd gan Owain Glyndŵr.
32. **llew dau hanner.** Yn ôl Eurys Rowlands, 'y mae'n ymddangos fel ymdoddiad o'r ddau symbol brudiol *Llew* a *Macwy Dau Hanner*' (LlyB, t. 128). Ymddengys fod y cwpled yn llinellau 31 – 32 yn cyfeirio'n ôl at y cwpled blaenorol, a'r 'llew dau hanner' efallai yn cyfeirio at yr arfbais.
34. Cynigir o *deilung waed y dalaith* ar gyfer y llinell hon yn LlyB.
35. Ceir cryn amrywiaeth ar y llinell hon a'r nesaf yn y llawysgrifau.
42. **Mogel** = *ym* + *gogel* = 'osgoi, gochel'.
48. **dramerth** Dyma ddarlleniad y copi hynaf. O ystyried yr amrywiadau niferus, nid yn unig ar y gair hwn ond hefyd ar y llinell gyfan, ymddengys fod y llinell yn llwgr, a chynigir *O dwyll a werth dramerth dir* yn betrus iawn. Ynghylch y gair dan sylw, 'tramerth' yw'r gair cysefin, a'r ystyr (o 'tra' + 'merth'), 'prydfferth iawn' iddo yn gwbl addas yn y cyd-destun. Cynghanedd sain anghytwys ddyrchafedig a fwriedir yma, ond fe geir 'd'



yn unig yn y drydedd ran yn ateb y cyfuniad 'dr' yn yr ail ran. Gweler CD, t. 166.

80. **barnu'r bêl** 'pennu tynged'.

## 7

Mewn ysgrifeniadau apocryfffaidd o'r ail a'r drydedd ganrif, ceir hanes Anna (Hebraeg: *Hannah*) a'i gŵr Ioachim, rhieni Mair, mam yr Iesu.<sup>176</sup> Yn ôl y ffynonellau hyn, ganed Anna ym Methlehem, priododd hi Ioachim a chael bywyd goludog ond ymhen hir a hwyr, gresynai'r ddau am nad oedd ganddynt blant. Addawodd Anna i Dduw y byddai hi'n cysegru ei phlentyn i'w wasanaeth Ef pe câi hi un. Ymwelodd angel â'r naill a'r llall, a dweud wrthynt y byddai Anna yn beichiogi a chael plentyn arbennig iawn. Cafodd Anna ferch, a'i henwi hi Mair. Pan oedd ei phlentyn yn dair oed, rhoes Anna hi i'r Deml yng Nghaersalem, a dyna lle y cafodd Mair ei magu. Yn ôl traddodiad diweddarach, bu farw Ioachim yn fuan ar ôl geni Mair, ac ailbriododd Anna. Yn yr Oesoedd Canol, datblygodd cwlt Anna, ac yn ôl rhai, yr oedd Anna, trwy ei phriodasau dilynol, yn nain i'r apostolion Ioan ac Iago (meibion Sebedeus), Simon, Jwdas ac Iago (mab Alffeus), ac i Iago (brawd yr Iesu).

Amrywia'r manylion yn y gwahanol fersiynau o'r chwedl, ac un ffynhonnell boblogaidd yn yr oesau canol oedd yr hyn a geid yn *Y Chwedl Euraidd*, a gasglwyd gan Jacobus de Voragine, archesgob Genoa yn y drydedd ganrif ar ddeg. Yn ôl de Voragine, ar ôl i Ioachim farw, priododd Anna Gleoffas, a chael ganddo ferch arall o'r enw Mair. Priododd yr ail Fair hon Alffeus, a chael ganddo bedwar mab, sef Iago fab Alffeus, Simon, Jwdas (Sud) a Ioseff. Ar ôl i Gleoffas farw, priododd Anna eto, a chael gan y trydydd gŵr, Salome, ferch arall, y drydedd Fair. Priodwyd hi â Sebedeus, a chawsant ddau fab, sef Iago fab Sebedeus ac Ioan Efengylwr.<sup>177</sup> (Yn anffodus, nid yw'r cyfeiriadau beiblaidd at rai o'r cymeriadau hyn yn gyson o ran y berthynas rhyngddynt).

Ychydig yn wahanol yw'r chwedl fel ag y'i ceir yn y gerdd hon, fodd bynnag. Yn ôl llinellau 20 – 23, yr ail Fair oedd yn fam i i Iago a Ioan Efengylwr (meibion Sebedeus a fwriedir yma, yn fwy na thebyg), ac yn ôl llinellau 25 – 30, cafodd y

---

<sup>176</sup> *Protevangelium Iago* (ail ganrif O.C.), *Evangelium de nativitate Mariae* (trydedd ganrif O.C.). Crynhowyd yr wybodaeth sy'n dilyn o erthygl yn *Encyclopaedia Britannica* (argraffiad 1991), cyf. 1, t. 429.

<sup>177</sup> Gweler er enghraifft, de Voragine, Jacobus (tr. Ryan, William Granger), *The Golden Legend* (2 vols, Princeton 1993), **2**, t.150.

drydedd Fair dri mab a ddaeth yn saint. Pum cefnder i Grist oedd y rhain, felly (llynellau 33 – 36).

Y mae rhan o'r cywydd yn ymwneud â'r athrawiaeth Gristnogol. Iachawdwriaeth trwy aberth yr Iesu a geir yn llynellau 11 – 16 a 37 – 44. Yn llynellau 45 – 62 y mae'r bardd yn disgrifio rhai arwyddion cyn diwedd y byd a dydd y Farn, sef canu'r corn (llynell 48), yr haul (llynellau 49 – 50) a'r sêr a'r lleuad a'r gwŷydd yn crynu rhag Duw (llynellau 51 – 52), y môr yn diflannu (llynell 53), daeargrynfâu, a hyd yn oed yr angylion difrycheulyd yn crynu (llynellau 54 - 56); wedyn y Farn ei hun (llynellau 59 – 62). Ymddengys mai yn y llyfr apocryffaidd *Apocalyps Tomas* y ceir y cyfeiriad cynharaf at yr arwyddion hyn.<sup>178</sup> Trafodwyd fersiynau rhyddiaith Cymraeg gan William Heist.<sup>179</sup> Ynghylch y fersiynau Cymraeg ynghyd â chyfres gynnar o englynion ar y pwnc, gweler er enghraifft CBT2, tt. 71 – 83. Ceir motiffau cyffelyb i'r rhai uchod ym marwnadau'r beirdd hefyd.<sup>180</sup>

Dosberthir y gynghanedd yn y cywydd hwn fel a ganlyn:-

	<b>cyng. groes</b>	<b>cyng. draws</b>	<b>cyng. sain</b>	<b>cyng. lusg</b>	<b>cyfanswm</b>
<b>llynellau</b>	15	6	44	9	74
<b>canrannau</b>	20.27	8.11	59.46	12.16	100

Gan nad oes ond un enghraifft lawysgrifol ar gael o'r cywydd hwn ar hyn o bryd, a hynny'n dyddio o ryw ddwy ganrif a mwy ar ôl dyddiad tebygol y cyfansoddi (a derbyn mai gwaith Ieuan ap Gruffudd Leiaf ydyw yn y lle cyntaf), ni ddylid ymddiried gormod yn y ffigyrau hyn. Er hynny, teg yw nodi bod y dosbarthiad yn y tabl uchod yn debyg iawn i'r hyn a geir yng nghywyddau cynharaf y bardd (megis rhifau 2 a 4 uchod). Felly hefyd y mae adeiledd y cywydd.

Cywydd cyffelyb o ran cynnwys yw'r un sy'n dechrau â'r cwpled *Anna a unaeth i nynt | Gael wyneb y goleuni*. Fodd bynnag, o ran trefn plant Anna, dilynodd y bardd drefn *Y Chwedl Euraid*. Priodolir y cywydd i sawl bardd yn y

<sup>178</sup> Gweler Elliott, J. K., *The Apocryphal New Testament* (Clarendon Press, Oxford 1993), tt. 645 – 651.

<sup>179</sup> Heist, William W., 'Welsh Prose Versions of the Fifteen Signs before Doomsday', *Speculum* **19** (4) (Oct. 1944), tt. 421 – 432. Gweler hefyd McKenna, Catherine A., 'Welsh Versions of the Fifteen Signs before Doomsday Reconsidered' yn *Celtic Folklore and Christianity*, gol. Patrick A. Ford (Santa Barbara, 1983), 84 – 112; Stone, Michael E., *Signs of the Judgement, Onomastica Sacra and the Generations from Adam* (University of Pennsylvania, 1981), tt. 3 – 57.

<sup>180</sup> Gweler er enghraifft, Johnston, D., 'Tywydd Eithafol a Thrychineb Naturiol Mewn Dwy Farwnad gan Iolo Goch', *Llên Cymru*, **33** (2010), 51 – 60; hefyd *Gwaith Rhys Goch Glyndyfrdwy* isod, cerdd 1.

llawysgrifau: ceir trafodaeth arno ynghyd â golygiad llawn gan Dylan Foster Evans yn GHSD.<sup>181</sup> Cywydd arall i 'Anna, Siohasym a'r Forwyn Fair' yw'r gerdd ddilynol yn GHSD (sef rhif 22).

Yn ogystal â'r cerddi hyn i Anna ei hun, ceir sawl cerdd i'r Forwyn Fair neu'r Iesu sy'n enwi Anna (er enghraifft, GIF cerdd 44; GGapM, 2, cerdd 10; GIBH, cerdd 6), ynghyd â rhai i bobl eraill sy'n ei henwi (gweler, er enghraifft, GLGC, o dan 'Anna' yn y mynegai i enwau priod, t.659; GID cerdd XVIII).

7. **Coel** 'Arwydd' neu 'darogan' yw ystyr y gair yma. Gweler GPC, t. 532.
8. **Calennig** Anrheg a roddir ar Ddydd Calan neu ar y Nadolig (gw. GPC t. 393). Y mae'r Eglwys Gatholig yn dathlu geni Mair ar Medi 8fed, sef tuag adeg yr ŵyl Iddewig Rosh HaShana, pan ychwanegir un at rif y flwyddyn.
18. **Ceraint** Y saint a anwyd i'r ail Fair a'r drydedd, sef Ioan, Iago, Sud (Jwdas), Simon ac Ioseff.
25. Cynghanedd draws 'r' wreiddgoll.
32. **Sud ... Simant** Sef Jwdas ... Simon.
41. **pum gweli** Y pum archoll ar gorff yr Iesu, sef y rhai a achoswyd gan yr hoelion i'w law aswy, llaw dde, troed aswy, troed dde, ynghyd â'r clwyf trywaniad ar ei ystlys a achoswyd gan waywffon y milwr.
43. Ymddengys fod y llinell hon yn llwgr. Cynigir 'a'i nod ef, un nid ofer' yn betrus.
44. **oed** O ystyried y cyd-destun, 'amser penodedig', 'dyddiad a bennir i wneud rhywbeth' yw ystyr tebygol y gair yma. Gweler GPC, t. 2621.
47. **Eurwydd** = *eur* + *gŵydd*, sef presenoldeb euraidd. Cynghanedd groes wreiddgoll (wan) a geir yn y llinell hon, a allai fod yn llwgr.
49. **dichwrych** diochr + gwydych? Gweler IGE, XXXVI.15, IGE", LXXX.17, GlapRh, 7.15 a 7.15n.
61. Cynghanedd draws 'n' wreiddgoll.

## 8

Cywydd i fwrdeistref Aberconwy a'i chwrrw yw hwn. Credir i Maelgwn Gwynedd godi hen dref, *Aber Gyffin*, ar safle hen gaer, *Caer Gyffin*,<sup>182</sup> ar y llain

---

<sup>181</sup> Cerdd 21. Gweler GHSD, tt. 10 – 11, 79 – 84, 188 – 190.

ddyrchafedig wrth ochr ogleddol cymer yr afonig Gyffin a Chonwy.<sup>183</sup> Daeth mynaich Sistersaidd i'r ardal rywbryd cyn 1188,<sup>184</sup> a chafodd yr urdd diroedd helaeth yn yr ardal.<sup>185</sup> Cadarnhawyd hyn gan Llywelyn ap Iorwerth mewn siarter i'r urdd sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at 'Abaty Aberconwy'.<sup>186</sup> Yn dilyn tranc Llywelyn ap Gruffudd yn 1282, codwyd castell Conwy ar safle'r hen gaer gan Edwart I. Cwblhawyd bron y cyfan o'r gwaith ar y castell, ynghyd â muriau castellog Aberconwy, y fwrdeistref newydd gysylltiedig sy'n ymestyn o'r castell i'r gogledd-orllewin, erbyn 1287.<sup>187</sup> Symudwyd yr Abaty i Faenan, trefgordd yn Nyffryn Conwy.<sup>188</sup> Nid nepell o furiau deheuol y fwrdeistref saif hen bentref Y Gyffin (er bod tuedd i hepgor y fannod heddiw) ynghyd â'i eglwys blwyf, a chredir bod y ddau yn hŷn na chastell Edwart a'i fwrdeistref.<sup>189</sup>

Fel yn achos pob bwrdeistref drefedigaethol Edwardaidd, cafodd bwrdeisiaid Aberconwy diroedd a breintiau helaeth, ar draul y Cymry brodorol, gan gynnwys monopoli ar fasnachu. Yn wir, y mae'r achos pan ddaeth naw o Gymry o flaen y llys yng Nghaernarfon ym 1378, oherwydd iddynt fragu cwrw a'i werthu yng Nghlynnog ar draul breintiau bwrdeistref Caernarfon, yn berthnasol yma.<sup>190</sup> Er

---

<sup>182</sup> Richards, Gwynfryn, 'The Church and Parish of Gyffin', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 36 (1975), 55 - 56.

<sup>183</sup> O'i tharddiad tua milltir i ogledd-ddwyrain Rowen, troella'r afonig Henryd i'r gogledd. Newidia enw'r afonig i Gyffin yng nghyffiniau hen drefgordd Bodidda, cyn troi i'r gogledd-ddwyrain ac ymuno â Chonwy (y tu allan i furiau deheuol y castell presennol) ac ychydig cyn iddi hithau ymuno â Môr Iwerddon. Rhydd Gyffin ei henw i'r plwyf a gymer yr afonig yn ffin ddwyreiniol iddo.

<sup>184</sup> Y mae Gerallt Gymro yn cyfeirio at y fynachlog yn hanes ei daith drwy Gymry gyda'r Archesgob Baldwin yn 1188: gweler Jones, Thomas, *Gerallt Gymro* (Caerdydd 1938), t. 140. Ar y llaw arall, yn yr ail fersiwn o daith Gerallt, a gafwyd ym 1197, y ceir y cyfeiriad at y fynachlog, ac nid yn y fersiwn cyntaf (1191). Ceir cyfeiriad at Abaty Aberconwy yn statudau cabidwl cyffredin y Sistersiaid ar gyfer y flwyddyn 1192. Gweler Hays, Rhŷs W., *The History of the Abbey of Aberconway 1186 - 1537* (Cardiff, 1963), tt. 5 - 6.

<sup>185</sup> Gweler er enghraifft, Elias, T., 'The History and Associations of the Abbeys and Convents of the Vale of Conway and District', *J. British Archaeological Association*, New Series IV (1898), tt. 35 - 36.

<sup>186</sup> Pryce, Huw (gol.), *The Acts of the Welsh Rulers 1120 - 1283* (Cardiff, 2005), tt. 348 - 68; Lloyd, Sir John Edward, *A History of Wales* (2 volumes, Longman's Green & Co., 1954), 2, t. 601; Elias, T., 'The History and Associations of the Abbeys and Convents of the Vale of Conway and District', *J. British Archaeological Association*, New Series IV (1898), t. 35; Williams, Rev. Robert, *The History and Antiquities of the Town of Aberconwy and its Neighbourhood* (Denbigh, Thomas Gee, 1835), t. 163.

<sup>187</sup> Soulsby, Ian, *The Towns of Medieval Wales* (Phillimore, 1983), t. 111; RCAHMWM (Caernarvonshire) i, 40.

<sup>188</sup> Davies, R. R., *The Age of Conquest* (Oxford, 2000), tt. 355, 373 - 4; Elias, T., *op. cit.*, t. 39; Hays, Rhŷs W., *op. cit.*, tt. 61 - 66.

<sup>189</sup> Richards, Gwynfryn, *op. cit.*, 53 - 55.

<sup>190</sup> Jones, G. P. & Owen, Hugh, *Caernarvon Court Rolls 1361 - 1402* (Caernarvonshire Historical Society, Record Series No. 1, 1951), t. 113; cofnodir sawl achos cyffelyb yn y llyfr

gwaetha'r rhwystrau, daeth y Cymry yn ôl i'r dref gyda threigl amser, a dal swyddi yno, er bod gwrthwynebiad gan rai o'r bwrdeisiaid Saesneg.<sup>191</sup> Yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr, ac am gyfnod ar ei ôl, gorfodwyd i'r Cymry fyw dan iau côd penyd Harri IV, côd a fagodd gymaint o gasineb rhyngddynt a'r Saeson.<sup>192</sup>

Canmol y dref a'i lleoliad a wna'r bardd yn llinellau 1 – 16, er y buasai'r amwysedd yn y ddwy linell gyntaf a'r edliwiad ensyniedig yn llinellau 15 – 16 yn amlwg i gynulleidfa gyfoes. Yn llinellau 17 – 22 y mae'r bardd yn canmol y gwirodydd a geir yn y dref, gan gynnwys y cwrw (canmoliaeth a ddechreuwyd yn llinellau 11 – 12 mewn gwirionedd). Goganir cwrw trefi eraill yn llinellau 25 – 32, cyn troi yn ôl at ganmol cwrw Aberconwy yn llinellau 33 – 38. Priodolir gwyrthiau i gwrw Conwy yn llinellau 39 – 54, mewn darn sydd yn ymddangos megis gwatwar ar y dull o briodoli gwyrthiau i wrthrychau'r canu mewn cerddi i'r Grog ac i rai o'r Seintiau.<sup>193</sup> Diddorol yw'r trychiad yn llinellau 55 – 56, a'r bardd yn efelychu lleferydd un sydd wedi yfed gormod o gwrw. Yn y diwedd glo, canmolir y dref eto, ond ni fyddai'r gynulleidfa gyfoes yn ddall i'r amwysedd (os nad eironi) yn y llinellau hyn.

Yr oedd yfed cwrw wedi dod yn arfer ym mhobman yn ystod yr Oesau Canol, gyda theuluoedd lawer yn bragu at eu dibenion eu hunain. Yn draddodiadol, disgwyliid i'r teuluoedd fragu cyn Gŵyl Fair y Canhwyllau, a'r menywod yn bennaf yn ymgymryd â'r gwaith. Cyfyngwyd gwerthu cwrw i'r trefi ar y cyfan, a gwelwyd ymgais ar ran rhai arglwyddi i sefydlu monopolïau yn yr ardaloedd trefol a reolid ganddynt.<sup>194</sup> Byddai mynaich Abaty Aberconwy wedi bod yn bragu cwrw, at eu dibenion eu hunain ac i'w werthu, mae'n debyg, a hynny cyn ac ar ôl dyfodiad y bwrdeisiaid.<sup>195</sup> Yn ei lyfr *The Mediaeval Boroughs of Snowdonia*, dywed E. A. Lewis:-

Brewing was carried on to a larger extent at Conway than at  
any of the other North Welsh boroughs. Aberconway beer became

---

hwn. Gweler hefyd Davies, R. R., *op. cit.*, tt. 372 – 3, 433 – 4. Davies, R. R., 'Colonial Wales', *Past and Present* (1974), 65 (1): 3 – 23.

<sup>191</sup> Williams, Rev. Robert, *op. cit.*, tt. 43 – 51.

<sup>192</sup> Davies, John, *Hanes Cymru* (Penguin, 2007), t. 181.

<sup>193</sup> Er enghraifft, englynion Dafydd ap Gwilym i'r Grog o Gaer (gweler <http://www.dafyddapgwilym.net>, cerdd 1); Maredudd ap Rhys, cywydd i Grog Caerlleon (GMRh, cerdd 2 a'r nodiadau cysylltiol); Morrice, J. C., *Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan* (Bangor, 1910), cerdd IX (tt. 21 – 26); cywydd Gruffudd Nannau i anfon Mwrog Sant i chwilio am Rhys ac Ithel ab Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda o Bengwern (gweler, er enghraifft, Williams, Ifor, *Gwynedd* 3 (Caerdydd, 1931), tt. 104 – 106).

<sup>194</sup> Smith, Llinos Beverley, 'Towards a History of Women in Late Medieval Wales', yn *Women and Gender in Early Modern Wales*, gol. Roberts, M. a Clarke, S. (Caerdydd, 2000), 32.

<sup>195</sup> Gweler, er enghraifft, Williams, D. H., *The Welsh Cistercians* (Gracewing, 2001), t. 244.

notorious for its badness. An old Welsh adage has it: ‘Cwrw Aberconwy gorau pei bellaf’ – the ale of Aberconway the farther the better.<sup>196</sup>

Yn anffodus, nid yw'r awdur yn cyfiawnhau'r hyn a ddywed, nac am fragu yng Nghonwy o gymharu â'r bwrdeistrefi eraill, nac am gyflwr y cwrw. O ran bragu, diau y buasai ymchwilio yng nghofnodion cyfrifon swyddwyr ar gyfer Conwy yn hanner cyntaf y bymthegfed ganrif (megis y rhai a geir yng nghyfres SC6/1175/ yn yr Archifdy Cenedlaethol yn Llundain), a'u cymharu â chofnodion cyffelyb ar gyfer y bwrdeistrefi eraill, yn fuddiol.

Ar y llaw arall, yr oedd cwrw Gweblai a Llwydlo ac Amwythig yn adnabyddus, fel y tystia beirdd eraill o'r bymthegfed ganrif. Er enghraifft, soniodd Lewys Glyn Cothi am gwrw Gweblai (gweler GLGC: 141.53 – 4; 147.31 – 2; 148.39 – 40; 162.7 – 8), am gwrw Llwydlo (GLGC: 162.7 – 8) ac am gwrw Amwythig (GLGC: 204.43 – 4). Soniodd Guto'r Glyn am gwrw ac am Weblai, ond nid am gwrw Gweblai. Cafwyd erthygl ddiddorol ynghylch Gweblai a St. Emilion gan Saunders Lewis ym 1930.<sup>197</sup>

Dosberthir y gynghanedd yn y cywydd hwn fel a ganlyn:-

	<b>cyng.</b> <b>groes</b>	<b>cyng.</b> <b>draws</b>	<b>cyng.</b> <b>sain</b>	<b>cyng.</b> <b>lusg</b>	<b>cyfanswm</b>
<b>llinellau</b>	47	10	10	2	68
<b>canrannau</b>	67.65	14.71	14.71	2.94	100

Dyma ddsbarthiad sy'n fwy tebyg i'r hyn a ddisgwylir gan fardd o'r ganrif fawr.

5. **gardd** 'lle cae'dig' yw'r ystyr tebygol yma, a **gwar** yn cyfeirio at y llain ddyrchafedig y tu cefn i'r ardd hon.
13. **Conwy wenllwyd** Paentiwyd muriau'r castell a'r dref yn wyn yn y canoloesoedd.
- 14 **Gyffin** *aer Gyffin* a geir yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau, ond y mae *Caer Gyffin*, a geir yn y llawysgrif hynaf Q, ac yn R, yn caboli'r gynghanedd. Saif pentref presennol Gyffin ar y B5106 i Lanrwst, tua thri chwarter milltir o Gonwy.

<sup>196</sup> Lewis, E. A., *The Mediaeval Boroughs of Snowdonia* (H. Sotheran, London 1912), t. 192, gan gyfeirio at Williams, Rev. Robert, *The History and Antiquities of the Town of Aberconwy and its Neighbourhood* (Denbigh, Thomas Gee, 1835), t. 50, troednodyn 1: "The Englishmen did not brew good ale: *Cwrw Aberconwy gorau pei pellaaf*".

<sup>197</sup> Lewis, Saunders, *Canlyn Arthur: Ysgrifau Gwleidyddol* (Gwasg Gomer, 1985), tt. 41 – 5.

17. O'r tair enghraifft hynaf (o'r unfed ganrif ar bymtheg), *kair wirod fair ynod fedd* yw darlleniad Q a B (a ddilynir gan K, M ac R), a *cair nod i fair ynod fedd* yw darlleniad A (a ddilynir gan S). Hen ddefod yfed ar achlysur gŵyl Fair y Canhwyllau (a gynhaliwyd ar 2<sup>il</sup> Chwefror) oedd 'Gwirod Mair' (gweler Fisher, Rev. John, 'The Welsh Calendar', *THSC* 1894 – 5, t. 123). *Kaer nod Vair kair ynod vedd* yw darlleniad John Jones Gellilyfdy yn C, a dyma sydd gan D, E, F, G, H, I, J, L, N, O a P hefyd. Yn y darlleniad hwn, ymddengys mai 'Caer ac iddi enwogrwydd Mair' yw ystyr *Kaer nod Vair*. Gwaddolwyd Abaty gwreiddiol Aberconwy gan Llywelyn ap Iorwerth er anrhydedd y Forwyn Fair (gweler, er enghraifft, Elias, T., *loc. cit.*, t. 35). Pan godwyd y castell a'r dref gaerog ar safle'r hen Abaty gan Edwart I, cysegrwyd eglwys y dref i'r Forwyn Fair Fendigaid (gweler, er enghraifft, RCAHMWM, *An Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire Vol 1: East* (HMSO, 1956), t. 39). O ystyried llinell 23 (gweler y nodyn isod), defnyddir y darlleniad 'Cair, Wirod Fair, ynod fedd' yn y golygiad.

**ynod** = ynot. Gweler GPC, 3813, o dan yn<sup>1</sup>.

18. **ar gost** sef 'ar draul'; gweler GPC, t. 569. Cyfeirio at waddoliad tywysogion Gwynedd y mae'r bardd. O ystyried 'gwin' yn y llinell hon ynghyd â 'bara croyw' yn y llinell nesaf yng nghyd-destun gwaddoliad tywysogion Gwynedd, mae'n debyg iawn bod llinellau 18 – 19 yn cyfeirio at weinyddu'r sacrament. Yn llinell 20 y mae'r bardd yn torri ar y difrifoldeb ac yn cadarnhau agwedd llai difrifol y cywydd a ddatgelwyd yn gyntaf yn llinellau 11 – 12 ac a ddatblygir yn y llinellau dilynol.

19. **bara croyw heb oerin** Gwyddys bod tymheredd oer (oer hin > oerin) yn rhwystro'r broses o lefeinio bara, ond dyma fara croyw go iawn (hynny yw, bara heb lefain). Mae'n debyg iawn mai bara'r sacrament a olygir yma (gweler uchod), yn enwedig o ystyried y cyfeiriad at win yn y llinell flaenorol. Posibiliad arall yw bod hwn yn gyfeiriad at Iddewon yn y dref. Gwaharddwyd yr Iddewon o'r bwrdeistrefi gan Edwart I, ond efallai fod rhai ohonynt, fel y Cymry, wedi ymsefydlu yno erbyn y cyfnod dan sylw.

- 23 Er iddo ddefnyddio testun C, ni chynhwysodd T. Gwynn Jones y cwpled hwn yn ei olygiad yn *Llên Cymru ....*

**Ef** Y geiryn berfol a olygir yma: gweler WG, t. 427; GMW, t. 172.

**gŵyl** sef Gŵyl Fair y Canhwyllau, mae'n debyg. Gweler Smith, Llinos Beverley, *loc. cit.*

25. Ceir sawl darlleniad yn y llawysgrifau. 'kwrw kenpen a o genir' yw dewis copiwr anhysbys Q (Card 2.114, 209), yr enghraifft hynaf; 'kwrw kamber a ogenir' sydd gan enghraifft A (BL Add 14979, 175r), ac yn B, dilyna Thomas Wiliems copiwr Q, bron, wrth gynnig 'cwrwf kanpen a ogenir'. Rhywbeth tebyg i enghraifft A, sef 'Kwrw Kamber hên gogenir' sydd gan John Jones Gellilyfdy yn enghraifft C. Dyna ddewis y rhai ar ei ôl, ac eithrio M, R ac S, sydd yn dilyn Q a B (ac S yn cynnig 'canben' yn lle 'canpen'). Dilynir fersiwn John Jones Gellilyfdy yn y golygiad. Gwyddys mai Camber fab Brutus yw Camber Hen: gweler G, t. 100; WCD, t. 97. (Bron yr un mor derbyniol fuasai Q a B, pe gellir cymryd mai rhyw gwrw adnabyddus oedd 'cwrw canpen' ar y pryd).
30. **Cerwyn ddofn** Diddorol yng nghyswllt y cwpled yn llinellau 29 – 30 yw'r hyn a ddywed Lyn Ebenezer (Ebenezer, Lyn, *Cwrw Cymru* (Gwasg Carreg Gwalch, 2006), t. 16:-
- Priodolir i'r mynachod hefyd y ddyfais o'r cerwyn dwbl, a olygai ddyblu'r trwyth stwnsh. Yr ail drwyth fyddai'n cynhyrchu'r cwrw bach, fel y'i gelwid, ar gyfer y myfyrwyr, y pererinion tlawd a'r lleianod.
31. **bai** 'ffaeledd' neu 'gwendid' yw'r ystyr yma.
36. **o'r gaer dau** o'r gaer sy'n perthyn i ti. Gweler GPC, t. 3455.
37. **Yr Yri** Dyma a geir yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau (ynghylch tarddiad 'Yr Yri', gweler Williams, Syr Ifor, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, Gwasg y Brython, 1969), t. 19). Digwydd y gair *Eryri* yn Llyfr Du Caerfyrddin, llawysgrif o ganol y drydedd ganrif ar ddeg (Jarman, A. O. H a Jones, E. D., *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd, 1982), t. 26, ll. 16.18).
- Cyfeiriad at y tywysogion (gan gynnwys Llywelyn Fawr) a gladdwyd yn yr hen Abaty Sistersaidd yw'r llinell hon, mae'n debyg (gweler, er enghraifft, Lloyd, Sir John Edward, *A History of Wales* (2 volumes, Longman's Green & Co., 1954), II, t. 601).
58. **osai** sef gwin melys Alsace, rhanbarth Ffrainc sy'n ffinio â'r Almaen a'r Swistir. Gweler GLM, 406 a'r cyfeiriadau a geir yno.



65. **fâl** eb. dyffryn, bro. Gweler GPC, 1266. Dilynir dehongliad T. Gwynn Jones yma (Jones, T. Gwynn, *Llên Cymru: detholiad o ryddiaith a phrydyddiaeth at wasaneth myfyrwyr gwead ac ysgol* (4 cyfrol, Caernarfon ac Aberystwyth, 1921 – 27), 3, tt. 61 – 62).
66. **costiwyd** sef ‘darparwyd’. Gweler GIG, XXXVIII.1, XXXVIII.1n (tt. 170, 373).

## 9

Cywydd brud a seiliwyd ar chwedl yr anifeiliaid hynaf ac ar ffurff ymddiddan rhwng y bardd ac eog Llyn Llyw<sup>198</sup> yw hwn. Ceir un ffurf ar y chwedl hon yn Y Mabinogion, y tu mewn i'r chwedl ‘Culhwch ac Olwen’, wrth i filwyr Arthur chwilio am Mabon fab Modron. Gan nad oedd neb yn gwybod lle oedd y dyn, aethant at yr anifeiliaid hynaf i holi amdano. Mwyalch Cilgwri oedd y cyntaf, ac wedyn Carw Rhedynfre, Tylluan Cwm Cawlyd, Eryr Gwernabwy ac yn olaf Eog Llyn Llyw, a wyddai fod Mabon yn garcharor yng Nghaer Loyw.<sup>199</sup> Buasai eog Llyn Llyw yn mynd ‘*Gan bob llanw yd af i ar hyt yr auon uhot hyt pan delwyf hyt ymach mur Kaer Loyw*’.<sup>200</sup> Ymddengys felly mai rhywle ar Hafren islaw Caerloyw yr oedd Llyn Llyw.<sup>201</sup>

Dangosodd Thomas Jones fod y chwedl ‘Yr Anifeiliaid Hynaf’ wedi bodoli’n annibynnol, gan ddefnyddio ddwy enghraifft, yn llawysgrifau BL Add 31055, 107<sup>v</sup> a Card 2.25 [=RWM 17], 1 – 2. (Gweler Jones, Thomas, ‘Pethau nas cyhoeddwyd’, *Cylch. Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, VII (Haf 1951), 62 – 66). Cafodd Dafydd Ifans hyd i ddwy enghraifft arall, yn Bodley Welsh e2, 59 – 60 a LIGC 20574A, 87 – 89 (gweler Ifans, Dafydd, ‘Chwedl yr Anifeiliaid Hynaf’, B, 24 (1970 – 72), 461 – 464). Y mae chwedl ‘Yr Anifeiliaid Hynaf’ a geir yn y llawysgrifau hyn yn dra gwahanol, ac nid yw’n crybwyll nac Arthur na Mabon fab Modron. Yn y chwedl hon, y mae Eryr Gwern Gwy<sup>202</sup> yn bwriadu priodi Tylluan Cwm Cowlwyt, ond cyn hynny cais ef wybod ei hoedran. I’r perwyl hwn, â’r eryr at Leisiad Lliwon (Llifon), wedyn at Carw

<sup>198</sup> Neu ‘Lliw’. Gweler CO<sup>2</sup>, tt. 32 – 3. Yn fwy na thebyg, yr un llyn a ‘Llyn Lliwan’ yw hwn: gweler *ibid.*, t. 40; Davies, Sioned, *The Mabinogion* (Oxford, 2007), tt. 204, 212, 272.

<sup>199</sup> Gweler Ifans, Dafydd a Rhiannon, *Y Mabinogion* (Gomer, 1995), tt. 114 – 117.

<sup>200</sup> CO<sup>2</sup>, tt. 33, 150. Gweler hefyd Ifans, Dafydd a Rhiannon, *Y Mabinogion* (Gomer, 1995), t. 116.

<sup>201</sup> Gweler y map yn CO<sup>2</sup>, t. viii.

<sup>202</sup> Yn yr hyn sy’n dilyn, sillafir yr enwau lleoedd a gysylltir â’r anifeiliaid fel y’u ceir yn BL Add 31055, gyda’r amrywiadau yn Card 2.25 mewn cromfachau.

Rhedynvre (Rhedynfryn), Mwyalchen Gilgwri a Llyffant Cors Vochno, ond yr oedd pob un ohonynt yn cofio'r dylluan hithau'n hen.

Yn y cywydd dan sylw, cyfeiria'r bardd at Eog Llyn Llyw (ll. 4), eryr o'r Yri (ll. 9 – 10) fwyalchen (ond heb grybwyll Cilgwri, ll. 11 - 12) a Carw Rhedynfre (ll. 13 – 14). Ceir cyfeiriad at 'eryr mawr ar warr mon' a Chors Fochno (heb grybwyll llyffant) yn ychwanegiad ii, ond i'r traddodiad canu brud y perthyn y rhain.

Ceir trafodaeth ddiddorol iawn ynghylch chwedl yr anifeiliaid hynaf a'r motiffau cysylltiedig, gan yr Athro Helen Fulton.<sup>203</sup>

Ceir sawl cymeriad cyfarwydd o storfa delweddu stoc y brudiau yn y cywydd, megis y blaidd (llynell 7), yr eryr (llynell 9 ac ychwanegiad ii, llynell 1), yr hydd (llynellau 13, 63), mab y dyn (llynell 36), arth (llynellau 37, 51), llew (llynellau 44, 64), a'r bwbach (llynell 57). Fel y gwelwyd eisoes, cafwyd trafodaethau manwl ar y daroganau yn y Gymraeg gan M. E. Griffiths ac R. Wallis Evans,<sup>204</sup> eithr ni fentrir esbonio'r cywydd hwn yn nhermau gwleidyddiaeth y cyfnod, er mor ddeniadol byddai hynny.

Dosberthir y gynghanedd fel a ganlyn:-

	<b>cyng. groes</b>	<b>cyng. draws</b>	<b>cyng. sain</b>	<b>cyng. lusg</b>	<b>cyfanswm</b>
<b>llynellau</b>	14	19	22	9	64
<b>canrannau</b>	21.88	29.69	34.38	14.06	100

4. **eog Llyn Llyw.** Y mae'r bardd yn amlwg yn dilyn fersiwn Culhwch ac Olwen.
5. **a gad** = a gafwyd.
8. Cynghanedd draws, 'r' wreiddgoll.
- 9 – 10. Ai cyfeiriad at Einion Offeiriad a geir yn y cwpled hwn? Yn llynell 10, cedwir y ffurf gysefin *cyfraith* ym mhob copi; ynghylch yr arfer hon o gadw ffurf gysefin y gwrthrych, gweler TC, tt. 189, 207.
14. **Rhedynfre** = Rhedyn + bre (eb. bryn, bryndir, ucheldir). Fferm ym mhlwyf Aberdaron oedd Rhedynfre yn ôl yr Athro J. Rhys, eithr enw Cymraeg ar bentref tua deng milltir i'r de o Gaer (S. *Farndon*) yn ôl yr

<sup>203</sup> Fulton, Helen, 'George Borrow and the oldest animals in 'Wild Wales'', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 2003, New Series, Vol 10 (2004), 23 – 40.

<sup>204</sup> Gweler troednodiadau 170 a 171.

Athro Melville Richards. Ategir barn Melville Richards gan Andrew Breeze, mewn erthygl dra ddiddorol (Breeze, Andrew, 'The Stag of Rhedynfre and Farndon, Cheshire', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 57 (2009), 9 – 14). Gweler Bromwich, R. ac Evans, D. Simon (gol.), *op. cit.*, t. 149.

17. **Gwion** Dau gymeriad adnabyddus sy'n dwyn yr enw Gwion yw Gwion ap Cyndrwyn a Gwion Bach o *Hanes Taliesin* (gweler WCD, 327 - 8). Y mae un o'r Trioedd yn enwi Gwion ap Cyndrwyn fel un o 'Tri Phorthawr Gweith Perllan Vangor' (gweler TYP<sup>3</sup>, 171 – 4), ac yn ôl Canu Heledd, lladdwyd ef ym mrwydr Tren (CLIH, XI, 32).
18. O ystyried yr amrywiadau yn y llawysgrifau, ymddengys fod y llinell hon yn llwgr. Cynigir *A Sionas a'r hen sias hon* yn betrus, gan ddilyn llawysgrifau B ac E, a'r gynghanedd yn gynghanedd sain o gyswllt gytbwys acennog. Yn ôl y dehongliad hwn, Jona'r Hen Destament yw *Sionas*. Dewisodd Jona ffoi i Darsis yn hytrach na mynd i Ninfefe fel y gofynnwyd iddo gan Dduw. Anfonodd Duw bysgodyn mawr i'w nôl ef, a dyma *sias* y llinell. Ar y llaw arall, gellir dehongli fersiwn Elis Gruffydd fel 'A Siohanas a'r sias hon', a allai fod yn gyfeiriad at 'Gweith Perllan Vangor', a hynny'n enw ar frwydr Caer. Gallai 'Siohanas' gyfeirio at un o'r Saeson yn y frwydr, neu fod yn air sy'n cynrychioli'r Saeson fel y cyfryw.
19. Mae'n bosibl mai at ei hun y cyfeiriai'r bardd yn y llinell hon a'r nesaf, yn ôl darlleniad β, a'r gynghanedd yn draws wreiddgoll. Yn ôl darlleniad fersiwn α, fodd bynnag, bu *gwŷr* yn *ymgweiriau*, sef cywiro eu hunain, ac *a gân' o Drefaenan draw*, yn ôl y llinell nesaf. Gallai'r fersiwn hwn fod yn gyfeiriad at fynachod Abaty Aberconwy, a symudiwyd i Drefaenan gan Edwart I, ac a ganent oddi yno erbyn cyfnod y bardd.
20. **Trefaenan** Ymddengys mai trefgordd Maenan, yng nghantref Arllechwedd Isaf ac ym mhlwyf hynafol Eglwysbach, sydd yma. Noder y gynghanedd sain drosgl.
- 21-22. Gallai'r cwpled hwn fod yn gyfeiriad at *Ystorya Adaf*, chwedl apocryffaidd ganoloesol. (Gweler, er enghraifft, Williams, Rev. Robert and Hartwell Jones, Rev. G., *Selections from The Hengwrt MSS, II* (London, Bernard Quaritch, 1892), tt. 243 – 50. Dylid sylwi mai chwedl wahanol yw *Ystorya Adaf ac Eua*: gweler, er enghraifft, Caerwyn Williams, J. E.,

'Pethau Nas Cyhoeddwyd', *Cylch. Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, VI rh. 2 (Gaeaf 1949), 170 – 175.

Yn ôl y chwedl hon, pan oedd Adda yn hen ac eisiau marw, anfonodd ei fab Seth yn ôl i Baradwys, i ofyn i'r Archangel a oedd yn gwarchod y porth anfon ato, trwy ei fab, yr Olew Trugaredd a addawsid iddo gan Dduw pan yrrwyd ef ac Efa oddi yno. Cafodd Seth ganiatâd gan yr Archangel i edrych dwywaith trwy borth Paradwys. Y tro cyntaf, gwelodd ef holl ryfeddodau Paradwys, gan gynnwys ffynnon eglur ac ohoni bedair ffrwd yn llifo, a choeden ddirfawr, heb na rhisgl na ddail. Yr ail dro, roedd gan y goeden risgl a dail, ac ymestynnai hyd at y Nef. Ar ben y goeden safai plentyn newydd-anedig. Ar ôl i'r Archangel ddadlennu i Seth mai mab Duw oedd y plentyn, ac mai Ef fyddai'r Olew Trugaredd, rhoes iddo dri hedyn o ffrwyth y goeden (gyda'r hadau'n cynrychioli'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân). Rhagfynegodd y byddai Adda yn marw o fewn tri diwrnod ar ôl i Seth gyrraedd adref, ac y dylai rhoi'r hadau o dan wreiddiau tafod Adda ar ôl iddo farw. Ufuddhaodd Seth, a thyfodd yr hadau yn dri phren. Wedi amser maith a llawer tro yn hanes y prennau, gan gynnwys cymysgu â'i gilydd i ffurfio un pren yn amser y brenin Dafydd, defnyddiwyd y pren i groeshoelio Crist. Cyfeiriad at Golgotha yw'r *lletben llwyd* yn llinell 22 yn ôl y dehongliad hwn.

Dehongliad posibl arall yw mai at y gŵr ar y lleuad a'r baich drain y cyfeiria'r bardd yma (gweler er enghraifft, Rowlands, Eurys I., 'Y Baich Drain', *LIC IV* (Ionor 1957), tt. 172 – 6). Yn ôl yr esboniad hwn, cymer y gair *lletben* yr ystyr 'ochr y pen'.

- 23 - 4. Prifodlau enghraifft A a ddefnyddir ar gyfer y cwpled hwn, sef *ydym* ac *ym*; *ydyn* a *hyn* a geir yn C, D ac F. Gwahanol yw'r llinell sy'n cyfateb i linell 23 yn achos B ac E, sef *Mae mab dan gof ich gofyn*.
- 27 – 8. Prifodlau enghraifft A a ddefnyddir yma eto, sef *brifardd* a *bardd*; dyma a geir hefyd yn B ac E. *Brifeirdd* a *beirdd* a geir yn C, D ac F.
28. **dyfod** Ffurf C. C. ar 'dywedodd'. Gweler GPC, t. 1124, o dan dyfod<sup>3</sup>.
30. **ton** Ynghylch ffurf fenywaidd yr ansoddair 'tw'n' yn 'a'r dorth yn don', gweler er enghraifft GyG, t. 191 (4.68, nodyn [a]).
34. **allwydd** eg. allwedd. Gweler WG, t. 151.
- Caer Eillio** sef Caer Sallog (S. Salisbury). Gweler G, tt. 95 – 6.

35. Dyma linell gyntaf cywydd a briodolwyd i Ddafydd Gorlech a Ddafydd Llwyd o Fathafarn. Gweler GDGor, tt. 9 – 10, GDLI, tt. 67 – 9 (cerdd 24).
36. **mab y dyn** y mab darogan.
38. **arth** Y mae'r arth yn cynrychioli Iarll Warwig pob amser yng nghanu brud y cyfnod, yn ôl R. Wallis Evans, 'Y Daroganau Cymraeg hyd at Amser y Tuduriaid' (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru [Caerdydd], 1935), pennod 4.
40. **Beli gwyllt** Y mae sawl cymeriad yn dwyn yr enw Beli (gweler, er enghraifft, G, tt. 54 – 5; TYP<sup>3</sup>, tt. 288-9). Ceir hefyd y ffurf *belau*, *bele* 'bwystfil ysglyfaethus, blaidd' (GPC, t. 270).
- bual gyrn** = cyrn y bual, sef cyrn ych gwyllt (weithiau carw).
- 47-8. **gweddillion Troya** Yr hen Frythoniaid, sef disgynyddion Brutus, wŷr neu orwyr Aeneas o Gaerdroea yn ôl chwedloniaeth *Historia Britonum* Nennius a *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy. Gweler, er enghraifft, John Morris (ed.), *Nennius: British History and the Welsh Annals* (Phillimore, 1980); Lewis Thorpe (trans.), *Geoffrey of Monmouth: The History of the Kings of Britain* (Penguin, 1988).
51. **rhwng y ddwydref** Ymadrodd a welwyd yng ngherdd 2 uchod (2.56). O ystyried cefndir gwleidyddol y cywydd dan sylw (sef Rhyfeloedd y Rhosynnau), a'r ffaith i frwydr Banbri (1469) ddigwydd rhwng Banbri a Warwig (dwy dref ag iddynt gestyll), mae'n bosibl mai at y frwydr hon y cyfeiria'r bardd.
59. **tau** 3ydd person un. amser pres. modd myn. y ferf 'tewi'.

## Geirfa

- adail** eg.b. 1. lle ag adeiladau arno, tŷ annedd a'i amgylchoedd. 2. adeiladwaith, yn enwedig ar lun tŷ. 3. adeiladaeth, llwyddiant. 6.41
- adei(i)o** ba. creu, sefydlu; cynllunio. 2.44
- adfarn** eb. apêl yn erbyn dedfryd. 7.62
- adwy** eb. lloches; cifach; clwyden, pleiden. 6.41
- addail** e.ll. deiliach a brigau ieuainc. 2.47
- aelaw** eg. a hefyd fel a. cyfoeth, golud, amllder. Fel a. (a) lluosog, aml (b) cyfoethog (c) hael (d) annwyl, hoff. 4.33
- afrwol** (= afreol) a. anhrefnus, aflywodraethus. 2.9
- Agios** e.p. enw ar Dduw. 7.66
- agwrdd** a. cadarn, cryf, dewr. 7.23
- allwydd** eg. allwedd. 9.34, 9.34n
- amarch** eg. dianrhydedd, gwarth, sarhad. 7.55
- anfonos** = anfonodd. 1.9
- annwyd** eg. oerni, rhyndod. 6.25
- ar bâr** = yn barod. 7.16
- arail** a. gwyliadwrus, gofalus. 6.53
- araul** a. disglair, gwych, heulog, hyfryd. 3.41
- arfoll** eg. cytundeb, cyfamod, cynghrair, llw. 6.75
- arial** eg.b. nwyf, ynni, ysbryd, anian, bywiogrwydd. 4.13
- arofun** 3ydd. prs. un. amser pres. modd myn. y ferf 'arofun': bwriadu. 1.14
- asgell** eb. gwaywffon, paladr. 2.25
- bagad** eg.b. clwstwr. 4.24
- bagl** eb. ffon swyddogol archesgob, esgob neu abad; ffon bugail. 2.27
- baglur** = blagur. 4.23
- bai** eg. ffaeledd, gwendid. 8.31, 8.31n
- bancr** eg. gorchudd dros fainc neu gadair; clustog; mat. 2.38
- bara croyw** = bara dilefain. 8.19, 8.19n

**barilaw** = barilo ba. gosod mewn baril. 8.23

**barth** eg. llawr, daear, llawr cegin, aelwyd. 4.15

**bendithreg** = bendith + rheg eb.g. rhoddwr. Rhoddwr bendith. 4.7

**berw** eg. cyffro neu ysbrydoliaeth farddonol, awen, barddrin, gwaith bardd. 1.7, 1.68, 4.52

**blawr** a. llwyd, llwydlas, gwelwlas. 2.26

**bliant** eg. defnydd tenau drud y gwneid dillad gwych ohono, lliain main. 2.39

**bocsachus** a. ymffrostgar, bostfawr, brolgar, mawreddog, chwyddedig, trahaus. 6.46

**bord, bort** eb. bwrdd, yn enwedig un wedi ei hulio â bwyd, yn *ffig.* am arlwy o fwyd a diod, lletygarwch, cynhaliaeth; bwrdd y trafodir busnes wrtho. 1.8, 2.37, 4.12, 4.12n, 8.58

**braisg** a. ac eg. Cryf, cadarn, nerthol, grymus, gwych, dewr; trwchus, helaeth. 1.2, 1.2n, 2.66, 4.13, 4.27

**Brawdwr** = y Barnwr Goruchaf. 7.60

**breiniol** a. wedi ei gynysgaeddu â breintiau, urddas neu awdurdod. 4.9

**brisg** eg. ac a. llwybr, ffordd, ôl traed; buan, cyflym, bywiog. 1.2, 4.14

**briwdorwyr** ffurf lluosog **briwdorrwr** eg. clwyfwr, archollwr. 6.69

**brodio** ba. harddu â gwniadwaith, weithiau'n *ffig.* 7.1

**bron** eb. yr ystyr *ffig.*, sef ffynhonnell maeth a diddanwch, a olygir yma. 8.10

**brwysg** a. a hefyd eg. 1(a): bywiog, ffyrnig, cadarn, grymus (b) toreithiog, bras, yn tyfu'n wych. 4.28

**bual** eg. ych gwyllt. 9.40

**burm, burum** eg. ewyn a geir ar wyneb diod frag. 8.41

**cad** = ca'd = cafwyd. 2.2, 6.14, 9.5, 9.5n

**cadr** a. hardd, prydferth; grymus, nerthol, galluog. 4.45

**cair** = ceir. 8.30

**cal** eb. pidyn, gwialen. 2.19, 2.19n

**calchaid** a. wedi ei liwio â chalch, wedi ei wyngalchu. 4.28

**calennig** eg.b. anrheg a roddir ar ddydd Calan neu ar y Nadolig, rhodd, gwobr. 7.8, 7.8n

**cam** a. anwir, twyllodrus, anghyfiawn, gau. 2.42

**cawad** eb. cawod. 6.14

**ced** eb.g. Rhodd, anrheg, ffafr, bendith, lles, elw, mantais, cymorth, cymwynas; yn *ffig.* yn aml am un haelionus. 4.35, 4.40

**cefnderw** = cefnder. 7.33

**cêl** eg.b. cuddiad, lloches, dirgelfa. 7.41

**Celi** eg. ac e.p. Nefoedd, Arglwydd, Duw, yr Hollalluog. 7.45

**cenlli** (cenllif) eg. ffrydlif, llifeiriant. 2.30

**certh** a. ac eg. Iawn, gwir, cywir, sicr; ofnadwy, rhyfeddol. 2.2

**cerwyn** eb. llestr at ddal hylif, megis cwrw pan fo'n eplesu. 6.15, 8.30, 8.30n

**claig** eg.? trochiad, trwythiad, gwlychiad. 2.48

**clawdd** eg. ffos, cwter, rhewyn. 2.44

**clêr** eb. tf. (a) beirdd, (b) dosbarth isel o feirdd. 4.2, 8.55

**clochdy** eg. tŵr y gloch mewn eglwys. 6.18

**clos** eg. lle wedi ei amgáu, llannerch; côr, llys. 3.31

**clos** a. caeëdig, wedi ei amgáu; agos; cybyddlyd; cyfrinachgar. 8.33

**cob** eb.g. hugan dilewys a wisgir gan glerigwr. 9.5

**coel** eg.b. arwydd, darogan. 7.7, 7.7n

**cofl** eb. arffed, mynwes; cofleidiad; coflaid, baich, llwyth. 9.6

**conglenn** eb. congl fechan, cilfach; yn *ffig.* am adeilad neu blasty o waith celfydd. 4.27

**côr** eg.b. plethiad, ffin. 3.32, 3.32n

**côr** eg.b. cangell, cysegr; llys. 1.77, 8.14, 9.37

**costied wrth** < costio wrth bg.a. gwario ar, talu am. 8.67

**costiwyd** < costio bg.a. darparu. 8.66, 8.66n

**crair** eg.b. peth sanctaidd neu gysegredig; amddiffynfa. 8.37

**creiglam** = craig + llam. 2.42



**creim** eg. trosedd difrifol. 3.8, 3.8n

**cryswen** a. yn gwisgo crys gwyn neu fantell wen. 1.32

**crystur** = 'crys' + 'dur'. 1.18, 1.18n

**cudeb** eg. anwylder, hoffter, serch, cariad. 7.57

**cuddio wyneb** = diystyru, atal cymwynas. 1.13

**cun** eg. arglwydd, pennaeth, llywiawdwr. 1.29

**curio** be. Nychu, dihoeni, gwywo, edwino. 2.1, 2.1n

**curn** eb. pentwr, crug, carnedd. 6.19

**cwswll** eg.b. gorchudd dros y pen a'r gwddf sy'n gadael yr wyneb yn fwy neu lai agored. 9.64

**cyd** = cyhyd 3.6

**cythrudd** eg. gofid, poen neu aflonyddwch meddwl, blinder; syndod, dychryn; cyffroad, cynnwrf, terfysg; yn *ffig.* cyffrowr, cythryblwr, cynhyrfwr. 4.32

**cywethydd** = cyweth + ydd. cyweth eg. tiriogaeth, gwlad, teyrnas; arglwyddiaeth; dawn awen. 6.43

**chweg** a. hyfryd, dymunol, hawddgar. 7.13

**dadwrdd** eg. a hefyd be. clebar, baldorrd; clebran. 8.42

**daliad** eg. y weithred o ddal tir, daliadaeth. 4.47

**dan gof** = wrth ddwyn mewn cof (S. *bearing in mind, remembering*). 2.3

**dâr** eb. ll. deri, deiri. Derwen o rywogaeth y Quercus, a nodweddir gan braffter ei chyff a'i rhisgl trwchus rhychiog; yn *ffig.* blaenor mewn brwydr, arweinydd galluog, arglwydd cadarn. 3.35, 4.48

**dawnair** eg. a hefyd fel a. gair neu ymadrodd graslon (*gracious word*); yn *ffig.* am Grist, fel a. grasol ei ymadrodd (*of gracious speech*). 6.27

**derfydd** = 3ydd prs. un. ams. pres. modd myn. y ferf darfod. 6.75

**dichwrych** a. diochr + gwych? 7.49, 7.49n

**difer** = di + bêr eg. gwaywffon. 4.19

**di-fost** = di + bost. heb ymffrost. 1.23

**difri** = di + bri. heb urddas, annheilwng. 2.59

**diffygiaw** bg.a. methu, pallu. 6.50

**digabl** a. diogan, dianair, di-fai; rhydd oddi wrth gabl neu anair. 6.31

**digardd** a. di-nam, di-fai, diwarth; gwych, clodforus, rhagorol. 4.49

**dilis** = dilys a. cymeradwy, teilwng. 1.6, 1.6n

**diogan** ans. di-feffl, difai, diargyhoedd, dianair. 4.49

**diorn, di-orn** a. di-gabl, diargyhoedd, di-fai, di-ofn. 7.47

**disdrych, distrych** eg. a hefyd fel a. ewyn, gorferw, yn *ffig*. cynnwrf, terfysg. fel a. ewynnog; gorwyn, disglair. 2.5, 4.56

**diymliw** = di + ymliw. ymliw eg. cerydd, ffrae, ymrafael. 6.33

**dug** = hen ffurf ar 3ydd prs. unigol amser gorff. modd myn.y ferf *dwyn*. 1.2

**dyellyn'** = dyellynt = deallant, deallent. 6.39

**dyfod** ffurf C. C. ar 3ydd prs. un. amser gorff. modd myn. y ferf 'dweud', 'dywedyd'. 9.28, 9.28n

**dyfyn** ba. gwysio, hawlio presenoldeb. 9.52

**dyfyn** eg. gwÿs, galwad i ymddangos mewn llys barn, gorchymyn i ddod gerbron. 7.63

**dyfod** ffurf C. C. ar 'dywedodd'. 9.28

**dylif** eg. llif, dilyw, llifddwr (*flood, deluge, torrent*). GPC, 1137. 2.57

**ebach** eb.g. bae bychan, porthladd, angorfa; cysgod, lloches. 8.3

**eddyl** eg.b. bwriad, amcan. 1.56, 1.56n

**Ehangwen** = enw neuadd Arthur, a adeiladwyd gan Gwlyddyn Saer. 1.32, 1.32n

**eigryd** = aig > eig + rhyd, sef 'rhyd ac iddi haig o bysgod', 'rhyd yn llawn o bysgod'. 2.13, 2.13n, 2.55

**eilchwyl** adf. eilwaith, drachefn, eto, unwaith yn rhagor. 3.44

**enaïd** eg.b. ysbrydoliaeth. 4.28, 4.28n

**encyd** eg.b. ennyd, ysbaid, ystod, tro, talm, moment. 3.5, 6.51

**ennyn** bg.a. cynnau, rhoi ar dân, tanio, llosgi. 6.76

**enynnu** bg.a. ystyr *ffig*. a geir yma, sef cyffroi, cynhyrfu. 9.43

**erglyw** 2 prs. un. modd gorch. y ferf erglywed bg.a. gwranddo, clywed. 9.4

**esgud** a. buan, cyflym; bywiog, heini, diflin; deheuig, dyfal. 2.30, 2.30n

**eurwydd** = eur + gwŷdd. 7.47, 7.47n

**fâl** eb. dyffryn, bro. 8.65, 8.65n

**ffeils** e. ll. (un. g. ffals) twyllwr. 3.11

**ffeir** = ffair, sef cyfnewid. 2.33, 2.33n

**fferf** a.b. (g. ffyrf) cadarn, grymus, nerthol, sylweddol. 2.15, 2.24

**ffiled** eb. rhwymyn. 2.46

**ffriw** eb. wynepryd, gwedd, golwg, ymddangosiad; trwyn; talcen, pen. 1.22

**ffun** eg.b. anadl; ysbryd, bywyd, enaid. 2.42, 7.43

**ffunen** eb. 1. rhwymyn; cadach, tywel 2. lein bysgota. 2.45

**ffurfafen** eb. nen, wybren, nefoedd. 2.24

**ffwrn** eb. ?aelwyd. 6.21, 6.21n

**ffyddrym** a. ffyddlon, dilys, cywir. 4.46

**ffynedig** a. (a) yn ffynnu, llwyddiannus. (b) dewr, eofn; urddasol. 4.45

**ffyniant** = 3ydd prs. ll. amser pres. modd myn. y ferf 'ffynnu, ffynio' bg.a. tywallt, arllwys; cynyddu, prifio. 6.11

**gareglawr** = garreg + llawr. 2.42

**gefyn** eg. llyffethair, hual. 9.53

**gennyn** = gennym. 7.6

**glaswydd** e.tf. ac e.ll.b. llwyn o irgoed, glasgoed. 3.25

**gleisiad** eg. eog yn ei flwyddyn gyntaf. 9.1

**gochel** bg.a. osgoi, cilio rhag, gwyllo rhag. 2.58

**gofal** eg. pryder, blinder, poen meddwl. 4.4

**gofron** eb. lled-fron, llethr graddol, llechwedd, godir, allt, bryncyn. 4.48

**goglyd** eg. ymddiriedaeth, hyder, pwys, ffydd, bryd; sêl; dymuniad, ymbil; gwarchodaeth, amddiffyn. 7.35

**gorfainc** eb. sedd ddyrchafedig. 3.33, 3.33n

**gorowgwal** = gorowg + gwal. gorowg = gorog a. crawnllyd, gwaedlyd. 6.17

**goruchafieth** = goruchafiaeth 3.9, 3.9n

**gowared** = gowaered eg. disgyniad. 2.46, 2.46n

**graen** a. ofnadwy; alaethus, trist; tywyll, du. 2.38

**grofft, crofft** eb. darn o dir, yn enwedig o amgylch annedd. 1.29

**grugwellt** eg. gwair sy'n tyfu ar rosydd llaith yng Ngorffennaf ac Awst, ac iddo goesyn ffyrf, dail byr a fflurben yn cynnwys o dri i chwech o flodigion gwyrdd neu borffor. 6.17

**gwaladr** eg. arglwydd, tywysog, arweinydd, pennaeth. 4.46

**gwaneg** eb. cwrs, rhawd, rhedfa. 2.53

**gwar** eb.g. min, ymyl. 8.5

**gwared** eg. ymward, cymorth, rhyddhad. 2.36

**gwarwyfa** eb. chwarae, lle i chwarae; chwaraefa, chwaraedy, hefyd yn *ffig*. 4.51

**gweli** eb.g. briw gwaedlyd, archoll, anaf, clwyf. 7.41

**gwendref** eb. cartref hardd, annedd fendigaid. 4.15

**gweryd** eg. pridd, daear, tir, gwlad; tywarch; yn *ffig*. bedd. 6.69

**gwesyn** eg. Gwas ifanc, macwy. 2.6

**gwindraul** a. a hefyd fel eg. yn treulio neu'n arllwys gwin; y weithred o rannu gwin. 2.67, 4.15

**gwrdd** a. dewr, eofn; cryf, cadarn; gwych, hardd. 7.24

**gwreichion**, gwrychion e.ll. gronynnau bychain o dân sy'n tasgu oddi ar sylwedd sy'n llosgi, y tameidiau o dân sy'n dal yn fyw mewn lludw. 6.76

**gwridd** eg. arlliw coch ar y gruddiau sy'n cyd-fynd ag ieuenctid, hoen. 2.18

**gwrthiau** e.ll. gwyrthiau. 8.39

**gwrych** eg. 3. ewyn, trochion, berw. 2.18, 2.22

**gwrysg** e. ll. ac e. tf. canghennau, cangau. 6.21

**gwydrin** eg. a hefyd fel a. tŷ gwydr a gysylltid â Myrddin Wylt a'i gariad). 3.26, 3.26n

**gŵyr** = 3ydd person un. amser pres. modd myn. y ferf 'gwybod'. 2.31

**gwythen**=gwythien. 2.24

**gwythlon**= ffyrnig, gwyllt. 2.23

**haeddfydr** = haedd + mydr eg. cerdd, barddoniaeth. cerdd deilwng. 4.12

**heidd-dir** eg. tir dan haid. 9.12

**heiniar**, heinar eg.b. Cynnyrch y flwyddyn, cynhaeaf, yn *ffig*. tâl, gwobr. 7.15

**henyw** = 3ydd prs. un. ams. pres. y ferf hanfod. 6.33

**hirdawdd** = hir + tawdd a. toddedig, rhedegog, hylifol. 2.17

**hirwst** = herwst = herw + gwst. un ar herw. 3.23

**hoypwal** eb.g. ffrwd gyflym, hefyd yn *ffig*. 1.73

**hwylbren** eg.b. polyn hir a osodir yn unionsyth mewn llong i gynnal yr hwyliau, weithiau'n *ffig*. 6.12

**hwylfa** eb.g. heol gul, lôn, llwybr. 2.16

**hydr** ans. dewr, beiddgar; cryf, nerthol, galluog, mawr, cadarn; arbennig, neilltuol. 4.11, 9.37

**isgell eira** (= cawl eira) = eira wedi'i feirioli. 2.25

**llath mangnel** = braich hyblyg mangnel, sef peiriant hyrddio cerrig canoloesol. 2.58, 2.58n

**llathrloyw** = llathr + gloyw. a. disglair iawn, llachar iawn. 4.13

**llathraid** a. disglair, llachar; caboledig; yn *ffig*. ysblennydd, rhagorol; wedi ei berffeithio, coeth. 4.38, 4.54

**lleferydd** eg. b. llais, llafar; mynegiant; parabl. 2.40

**llennyrch** e.ll. un. llannerch eb.g. lle agored mewn coedwig, gwerddon. 2.35

**lletben** eg. ochr mynydd, llethr; ochr y pen. 9.22, 9.22n

**llewyth** eg. graen, golwg raenus, llwyddiant, ffyniant. 4.56

**lludd** eg. rhwystr, llestair, ataliad. 7.61

**lluddio** ba. rhwystro, llesteirio, atal. 9.45

**lluddwraig** = gwraig sy'n lluddio, sef rhwystro. 2.11

**llugyrn** ell. llugorn eg. corn rhyfel. 9.39

**llwrf** = llwfr a. a hefyd fel eg. llaith. 2.40

**llyn** eg. diod, diod feddwol, gwirod. 8.24

**llysieuwfyd** eg. bwyd wedi ei wneud o lysiau; bwyd wedi ei drin â pherlysiâu neu sbeisys. 3.21

**llysllyd** a. llysnafaid, lleidiog. 2.13

**llysu** bg.a. gwrthod, ymwrthod â, nacáu. 4.9

**llysywod** ell. un. b. llysywen, pysgodyn hirfain a llyfngroen tebyg i neidr. 2.34

**maddeuaint** eg. pardwn, gollyngdod, rhyddhad. 7.21

**melltigo** bg.a. mellithio, tyngu anffawd ar; dweud drygair yn erbyn, difenwi, enllibio; rhegi'n gableddus, cablu. 6.47

**merwerydd** eg. (a) ewyn ton; cynnwrf. (b) ymlaferydd, gorffwylledd, gwallgofrwydd. 2.41

**mogel** = ym + gogel = 'osgoi, gochel'. 6.42, 6.42n

**mogeled** = ymogeled. 3ydd prs. un. modd gorch. y ferf ymogel: gocheled. 1.50

**morddwydlin** = morddwyd + llin eg.b. llinach, tras. Diau mai ffigurol yw ystyr 'morddwyd' yma. 4.35, 4.35n

**mwnc** [bnth. S. *monk*] eg. mynach, hefyd yn *dros*. 11.40

**mud** eg., unigolyn tawedog, un na all siarad. 8.41

**mul** a. trist, prudd; tawedog; mud; syml, diniwed, diffuant, di-dwyll. 6.23

**murn** eb.g. twyll, dichell, brad. 8.31

**mw nai** e.tf. ac eb. pres, cyfoeth, trysor, hefyd yn *ffig*. 8.44

**mydryddyn** = mydrydd + dyn. eg. prydydd, bardd. 2.49, 2.49n

**mynfyr** eg. math o ffwr gwyn ar gyfer gwisg seremonïol. 4.41

**mynyglwen** = mwnwgl + wen. mwnwgl eg. gwddf. 4.53

**mynwaur** = mynw + aur. mynw e?g. ?Natur, anian, ysbryd. 4.14, 4.14n

**nant** eb.g. cwm, ceunant. 6.12

**nen** eb.g. pen. 6.12

**Nêr** eg. arglwydd, pennaeth (yn aml am Dduw). 7.44

**nynnu** = enynnu be. ystyr *ffig*. cyffroi, cynhyrfu, dihuono. 3.20

**obry** adf. a hefyd fel eg. isod, oddi tanodd, islaw; i lawr, i waered. fel eg. lle neu bwynt isaf, nadir. 6.59

**oed** eg.b. amser penodedig, dyddiad a bennir i wneud rhywbeth. 7.44, 7.44n

**oediog** a. hynafol; hir ei barhad. 6.7

**oel** eg. olew, sylwedd olewaidd; olew eneinio. 2.47

**oerin** = oer + hin. 2.25, 8.19, 8.19n

**oersaig** = oer + saig eb. g. gwledd. 2.37

**osai** eg., gwin gwyn melys. 8.58, 8.58n

**osbion** e. ll., un. osbion eg.b. gwestai, lletywr, ymwelydd. 4.61

**pall** a. beius, methedig. 2.44

**pa'r** = pa ryw, pa fath (o). 7.3

**parth â** = tuag at. 4.8, 4.38

**parth** eg.b. aelwyd; cartref. 4.15

**pawl** eg. pegwn; eithaf. 6.25, 6.59

**pefr** a. gloyw, disglair, hardd, pur, hefyd yn *ffig*. 7.34

**pêl** eb. gwobr. 6.80

**pennod** eb.g. cyrchnod, targed; terfyn, ffin; diwedd, eithaf; uchafbwynt; prif amcan, diben, pwrpas, bwriad. 4.19

**penrhaith** eg. pennaeth, arglwydd, pendefig. 1.28

**perchis** = parchodd. 1.5

**peris** = 3ydd prs. un. amser gorff. modd myn. y ferf *peri* (= parodd). 1.6, 1.27

**pibonwy** e. ll. (b. un. -en) ac eg. pigynnau crog o iâ a ffurfir pan fo dŵr yn diferu ac yn rhewi. 6.16

**picyn** eg. llestr yfed neu fwyta, wedi'i wneud o ystyllod pren, ac un ystyllen hwy na'r lleill yn gweithredu fel dolen. 6.20

**piler** eg. colofn, hefyd yn drosiadol. 6.59

**plaid** eb.g. corff o gefnogwyr, carfan. 4.38

**ponc** eb. bryncyn. 3.43

**porth** eb.g. porthiant, ymborth. 9.30

**porthcwlis** gratin trwm a osodir mewn rhigolau mewn porth castell ac a grogir ar gadwyni fel y gellir ei ostwng ar frys i rwystro mynediad. 3.30

**prifiach** = prif + iach. prif eg. pennaeth, pendefig. 3.19

**print** eg. marc, nod, argraff; delw, tebygrwydd. 4.18

**priodes** = priododd. 7.4

**pŵl** a. gwan, egwan. 6.25

**pwnc** eg. gweithred, digwyddiad, peth. 2.38

**rhan** eb. rhanbarth, ardal, lle. 6.2

**rheng** eb. llinell, lein. 2.56

**rhewinawg** a. wedi ei ddinistrio, dirywiedig, dinistriol. 6.2, 6.2n

**rhieiddog** = rhieiddog ans. a hefyd gyda grym enwol. Uchel ei dras, pendefigaidd, urddasol, mawreddog, gogoneddus, ysblennydd. 4.31

**rhoddes** = 3ydd prs. un. amser. gorff. y ferf 'rhoddi'. 4.41

**rhoddiad** eg.b. y weithred o rod-di (yn hael), anrhegiad, anrheg. 4.31, 7.39

**rhoad** eg. rhu, grymial. 2.66

**rhus** eg. rhwystr, llyffethair. 3.48

**rhydid** = rhyddid. 2.61

**rhyferf** = rhy +berf<berw? a. terfysglyd iawn. 2.23, 2.23n

**rhygri** = rhwy>rhy + cri eg. gwaedd fawr. 2.13, 2.13n

**sarred** = siarred eb. cerbyd dwy olwyn a dynnid gan geffylau i ryfela ac i rasio. 2.36

**sathr** eg. sathriad, ôl. 4.18

**seigddur** = saig + dur. saig eb.g. dysglaid (o fwyd), (cwrs mewn) pryd bwyd, gwledd, hefyd yn *ffig*. 6.3

**sercel** eb. cylch; cylchdaith, cylchdro. 2.33

**sias** eb. ymlidiad, brwydr, helynt, cynnen. 9.18

**sin** eg. arwydd, arwyddlun. 4.18

**stryd** eb. ffordd gyhoeddus, ond ystyr *ffig*. sydd i'r enw yma. 3.49

**swrcod** eb. math o gôt a wisgir dros ddillad eraill neu arfwisg, hefyd yn *ffig*. 2.34

**swcrio** be. ymgeleddu, cynorthwyo, llochesu. 3.6

**sŷr** = sêr. 7.18

**tachwedd** eg. diwedd, difodiad, diwedd-glo, hefyd yn *ffig*. 7.33

**talaith** eb.g. un o nifer o ardaloedd neu gymunedau hunanlywodraethol sy'n ffurfio ffederasiwn o dan lywodraeth sofran. 6.34

**talar** eb.g. Rhimyn o dir ar hyd ymyl cae a adewir heb ei aredig i adael lle i'r aradr droi, hefyd yn *ffig*.; ffin. 2.54



**tario** bg.a. parhau (mewn rhyw gyflwr), ymdroi, oedi, llesteirio. 6.58, 8.49

**tau** rh. medd. 2<sup>il</sup> prs. un., 'sy'n perthyn i ti'. 8.36

**tau** 3ydd prs. un. amser pres. modd myn. y ferf 'tewi'. 9.59, 9.59n

**tawdd** a. toddedig, rhedegog, hylifol. 2.47

**ton** a. b. (g. twn) toredig; anafus. 9.30

**tor** ail berson unigol modd gorchmynnol y ferf 'torri'. 3.55, 3.55n

**tor** eb. bron, llethr, ystlys neu ochr; glan neu dorlan. 8.4

**trabludd** eg.b. cynnwrf, cyffro, trafferth, aflonyddwch, terfysg, gwrthdaro, brwydr.  
4.25

**trafn** eg.b. arweinydd, arglwydd, tywysog. 4.34

**tramerth** = tra + merth; merth a. prydferth, teg. 6.48

**tramwy** eg. taith. 2.2

**trechaf** a. yn y radd eithaf. cryfaf, mwyaf nerthol neu bwerus. 9.42

**tremyn** eg. a hefyd gyda grym adferfol. Taith, cwrs, llwybr; cyrch (milwrol). 7.29

**trum** eg.b. copa. 3.41

**trwch** a. truenus, gwael; drylliedig, toredig. 4.5

**trymfryd** a. trist, prudd. 4.5

**trywyr** e.ll. tri o ddyinion. 3.55, 3.55n

**turnen** eb. gwrthrych neu lestr wedi ei durnio, llestr crwn. 5.11

**twng** eg. tâl a delir i arglwydd neu frenin yn lle gwestfa yn y Cyfreithiau Cymreig.  
4.19

**uchelrwyg** = uchel + rhwyg eg.b. urddas bonheddig. 1.7, 1.7n.

**unfron** = un + bron eb. ochr bryn sydd â chwyddiad ynddo, llethr bryn. 9.14

**urddasdraul** eb. (= urddas + traul) dinistr urddas. 2.5, 2.5n

**urddedig** a.bfl. bonheddig, dyrchafedig, ordeiniedig. 7.8

**ym** = im, imi. 7.3

**ymguraw** = ymguro bg. curo, ymladd, hefyd yn *ffig.*; ymdrechu. 9.19

**yinn** = inni. 7.20

**yynny** = inni. 7.2

**ysbys** = hysbys a. cyfarwydd, amlwg. 2.3

**ysigddart** = ysig + dart eg.b. gwaywffon. gwaywffon sy'n anafu. 6.3

**ystâl** eb. rhaniad mewn beudy neu stabl ar gyfer un anifail. 2.26

**ystola** eb.g. sribed o frethyn a wisgir dros yr ysgwyddau gan offeiriad. 2.26

**ystred** eb. rhes, cyfres, llinell, hefyd yn *ffig*. 2.28

**ystum** eg.b. arwydd, osgo; dichell, cast. 2.27

**ystrîn** eb. gwrthdaro, cynnen, ymrafael, ffrwgwd, brwydr. 3.49

**ywch** = ichwi. 4.3

## **Enwau personau**

Adda. 9.21, 9.21n

Anna. 7.2, 7.7, 7.19, 7.26, 7.73

Arthur. 1.1, 1.18, 1.72

Beli. 9.40, 9.40n

Camber. 8.25

Crist. 4.64, 7.36

Dylan (ail Ton). 1.21?

Edmwn. 7.70

Ednyfed. 4.36

Edwart (Edwart ap Dafydd ap Gwilym?). 1.64

Grwst. 3.24, 3.24n

Guto('r Glyn). 1.53, 5.3 - 4

Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym o'r Penrhyn. 4.30 - 34, 4.46, 4.63

Gwion. 9.17, 9.17n

Huail. 1.22, 1.22n

Iago. 7.23, 7.69, 7.71

Iesu. 7.10

Ieuan (ap Gruffudd Leiaf). 5.9

Ieuan (yr efengylwr). 7.24

Ifan (ap Gruffudd Leiaf). 5.7, 5.7n

Ifor (Hael). 3.21

Llyr. 3.56, 3.56n

Llywelyn. 6.4

mab y dyn. 9.36, 9.36n

Mair (cyntaf-anedig Anna a mam yr Iesu). 7.9, 8.17, 8.61

Mair (merch arall Anna, a mam Iago ac Ieuan Efangelwr, yn ôl y cywydd). 7.20

Mair (merch arall Anna, a mam Siôn, Sud a Simant, yn ôl y cywydd). 7.25, 7.27

Mair (y tair chwaer). 7.72  
Medrod. 3.4, 3.4n  
Merddin. 3.10  
Nudd. 3.7, 3.7n  
Rhita Gawr. 6.6  
Rhys Gethin. 3.9, 3.9n  
Rhys (Syr Rhys o Garno?). 1.64  
Silyn (sant). 1.77, 1.77n  
Simant (S. *Simon*). 7.32, 7.32n  
Simwn. 7.70  
Sionas. 9.18  
Sioned ferch Syr Wiliam Ystanlai. 4.39 - 44  
Siôr. 8.62  
Sud (Jwdas). 7.32, 7.32n

## **Enwau lleoedd**

Aber Conwy. 8.55 - 6  
Amwythig. 8.27  
Babilon. 3.29, 6.57  
Caer Eilliog. 9.34, 9.34n  
Caer Gyffin. 8.14  
Caer Salem. 1.77, 1.77n  
Caerllion. 1.81  
Carnedd Llywelyn. 6.1, 6.4  
Conwy (bwrdeistref). 8.13, 8.13n, 8.34, 8.56  
Conwy (afon). 2.12  
Cors Fochno. 9.ychwanegiad ii.6  
Cwlen. (S. *Cologne*). 3.39, 3.39n  
Cynllaith. 1.28  
Deheubarth. 9.38  
Dyfnaint. 3.34  
Edeirnion. 5.9  
Eryri. Gw. *Yr Yri* isod  
Ffrainc. 3.18  
Gwasgwyn. 3.35  
Gweblai (S. *Weobley*). 8.32  
Gwynedd. 1.60, 8.18, 8.34  
Gyffin. 8.14, 8.14n  
Henffordd. 8.26  
Hwlfordd. 8.26  
Iorc. 8.12  
Lloegr. 6.52, 6.62, 9.39  
Llundain. 8.11

Llwydlo. 8.29  
Llydaw. 9.37  
Llyn Llyw. 9.4, 9.4n  
Moelyrch. 1.16, 1.74  
Môn. 6.42  
Nanconwy. 3.2, 3.29, 3.39  
Powys. 1.19, 1.55  
Rhedynfre. 9.14, 9.14n  
Rhos. 3.22, 3.22n  
Trefaenen. 9.20, 9.20n  
Troya. 9.48, 9.48n  
Wysg (afon). 1.7, 1.7n, 1.8  
Y Penrhyn. 2.6, 2.62, 4.8, 4.54  
Yr Yri. 8.37, 8.37n

# Gwaith Robert Leiaf

---

## Rhagymadrodd

Ychydig iawn a wyddys am Robert Leiaf, ar wahân i'r hyn y gellir ei gasglu o'i farddoniaeth. Yn WG1, 'Gruffudd ap Cynan', 6, cofnodir bod Robert Leiaf (ynghyd â Syr Siôn Leiaf) yn fab i Ieuan ap Gruffudd Leiaf. Ni cheir cofnod iddo yn ByCy, nac yn y fersiwn electronig diwygiedig ohono a geir ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol.<sup>205</sup> Ceir enw Robert Leiaf yn y rhestr a geir yn llawysgrif BL Add 31055, 48<sup>r</sup>, o dan y beirdd hynny a 'oedh yn amser y trydydh Clymiad ar Gerdh', yn *Dictionarium Duplex* Dr. John Davies, Mallwyd ac yn *Repertorium Poeticum* Moses Williams, a'r dyddiad 1480 wrtho yn y ddau achos.

Yn ei lyfr *Enwogion Cymru*, dywed y Parchedig Robert Williams fel a ganlyn:-

*Robert (Leiaf) a genealogist and poet who flourished between 1450 and 1490. Several of his compositions are preserved in manuscript.*<sup>206</sup>

(Y mae'r awdur hwn yn dilyn William Owen Pughe yn ei *Cambrian Biography*, ac yn cynnwys cyfeiriad at waith y bardd yn y llawysgrifau).<sup>207</sup> O ystyried yr hyn a wyddys am ei dad, ynghyd â'i waith barddonol ei hun, credir bod 1450-90 yn amcangyfrif teg iawn o *floruit* y bardd ar ran yr awduron hyn.

Y mae'n amlwg i'r bardd fynd ar bererindod i Rufain yn ystod ei oes: cerdd gan lygad-dyst yw ei gywydd i'r Iesu a'r Fernagl (cerdd 13, ac yn enwedig llinellau 3 - 4). Fel gymaint o'i gyd-bererinion, mae'n sicr bron y byddai wedi dechrau ei daith o Gent, a glanio ar y cyfandir yng Nghalais. Yn fwy na thebyg, dyma'r achlysur pan ganodd y bardd i'r dref honno a'r milwyr Cymreig a oedd yn ei garsiwn (cerdd 10). Ymddengys mai dyma'r unig ffeithiau bywgraffyddol y gellir eu casglu o'i farddoniaeth. Yn ôl *Beddau y Beirdd*,<sup>208</sup> claddwyd Robert Leiaf (a'i daid Gruffudd Leiaf hefyd) yn Chwitffordd, Sir y Fflint.

O'r saith gywydd a briodolir i Robert Leiaf yma, cywyddau gofyn yw dau ohonynt (rhifau 11 a 14), ac mae gan un o'r rhain (11) ddiweddglo annisgwyl (os dilys yw'r diweddglo hwnnw). Ceir un rieingerdd (rhif 15), cywydd i Galais a'i milwyr

---

<sup>205</sup> [http://www.llgc.org.uk/index.php?id=electronicresources&no\\_cache=1](http://www.llgc.org.uk/index.php?id=electronicresources&no_cache=1).

<sup>206</sup> Williams, Rev. Robert, *Enwogion Cymru: A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (Llandoverly, 1852), t. 255.

<sup>207</sup> Pughe, William Owen, *The Cambrian Biography or Historical Notices of Celebrated Men Among the Ancient Britons* (London 1803), t. 318.

<sup>208</sup> *Y Brython*, Cyf. III, Ebrill 1860, tt. 137 - 8.

(rhif 10), dychan i'r dylluan ar ôl i'r aderyn rwystro oed y bardd gyda'i gariad (rhif 12) a dau gywydd crefyddol (rhifau 13 ac 16). Mae'n bosibl mai gwaith Syr Siôn Leiaf yw rhif 12 (gweler isod), a chan nad oes ond un enghraifft lawysgrifol ar gyfer rhif 16, ni ellir bod yn ffyddiog mai gwaith Robert Leiaf yw'r gerdd honno, er bod y copiwr yn ei phriodoli iddo.

## Crefft y Cerddi

Cwbl nodweddiadol o waith bardd o ail ran y bymthegfed ganrif yw gwaith Robert Leiaf, a'r meddwl yn datblygu fesul cwpled, a'r mynegiant yn glir ac yn osgoi cystrawennau cymhleth ar y cyfan.

Dosberthir y gynghanedd fel a ganlyn:-

Rhif y gerdd	cyng. groes	cyng. draws	cyng. sain	cyng. lusg	Cyfanswm	groes + draws
10	33	23	10	0	66	56
%	50.00	34.85	15.15	0.00	100.00	84.85
11	46	10	2	2	60	56
%	76.67	16.67	3.33	3.33	100.00	93.33
12	36	16	8	8	68	52
%	52.94	23.53	11.76	11.76	100.00	76.47
13	38	15	7	4	64	53
%	59.38	23.44	10.94	6.25	100.00	82.81
14	25	35	3	1	64	60
%	39.06	54.69	4.69	1.56	100.00	93.75
15	21	8	10	3	42	29
%	50.00	19.05	23.81	7.14	100.00	69.05
16	43	35	25	7	110	78
%	39.09	31.82	22.73	6.36	100.00	70.91
<b>Cyfanswm</b>	<b>242</b>	<b>142</b>	<b>65</b>	<b>25</b>	<b>474</b>	<b>384</b>
%	<b>51.05</b>	<b>29.96</b>	<b>13.71</b>	<b>5.27</b>	<b>100</b>	<b>81.01</b>

Cymharol isel yw canrannau'r gynghanedd sain, nodwedd arall canu'r cyfnod hwn. Ceir cymeriadau llythrennol a chynganeddol ym mhob cerdd, er enghraifft 10.1 – 10.6, 10.61 – 10.66, 12a.49 - 12a.64, 14.35 – 14.38, 14.39 – 14.42.



Ni chadwyd cywydd mawl traddodiadol ganddo yn y llawysgrifau, er bod y ddau gywydd gofyn (rhifau 11 a 14) yn cynnwys rhywfaint o foli yn ôl gofynion y *genre*. Ymddengys mai un a ganodd ar ei fwyd ei hun oedd Robert Leiaf, fel ei dad.

### **Cyfnod tebygol y canu**

Yn anffodus, nid oes dim yng ngherddi'r bardd y gellir ei ddyddio'n bendant. O ystyried hanes Siôn Moel Hen (gweler y nodiadau ar gyfer cerdd 11 isod), mae'n debyg mai rhwng 1461 a 1488 y canodd Robert Leiaf gerdd 11. Yn 14.31 (*I'w roi dan Huw i'r dinas*), mae'n bosibl mai Llundain yw'r dinas dan sylw, a Huw Conwy yn mynd yno yn rhinwedd ei swydd fel aelod o Siambwr Gyfrin Harri VII. Buasai hynny yn golygu mai ar ôl brwydr Bosworth y canodd y bardd gerdd 14. Ymddengys mai ar ôl iddo gwasanaethu fel milwr yng Nghalais y dychwelodd yno fel gwestai (10.39) a chanu'r cywydd i'r dref, ond ni wyddys dyddiad yr ymweliad.

A derbyn mai ar ôl 1485 y canodd ef rhif 14, a chyfnod tebygol canu ei dad, gellir dyfalu mai c. 1440 – c. 1490 oedd cyfnod canu Robert Leiaf.

### **Dilysrwydd y Cerddi**

Yn yr adran hon, cyfeirir at gerdd trwy ddefnyddio'r llinell gyntaf.

#### **Cerddi dilys**

*Cwrs ydyw caru sawdwyr (Rhif 10: cywydd i Galais a'i milwyr)*

Ceir y cywydd hwn mewn pump o llawysgrifau, sef BL Add 14967, LIGC 3057D [= Mos 161], Card 2.114 [= RWM 7], llawysgrif Coleg yr Iesu, Rhydychen J 139 [= RWM 14] a Llanst 123, a phob un yn ei briodoli i Robert Leiaf. Gellir rhannu'r enghreifftiau hyn yn ddau ddsbarth, sef dosbarth 1, yn cynnwys yr enghreifftiau a geir yn llawysgrifau BL Add 14967, LIGC 3057D a Llst 123, a dosbarth 2, yn cynnwys y rheini a geir yn llawysgrifau Card 2.114 a J 139. Y mae un ar bymtheg a deugain o linellau i'r ddau achos yn nosbarth 2, y rhain yn weddol gyson o ran cynnwys a threfn, ac eithrio gwahaniaethau y gellir eu priodoli i raddau helaeth i ddiffyg orgraff y cyfnod. Yr un llinellau yn yr un drefn a geir yn y tair enghraifft yn nosbarth 1, ond y mae pum cwpled ychwanegol i'r enghreifftiau hyn, y cwpledi yn gyson o ran cynnwys a threfn a lleoliad. Cynhwysir y cwpledi ychwanegol hyn yn y fersiwn golygedig.

Cyhoeddwyd dau fersiwn o'r gerdd hon, y ddau'n seiliedig ar destun llawysgrif Card 2.114, gan T. Gwynn Jones.<sup>209</sup>

*Doed wŷr Mers ar deid i'r môr (Rhif 11: cywydd gofyn âb gan Siôn Moel dros Huw Lewis o Brysaeddfed)*

Y mae deng enghraifft llawysgrifol ar hugain, naw ar hugain ohonynt yn priodoli'r cywydd i Robert Leiaf, a'r llall yn ei briodoli i Ruffudd ap Tudur ap Hywel (*fl.* 1500 – 1540).<sup>210</sup> Cafwyd golygiad llawn o'r gerdd hon gan B. O. Huws.<sup>211</sup>

*Llawen nos Iau lluniais oed (Rhif 12: cywydd dychan i'r dylluan am iddi ddychryn cariad y bardd)*

Cafwyd hyd i naw enghraifft llawysgrifol ar hugain fel a ganlyn:-

A—Pen 76, 108; B—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 347; C—Card 4.330 [= Hafod26], 235; D—LIGC 3050D [= Mos 147], 16; E—BL Add 14882 [=RWM 31], 128; F—Bodley Welsh e3, 50; G—BL Add 14969, 474; H—LIGC 834, 268; I—Bodley Welsh e.1, 110b; J—LIGC 3066E [= Mos 212], 106; K—BL Add 14896, 23; L—LIGC 5269B, 294; M—Esgair 1, 37; N—Brog 4, 126; O—Llst 14, 107; P—LIGC 9166B, 118; Q—Bodley Welsh e8, 42a; R—LIGC 3021F, 256; S—Card 2.202 [= RWM 66], 250; T—Llst 133, 1041; U—BL Add 14876, 23b; V—Card 4.156 [= RWM 64], 552; W—BL Add 14932, 81b; X—BL Add 14870 [= RWM 53], 265b; Y—LIGC 5475A [= Aberdâr 2], 197; Z—Ba 6, 439; AA—Card 5.11 [= RWM 33], 287; AB—CM 40, 69; AC—LIGC 670D, 82. Anghyflawn yw enghreifftiau K ac W.

Priodolwyd y cywydd gan yr amryfal gopïwyr i fardd neu feirdd fel a ganlyn:-

<b>Llawysgrif</b>	<b>Bardd</b>
A, N, U,	Robert Leiaf
B, G, H, L,	Syr Siôn Leiaf
F, M, S, V, AB, AC	Gruffudd Leiaf
I, J, O, Q, R, T, X, Y	Dafydd ap Gwilym
C, E, P,	Robert Leiaf eraill a ddywed Dafydd ap Gwilym

<sup>209</sup> Jones, T. G., 'Sawdwyr Calais', *Llên Cymru: detholiad o ryddiaith a phrydyddiaeth at wasaneth myfyrwyr gwlad ac ysgol*, cyf. 1, Caernarfon (1921), 61 – 2; Jones, T. G., 'Cultural Bases: A Study of the Tudor Period in Wales', *Y Cymmrodor*, 31 (1921), 183 – 6.

<sup>210</sup> ByCy, t. 293.

<sup>211</sup> Gweler Huws, Bleddyn Owen, *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch* (Cyhoeddiadau Barddas, 1998), tt. 59 – 60, 128 – 9; Huws, Bleddyn Owen, 'Astudiaeth o'r Canu Gofyn a Diolch Rhwng c. 1350 a c. 1630' (Traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru, Bangor 1994), tt. 394 – 8, 493 – 5.

D	Syr Siôn Leiaf eraill a ddywed D ap G
I	Dafydd ap Gwilym eraill a ddywed Syr Siôn Leiaf
K, W, Z, AA <sup>212</sup>	Heb enw (K ac W yn anghyflawn)

Y mae'n amlwg nad gwaith Dafydd ap Gwilym ydyw'r gerdd hon, fodd bynnag, o ystyried arddull y gerdd, sydd yn gwbl nodweddiadol o waith cywyddwyr ail ran y bymthegfed ganrif. Yn ôl Thomas Parry, "... y mae'r mynegiant yn llawer rhy rwydd a'r cwpledi'n rhy drawiadol i fod yn waith DG."<sup>213</sup> Am yr un rheswm, prin y gellir ei hystyried yn waith dilys Gruffudd Leiaf ychwaith. Fe'i cynhwysir yn y casgliad hwn o waith Robert Leiaf, er y gellir dadlau o blaid Syr Siôn Leiaf hefyd.

*Nid â'n gaeth enaid un gŵr (Os y fernagl sy farnwr) (Rhif 13:cywydd i'r Iesu a'r fernagl a roddwyd iddo ar y ffordd i Galfaria)*

Y mae dwy enghraifft lawysgrifol ar hugain yn dechrau â *Nid â'n gaeth enaid un gŵr*, a saith ag *Os y fernagl sy farnwr*. O'r saith hyn, y mae pedair llinell a thrigain i'r tair enghraifft gynharaf, a briodolir oll i Syr Siôn Leiaf, ac un llinell ar bymtheg a deugain i'r pedair arall, a briodolir oll i Robert Leiaf.

Ar wahân i lawysgrif Pen 221, lle ceir y cwpled cyntaf yn unig, heb enw'r bardd, amrywia nifer y llinellau yn y ddwy enghraifft lawysgrifol ar hugain arall (hynny yw, y rhai sydd yn dechrau â *Nid â'n gaeth enaid un gŵr*) o un llinell ar ddeg ar hugain (darn cyntaf y gerdd ar goll) i bedair llinell a thrigain. Yr un cywydd yw'r fersiynau pedair llinell a thrigain hyn â'r tri fersiwn uchod a briodolir i Syr Siôn Leiaf, ar wahân i drefn rhai llinellau, a defnyddir y fersiynau hyn fel sail i'r golygiad a gyflwynir yma.

*Rhodd fraisg a geir heddiw fry (Rhif 14: cywydd gofyn march gan Rhys ap Maredudd dros Huw Conwy Hen)*

Wyth enghraifft a geir yn y llawysgrifau, chwech yn bedair llinell a thrigain, a dwy yn ddwy linell a thrigain. Y mae'r enghreifftiau hyn yn gyson o ran cynnwys a threfn, a phob un yn priodoli'r cywydd i Robert Leiaf.

*Y ddyn fwyn a ddaw yn fynych (Rhif 15: cywydd i ferch ac i'w gwallt)*

Ceir copïau llawn o'r cywydd hwn, pob un yn ei briodoli i Robert Leiaf, yn y saith llawysgrif ganlynol: Pen 76; Card 2.114 [= RWM 7]; Pen 112; LIGC 834B; LIGC 5269B; J 139 [= RWM 14] a Bangor 13512. Yn ogystal, ceir dwy linell gyntaf y

<sup>212</sup> Mae Z ac AA yn dilyn X wrth rhoi'r dyddiad 1400 ar ddiwedd y cywydd.

<sup>213</sup> Thomas Parry, GDG, t.clxxix.

gerdd yn unig yn llawysgrif Pen 159, mewn darn a gopiwyd o'r Pum Llyfr Kerddwriaeth.<sup>214</sup>

Y mae'r saith fersiwn llawn yn gyson o ran trefn a chynnwys y llinellau, ac eithrio'r ddwy linell gyntaf (gweler y nodiadau perthnasol isod).

*Y tri Undod trwy iawnder (Rhif 16: cywydd i'r Drindod ac i bedair merch y Drindod)*

Nid oes ond un enghraifft llawysgrifol ar gyfer y cywydd hwn, sef LIGC 1559B, 366. Cynhwysir y gerdd yma, gan gofio nad yw'r dystiolaeth o blaid Robert Leiaf fel awdur yn ymddangos yn gryf iawn ar hyn o bryd.

### **Cerddi annilys neu ansicr eu hawduraeth**

*Cwnig canwsig cywion isel*

Yn ôl MCF, priodolir yr englyn hwn i'r gwenyn i Robert Leiaf yn BL Add 14984, 99<sup>r</sup> a BL Add 31056, 115<sup>v</sup> (cerdd 17793). Yn y rhestr o waith y bardd, cyfeiria MFGLl at yr un llawysgrifau, ond ychwanegir y rhybudd 'v. Bleddyn Du'. Ceir cyfres o bump englyn ar ddalen 115<sup>v</sup> o llawysgrif BL Add 31056, heb enw iddynt, a dim ond yr un cyntaf yn ymwneud â gwenyn. Ar y ddalen nesaf, ceir cerdd wahanol, sef cywydd gan Owain Gwynedd yn ôl y copiwr. Annilys yw'r cyfeiriad at BL Add 14984, 99<sup>r</sup>.

Fe'i priodolir i Bleddyn Ddu mewn saith o llawysgrifau (cerdd 411), ac fe'i ceir yn ddiennw mewn tair o llawysgrifau eraill (cerdd 35645). Cynhwyswyd yr englyn cyntaf yn GBDd, a'r golygydd yn defnyddio chwech o llawysgrifau gwahanol. Dywed y golygydd y gallai'r cynganeddiad '*yn hawdd berthyn i'r bymthegfed ganrif, sef cyfnod Llawdden*'.<sup>215</sup> Fe'i ceir hefyd yn GDID, fel ail englyn o ddau i'r gwenyn.<sup>216</sup>

Ni welir yma unrhyw dystiolaeth a allai cyfiawnhau priodoli'r englyn hwn i Robert Leiaf.

*Dilid y broffwydoliaeth*

Ymddengys nad oes dystiolaeth dros briodoli'r cywydd brud hwn i Robert Leiaf. Gweler Gwaith Ieuan ap Gruffudd Leiaf, o dan yr un cywydd.

*Iesu hwde nefosiwn (ddefosiwn)*

---

<sup>214</sup> Gw. er enghraifft Williams, G. J. a Jones, E. J., *Gramadegau'r Penceirddiaid*, Caerdydd 1934, 127.

<sup>215</sup> GBDd, tt 11, 38, 63 – 6. Yn ogystal â'r chwe enghraifft llawysgrifol a nodir gan yr awdur, ceir un yn BL Add 31056, 115<sup>v</sup> ac un arall yn BL Add 14984, 99<sup>r</sup>. Gweler hefyd GLL, tt. 17, 18.

<sup>216</sup> GDID, tt. 52, 160.

Cywydd i'r Iesu yw hwn. Pum cyfeiriad llawysgrifol (cerdd 17797) a geir yn MCF o ddefnyddio 'Iesu hwde nefosiwn' yn llinell gyntaf, neu o ddefnyddio 'Robert Leiaf' yn enw'r bardd. Ar y llaw arall, wrth newid y llinell gyntaf i 'Iesu hwde ddefosiwn' ceir pedwar ar ddeg o gyfeiriadau llawysgrifol sy'n priodoli cerdd 10934 i Iolo Goch, ynghyd ag un cyfeiriad at ffynhonnell brintiedig,<sup>217</sup> a chwech o gyfeiriadau llawysgrifol sy'n priodoli cerdd 18514 i Rhisiart Brych. Ceir hefyd tri chyfeiriad llawysgrifol i Siôn Cent (cerdd 20924). Yr un gerdd yn y bôn yw cerddi 17797, 10934 ac 18514 a 20924. Nid oes dystiolaeth ddigonol dros briodoli'r gerdd i Robert Leiaf.

(Gwrthodwyd y gerdd hon fel gwaith dilys Iolo Goch yn IGE (gweler tudalennau lix – lx). Ni chynhwyswyd y gerdd yn GIG).

#### *Llawer Hagar ufuddgar fydd*

Ni cheir enw Robert Leiaf wrth y ddau englyn a gynhwysa'r gerdd hon yn unrhyw un o'r pedair enghraifft llawysgrifol a gofnodir yn MCF. Yn llawysgrif BL Add 14979, 31<sup>r</sup>, dilynir y gerdd gan y cywydd *Nid â'n gaeth enaid un gŵr*, a briodolir i Robert Leiaf, a dyna, efallai, sy'n esbonio'r ffaith i MCF briodoli'r gerdd dan sylw iddo. Mewn gwirionedd, ceir y gerdd hon mewn manau eraill hefyd (e.e. BL Add 31058, 19<sup>v</sup>). Oherwydd diffyg tystiolaeth o blaid Robert Leiaf, ni chynhwysir y gerdd yn y gwaith presennol.

#### *Os anodd ar gaswenan*

Dau gwpled yn unig sydd i'r gerdd hon yn ôl y ddwy enghraifft llawysgrifol (LIGC 1668B, 4 a LIGC 37B, 128), a phriodolir y ddwy i Robert Leiaf. Ar y llaw arall, ceir y darn hwn hefyd fel rhan o gywydd mwy, sef *Y ferch â'r ael winau fain*, a briodolir i amryw feirdd (gweler isod). Ni chredir yma fod y dystiolaeth yn ddigon cryf i ystyried y gerdd hon yn waith dilys Robert Leiaf.

#### *Y carw serch y cywiriad*

Cywydd gofyn yw hwn. O'r ddwy enghraifft llawysgrifol ar bymtheg, dim ond un (llawysgrif Wy 1, 290) sydd yn crybwyll Robert Leiaf fel awdur posibl y cywydd hwn, ac yn wir y mae'r copiwr yn cynnig Rhys Goch Glyndyfrdwy ac Ieuan ap Tudur Penllyn fel awduron dichonadwy eraill. Credir yma mai Rhys Goch Glyndyfrdwy biau'r gerdd, a chynhwysir golygiad ohoni yn y rhan berthnasol o'r gwaith hwn.

#### *Y dyn (ddyn) a thyfaid Anna*

---

<sup>217</sup> Charles Ashton, *Gweithiau Iolo Goch*, Gwasg Caxton (1896), 545 – 8.

Priodolwyd y rheiengerdd hon i Ieuan Deulwyn mewn chwe llawysgrif, a chynhwyswyd y gerdd yn y llyfr *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn* gan Ifor Williams.<sup>218</sup> Dim ond un llawysgrif sydd yn ei phriodoli i Robert Leiaf, sef Card 3.4, 14<sup>v</sup> (llyfr Elis Gruffydd, c. 1527), ac er bod yr enghraifft hon ychydig yn gynharach na'r lleill, bernir nad yw'r dystiolaeth yn ddigon cryf i briodoli'r gerdd yn ddiogel iddo.

*Y ferch â'r ael winau fain*

Priodolir y cywydd serch hwn yn y llawysgrifau i Bedo Aeddren, Bedo Brwynllys, Dafydd ap Gwilym, Llawdden (neu Ieuan Llawdden), Ieuan Dyfi a Syr Dafydd Owain, yn ogystal â Robert Leiaf. Ceir fersiwn golygedig yn GHCLl (tt. 139 – 40), lle'r ystyrir y cywydd yn waith Ieuan Dyfi. Nid yw'r dystiolaeth dros briodoli'r cywydd i Robert Leiaf yn gryf, ac ni chynhwysir y gerdd yma.

*Y lleian hardd yw llun hon*

Priodolir y cywydd hwn i San Ffraid yn y rhan fwyaf o lawysgrifau i Iorwerth Fynglwyd, a golygwyd y cywydd yn GIF.<sup>219</sup>

---

<sup>218</sup> Williams, Ifor, *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn* (Bangor, 1909), tt. 30 – 1.

<sup>219</sup> Jones, Howell Ll. a Rowlands, E. I., *Gwaith Iorwerth Fynglwyd* (Caerdydd, 1975), tt. 94 – 5, 126.

## 10. Cywydd i Galais a'i Milwyr

- Cwrs ydyw caru sawdwyr,  
Cerais y Galais a'i gwŷr.  
Cymry'n ffres cymeren' Ffrainc,  
4 Ceirw Troya, cwrtwyr ieuainc.  
Calais yn herio Cwlen,  
Cynafon hil Cynfyn Hen.  
Pan gollo Cymro, p'le cais  
8 Oni gweler 'n y Galais?  
Mi a welais y milwyr  
Oedd ar goll. Pand oedd dda'r gwŷr?  
Selais wŷr a gollais gynt,  
12 Sawdwyr yng Nghalais ydynt!  
Da yw'r ban y derbynnir  
Y gweision dewrion i dir.  
I'r un gaer yr ân' i gyd,  
16 I'r gwinoedd awr ac ennyd;  
O'r gaer, pe bai rhew ac ôd,  
I'r maes lle bai'r ymosod,  
Dail a wnâi'r efail i'r ais,  
20 Dur Cwlen am deirw Calais.  
Dynion yn cadw un dinas,  
Daear a gloed â dŵr glas.  
Tref ar lwff lle trof i'r lan,  
24 Tref iachus, Troya fechan.  
Caer falch a dâl cwr o Fôn,  
Clo Lloegr, nis cêl y llygion.

Duw a roes, i gadw ar wŷr,  
28 Dinas Edwart dan sawdwyr.  
Gwyn ein byd, gwenwyn ni bo,  
Gael dynion o'n gwlad yno.  
Ni all gwŷr, ennill ar gais,  
32 Bygyly neb o Galais;  
Gyrrant hwy, chwedl Geraint oedd,  
Wŷr ymeroddr i'r moroedd;  
Mynnwn fod, gorfod i'r gwŷr,  
36 Dâr sawden gyda'r sawdwyr.  
Oes yn fyw, ni cheisiwn fach,  
Ais yn ddur, weision ddewrach?  
Heddiw 'wynt yw gwahoddwyr,  
40 Haelion a gwychion yw'r gwŷr.  
Gwaed Gamber, galwer i'n gŵydd  
Gwyal entriad galontrwydd.  
Chwerddais - paham na chwarddent?  
44 Pan welais Galais o Gent.  
Gweled ym fuddugoliaeth,  
Gweled tref yn gwyllo traeth.  
Ys da dref, ystod Rufain,  
48 Ys da wŷr hwnt, pyst yw'r rhain.  
Pob gŵr wrth y pibau gynt,  
Pob dyn, pawb adwaenynt.  
Prynwyd i'r pererinion  
52 Osai'n hael, Cymry sy'n hon.  
Prynwyd ym - perai nid oedd -  
Win a bir yn aberoedd!



- Dydd gwaith cedwais obaith Sais,  
 56 Dydd gŵyl, da oedd y Galais.  
 Caer sad ni ddwg gŵr i sêl,  
 Caer gref, cerrig o ryfel.  
 Caer wen lle ni phlyco'r wart,  
 60 Caer gadarn, cerrig Edwart.  
 Ni bu'r dref heb wŷr ar draeth,  
 Ni bo'r wal heb wroliaeth.  
 Ni bu hawdd gwrth'nebu hon,  
 64 Ni bydd unnos heb ddynion.  
 Ni bu Fwlen heb filwyr,  
 66 Ni bo ei gwal heb ei gwŷr.

*Ffynonellau*

A – BL 14967, 154 B – LIGC 3057D [= Mos 161], 159 C – Card 2.114 [= RWM 7],  
 157 D – J 139 [= RWM 14], 235 E – Llst 123, 223

*Trefn y llinellau*

A, B, E 1-66.

C, D 1-34, [35, 36], 37-40, [41, 42], 43-46, [47, 48], 49-54, [55, 56], 57-62, [63, 64],  
 65, 66.

*Darlleniadau Amrywiol*

**1** D: sadwyr; **3** A: kymry yn ffres kymrwyn ffraingk; B, C, D, E: kymrv yn ffres;  
**4** A:kyrtwyr Ievaingk; B, D, E: ifaink; C: kowrtwyr ifâink; **5** B, C, E: hyrio kwlen;  
 D: hirio kwlen; **7** A: a gollo; B, D, E: pen gollo; C: pen gollo kymro ple i kais; **8** A:  
 oni gweler ynnny Galais; B, E: oni gweler y galais; C: oni gwelai yn y galais; D: oni  
 gwelir yn i galais; **10** B: oedd ar y goll pand yw dda y gwyr; E: oedd ar y goll pand  
 yn dda y gwyr; **11** A: kevais gwyr; B: selais wyr a gollas gynt; C: selais wyr y

galais gynt; D: seliais wyr i galais gynt; E: selais wyr a gollais gynt; **12** A, B, C, D, E: ynghalais; **13** A: der bynir; C: dyrbynnir; D: derbynnyr; **14** C, D: y gweission gwychion ai gwyr; **15** B: or vn gaer; C: i ryw gaer; D: ir aen i gyd; E: or vn gaer; **16** A: awr a genyd; B: ir gwevnvdd; C: y gwinoedd aavr ag enyd; D: y gwinoedd awr ag ennyd; E: ir gwevnvdd awr ag enyd; **17** A: rewa god; B, E: ag od; C: ag ood; D: pe bae rew ag od; **18** A: bair y mosod; B: bair; C, D: lle bor ymossod; **19** B, E: dail a wnai yr efaylwr ais; C: dal a wnan llvnian y llais; D: val i wnan llyman i llais; **20** B, E: dwr kwlen; C, D: dir kwlen deirw kalais; **21** B: dynion a geidwr dinas; C, D: dynion a geidw dinas; E: dynion a geidw r dinas; **22** A: dayar a gloed; B: davar y glod; C, D dayar a glyw; E: dayar y glod; **23** A: tref ar lwff lle trof ir lan; B: tref ar lwf lle torir ir lan; C, D: tref ar lwydd lle troir ir lan; E: tref ar lwf lle torir ir lan; **24** B, E: tref a achvb troyaf fechan; D: troyaf; **25** C: Kref falch; D: tref falch a del kwrr o fon; **26** B, D: klo lloyger nis kel llygion; C: Klo lloegyr nis kel llygion; E: clo lloeger nis cel llygion; **27** C, D: i wyr; **28** B, C, E: edward; **29** A: Gwenwyn yn byd gwenwyn ni bo; B: gwyn yn byd; D: gwyn yn büd; **30** C, D: yn gwlad; **31** A: gwr ynill a gais; B, C, E: ynill; D: enill; **32** C, D: na bygylv neb galais; **33** A: Gyrrant twy chwedl geraint oedd; B: gyrrant hwy chwedel geraint oedd; C: gyrrant twy i geraint oedd; D: gyrrant hwy i geraint oedd; E: gyrrant hwy chwedl geraint oedd; **34** A: amerodr; B, E: ymerodyr; C: ymerawdr; D: emerawdr; **36** A: sawden; B, E: sawdan; **38** A, C, D: Ais yn ddur weision ddewrach; B, E: ais o ddvr weission ddewrach; **39** B, E: ynt yn; C: gidam gwahoddwyr; D: gydan gwahoddwyr; **40** B: hailion a gwchion; C: haelion a gwchion; E: hailion a gwychion; **41** A: im gwydd; B: gwayd kamber; E gwlad Camber; **42** A: Gwyal entriad galowntrwydd; B, E: gwiail entraidd galontrwydd; **43** A: chwerddais pa ham na chwerddent; B, E: chwerddais pa ham na chwarddent; C, D: chwerthais a ffwy ni chwarthent; **44** A: pann welais galais o gent; B, D, E: pan welais y galais o gent; C: pen welais y galais o gent; **45** A: Gweled ym vuddugoliaeth; B: gwelais om fvddegoliayth; C: gwelwn ym füddigolaeth; D: gwelwn yn füddügoliaeth; E: gwelais om fvddigoliayth; **46** B, E: trayth; **47** A: ysta dref; B, E: ysdod; **48** A: ysta wyr hwnt pyst ywr hain; B, E: poston wyr hwnt pyst ywr hain; **49** A: y pibav gynt; B: y pibay gynt; C: y pipav gwin; D: i pibaü gwin; E: i pibay gynt; **50** A: adwenynt; B, E: adwevnynt; C: pob dynion pawb a dweinin; D: pob dynion pawb adwaynin; **52** B: ossai yn hayl gymrv sy yn hon; C, D: ossai yn hael kymrv; E: ossai yn hael Gymrv; **53** A: prynwyd ym perai nid oedd; B, E: prynwyd ym pa rai nid oedd; C: prynwyd yn pa raid yn oedd; D: prynwyd yn pa raid a oedd; **55** A: ddydd gwaith gedwaist; **56** B, E: dydd gwyl da oedd i gwelais; **57** A: ddwc; C: gwyr i sel; D: kwyr i sel; **58** A: keric o ryvel; **59** A: fflykor wart; B: fflwciort wart;

C, D: fflykkar ward; E: fflwcio'r wart; **60** C, D: edward; **61** A: Ni bur dref heb wyr o draeth; B: ni bwr dref heb wr o drayth; E: wr o drayth; **62** B, E: wroliayth; D: ni bü r wal; **63** B, E: ni hawdd gwrthnebv i hon; **64** B: vnos; E: ni bvdd vnos;

### *Rhaglith*

B: kowydd moliant ir kymrv; C: llyma gowydd sawydwyr Calais; E: Cyw. mol. i'r Cymrv;

### *Olnod*

A, B, C, D: Robert leia ai kant; E: Robert Lia ai cant;

## 11. Cywydd gofyn âb gan Siôn Moel dros Huw Lewis o Brysaeddfed

Doed wŷr Mêns ar deid i'r môr,  
Dêl long, hyd y deil angor,  
Ac o Frust mi a gaf rai  
4 A 'mofynno am Fenai;  
Un a dâl yn y dwylaw,  
Siôn Moel dras win a mêl draw,  
Ysgwier o faen beril,  
8 A Duw rhoed adar o'i hil.  
Caiff rannu cyff o'r unardd,  
Caid euro torch Cadrod Hardd.  
Edn Llywarch hyd yn Lliwon,  
12 ap Brân, mab sy'n prynu Môn.  
O duedd Ieirll y dôi ddyn,  
Ac o hil y Gyhelyn.  
Blwyddyn y dôi'r blaidd yn dân  
16 Y dôi i wŷr gadw arian.  
Iddo, osawg y ddwysir,  
Mawr yr aeth hap môr a thir.  
Mynwes arian, myn Seirioel,  
20 Sy' yn ei mysg i Siôn Moel.  
Dyn yw a droes dau neu dri,  
Dyn â gras Duw'n ei groesi.  
Dymunodd un o'i roddion,  
24 Huw Lewis, âb o law Siôn.  
Mae genau pwrs, mae gown pân  
Yn y setel, nai Satan.

Cael chwe naid drwy'r cylch a wna,  
 28 Cnoi'r ddôr fal cenau'r ddera.  
 Ci ar farch, llac ei ar fain,  
 Cleiriach yn cael ei arwain;  
 Cripio rhai, crwper hwyad,  
 32 Canu dyrg y cŵn i'w dad;  
 Cosi a wna, ceisio nedd,  
 Crwn ei din, crynu dannedd.  
 Dringo wedi clwyfo clêr,  
 36 Diawl ifanc, hyd y lwfer.  
 Os gwyl ddyd is gil y ddôr,  
 Yno pis wyneb heusor.  
 Cyn Seirioel y'i consuriwyd,  
 40 Ryw fwnc â lliw'r afanc llwyd,  
 Aelïau cath yn gwylïo ci,  
 Wyneb Iddew yn boddi;  
 Gŵr moel a gâr ymaelyd,  
 44 Golwg gwrach yn gwylïo crud.  
 Gwas brawd llyg ag ysbryd llau,  
 Gwrengyn tebyg i'r angau;  
 Gŵr a'i farc ar gwr ei fys  
 48 O rhôi law ar Huw Lewis.  
 Mae pawen gam, mae pen gŵr  
 I Siac, wyneb sucawr.  
 Llewys o'r blew, llaes i'r blaidd,  
 52 Llyna wegïl llwynogaidd.  
 Llwyd yw'r pawns fel lleidr y peg,  
 Llwyd yw'r min fel lledr maneg.

- Saethau fal bachau bychain,  
 56 Sicr y rhed Siac ar y rhain.  
 Ef â'n cur â'i fenig cau,  
 Âb o Frytaen heb fratiau.  
 Drelyn a gais drwy alaeth  
 60 Dial ei gnwc diawl a'i gwnaeth.  
 Doir i'w ofyn heb drafael,  
 62 Dig wyf nato Duw ei gael!

### *Ffynonellau*

A—LIGC 3057D [= M 161], 198 B—Card 2.114 [= RWM 7], 403 C—LIGC 3050D [= Mos 147], 505 D—BL Add 14979, 63a E—Wy 1, 142 F—Pen 63, 193 G—BL Add 14978, 93a H—Llst 120, 119 I—Pen 112, 59 J—BL Add 14969, 446 K—LIGC 727D, 31 L—BL Add 14971, 136b M—BL Add 14985, 24 N—BL Add 14998, 23a O—Card 2.616, 295 P—Coleg yr Iesu J139 [= RWM 14], 66 Q—LIGC 5283B, 130 R—LIGC 642B, 72b S—Ba(M) 9, 82a T—LIGC 3047C [= Mos 144], 762 U—Llst 123, 338 V—BL Add 31058, 34 W—LIGC 11816B, 26<sup>v</sup> X—BL Add 31056, 201a Y—Esgair 1, 70 Z—Llst 133, 927 AA—BL Add 14876, 19a AB—Card 1.550, 49 AC—Card 4.10 [= RWM 84], 534 AD—LIGC Man Adn. 55B [= Abertawe 1], 56

### *Trefn y llinellau*

A, D, E, F, G, N, Q, V, X, Z, AD: 1-60; B: 1-30, 'krinodd pob kwrr yw wyneb | kythrel ag ni ochel neb' (mewn llaw wahanol), 31 – 60, 'doir yw ofyn heb drafael | dig wyf nato duw i ga[ ]' (yn yr un llaw wahanol); C: 1-20, 23-30, 'krinodd pob kwr i wyneb | kythrel ag ni ochel neb', 33-34, 31-32, 35-62; H: 1-30, 'Crinodd pob cwrr iw wyneb | Cythrel ac ni ochel neb', 31-52, 54, 53, 55-62; I, J, K, L: 1-30, 'krinodd pob kwrr yw wyneb | kythrel ac ni ochel neb', 33-34, 31-32, 35-62; M: 1-16, 19-20, 23-24, 27-28, 31-32, 35-36, 33-34, 37-38, 45-46, 41-42, 47-48, '[ ]llawes or blew llei [ ]', 51-62; O: 1-30, 'krinodd bob kwr yw wyneb | kythrel ag ni ochel neb', 33-34, 31-32, 35-62; P: 1-28, 'krinoedd pob kwrr yn hwyneb | kythrel ag ni

ochel neb', 29-62; R: 1-30, 'krinodd bob kwrr yw wyneb | kythrel ag ni ochel neb', 33-34, 31-32, 35-62; S: [1-28], 29, 30, [31, 32], 33, 34, [35-48], 49, 50, [51-60]; T: 1-60, 'doir yw ofyn o drafael | dig wy natto dw i gael' (mewn llaw wahanol, ar ôl enw'r bardd); U: 1-30, 'crinodd pob cwrr ei wyneb | cythrell ag ni ochel neb', 31-62; W: 1-30, 'krinodd bob kwr yw wyneb | kythrel ag ni ochel neb', 33-34, 31-32, 35-62; Y: 1-30, 'krinodd bob kwrr yw wyneb | kythrel ag ni ochel neb', 33-34, 31-32, 35-62; AA: 1-14, 17-30, 'crinodd bob cwr ir wyneb | cythrel ag ni ochel neb', 33-34, 31-32, 35-60; AB: 1-20, 23-26, 28, 29-30, 'crinodd pob cwrr ei wyneb | Cythrael ac ni ochel neb', 33-34, 31-32, 35-62; AC: 1-28, 'Crinodd bob cwrr yw wyneb | Cythrel ag ni ochel neb', 29-30, 33-34, 31-32, 35-62;

### *Darlleniadau Amrywiol*

**1** A: mens ar ~~die~~ deit ir mor; B: mers ar deid y mor; C, AB: meius; D, E, F, G: mens; H: mers ar deid y môr; I, O: mownt ar deit; J, K, L, Y, AC: mownt; M: mans; N: mers ar deid mor; P: mars ar deid i mor; R: [ ]oed wŷr mownt ar deit ir mor; U: mens ar deit; W: mawnt ar deit; Z: mens a'r deudir mor; **2** C, I, J, K, L, O, V, Y, AB, AC: doed long; M: [ ] long hyd ydeil angor; P: hŷd; R: [ ]oed long; W: Doe llong; X, Z: llong; **3** A: vrysc; B: ag o frvsd; C: frvds; D: vrvysc; E: ag o vrvsc; F: vrys; G: ag o vrysc mi agaf rai; H: frust; I: vryd; J: frvd; K: ag o frvds; L, Y: Ag o frvd; M: Ag ofwrdias mi ag a rai; N: Ac of rvsd; O: o fryd; P: ag offrvsd mi a gaiff rai; Q, T, V, AD: ag o frys; R: [ ] o frvd; U: ac o frvst; W, AC: ag o fryd; X: ag o frusc mi ga rai; Z: frys; AA: ag o frâs; AB: fruds; **4** A: am ovynno am venai; B, F, L, M, N, O, P, W, Y: a mofyno; C: am ofynan; D: i movynof am venai; E: amovynno am Venai; G: am o fyno am venai; H, Z: a'mofynno; I: a'mofynno am Venai; J, Q, T, U, V: am ofyno; R: [ ] fynno; X: a ymofynno; AA: a ymofyno am ffwfwnai<sup>220</sup>; AB: a mofynan; AC: I ofynion am Fenai; AD: A'mofynnant; **5** A, W: yn a dal; B, P: yn a dwylaw; G: vn adal; H: vn a dâl i'n â dwy-law; M: vn adal yni dwylaw; N: yn adwylaw; R: [ ] a dâl; Z, AB, AD: eu dwylaw; AA: yn o dal yn ei dwylaw; **6** B: dras win; F: amael draw; G: amel; M: moyl d[ ] win amal draw; N: a mel [ ]; R: [ ]n moel; AA: *Sion* Moel dros win mêl draw; AD: win a mael; **7** A, D, F, G: vaen beril; C, AB: peril; E: Yscwier o vaen Beril; G, V: Esgwier; I: yskwier fal maen peril; J: esgwier val maen peril; K: val maen peril; L, W: fal maen; M: yscwier ofaen peril; N: afa[ ]n beril; O, AC: fal maen peril; P: farn beril; R: [ ]gwier fal maen peril; Y: fal y maen; Z: o flaen; AA: fayn; **8** A: a dyw roed; B: rroed adar o hil; C, D, E, I, J, L, O, Q, T, V, W, Y, Z, AA, AB, AC, AD: rhoed; F, G, U: a duw

<sup>220</sup> 'fwnai' mewn llaw arall.

Roed; H: rhoed adar o hil; K: rhoed adar iw hil; M: yr hoed; N: rhoed adar o [ ]; P: rhoed adar or hil; R: [ ]uw rhoed; X: rroed; **9** A: kaiff ranny kyff or yn ardd; C, J, X, AB, AC: vn ardd; G: rany; H: cyph; K: keiff rannv; N: [ ]aiff rannv cyff or vnar[ ]; R: [ ] rannü kyff; U: caiff rany cyff or vn ardd; AA: Ceiff rany Cÿff o'r unradd; **10** A, U: eyro; G: eurotorch; H: Cæradoc I, O: kodiad hardd; N: kadrod har[ ]; R: [ ] eüro torch kodiad hardd; W: koddiaid hardd; Y: kaid eür torch korod hardd; Z, AC: Caid euro torth; **11** A, B, U: edyn llowarch; C, AB: edn llowarch hyd yn llion; D, V: eden llowarch; E, F, I, J, K, N, Q, T, X, Y, AC: Llowarch; G: hedn llowarch; M: gyd vn llowarch; O, W: Edn Llowarch yd yn lliwon; P: edn llowarch hüd lliwion; R: [ ]llowarch; AA: Edyn llowarch y dyn lliwon; **12** A: ap ran mab sy yn prynny mon; B: ab pran mab sy yn prynv mon; C: ap Rann mab sy yn prynv mon; D, O: ab pran mab syn pryny mon; E: ap pran map; G: ap ran mab syn pryny mon; H: ab prân; L, Y: ap pran; M: ap baran mab yn prynnv mon; N: prynnv m[ ]; R: [ ] mab; T, Z: ab bran; U: ap BRan wr sy yn pryny Môn; W: ab pran mab sy yn pryny món; X: prynv [ ]; AA: ap Brân mae yn; AB: ap rann; **13** A, D, F, I, L, Q, V, Y, Z, AA: i doe ddyn; C, AB: ydoedd ynn; G: o dvedd Iarll i doyr dyn; H, N: y doe i ddyn; J, K: ierll y doe ddyn; M: doedd Ieirll Doe ddyn; O: o dyedd Ieirll y doe ddyn; P: iarll i doe ddün; R: [ ]Ieirll y doe ddyn; W: ydoe ddyn; X: o dvoedd Ieirll i doe ddyn; AC: od oedd Ieirll y doe i ddyn; **14** B, E, G, L, N, O, Q, T, V, W, X, Y, AA, AC, AD: ag o hil; C: ag ai hil o gyhelynn; F: o gvhelyn; I, J, K, U: ac oi hil; M: [ ]g oi hil; P: ag o hil i gyhelün; R: [ ] hil; Z: o Gyhilyn; AB: ac ai hil; **15** A, I, O, U, W: i doe y blaidd; B, D: i doer; C, AB: blwyddyn doe y blaidd yn dan; E, F, H, J, K, Z: i doe r blaidd; G: o doer; L, Q, T, V, Y, AC: y doe blaidd; M: [ ]lwvddyn i dovr blaidd n dan; N: blwydd i doe r blai[ ] yn dan; P: i doer i blaidd; R: [ ]dyn y doe y blaid yn dân; X: y doe r blaid; **16** A, F, U, W: i doe i wr gadw i arian; B, H: i doe i wr i dyrv arian; C, AB: o doe wr i gadw arian; D, E: I doe; I, J, K, L, O, Y, AC: ai deiriaith i gadw i arian; M: y doe wr o gadw arian; N: I doe wr dyrrv arian; P: i doe i wr dyrrü arian; Q, T, V: y doe wr gadw i arian; R: [ ]iaith i gadw i arian; W: ai deiriaith i gadw arian; Z: Ac i doe i wr gadw i arian; AD: Y doi wr gadw ei arian; **17** A, F, I, J, K: iddaw ossawc; B: I ddaw oshawg; C: i ddaw o sawc; D, E, H, L, N, O, P, W, Y, Z, AB, AC, AD: iddaw ossawg; G, U, AA: i ddaw ossawg; Q: iddo ossawc; R: [ ]wg y ddwyssir; V: iddo ossawg; X: iddo o sawc y chwesir; **18** A, Q, V: i raeth; B: mawr i raeth yt mor a thir; D, G: mawr i raeth at mor a thir; E: i raeth had; F, Z, AD: mawr aeth o hap; H: mawr yr aeth it mor a thir; I: mawr ydd aeth; J, K: mawr aeth hap y mor a thir; L, O, W: y ddaeth; N: aeth vt mor; P: aeth yt mor; R: [ ] ddaeth hap; T: mawr ~~if~~ aeth i hap mor ~~hir~~ a thir; X: ir aeth at; Y: mawr a ddaeth; AA: yr raeth at; AC: Mawr y ddoeth; **19** A, F, Q, T, U: monwes;



C: my serioel; M: monwes; R: [ ] arian; X: monwes arian -; Z: Sirioel; AA: mynwes o ren; AB: myserioel; **20** A, J, Q: sy yn i mysk; B: sy yn i mvsg; C, I: y sy n i mysc; D: sy yn mwsg; E: ysy n i mysc; F: i mysg; G: mysc; H: sy'n eu mysc i Sion moel; L, O, W, Y: y sy yn i mysg; M: [ ] y yn vn mysg; N: i mwsc; P: sy yn i mÿsg; R: [ ] i mysg; T: I sy n i mysg; U: sy yn i mvsc; V: i mysg e; X: sy yn i mysg; Z, AD: eu mysg; AA: ysÿ i'n mÿsg yw Sion moel; AB: y sy'n y mysg; AC: y sy'n ei mysg **21** A, U, W: day ne dri; D, F, G, H, I, J, K, N, O, Q, R, W, Y: dav ne dri; P: dÿn yw a droes dau ne dri; Z: Un dyn; AA: â dros dau ne drî; **22** A, O: dyw yn i groesi; B, G, L, N, R, U, W: duw yn i groessi; D: duw n groisi; E: groe[ ]; F, I, J, T, AC: i groesi; H: Duw yn ei groessi; K: i grossi; P: dÿn a gras dÿw ny groesi; X: duw yn i [ ]; Y: dyn iw a grâs Dÿw yn i groessi; **23** A, U: dymynodd vn; B: dymvnodd vn i roddion; C, F, X: damvnodd; E: damvnodd [ ] oi roddion; G: da mvnodd; H: ei roddion; M: [ ] ymvnodd vn oy rhoddion; N: o rroddion; P: dÿmÿnoedd vn i roddion; **24** A, AC: hugh; B, E, P: huw lewys aab; C, AB: huw lewis ap ai roi i sion; D: hugh lewis aab; F, N, Q, T, V, AD: ap; G: app; H: Lewes; I, J, K, L, O, R, W: oi law Sion; M: [ ] vw lewis ap oi law sion; X: a ap; Y: Hugh Lewis âb oi law Siôn; **25** A: genay; B, P: gene pwrs; D: purs; E: mae genav [ ] mae gwn[ ]; N: mae gene pwrs mae gown p[ ]; Z: ... au pwrs neu gown pan; AB: gwn pan; AC: mal gown pan; **26** C: yn i sitell mai sattan; F: yn i siettel; G: ai Satan; I, J, K, L, O, R, W, Y: settl i nai Sattan; N: i ni ssettel mai ssatan (w[ ]; V: ne sattan; X: yn i settel [ ]; Z: yn ei sittial neu Sattan; AA: mae Satan; AB: yn ei sitell mae Sattan; AC: yn ei setl i nai Satan; AD: ei sietel; **27** A, U: trwy y kylch; B: a wna; C: rhoi chwe naid; D: a w[ ]; E: drwy r [ ]; G: awna; M: rhoi chwe naid drwy r kylch yna; N: trwy r kylch[ ]; Q, V: trwyr; T: trwy r; W: drwy yr kylch a wn[ ]; X: cael 6 naid; AA: trwy gylch A na; AC, AD: y wna; **28** A, U: knoi y ddor val kene y ddera; B: kener ddera; D: kynoir ddor val kener ddera; E: [ ] no i ddor [ ] cene[ ]; F, G, J, K: val; H: ceneu'r ddera; I: knav r ddera; L: fâl y kny r ddera; M: [ ] acconi r ddor; N: knoi y ddor fal kener ddera; O, R: knv r ddera; Q, T: knoi r ddor kenav ir ddera; V: knoi r ddor kene ir ddera; W: fel knv r ddera; X: cnoi r ddor fel [ ]; Y: fal y knÿ r ddera; AA: cnau'r ddera; AB, AC: fel y ~~eny~~(cenau)'r ddera; **29** A: llyc ar varch llac i arvain; B: ki llyk ar farch llack a k[ ] ar fain; C, AB: kyw ar farch llak w ar fain; D: llyg ar verch llack Iar vain; E: llygyw ar varch llac iar vain; F: kyw ar farch llak iarr fain; G: llyg ar farch lag Iar fain; H, P: Ci ar farch accw ar fain; I, J, K, L, O, R, S, W, AC: ki ar farch dackw ar fain; N: llyk ar farch llak ar fain; Q, T, V: llyk ar farch; U: llyc ar farch llac i ar fain; X: llug ar farch llac iar fain; Y: ki ar farch dackw arrfain; Z: Cyw ar farch llac ei arfain; AA: llyg ar farch llaci ar fain; AD: Cyw ar faeth llac ei arrfain; **30** A: klirach yn kael i arwain; B, C, E, F, I, J, K, L, O, P, Q, R, S, T, V, W,

Y, AC: i arwain; D, G: kleirach yn kael i arwain; N: [ ]leiriach yn kael i arwain; U: cleirach yn cael i arwain; X: cael i [ ]; AA: Clirach; **31** A, D, F, G: kripio rai; B: rrai krowper; H: crowper; I: hwyâ[ ]; M: [ ]ripio rhai krowper hwyad; N: [ ]leipio rhai; P: kwpper; X: rrai; **32** A, B: kanv dvrg ir kwn i dad; C: kywmain durs kwman i dad; D: kanv durts; E: kany dyrg ir kwn i dad; G: kany dyrch i kwn; H: Canu durg i'r cwn ei dad; I, K, R: kanv i dvrs y kwn yw dad; J: knoi kanv i dvrs y kwn yw dad; L, Y: kanv ai dvrs y kawm yw dad; M: [ ]anv dvrg fal kwyn i dad; O, W: kamy y dyrs y kaem i dad; P: kanü dürg ir kwn i dad; Q, T, V: kanv dyrs er kwyno i dad; X: canv dyrg ir cwy[ ]; Z: Canu drig i'r cwn i draed; AA: Can cu dyrs i gwn ei dad; AB: Cyw main durs cwman ei dad; AC: Canu i dyrs y Cwn yw i Dad; AD: ei dad; **33** E: ceisiaw nedd; G: kossi awna; M: [ ]aosi anai i keisio nedd; V: kosi a nai; X: cod si; AA: cosi a wna'n; **34** A, D, O, U, W: krwn i din krynnv danedd; B, C, E, F, I, J, L, M, N, P, Q, R, S, T, Y: krwn i din krynnv danedd; G: krwyn I din krynnv danedd; K: krwnn i din krynnv danedd; X: crwn i din crynnv dann[ ]; **35** A, U, X: a dringo; B, N: a dringo gwedi; D: a dringo wedi klwyvo kler; E: clwyvo; H: gwedi; M: [ ] dringo er klwvfo kler; O: dring; P: a dringo gwedü; V: dringio; W: dring; **36** A: lwer; C, H, K, T, Z, AB, AD: ifangk; D: diawl Ivanck hyd y lwver; E: diawl ieuanc yd y lwver; G: diawl Ivank hyd y lwver; I: ifanck; J: ifangk hyd elwfer; N: hyd lwfer; P: ifaink hüd; R: Ieüank; U: lwer; V: dawl i fank; X: y lwf[ ]; AA: hyd [ ]; AC: d—l ifangc hyd y Elwfer lwfer; **37** A, B, E, O, Q, AB: ysgil y ddor; P: os gwül ddün ysgil i ddor; Y: is kil; AC: os gwyl edyn is gil y ddor; **38** A, U, AA: yno i pis wyneb heysor; D, G, I, J, K, L, O, R, W, Y, Z, AC: yno i pis; E: hevser; F: i pis; M: yno i pis wyneb hvsor; N: w[ ]heb hevssor; P: yno i pis wyneb hyssor; Q, T, V: yna pis; X: yno i pis wyneb h[ ]; **39** A, U: kyn siriel i konsiriwyd; B, D, H, X: seiriell; E, I, L, Q, V, Y: cynn seirioel y consiriwyd; F: kyn siriel i konsvriwyd; G: kyn seiriell i cossvriwyd; J, K: seirioel; O: kyn sairiol i konsiriwyd; P, AA: kyn seiriell i konsiriwyd; T, W, AC: connsyriwyd; Z: Cyn siriel y cwnsierwyd; AB: Cynseiriell y consyriwyd; AD: Cyn siriel ei consuriwyd; **40** A, G: ryw vwnk a lliw avank llwyd; B: rrvw fwnk; C: Ryw fwngk a liw yr afangk llwyd; D: Rhyw vwngk a lliw avanck llwyd; E: rhyw vwnc a lliw avanc llwyd; H, AC: rhyw fwngc a lliw afangc llwyd; I, L, O, Y: rhyw fwnc a lliw r afanck llwyd; J, K: rhvw fwngk a lliw r afangk llwyd; N: rhyw fwnk a lliw afank llwyd; P: rhyw fwnk a lliw afank llwyd; Q, V: rhyw fwnk ar lliw afank llwyd; R: rhyw fwnk a lliw r afank llw[ ]; T: rhyw faüngc or lliw afangc llwyd; W: rhyw; X: rrvng fwnc a lliw afanc llw[ ]; Z: Rhyw fwngc a llie'r afangc llwyd; AA: rhiw fwnc a lliw avanc llwyd; AB: rhyw fwngc a'r liw yr afangc llwyd; AD: Rhyw; **41** A: alie kath yn hwilio ki; B: aelie kath yn wylaw ki; C, I, K, L, R, T, W, Y, AB, AD: hwylaw ki; D: Ailie kath y nwylaw ki; E: yn

nwyllaw ci; F, V: aelie kath yn hwylio ki; G: aylie; H: yn nwy law ci; M: [ ]lie kath yn hwylio ki; N: aele kath yn dwylo ki; O: yn hwylio ki; P: alie kath yn nwyllaw ki; U, X: aelie; Z: Ailiau cath yn hwylio ci; AA: aelia cãth yn wylaw ci; AC: Aliau Cãth yn hwylio ci; **42** X: bod[ ]; Z, AB: Iuddew; **43** A, G, U: ymeylyd; B: y mevlvd; C, E, AD: ymevlud; D: y mevlvd; F, I, J, K, L: ymevlvd; H: ym-eulud; N: Gw[ ] moel a gar ymevlyd; O, W, Y, Z, AA: ymevlyd; P, AB: ymaelüd; Q, T: ymeylüd; R: a gâr ymev l[ ]; V: y meylvd; X: gwr moel a gwr ymevlyd; AC: ymelyd; **44** B, H, O, V: kwrach; C: golw; F: golwc kwrach; J: golwc; N: gwilio kr[ ]; R: kwrach yn gwilio kr[ ]; W, Y, Z, AA, AC: kryd; X: golwg gwrach yn [ ]; **45** A: llyc ac ysbryd llav; C, J, AB: llwyd ag; D: llyc ac yspryd; E: llyc ac; F: llvc ac; H: llyg ac yspryd; I, J: llwyd ac; K, L, M, O, Q, T, V, W, Y: brawd llwyd; N: llyc ac ysbr[ ]; P: gwas brawd llüg ag ysbrüd llaü; R: llwyd ag ysbryd[ ]; U: llÿc ac ysbryd llav; X: [ ] llvg ag ysbryd llav; Z: llÿg ac yspryd llau; AA, AD: llÿg ag yspryd; AC: gwas brawd llwyd (llug) ag yspryd llau; **46** A, U: tebic ir angay; B: i rangav; C, D, F, I, J, N: tebic; M: [ ]wrengyn; X: i angav; AA: angay; **47** A, I, K: i vys; B, C, O, T, U, V, W, AC: i fys; D: gwr a vark ar gwrr i vys; E, F, G: vark ar gwrr i vys; H: farf; J: farf ar gwr i fys; L, Y: Gafr ai farck ar gwrr i fys; M: [ ]wr ai farck ar gwrr i fvs; N: fak ar gwrr [ ]; P: i füs; Q: w ai fark ar gwrr i fys; R: gwrr i [ ]; X: [ ]r ai f[ ] ar gwr i fys; Y: **48** A: o roe law ar hyw lewys; B, N: yn rhoi i law; C, I, J, K, L, O, W: a roe i law; D: o Rhoe i law ar hugh lewys; E: o rhoei law; F: o Roe i law; G: a roy I law; H: yn rhoi ei law; M: [ ] rhoi i law hww lewvs; P: yn rhoi law ar hyw lewüs; R: a roe i law ar hww le[ ]; T: o rhoi; U: o roe law; V: rhoe law; X: o rroe i law; Y: a roe law, Hww Lewys; Z: O rhoe'i law; AA: a rhoi I law; AB: a roe ei law; AC: y roe i law ar Hugh Lewys; **49** N: gam i mae p[ ]; R: mae p[ ]; AA: may pawen; **50** A, P, U, Z: sykanwr; D: siack; H: succan-wr; N: [ ]ack wyneb ssukann[ ]; **51** C, AB: llawes; D: a blew; I, K, L, O, R, W, Y, AC: Llew isso r blew; M: llawes or blew llays ir blaidd; N: ir blai[ ]; P: llewüs; X: [ ]is or blew; **52** M: llwvnogaidd; **53** A: val lleidir ar peg; B: lleidyr peg; C, AB: fal lleidr or pec; D: val lleidr peg; E: val lleidr [ ] peg; F: val lleidr y pec; G: val lledr y peg; H: lleidr pêg; I: fal lleidr o pec; J, K: val lledr y pec; L, Q, Y: fal; M: llwvd vw r pawns lleidr or p[ ]; N: fal lleidr [ ]; O: or peg; P: fal lleidir peg; R: fal lleidr o peg; T: fal lledr; U: fal lleidir or pêg; V: fal lleider; W: leidr or peg; X: fal lleidr peg; Z: fal; AA, AC: fal lledr peg; AD: pec; **54** A: val lleder; B: fal lledyr maneg; C, AB: fal lledr manec; D: val lledyr; E: val lleder; F: val lledr manec; G: val lledr; H: lleidr maneg; I: a llwyd yw r min fal lledr manec; J: a llwyd yw r min val lledr manec; K: a llwyd yw r min val lledr maneg; L, P, Q, T, X, Y, Z, AA, AD: fal; M: llwvd vw r min fal lleder man[ ]; N: fal lleidyr m[ ]; O, W, AC: a llwyd; R: a llwyd yw r min fal lledr maneg; U, V: fal lleder; **55** A: saythay val bachay; C:

sevthv drwyr boch ddu bychan; D: saythav val; E, F, G: val; H: fel; I, L, O, R, W, Y: Saethav drwy i bachav bychain; J: drwy bachav; K: drwy r bachav; M: saythe drwv r bache bychain; N: ssaeth; U: saythay fal bachay; V: saethe fal; X: [ ] bachav bychain; Z: Seuthau mal; AA: Saythay fel bachay; AB: Saethu drwy'r bochddu bychan; AC: Saethau ~~drwy~~ (fal) bochau bychain; **56** A: sikir i roed siak ar yrain; B: sikkir i rred siak i rrain; C: sikr yw y rhed siak a rhan; D: sickir i Rhed siack ar yr rhain; F: sickr i Roed siack ar y Rain; G: Sikir i red Siak ar yrhain; H: ir rhain; I, M: sikir; N: ssikir i rhed ssiack ar hain; O, W: sickir ir rhed Siack ar yr hain; P, AA: sickir i rhed siack i rhain; Q, T: sikr yw y rhed siak ir hain; R: sickir; U: sicir ir rhoed Siac ar rhain; V: sikyr yw y rhed siak ir hain; X: sicir ir red siac ar y rrain; Z, AD: rhoed; AB: Sizr yw y rhed a rhan; **57** A: ef ai kyr ai venig kay; B, G, P: ef ai kvr; C: ef an kvr ai fenic kav; D: ef ai kvr a venig kav; E, N: ef ai cur ai venic cav; F: ef an kvr ai venic kav; I, J: fanec kav; K, L, O, Q, R, T, V, W, Y: faneg kav; M: yfo an kyr ai fin kav; U: fenig cay; X: [ ] ai fenig cav; Z: a'm cur; AA: ef *ei* Cyr a'i fenig Cay; AC: ef an Cûr ai faneg gau; **58** A: vryttayn heb vrattaiy; B: aab o fryttan; C: apb o frytaen eb fratiav; D: Aab o vrÿtwn heb vrattaiy; E: aab o Frytan; G: app o vrytaen hep vratiav; H: frattau; I, L: Vrytan eb; J: ab a frytaen; K: o frytaen; M: mab ofryttan; N: Aab of ryttan heb frattia[ ]; O: fryttan eb; Q, T: ap; R, Y: frytan eb; U: âb o fryttayn heb frattaiy; V: apy o frvttain; W: fryttan; X: a ab o fryttaen; Z: frattau; AA: ab o fyttan heb fattay; AC: frytain; **59** A, U: alayth; B: drwg alaeth; N: drwg ala[ ]; X: [ ] gais drwy alaeth; AC: y gais; **60** A: dial i gwnwk a diawl ai gwnayth; B: gwnwk a diawl; C: dial i gnwvk; D: dial i gwnwk a diawl ai gwnaeth; E: dial i gnwc diawl ai gwnae[ ]; G: i gwnwk; H: gnwcc a diawl; F, I, J, K, L, M, O, Q, T, V, W: i gwnwk; N: dial i Gwnwk a diawl ai gw[ ]; P: dial i gwnwk diawl i gwnaeth; U: dial i gnwc a diawl ai gwnayth; X: dial i gnwc; Y: gnwck y diawl; Z: â'i gnwc; AC: d—l ai gwnaeth; **61** C, H, I, J, K, L: eb drafael; M: ... oi ofyn ... drafayl; P: doeir i ofÿn; T: o drafael; W: dair yw a fyn heb drafael; **62** B: i ga[ ]; C, H, I, J, K, L: dic ... i gael; M: dig wv ni ro dwv i gayl; O, P, R, T, U, W, Y: i gael; AC: nad to;

### *Rhaglith*

**A:** k: moliant i sion moel; **B:** llyma gowydd arall i siakk aab; **C:** Cowydd i ofyn Siack âp yn rhôdd; **F:** k i ofyn ap gann Sion moel; **H:** Cywydd arall i'r siacc âp; **I:** I Siôn Moel i erchi Siak ab i Hvw Lewis; **J:** Cywydd i ofyn Ab; **L:** I ofyn Siakab i Sion moel; **N:** kowydd arall ir siack ap o wa[ ]; **O:** kowydd i ofyn siakap i Sion

moel; **P:** kowüdd i siack aap; **R:** [ ]ofyn siakab i sion moel; **S:** Cowydd i ofyn siac ape gen sion moel; **T:** Cywydd i ofyn Siak anap; **U:** Cyw i ofyn siac âp i Sion Moel dros Huw Lewis; **V:** kowydd i ofyn siack ape; **W:** Kowydd i ofyn siakap *Vach* i Sion Moel; **X:** Co i ofyn ab i Sion Moyl dros huw lewis; **Y:** kowydd i ofün siack anap i sion moel; **Z:** Cywydd i ofyn Ab i Sion Moel; **AB:** Cowydd i ofyn Siac âp yn rhôdd; **AC:** Cywydd i ofyn Ab; **AD:** Cywydd i ofyn Ap gan Sion Moel R. L.;

### *Olnod*

**A:** Robert leia ai kant; **B:** Robert leia ai kant; **C:** Robert leiaf ai kant; **D:** Robert leia [ ] k; **E:** Robert ap Gr[ ]eia; **F:** Robert leiaf; **G:** Robert Leia ai k; **H:** Robart Leiaf ai cant; **I:** Rhobert leiaf ai cant; **J:** Robert Leiaf; **K:** Robert leiaf; **L:** Robert Leiaf ai kant; **M:** grvffydd ap tvdvr ap howel ai ka nnt a gowvdd yma i ofvn sieg a anap; **N:** Robert leia ai kan[ ]; **O:** Robert Leiaf ai kant; **P:** rhobert leia ai kant; **Q:** Robt leiaf ai k; **R:** Robert leiaf ai kant; **S:** Robt leia; **T:** Robt leiaf ai kant; **U:** Robert Leia ai cant; **V:** Robart leia; **W:** Robt Leiaf R[ ]; **X:** Ro: leia; **Y:** Robert leiaf ai kant; **Z:** Robert Leiaf aï cant; **AA:** Robert Leia ai Cant 1480; **AB:** Robert Leiaf ai Cant; **AC:** Robert Leiaf 1480; **AD:** Robert aï Cant;

## 12. Cywydd dychan i'r dylluan am iddi ddychryn cariad y bardd

*Fersiwn a*

- Llawen nos Iau lluniais oed,  
Lle dirgel gerllaw derwgoed,  
Â rhyw un o'r rhianedd,  
4 Rhwydd i fil y rhoddai fedd;  
Loer, oedd wych, lariaidd wen,  
Lawir ebrwydd, liw'r wybren;  
Feinwedd Eigr foneddigryw,  
8 Fwyn a di-wair, f'enaid yw.  
Fenus, pacs o finws pêr,  
Afal Awst o felyster,  
F'enaid dlos, ni ddaw nosi  
12 I adail haf llei dêl hi.  
Lliw dydd a ddaw lle deddyw,  
Llewych haul ar y lluwch yw.  
Oni ddaw garllaw i'r llwyn,  
16 Ni thrig yno eithr gwanwyn.  
Gwedy dêl llygaid y dydd,  
Meillion gwynion a gwinwydd,  
Ac nac ofnwy'r gauafnos,  
20 Belydr yr haul, blodau'r rhos.  
O lluniais mewn lle anial  
Ganwaith oed â gwen ei thâl,  
Nith i'r haul, ni thorrai hon,  
24 Ni thorrais â nith Euron.

- A mi'n gynnar yn aros  
Gwen yn y nant gan y nos,  
Y dylluan rhag annwyd
- 28 A floeddies, ladrones lwyd.  
Distryw mawr fal cof trofus  
Yn y trwn, a niwed rhus.  
Ni ddôî'r fun a ddymunais
- 32 O fewn y llwyn rhag ofn llais.  
Tarfodd y fun, twrf oedd fawr,  
Tristeais o'r trwst dwy-awr.  
Dirfawr goeth a darfu'r gân:
- 36 Dêl lliwiant i'r dylluan!  
Tristlam i'r ddihawddamawr,  
Talcen moel maharen mawr;  
Wyneb budr hen abades,
- 40 Neu din âb pe deuai'n nes;  
Rhuad tongraig 'r hyd hengroen;  
Rhai a'i geilw gwyrach y rhugl groen;  
Gwasgod llawn chwilod a llau,
- 44 Gwyrach lygodgoed lygadgau;  
Gwrab hen yn gyrru bw,  
Gwreigan gul greg yn galw;  
Gweryriad garw'r aran,
- 48 Gŵr y god bob gair a gân;  
Clap dew bendew heb undaint,  
Coriar nos yn caru'r naint.  
Croch yw ei llais, crych ei llethr;
- 52 Cwthr brân wân-gân ewingethr;

- Clog elyll, ceiliog gwillaidd,  
 Cenau diawl yn cwyno'i daid;  
 Coriar erwin ylfingorn,  
 56 Cenau cath yn canu corn;  
 Coeg utgorn, cyw ag atgas,  
 Cefndedyn, croenfelyn cras;  
 Cyw rhawnfyr cau o'r henfath,  
 60 Cryglais gwiddon mewn croglath;  
 Crechwen wŷyll mewn crochan iâ,  
 Câr eiddiorwg, cyw'r ddera;  
 Cysur edn, cas yr adar,  
 64 Crygedd gwŷdd, crogwydd a gâr.  
 Ni thariaf wrth ddihirog,  
 Gên oer gul, dan ganu'r gog.  
 Aed i ddiawl, gydwedded eilun,  
 68 Yno bydd am ofni bun.

*Ffynonellau*

**A**—Pen 76, 108    **C**—Card 4.330 [= Hafod26], 235    **E**—BL Add 14882 [=RWM 31], 128    **F**—Bodley Welsh e3, 50    **I**—Bodley Welsh e1, 110b    **J**—LIGC 3066E [= Mos 212], 106    **M**—Esgair 1, 37    **N**—Brog 4, 126    **O**—Llst 14, 107    **P**—LIGC 9166B, 118    **Q**—Bodley Welsh e8, 42a    **R**—LIGC 3021F, 256    **S**—Card 2.202 [= RWM 66], 250    **T**—Llst 133, 1041    **U**—BL Add 14876, 23b    **V**—Card 4.156 [= RWM 64], 552    **X**—BL Add 14870 [= RWM 53], 265b    **Y**—LIGC 5475A [= Aberdâr 2], 197    **Z**—Ba 6, 439    **AA**—Card 5.11 [= RWM 33], 287    **AB**—CM 40, 69    **AC**—LIGC 670, 82

*Trefn y llinellau*

A, N, P 1-68.

C 1-10, 13-16, 11-12, 17-60, [61, 62], 63-68.



E 1-68.

F 1-12, [13, 14], 15-20, [21, 22], 23-28, [29, 30], 31-32, [33,34], 35-40, [41, 42], 43-62, [63, 64], 65-68.

I, J, O<sup>221</sup> 1-10, 13-16, 11-12, 17-36, 61-62, 37-60, 63-68.

M 1-12, 15-20, 23-28, 31-32, 35-40, 43-62, 65-68.

Q 1-8, [9-10], 11-12, [13-16], 17-20, [21-22], 23-28, [29-30], 31-32, [33-34], 35-40, 43-46, 41-42, 47-50, [51-52], [55-58], 59-60, 53-54, 61-62, [63-64], 65-68.

R 1-10, 13-16, 11-12, 17-36, 61-62, 37-60, 63-68.

S 1-12, 15-20, 23-28, 31-32, 35-40, 43-50, 53-58, 60, 59, 61-62, 65-68.

T<sup>222</sup> 1-10, 13-16, 11-12, 17-36, 61-62, 37-60, 63-68.

U 1-54, 57-68.

V 1-12, 15-20, 23-28, 31-32, 35-40, 43-50, 53-58, 60, 59, 61-62, 65-68.

X 1-10, 13-16, 11-12, 17-36, 61-62, 37-60, 63-68.

Y 1-10, 13-16, 11-12, 17-36, 61-62, 37-68.

Z 1-10, 13-16, 11-12, 17-36, 61-62, 37-60, 63-68.

AA 1-10, 13-16, 11-12, 17-36, 61-62, 37-60, 63-68.

AB 1-12, 15-20, 23-28, 31-32, 35-40, 43-50, 53-54, 57-58, 60, 59, 61-62, 65-68.

AC 1-12, 15-20, 24, 23, 25-28, 31-32, 35-40, 43-50, 53-58, 60, 59, 61-62, 65-68.

### *Darlleniadau Amrywiol*

**1** A: llyniais oyd; E: llun[ ] oed; K, S, V: lliniais; **2** A: gerllaw derwgoyd; B: lle dygel; C, I, J, O, Q, T, U, W, X, Y, Z: gerllaw; E: derwgoed; K: dewgoed; V: gar llaw'r; **3** A: a rrvw yn or rrianedd; B: arryw vn o rrianedd; D: a rrvw vn or rrianedd; E, I: a rhyw vn or hianedd; J, V: a rhyw vn o rhianedd; M: A rhŵw vn; Q: a rhyw yn o rianedd; **4** A: Rwydd i vil irhoddai vedd; B: Rwydd i vil y rroddai

---

<sup>221</sup> Yn yr enghraifft hon mae rhywun (Samuel Williams ei hun o bosib) wedi ychwanegu darlleniadau amgen i sawl llinell ar ochr dde'r ddalen. Defnyddir ffont italaidd i nodi'r rhain mewn cromfachau ar ddiwedd y llinellau priodol yn y darlleniadau amrywiol. Hepgorir y prif ddarlleniad pan fo hwnnw yn cytuno â'r fersiwn golygedig.

<sup>222</sup> Yn yr enghraifft hon mae'r copïydd wedi ychwanegu darlleniadau amgen i sawl llinell ar ochr dde'r ddalen, gan ddefnyddio'r symbol '+' i ddangos lleoliad y darlleniad yn y llinell. Nodir y testun amgen, gan ddefnyddio ffont italaidd, mewn cromfachau ar ddiwedd y llinellau priodol yn y darlleniadau amrywiol.

36 Lliw eurfodd ni chyll yrfa;  
Lliw wybr a dŵr lle bo'r did,  
Lliw'r gog a'r llew a'r gegid.  
Ei lun gynt ar len a gad,  
40 Ei liw glas fal y gleisiad;  
Ei draed i bwy dyrydyn'  
Eithr i law'r crythor o Lŷn?  
Os gyrrir ymysg irwellt,  
44 Ni thyr ei garn wyth o'r gwellt.  
Gwythi'n cael gweithio'n y cig,  
Gown gwydr ac yn gaeëdig;  
Nofio a wna'r anifail,  
48 Nid trwy ddŵr onid trwy ddail.  
Mudo fal llestr ymodwr,  
Myned i gerdded â gŵr.  
Camai ei bedwar cymal,  
52 Cnyw ar fodd hacnai o'r fâl.  
Erchi dal y march dulas,  
Ac erchi rhan Lowri'n las;

- Hudol gyda Huw ydoedd,  
 56 Eithr iwrch ei gyfnither oedd.  
 Dan braw y mae'r edn browys,  
 Duw Llun y'i rhoir, dillyn Rhys.  
 Eto gyr at ei gares  
 60 Arwydd a wnâi ei rodd yn nes.  
 Os march glas yma erchi,  
 Wrth Huw yma traetha hi.  
 Hwde, fal y llamhidydd,  
 64 Huw Conwy, farch, hacnai fydd.

*Ffynonellau*

**A**—LIGC 3051D [=M148], 203 **B**—BL Add 14978, 40a **C**—Pen 112, 1 **D**—BL Add 14971, 140a **E**—Brog 6, 209b **F**—LIGC 3048D [= M145], 687 **G**—LIGC 1559B, 246 **H**—LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlech], 200 **I**—BL Add 14979, 17<sup>v</sup>

*Trefn y llinellau*

A, B, C, D, F, G: 1-64;

E, H: 1-18, [19, 20], 21-64.

I: 1-14, [15-64].

*Darlleniadau Amrywiol*

**1** A: Rodd fraisc; B: Rodd fyraisc; C: Rhodd vraise a gair heddiw; D: Rhodd fraisg a geffir heddyw (a geir heddyw fry<sup>240</sup>); E, H: frü; F: fraisc; I: frv; **2** B: dir ros; C: ai dyriw; D: Rhys o dir rhos a da'r rhyw (ai dyry<sup>241</sup>); E: rhüs ... dyrü; H: dyru; I:

---

<sup>240</sup> Mewn llaw wahanol.

<sup>241</sup> Yn yr un llaw a gyfeirir ato yn nhroednodyn 240.

rrys o dir rros ai dyrv; **3** A: dy haeled Rys ab mredvdd; B: dy hayled Rys ap meredydd; C: Dy haeled Rhys amHredydd; D: dy haeled Rhys; E: dy haeled rhys; F: dy haeled Rys Amredydd; G: dy haeled Amrhedydd; H: dy haeled; I: dy havled rrys a mrhdvdd; **4** A: anaeth; B: awnaeth; E: kolli; F: Nÿdd; H: colli enw nydd; **5** B: drwyr main i doey avr amel; C, H: Drwy y main daw avr a mēl; D, E: Drwy y main daw; F: main daw avr; G: main daw avr a mēl; I: drw r main i daw avr a mel; **6** A: Tūder; B: doed ryw; C, D: o Howel; E: dāyed rhyw dydūr howel; F, G: daved; H: Daued rhiw dudur Howel; I: doed rryw dudyr; **7** A: gosd; B: ar ystyn; D, F, G: ag ystyn; E: ag ystyn; H: drwy gost ... ag ystyn; I: meawn tir ag ystyn; **8** A, C, D, E, F, G, H, I: i air; B: i troes i air; **9** B, I: ydweinir; **10** B, I: dy rys; E: i dū rhūs; H: o dÿ Rhys ewch o dai /r/ sir; **11** B: irawn beynydd; C: Ir bann; D: Ir bann ir awn rvbevnydd; H: Or un ban; **12** A: saic; C: saic ar dorth ys ydd; E: sudd; **13** A: goc; B: mwya saic hwn mes y coc; C: saic; D: messc; E, H: mwy saig; I: mwya saig hwn; **14** B: yn ol sew gwressoc; C: saic Rys yn ol; D, I: Rys yn ol sew; **15** A: varwnniaeth; C: Vo ... varwnniaeth; **16** A, C: saic; B: Sew a gwyn; D: ossai gwin gyda saig [ jaeth; **17** A: Rrys llei; B: taid rys llei kedwid reswm; C, D: llei; G: tād Rhys; **18** A: Rrys; B: rrys i berchen; C: tv; **19** A: Tūy; C: Rhys **21** B, F, H: lliniaeth; C, D: weniaid a llvniaeth; E: weinaid ai llyniaeth; **22** A: tūy rys val; B, D: rys; C: ... Rys ... traet[ ]; E: tū rhūs; F, G: Rhys llanw; **23** A: huw n ofyn; B: vn wy tros hwn n i ofyn; C, D, G: Vn ... i ofyn; E, H: vn wy dros hūw /n/ i ofÿnn; F: Huw yn i ofyn; **24** A: yroydd ... odde ... ; B: iroedd ... o dde ... ; D: y roedd hugh; E, H: odde; F, G: yr Huw oedd ar odde hyn; **25** A: kowyddol akw a oeddwn; B, F, G: kywddol; H: accw a oeddwn; **27** A, C: varch; **28** C: eiriach Y [ ]; E: main; **29** E, H: or llynn; F: ar llvn fal cwyr a llinyn (or llvn cwyr ar y llinyn); G: ar ~~llw~~ llvn fal cwyr a llinyn; **30** B: yr vn lliw ar ia n y llyn; **32** A: gloc; B: syn vn glog ar sianon glas; C: gloc yn sianwn; E: siaman glas; H: Siamon; **33** B: Sidan val pais i hedydd; E: hedüdd; F, G: hiedydd; **34** B, C: lwdwn; E: hws amlwen hüdd; H: hws amlwen hydd; **35** A: ddinbych idda; B, E: ddimbych i dda; C: Lliw yr drych i Ddinbych ydda; F, G: i dda; H: ddim bych i dda; **36** A, C, D, E: lliw irfodd; B: lliwr arf ni chyll yr yrfa; F, G: lliw evrfodd; H: ir fodd; **37** A: llei bo; B: lliwr wybr dwr llei bor did; E, H: wybyr; F, G: llei bo r did; **38** B: goc; **39** A, B, C, D, F, G: I lvn; E, H: i lün ... i gad; **40** A, B, C, D, E, F, G, H: I liw; **41** A: I draed; D: I draed i bwy y deirydyn; E: i draed i bwy derydün; B, C, F, G: i draed i bwy i drydyn; H: I draed i bwy deirydun; **42** B, C, D: law krythor; E, H: i ethr o law /r/ krythor o lün; F, G: evthr i law crythor; **43** A: ymysc; B, C, : y mysc; D: y mysg; F: ymysc irwelld; G: irwelld; H: ir wellt; **44** A, B, D, H: i garn; C: ai garn wyth or gw[ ]llt; E: i garn nyth; F: i garn wyth or gwelld; G: i garn wyth or gwelld; **45** A, C: y kic;

B: gwythi yn kael gweithio yn y kig; E: gwythi yn kael gweithio ny kig; F: gwythi yn cael gweithio yn y cig; G: gwythi yw cael; **46** A: gayedic; B: ag yn gayedig; C: gaedic; D, F, H: ag yn gaedig; E: ag yn gaedig; G: ag yn gavedig; **47** A: enifail; B: nofioŕ awnar y nifail; D: anifail; E: wnai y nifail; F, G: nifail; H: wnai ynifail; **48** E: trw ddail; **49** B, C, D: y modwr; E: llefer y modwr; F, G: llester; H: llesdr y modwr; **51** A, C, D, E, G, H: i bedwar; B: kymod i bedwar; F: camai i bedwar cymal (camed); **52** B: knv; **54** A: *ac* erchi rran; B: erchi rran lowri yn las; D, F, G, H: ag erchi; E: ag erchi rhann lowri yn las; **56** A, C: i gefnither; B, D: i gyfnither; E: ei thyr iwrch i gyfnithder oedd; F, G: eithvr iwrch i gefnither oedd; **57** F, G: dan braw mae /r/ eden browys; H: edyn; **58** A, C, H: y Rhoir dillin Rhys; B: i roir dillin rys; D: llvn y r hoir dillin Rhys; E: dŭw llyn y rhoir; F: dŭw llvn i rhoir; G: i rhoir ddillin Rhys; **59** A, C, D, E, F, G, H: Eto i gyrr at i gares; B: i gares; **60** A: arwydd ana i rodd yn nes; B: awnai i rodd y nes; C: i rodd nes; D: i rodd; E: awnai i rodd; F, G: a wna i rodd yn nes; H: awn ai rodd yn nes; **61** A, C, D: yma a erchi; B, E, H: yma erchi; F, G: yna a erchi; **62** B: wrth hww felly traetha hi; C: y traetha; E, H: yna i traetha; F, G: yma i traetha; **63** A: fel; C: val; H: llamhudydd; **64** E: fŭdd;

### *Rhaglith*

B: kowydd march dros hugh conwy; C: kowydd i Rys ap mredydd ap Tvdvr ap howel o swydd Ddinbych i erchi march glas keinihogoc i hww konwy; D: I ofyn march glas; E: kowüdd i ofün march; F: Cow. dros Huw Conwy i ofyn march gan Rys ap Meredydd; G: Cowydd dros Huw Conwy i ofyn march gan Rys Amrhedydd; H: I ofyn march.

### *Olnod*

A: Robt leiaf ai kant; B: Robert leia ai k; C: Rhobert leiaf ai kant; D: Robert leiaf ai k.; E: Rhobert leia ai kant; F: Robert Leiaf ai cant; G: Robt Leiaf ai kant; H: 1480 Robert leia.

## 15. Cywydd i ferch ac i'w gwallt

- Y ddyn fwyn a ddaw'n fynych,  
Moddawl gorff a'i meddwl gwych.  
Perchen urddasol olwg
- 4 Penwallt aur, pwy'n well a'i dwg?  
Delw wen wyd wedi'i luniaw  
O Dduw Lwyd â'i ddeau law.  
Dy liw'n deg wrth dy lun di
- 8 A luniwyd o oleuni.  
Gwynfyd sy' gan bob gwenfun,  
Gwpled yw ei lliw a'i llun.  
Dwy ystlys hir, ddestlus iawn,
- 12 A chanol meinwch uniawn;  
Dwy fron wen dan bren a brig,  
Ac ysgwyddau gosgeiddig;  
Llaw a mwnwgl lliw manod,
- 16 Gwyn iawn megis gwawn neu ôd;  
Gwyn, meddan', yw sidan Sieb -  
Dau wynnach ydyw d'wyneb.  
Dy rudd wyl, dwy radd eiliw,
- 20 Dau rosyn, mwnwgl gwyn gwiw;  
A deulain yw dy olwg,  
Risial dyn rasol, a'u dwg.  
Tau ddyn, fal tywydd Ionawr,
- 24 Tâl gwyn a gwallt melyn mawr;  
Duw a liwiodd dâl ewyn  
I roi'r gwallt aur ar y gwyn.

- Yn dyrch uchel y gwelir,  
 28 Unlliw â gold yn lle gwir.  
 Unlliw i gyd, yn glyd glôs,  
 Oll yw'r llun â lliw'r llinos;  
 Eurwe gwefr ar yr ewyn,  
 32 Dolau o gŵyr am dâl gwyn:  
 Dau wryd yn do araul  
 Yw'r rhain, o belydr yr haul;  
 Ar wedd y'th anrhydeddwyd,  
 36 Arglwyddes neu Santes wyd.  
 Brig dy ben, heulwen haelwawr,  
 Banadl ir o ben hyd lawr;  
 Parti golau pert galawnt,  
 40 Ys gadai lieiniau lawnt.  
 Gweled dy ben, Gwen, a gaid  
 Â choron o dyrch euraid.

### *Ffynonellau*

**A**—Pen 76, 88   **B**—Card 2.114 [= RWM 7], 622   **C**—Pen 112, 423   **D**—LIGC 834B, 173   **E**—LIGC 5269B, 176v   **F**—J 139 [= RWM 14], 453   **G**—Bangor 13512, 134  
**H**—Pen 159, 104

### *Trefn y llinellau*

A, B, C, D, E, F, G: 1 – 42.

H: 1,2 [3 – 42]

### *Darlleniadau Amrywiol*

**1** A: Y ddyn vwyn add aw yn vnych; B: y ddyn fwyn y addaw yn fynych; C: Y ddyn a ddaw yn vnych; D, E: y fvn a ddaw yn fynych; F: Y ddün fwyn i ddaw n fynüch; G: Y fÿn a ddaw yn fynÿch; H: y ddyn vwyn a ddaw n vnych; **2** A: ai moddawl gorff meddwl gwych; F: gwüch; G: gorph; H: Im meddwl gorff moddawl gwych; **3** C: olwc; D, E, G: vrddasawl; **4** A: pwy yn well; B: pen walld avr pwy well ai dwg; C: pwy well ai dwc; F: pen walld aür pwy n well a dwg; **5** A: wedi lyniaw; B, C, E: wedi lvniaw; D: wedi liniaw; F: wedü liniaw; G: Delw=winwyd wedi Luniaw; **7** A, B: liw yn deg; C: dec; D: dy lin di; F: Lÿn di; **8** A: a liniwyd o oleyni; F: a lyniwyd o oleini; G: oleini; **9** A, B: gwnfyd sy gen bob gwenwyn; E: gen; F: gwnfüd; G: gwyfyd sugan bob gwenfÿn; **10** A: gwpled ydiw y lliw ar llyn; B: kwpled y iw i lliw; C, D, E: gwpled yw i lliw; F: kwpled yw i llyw ai llün; G: gwpled yw i lliw ai llÿn; **11** A: ... ysdlys ... ddesdlys ... ; B: ... ysdlys ... desdlys; C, D, E: destlys; F: ... ysdlüs ... desdlys ... ; G: ... ystlus ... destlus ... ; **12** G: mainwych aniawn; **13** A: dwyvron; B, D, E: dwyfron; C: Dwyfronn wenn dan brenn a bric; **14** A, B, F: ag ysgwydde; C: ac ysgwydde gosgeiddic; D: ag ysgwyddev gosgeddig; E: ag ysgwyddav gosgeddig; G: ag; **15** D: mano [ ]; **16** A, B, C, E, G: ne od; D: gwawn [ ]; F: gwawn od; **17** A: gwyn ~~ne~~ meddan; **18** A, B, C, D, E: dav wnnach ydiw dwyneb; F: daü wnnach y diw wyneb; G: day wnnach yw dy wyneb; **19** C: Dy rydd wyl dwy radd eiliw; F: ei liw; G: rÿdd; **20** D, E: rossvn; G: day; **21** A, B, D, E: a dav lain C: A dau lain yw dy olwc; F: a daü la[ ] yw dy olwg; G: A day Lain; **22** A, B, D, E, F: ai dwg; C: ai dwc; F: rissial düw rassal ai dwg; G: rasel ai dÿg; **23** A: val; C: val towydd; F: tawudd; G: Tau Dyn fal towydd jonawr; **24** B: gwalld; C: gw[ ]t *melyn* mawr; **25** D: däl ewyn; E: lvniodd; F, G: liniodd; **26** C: gwallt avr *ar*; **27** A: ychel; C: gw[ ]ir; G: durch; **28** A, B, F: ar gold; C: ar gold y[ ] lle *gwir*; D: æ gold; G: ün lliw gold; **29** C: glos; F: vn lliw i güd yn glud glos; **30** B, C: ywr llvn oll ar llinos; D: yw r llvn gyd ar llinos; E: yw r llvn i gyd ar llinos; F: yw ir lliw oll ar llinos; G: yw'r llÿn i gÿd ar llinos; **31** A: gwefyr ar ewyn; B, C, F: ar ewyn; G: hârwe gwefr; **32** D, E: däl; F: ar dal gwyn; G: a gwÿr; **33** A, B, C: dof aravl; F: wrüd; G: daÿ wrÿd yn dô ar aÿl; **34** A: yw rrain; B: yw rrain o belydr y rravl; C: yw r hain; D: yw rhain (o<sup>242</sup>) belydr; E: yw rhain; F: y rhain o belydr i rhaul; G: yw rhain o belydr yr haÿl; **35** A: ithanrrvdeddwyd; B: anrrydeddwyd; **36** A: ar glwyddes ne; B, C, E, F: ne santes; G: ney santes; **37** B: haelwen havlwawr; C: Bric dy benn haelwen hevlwawr; F: haelwen heülwr; G: heÿlwen; **38** A: oben; F: hüd lawr; **39** A, B, C: gole; D, E: golev; F: parti galaü part galawnt; **40** A: gaday lieiniav; B, D, E, F, G: gadav lieiniav; C: gadav leiniav;

---

<sup>242</sup> Uwchlaw'r llinell.



**41** A: agaid; D: Gweled [ ]wen a gaid; **42** D: a [ ] evraid; G: a choryn o dyrch eŷraid;

*Rhaglith*

**B**: kowydd merch; **C**: kowydd moliant merch [ ]; **D**: I ferch ag yw gwallt; **E**: K i ferch ag yw gwallt;

*Olnod*

**A**: Robert leia ai kant; **B**: Robert leiaf ai kant; **C**: Rhobert leiaf ai kant; **D**: [ ]af ai kant; **E**: Robert Leiaf ai kant; **F**: Robert leia ai kant; **G**: Robert Leiaf a 100;

## 16. Cywydd i'r Drindod ac i bedair merch y Drindod

Y tri undod trwy iawnder,  
Ai trei yn iawn, y tri Nêr,  
Tri pherson trwy hoff orsedd  
4 O iaith ddwys iawn a thad Sedd:  
Tad, Mab, portreiad pêr tri,  
Ac Ysbryd Glân rhag asbri,  
Un a thri, iawn athro enwant,  
8 A thri ac un, athro i gant.  
Tri nefol, dragwyddol drig,  
Trida ydynt, nid tradig.  
Tri gogyfuwch trwy gafell,  
12 Natur wych heb un tri well;  
Nid un gynt yn dwyn y gwaith,  
Nid un ola', dôn' eilwaith;  
Nid llai'r unnod lle'r enwir,  
16 Nid mwy chwaith, dyma'r gwaith gwir.  
Nid tri o Dduwiau trwyadl:  
Tri ac un Duw trwy gan dadl;  
I'r Drindod a'i wirglod wedd  
20 Nid yw dechrau na diwedd.  
Mab a genhedlwyd mewn modd –  
Dawn y Drindod a ordeiniodd.  
Yr ail person i'w honni  
24 Yw hwn, llei treiwn o'r tri.  
Ysbryd Glân sy', byrhad glwys,  
Y trydydd person tradwys,

Heb ei gael, oll afael llu,  
 28 Gain adlais, na'i genhedlu,  
 Eithr ei fod, Drindod draw,  
 Dull yn dyfod neu'n deilliaw  
 Oddiwrth y Tad, gwastad gwedd,  
 32 Y Mab yma heb omedd.  
 Gogoniant a gwiw gynnydd,  
 A fu, y sydd ac a fydd  
 I'r Tad a'r Mab a'r tud maith,  
 36 Purffawd ag ysbryd perffaith.  
 Ban oedd, hen amser bu nos,  
 Bechu, Adda bu achos,  
 A mynd i uffern gerngaeth  
 40 Drwy fâr yn y carchar caeth.  
 Dihollt hil, hylldy yw hyn,  
 Heb ras y bu resyn,  
 Gwag fu'r nef, gwiw gof oer nod,  
 44 Ias camwedd, eisiau cymod.  
 A phedair merch, hoffter mân  
 Henwr Drindod ei hunan.  
 Pedair chwioredd, gwedd y gwaith,  
 48 Pedair morwyn, hap odiaith;  
 Henwau'r rhai hyn a wŷr rhai,  
 Hoen dwyfol, henwau difai.  
 Yr hyna' byth i'w rhan bêr,  
 52 Caf fendith, yw Cyfiawnder.  
 Yr ail yw hon ar ael hedd  
 A gŵyr rannu Gwirionedd.

Trugaredd yw'r drydedd draw,  
56 Trosom yn mynnu trasiaw,  
A'r bedwaredd yw Heddwch:  
Gwae ni rhag trueni trwch.  
Trugaredd, trwy ei geiriau -  
60 Ein cyff oedd yn ei coffáu -  
Wrth ei Thad, araith ddedwydd,  
Diymdroi am ein rhoi'n rhydd.  
Gwir a Chyfiawnder a gaid  
64 Ran yn erbyn yr enaid,  
A Thrugaredd a Heddwch,  
Gyda'r enaid â phlaid fflwch.  
Aeth rhwng y rhain, gain nid gwael,  
68 Yma 'rofun ymrafael.  
D'wedyd o'r Tad gwastad gwyn,  
"Cytunwch, coetai ennyn!  
Ni allaf fod, parod parch,  
72 Heboch, eill pedair hybarch.  
Rhaid Cyfiawnder anrhydedd,  
Trwy sant, i farnu tros hedd,  
A'r Gwir i fyntumio'r gwaith,  
76 Cyfiawnder acw fwyndaith;  
Trugaredd, drwy sylwedd sant,  
I gynnal clod ogoniant,  
A Heddwch, treiwch hyd traw,  
80 Wych cad hyn, i'ch cytunaw."  
Galw o'r Drindod, bu'n fodlawn,  
Y drydedd ferch drada iawn.

“Trugaredd, tyrd trwy gariad,  
 84 Heb glwyf, a chwilia bob gwlad  
 Am un dyn a’r a fyn fod  
 Iddaw buchedd ddibechod.”  
 Chwilio'r nef, gwiw addef gwedd,  
 88 Daear ac uffern duedd,  
 Methu cael, di-fael ei fod  
 Dan dw’ baich, dyn dibechod.  
 Galw o’r Tad credadyn  
 92 Fyw, by Hedd, ei fab ei hun,  
 Heb ysbot o bwys y byd,  
 Ond yn wirion dan weryd.  
 Offrwm dros bechod trwm trist  
 96 Oedd wythryw Adda athrist.  
 Offrwm da a hoff rym dwys,  
 Prid fu brynu Paradwys.  
 Ein tad a’n brawd, tud iawn bro,  
 100 A’i prynodd heb awr huno,  
 A’i gig a’i waed, gwiw gu wedd,  
 A’i ran, fendigaid rinwedd.  
 Prynu nef ar y pren ’wnaeth,  
 104 Dygyn fu’r prynedigaeth.  
 P’le mae brenin, diflin daith,  
 ’R un olud a’n pryn eilwaith,  
 A rhoi gwledd, gosgedd y gwin,  
 108 Hoff rad i bob cyffredin?  
 Drwy gennad Crist droganon,  
 110 Arlwydd hawdd, ran o’r wledd hon.

*Ffynonellau*

**A** – LIGC 1559B, 366

*Trefn y llinellau*

A: 1 - 110.

*Darlleniadau Amrywiol*

**1** A: iownder; **2** A: trei'n iawn; **6** A: ag; **8** A: ag; **11** A: ogyfiwch; **17**: A: Nid trwy; **18** A: ag; **20** A: dechrev; **34** A: ag; **35** A: ai tvd; **36** A: ag; **39** A: gern=gaeth; **41** A: diholld hil hylldv; **45** A: hoffder; **46** A: *i* henwr; **50** A: dwyfawl; **51** A: hynaf; **62** A: rhoi yn rhydd; **66** A: fflaid; **70** A: coed tai enyn; **74** A: traws=edd; **79** A: hyd traw; **86** A: a daw bvchedd dibechod; **88** A: daiar ag; **90**: A: dan dw baich; **92** A: fyw by Hedd i *fal* i hvn; **103** A: pren a wnaeth; **105** A: ple mae brein; **107** A: gosgwedd; **110** A: ar lwydd;

*Rhaglith*

A: Cyw: i dduw ac i bedair merch y Drindod .&c.;

*Olnod*

A: Robert Leia;

## Nodiadau

### 10

Bu Calais ym Mhicardi (gyda darn o dir amgylchynol) yn nwylo coron Lloegr o 1347 (pan gipiwyd y ddinas gan fyddinoedd Edwart III<sup>243</sup>) tan 1558, pan ailfeddiannwyd y ddinas gan filwyr Ffrainc. Yn y cyfnod hwn, tyfodd Calais i fod yn ganolfan fasnachol bwysig ac yn fan glanio cyfleus ar gyfer ymgyrchoedd milwrol yn Ffrainc. Nid yw'n syndod felly i'r ddinas fod yn gartref i lu o filwyr, gan gynnwys y Cymry, ac yn wir yr oedd Calais yn gartref i Elis Gruffudd, y croniclydd enwog, am dros ugain mlynedd.<sup>244</sup> Yr oedd y ddinas hefyd yn gartref i groniclydd arall, sef Rhisiart Turpyn.<sup>245</sup>

Yn ogystal â bod yn ganolfan fasnachol a milwrol, bu Calais hefyd yn ddolen gyswllt lenyddol bwysig rhwng Cymru a Ffrainc, ac yn ddinas bwysig i bererinion ar eu ffordd i gysegrfannau'r cyfandir, gan gynnwys Rhufain.<sup>246</sup> Ceir sawl cyfeiriad at Galais yng ngwaith y beirdd,<sup>247</sup> ond ymddengys mai hon yw'r unig gerdd gan y cywyddwyr sy'n moli'r dddinas a'r milwyr o Gymry sy'n byw ynddi. Mae'n sicr bron y byddai Robert Leiaf wedi mynd trwy Galais ar ei bererindod i Rufain (gweler y nodiadau ar gyfer cerdd 13 isod). At hynny, o ystyried y ffordd y mae'r bardd yn moli milwyr Cymraeg y ddinas yn y gerdd hon (gweler llinellau 7 – 12 a'r nodyn isod), mae'n bur bosibl ei fod yntau hefyd yn aelod o garsiwn Calais rywbyrd, er na chafwyd tystiolaeth ategol ddiamwys.

2. **y Galais** Ynghylch y treigladd, gweler TC, t. 4. Noder bod *Calais* yn odli â *Ceraiis* yn y llinell hon – yn wahanol i'r ynganiad Ffrangeg arferol *Calé* a ddefnyddir heddiw. Cadarnheir hyn yn y prifoddlau yn y llinellau a ganlyn: 19 – 20: *ais* a *Calais*; 31 – 32: *gais* a *Galais*; 55 – 56: *Sais* a *Galais*. Gweler hefyd GGG1, XXIX.47 – 8.
5. **Cwlen** = Cologne. Tystia godidowgrwydd Cadeirlan Cwlen a'i chreirfa aur anferthol sy'n dal gweddillion honedig y Doethion, i bwysigrwydd y

---

<sup>243</sup> Gweler er enghraifft gywydd Iolo Goch 'I'r Brenin Edward y Trydydd', GIG, tt. 2 – 5 a 176 – 185.

<sup>244</sup> Ceir Cronicl Elis Gruffudd yn llawysgrif LIGC 5276D; am fanylion pellach ynghylch Elis Gruffudd, gweler er enghraifft Morgan, Prys, 'Elis Gruffudd yng Nghalais', *Bwletin Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 21 (1964 – 6), 214 – 18.

<sup>245</sup> Gweler, er enghraifft, Nichols, John Gough, *The Chronicle of Calais* (London: The Camden Society, 1846).

<sup>246</sup> Gweler Hartwell Jones, G., *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (Hon. Soc. Cymm., 1912), ac yn enwedig tt. 523 – 527.

<sup>247</sup> Gweler, er enghraifft, y mynegeion yn GLM, GLGC.

ddinas i'r Eglwys Babyddol, a hynny'n sicr erbyn y ddegfed ganrif. Erbyn y bymthegfed ganrif, yr oedd Cwlen yn ddinas rydd a lywodraethid gan ganghennau'r gildiau yn ôl cyfansoddiad bwrdeistrefol. Yr oedd y ddinas yn ganolfan fasnachol bwysig iawn yn Ewrop, fel yr oedd Calais, ac efallai'r agwedd fasnachol oedd ym meddwl y bardd wrth iddo sôn am *Calais yn herio Cwlen*.

6. **Cynfyn Hen** Cyfeiriad efallai at Cynfyn ap Gwerstan, tad Bleddyn ap Cynfyn. Gweler, er enghraifft, Lloyd, Sir John Edward, *A History of Wales* (2 volumes, Longman's Green & Co., 1954), 2, tt. 377 – 8.
- 7-12. Roedd bron yn draddodiad i filwyr Cymry wasanaethu yng Nghalais, fel y tystia Cronicl Elis Gruffudd (gweler er enghraifft Jones, Thomas, 'A Welsh Chronicler in Tudor England', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1 (1960), 1 – 17). Y mae'r llinellau hyn yn awgrymu'n gryf i Robert Leiaf ei hun wasanaethu fel milwr yno. Archwiliwyd gwefan 'The Soldier in Later Medieval England', ond ni chafwyd hyd i gofnod y gellir ei gysylltu'n hyderus â Robert Leiaf. (Cafwyd hyd i 'Robert of Bardd [?]' Yr oedd y dyn hwn yn saethydd o dan Edmwnd Beaufort, Dug Gwlad yr Haf, ym 1449). Collwyd llawer o gofnodion ym 1558, wedi i fyddinoedd Ffrainc ailfeddiannu Calais.
8. **y Galais** Noder y treigladd ar ôl y fannod: gweler TC, t. 4.
19. **Dail** arfwisg.
21. **un dinas** Gwrywaidd oedd 'dinas' mewn Cymraeg Canol.
23. **ar lwff** ar ochr y gwynt. Gw. GPC, t. 2072. Y mae'r bardd yn disgrifio sut y cyrhaeddodd ef y gaer.
26. **Clo Lloegr** Ystyrid Calais gan y goron fel amddiffynfa i atal Ffrainc rhag ymosod ar Loegr.
- llygion** = lleygion. Gweler GPC, t. 2172 – 3.
27. **cadw ar** = amddiffyn yn erbyn, dal yn erbyn.
28. **Edwart** Geill hwn fod yn gyfeiriad at naill ai Edwart III (a gipiodd Calais ym mis Awst, 1347), neu Edwart IV, a aeth gyda byddin gref i Galais ym 1475.
33. **chwedl Geraint** Cyfeiriad at Geraint chwedlonol y Tair Rhamant, a orchfygodd lawer o farchogion.



34. **Wŷr ymerodr** Cyfeiriad at y mynych ymododiadau ar y dref gan wŷr brenin Ffrainc, mae'n debyg.
38. **ddewrach** Ynghylch y treigladd, gweler TC, tt. 66 – 67.
41. **Gwaed Gamber** Cynnig enghraifft A. Ynghylch y treigladd, gweler TC, t. 108.
44. **o Gent** Byddai'r bardd wedi hwylio o Ddofr yng Nghent, lle gwelir Calais ar ddiwrnod clir.
45. **gweled ym** = ymddangosai imi. Gw. GPC, t. 1626; WG, t. 327.
47. **ystod Rufain** sef llwybr i bererinion a'u bryd ar Rufain. Gweler uchod.
50. Llinell chwe sill. Ceir 'dynion' yn lle 'dyn' yn C a D. Ynghylch ffurf y ferf 'adnabod' yn y llinell hon (hynny yw, 3ydd prs. ll.), gweler WG, t.307.
53. **perai** Diod debyg i seidr, a wneir o sudd gellyg. Gweler GPC, t. 2767.
55. **cedwais** Byddai 'gedwaist', a geir yn A, yn amharu ar y gynghanedd (sain).
61. Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.
62. Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.
64. Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.
65. **Bwlen** sef Boulogne-sur-Mer, tref ac iddi gastell (Chateaux de Boulogne-sur-Mer), ar lan y môr a thuag ugain milltir i'r de o Galais. Bu'r dref yn ddolen gyswllt bwysig rhwng Gâl a Phrydain yn y cyfnod Rhufeinig. Codwyd y castell yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac o 1416 tan 1477 bu'r dref yn nwylo Dugiaid Bwrgwyn (gweler, er enghraifft, Kibler, William W. et al. (eds.), *Medieval France: an Encyclopaedia* (New York, Garland Pub., 1995), tt. 137– 8). Ym 1492, bu'r dref dan warchae gan Harri VII a'i luoedd (gweler, er enghraifft, Griffiths, Ralph A., *Sir Rhys ap Thomas and his Family* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), a'r cyfeiriadau a geir yno ynghylch Boulogne). Cipiwyd y dref gan Harri VIII ym 1544, a bu'r dref dan goron Lloegr tan 1550 (gweler, er enghraifft, RhGi, tt. 109 – 11).
66. Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.

Cywydd yw hwn i ofyn âb gan Siôn Moel ap Gronwy ap Hywel Foel<sup>248</sup> dros Huw Lewys, sef Huw Lewis o Brysaeddfed,<sup>249</sup> un o bum mab Llywelyn ap Hwlcyn y canodd Rhys Goch Glyndyfrdwy iddynt.<sup>250</sup> Ym mis Medi 1461, cafodd Siôn Moel flwydd-dâl o ddeng marc am oes gan y brenin Edwart IV ‘am ei wasanaeth da i dad y brenin’. Ym mis Rhagfyr yr un flwyddyn cafodd ddinasyddiaeth Seisnig.<sup>251</sup> Daeth yn un o fwrdeiswyr Biwmares, ond yr oedd ganddo ddiddordebau llawer ehangach. Dywed Colin M. Evans;-

One of the leading burgesses in the second half of the fifteenth century, on occasion he acted as deputy constable to Lord Hastings (Baron Hill 491, 496). His lands were not confined to Beaumaris alone but were to be found all over Anglesey. ... Moile's estate nevertheless reverted back to the Crown in May 1488 when he was outlawed for various felonies, and the value of his Beaumaris lands was assessed by an inquisition held before the two bailiffs (M.A. Hen VII 1618).<sup>252</sup>

Efallai fod arwyddocâd yng nghyswllt y cywydd hwn yn y ffaith iddo ddal gwahanol fferïau yn ogystal â fferm Aberffraw.<sup>253</sup>

Yn dilyn B. O. Huws (gweler isod), penderfynwyd cynnwys, er yn betrus, y diwedd glo ‘Doir i’w ofyn heb drafael | Dig wyf nato Duw ei gael’ yn y golygiad a gyflwynir yma, er na cheir y cwpled hwn mewn tair enghraifft ar ddeg, sef A, D, E, F, G, N, Q, S, V, X, Z, AA, AD. Ceir mewn llaw gwahanol yn B, ac mewn llaw gwahanol ar ôl enw’r bardd yn T. Annisgwyl ac anghonfensiynol, braidd, yw diwedd glo o’r fath ar gyfer cywydd gofyn; ar y llaw arall, gellir dadlau fod diwedd glo anghonfensiynol o’r fath a geir yma yn gweddu i gywydd mor anghonfensiynol.

<sup>248</sup> Gweler WG1, ‘Cadrod Hardd’ 1, a’r cyfeiriad yno at ‘Marchudd’ 11; Carr, A. D., *Medieval Anglesey* (2<sup>nd</sup> Ed., Anglesey Antiquarian Society, 2011), tt. 198 – 9; Lewis, E. A., *The Mediæval Boroughs of Snowdonia* (London 1912), t. 81; Davies, Henry Rees, and Jenkins, R. T., *A Review of the Records of the Conway and Menai Ferries*, (Volume VIII, University of Wales. History and Law Series, Cardiff, University of Wales Press Board, 1966), t.16, 74 – 5, 80 – 1.

<sup>249</sup> Gweler WG2, ‘Hwfa’ 8(C1). Gweler hefyd Carr, A. D., *op. cit.*, tt. 173, 179, 183; Wiliam, Dafydd Wyn, ‘Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedern, Môn’, *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn* (1969 – 70), 54 – 68.

<sup>250</sup> Gweler cerdd 21 isod a’r nodiadau perthnasol.

<sup>251</sup> CPR, Edward IV, A.D. 1461 – 1467, m. 22.

<sup>252</sup> Evans, Colin Morris, ‘The Medieval Borough of Beaumaris and Commote of Dindaethwy’ (M.A. Thesis, Bangor, 1949), pp. 143-5.

<sup>253</sup> Davies, H. R. and Jenkins, R. T., *op. cit.*, tt. 80 – 81.

Golygwyd y cywydd hwn gan Dr. Bleddyn Owen Huws, fel rhan o'i waith doethur ar y canu gofyn a diolch.<sup>254</sup> Yn y golygiad hwn, cynhwysir y cwpled 'Crinodd pob cwr o'i wyneb | Cythrel, ac ni ochel neb' ar ôl llinell 30 uchod. Cynhwysir hefyd y cwpled 'Doir i'w ofyn heb drafael, | Dig wyf nato Duw ei gael!' ar ddiwedd y gerdd. Ynghylch y cwpled olaf hwn, dywed yr awdur:

Mae'n amlwg oddi wrth y diwedd glo hwn mai'r bardd a anfonwyd gyda'r gerdd i gyrchu'r mwnci. Mae'r eirchiad ei hun, Huw Lewys, yn gofyn 'heb drafael', heb deithio i gyrchu'r anifail. Dyna felly, egluro dicter y bardd, canys ef a gludai'r mwnci at yr eirchiad.<sup>255</sup>

1. **Mêns** Nid yw enghreifftiau'r cywydd yn gytûn ynghylch y gair hwn, o bell ffordd (gweler uchod), a'r amrywiadau'n cynnwys *mans*, *mars*, *mers*, *meius* a *mownt*. Yn eu golygiad o gywydd i Hopcyn ab Siôn, o waith Lewys Glyn Cothi, cynnig Gwallter Mechain (Walter Davies) a Tegid (John Jones) yr esboniad canlynol ar yr ymadrodd *arglwydd mên*: 'mesne-lord; a lord of a manor that holds of a superior lord' (GLGC<sup>1</sup>, XXXVII.33, t.122). Cynhwyswyd y cywydd hwn yn GLGC<sup>2</sup> (tt. 168 – 9), ond heb nodiadau. Ni chynhwyswyd y cywydd yn GLGC<sup>3</sup>. Ceir yr ymadrodd *wÿr mên* mewn cywydd gan Dudur Aled i Sieffre Cyffin, Abad Maenan (GTA, XXVII.31, t.124), ac yn y nodiadau cysylltiol rhydd yr Athro T. Gwynn Jones yr esboniad canlynol: 'Dynion cyffredin, lleygion. Neu ynteu o *demesne*' (GTA, t.577). Cafwyd trafodaeth gan Eurys I. Rowlands ar y gair dan sylw mewn erthygl ym Mwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd (Rowlands, Eurys I., 'Nodiadau ar Eiriau', B, 17 (1956 – 8), tt.37 – 40). Yn yr erthygl hon, cyfeiria'r awdur at y nodyn yn GLGC<sup>1</sup>, gan ychwanegu mai nodyn 'sy'n gywir yn sicr' yw hwn. Cyfeiria hefyd at ddwy enghraifft o'r gair o'i draethawd M.A. ar waith Lewys Môn (Rowlands, Eurys Ionor, 'Bywyd a Gwaith Lewys Môn' (traethawd M.A. Cymru [Bangor], 1955) sef *arglwyddes mên* a *gwÿr mêns*, a hefyd *Arglwydd men* o foliant Guto'r Glyn i Syr Rhisiart Gethin ap Rhys Gethin o Fuellt (GGGI, I.44: *Capten ac Arglwydd men Mawnt*) a '(g)wyr mens' Robert Leiaf, Peniarth 63, 193.

---

<sup>254</sup> Gweler Huws, Bleddyn Owen, *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch* (Cyhoeddiadau Barddas, 1998), tt. 59 – 60, 128 – 9; Huws, Bleddyn Owen, 'Astudiaeth o'r Canu Gofyn a Diolch Rhwng c. 1350 a c. 1630' (Traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru, Bangor 1994), tt. 394 – 8, 493 – 5.

<sup>255</sup> Huws, Bleddyn Owen, 'Astudiaeth ...', t. 495.

Ynghylch *Arglwydd mên* yn y llinell o foliant Guto'r Glyn i Syr Rhisiart Gethin, Capten Mantes yn Ffrainc, dywed Dr. Barry J. Lewis yn ei olygiad o'r gerdd hon ar wefan Guto'r Glyn fel a ganlyn:-

Arglwydd sy'n dal tir o dan arglwydd arall, Saesneg 'mesne lord'. Harri VI oedd priod arglwydd Mantes (yn ôl cred y Saeson) ac roedd Syr Rhisiart Gethin yn ei dal dan ei awdurdod ef.

Dyma eglurhad clir iawn ar yr hyn a ddyfynwyd uchod o GLGC<sup>1</sup>.

Yn ei lyfr diweddarach ar waith Lewys Môn (GLM), y mae Eurys Rowlands yn ailadrodd yr hyn a ddywedodd yn B, 17, t. 38 ynghylch 'arglwyddes mên' yn GLM, XLI.45 (tt. 145, 445). Ynghylch 'gwŷr mên' yn GLM, LV.9, t. 195, dywed yn y nodiadau (GLM, t. 464):-

Y mae efallai'n bosibl, ond go brin, mai at Mayence (Mainz) y cyfeirir, gw. nod. G.T.A., 604, ar 'cerfiodd Ffranc'.

(A'r nodyn yn GTA, t. 604 fel a ganlyn: 'Sonia beirdd eraill am grefftwyr o'r Cyfandir yn y cyfnod hwn.')

Yn ei olygiad o gywydd Lewys Glyn Cothi i Hopcyn ap Siôn, ni ychwanega Dafydd Johnston nodyn ynghylch yr ymadrodd 'arglwydd mên' yn llinell 33 (GLGC, t. 231), ond ceir nodyn ynghylch 65.28 (*ei air da o'r Fan erioed i'r Fens*) a 65.31 (*a hyn efa'i myn hyd gaerau Mens*), sef 'Mainz neu Mayence ar afon Rhein'. Dyna a gynnigir gan B. O. Huws yn ei olygiad o'r cywydd dan sylw, gan ystyried y cyd-destun a chyfeirio at GLGC, 65.28-31, neu fel arall tref *Mantes* ar lannau afon Seine, o derbyn y darlleniad 'Mownt' a geir mewn rhai llawysgrifau: gweler Huws, B. O., *Detholiad*, t. 128.

Cytunir yma â barn Eurys Rowlands uchod ynghylch y posibilad mai 'Mayence' (neu 'Maintz') yw *Mên*s; llai annhebygol yw'r posibilad 'Mantes', ac yn enwedig o ystyried y dyfyniad o waith Barry J. Lewis uchod.

2. **Dêl** Ceir *doed* mewn o leiaf un ar ddeg o gopiâu.
3. **Frust** Dyma a gynnigir yn y golygiad hwn, ffurf ar *Brusto*, sef Bryste (dehongliad sydd yn cyd-fynd yn dda â 'Menai' yn y llinell nesaf): gweler er enghraifft GLGC, 16.73 a 135.27. Ceir nifer o amrywiadau arno yn y llawysgrifau, gan gynnwys *frusd*, *fruds*, *vrwysc*, *vrusc*, *vrys*, *vrysc*, *frust*,

*vryd, frvd, frvds, furdias* (gweler uchod). Porthladd o bwys ar lwybrau masnach Cymru'r oesoedd canol oedd Bryste (gweler, er enghraifft, Roberts, Enid, *Dyffryn Clwyd a'r Cyffiniau Bum Can Mlynedd yn Ôl* (Pwyllgor Llên Eisteddfod Genedlaethol Y Rhyl a'r Cyffiniau, 1985), tt. 6 – 7). Ceir darlun manwl o Fryste fel porthladd a chanolfan fasnachol yn y bymthegfed ganrif yn Carus Wilson, E. M., 'The Overseas Trade of Bristol', yn Power, Eileen and Postan, M. M., *Studies in English Trade in the Fifteenth Century* (Routledge & Kegan Paul Ltd., 1951), pennod V, ac yn arbennig tudalennau 183 – 188.

4. **am Fenai** Cyfeiriad at afon Menai yn hytrach na'r hen borthladd Abermenai sydd yma, mae'n debyg. Biwmares oedd prif borthladd Môn yn y cyfnod dan sylw. Ym 1297, deddfwyd na ddylai masnachwyr ddod i Gymru ac eithrio trwy borthladdoedd Caer, Biwmares, Aberdaugleddyf neu Hwlfordd (gweler Carr, A. D., *op. cit.*, tt. 78 – 80).

9-14. Yn ôl y bardd (llinell 9) mae gan Siôn Moel a Huw Lewis gysylltiad teuluol: Siôn Moel o linach Cadrod Hardd o Dalybolion, Môn (gweler WG1, 'Cadrod Hardd' 1); a Huw Lewis o linach Llywarch ap Bran (trwy ei nain, Erddylad ap Dafydd (gweler Hwfa 8(C1), Hwfa 8 a Llywarch ap Brân 1). Trwy'r llinach wrywaidd gellir olrhain ach Huw Lewis at Hwfa ap Cynddelw (Hwfa 8, Hwfa 7, Hwfa 5 a Hwfa 1). Ai at Cuhelyn ap Cadrod Hardd (gweler Cadrod Hardd 1) y cyfeiria'r bardd yn llinell 14 ac ai dyma'r cysylltiad honedig rhyngddynt? Yn anffodus, nid oes gan Cuhelyn ddisgynyddion yn ôl Bartrum.

10. Gweler WG1, 'Cadrod Hardd' 1.

11. **Lliwon** sef cwmwd Llifon.

15 – 16. Ansicr yw ystyr y cwpled hwn. Dywed B. O. Huws:-

Dichon mai cyfeiriad at arfbais Cadrod Hardd a'i ddisgynyddion a geir yma, oherwydd yr oedd dau flaid ar gefndir arian arni, gw. M. P. Siddons, DWH, ii. 57.

(Huws, Bleddyn Owen, *Detholiad ...*, t. 129).

Er bod hyn yn esboniad posibl ar *blaid* yn llinell 15 ac *arian* yn y llinell ddilynol, nid yw'n esbonio arwyddocâd y cwpled yn ei gyfanrwydd. Sawr y canu brud sydd i'r cwpled hwn, a'r *blaid* yn gymeriad digon cyfarwydd y *genre*. Gwyddys mai cyfnewidiol oedd gyrfa Siôn Moel Hen (gweler y dyfyniad o waith Colin M. Evans uchod). Diau y buasai cynulleidfa

gyfoes wedi deall union arwyddocâd y cwpled i'r dim, ond heb astudiaeth fanwl o'i yrfa (os yw hynny'n bosibl, mewn gwirionedd), rhaid iddo aros yn gêl i ni.

19. **Seirioel** Seiriol Sant, sylfaenydd eglwys Penmon ac un o'r seintiau amlycaf ym Môn (Cybi oedd y llall). Gweler CLC<sup>2</sup>, 662.
29. Y mae llawer o amrywiadau ar y llinell hon. Dilynir golygiad Dr. B. O. Huws, a chymryd mai ffurf dreigledig ar *gar* 'coes, morddwyd' (GPC, t. 1380) sydd yma.
32. Llinell lwgr yw hon, mae'n debyg, o ystyried yr amrywiadau lluosog yn y gwahanol llawysgrifau. Amrywiad ar 'Canu dyrg (durg, dûrts, dirg,dyrch, durs) i(r) cŵn i dad' a geir mewn sawl enghraifft, gan gynnwys y rhai hynaf, ac eithrio C, lle ceir *kywmain dûrs kuman i dad*. Dilyn B. O. Huws copi John Davies o Fallwyd, gan gynnig 'Canu â'i durs y'i cawn i'w dad' (gweler nodyn 254 uchod). Fodd bynnag, llinell wyth sill yw hon, a'r enghraifft gynharaf o'r gair 'turs' a geir yn GPC yn dyddio o 1604. Cynigir yma '*Canu dyrg y cŵn i'w dad*', gan ddilyn, mwy neu lai, yr enghreifftiau hynaf. Geill 'dyrg' fod yn fenthyciad o'r S. 'dirge' (o'r Lladin *dirige*), a'r enghreifftiau hynaf a geir yn yr OED yn gyson â dyddiad tebygol y cywydd.
44. **crud** Dyna'r hyn sydd gan y llawysgrifau hynaf, ac eithrio A ac G, sy'n cynnig *cryd*. 'Cryd' yw dewis B. O. Huws. Yr un mor addas yw'r naill a'r llall yng nghyd-destun y cywydd.
50. **Siac** enw chwareus ar yr âb. Gweler yr amrywiadau yn yr adran Rhaglith, megis siakk abb (B), Siack âp (C). Cymharer â'r *S. jackanapes*.
53. **peg** O 1547 y daw'r enghraifft hynaf o'r gair yn GPC (t. 2705).

## 12

Cywydd dychan o achos rhwystr serch yw hwn, ac o ystyried pa mor hoff o'r *genre* yr oedd Dafydd ap Gwilym, nid yw'n syndod i sawl copiyydd briodoli'r gerdd iddo. Yn wir, argraffwyd y cywydd fel gwaith Dafydd yn BDG, tt. 225 – 7. (Fe'i gwrthodwyd gan Thomas Parry yn GDG, fodd bynnag). Priodolir cywydd gwahanol

i'r dylluan i Ddafydd, ac yn hwnnw y mae'r bardd yn cwyno am fod yr aderyn yn ymyrryd â'i gwsg a'i freuddwydion.<sup>256</sup>

Ymranna'r enghreifftiau yn ddau fersiwn, sef  $\alpha$  a  $\beta$ , fel a ganlyn:

$\alpha$ : A, C, E, F, I, J, M, N, O, P, Q, R, S, T, U, V, X, Y, Z, AA, AB, AC.

$\beta$ : B, D, G, H, K, L, W.

Wyth llinell a thrigain sydd i fersiwn  $\alpha$ ; deng llinell a thrigain yn achos fersiwn  $\beta$ .

Cynhwysa fersiwn  $\alpha$  ddarn pedair llinell nas ceir yn fersiwn  $\beta$  fel a ganlyn:-

*Gwedy dêl llygaid y dydd*

*Meillion gwynion a gwinwydd*

*Nac ofner y gaeafnos*

*Belydr yr haul blodau rhos*

Cynhwysa fersiwn  $\beta$  ddarn chwe llinell nas ceir yn fersiwn  $\alpha$  fel a ganlyn:-

*Aed i'r fun pe cawn unnos*

*Belydr haul a blodau'r rhos*

*Lleisiau adar llais Wydion*

*Llawr miwsig ar frig y fron*

*Lle tirion lle gyrddion gwŷdd*

*Lle nefol llwyn i ofydd*

Erys mân wahaniaethau eraill rhwng y ddau fersiwn, ond y mae cysondeb yr enghreifftiau o fewn y fersiynau (ac yn enwedig yn achos  $\beta$ ), yn awgrymu bod yma ddau draddodiad llawysgrifol gwahanol. Atgyfnerthir y ddatl hon gan y ffaith bod pob enghraifft yn achos fersiwn  $\beta$  yn priodoli'r cywydd i Syr Siôn Leiaf (ac eithrio enghreifftiau K ac W, sydd yn anghyflawn a heb enw bardd).

Yn y cywydd dan sylw yma, dilyna'r bardd drefn arferol y *genre*. (Yn y drafodaeth ddilynol, cyfeiria rhifau llinellau at fersiwn  $\alpha$  o'r cywydd). Gosod y cefndir a wna i ddechrau (llinellau 1 – 4), ac yntau wedi trefnu oed mewn deildy gyda bun (ll. 2 – 3).

Yn llinellau 5 – 24 y mae'r bardd yn moli'r fun ddienw, a cheinder y mynegiant yn amlwg. Yna daw'r rhwystr (ll. 25 – 34), ar ffurf tylluan a floeddiodd (o

---

<sup>256</sup> Gweler [www.dafyddapgwilym.net](http://www.dafyddapgwilym.net), cerdd 61; GDG, tt. 75 – 77 a 467 – 8.

achos ei haniau yn ôl ll. 27 – 8), a'i 'hoer llais' yn brawychu'r fun a chwalu gobeithion y bardd. Dial ar y dylluan trwy ei dychanu'n ddirugaredd y mae'r bardd yn llinellau 35 – 64. Trawiadol yw'r delweddau a ddefnyddia'r bardd yn yr adran hon, a'r cymeriadau llythrennol, yn enwedig llinellau 49 – 64. Yn y diwedd glo yn llinellau 65 – 64 y mae'r bardd yn gorffen ei araith lem yn erbyn yr aderyn trwy dymuno uffern i'r dylluan druan.

Er cyn cof a than yn gymharol ddiweddar, ystyrid y dylluan yn ddrychiolaeth o aderyn, a bu ganddi enw drwg. Yn y Beibl rhestrir y dylluan ymysg yr adar 'sydd yn ffaidd ichwi, ac na chewch eu bwyta am eu bod yn ffaidd' (Lef. 11: 13 – 19). Yn yr Oesoedd Canol credid bod sgrech y dylluan yn arwydd o farwolaeth rhywun (gweler, er enghraifft, y cyfeiriadau a geir ar y wefan 'The Medieval Bestiary', <http://bestiary.ca/beasts/beast245.htm>). 'Udai'n ffraeth, adwen ei ffriw, |Edn i Wyn ap Nudd ydiw.' meddai Dafydd ap Gwilym yn ei gywydd i'r dylluan ([www.dafyddapgwilym.net](http://www.dafyddapgwilym.net), 61: 39 – 40 a'r nodiadau cysylltiol). Y mae'r dylluan wedi bod yn aderyn poblogaidd os nad hoff ymysg cymeriadau stoc y beirdd ers tro, fel y gwelir, er enghraifft, wrth roi 'tylluan' fel 'pwnc (arall)' yn MCF. Dwy gerdd adnabyddus o'r ganrif ddiwethaf sy'n adlewyrchu'r cymeriad rhithiol a'r ofergoedd a gysylltir â'r aderyn yw 'Tylluanod' gan Robert Williams Parry<sup>257</sup> a'r soned 'Tylluan' gan ei gefnder Syr Thomas Parry-Williams.<sup>258</sup>

4. **rhoddai fedd** Pwynt diddorol yw'r amwysedd a gyfleir yn yr ymadrodd hwn: ai damwain a hap yw hyn, neu ynteu a oedd y bardd yn fwriadol amwys? Ceir yr un amwysedd ym marwnad Llywelyn Goch ap Meurig Hen i Lleucu Llwyd (gw. GLLGapMH, 12.60 a tt. 94 - 7).
5. Y mae'r ddwy ffurf *llariaidd* a *llariaidd* yn gyfystyr. Fodd bynnag, dwy sill sydd i'r ffurf gyntaf, a thair i'r ail.
7. **Eigr** sef Eigr ferch Amlawdd Wledig. Mam Arthur, gw. G, t. 456; WCD, tt. 228 – 9; Lewis, Henry (gol.), *Brut Dingestow* (Caerdydd, 1942), tt. 136 – 140.
8. Erbyn hyn, ar oben y gair *diwair* y syrth yr acen (hynny yw, *diwair* yw'r ynganiad heddiw), ond gynt bu *di-wair* yr un mor dderbyniol (hynny yw, yr acen ar sillaf olaf y gair). Felly, nid y gynghanedd groes anghytwys

---

<sup>257</sup> R. Williams Parry, *Cerddi'r Gaeaf* (8<sup>fed</sup> argr., Gwasg Gee, 2000), t. 6.

<sup>258</sup> T. H. Parry-Williams, *Cerddi: Rhigymau a Sonedau* (5<sup>ed</sup> argr., Gomer, 1975), t. 45.



ddyrchafedig waharddedig sydd yma, ond yn hytrach cynghanedd groes gytbwys acennog. Gweler CD, t. 150; GPC, t. 1054.

9. **Fenus** O'r Lladin *Venus* (duwies serch y Rhufeiniaid), mae'n debyg (gweler, er enghraifft, GL1-C, t. 791). O 1700 y daw enghraifft hynaf y gair Cymraeg 'Fenws' yn GPC (t. 1268), er iddo ddigwydd yma mewn sawl enghraifft.

**pacs** eg. *cusan*, *cusan* heddwch. Gweler Ruddock, Gilbert E., 'Genau Crefydd a Serch', YB X (1977), tt. 243 – 4.

Ceir amrywiadau *niferus* ar y llinell hon.

10. **Afal Awst** afal anhysbys. Gweler GPC<sup>2</sup>, t. 94.

12. **adail haf** cyfeiriad at ddeildy Dafydd ap Gwilym, mae'n debyg.

**llel** = lle y. Gweler GPC, t. 2143.

13. **deddyw** hen ffurf 3<sup>ydd</sup> prs. un. amser perff. y ferf 'deuaf, dyfod' (= daeth).

19. Cynghanedd groes 'n' berfeddgoll. Dyma a geir mewn sawl enghraifft, gan gynnwys y rhai hynaf, a hefyd yn BDG (t. 226). Yn ôl Syr J. Morris Jones (WG, t. 180), *ofnwy'r* = 'ofnwyf y'.

24. **Euron** enw priod sydd yma, yn ddiau, oherwydd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y ceir enghraifft gynharaf yr enw cyffredin euron (sef banadl Ffraic, *Cytisus laburnum*, gw. GPC, t. 1260). Yr oedd gan Lywelyn ab y Moel gariad o'r un enw (gw. GDBMW, t. 138).

27. **tylluan** Ceir 'dylluan' fel ffurf arall ar enw (benywaidd) yr aderyn (gw. GPC, t. 3674), ffaith sy'n esbonio'r amrywiad *y ddylluan* yn F, M, S, U, V.

31. **a ddamunais** Cynghanedd lusg lân. Ceir *a ddyfynnais* yn A, E, N, P, U, a'r gynghanedd yn groes anghytbwys ddisgynedig ag iddi 'n' ac 'r' wreiddgoll.

34. **dwy-awr** sef dwy + gawr eb.g. bloedd, gwaedd. Gweler GPC, t. 1385.

40. 'n' wreiddgoll.

42. Ynghylch y rhugl groen, gweler, er enghraifft, [www.dafyddapgwilym.net](http://www.dafyddapgwilym.net), cerdd 62 a'r nodiadau cysylltiol.

43. Cynghanedd sain gadwynog.

44. Cynghanedd groes wreiddgoll. Gweler CD, t. 185.

45. **gyrru bw** brawychu, dychrynu. Gweler GPC, t. 1797.  
Cynghanedd groes ‘n’ ganolgoll, a’r ‘b’ o *bw* yn ail ran y llinell yn cyfateb i’r ‘bh’ o *Gwrab hen* yn y rhan gyntaf.
47. **garan** eb.g. aderyn hirgoes, uchel ei gri o dylwyth y *Cruidae*.
48. **Gŵr y god** Rhydd GPC (t. 1694) ddwy enghraifft o’r ymadrodd hwn:-  
(i) crwydryn, pedler, neu fwgan, a’r cyfeiriad yno at y llinell hon yn Pen 76, sef enghraifft A;  
(ii) dyn cyfoethog a hael, a’r cyfeiriad yno at GTA, CXXII.9 (t. 472).  
Er bod y ddau ystyr yn wahanol, cysylltir â’i gilydd yng nghainc gyntaf y Mabinogi. Gwawl fab Clud yw’r dyn cyfoethog a geisiodd Rhiannon. Pwyll, ac yntau’n gwisgo dillad tlodaidd megis crwydryn, a ddaeth â’r god hudol (y rhoesai Rhiannon iddo) i’r wledd a ddarparasid gan Rhiannon ar gyfer Gwawl. Gweler, er enghraifft, YM, tt. 11 – 15.  
Dylid nodi mai *Gŵr y god heb air a gân* yw’r llinell gyfan yn ôl Pen 76. Fodd bynnag, *Gŵr y god bob gair a gân* a geir yn y rhan fwyaf o’r llawysgrifau, gan gynnwys y rhan fwyaf o’r hynaf, a dyna a ddewisir yma.
49. **clap** eg.b. teclyn i glapio (yn enwedig teclyn mewn melin flawd sy’n taro’r hopran ac yn peri iddi ysgwyd yn ôl a blaen). Gweler GPC, t. 489.
51. **llethr** eg. llythyr, a’r ystyr yn ffigurol (sef ‘neges’). Gweler GPC, t. 2166.
53. **Clog** (cloc) eg.b. mantell, hugan, yn *ffig.* gorchudd. Gweler GPC, tt. 501 (cloc<sup>2</sup>), 505 (clog<sup>1</sup>).
- gwilliaid** e.ll. (un. g. gwilliad . herwr). Gweler GPC, t. 1765.
58. Cynghanedd sain drosgl.

Y mae datblygiad fersiwn  $\beta$  yn dilyn yr un drefn â fersiwn  $\alpha$ , a’r llinellau hyd at linell 16 yn cyfateb, mwy neu lai, yn y ddau fersiwn. Y mae’r nodiadau uchod ar gyfer llinellau 4, 7, 8, 9, 10 a 12 yn gwbl berthnasol i’r llinellau hyn yn fersiwn  $\beta$ . Ar ôl hynny, mae cynnwys y llinellau yn dargyfeirio. Yn y nodiadau dilynol, cyfeiria’r rhifau ar ochr chwith y dudalen at rifau’r llinellau yn fersiwn  $\beta$ .

19. **llais Wydion** sef Gwydion fab Dôn, cyfarwydd a dewin Pedwaredd Gainc y Mabinogi. Ynghylch Gwydion, dywed awdur y Pedwaredd Gainc fel a ganlyn: ‘Ynteu Wydyon goreu kyuarwyd yn y byt oed’ (Hughes, Ian, *Math Uab Mathonwy* (Prifysgol Aberystwyth, 2000), t. 2). Ceir sawl cyfeiriad at Wydion yn y llawysgrifau, gan gynnwys yr hengerdd, ac yn enwedig yn

Llyfr Taliesin: am fwy o fanylion, gweler Hughes, Ian, *op. cit.*, tt. xviii – xxiii.

26. **Euron** gweler y nodyn ar gyfer llinell 24 uchod.
59. **Cuawg** ymddengys mai hen enw ar afon yw hwn. Gweler G, t. 184; CLIH, tt. 23 – 27, 162.
61. **Cai** sef Cai Hir, mae'n debyg. Gweler WCD, tt. 91 – 4.

### 13

Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, '*Llun wyneb Crist (yn ôl y traddodiad) a arhosodd ar y lliain neu'r cadach a roes y Santes Veronica iddo i sychu'r chwys oddi ar ei wyneb ar y ffordd i Galfaria*' yw'r fernagl (GPC, 1269). Gwelodd Gerallt Gymro'r fernagl yn ystod ei ymweliad â Rhufain ym 1199,<sup>259</sup> ac ymddengys mai ym 1207 y dangoswyd y crair i'r cyhoedd am y tro cyntaf, mewn gorymdaith yn y ddinas a sefydlwyd gan y Pab Innocent III ac a ddaeth yn ddigwyddiad blynyddol.<sup>260</sup> Yr oedd gweld y fernagl yn un o uchafbwyntiau pererindod i Rufain, fel y tystia Robin Ddu o Fôn ym 1450, Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Gronw (neu Hywel Dafydd ab Ieuan ap Rhys) rhwng 1455 a 1458 a Huw Cae Llwyd ym 1475.<sup>261</sup>

Canodd Lewis Trefnant gywydd sy'n cyfeirio at y fernagl, sef cywydd i Rys ap Dafydd Llwyd ar achlysur pererindod y gwrthrych i Rufain.<sup>262</sup> Ceir sawl cyfeiriad at y fernagl ym marddoniaeth y cywyddwyr, er enghraifft Guto'r Glyn<sup>263</sup> a Lewys Glyn Cothi.<sup>264</sup>

Adroddir yn Efengyl Marc (Marc 5: 25-34) sut yr iachawyd gwraig ddienw, a oedd wedi dioddef gan waedlif ers deuddeng mlynedd, ar ôl iddi gyffwrdd â mantell yr Iesu. Fodd bynnag, yn ôl testunau apocryffaidd megis *Efengyl Nicodemus* (a

---

<sup>259</sup> Gweler, er enghraifft, Wilson, I., *Holy Faces, Secret Places* (Doubleday, 1991), t.38 – 42.

<sup>260</sup> Wilson, I., *op. cit.*, t. 44 – 5.

<sup>261</sup> Roberts, Thomas, 'Cywyddau Pererindod', *Y Traethodydd*, XCIX, 430 (1944), tt. 30 – 38; GHCLL, 83 – 5 a 152 – 3.

<sup>262</sup> Gweler Cunnane, James, 'Ceredigion and the Old Faith', *Ceredigion: Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi*, 12 (2), 1994, tt. 16 – 17.

<sup>263</sup> Gweler [www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net), cerddi 26.44, 28.45 – 7, 33.8, 42.39, 94.66 (yn y rhestr hon, dilynir rhif y gerdd gan atalnod llawn ac wedyn rhif(au) y llinell(au) perthnasol), a'r nodiadau.

<sup>264</sup> GLGC, 49.36, 72.60, 98.31, 196.40.

adwaenir hefyd fel *actau Peilat*), Berenice (yn y Groeg), neu Veronica (yn y Lladin)<sup>265</sup> oedd enw'r ddynes hon.<sup>266</sup> Yn y testun canoloesol *Vindicta Salvatoris* (8<sup>fed</sup> / 9<sup>fed</sup> ganrif), adroddir hanes iacháu yr Ymeroddr Tiberius wedi iddo weld llun wyneb yr Iesu ar liain a oedd yn eiddo i Berenice (Veronica), ond nid yw'r testun hwnnw yn dweud sut y daeth y llun ar y lliain.<sup>267</sup> Ymddengys fod y traddodiad ynghylch sut y daeth y llun ar y lliain, sef i Berenice ddefnyddio'r lliain hwnnw i sychu'r chwys oddi ar wyneb ein Gwardedwr ar ei ffordd i Golgotha, yn un diweddarach (tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg). Coffeir sychu wyneb Crist gan Veronica yn y chweched ddelwedd yng nghyfres pedwar argraffiad celfydd ar ddeg a elwir *Safleoedd y Groes*.

Cyhoeddwyd fersiwn o'r cywydd gan T. Gwynn Jones yn Llên Cymru.<sup>268</sup> Ceir trafodaeth ddiddorol ar y farnagl ynghyd â fersiwn o gywydd Robert Leiaf yn y llyfr *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* gan G. Hartwell Jones.<sup>269</sup> Gweler hefyd Butler, Alban, *Butler's Lives of the Saints: July*, gol. Peter Doyle (Burns & Oates, 2000), tt. 84 – 6.

2. **fernagl** eb. Gweler GPC, t. 1269: '*Llun wyneb Crist (yn ôl y traddodiad) a arhosodd ar y lliain neu'r cadach a roes y Santes Veronica iddo i sychu'r chwys oddi ar ei wyneb ar y ffordd i Galfaria.*' Cadwyd y fernagl yn Hen Fasilica Pedr Sant yn Rhufain yn ystod einioes y bardd.
3. **pan welais hwn** Y mae'n amlwg fod y bardd ei hun wedi gweld y fernagl. Nid yw'r bardd yn manylu ar ei daith i Rufain, nac ar y pethau eraill a welodd yno yn y gerdd hon, ond mae'n weddol sicr y buasai ef wedi mynd trwy Galais (gw. cerdd 10).

---

<sup>265</sup> Y mae rhai yn haeru bod yr enw Veronica yn dod o'r Lladin *Vera icon* (sef gwir ddelwedd), ac yn cyfeirio at lun Crist ar y lliain dilys, er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth luniau a grewyd ar lieiniau eraill gan bobl. Erbyn hyn defnyddir y gair hefyd i gynrychioli'r lliain (dilys) ei hun.

<sup>266</sup> Ynghylch efengyl Nicodemus, gweler er enghraifft Izydorczyk, Z. (Ed.), *The Medieval Gospel of Nicodemus: Texts, Intertexts, and Contexts in Western Europe* (Medieval & Renaissance Texts & Studies, Tempe, Arizona, 1997), ac yn enwedig y bennod gan David N. Klausner (tt. 403 – 418), a'r cyfeiriadau a geir yno.

<sup>267</sup> Gweler, er enghraifft, Ehrman, B. & Pleše, Z., *The Apocryphal Gospels: Texts and Translations* (Oxford University Press USA, 2011), tt. 537 – 558, ac yn enwedig t. 557; Elliott, J. K. (Ed.), *The Apocryphal Jesus* (Oxford University Press, 1996), tt. 109 – 111.

<sup>268</sup> Jones, T. Gwynn, *Llên Cymru: detholiad o ryddiaith a phrydyddiaeth at wasaneth myfyryr gwlad ac ysgol* (rhan 2, Caernarfon ac Aberystwyth, 1921 – 27), tt. 31 – 3.

<sup>269</sup> Jones, G. Hartwell, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (London, Hon. Soc. Cymm., 1912), tt. 181 – 9.

4. **pasiwn** Yn ôl y traddodiad Cristnogol, pasiwn yr Iesu yw'r holl ddigwyddiadau sydd yn arwain at ei farwolaeth, gan gynnwys glanhau'r deml (Marc 11: 15 – 19); y swper olaf gyda'r disgyblion (Marc 14:22 – 26); ei ddirboen ar Fynydd yr Olewydd, lle'r oedd ei chwys fel dafnau gwaed (Luc 22: 39 – 46); ei brawf gerbron Peilat a'i ddedfrydu i farwolaeth (Marc 15: 1 – 15); a'i groeshoelio a'i farwolaeth (Marc 15: 21 – 41).
5. **y pum harcholl** sef y tyllau yn ei ddwylo a'i draed, a'r briw yn ei ystlys. Er nad arfer heddiw yw doddi 'h' o flaen enw ar ôl 'pum', fe'i harferid gynt, a dyma a geir mewn sawl enghraifft o'r gerdd hon, gan gynnwys y rhai hynaf. Gweler TC, t. 137.
6. **a'i dâl i'r byd oll** dyma gyfeiriad at athrawiaeth ganolog Cristnogaeth, sef prynedigaeth pob credwr trwy aberth perffaith yr Iesu (gweler, er enghraifft, McGrath, A. E., *Christian Theology: An Introduction* (Blackwell, 2001), tt. 410 – 12).
- Cynghanedd draws 'n' wreiddgoll.
10. **feronig** enw arall ar y fernagl, o 'Veronica', sef enw (Lladin) y ddynes a roes y lliain i'r Iesu yn ôl rhai ffynonellau. Gweler uchod.
14. Cynghanedd groes 'n' ganolgoll.
15. **dug** = dygodd.
- wyr Anna** sef Iago neu Ioan Efengylwr, dau fab Sebedeus a Mair, merch arall Anna, yn ôl traddodiad Crristnogol apocryffaidd. Yr oedd Anna hefyd yn fam i'r Forwyn Fair. Gweler Mth. 4:21-22; Mc. 1: 19-20; cerdd 7 uchod a'r nodiadau cysylltiol.
16. Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.
17. Cynghanedd groes 'n' ganolgoll.
19. **cyfiawndeb** eg. cyfiawnder. O 1527 y daw enghraifft gynharaf y gair yn GPC (t. 694), eithr dyma a geir yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau, gan gynnwys y rhai hynaf.
- Cynghanedd sain drosgl.
26. **Rhydd enaid** Efallai'r Pab Innocent III, ar achlysur agor Ysbyty Santo Spirito ym 1207, a ddechreuodd y traddodiad o gael rhyddhad o bechodau trwy syllu ar y fernagl. Gweler, er enghraifft, Wilson, I., *op. cit.*, tt. 44 – 6.

28. **fronig** cywasgiad o *feronig*. Gweler y nodyn ar gyfer llinell 10 uchod.
31. Cynghanedd groes 'n' ganolgoll. Ceir *ŵr pŵl* mewn sawl testun.
33. **Adda gaeth** Ceir amrywiaeth eang ar y llinell hon yn y llawysgrifau. Cynigir *Oni ddug ef Adda gaeth* yma, ond cynigir *ef a ddyg kig Addaf kaeth* yn Jones, T. Gwynn, *op. cit.*, t. 32 a Jones, G. Hartwell, *op. cit.*, t. 183, gan ddilyn enghreifftiau I, J, K, P, R a Y. Ynghylch *kig*, ychwanega Hartwell Jones droednodyn sy'n cyfeirio at ddefnydd y gair yn Buchedd Collen: 'A ffan oedd ef ar y ddaiar hon yn dwyn kic a chynawd, yr oedd yn gwnevthvr gwyrthief mawr o achos i ffydd' (gweler Parry-Williams, T. H., *Rhyddiaeth Gymraeg: Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd, 1954), t. 41).
- Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.
38. **ym mhob gweli** Ceir 'ei bum gweli' mewn rhyw hanner o'r llawysgrifau.
45. **gwewyr** = ffurf luosog *gwayw*. Ffigurol yw'r ystyr yma, yn amlwg.
52. Y mae'r enghreifftiau llawysgrifol yn amrywio rhywfaint, fel y gwelir. Fersiwn A a ddefnyddir ar gyfer y golygiad, a sawl enghraifft llawysgrifol arall yn cynnig rhywbeth debyg. Sylwer nad yw newid 'wybyr' y llawysgrif i 'wybr' y fersiwn golygedig yn amharu ar y gynghanedd: gweler y goddefiad yn CD, t. 148, §244.
- Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.
55. **pair** Dau ystyr sydd i'r gair, sef :-
- (i) crochan, ac yn *ffig*. am le o gosbedigaeth (hynny yw, *infernus*, 'uffern' yr eglwys Gatholig);
- (ii) Arglwydd, pennaeth; arglwyddiaeth, awdurdod.
- Ystyr cyntaf y gair a fwriedir yma, yn amlwg.
59. Cyfeiriad efallai at heresi Gnostigiaeth.

## 14

Cywydd yw hwn i ofyn march gan Rhys Fawr ap Maredudd ap Tudur ap Hywel,<sup>270</sup> Ysbyty Ifan, dros Huw Conwy Hen ap Robin ap Gruffudd Goch o Lys

<sup>270</sup> Gweler WG1, 'Marchweithian' 2; WG2, 'Marchweithian 2(A<sub>1</sub>) a 2(A<sub>4</sub>)'. Ni cheir cofnod ynghylch Rhys ap Maredudd yn ByCy, nac yn YBA ychwaith. 'Syr Rhys ap Meredydd, of Ysphyty, and Plas Iolyn' yn ôl Griffith, J. E., *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bridge Books, 1997), t. 44. Ar y llaw arall, ni ddefnyddir 'Syr' wrth gyfeirio at Rhys

Euryn, Llandrillo-yn-Rhos.<sup>271</sup> Plas Iolyn oedd cartref Rhys yn ôl PACF, t. 326 a HPF IV, t. 102, ond ‘*Trebrys, and probably Plas Iolyn*’ yn ôl T. A. Glenn,<sup>272</sup> Bryn Gwyn yn ôl HPF VI, t. 445 a Foelas yn ôl HPF III, t. 341. Ym 1450, yr oedd ei dad Maredudd yn stiward ar diroedd mynachlog Aberconwy ym mro Hiraethog, a hefyd ar diroedd Ysbytywyr Sant Ioan yn Ysbyty Ifan (Dôl Gynwal gynt).<sup>273</sup>

Ac yntau’n cefnogwr i Harri Tudur, aeth â’i ddynion i Faes Bosworth ym 1485. Yn ôl HPF III, t. 341, cymerodd Rhys faner Harri Tudur ar ôl i’r banerwr, Syr William Brandon, gael ei ladd, a cheir cofnod, meddir, mewn llawysgrif yn y Rhiwlas ym Mhenllyn, mai Rhys a laddodd Rhisiart III.<sup>274</sup> Ar y llaw arall, Rhys ap Thomas a’i laddodd yn ôl Guto’r Glyn (GGGI, tt. 263 – 4), ac yn wir, cafodd Rhys ap Thomas ei urddo’n farchog yn fuan wedi brwydr Bosworth (Shaw, Wm. A., *The Knights of England*, cyf.2, t. 23). Y mae cerflun Rhys a’i wraig Lowri, ferch ac aeres Hywel ap Gruffudd Goch, arglwydd Rhos, ar eu bedd yn eglwys Sant Ioan yn Ysbyty Ifan.<sup>275</sup>

Yr oedd Huw Conwy Hen yn wŷr i Ruffudd Goch, arglwydd Rhos a Rhufoniog, ac yn gefnder i Lowri, gwraig Rhys ap Maredudd.<sup>276</sup> Brwydrodd ar ochr Harri Tudur ar faes Bosworth, ac efallai’n dâl am ei gefnogaeth yno, daeth yn aelod o Siambr Gyfrin Harri VII.<sup>277</sup>

Dilyna’r bardd adeiledd cydnabyddedig y cywydd gofyn: annerch a moli’r darpar roddwr (ll. 1-22); cyflwyno’r cais ar ran yr ymgeisydd (ll. 23 – 28); disgrifio’r rhodd a’i dyfalu (ll. 29 – 52); diweddglo (ll. 53 – 64).<sup>278</sup>

Gwelir bod y cwpledi yn llinellau 33 – 34 a 43 – 44 yn digwydd, bron air am air, mewn cywydd gofyn gan Dudur Aled, i erchi march gan abad Aberconwy i Lewis

---

ap Maredudd yn Roberts, Enid, ‘Teulu Plas Iolyn’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 13 (1964), tt. 42 – 44. Ni restrir enw Rhys yn Shaw, Wm. A., *The Knights of England* (2 gyf., Sherratt and Hughes, London, 1906).

<sup>271</sup> Gweler WG1, ‘Marchudd’ 22, WG2, ‘Marchudd’ 22(B<sub>1</sub>).

<sup>272</sup> Glenn, T. A. (gol.), *The Family of Griffith of Garn and Plasnewydd in the County of Denbigh, as registered in the College Arms from the beginning of the XIth Century* (London: Harrison & Sons, 1934), t. 262; enw trefgordd ym mhlwyf Ysbyty Ifan yw Trebrys.

<sup>273</sup> Roberts, Enid, *art. cit.*, t. 41.

<sup>274</sup> GTP, t.107, y nodiadau ar gyfer cerdd 8; Roberts, Enid, ‘Teulu Plas Iolyn’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 13 (1964), t. 42; Griffiths, Ralph A., Thomas, Roger S., *The Making of the Tudor Dynasty* (Sutton Publishing, 2005), tt. 165 – 6, 185.

<sup>275</sup> Roberts, Enid, *art. cit.*, t. 43. Gweler hefyd GTA, 668 – 9.

<sup>276</sup> WG1, ‘Marchudd’ 22.

<sup>277</sup> Glenn, T. A., *op. cit.*, t. 208. Gweler hefyd GTA, 660; Tucker, Norman, ‘The Conways of Bryn Euryn and Pwllcrochan’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 15 (1966), t. 58.

<sup>278</sup> Gweler Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch, c. 1350 – c. 1630* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1998).

ap Madog (gw. GTA, CVI.53 – 54 a CVI.77 - 78 (t. 414)). Er y ceir enghreifftiau o linellau unigol mewn cywyddau gan wahanol feirdd sy'n debyg i'w gilydd, pur drawiadol yw'r cyd-ddigwyddiad hwn, os, yn wir, dyna ydyw. Mae'n bosibl bod rhyw fath o gymysgu wedi digwydd rhwng y ddau gywydd yn achos y cwpledi hyn: o ystyried mai cywyddau gofyn march ydynt, ill dau, ni fuasai hyn y tu hwnt i bob rheswm. Ar y llaw arall, yn ôl MCF, dim ond yn llawysgrifau LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwllch] a BL Add 14979 (ffynonellau H ac I) y digwydd y ddau gywydd gyda'i gilydd. Y mae I yn anghyflawn a heb y cwpledi dan sylw, a llawysgrif Tanybwllch yn gymharol ddiweddar.

Canodd Tudur Aled foliant i Rhys a Lowri, a marwnad i Rhys.<sup>279</sup> Ceir cywydd moliant i Rhys a Lowri gan Dudur Penllyn, a chywydd diolch i Lowri am iacháu afiechyd y bardd.<sup>280</sup> Canodd Gutun Owain i Huw Conwy, a Lewys Glyn Cothi i Huw Conwy a'i wraig Elsbeth.<sup>281</sup> Ceir hefyd gan Tudur Penllyn gywydd i blas Huw Conwy.<sup>282</sup>

3. **Dyhaeled** 3ydd person unigol modd gorchmynnol y ferf 'haelu' (gw. GPC, 1805), gyda'r arddodiad anghynhyrchiol *dy-* o'i blaen (gw. GyG, 640 – 42).
4. **a wnaeth golli henw Nudd** o'r naw enghraifft, dyma a geir yn saith ohonynt, a'r ddwy arall yn cynnig 'a wnaeth colli enw Nudd'. Er mai cadw'r cysefin (y goddrych a'r gwrthrych) ar ôl 'gwnaeth' oedd arfer y canoloesau, ceir esiamplau lle cedwid y treigladd (gw. TC, tt. 221 – 2). Y mae'r amrywiad 'henw' ar 'enw' yn hen arfer: gweler TC, t. 464 a WG, tt. 187 – 8.  
**Nudd** un o dri hael Ynys Prydain. Gweler TYP<sup>3</sup>, tt. 5 – 7.
5. **main** Ystyr ffigurol sydd y gair sydd yma, sef 'pendefigaeth'. O ystyried llinell 3, y llinell hon a'r nesaf, ymddengys mai Rhys a'i gyndeidiau yw'r *main*, sef conglfeini'r gymdeithas leol.
6. **Tudur a Howel** cyfeiriad at ach Rhys, sef ei daid a'i hendaidd ar ochr ei dad.
7. **cost** Yr ystyr ffigurol, sef 'darparwr', a fwriedir yma. Gweler GPC, t. 569, o dan cost<sup>1</sup>. Oherwydd y cymorth a roesai iddo ar ei daith i faes

---

<sup>279</sup> GTA, tt. 231 – 33, 294 – 7.

<sup>280</sup> GTP, tt. 14 – 5, 107 – 8, 22 – 3 a 113.

<sup>281</sup> OPGO, tt. 250 – 5 (cerdd XLVII); BU, tt. 33 – 34, 100 – 101; GLGC, tt. 480 – 1, 627.

<sup>282</sup> GTP, tt. 25 – 7, 114 – 5.



Bosworth, ac yn y frwydr ei hun, rhoes Harri VII diroedd helaeth i Rhys ap Maredudd, fel y tystia dogfennau ymhlith casgliad Cernioge yn y Llyfrgell Genedlaethol (gwel. Roberts, Enid, *art. cit.*, t. 43). Dyma fwrddwn y llinell hon a'r nesaf.

8. **ei air** ei glod, sef clod y brenin Harri VII.
18. **tŷ trwm** tŷ swmpus.
28. **Iwrch** Math o garw bychan bywiog (*Capreolus capreolus*), ond ystyr ffigurol a fwriedir yma, sef march bywiog a fedr neidio'n ddiraffferth, fel y tystia gweddill y llinell.
- nid eiriach y mur** Sef 'nid yw ef yn osgoi'r mur'
32. **Sianwn** Dyma a geir ym mhob copi ac eithrio B a H (ni cheir y llinell hon yn I). Ni chafwyd hyd i'r gair hwn, ond efallai mai ffurf ar 'sianawn' a fwriedir yma. Ceir 'sianawn' yn GLGC, 9.35 a 93.18, a'r ystyr 'canon' iddo (gweler GLGC, 9.35n ar d. 521), a dyma esbonio 'sianon' copi B (gweler GPC, t. 3261). Ymddengys mai dyfalu Huw yn marchogaeth i Lundain (y 'dinas' yn y llinell flaenorol), wedi'i wisgo yn lifrai glas ei swydd sy'n cytuno â lliw'r march, y mae'r bardd yn y cwpled hwn.
36. **eurfodd** euraid. Gweler GPC, 1259.
42. **y crythor o Lŷn** Ceir yr enw hwn mewn rhestr gan Gutun Owain o wŷr wrth gerdd. Gweler Huws, Daniel, 'Rhestr Gutun Owain o wŷr wrth gerdd', *Duned* 10 (2004), 79 – 88, ac yn enwedig 84.
52. **hacnai o'r fâl** ceffyl marchogaeth o waelod gwlad (yn hytrach nag un o'r mynydd).

## 15

Cywydd sydd yn moli merch ddiennw trwy ei disgrifio'n fanwl yw hwn. Y mae'r bardd yn dilyn confensiwn y genre wrth ganmol ei phrydliw, ei hosgo a'r gwahanol rannau o'i chorff, er bod trefn y rhannau yn wahanol i'r arfer o ddechrau gyda'r pen a symud i lawr.<sup>283</sup> Gwasanaetha llinellau 1 – 10 fel cyflwyniad i wrthrych y gerdd, ac yna (ll. 11 – 22) y mae'r bardd yn canmol ei hystlysau, ei chanol, ei bronnau, ei hysgwyddau, ei dwylo, ei mwnwgl a'i llygaid. Delweddu gwallt euraid y ferch, a'i

---

<sup>283</sup> Gweler, er enghraifft, Johnston, D., *Llên yr Uchelwyr* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2005), t. 331; Rowlands, E. I., 'Canu Serch 1450 – 1525', B xxxi (1984), 42 – 43. Y mae Eurys Rowlands yn dyfynnu llinellau 11 – 18 o'r cywydd dan sylw ar dudalen 43.

chroen gwyn yn gefndir iddo y mae'r bardd yng ngweddill y gerdd (ll. 23 – 42). Nid oes sôn yn y gerdd am na phangau serch, nac am rwystrau serch, nac am serch nas cydnabyddir ychwaith. Yn hytrach, disgrifiad parchus, gwrthrychol sy'n ymylu ar addoli Santes a geir yma (gweler ll. 35 – 6 er enghraifft).

Yr oedd y math hwn o ganu esthetaidd yn boblogaidd yn ail hanner y bymthegfed ganrif, ond fe geir cerddi gan Gruffudd Gryg,<sup>284</sup> Iolo Goch<sup>285</sup> a Sypyn Cyfeiliog<sup>286</sup> sy'n dangos bod gwreiddiau'r genre yn mynd yn ôl at y cywyddwyr cynnar o leiaf.<sup>287</sup> Dylid sylwi, fodd bynnag, mai dim ond cywydd Gruffudd Gryg sy'n agos at wrthrychedd y gerdd hon. Dychanwyd y confensiwn llednais a welir yn y rhieingerddi hyn gan Werful Mechain.<sup>288</sup>

1. Y mae'r tair llawysgrif hynaf a J 139 yn cynnig yr hyn sydd yn gyfwerth ag *Y ddyn fwyn a ddaw'n fynych* (mewn orgraff ddiwygiedig); *Y fun a ddaw yn fynych* sydd gan weddill y llawysgrifau. Penderfynwyd y dylid dilyn y llawysgrifau hynaf yn y fersiwn golygedig, gan fod y gynghanedd yn gryfach (cynghanedd groes yn lle cynghanedd draws) yn y llinell '*Y ddyn fwyn a ddaw'n fynych*'.

2. Y mae'r llawysgrifau yn cynnig fel a ganlyn:-

*A'i moddawl gorff meddwl gwych* (Pen 76)

*Moddawl gorff a'i meddwl gwych* (y llawysgrifau eraill ac eithrio Pen 159)

*I'm meddwl gorff moddawl gwych* (Pen 159)

Yn y fersiwn cyntaf a'r trydydd, y mae'r *meddwl* yn perthyn i'r bardd, ond y ferch dan sylw yn y gerdd biau'r *meddwl* yn yr ail fersiwn. O ystyried mai at briodoleddau corfforol y ferch y cyfeiria'r bardd yng ngweddill y cywydd hwn, credir mai'r fersiwn cyntaf sydd yn fwyaf addas yma.

4. **pen wallt aur** Yr oedd gwallt euraidd yn un o ddelweddau rhieingerddi'r cywyddwyr. Gweler er enghraifft PWDN, cerddi XXIX, XXXI, XXXII, XXXIII; GDE cerddi XIV, XVI, XIX, XXI, XXII, XXIII.

---

<sup>284</sup> GGG, tt. 7, 79 – 82, 175 – 179.

<sup>285</sup> GIG, tt. 101 – 104, 318 – 327, ac yn enwedig tt. 318 – 19.

<sup>286</sup> GDBMW, tt. 23 – 5, 52 – 4.

<sup>287</sup> Ynghylch y cerddi gan y beirdd hyn, gweler hefyd Johnston, D., Llên yr Uchelwyr, tt. 152 – 6.

<sup>288</sup> GGME, tt. 103 – 5, 154 – 8.

5. **delw wen** Delwedd stoc arall gan y cywyddwyr. Yr oedd yr awydd am bethau gwyn yn ymestyn i bethau eraill megis siwgr a bara. Gweler, er enghraifft, y cyfeiriadau yn y nodiadau ar gyfer llinell 4 uchod. Ynghylch siwgr gwyn, gweler, er enghraifft, GLGC, 157.24.
10. **cwpled** gradd gyfartal yr ansoddair 'cwbl' (sef 'cyflawn', 'perffaith', gweler GPC, t. 634) sydd yma, mae'n debyg. Posibiliad arall yw mai 'pâr' yw'r ystyr (gweler GPC, t. 646), ond gair mwy diweddar yw'r enw 'cwpled'.
11. **ddestlus** dim ond yn copi A y ceir y treigladd meddal, ond yn amlwg dyna sy'n iawn (gweler TC, t. 55). Heb y treigladd buasai'r gynghanedd yn un groes, ond o dreiglo, cynghanedd lusg a geir.
13. **dan bren a brig** trosiad am yr wyneb a'r gwallt.
17. **Sieb** sef *Cheap* yn Llundain, ardal enwog am siopau ac adeiladau yn yr Oesoedd Canol (gweler, er enghraifft, GTP, 16.22 a t. 115). Gair â tharddiad Saesneg canoloesol yw *Cheap*, yn golygu 'marchnad'.
40. **lieiniau lawnt** *S. fine linen*. Gweler GPC, t. 2173; PWDN, XXXI.4.

## 16

Yn llawysgrif LIGC 1559B, sef un o lawysgrifau Wiliam Bodwrda o ganol yr ail ganrif ar bymtheg, y ceir yr unig gopi o'r cywydd hwn. Cerdd ydyw i'r Drindod, ac i bedair merch y Drindod, sef Cyfiawnder, Gwirionedd, Trugaredd a Heddwch. Tarddiad beiblaidd y pedair merch yw Salm 85:10 – 13. Dyma fersiwn Y Beibl Cysegr-Lân:-

10 Trugaredd a gwirionedd a ymgysuriant; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant. 11 Gwirionedd a dardda o'r ddaear; a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd. 12 Yr Arglwydd hefyd a rydd ddaioni; a'n daear a rydd ei chnwd. 13 Cyfiawnder a â o'i flaen ef; ac a esyd ei draed ef ar y ffordd.

Gweler hefyd Diar. 3.3, 16.6, 21, 21.

Cyflwyno athrawiaeth y Drindod a wna'r bardd yn llinellau 1 – 20, ac wedyn disgrifio'r ail a'r trydydd person yn llinellau 21 – 36, a llinellau 33 – 36 megis diwedd gweddi. Yn llinellau 37 – 44 fe'n hatgoffir am y pechod gwreiddiol a'r canlyniadau. Trawiadol yw'r darlun a bortreadir yn llinellau 43 – 44: y nef wag, y

llid yn dilyn y trosedd a'r dyhead am gymod. Cyflwyno pedair merch y Drindod y mae'r bardd yn llinellau 45 – 58, ac yna yn llinellau 59 – 68 fe geir y merched yn dadlau'r achos, Trugaredd a Heddwch o blaid ein rhyddhau, a Gwirionedd a Chyfiawnder yn ei erbyn, a'r ddwy garfan yn bwriadu bod yn wahanol eu barn. Eithr y mae'r Tad yn ymboeni am hyn yn llinellau 69 – 80, ac yn mynnu iddynt gytuno. Gofynnir i Drugaredd chwilio am ddyn dibechod (ll. 81 – 86), ond methu y mae hi (ll. 87 – 90), ac o ganlyniad y mae'r Tad yn gofyn i'w fab ei hun fod yn offrwm dros bechod (ll. 91 – 98). Yn llinellau 99 – 102 fe geir yr aberth ar y groes, a'r diweddglu yn llinellau 103 – 110 yn fawl i Grist.

Canodd Dafydd ab Edmwnd i'r pedair merch (ynghyd â' pum llawenydd Mair a phum pryder Mair a saith goruchafiaeth Mair).<sup>289</sup> Ceir cywydd i'r pedair merch a argraffwyd yn Roberts, T. R. (gol.), *Barddoniaeth Edmwnd Prys* (Caernarfon, 1899), tudalen 99. Ceir dau englyn yn y llawysgrifau sydd yn ddienw yn ôl MCF, ond a argraffwyd ac a briodolwyd yn *Y Frythones* i 'Rhisiart, Esgob Tyddewi, a flodeuodd yn yr unfed ganrif ar bymtheg',<sup>290</sup> fel a ganlyn:-

*Pedair merch iawnair yn mharch wiwnod – hoen  
A henwir i'r Drindod;  
Y rheini yw'r rhianod,  
Da oedd i'r bydoedd eu bod.*

*Cyfiawnder air per er puraw, - gwir enw  
Gwirionedd yn treiauw;  
Trugaredd yw'r drydedd draw,  
A heddwch yn ddihuddaw.*

Ceir carol a briodolir i naill ai Guto'r Glyn neu i fardd dienw.<sup>291</sup> Ceir cân yng nghasgliad y Gronfa Baledi (gweler rhifau 175 a 527), ac un arall gan Rhys Thomas, Yswain o Gaernarfon yn Jones, David (o Drefriw) (gol.), *Blodeugerdd Cymry: sef casgliad o caniadau Cymreig, gan amryw awdwyr o'r oes ddiwaethaf. ....* (Amwythig, 1779), tt. 357 – 60.

4. *th – d* yn ymateb i *th – dd* (afreolaidd).
5. **portread** O ystyried y cyd-destun, dichon mai ystyr diwinyddol y gair, sef 'teip', a fwriedir yma.

<sup>289</sup> GDE, LXII (tt. 121 – 24), ac yn enwedig LXII.15 – 24 (t. 122).

<sup>290</sup> Dienw, 'Gofyniadau ac Atebion', *Y Frythones*, Cyf. **XIII** [XII] rhif 8, Awst 1889, t. 258.

<sup>291</sup> Chwilier yn MCF, gyda "I bedair merch y Drindod" fel teitl. Ymddengys nad yw'r carol hon ar gael ar wefan Guto'r Glyn.

- 7, 8. Llinellau wyth sill.
9. Cynghanedd sain drosgl.
10. Cynghanedd draws gytbwys ddiacen.
14. Cynghanedd groes ‘n’ wreiddgoll.
15. Cynghanedd groes o gyswllt ‘n’ wreiddgoll.
17. Credir y gallai'r gair ‘trwy’ yn y llawysgrif fod yn gamgymeriad.  
Cynghanedd draws ‘n’ wreiddgoll.
23. **ail person** ni threiglid enw gwrywaidd ar ôl ‘ail’ yn wreiddiol; gweler TC, tt. 40 – 41.
24. **lle** = lle + y. Gweler GPC, 2143.
29. **Drindod draw** ‘trindod traw’ a geir yn y llawysgrif , ond ymddengys mai cyflwr cyfarchol y gair ‘Trindod’ sydd yma.
35. Cynghanedd groes ‘r’ berfeddgoll.
41. Twyll gynghanedd, a'r ‘d’ ar ddechrau'r llinell heb ei hateb yn yr ail ran.
45. **pedair merch** Pedair merch y Drindod. Gweler Salm 85, 10.
48. **odiaith** ‘odiaeth’ a fwriedir yma, mae'n debyg.
56. **trasiaw** dyma a geir yn y llawysgrif, ond ansicr yw'r ystyr.
75. **myntumio** = maentumio.
81. Atebir ‘od’ yn ‘Drindod’ ag ‘odl’ yn ‘fodlawn’.
82. Cynghanedd draws gytbwys ddiacen bengoll. Gwaharddwyd ym 1451 (gw. CD, 186 - 7). Gallai'r llinell fod yn lwgr. Posibiliad arall yw fod y cyfansoddi yn gynharach na 1451.
90. **dan dw'** = dan dwf. Gweler WG, 179.
91. Llinell chwe sill, onid ystyrir ‘galw’ yn air dwysill.
92. **by**<py = pa (ansoddeiriol). Gweler e.e. WG, 289 - 90.
93. **ysbot** 1574 yw'r enghraifft gynharaf yn GPC (t. 3194).
109. **droganon** = daroganon. Gweler GPC, t. 1086.
110. **Arlwydd** = Arglwydd.

## Geirfa

**adail haf** eg.b. deildy. 12a.12, 12a.12n

**adwaenynt** = adwaenent. 10.50

**aed** 3ydd prs. un. modd gorch. y ferf 'mynd'. 12a.67, 12β.17, 12β.69

**aen** = aent. 10.15

**Afal Awst** afal anhysbys. 12a.10, 12a.10n

**afanc** eg. llostlydan (S. *beaver*). 11.40

**ais**, eb. bron, mynwes, calon. 10.19

**Amhredydd** = ap Meredydd. 14.3

**amofynno** = 3ydd prs. un. modd dib. y ferf amofyn bg.a. gofyn, holi, chwilio am, ceisio. 11.4

**annwyd** eb. ll. anwydau. 1. anian, natur. 2. nwyd, teimlad, serch. 12a.27

**ar lwff** = ar ochr y gwynt. 10.23, 10.23n

**Arlwydd** = Arglwydd. 16.110, 16.110n

**ar oddau** = yn bwriadu. 14.24

**asbri** egb drygioni, ysgelerder, malais. 16.6

**asur** eg. a hefyd fel a. lliw glas. 14.27

**athrist** a. trist iawn, galarus, pruddglwyfus. 16.96

**ban** = pennaeth? lle? lle sy'n gweddu'r gorau. 10.13

**ban** eg.b. uchelfan, yn ffigurol am bennaeth. 14.11

**banadl** e.ll. (un.b. banhadlen) llwyn ag iddo ganghennau unionsyth gwyrddion yn dwyn dail bychain a blodau melynion. yn *ffig.* am wallt melyn merch. 15.38

**berw** eg. bwrlwm; cyffro. 12β.5

**boneddigryw** a. bonheddig, o dras uchel, moesgar, llednais. 12a.7, 12β.7

**braisg** a. cryf, nerthol, grymus. 14.1

**bratiau** e.ll. (un. g. brat) carpiâu, dillad tlodaidd. 11.58

**browys** a. 1. (a) bywiog, egnïol, ysbrydol; (b) disglair, gwyach, teg. 2. dychrynedig, syn (trwy ei gangysylltu â braw). 14.57

**bygyly** = bygwth, 10.32

**cadw ar** = amddiffyn yn erbyn, dal yn erbyn. 10.27, 10.27n

**cafell**, eb. cysegr. 16.11

**camwedd** eg.b. drygioni, bai, pechod, trosedd, drwgweithred. 16.44

**cares** eb. (a) gwraig neu ferch sy'n berthynas o waed, cyfnither, chwaer (b) cyfeilles, cariadferch. 14.59

**cefndedyn** eg. perfedden, rhan o lieingig y bol sy'n cynnal y coluddion wrth bared y gorff; llengig. 12a.58

**cegid** eb. cnocell y coed, sgrech y coed, pioden y coed. 14.38

**cenau** eg. ll. cynafon = mab, disgynnydd, milwr ieuanc. 10.6

**cennad** eb.g. negesydd, llysgennad, cynrychiolydd. 14.26

**cern** eb. cenedl, pobl. 16.39

**clap** eg.b. teclyn i glapio (yn enwedig teclyn mewn melin flawd sy'n taro'r hopran ac yn peri iddi ysgwyd yn ôl a blaen). 12a.49, 12a.49n, 12β.51

**cleiriach** eg. a hefyd fel a. henwr, henwr musgrell. 11.30

**cloed** = 3 prs. unigol modd gorchmynol y ferf cloi. 10.22

**clog** eg.b. mantell, hugan; yn *ffig*. gorchudd. 12a.53, 12a.53n, 14.32

**cnwc** eg. cnoc, ergyd, llach. 11.60

**cnyw** eg. anifail ieuanc. 14.52

**coetai** e.ll. (un. g. coety). Trigfan mewn coedwig, deildy. 16.70

**cof** eg. meddwl, bryd; anwylyd (sef un y rhoddir bryd arno). 12a.29

**cog** eg. cogydd. 14.13

**consurio** bg.a. swyno, dewinio, swyngyfareddu; rheibio; galw allan gythreuliaid, galw ysbrydion. 11.39

**coriar** eb. petrisen; cyffyllog. 12a.50

**cos iâr** = iâr y cos, sef iâr chweinllyd. 12β.52

**cost** eb.g. darparwr. 14.7, 14.7n

**crechwen** eb. chwerthin uchel neu groch, bloedd o chwerthin, chwarddiad gwawdlyd. 12a.61

**cripio** ba. crafu, ysgraffinio. 11.31

**crochan** eg. llestr pridd neu fetel crwn ei ffurf. 12a.61

**croglath** eb. magl, hoenyn, gwialen a grogid yn y fagl i'r aderyn ddisgyn arni.  
12a.60

**crogwydd** eg.b. croesbren, crocbren, sibed. 12a.64

**crwper** eg. pen ôl, bontin, gwaelod. 11.31

**cryg** a. a hefyd fel eg. cras, croch, garw ei lais. 12β.66

**crygedd** eg. crygni; garwedd. 12a.64

**cryglais** = cryg + llais. 12a.60

**cwpled** gradd gyfartal yr ansoddair 'cwbl' (sef 'cyflawn', 'perffaith'). 15.10, 15.10n

**cwrs** eg. ffawd; tro, gyrfa, ffordd o fyw. 10.1

**cwthr** eg. tin; coluddyn y din, twll tin; croth. 12a.52

**cydwedd** a. o'r un math neu ansawdd; hafal, cyffelyb. 12a.67

**cyfiawndeb** eg. cyfiawnder. 13.19, 13.19n

**cyff** eg. tylwyth neu wehelyth; tras, llinach, hynafiaid person. 16.60

**cymeren'**, sef 3ydd prs.ll. amser amh. y ferf 'cymryd'. 10.3

**cymod** eg. adferiad heddwch rhwng Duw a dyn. 16.44

**cywyddol** eg. prydydd, bardd. 14.25

**daed** = gradd gyfartal da, cystal. 14.6

**dail** e.tf. (un. b. deilen) arfwisg. 10.19, 10.19n

**dâr** eb. derwen, yn *ffig*. blaenor mewn brwydr. Gw. GPC, 890. 10.36

**deau law** deheulaw, llaw ddeau. 15.6

**deddyw** hen ffurf 3ydd prs. un amser perff y ferf deuaf, dyfod (= daeth). 12a.13,  
12a.13n

**deil** = 3ydd prs. un. modd myn. ams. pres. y ferf dal. 11.2

**dêl** = 3ydd prs. un. modd dib. y ferf dod. 11.2, 11.2n

**dera** eb. Satan, y fall; diawl, cythraul, ysbryd drwg. 11.28

**destlus** a. dilyn, hardd, tlws. 15.11

**difael** a. di-fudd, anfuiddiol, heb dycio. 16.89

**digaro** 3ydd prs. un. amser pres. modd myn. 'digaru' ba. gwrthod; diystyru,  
dirmygu. 13.62



**dihawddamawr** (dihawddamor) eg.b. (y rhai) heb lwc dda, anlwc. 12a.37

**dihirog** eb.g. dihiryn. 12a.65

**dillyn** a. a hefyd fel eg. hardd, gwych, diwair; fel e. anwylddyn, un a edmygir. 14.58

**di-wair** = diwair a. pur, glân, dihalog, ond gyda'r acen ar ail sillaf y gair. 12a.8, 12a.8n, 12β.8

**doed** = 3ydd prs. un. modd gorch. y ferf dod. 11.1

**dôi** 3ydd prs. un. amser amh. y ferf dyfod, dod. 11.15, 16.

**dôl** eb. dolen, cylch. 15.32

**drel** eg (bach. drelyn) taeog, dihiryn, llabwst. 11.59

**droganon** = daroganon. 16.109, 16.109n

**dwy-awr** = dwy + gawr. Dwy floedd. 12a.34, 12a.34n

**dyhaeled** 3ydd person unigol modd gorchmynnol y ferf 'haelu', gyda'r arddodiad anghynhyrchiol dy- o'i blaen. 14.3, 14.3n

**dyrg** fenthyciad o'r S. *dirge* (o'r Lladin *dirige*)? Y mae'r enghreifftiau hynaf a geir yn yr OED yn gyson â dyddiad tebygol y cywydd.

**dyry** = rhydd, rhy. 14.2

**dyrydyn** = deirydyn. bg. perthyn i, dal perthynas â. 14.41

**eiddiorwg** eg. eiddew, iorwg. 12a.62, 12β.64

**eigr** eb. merch brydweddol, meinwen. 12a.7.

**eiliw** a. tebyg, cyfliw. 15.19

**eilun** eg.b. delw, cyffelybrwydd, ffurf; arwyddlun, symbol. 12a.67

**eiriach** ba. ymatal rhag, osgoi. 14.28, 14.28n

**ennyn** a. disglair. 16.70

**entriad** eg. mynediad i mewn; cychwyniad. 10.42

**eurfodd** a. euraid. 14.36, 14.36n

**ewingethr** = ewin + cethr eb. picell, saeth, gwaywffon. Cyfeiriad at grafangau'r dylluan. 12a.52

**ewyn** eg. yn *ffig*. i ddynodi gwynder, purdeb, breuder. 15.25, 15.31

**fenus pacs** O'r Lladin *venus pacis*, sef Fenws heddwch. 12a.9, 12a.9n

**fernagl** eb. llun wyneb Crist a arhosodd ar y lliain a roes y Santes Berenice (Veronica) iddo i sychu'r chwys oddi ar ei wyneb ar y ffordd i Galfaria. 13.2, 13.2n

**feronig (f'ronig)** eb. enw arall ar y fernagl, o 'Veronica'. 13.10, 13.10n, 13.28, 13.28n

**fflwch** a. hael, haelionus. 16.66

**fry** adf. uchod, yn uchel. 14.1

**gadau** = gadu = caniatáu. 15.40

**gar** eb.g. coes, ber, morddwyd, clun, y rhan uchaf o goes ôl anifail. 11.29

**garan** eb.g. aderyn hirgoes, uchel ei gri o dylwyth y *Cruidae*. 12a.47, 12a.47n

**gerwin** a. garw, llym, creulon, caled. 12a.55

**glain** eg. gem, perl, maen gwerthfawr. 15.21

**goddau** eg. amcan, bwriad, arfaeth, perwyl, nod. Gw. GPC, t. 1425. 14.24

**gogyfuwch** a. cyfartal o ran uchder. 16.12

**gold** eg. ac e. tf. aur; lliw melyn euraid; enw ar flodau gwyllt o dylwyth y *Calendula* (*S. marigold*). 15.28

**golwg** eg.b. ymddangosiad, gwedd, edrychiad. 15.3

**gosawg**, gosog eg. gwalch mawr byr ei adenydd ond nerthol ei hediad; yn *ffig*. campwr gwyh, milwr dewr, gŵr bonheddig urddasol (*S. goshawk*). 11.17

**gosgedd** eb.g. gwedd, pryd; ffurf, agwedd. 16.107

**gown** [bnth. *S. gown*] eg.b. gŵn, mantell; gwisg, ffrog. 11.25

**gradd** eb.g. urddas, teilyngdod, haeddiant. 15.19

**greg** = rhegen yr yd. 12β.48

**growndwal** eg. sylfaen, sail. 13.61

**grudd** eb.g. boch. 15.19

**gwander** eg. gwendid, llesgedd, eiddilwch. 13.11

**gwart** eg.b. cwrt mewnol y gaer. 10.59.

**gwawn** eg. Gweoedd gwynion ysgeifn o waith y pryf copyn. 15.16

**gwedd** eb.g. ffurf, llun. 15.35

**gwefr** eg.b. ambr (am wallt melyn). 15.31

**gweiniaid** e. ll. dyn claf neu fethedig; un tlawd ac anghenus neu isel ei fyd. 14.21

**gweled** eg. ymddangosiad. 10.46

**gweled ym** = ymddangosai imi. 10.45, 10.45n

**gwenfun** eb. Merch hardd, meinir, gwenddyn. 15.9

**gwewyr** = ffurf luosog 'gwayw'. 13.45, 13.45n

**gwibiad** eg. un ar ddisperod, crwydryn. Gweler GPC, t. 1655. 13.52

**gwiddon** eg. ll. (un. gwiddonyn) amrywiol fathau o bryfetach dinistriol. 12a.60

**gwilliaid** (gwylliaid) e.ll. (un. g. gwilliad, gwylliad) herwr, ysbeiliwr, lleidr. 12a.53, 12a.53n

**gwrab** eg. epa gwryw. 12a.45

**gwrdd** a. (ll. gyrddion) dewr, eofn; cryf, cadarn, cryf ei dyfiant; gwyach, hardd. 12β.21

**gwarengyn** eg. dyn o isel radd, bilain, taeog, gŵr sarrug, cnaf. 11.46

**gwryd** eg. gwyrth. 15.33

**gwyal** = gwaiail, sef gwaywffyn. GPC, t. 1653. 10.42

**gŵydd** eg. presenoldeb. 10.41

**gŵydd** e.tf. ac e.ll. (un. b. gwydden) pren(nau), coed(en), cangau, brigau. 12β.21

**gŵyl**, a. mwyn, tirion, addfwyn. 15.19

**gwyll** a. tywyll, trymlyd, du, llawn cysgodion. 12a.61

**gwythi** e.ll. (un. b. gŵyth) gwythienni. 14.45

**gylfingorn** = gylfin + corn eg. erfyn o gorn a ddefnyddid i ddisbaddu anifeiliaid. 12a.55

**gyrfa** eb.g. gyr, praidd. 14.36

**gyrru bw** brawychu, dychrynu. 12a.45, 12β.47, 12a.45n

**hacnai** eg. march o faintioli canolig a ddefnyddid i'w farchogaeth, ceffyl marchogaeth. 14.52, 14.52n

**haelwawr** eg.b. arglwyddes hael, rhiaid hael. 15.37

**hap** eb.g. damwain, siawns, lwc, ffortun; digwyddiad. 11.18, 16.48

**hawddamawr** = hawddamor eg.b. a hefyd ebd. ffawd neu lwc dda; henffych well; yn iach! 12a.37, 12β.39

**heusor** eg. bugail, gwyliwr anifeiliaid. 11.38

**hwde** bg.a. ac fel eg. Dyma iti! cymer (hwn)!; llawnder, digonedd. 14.63

**hws** eg. brethyn neu garthen a roir ar gefn ceffyl. 14.34

**irfodd** = ir + modd. 14.36

**iwrch** eg. math o garw bychan bywiog (Llad. *Capreolus capreolus*); hefyd yn *ffig*. 14.28, 14.28n

**lwfer** eg.b. twred bwaog agored ar do neuadd yn yr Oesoedd Canol a wasanaethai fel dihangfa i fwg ac fel lle i oleuni ddod i mewn. 11.36

**llariaidd, llariaidd** a. mwyn, gwâr, addfwyn, caredig, hynaws. 12a.5.

**llieiniau lawnt** *S. fine linen*. 15.40, 15.40n

**lle** = lle y. 12.12, 12.12n

**llethr** eg. llythyr, a'r ystyr yn ffigurol (sef 'neges'). 12a.51, 12a.51n

**lliwiant** eg. edliwiad, gwarthrudd, cerydd. 12a.36, 12β.38

**llonaid** eg. cymaint ag a ddeil rhywbeth, cynhwysiad, mesur llawn, llawnder. 14.22

**llwdn** eg. anifail ieuanc (e.e. llo, oen, elain), epil, anifail. 14.34.

**llygion** e.ll. (un. gwr. lleyg, llyg) y rhai nad ydynt yn glerigwyr, pobl leyg. 10.26, 10.26n

**llygodgoed** = llygod y coed. 12a.44

**maen beril** (beryl) maen gwerthfawr tryloyw, gan amlaf o liw goleuwyrdd. 11.7

**main** e.ll. (un. g. maen) ystyr ffigurol yn dynodi pendefigaeth. 14.5, 14.5n

**meinwch** a. main a gwych, tenau a hardd. 15.12

**mès** eg. saig. 14.13

**minws** eg. gwefus fach, genau bach. 12a.9, 12β.9

**moddawl, moddol** a. gweddus; lluniaidd, teg. 15.2

**mudo** bg.a. (peri) symud o'r naill le i'r llall. 14.49

**mwnwgl** eg. gwddf. 15.15, 15.20

**myntumio** = maentumio. 16.75, 16.75n

**naint** e.ll., nant eb. cwm, dyffryn; ceunant. 12a.50

**nedd** e.ll. (un. b. -en) wyau llau neu bryfed parasitaidd eraill ar ddyn, anifail; y pryfed eu hunain cyn iddynt ddod i'w llawn dwf. 11.33

**Nith i'r haul** = y lleuad. 12a.23; 12β.25

**niwed** eg. drwg, afles, anaf, gallu i niweidio, cam, drygioni. 12a.30

**ofydd** eg. bardd, ac yn enwedig bardd serch (enw'r bardd Lladin Ofydd, sef Publius Ovidius Naso). 12β.22

**osai** eg. gwin gwyn melys; seidr; hefyd yn ffigurol. 10.52, 14.16

**pacs** eg. cusan, cusan heddwch. 12a.9, 12a.9n, 12β.9

**pair** eg. crochan, ac yn *ffig.* am le o gosbedigaeth (hynny yw, *infernus*, 'uffern' yr eglwys Gatholig). 13.55, 13.55n

**pân** eg. ffwr, ermin, manflew. 11.25

**pand** = ponid, geiryn gofynnol negyddol. Onid oedd y gwŷr yn dda? 10.10

**parti** eg. mintai. 15.39

**pasiwn** eg. hanes Crist, o'i farchogaeth i mewn i Gaersalem ar gefn asen hyd ei ddioddefaint a'i farwolaeth ar y groes; angerdd, nwyd. 13.4

**pawns** eg. bol (mawr). 11.53

**peg, pec** eg. mesur sych amrywiol ei faint, llestr yn dal y cyfryw fesur; hefyd yn *ffig.* 11.53, 11.53n

**pelydr** eg. llysiâu'r pared. 12a.20

**pêr** a. hyfryd, dymunol. 16.5

**perai** eg. diod debyg i seidr, a wneir o sudd gellyg. 10.53, 10.53n

**peris** = parodd. 13.27

**pis** 3ydd prs. un. amser pres. modd myn. 'piso' bg.a. troethi, gwlychu gyda throeth. 11.38

**praw** = prawf. 14.57

**pren a brig** trosiad am yr wyneb a'r gwallt. 15.13, 15.13n

**prid** a. wedi'i brynu'n ddrud, yn golygu aberth. 16.98

**purffawd** eb.g. (a hefyd gyda grym ansoddeiriol) ffawd bur, bendith, llwyddiant. 16.36

**pyst** e.ll. (post eg.) ystyr trosiadol a olygir yma, sef pileri. 10.48

**rhawn** eg. cynffon. rhawnfyr = rhawn + byr. 12a.59

**rhianedd** ell. (un. b. rhiain) merched ifainc; boneddigesau. 12a.3.

**rhoad** eg. rhu, y weithred o ruo, gweryriad, chwyrniad, griddfan, llef. 12a.41

**rhugl** groen eb. cwdyn o groen neu bledren yn cynnwys pys neu gerrig mân a ddefnyddir fel ratl, clap adar. 12a.42

**rhus** eg. rhwystr, atalfa, ataliaeth, llyffethair; anghefnogaeth. 12a.30

**rofun** = arofun eg. cyrch; cais, bwriad, amcan. 16.68

**sad** a. cadarn, sefydlog. 10.57

**saig** eb.g. dysglaid o fwyd, dysgl, cwrs mewn pryd bwyd, gwledd. 14.12-14.14, 14.16

**Satan** eg. y Diafol, y fall. 11.26

**sawden** eg. pennaeth, arglwydd. 10.36

**selais** = syllais (ar). 10.11

**setel** = setl eb. mainc hir ac iddi freichiau a chefn uchel; eisteddle. 11.26

**sew** eg. cawl, potes, stiw. 14.14

**siamled** eg.b. camlad (defnydd drudfawr), hefyd yn ffigurol. 14.34

**sianwn** ffurf ar 'sianawn', efallai. 14.32, 14.32n

**siêb** eg. marchnad (o'r S. cheap). 15.17

**sucanwr** eg. diotwr, llymeitiwr, meddwyn. 11.50

**tâl** eg. talcen, pen, hefyd yn *ffig*. 15.25, 15.32

**tarfu** bg.a. cynhyrfu, anesmwytho; gyrru ar ffo. 12a.33

**teid** [bnth. S. *tide*] eg. llanw. 11.1

**tid** eb. cadwyn, tsiaen, rhaff. 14.37

**tongraig** = ton + craig. 12a.41

**torch** eb., ll. tyrch. cadwyn, modrwy, llyweth. 11.10, 15.27, 15.42

**treio** be. ceisio, rhoddi ar brawf. 16.2

**tristlam** = trist + llam eg.b. tynged, ffawd, damwain, siawns. 12a.37 , 12β.39

**trofus** = trofaus a. anunion, drygionus, gwrthnysig; anwadal, cyfnewidiol; troellog. 12a.29

**trus** = oed (S. tryst). 12β.32

**trwn**, trŵn eg.b. gorsedd; ffurfafen; cylch, cwmpas; diffyg ar yr haul neu'r lleuad.  
12a.30, 12β.32

**trwst** eg. sŵn mawr, twrw, dadwrdd, stŵr, cynnwrf, cythrwfl. 12a.34

**tud** eg. teulu, cenedl. 16.35, 16.99

**twrf** eg. sŵn mawr, dwndwr, cythrwfl, cynnwrf, terfysg, helynt, hefyd yn *ffig*.  
12a.33

**ŵyll** eb.g. ellyll, drychiolaeth, hefyd yn *ffig*.; tylluan (wen). 12a.61

**ydd â** = yr â. 14.35

**ymaelyd** bg.a. ymgodymu, ymaflyd codwm, ymladd; hefyd yn *ffig*. 11.43

**ymodwr** = amodwr eg. cyfamodwr, plaid mewn ymrwymiad. 14.49

**ymrafael** a. a hefyd gyda grym enwol ac fel eg. amrywiol, amryw, amryfal. 16.68

**yngod** adf. gerllaw, wrth ymyl; yno. 13.30

**ynial** = anial. 12β.23

**ystod** eb.g. cwrs, hynt, llwybr.. 10.47

**ystyn** eg. cyflwyniad (tir, er enghraifft) i feddiant unigolyn. 14.7

## **Enwau personau**

Adda 13.33, 13.33n

Anna 13.15, 13.15n

Cadrodd Hardd 11.10

Camber 10.41

Cuhelyn 11.14

Cynfyn Hen 10.6, 10.6n

Edwart 10.28, 10.28n, 10.60

Eigr 12a.7, 12a.7n, 12β.7

Efa 13.43

Euron 12a.24, 12a.24n, 12β.26

Fenus 12a.9, 12a.9n

Feronig 13.29

Geraint 10.33, 10.33n

Gwydion 12β.19, 12β.19n

Herod 13.30

Huw Conwy 14.23, 14.24, 14.26, 14.31, 14.55, 14.62, 14.64

Huw Lewis 11.24, 11.48

Hywel [ap Cynwrig Fychan ap Cynwrig ap Llywarch] 14.6, 14.6n

Iesu 13.4, 13.20, 13.24, 13.32, 13.44, 13.51, 13.64

Lowri [ferch Hywel ap Gruffudd Goch] 14.54

Llywarch [ap Bran] 11.11 – 12

Mair 13.50

Nudd [Hael mab Senyllt] 14.4, 14.4n

Ofydd 12β.22

Peiladus 13.31

Rhys [ap Maredudd] 14.2, 14.3, 14.8, 14.10, 14.14, 14.17, 14.18, 14.19, 14.22, 14.58

Seirioel 11.19, 11.19n, 11.39

Siôn Moel 11.6, 11.20, 11.24

Suddas 13.39

Tudur [ap Hywel ap Cynwrig Fychan] 14.6, 14.6n

Y Crythor o Llyn 14.42



## **Enwau lleoedd**

Asia 14.19

Brust (sef Bryste) 11.3, 11.3n

Brytaen (sef Brytain) 11.58

Bwlen (sef Boulogne-sur-Mer) 10.65, 10.65n

Calais, y Galais 10.2, 10.2n, 10.8, 10.8n, 10.12, 10.20, 10.32, 10.44, 10.56

Cent 10.44, 10.44n

Cuawg 12β.59, 12β.59n

Cwlen 10.5, 10.5n, 10.20

Dinbych 14.35

Ffrainc 10.3

Israel 13.41

Lliwon 11.11, 11.11n

Lloegr 10.26

Llŷn 14.42

Menai 11.4, 11.4n

Mêns 11.1, 11.1n

Môn 10.25, 11.12

Nasareth 13.41

Rhos 14.3

Rhufain 10.47

Sieb 15.17, 15.17n

Troya 10.4, 10.24

# Gwaith Syr Siôn Leiaf

---

## Rhagymadrod

Fel y gwelwyd eisioes, mab Ieuan ap Gruffudd Leiaf oedd Syr Siôn Leiaf. Yn ogystal â bod yn fardd ac yn offeiriad heb radd, yr oedd yn herodr o fri. Yn fuan wedi coroni Harri VII, comisiynwyd Abad Glynegwestl, Canon Henffordd a John King, herodr arbenigol, i archwilio ach y brenin newydd. Daethant i Gymru, ac ymorol am gymorth Gutun Owain, Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan Fychan a Syr Siôn Leiaf i wneud hyn.<sup>292</sup> Y mae'r dystiolaeth hon, ynghyd â thystiolaeth ei gywydd i Rhisiart Cyffin, Deon Bangor, yn dangos yn glir fel y bu Syr Siôn yn weithgar yn ystod chwarter olaf y bymthegfed ganrif, ond ymddengys nad yw'n bosibl manylu mwy ar ei yrfa ar hyn o bryd. Ni wyddys ar hyn o bryd nac ym mha le y bu'n offeiriad nac ym mha le y bu'n byw. Ni cheir enw Syr Siôn yn y rhestr o feirdd a'u manau claddu a geir yn *Y Brython*, Cyf. III, Ebrill 1860, tt. 137 – 8, er bod enwau'i frawd, ei dad a'i daid yno.

## Crefft y Cerddi

Dosberthir y gynghanedd yn y ddwy gerdd fel a ganlyn:-

rhif y gerdd	cyng. groes	cyng. draws	cyng. sain	cyng. lusg	cyfanswm	groes + draws
17	44	12	4	8	68	56
%	64.71	17.65	5.88	11.76	100.00	82.35
18	28	10	11	5	54	38
%	51.85	18.52	20.37	9.26	100.00	70.37
<b>Cyfanswm</b>	<b>72</b>	<b>22</b>	<b>15</b>	<b>13</b>	<b>122</b>	<b>94</b>
%	<b>59.02</b>	<b>18.03</b>	<b>12.30</b>	<b>10.66</b>	<b>100.00</b>	<b>77.05</b>

Fel y gellir ei ddisgwyl yng ngwaith bardd o ail hanner y bymthegfed ganrif, y mae amllder y gynghanedd sain yn weddol isel yn y cywyddau hyn, er bod canran y

---

<sup>292</sup> Gweler, er enghraifft, Llwyd, H. & Powel, D., *The Historie of Cambria, now called Wales: A part of the most famous Yland of Brytaine, Written in the Brytish Language* (1584, ail-argraffwyd 1811), t.288; Lewys Dwnn, *Heraldic Visitations of Wales ...*, t. xiv; The Chevalier Lloyd K. S. G. (sef Lloyd, J. Y. W.), 'History of the Lordship of Maelor Gymraeg or Bromfield, the Lordship of Ial or Yale, and Chirkland', *Archaeologia Cambrensis*, Fourth Series, No. XVI (October 1873), t. 316.

gynhanedd hon yn rhif 18 (sef 20% yn fras) yn fwy na their gwaith y canran cyfatebol yn rhif 17. Nid yw canran y groes a'r draws (oddeutu 77%) mor uchel â'r hyn a geir gan feirdd mwyaf y cyfnod megis Lewys Môn, ond y mae'r meddylfryd yn y ddwy gerdd yn symud yn ddiraffferth o gwpled i gwpled.

Ar wahan i'r cymeriad yn 17.57 – 17.67, ac yn 17.46 – 17.52, cyfyngir y cymeriadau ar y cyfan i gwpledi yn y ddwy gerdd o waith Syr Siôn a olygir yma.

### **Cyfnod tebygol y canu**

Dim ond dwy gerdd a briodolir i Syr Siôn Leiaf yma, ac yn achos dim ond un ohonynt (rhif 17) gellir cynnig hyd yn oed cyfnod y cyfansoddi, sef ar ôl 1480 a chyn marwolaeth Guto'r Glyn (tua 1490).<sup>293</sup> O ystyried hyn, a chyfnod tebygol canu ei dad, gellir cynnig, a hynny'n betrus iawn, c. 1450 – c. 1490 fel cyfnod posibl canu Syr Siôn.

### **Dilysrwydd y Cerddi**

Er hwylustod, cyfeirio at gerdd trwy ddefnyddio'r llinell gyntaf a wneir yn yr adran hon.

O chwilio yn MFGLI a MCF, ceir enw Syr Siôn Leiaf wrth y cerddi canlynol:-

### **Cerddi y gellir eu hystyried yn waith dilys y bardd**

*Beuno gynt bu benna gŵr (Rhif 17: moliant i Risiart Cyffin a dychan i Guto'r Glyn, Hywel Grythor a Gwerful Mechain)*

Mae pum copi ar gael yn y llawysgrifau, a phriodolir pedwar i Syr Siôn Leiaf. Nid oes enw wrth y copi hynaf, sef yr un a geir yn LIGC 1553A, 226. Ysgrifennwyd hwn ryw ganrif ar ôl dyddiad tebygol y canu, ac ymddengys ei fod yn anghyflawn o gymharu â'r pedwar arall. Yn Llst 123 y ceir y copi nesaf, ryw ddeng mlynedd a thrigain ar ôl yr un hynaf. Dyma'r 'fersiwn cyflawn'. Y mae cynnwys y darnau a geir yn y ddau gopi hyn yn debyg i'w gilydd. Ysgrifennwyd tri chopi arall mewn llawysgrifau o (ddiwedd) y ddeunawfed ganrif, a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac y maent hwy hefyd yn gyflawn ac yn debyg i'w gilydd o ran cynnwys a threfn. Yn ogystal â'r copïau hyn, cafwyd fersiwn printiedig yn *Y Genhinen* (1900, tudalen 143). Y mae'r fersiwn hwn yn fyrrach o bedair llinell. Cynhwysir fersiwn *Y Genhinen* yn y golygiad isod.

---

<sup>293</sup> Gweler, er enghraifft, bywgraffiad Guto'r Glyn ar [www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net).

### *Caru yr wyf caruaidd wedd (Rhif 18: cywydd serch)*

Ceir pedwar copi yn y llawysgrifau, a phob un wedi'i briodoli i Syr Siôn Leiaf. O Beniarth 76 y daw'r un hynaf, o fewn rhyw hanner ganrif i gyfnod tebygol y cyfansoddiad. Yn Card. 2.114 y ceir y copi nesaf, a ysgrifennwyd o fewn cenhedlaeth i'r hynaf. Gwaith Wiliam Bodwrda a'i gynorthwywyr yw'r trydydd copi yn BL Add 14966, rhyw ganrif ar ôl yr hynaf, a daw'r pedwerydd copi o'r un cyfnod, yn llawysgrif LIGC 21248D. Y mae'r copïau hyn yn debyg iawn o ran cynnwys a threfn. (Yn llawysgrif Pen 112, 271 ceir cywydd sy'n dechrau â'r un llinell, ond sy'n gwbl wahanol ar ôl hynny).

### **Cerddi annilys neu ansicr eu hawduraeth**

#### *Llawen nos Iau lluniais oed*

Fel y gwelwyd eisoes, priodolir y cywydd dychan hwn yn y llawysgrifau i Gruffudd Leiaf, Robert Leiaf a Dafydd ap Gwilym yn ogystal â Syr Siôn Leiaf. A derbyn nad yw'r cywydd yn waith dilys Dafydd ap Gwilym, ac mai gwaith un o'r Lleiafiaid yw ef, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd benderfynu'n derfynol i ba un o'r Lleiafiaid y dylid ei briodoli. Er cyfleustra, cynhwysir golygiad o'r cywydd hwn o dan waith Robert Leiaf.

#### *Meddylio am urddoli*

Cyflwynir golygiadau o'r cywydd hwn i'r saith bechod marwol yn IGE, IGE<sup>2</sup> a BU, fel gwaith Siôn Cent (dylid nodi mai *Meddyliaid* yw gair cyntaf y cywydd yn y golygiad hyn).<sup>294</sup> Rhestrir y fersiynau llawysgrifol, a'r gwahanol feirdd y priodolir y gerdd iddynt, yn GHC.<sup>295</sup> Wrth iddo wrthod y gerdd fel gwaith dilys Hywel Cilan, cytuna Islwyn Jones â barn Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams mai gwaith Siôn Cent yw'r cywydd yn ôl pob tebyg. Ni olygir y gerdd hon yma.

#### *Nid â'n gaeth enaid un gŵr / Os y fernagl sy' farnwr*

Cywydd i'r Iesu a'r fernagl a roddwyd iddo ar y *Via Dolorosa* yw hwn. Ceir dau fersiwn, y naill yn dechrau gyda'r ddwy linell agoriadol hyn yn y drefn uchod a'r llall gyda'r ddwy linell agoriadol yn y drefn arall. Y mae'r tair enghraifft llawysgrifol a briodolir i Syr Siôn yn dechrau â *Os y fernagl*. Priodolir y rhan fwyaf o'r copïau i Robert Leiaf, a cheir golygiad o'r cywydd yn rhan berthnasol y gwaith presennol.

---

<sup>294</sup> IGE<sup>1</sup>, tt. 241 – 3, 386; IGE<sup>2</sup>, tt. 255 – 6, 380; BU, tt. 7 – 8, 94. Gweler ymhellach ASC, t. 17.

<sup>295</sup> GHC, tt. xviii – xix.

*Diweddyd y mae'r byd am ŵr balch*

Nid cheir enw bardd wrth yr englyn hwn yn y ddwy enghraifft a restrir yn MCF fel eiddo Syr Siôn Leiaf, sef BL Add 14999, 18<sup>v</sup> a BL Add 14999, 97<sup>r</sup>, ac ni chynhwysir y gerdd yn y gwaith presennol.

**17. Moliant i Rhisiart Cyffin a dychan i Guto'r Glyn, Hywel Grythor a Gwerful Mechain**

- Beuno gynt bu benna' gŵr,  
Bened ail, ben adeiliwr,  
Porthi'r oedd, pawb wrth ei raid,  
4 Drichannwr heb drychweiniaid:  
Cannwr gwaith, cant i deithiaw,  
Cannwr llys, cen aur i'w llaw;  
A thros ben ar a henwynt  
8 'E borthes dair gormes gynt:  
Llywarch Hen a Llumenig,  
Ac Elen ddwys, galon ddig,  
Ferch Gyndrwyn, farchog gwindraul,  
12 Fwya' tri yn fyw eu traul.  
Gŵr o'i fodd sy 'Mangor fawr,  
O'r Fêl Ynys, yn flaenawr:  
Mastr Risiart, mäs i deirsir,  
16 Gyffin hael, i'w goffa'n hir.  
Selau farn sy' is ei law fo,  
Sil bonedd, sy' ail Beuno.  
Mae'n gwario mwy no'i geraint,  
20 Mal aur Siob, ar demlau'r saint.  
Talm yw'r gost, talu mae'r gŵr  
Traw a chynnal trichannwr,  
A phorthi tri er nad rhaid,  
24 W'r moesol, o ormesiaid.  
Atarw'r glêr, Guto'r Glyn

Yw Llywarch i holl Lëyn.  
 Bwytäwr mawr, bwytâi'r meirch,  
 28 Bwyd di-ferf, bwytâi forfeirch.  
 Hywel Grythor, callor cig,  
 Ai llai 'Môn no Llumenig?  
 Yswr hen ddas o'r heniar,  
 32 Ysai ych fal asau iâr.  
 Gwawr Fai o liw, Gwerful Wen,  
 Oleuloer yw ail Elen,  
 Haela' un ferch, heulwin fain,  
 36 Howel Fychan, haul Fechain.  
 Cawsant wall o'i chwsg allan  
 I oerfel ar Werful lân;  
 Ym mhoen a ddaeth, mae ha'n ddig,  
 40 I'w dylyn y Nydolog.  
 Lle bo pant - rhusiant i'r rhain -  
 Bron y rhwyr, bryn y rhiain;  
 Un gerdded yw mewn gwyrdd do,  
 44 Aur ei chop, â merch Ipo.  
 Gwae fi orfod i'r rhiain  
 Ddilid rhyw ddiewlaid â'r rhain:  
 Dau remwth a dreia amyd,  
 48 Dwy ffriw cawr, dau Pharo cyd;  
 Dau'n gwibio, dau hen geubal,  
 Dau Og Magóg, deg mwy gwâl.  
 Disiau'r glêr, dau yswr gwledd,  
 52 Dyfr gŵn, difawyr Gwynedd;  
 Lliwiant yw, cyd gallont hwy,

- Ysu canych Is Conwy,  
 Ni allant ddwyn ei 'wyllys –
- 56 Dawn a roed i'r Deon Rys.  
 Llawer i'w fort, lliw ar fwyd,  
 Llys seigfawr lluosogfwyd;  
 Llawer amryw aderyn,
- 60 Llawer saig, a lliw'r siwgr gwyn;  
 Llawer anrheg o'r gegin,  
 Llawer rhyw a lliw ar win;  
 Llawer i bob oferwr,
- 64 Llawrodd gŵyl llareiddia' gŵr;  
 Llawena' gŵr, Leon gost,  
 Lliwid Dofydd llew difost,  
 Llwydo'r gwallt fal callodr gwŷdd
- 68 O'r lliw hwn i'r llawenydd.

*Ffynonellau*

**A**—LIGC 1553A, 226   **B**—Llst 123, 151   **C**—Card 4.110 [=RWM 47], 197   **D**—  
 Card 1.20, 82   **E**—LIGC 670D, 281   **F**—Y Geninen 18 (1900), 143

*Trefn y llinellau*

A: 1-38, [39, 40], 41-46, [47, 48], 49-58, [59-68];

B, C, D, E: 1-68;

F: 1-41, [42-45], 46-68.

*Darlleniadau Amrywiol*

**1** F: yn bena;   **2** A, D: adeilwr; B: ben y deiliwr; C, E, F: adeiliwr;   **3** A: porthi yr oedd bawb wrthi raid; B, C, D, F: wrth raid; E: Porthi i oedd pawb wrth raid;   **4** A:



drychwenaid; C, D: drÿch weiniaid; F: Dri chanwr; **5** B: cant yn gweithiaw; C, D: Cynta'n gwaith cant yn gweithiaw; E, F: Cynta n ngwaith cant yn gweithiaw; **6** A: ken aür yw llaw; B: oi llaw; C, D, E: cawn win o'r llaw; F: Can-wr llys cawn win o'r llaw; **8** B, C, E, F: y porthes; D: y pothes; **9** A: Llowarch ... Llümenic; B: llv Menic; C, D, E, F: llu menig; **10** B: ag Elen ... ddic; C, D, E, F: Ag Elen; **11** A: farchoc gwndraül; C: win-draul; D: win=draul; E: gyndraul; F: Fe'r Gyndrwyn farchog win-draul; **12** A, B: i traül; F: Fwyd tri; **13** A: sy mangor; C, D: fu 'Mangor; E: fun Mangor; F: fu'n Mangor; **14** A: or fel yn ys ynn flaenawr; D: fêl; F: Yn Ial Wynedd; **15** A: mastyr Risiart mas i deirsir; B: mae Rissiart mas i deirsir; C: deir-sir; D: Daw Risiard gwr ar deir-sir; E: Risiert; F: Daw Rhiart gwr ar deir-sir; **16** A: kyphin hardd i coph a ynn hir; B: yn hir; C, D, E, F: iw goffa'n hir; **17** A: is i law; B: ar i law; C, D, E: Sela farn sy ar ei law fo; F: Sel aur fawr sy ar ei law fo; **18** B: sül bonedd; C, D, E, F: Sel bonedd; **19** C, D, E, F: na'i geraint; **20** A: demlaü Saint; C: Mae aur Siob; E: Sieb; **21** A: talym; **22** E, F: Draw ... dri chanwr; **23** B: a fforthi ... traid; D: A phoñhi; **24** A: or gormessiaid; **25** A: adarwr gler Güdo or glynn; B: attw r glêr evtto r Glyn; **26** A: yn i march i holl leyn; B: yw llowar i holl lleyn; C, F: Lëyn; D: Lêyn; E: o holl Leyn; **27** A: buyt dauwr mawr bwyty y meirch; B: bwyttv r meirch; C, D: a bwytu'r meirch; E: o bwythi 'r meirch; F: o bwyty'r meirch; **28** A: bwyd ti ferf bwyty vorfeirch; B: bwyd tiferf bwytae forfeirch; C: Bwyd di-ferf bwyttai forfeirch; D: Bwyd di-ferf bwyttai forf=eirch; E: Bwyd diferf bwyttai forfeirch; F: Bwyd di-ferf, bwyttai forfeirch; **29** A: howel grythor gallor gic; B: Howel Gruthor calor cig; C, D: Howel grythor calor cig; E: calor cig; F: Howel; **30** A: ai llai y mon no Llümynic; B, C, D, E, F: na llv Menig; **31** A: heiniar; B: y sswr henddas or heiniar; F: henieir; **32** A: val; B: y ssav; E, F: ieir; **33** A: gwawr fai o liw; B: Gwawrfai o law Gwerfil wen; C, D, E, F: Gwawr fai o law Gwerfyl wen; **34** C, D: Oleu-loer; **35** B: heilwin fan; C, D: heul-win fan; E: haelwin fan; F: hael win fau; **36** A: hael o vechain; B: haul fechan; C, D, E: hael fachan; E: Hywel Fychan hael fachan; F: hael fachau; **37** A: cowsant wall yw chwsc allan; B: cowssant wall oi cwsc allan; C, D: Rolant wall o chwsg allan; E, F: Roland wall o chwsg allan; **38** A: Werfyl wenn; B: oerfel ar wiw weirfil lan; C, D, E: Oerfel ar win werfyl lân; F: Oerfel ar wir Werfyl lân; **39** B: mae ha yn ddic; C, D: Ymhoen ... ha'n ddig; E, F: Ymhoen ... mae n hen ddig; **40** C, E, F: Yn dilyn y Nadolig; D: Yn dilyn y Madolig; **41** A: lle bo bant Rusiant ir rhain; B: bo pant rhüssiant y rhain; F: rhai'n; **42** A: bron yr hwyr brynn yr Rhiain; B: bron yrrwyr bryn y riain; C: Bron yr rwy bryn yr riain; D: Bron yrrwy bryn yr riain; E: Bron yr Wy Bryn y Riain; **43** A: guyrdd; **44** A: aür i chop a merch yppo; B: aür i chap annerch Ipo; C, D, E: Aur ei chap a merch

Hipo; **45** A: gwae fi orfod ir rhain; B: gwae fi orfod ir riain; C, D, E: Gwae fi orfod rhi y rhain; **46** A: dieflaid ar rhain; B: ddilid rhyw ddiewlaid a rhain; C, E, F: Ddilyd rhif ddiawliaid Rhufain; D: Ddilŷd rhif ddiawliaid Rhu=fain; **47** B: dav remioth a dreia ammyd; C: Dau remmwith a drai am-myd; D: Dau remmwith a drai am=myd; E: Dau remwith a drai amydd; F: Dau remwith a droi amydd; **48** B: dau ffara=cŷd; E: Drwy; **49** A: doe yn gwibio; B: doen yn gwibio; **50** A: dau Og magoc dec mwy i gwal; B: da oc magoc deg mwy i gwâl; C, D, E, F: Dau Og Magog deg mwy gwâl; **52** A: deifyr gwn difawyr Gwynedd; B: dyfrgwn difawr Gwynedd; C, D: A dyfr gwn difawr Gwynedd; E: A dyfr gwin difawyr Gwynedd; F: A dyfr gwin dirfawr Gwynedd; **53** A: lliwiant yw kyd gallont twy; B: lliwiant yw cyd gallon twy; C, D, E, F: Lluniant i'w tŷb llanwant hwy; **54** A: yssü kanu ych is Conwy; B: yssv cannych is Conwy; C, D, E, F: Ysu can-ych is Conwy; **55** A: ni allant ddwyn y ewyllys; B: ni allan ddwyn in wyllys; C, D: Ni allan ddwyn ei wyllys; E: Ni allan ddwyn ei wyllys; F: Ni allwn ddwyn ei wyllys; **56** A: dawn ar rhodd y deon Rhys; B: iawn a roed ir deon rys; C, D: Dawn a roed i'r Deon Rŷs; E, F: Dawn a rodd ir Deon Rhys; **57** A: llawer yw fost lliw ar fwyd; E, F: ford; **58** A: llys seigfawr llyssiwgr fwyd; B: llyssyowgfwyd; C, E, F: lliosogfwyd; D: lliosog fwyd; **59** B: yderyn; **60** B: llawer saig ar lliw siwgr gwyn; C: Llawer saig ar lliw suwgr gwyn; D: Llawer-saig ar lliw suwgr gwyn; E, F: llawer saig ar lliw siwgr gwyn; **61** D: Llawer-anrheg; **62** D: Llawer-rhyw; **63** D: bob derwr; **64** B: llowrodd gwyl; E: Llawerodd gwyl; F: Llaweroedd gwyl; **66** B: lliwid dofydd; **67** B: llwydor gwallt fal callord gwydd; C: fel calledr; D, F: Llwydor gwallt fel callodr gwydd; E: Llwydo'r gwallt fel calledr gwydd; **68** B: or lliw hwn ir llywenydd; C, D: A'r lliw hwn i'r llawenydd; E, F: Ar lliw hwn yw'r llawenydd;

### *Rhaglith*

A: kywydd y dair gormes; B: Cy: mol: Rissiard Kyffyn Deon Bangor; C: Cywydd Beuno; D: Cywydd Beuno S. L.; E: \* I Risiert Cyffin / I Beuno \* Sant yn Nghelynog (\*?); F: Cywydd i Beuno Sant, yn Nghelynog;

### *Olnod*

B: Syr Sion Lia ai cant; C: Syr Sion leiaf ai Cant; D: Syr Sion Leiaf ai Cant; E: Syr John Leiaf ai Cant / O. L. Y O.W.; F: Syr John Leiaf ai cant;

## 18. Cywydd serch

- Caru 'dd wyf, caruaidd wedd,  
Cangen feinwen o Wynedd:  
Cariad Macsen gwncwerwr
- 4 Ar Elen deg ar lan dŵr.  
Ni ad cariad cywirwawr  
Huno'r nos hanner un awr.  
Os hanner nos a hunaf,
- 8 Tynged i'w gweled a gaf:  
Tybio'n bod, diben ni bu,  
Ni'm gweryd, yn ymgaru.  
O hynny pan ddihunwyf,
- 12 Brudda' dyn o'm breuddwyd wyf.  
Nid hwy fy hun, yn un nos,  
No'r ewig wyllt neu'r eos.  
Ni ad ei chariad a'i chof,
- 16 Wycha' dyn, iechyd ynof.  
Diryfedd ym drwy ofal  
Nychu o'r serch na chair sâl.  
Nid oes dan groes dyn o gred,
- 20 Ganol luniaidd, gyn laned.  
Ni bu dan ael fwynddu fain  
Un wylferch mor ganolfain.  
Mae yn ei grudd, myn y Grog,
- 24 Annwyd rhiaid waed rhywiog.  
Licorys o liw cwrel  
Yw'r wefus fwythus, neu fêl.  
Gwyn yw'r tâl, ni bu'r alaw

28 Na'r lluwch mor burwyn â'r llaw.  
Ni medrwn yn ymadrodd  
Ddoedyd i'm oes ddaed ei modd.  
Y hi 'ddwyf, nis addefir,

32 Chwaer Non, i'w charu yn wir.  
Nid aeth o'm cof lyfr Ofydd  
Na'r un dyn awr yn y dydd.  
Cyn pader ac yfferen

36 Caiff fwyn air, coffawn wen,  
Ac ar ddiwedd pob gweddi  
Ar a wn yr henwn hi.  
Diliwiais am dâl ewyn -

40 Dau wae fi na wŷr hi hyn.  
Ym nid oes am Enid wedd  
Difyrrwch, ond oferedd.  
Ni wnaaf, gweaf frig gwiail,

44 Tra fo'r dydd ond rhifo'r dail.  
Yn inseil ar bob deilien  
Mi a rof hawddamor i wen,  
A hawdd fyd heddiw a fo,

48 A chan hannerch i honno.  
Morwyn fwyn, mae arnaf i  
Boenau o'i serch heb eni;  
Am a wnaeth, ni bŷm yn iau

52 O ddolur a meddyliau.  
Erfyniwn roi ar feinir  
Glwy o serch drwy gael oes hir.

### *Ffynonellau*

A—Pen 76, 136 B—Card 2.114 [= RWM 7], 766 C—BL add 14966, 384r D—  
LIGC 21248D, 59v

### *Trefn y llinellau*

A, B, C, D: 1-54

### *Darlleniadau Amrywiol*

**1** A, C: karv yr wyf; B: karv rwyf; **2** B, C, D: o fonedd; **3** A, C: maxen  
gwngkwerwr; B: maxsen gwngkwerwr; D: maxen gwngkwerwr; **4** A: dec; B: ddwr;  
**5** B: kywirawr; C, D: cowirwawr; **6** B: vnawr; **7** A: yr hynaf; B: i hvnaf; C: yr  
hvnaf; **8** A: gwled; **9** A: tybied yn bod; B: tybio yn bod tiben ni bo; C, D: tiben;  
**10** A: *nim* gweryd; **11** A: pen ddyhynwyf; **12** A: prvdda dyn; B: bvdda dyn; C:  
breyddwyd; **13** A: vyhvn; B: yn vnos; **14** A: ... ewic ... ner eos; B: wyllid ner; C:  
ne r eos; D: na r ... ne r eos; **15** A, B, C, D: i chariad; **16** A: iecheid; B: i  
echaid; **18** A: nychy oi serch; B: er serch ni chair; C, D: or serch; **20** A: galon  
... kyn ... ; C: gen laned; **21** A: vwyn ddv vain; B, C: fwyn ddv; **22** A: vn wyl  
verch mor ganolvain; B: gynolfain; **23** A: may yni grydd myn y groc; B, C, D: i  
grvdd; **24** A: annwyl riain; B: ... rriain ... rrowiog; D: rhowiog; **25** B, C, D:  
likorvs; **26** A: vwythys ne vel; B: fwythys ne fel; C, D: ne fel; **27** A: byr alaw;  
**28** A: ... llywch ... byrwyn ... ; **29** B: y madrodd; **30** A: ddaes i modd; B, D:  
ddoedvd ... i modd; C: i modd; **31** D: ys hi idd wyf; **33** A: nidaeth; **34** A: na vn  
dyn; **35** A: ag y fferen; B: ag yfferen; D: ag offeren; **36** A: vwyn air koffawn; B:  
air koffawn; **37** B, C, D: ag; **38** B: yn wir ir hynwir hi; **39** D: di lowiais; **40**  
A: devwae vi; C: dev mae fi; **41** B: am enaid; C: am enyd; **42** A: di vrwch yw ond  
overedd; C: o feredd; **43** A: gwayaf vric gwaiail; B, C: gwayaf; D: gwavaf; **44** A:  
... vor ... rrvor ... ; B: yn rrvor; **45** A, B: yn insel; C, D: ... insail ... dailien; **46**  
B: arof; C, D: hawdd amor; **47** A: ... vyd ... vo; B: er hawdd ... afo; **48** D:  
annerch; **49** A: ... vwyn may ... ; C, D: arna fi; **50** A: boenav serch; **51** A:  
bym; B: awnaeth; **52** A: myddyliav; **53** A: yrvniwn ... veinir; B, C: yrfyniwn; D:  
erfyniaf; **54** B: oserch; D: draw glwy serch;

### *Rhaglith*

B: kowydd merch; C: Cowydd merch; D: kowydd merch;

*Olnod*

A: Sr John leia ai kant; B: Sir Sion Leiaf ai kant; C: Syr Sion Leia ai cant; D: Syr John Leiaf;

## Nodiadau

### 17

Cywydd yw hwn sydd ar y naill llaw yn foliant i Risiart Cyffin, Deon Bangor rhwng c. 1480 a 1502,<sup>296</sup> ac ar y llaw arall yn ddychan i Guto'r Glyn, Hywel Grythor<sup>297</sup> a Gwerful Mechain. Ymddengys mai ef oedd y 'Richard Johannes (i.e. ap John) alias Ris ap Ieuan ap Ris ap Gruffuth', rheithor eglwys Bened Sant, eglwys plwyf y Gyffin yn esgobaeth Bangor, y cyfeirwyd ato mewn cofnod yn y Cofrestrau Pabaidd, 15 Mai 1470.<sup>298</sup> Dengys y cofnod hwn fel yr adwaenid ef fel 'Rhys' (sef 'Ris' yn y cofnod),<sup>299</sup> ac fel yr oedd ef yn blentyn gordderch. Yn GTA ceir awdl yn dwyn y teitl 'Duchan i Ddeon Bangor a'i Feirdd',<sup>300</sup> ac yn y nodiadau i'r gerdd honno dywed T. Gwynn Jones:-

Ymddengys mai ystori'r Awdl hon – un o'r ychydig dduchanau a briodolir i Dudur – yw bod y bardd, meddai Deon Bangor a'i feirdd, wedi ymosod ar ryw Weirfyl. Cyhuddir y Deon o beri i ddeuddeg o brydyddion dyngu anudon arno. ... Gellir casglu oddiwrth feirdd eraill fod y Deon yn hoffi poeni'r beirdd, yn gystal a rhoddi bwyd a diod iddynt. Yn Llsgr. P.112, ceir "Kowydd Duchan i Ddeon Bangor", gan Lywelyn ab y Gutun, yn adrodd fel y rhoes y Deon groeso iddo, ac yna rhoi iddo "lythyr kaead" i'w ddwyn at Huw Lewys o'r Chwaen ym Môn. Erbyn i Huw Lewys agor y llythyr, cyhuddo Llywelyn yr oedd o ladrata wŷyn, a bu'r clerwr mewn trybini o'r herwydd. ... Dengys y cyfeiriadau hyn, ond odid, fod Rhisiart Cyffin yn hoffi gyrru'r beirdd yn ben ben, a'i mynd yn ddrwg rhyngddo â Llywelyn ap Gutun.<sup>301</sup>

---

<sup>296</sup> ByCy, t. 505; YBA, o dan 'Kyffin, Richard'; WCCR, tt. 321 – 2; Browne-Willis, *A Survey of the Cathedral Church of Bangor and the Edifices Belonging to It* (London, 1721), tt. 17 – 18, 34, 124; Salisbury, E., 'Rhisiart Cyffin ab Ieuan Llwyd, Deon Bangor', *Duned*, 17 (2011), tt. 73 – 118. Y mae'r erthygl hon yn cynnwys fersiwn o'r cywydd a drafodir yma.

<sup>297</sup> Ychydig iawn a wyddys am Hywel Grythor. Yn GGGI ceir cyfres o englynion i ofyn bidog drosto gan Dudur Aled (GGGI, CII), ond nid ystyrir y gerdd hon yn waith dilys Guto'r Glyn (gweler y nodiadau ar gyfer cerdd CII ar dudalen 359). Gweler hefyd Salisbury, E., 'Rhisiart Cyffin ab Ieuan Llwyd, Deon Bangor', *Duned*, 17 (2011), t. 112.

<sup>298</sup> Twemlow, J. A. (gol.), *Calendar of entries in the Papal Registers relating to Great Britain and Ireland* (HMSO, 1933), 12, t. 782

(ar gael ar lein: gw. [www.british-history.ac.uk/report.aspx?compid=103994](http://www.british-history.ac.uk/report.aspx?compid=103994)).

<sup>299</sup> Gweler, er enghraifft, GTA, t. 662, GLM, XVI.30 a'r nodiadau perthnasol, t. 402.

<sup>300</sup> GTA, tt. 531 – 534.

<sup>301</sup> GTA, tt. 651 – 2.

(Gwerful Mechain yw'r *Gweirfyl* yr awdl, yn fwy na thebyg; gweler isod). Ystyriaeth bwysig yw'r ffaith nad oedd T. Gwynn Jones yn sicr mai gwaith Tudur Aled yw'r awdl, ond yn hytrach gwaith Llywelyn ap Gutun neu Dudur Penllyn. Ynghylch ymwneud y Deon â Llywelyn ap Gutun (a gyfansoddodd dri chywydd dychan i Risiart Cyffin ac un i Guto'r Glyn), gweler GLLG, tt. 108, 111, 115–116; o ystyried hyn, teg yw gofyn ai castiau Rhisiart Cyffin oedd y tu ôl i ddieter Syr Siôn yn y cywydd dan sylw, neu ynteu castiau Llywelyn ap Gutun? Ategir yr hyn a ddywed T. Gwynn Jones am Risiart Cyffin gan Glanmor Williams:-

Poets flocked to his court ... but they found his propensity for leg-pulling something of a trial. A boisterous and unfeeling joker, he got them drunk and sent them on fools' errands; he set them at odds with one another and then had them accused of all kinds of misdemeanours.<sup>302</sup>

Yn y cywydd dan sylw yma, cyfeiria Syr Siôn at Guto, Hywel a Gwerful fel 'tair gormes gynt' (ll. 8).<sup>303</sup> Yn ôl y bardd, Llywarch Hen a Llumenig (sef Llemenig) ac Elen ferch Cyndrwyn ydynt (ll. 9-10). A derbyn mai Heledd ferch Cyndrwyn yw'r Elen hon, dyma gymeriadau *Tri Trwyddedawc Llys Arthur, a thri Anfodawc*,<sup>304</sup> sef tri trwyddedig<sup>305</sup> a chrwydredig (neu digartref).<sup>306</sup> Yn llinellau 25 – 36 y mae'r bardd yn cysylltu Llywarch Hen â Guto'r Glyn, Llemenig â Hywel Grythor ac Elen (Heledd) â Gwerful Mechain.<sup>307</sup> Diflewyn-ar-dafod yw sarhadau Syr Siôn yn achos Guto'r Glyn a Hywel Grythor, ond y mae'r bardd yn fwy cyfrwys yn achos Gwerful Mechain (ll. 37 – 44). Ar ôl canu clodydd Gwerful yn y dull confensiynol (ll. 33 – 36), dywed ef i'r dau ddyn ddarganfod gwendid yn y ddynes, a chysgu allan gyda hi (ll. 37 – 8). Yn llinellau 39 – 40 ceir darlun o Werfyl yn poeni am ganlyniadau posibl wedi'i chwmp, a darlun o chwant y dau ddyn yn llinellau 41 – 44. Cwbl ffug yw 'gwae' y bardd a fynegir yn llinellau 45 – 46. Cyfres o drosiadau sarhaus am Guto a Hywel

---

<sup>302</sup> WCCR, t. 322.

<sup>303</sup> Y mae'r syniad a fynegir yma yn drawiadol debyg i'r hyn a fynegir yn llinellau 61 – 2 o gywydd adnabyddus gan Syr Rhys o Garno, cywydd dychan i Guto'r Glyn a mawl i Siôn ap Rhisiart, Abad Glynegwestl. Golygwyd cywydd Syr Rhys ac ateb Guto'r Glyn yn GGG1, tt. 277 – 82, ac yn fwy diweddar ar wefan Guto'r Glyn ([www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net), cerddi 101a a 101).

<sup>304</sup> TYP<sup>3</sup>, tt. 181 – 2; gweler hefyd tt. 206 – 7.

<sup>305</sup> Hynny yw, â chaniatad i aros mewn llys ar draul y perchennog. Gweler TYP<sup>3</sup>, t. 181.

<sup>306</sup> Ynghylch y cymeriadau hyn o Ganu Heledd, gweler y rhagymadrodd i CLIH; WCD, tt. 361 – 2, 406 – 7, 423 – 5; EWSP, pennod 3. Dylid nodi mai camamseriad yw eu rhoi yn Llys Arthur.

<sup>307</sup> Yn ôl un arall o'r Trioedd, y Coraniaid, y Gwyddyl Fichti (sef y Pictiaid) a'r Saeson yw'r tair gormes, ac '*nyd aeth yr un onadunt dracheuyn*' (gweler TYP<sup>3</sup>, tt. 90 – 3).



ill dau a geir yn y dyfalu yn llinellau 47 – 54, cyn i'r bardd droi yn ôl at foli'r lluniaeth a geir yn llys Rhisiart Cyffin (ll. 57 – 62) a'r Deon ei hun (ll. 64 – 68).

Anodd credu na fuasai Guto'r Glyn wedi ymateb i'r cywydd deifiol hwn gan Syr Siôn, ond ymddengys nad oes dim o'r fath yn y llawysgrifau y gwyddys amdanynt. Ar y llaw arall, mewn cywydd i'r Abad Dafydd, Glynegwestl (GGGl, CXVII), ac yntau'n cwyno am feirdd sydd â'u bryd ar ei ddisodli ef o'i le yn yr Abaty, y mae'r bardd yn cyfeirio at dwyll Syr Siôn Leiaf mewn digwyddiad sydd bron yn ddigamsyniol yr un helynt ag a barodd i Syr Siôn gyfansoddi'r cywydd dan sylw (gweler y nodiadau ar gyfer llinellau 39, 40 isod). Dywed Guto:-

- 9            *Mae ail drin am wyl Druniauw,  
              Amled rhodd ym weled draw.  
              Syr Siôn, anudon wedy,*
- 12           *Leiaf, a roes ei le fry.  
              Gwnâi dwyll ym, y gwyndyll haidd,  
              Am ei deiau meudwyaidd.  
              Efô'n fardd a fynnai'i fod,*
- 16           *A Gwerful aeth â'r gorfod.*

(GGGl, CXVII, ll. 9 – 16; [www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net), 116, ll. 9 – 16)

Dyma Guto yn ei gael ei hun mewn sefyllfa drawiadol debyg i'r hyn y cawsai Syr Siôn ei hun yn llys Rhisiart Cyffin, pan drechwyd Syr Siôn gan Werful Mechain yn ôl llinell 16 yn y dyfyniad uchod. Yn ôl Guto, felly, atebodd Gwerful Mechain gywydd Syr Siôn a'i drechu yn yr ymryson (er na chadwyd ei hateb yn y llawysgrifau).<sup>308</sup> Ar y llaw arall, ni chafwyd na cherdd gan Werful Mechain i Risiart Cyffin, na cherdd ganddi sy'n cyfeirio ato.<sup>309</sup>

Ceir chwe chywydd gan Guto'r Glyn i Risiart Cyffin: cywydd diolch i Risiart am bwrs (GGGl, XCIV); cywydd diolch iddo am baderau (GGGl, XCV); cywydd gofyn i bedwar noddwr am ddau ych yr un ar ran y Deon (GGGl, XCVI); cywydd gofyn i Huw Bwclai, dirprwy gwnstabl castell Conwy, am walch ar ran Rhisiart (GGGl, XCVII); cywydd i ofyn i Risiart am ysglâts (sef llechi neu deils) dros Syr Gruffudd ab Einion o Henllan (nid nepell o Ddinbych) (GGGl, XCVIII); cywydd diolch i Risiart Cyffin ac i Ddafydd ab Ieuan, abad Glyn-y-Groes, am wella briw a gafodd y bardd (GGGl, CXI). Canodd Llywelyn ap Gutun dri chywydd dychan i'r Deon (gweler GLIG, cerddi 8, 9, 10 a'r nodiadau arnynt). Canodd Tudur Aled awdl foliant iddo (GTA, VIII), cywydd gofyn (GTA, CXX), ac englyn yn cymharu'r Deon Du hael

<sup>308</sup> Gweler CTC, t. 401; GGME, t. 13.

<sup>309</sup> Gweler GGME.

diweddar ag un crinboeth a olynodd ef (GTA, CXLV). Ceir cywydd gan Ieuan Deulwyn i ofyn ychen i Syr Rhys ap Tomas gan Dafydd Llwyd, Abad Aberconwy, Deon Rhisiart Cyffin a Wiliam ap Gruffudd ap Robin, Cochwillan (GID, XXIV). Canodd Lewys Môn gywydd i Rys Cyffin yn beirniadu Llywelyn ap Gutun am ei ymwneud ag ef (GLM, XV; GLIG, At. i), ynghyd â marwnad i'r Deon Rhys (GLM, XVII).

1. **Beuno** Sant o'r chweched ganrif (gweler, er enghraifft, WCD, tt. 42 – 44; CLC<sup>2</sup>, t. 46). Cysylltir ef yn bennaf â'r eglwys yng Nghlynnog Fawr, un o hen glasau Cymru (gweler, er enghraifft, OCS, tt. 262 – 79). Ceir erthygl ddiddorol yn *Y Cymmrodor* sy'n trafod tair hen eglwys, sef yr un yn Clynnog Fawr, eglwys Llanrhychwyn yn yr ucheldir uwchlaw Trefriw, ac eglwys Llangeinwen yn Nwyran, Môn (Evans, Yr Hybarch Albert Owen, 'Three Old Foundations', *Y Cymmrodor*, XLII (1931), 69 – 110). Y mae'r erthygl yn trafod y cywydd hwn gan Syr Siôn ac yn cynnwys fersiwn *Y Geninen* (gweler uchod). Yn Llyfr Ancr Llanddewibrefi (Coleg yr Iesu, llawysgrif 119) y ceir y fersiwn hynaf o Fuchedd Beuno yn y Gymraeg (gweler Jones, J. Morris & Rhys, John, *The Elucidarium and other tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llanddewivrefi* (Rhydychen, Gwasg Clarendon, 1894), tt. 119 – 126).
2. **Bened** Sant Bened o Nursia (c. 480 – 543). Sefydlodd Abaty Monte Cassino yn 529, ar ôl iddo sefydlu sawl cymuned ar gyfer mynaich yn Subiaco, yr Eidal, a dyma sy'n esbonio 'ben adeiliwr' yn y llinell hon. Gweler er enghraifft, EB, 2, tt. 95 – 6.
4. **heb** 'heblaw' yw'r ystyr yma, mae'n debyg.  
**trychweiniaid** = trwch + gweiniaid. trwch a. anffodus, truenus, gwael. gweiniaid e. ll. (un. eg. gwan) rhai tlawd ac anghenus. Felly 'rhai ac iddynt gyflwr tlawd ac anghenus'. Gweler GPC, tt. 3625, 1571.
6. **cen** 'gorchudd' yw'r ystyr yma, mae'n debyg. Gweler GPC, t. 1466.
7. **ar a henwynt** = y rhai a henwynt (henwent). Dylid nodi mai amrywiad ar y gair 'enw' yw 'henw' (ac felly yn achos 'enwi' a 'henwi'), a hynny er yn gynnwys. Gweler WG, tt. 186 – 7; TC, t. 464.
8. **tair gormes gynt** sef *Tri Trwyddedawc Llys Arthur, a thri Anfodawc*. Gweler troednodyn 304 uchod.

9. **Llumenig** sef Llemenig. Gweler WCD, tt. 406 – 407; TYP<sup>3</sup>, 411 – 12.
11. **Ferch Gyndrwyn** dyma a geir ym mob llawysgrif. Ynghylch y treigladd, gweler TC, t. 101. Cynigiwyd ‘Ferch Cyndrwyn’ yn Salisbury, E., *art.cit.*, t. 101, er mwyn achub y gynghanedd, yn ôl pob tebyg.
- farchoh gwindraul** dyma a geir yn y ddwy lawysgrif hynaf, a’r calediad g+g>c yn amharu ar y gynghanedd (CD, t.207; AG, tt. 55 – 6).
14. **O’r Fêl Ynys** Dyma ddarlleniad enghraifft A (*Yn fâl Wynedd* a geir yn yr enghreifftiau eraill). Cyfeirio at Ynys Prydain a wna’r *Fêl Ynys* fel arfer (gweler, er enghraifft, TYP<sup>3</sup>, tt. 248 – 9). Yn yr achos hwn, fodd bynnag, dylid cofio hefyd fod Rhisiart Cyffin yn Rheithor Llanddwyn, Ynys Môn, cyn iddo ddod yn Ddeon Bangor (gweler Browne-Willis, *op. cit.*, t. 124).  
Cynghanedd groes ‘r’ wreiddgoll.
15. **Mastr Risiart** Offeiriad â gradd (LL.B. yn achos Rhisiart Cyffin, yn ôl Browne-Willis) fyddai’n dwyn y teitl ‘Mastr’. Gweler, er enghraifft, GMRh, t. 1. Llinell yw hon ac iddi wall yn y gynghanedd (bai crych a llyfn). Ceir tri fersiwn o’r llinell hon yn y llawysgrifau, ac ymddengys nad yw’r un ohonynt yn gwbl foddhaol o ran y gynghanedd. Fersiwn y llawysgrif hynaf a geir yma. Yn ogystal â bod yn rheithor Llanddwyn, bu Rhisiart hefyd yn Rheithor Y Gyffin ger Aberconwy, a dyna, gyda Bangor, sy’n esbonio *màs ar deirsir* yn y llinell.
16. *kyphin hardd i cophu ynn hir* (sef ‘Cyffin, hardd y coffa’n hir’) a geir yn A.
17. **Selau** = Selyf (Solomon). Llinell wyth sill.
25. **Atarw’r glêr** Dilynir E. Salisbury yma (Salisbury, E., *art.cit.*, t. 101). Ni cheir ‘atarw’ yn y llawysgrifau, ond o gymharu fersiynau A a B, credir bod y darlleniad hwn yn un teg, er y dylid nodi mai o 1547 y daw’r enghraifft gynharaf o’r gair ‘atarw’ yn GPC (t. 225).
33. **Gwawr Fai** sef gwedd neu liw Fai, trosiad am wallt golau Gwerful Mechain. Noder y treigladd i’r enw priod ‘Mai’ yn dilyn yr enw unigol benywaidd ‘gwawr’. (Blodau’r ddraenen wen, yn bennaf, a rydd wynder i liw’r cefn gwlad ym mis Mai).
35. **heulwin** = haul + gwin. Dyma ddarlleniad A. *Heilwin fan* a geir yn B, *heul-win fan* yn C a D a *haelwin fan* yn E ac F. *Heilwin fain* yw dewis Eurig Salisbury.
- heilwin** a. yn heilio neu’n arllwys gwin. Gweler GPC, t. 1840.

- 35, 36. Y mae'r cwpled hwn yn debyg iawn i gwpled mewn cywydd gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn:-

*Gweirul, ferch ragorol fain  
Hywel Fychan, haul Fechain.*

Gweler GDL1, 65.3 – 4 (t. 144), GGME, t. 1. Yn y cywydd hwn enfyn y bardd Lywelyn ap Gutun yn llatai at Werful Mechain.

- 37, 38. **cawsant wall ... ar ...** Gweler Salisbury, *art. cit.*, t. 113; GPC, t. 1567: 'cael (caffel) gwall (ar): *to find a weakness or weak spot in, seek or find an opportunity, tempt*'.

- 39 – 40. Nid yw'r llawysgrif hynaf yn cynnwys y cwpled hwn, a allai'n hawdd fod yn ychwanegiad diweddarach. Dilynir enghraifft B yn y golygiad a gyflwynir yma, ar wahân i newid *yw dylun* i 'I'w dylun'. Cymharer y ddwy linell hon â'r cwpled canlynol yn y cywydd dychan gan Lywelyn ap Gutun i Guto'r Glyn:-

*Hwduwch atoch, ddwyfoch ddig,  
Dylun yn gyff Nadolig*

(GGG1, XXXVII.17 – 18, t. 98)

- 39 - 40. Ni cheir y cwpled hwn yn yr enghraifft hynaf. Ynghylch llinell 39, ceir *mae ha yn ddi* yn B, *mae ha'n ddig* yn C a D, ac *mae'n hen ddig* yn E ac F. Dewis Eurig Salisbury yw *mae hi'n ddig*.

40. **dylun** eg. ffwl, penbwl. Gweler GPC, t. 1138.

**y nydolig** gallai hon fod yn ffurf ar 'y Nodolig', 'y Nadolig' (gw. GPC, t. 2547), a 'dydd genedigaeth' yn ystyr posibl, yn hytrach na gŵyl geni Crist.

42. **rhwyr** sef rhÿwr eg. gŵr mawr. Gweler GPC, tt. 3120, 3149, 3148. 'Eisteddle meddyliau'r gŵr mawr' yw ystyr *Bron y rhwyr*.

44. **merch Ipo** Hippocrates o Cos, y meddyg Groegaidd adnabyddus yw'r Ipo hwn. Canodd y bardd a'r casawr gwagedd Ieuan Dyfi (*fl. c.* 1480 – *c.* 1500) gyfres o gywyddau i Annie Goch (a olygwyd yn GHCL1, tt. 124 – 31), yr olaf (GHCL1, tt. 129 – 31) ar ôl iddo fethu cael ei ffordd â hi. (Am y cefndir hanesyddol, gweler Smith, Llinos Beverley, 'Olrhain Annie Goch', *YB*, XIX (1993), 107 – 26). Yn y cywydd hwn y mae'r bardd yn rhestru sawl dyn a gafodd gam gan ddynes, gan gynnwys Hippocrates:-

*Ipo gynt anap a gâi,*

*Ac un wen a'i gwenwynai.*

(ll. 33 – 34).

Yn ôl Marged Haycock (Haycock, Marged, 'Merched drwg a Merched da: Ieuan Dyfi v. Gwerful Mechain', *YB*, XVI (1990), tt. 97 - 110) yr oedd y rhestr hon yn ddigon cyfarwydd erbyn y bymthegfed ganrif (tt. 99 – 100), ac yn wir, gallasai Syr Siôn Leiaf fod yn ymwybodol o gywydd Ieuan Dyfi beth bynnag. Dilyn y casawyr gwagedd y mae Syr Siôn wrth ddilorni Gwerful Mechain.

Ceir trafodaith drylwyr gan Nerys Ann Howells ar gywydd Ieuan Dyfi 'I Anni Goch' ac ymateb Gwerful Mechain iddo yn GGME, tt. 133 – 147.

45. **gorfod** enw (yn golygu 'buddugoliaeth', 'goruchafiaeth') yw'r gair yn yr achos hwn. Gweler GPC, t. 1479.
46. **dilid** be. dilyn. Gweler GPC, t. 1014.
47. Llinell wyth sill.
50. **Dau Og Magóg** Yn yr Hen Destament ceir dau gyfeiriad at Og a Magog. Prif dywysog Mesach a Tubal yw "Gog yn nhir Magog" yn Esec. 38:2 a 39:1. Yn Dat. 20:8 - 10 cyfeirir at luoedd Gog a Magog a'u trechu yn y frwydr olaf rhwng Duw a Satan. Enw ar gawr a laddwyd gan Corineus yw 'Gogmagog' yn ôl *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy (gweler, er enghraifft, Thorpe, Lewis (gol.), *The History of the Kings of Britain*, tt. 72 - 3), er ni cheir enw'r cawr yn Lewis, Henry (gol.), *Brut Dingestow* (cymharer tt. 19 - 20 *Brut Dingestow* â tt. 72 - 3 cyfrol Lewis Thorpe). O ystyried y gynghanedd yn y llinell hon, mae'n amlwg mai ar ail sill y gair 'Magog' y disgwyliwyd y brif acen.
56. **Rys** Fel y gwelwyd uchod, adweinid Rhisiart Cyffin fel Rhys hefyd.
60. Diwygiwyd y llinell hon i '*Llawer saig, a lliw'r siwgr gwyn*'; er hynny, cynghanedd groes bengoll a geir yma.
65. **Lleon** Dyma ffurf pob llawysgrif. Mab Brutus Tarian Glas oedd Lleon yn ôl *Historia Regum Britanniae*. Gŵr a garai heddwch a chyfiawnder oedd ef, ac wedi iddo weld y cyfoeth a'r tangnefedd yn y wlad, aeth ati i adeiladu dinas, a'i henwi'n *Caer Lleon*. Gweler Lewis, Henry (gol.), *Brut Dingestow*, t. 25. Posibiliad arall yw fod y bardd yn cyfeirio at y wledd a gynhaliwyd yn y ddinas *Caer Llion* yn dilyn coroni Arthur: gweler *Brut Dingestow*, t. 157. Ai yr un dref yw *Caer Lleon* a *Caer Llion*?

## 18

Fel y tystia'r llawysgrifau, cywydd merch yw hwn, a chyffes Syr Siôn, ac yntau'n hen (llinellau 53-54), o'i gariad tuag at foneddiges hardd. Yn llinellau 2 – 4 y mae'r bardd yn cyffelybu ei sefyllfa i'r hyn y cafodd Macsen Wledig ei hun ynnddi yn y chwedl *Breuddwyd Macsen* (gweler isod), a'r disgrifiad yn llinellau 5 – 18 o'i gyflwr ar ôl iddo weld y ddynes yn dynwared disgrifiad cyflwr Macsen ar ôl iddo weld Elen Luyddog yn ei freuddwyd yn y chwedl.<sup>310</sup>

Disgrifio gwahanol rannau o gorff y ddynes a wna'r bardd yn llinellau 19 – 28: ei chanol (ll. 19 – 22), ei gruddiau (ll. 23 – 24), ei gwefusau (ll. 25 – 26), ei thalcen (ll. 27 – 28). O ystyried llinellau 35 – 38, mae'n bosibl bod y ddynes dan sylw yn aelod o un o'r cynulleidfaoedd yr oedd Syr Siôn yn eu gwasanaethu. Ofer yw caru o'r fath, meddai'r bardd yn llinellau 39 – 42, ac yntau'n gwelwi o gariad nas cydnabyddir, a delwedd y goronbleth (gweler isod) yn llinellau 43 – 48 yn arwyddocáu ei obeithion serch hynny. Troi'n ôl at boenau cariad digydnabod a wna'r bardd yn llinellau 49 – 52, a gorffen trwy ddymuno oes hir i'r fun fel y geill hi deimlo ing cyffelyb yn ei thro (ll. 53 – 54).

2.       **o Wynedd**   ceir o fonedd yn B, C a D. Y mae darlleniad A yn neilltuol o addas yng nghyswllt y cyfeiriad at chwedl Macsen Wledig yn y cwpled nesaf.
  
- 3 - 4.   **Cariad Macsen ... ar Elen**   Cyfeiriad at Macsen Wledig ac Elen Luyddog, prif gymeriadau'r chwedl hanesyddol *Breuddwyd Macsen Wledig*. (Ceir golygiad o'r chwedl, yn seiliedig ar fersiwn Llyfr Coch Hergest (llawysgrif Coleg yr Iesu, Rhydychen, 111) gyda rhagymadrodd sydd yn cynnwys y manylion hanesyddol cysylltiedig, yn Williams, I., *Breuddwyd Maxen* (Bangor: Jarvis a Foster, 1920). Gweler hefyd Roberts, Brynley F. (gol.), *Breudwyd Maxen Wledig* (Dulyn, 2005); TYP<sup>3</sup>, tt. 441 – 4). Ar ôl iddo weld Elen mewn breuddwyd, chwiliodd Macsen y byd i gael hyd iddi, ond fel arall y bu hi yn achos gwrthrych cariad Syr Siôn. Ynghylch y ffurf 'cariad ar', gweler GDG<sup>1</sup>, 85.1 (neu wefan Dafydd ap Gwilym, cerdd 107.1) a G, t. 112.

---

<sup>310</sup> Gweler, er enghraifft, YM, t.76.

4. **ar lan dŵr** Cyfeiriad at Segontium (sef Caernarfon), a reolwyd gan Eudaf, tad Elen.
22. **canolfain** a. â gwasg main, meinwasg.
27. **alaw** lili neu lili'r dŵr a olygir yma. Gweler GPC, 74 o dan 'alaw<sup>1</sup>'.
32. **Chwaer Non** mam Dewi Sant oedd Non. Yn ôl y traddodiad, merch landeg, uchel ei thras oedd hi, ac y mae'r gymhariaeth hon yn ganmoliaeth urddasol iawn i'r ferch dan sylw.
33. **llyfr Ofydd** sef *Amores*, casgliad o ganu serch cynnar y bardd Ofydd (*Publius Ovidius Naso* oedd ei enw Lladin llawn). Hanes hynt carwriaeth y bardd â Corinna, dynes o uchel dras, yw testun *Amores*, sefyllfa nid annhebyg i'r hyn y mae Syr Siôn yn ei gael ei hun ynddi yn y cywydd hwn (gweler er enghraifft, EB, 9, tt. 18 – 20). Y mae naws y cerddi hyn gan Ofydd yn ymylu ar wawd eironig y *genre*, ond hunan-wawd, er mor dyner, a geir yn y gerdd hon.
38. **ar rh. dng.** = 'yr hon'. Gw. GPC, 174, o dan ar<sup>3</sup>.  
**henwn** = enwn. Gweler WG, tt. 186 – 7; TC, t. 464; 17.7n.
41. **Enid** enw gwrthrych serch y bardd, ond odid.
43. **brig gwiaail** cae, sef tlws, gwregys neu (fel yn yr achos hwn) coronbleth. Yn yr Oesau Canol yr oedd yn draddodiad i rywun anfon cae at gariad. Gweler er enghraifft GDG<sup>1</sup>, 31.9 a'r nodiadau perthnasol ar dudalennau 472 – 3; IGE<sup>2</sup>, LXXIII a'r nodiadau ar dudalen 375. Gweler hefyd wefan Dafydd ap Gwilym ([www.dafyddapgwilym.net](http://www.dafyddapgwilym.net)), cerdd 95 a'r nodiadau i'r llinell gyntaf.
45. **inseil** sef 'insel', 'insail', gweler GPC, t. 2022. Ni cheir y ffurf hon yn un o'r llawysgrifau, ond fe'i defnyddir yma er mwyn y gynghanedd (lusg).
48. **hannerch** Ynghylch ychwanegu'r 'h' ar ddechrau'r gair 'annerch' ar ôl y rhifolyn 'cant', gweler TC, tt. 136 – 7.

## Geirfa

**addef** ba. arddel, cydnabod. 18.31

**adeiliwr** = adeilor, adeilwr eg. Swyddog Rhufeinig â gofal am yr adeiladau cyhoeddus; codwr adeilad. 17.2

**alaw** eg.b. lili, lili'r dŵr. 18.27, 18.27n

**amyd** eg. yd cymysg, gan amlaf o wenith a haidd a rhyg. 17.47

**annerch** eb.g. cyfarch, cyfarchiad. 18.48

**annwyd** eb. nwyd, teimlad; anian, nawws. 18.24

**ar a henwynt** = y rhai a henwynt (henwent). 17.7, 17.7n

**ar** rh. dng. = 'yr hon'. 18.38, 18.38n

**asau** (asennau, ais) e. ll. (un. b. asen) esgyrn amgrwm sydd yn ceincio'n barau o'r asgwrn cefn ac yn amgáu rhan uchaf y corff a'i organau. 17.32

**atarw** eg. tarw llawndwf wedi ei gyweirio. 17.25

**blaenawr** = blaenor eg. arweinydd, pennaeth. 17.14

**bonedd** eg. a hefyd fel a. tras; tras uchel, genedigaeth freiniol. 18.2

**bort** eb. bwrdd, yn enwedig un wedi ei hulio â bwyd, yn *ffig*. am arlwy o fwyd a diod, lletygarwch. 17.57

**brig gwiail** cae, sef tlws, gwregys neu goronbleth. 18.43, 18.43n

**bwytäwr** eg. ymborthwr; traflynawr, yswr, glwth. 17.27

**callodr** e.ll. (un.g. callod(r)yn, b. callod(r)en). tyfiant, calaf, corsennau; cen, mwsogl. 17.67

**callor** eg.b. pair, crochan. 17.29

**cangen** eb. yn *ffig*. geneth, merch ieuanc, rhiaid. 18.2

**cannwr** eg. cant o wŷr. 17.5, 17.6

**canolfain** a. â gwasg main, meinwasg. 18.22, 18.22n

**caruaidd** a. hawddgar, hygar, tirion, cariadus, hardd. 18.1

**cen** eg. gorchudd. 17.6, 17.6n

**ceubal** eg.b. yn *ffig*. am ddyn glwth neu gorffol. 17.49

**clêr** eb. beirdd; dosbarth isel o feirdd heb hyfforddiant swyddogol. 17.25, 17.51



**cop** eb.g. pen, corun. 17.44

**cred** eb. y byd Cristionogol, yr holl genhedloedd sy'n proffesu Cristionogaeth.  
18.19

**cwncwerwr** eg. un sy'n concro, gorchfygwr, goresgynnwr. 18.3

**cwrel** [bnth. S. *coral*] eg. coral. 18.25

**cyd** a. cyffredin; cyfunol; cytûn. 17.48

**cywirwawr** = cywir + gwawr. 18.5

**das** (= tas) eb.g. pentwr o yd, gwair, gwellt. 17.31

**di-ferf** = di + merf a. heb fod yn ddiflas neu'n ferfaidd. 17.28

**difost** = di + bost. heb ymffrost. 17.66

**dilid** be. dilyn. 17.46

**diliwio** bg.a. mynd yn ddi-liw, newid lliw, gwelwi. 18.39

**disiau** e. ll. (un. g.b. dis) yr ystyr *ffig*.sydd yma, sef cyfeillion, rhai a fawr gerir.  
17.51

**doedyd** = dywedyd = dweud. 18.30

**Dofydd** eg. arglwydd; meistr. 17.66

**dyfr gŵn** e. ll. (un. g. dyfrgi) anifeiliaid cigysol o rywogaeth y Lutra sy'n byw yn y  
dŵr. 17.52

**difawyr** e.ll. (un. g. difäwr) rhai sy'n difa, yswyr, difrodwyr. 17.52

**dylyn** eg. ffwl, penbwl. 17.40, 17.40n

**ewyn** eg. yn *ffig*. i ddynodi gwynder, purdeb, breuder. 18.39

**ffriw** eb. wyneb, wynepryd, gwedd, golwg; talcen, pen. 17.48

**gofal** eg. gofalaeth eglwysig. 18.17

**goleuloer** 'loer olau', ond odid. 17.34

**gorfod** enw (yn golygu 'buddugoliaeth', 'goruchafiaeth'). 17.45, 17.45n

**gormes** eb.g. gorthrwm gan genedl estron; pla, haint; person neu anifail gwancus.  
17.8

**gormesiaid** e. ll. (un. g. gormesiad, gormeisiad) gormeswyr, treiswyr; bwystfil yn  
udo, creadur dolefus. 17.24

**gwall** eg. gwendid, diffyg, eisiau. 17.37, 17.37n

**gwawr** eb. golwg, gwedd. 17.33

**gweryd** 3ydd prs. un. amser pres. modd myn. y ferf 'gwaredu'. 18.10

**gwindraul** a. yn treulio neu'n gwallaw gwin. 17.11

**gwylferch** eb. gwraig addfwyn, merch dirion. 18.22

**hawddamor** eg.b. a hefyd ebd. ffawd neu lwc dda; henffych well; yn iach! 18.46

**heb** = 'heblaw'. 17.4, 17.4n

**heilwin** a. yn heilio neu'n arllwys gwin. 17.35n

**heniar**, heiniar eg.b. cynnyrch y flwyddyn, cnwd llafur, cynhaeaf, ffrwyth, arlwy, lluniaeth. 17.31

**henwi** ba. = enwi. 17.7, 17.7n, 18.38, 18.38n

**heulwin** = haul + gwin = golau. 17.35, 17.35n

**inseil**, insel eb. sêl. 18.45, 18.45n

**licorys** eg. y llysieuyn legwmaidd *Glycyrrhiza glabra*, gwylys, perwraidd. 18.25

**llareiddia'** = llarieddaf a. mwyaf tyner. 17.64

**llawrodd** a. hael. 17.64

**lliwiant** eg. tafliaid peth yn nannedd un, gwarthrudd. 17.53

**lluosogfwyd** a. (= lluosog + bwyd) â llawer o wahanol fwydydd. 17.52

**llyfr Ofydd** sef *Amores*, casgliad o ganu serch cynnar y bardd Ofydd (*Publius Ovidius Naso* oedd ei enw Lladin llawn). 18.33, 18.33n

**màs** eg. offeren. 17.15

**meinwen** eb. a hefyd fel a.b. merch fain a hardd; main a hardd. 18.2

**morfeirch** e.ll. (un. g. morfarch) morfil. 17.28

**mwynddu** a. = mwyn +du. tyner a du. 18.21

**mwythus** a. moethus, hyfryd; amheuthun; tyner. 18.26

**nydolg** = Nadolg, Nodolg? eg.b. dydd genedigaeth, pen blwydd; gŵyl geni Crist. 17.40, 17.40n

**oferwr** eg. rhywun da i ddim; gŵr neu fardd gwamal; bardd crwydr, clerwr, digrifwr. 17.63

**pader** eg.b. Gweddi'r Arglwydd. 18.35

**porthi** bg.a. bwydo, maethu. 17.3, 17.8, 17.23

**purwyn** a. hollol wyn, gwyn iawn, gwyn fel llaeth. 18.28

**rhemwth** eg. bolgi, glwth, gloddestwr; creadur mawr trwsgl. 17.47

**rhiain** eb. merch ieuanc, merch uchel ei thras, boneddiges. 17.42, 17.46, 18.24

**rhusiant** eg. rhwystr, rhwystredigaeth. 17.41

**rhwyr** sef rhÿwr eg. gŵr mawr. 17.42, 17.42n

**saig** eb.g. dysglaid o fwyd, dysgl, cwrs mewn pryd bwyd, gwledd. 17.60

**sâl** eb.g. tâl, ad-daliad, gwobr, budd, elw, hefyd yn *ffig*. 18.18

**seigfawr** = saig + mawr; 17.58

**Selau** e.p. Selyf 17.17

**sil** eg.b. hiliogaeth, epil. 17.18

**tâl** eg. talcen, pen, hefyd yn *ffig*. 18.27, 18.39.

**talm** eg. rhan neu gyfran sylweddol. 17.21

**trychweiniaid** = trych + gweiniaid. trwch + gweiniaid. trwch a. anffodus, truenus, gwael. gweiniaid e. ll. (un. g. gwan) rhai tlawd ac anghenus. Felly 'rhai ac iddynt gyflwr tlawd ac anghenus'. 17.4, 17.4n

**yfferen** = offeren eb. Gwasanaeth eglwysig sy'n cynnwys yr Ewcharist. 18.35

**y Grog** eb. y Groes a groeshoeliwyd Crist arni. 18.23

**ymgaru** be. caru ei gilydd. 18.10

**ysu** bg.a. bwyta, llawcio. 17.32, 17.54

**yswr** eg. treuliwr, difawr, gwastraffwr, bwydwr awchus; defnyddiwr neu brynwr (nwyddau). 17.31, 17.51

## **Enwau Personau**

Bened 17.2, 17.2n

Beuno 17.1, 17.1n, 17.18

Cyndrwyn 17.11, 17.11n

Elen (Heledd) 17.10, 17.34

Elen (Luyddog) 18.4, 18.4n

Enid 18.41, 18.41n

Gog Magóg 17.50, 17.50n

Guto'r Glyn 17.25

Gwerful [Mechain] 17.31, 17.38

Hywel Fychan 17.36

Hywel Grythor 17.29

Ipo 17.44, 17.44n

Lleon 17.65, 17.65n

Llumenig (Llemenig) 17.9, 17.9n, 17.30

Llywarch Hen 17.9, 17.26

Macsen 18.3, 18.3n

Non 18.32, 18.32n

Ofydd 18.33, 18.33n

Pharo 17.48

Rhisiart Cyffin 17.15 – 16, 17.15n

Rhys 17.56, 17.56n

Selau 17.17, 17.17n

Siob 17.20

## **Enwau lleoedd**

Bangor 17.13

Gwynedd 17.52

Is Conwy 17.54

Llëyn 17.26

Mechain 17.36

Môn 17.30

Y Fêl Ynys 17.14, 17.14n

# Gwaith Rhys Goch Glyndyfrdwy

---

## Rhagymadrodd

Ychydig iawn a wyddys am Rhys Goch Glyndyfrdwy, ar wahân i'r hyn y gellir ei gasglu o'i farddoniaeth ef ynghyd â barddoniaeth ei gyfoeswyr. Yr oedd yn ei flodau tua 1460, yn ôl ByCy (t. 792). Fe'i claddwyd yn Llandrillo-yn-Edeirnion yn ôl *Beddau y Beirdd*, ac yn llawysgrifau BL Add 15022, 53 – 55 a LIGC 872D, 463. Ni cheir enw'r bardd yn y rhestr ar ddiwedd *Dictionarium Duplex* Dr. John Davies, Mallwyd, ond fe'i ceir yn *Repertorium Poeticum* Moses Williams (t. 77), ac yn llawysgrif BL Add 31055, 48, ymysg y 'rhai oedh yn amser y trydydh Clymiad ar Gerdh'. Ni chynhwysodd Wiliam Owen Pughe y bardd yn ei *Cambrian Biography*.

Ysgrifennodd yr Athro D. J. Bowen erthygl ynghylch carcharu Rhys ac Ithel ab Ieuan (gweler cerdd 20 a'r nodiadau isod), gan gynnwys y copi o'r gerdd a geir yn Llst 122, 308.<sup>311</sup> Yn fwy diweddar, cafwyd erthygl gan yr Athro G. A. Williams sydd yn cynnwys trafodaeth ar waith Rhys Goch Glyndyfrdwy.<sup>312</sup>

### *Tystiolaeth ei gerddi a'r llawysgrifau*

O'r chwe chywydd y gellir eu priodoli'n hyderus i Rys Goch Glyndyfrdwy, y mae un (rhif 22) yn foliant i Rhosier ap Siôn o Emral, Maelor Saesneg (bu farw 1479). Cân hiraeth am Rhosier ac Emral yw rhif 24. A'r bardd yntau wedi mynd i Forgannwg, enfyn ef yr haul i chwilio am Rhosier. Marwnad i Siôn ap Rhosier, mab Rhosier ap Siôn gan ei wraig gyntaf, Cecily ferch Syr Randel Brereton o Falpas, yw rhif 19. Bu farw'r mab hwn yn ddyn ifanc ym 1467. Teg felly yw ystyried Rhosier ap Siôn yn noddwr i'r bardd. Ceir cywydd gofyn dros Siôn Hanmer ganddo (rhif 23), cywydd i anfon y lleuad i chwilio am Rhys ac Ithel, meibion Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda (rhif 20), a chywydd moliant i bum mab Llywelyn ap Hwlcyn o Brysaeddfed, Bodedern, Môn (rhif 21). Cyfeiria'r erthygl yn ByCy uchod at gywyddau serch a ganodd Rhys. Dau gywydd o'r fath a ddarganfuwyd yma, un ohonynt yn annilys a'r llall yn annhebygol o fod yn waith y bardd (gweler isod).

---

<sup>311</sup> Bowen, D. J., 'Carcharu Ithel a Rhys ab Ieuan Fychan', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, cyf. 8 rhif 1 (Haf 1953), 119 – 120.

<sup>312</sup> Williams, Gruffydd Aled, 'The Literary Tradition to c. 1560', yn Smith, J. B. a Smith, Ll. B., *A History of Merioneth, Vol. 2* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2001), tt.566 – 7.

## Crefft y Cerddi

Mae'n bosibl nad yw holl waith Rhys Goch Glyndyfrdwy wedi goroesi (neu'n hysbys ar hyn o bryd, o leiaf). Er hynny, mae rychwant, cynnwys, arddull a naws y cywyddau a olygir yma yn nodweddiadol o fardd proffesiynol o ganol y bymthegfed ganrif.

Dosberthir y gynghanedd fel a ganlyn:-

rhif y gerdd	cyng. groes	cyng. draws	cyng. sain	cyng. lusg	cyfanswm	groes + draws
19	29	31	11	7	78	60
%	37.18	39.74	14.10	8.97	100.00	76.92
20	10	16	14	4	44	26
%	22.73	36.36	31.82	9.09	100.00	59.09
21	35	8	8	5	56	43
%	62.50	14.29	14.29	8.92	100.00	76.79
22	25	14	7	10	56	39
%	44.64	25.00	12.50	17.86	100.00	69.64
23	20	14	20	8	62	34
%	32.26	22.58	32.26	12.90	100.00	54.84
24	21	17	17	9	64	38
%	32.81	26.56	26.56	14.06	100.00	59.38
<b>Cyfanswm</b>	<b>140</b>	<b>100</b>	<b>77</b>	<b>43</b>	<b>360</b>	<b>240</b>
%	<b>38.89</b>	<b>27.78</b>	<b>21.39</b>	<b>11.94</b>	<b>100.00</b>	<b>66.67</b>

Ceir cymeriadau estynedig yn ei waith, er enghraifft 20.35 – 20.39, 21.29 – 21.49, 23.31 – 23.37, ond ar y cyfan fe'u cyfyngir i gwpledi. Gwelir cryfder delweddu'r bard drwodd, ac yn enwedig yn rhifau 19, 20, 23 a 24.

### Cyfnod tebygol y canu

Fel y gwelwyd uchod, bu farw Siôn ap Rhosier, mab Rhosier ap Siôn gan ei wraig gyntaf, Cecily ferch Syr Randel Brereton o Falpas, ym 1467. Buasai Rhosier ap Siôn, noddwr i Rys Goch Glyndyfrdwy, wedi etifeddu stad Emral rywbyrd ar ôl marwolaeth ei dad, c. 1444.<sup>313</sup>

<sup>313</sup> WG1, 'Puleston'.

Yn ôl *Genealogy of Shropshire* Joseph Morris (cyf. 2, t. 784), bu farw Siôn Hanmer o'r Llai, eirchiad y cywydd gofyn, ym 1480. Ymddengys fod Llywelyn ap Hwlcyn yn fyw ym 1485; felly ei feibion hefyd. Lladdwyd Rhys ac Ithel ab Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda ym 1457 (neu 1467). O ystyried y dyddiadau hyn, gellir cynnig yn fras 1455 – 1485 fel cyfnod blodeuo'r bardd.

## Dilysrwydd y Cerddi

Defnyddir llinell gyntaf cerdd wrth gyfeirio ati.

### Cerddi dilys

*Blin ydyw gan blanedau (Rhif 19: Marwnad Siôn ap Rhosier, mab Rhosier ap Siôn Pilstwn)*

Ceir saith enghraifft ar hugain o'r cywydd hwn yn y llawysgrifau, sef:-

A—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 180; B—Pen 82, 98; C—LIGC 3051D [= Mos 148], 239; D—LIGC 8497B, 182r; E—BL Add 14977, 57r; F—Pen 84, 247; G—BL Add 14866, 261v; H—LIGC 5272C, 35v; I—Brog 1.2, 473r; J—Bodewryd 1, 312; K—BL Add 24980, 95r; L—CM 312, 24; M—BL Add 14978, 137v; N—Llst 135, 19; O—Pen 112, 819; P—LIGC 727D, 198; Q—Card 4.101 [= RWM 83], 182r; R—Pen 89, (8, 1); S—LIGC 552B, 137v; T—J 101 [= RWM 17], 632; U—Card 3.37 [= RWM 20], 73; V—Llst 124, 189; W—LIGC 644B, 141; X—Pen 198, 138; Y—LIGC Mân Adnau 1206 [= Tanybwllch], 269; Z—CM 11, 285; AA—LIGC 1706B, 96.

Yn enghraifft G, enwa David Johns Lawdden a Llywelyn ab y Moel yn gystal â Rhys Goch Glyndyfrdwy fel cyfansoddwyr posibl y gerdd. Rhys Goch Eryri biau'r gerdd yn ôl copiwr anhysbys enghraifft N, a Robin Ddu yn ôl enghreifftiau S ac W.

Amrywia'r enghreifftiau yn ôl nifer llinellau fel a ganlyn:-

Nifer llinellau	Nifer y llawysgrifau	Y llawysgrifau
60	2	S, W
64	2	AA, B
68	2	E, G
70	2	Q, R
72	4	M, N, O, P
74	5	C, D, K, U, V
76	7	A, H, I, J, L, T, Z
78	3	F, X, Y



Cynnwys y tri fersiwn deunaw llinell a thrigain gwpled nas ceir yn y rhai eraill, sef *'Fo a wyled am filwyr|Fôr hallt a thynnu gwallt gwŷr'*<sup>314</sup> (orgraff ddiwygiedig), ac y maent yn gyson o ran cynnwys a threfn y llinellau.

O'r saith fersiwn un llinell ar bymtheg a thrigain, y mae pump ohonynt, sef A, H, I, J, T yn gyson o ran cynnwys a threfn, ar wahân i drefn y llinellau yn y cwpled *'O thorrir unwaith irwydd|Ef â'n goed o fonau gwŷdd'* yn fersiynau I, J a T. Yr un yw cynnwys y gerdd yn L a Z, ond ceir mwy o wahaniaeth yn nhrefn y cwpledi yn y ddwy enghraifft hyn.

Pedair llinell ar ddeg a thrigain sydd i fersiwn K. Dilyn y fersiwn hwn batrwm A a H ac eithrio bod y cwpled *'Gŵyl Yswitan amdanaw|Oedd i'n gwlad gan ddinau glaw'* wedi'i hepgor. Ceir hefyd bedair llinell ar ddeg a thrigain yn enghreifftiau'r gerdd yn C, D, U a V; maent yn gyson o ran cynnwys a threfn, ond yn wahanol i fersiwn K. Ni cheir y cwpledi *'Ac yr oedd i'w hynaf ras|A braint teml gerbron Tomas'* a *'Fy nghun ef a ddymunir|Y keidw ei oes fel coed ir'*, ond cynhwysa'r bedair enghraifft hyn y cwpled *'Ac eilchwyl o'i hen gilchwyrn|Ir difiog coch dyfu cyrn'*.<sup>315</sup>

Penderfynwyd defnyddio enghreifftiau C, D, U a V fel patrwm i'r fersiwn golygedig.

*Duw a roes nid yw (oedd) resyn (Rhif 20: Cywydd i anfon y lleuad i chwilio am Rhys ac Ithel ab Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda, a hwythau'n garcharorion mewn castell)*

Cynhwysir y cywydd hwn mewn deg o llawysgrifau, sef LIGC 17113E [= Gwysanau 24]; LIGC 3037B [= Mos 129]; LIGC 8497B; LIGC 3049D [= Mos 146]; BL Add 14978; Card 4.101 [= Rwm 83]; Llst 122; LIGC 3027E [= Mos 96]; Card 4.10 [= RWM 84]; BL Add 31072. Priodolir y gerdd i Rys Goch Glyn Dyfrdwy ym mhob un ac eithrio BL Add 14978, lle cynigir Hywel Cilan.

Pedair llinell ar ddeg ar hugain sydd i'r gerdd yn ôl y fersiynau yn llawysgrifau BL Add 31072 a BL Add 14978, ac er bod rhywfaint o ddiwygio orgraff yn BL Add 31072, y mae cysondeb cynnwys, trefn a nifer y llinellau, yn awgrymu y gallai fod yn seiliedig ar y copi yn BL Add 14978. Ar y llaw arall, chwech a deugain o linellau a geir yn llawysgrif LIGC 3027E, gan gynnwys holl linellau'r ddwy flaenorol, er bod ychydig o wahaniaeth yn nhrefn y llinellau hyn. Pedair a deugain o linellau sydd i'r gerdd yn ôl gweddill y llawysgrifau (gan gynnwys yr hynaf), a'r

<sup>314</sup> Llinellau 49 – 50 yn y llawysgrifau hyn.

<sup>315</sup> Llinellau 45 – 6 yn y llawysgrifau hyn.

rhain yn gyson o ran cynnwys a threfn y llinellau. Seilir y fersiwn golygedig ar gynnwys y llawysgrifau hyn.

*Mi awn draw myned yr wyf (Rhif 21: Cywydd moliant i bum mab Llywelyn ap Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed, Bodedern, Môn)*

O'r un copi ar ddeg ar hugain a geir yn y llawysgrifau, mae un heb enw'r bardd, un yn ansicr, un yn enwi Rhys Goch ac un yn enwi Rhys Goch Eryri. Y mae'r gweddill yn enwi Rhys Goch Glyndyfrdwy.

*Rhwydda gŵr hawdd ei garu (Rhif 22: Moliant i Rosier ap Siôn (Pilstwn) o Emral ym Maelor Saesneg)*

Cywydd moliant yw hwn i Rosier ap Siôn Pilstwn, ac fe'i priodolir i Rys Goch Eryri yn yr unig llawysgrif y ceir y cywydd ynddi. sef LIGC 6471B, 187. Ni all y gerdd hon fod yn waith dilys Rhys Goch Eryri, fodd bynnag, o ystyried cyfnod tebygol y cyfansoddi ynghyd â thystiolaeth fewnol y gerdd ei hun, a chytunir yma â barn Dylan Foster Evans mai gwaith Rhys Goch Glyndyfrdwy yw'r cywydd.<sup>316</sup>

*Y carw serch y cywiriaid (Rhif 23: Cywydd i ofyn dau hyddgi gan Siencyn ab Ieuan ap Llywelyn o Blas yn Iâl dros Siôn Hanmer o'r Llai)*

Cadwyd ffurfiau cyflawn y gerdd hon mewn pedair llawysgrif ar ddeg, sef LIGC 3051D [= Mos 148], sy'n cynnwys dau gopi o'r gerdd; LIGC 3049D [= Mos 146]; Wy 1; Card 3.37 [= RWM 20]; BL Add 14971; LIGC 21248D; Llst 124; Pen 184; LIGC 3044B [= Mos 136]; Pen 198; Pen 239; LIGC 10748D; BL Add 10313; BL Add 31095. Cadwyd y ddau gwpled cyntaf yn unig ar waelod tudalen 5<sup>v</sup> yn llawysgrif LIGC 644B (ar y dudalen nesaf dechreuir ar gywydd newydd). Ceir y cwpled cyntaf yn llawysgrif Pen 221, a chyfeiriad arall yn llawysgrif J 140 [= RWM 15], Coleg yr Iesu, Rhydychen.

Dengys copiwr Wy 1 gryn ansicrwydd ynghylch awduraeth y cywydd, ac yntau'n enwi Rhys Goch Glyndyfrdwy, Robert Leiaf ac Ieuan ap Tudur Penllyn fel awduron dichonadwy. Tudur Penllyn piau'r gerdd yn ôl copiwr BL Add 31095, BL Add 10313, LIGC 3044B (er bod nodyn ar ymyl chwith y ddalen gyntaf yn ei briodoli i 'Rhys Goch ab Dafydd'), BL Add 14971 a LIGC 3049D. Nid oes enw yn LIGC 644B, ac yng ngweddill y llawysgrifau (deg gan gynnwys y ddau gopi yn LIGC 3051D), priodolir y gerdd i Rys Goch Glyndyfrdwy yn unig. Yn ei lyfr ar waith Tudur Penllyn

---

<sup>316</sup> Gweler GRhGE, t. 39.

ac Ieuan ap Tudur Penllyn,<sup>317</sup> daw Thomas Roberts i'r casgliad mai gwaith Rhys Goch Glyndyfrdwy yw'r gerdd hon, ac ni welir rheswm dros amau hyn.

Ymysg y copïau cyflawn, ceir dwy linell a thrigain yn achos un ar ddeg ohonynt, a'r rhain yn gyson o ran cynnwys a threfn. Ceir trigain llinell yn achos tri arall. Mae cyflwr y dalennau perthnasol yn llawysgrif Wy 1 yn wael iawn, a safon y copïo hefyd yn wael, gyda chryn ansicrwydd ynghylch trefn arfaethedig y llinellau. Ymddengys mai chwe llinell a thrigain sydd i'r gerdd yn ôl y copïydd, gan gynnwys dau gwpled nas ceir mewn unrhyw enghraifft arall. Ar sail yr ystyriaethau hyn, bernir y dylid defnyddio'r ffurf dwy linell a thrigain ar gyfer y fersiwn golygedig.

*Y mae hiraeth i'm hoeri (Rhif 24: Cywydd hiraeth am Rhosier ap Siôn Pilstun ac Emral)*

Pedair enghraifft ar ddeg o'r cywydd hwn a geir yn y llawysgrifau, deuddeg yn priodoli'r gerdd i Rys Goch Glyndyfrdwy a dwy (sef A ac M isod) yn ei phriodoli i 'Rhys Goch' (er bod llaw arall yn achos enghraifft M yn ychwanegu enw Rhys Goch Glyndyfrdwy).

### **Cerddi annilys**

*Dy aelïau yw'r hudolion*

Un enghraifft yn unig o'r cywydd serch hwn a geir yn y llawysgrifau, sef ym Mheniarth 115 (tudalen 53). Fersiwn o'r cywydd *Y ferch a gerais yn faith* o waith Bedo Aerddrem yw llinellau 15 – 52,<sup>318</sup> a cheir llinellau 1 – 14 o'r cywydd dan sylw fel llinellau 41 – 54 o'r cywydd *Gwen dlos ag anadl isel* o waith yr un Bedo.<sup>319</sup> Felly ni ellir ystyried y gerdd hon yn waith dilys Rhys Goch Glyndyfrdwy.

*Hywel wyd fyw, hael hyd fedd*

Cywydd sy'n dathlu dianc Hywel ab Einion ap Hywel Coetmor o frwydr Bambri (1469) yw hwn. Dim ond mewn dwy lawysgrif y priodolir y cywydd i Rys Goch Glyndyfrdwy, sef LlGC 17114B [=Gwysanau 25], 221 a LlGC 3050D [= Mos 147], 2; y mae'r rhan fwyaf yn ei briodoli i naill ai Hywel Rheinallt neu Ieuan Llwyd Brydydd. Cafwyd golygiad llawn gan Dr. M. Paul Bryant-Quinn fel rhan o waith Ieuan Llwyd Brydydd: gweler GIapLlF, tt. 81 – 86, 115 – 18. Gweler hefyd GHC, t. xviii.

---

<sup>317</sup> Roberts, Thomas, Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn, Gwasg Prifysgol Cymru (1958), xxvii a xxxvii.

<sup>318</sup> Gweler er enghraifft, Stephen, Robert, 'The Poetical Works of Bedo Aerddrem, Bedo Brwynllys and Bedo Phylip Bach' (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru [Bangor], 1907), t. 222; .

<sup>319</sup> Gweler Donovan, P. J. (gol.), *Cywyddau Serch y Tri Bedo* (Caerdydd, 1982), tt. 17-18.

*Mae gwahodd im a gohir*

Moliant i Wiliam ap Gruffudd o Gochwillan yw'r cywydd hwn. Ceir copïau ohono mewn dwy lawysgrif ar hugain yn ôl MCF, ac yn un ohonynt fe'i priodolir i Rys Goch Glyndyfrdwy (Pen 100, 403). Fe'i hystyrir yn waith dilys Guto'r Glyn yn GGGI (tt. 261 – 2, 358) ac ar y wefan [www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net) (cerdd 55).

*Meddyllo am addoli*

Yr un yw'r cywydd hwn â'r un a drafodir yn 'Gwaith Syr Siôn Leiaf', er bod y llinell gyntaf (*Meddyllo am urddoli*) yn ychydig yn wahanol yn y fan honno. Ystyrir y cywydd yn waith Siôn Cent yn IGE, IGE<sup>2</sup> a BU.

### **Cerddi ac iddynt awduraeth ansicr**

*Gwaith anorffen sydd (sy) gennyf*

Priodolir cywydd brud sy'n dechrau â'r llinell uchod i Robin Ddu o Fôn (LIGC 3077B, 87), i Syr Dafydd Trefor (BL Add 31057, 67<sup>r</sup>), ac i Ddafydd Llwyd o Fathafarn (BL Add 14892, 97<sup>v</sup>).<sup>320</sup> Fodd bynnag, cywydd sy'n gorffen â'r llinell '*Dydd sias a diwedd Saeson*' yw hwnnw.<sup>321</sup>

Cywydd ynghylch rhwystrau serch sydd dan sylw yma. Ceir tair enghraifft lawysgrifol ar hugain, sef:-

A—Pen 64, 85 B—CM 5, 415 C—LIGC 722B, 82 D—LIGC 834B, 93 E—Card 2.68 [= RWM 19] ii, 195 F—J 138 [=RWM 16] ii, 85 G—LIGC 5269B, 125 H—CM 27, 391 I—CM 27, 392 J—BL Add 14874, 59 K—Llst 14, 156 L—Llst 16, 17 M—Wynnst 2, 238 N—Pen 198, 58 O—Ba 13512, 231 P—Llst 133, 513 Q—Llst 166, 67 R—BL Add 14870, 371<sup>r</sup> S—Ba 6, 514 T—Card 4.10 [=RWM 84], 1087 U—CM 10, 170 V—CM 381, 81 W—LIGC 670D, 441.

Y mae pob enghraifft, ar wahân i A, yn gorffen â'r llinell *Fedru ei chelu a'i chael*. Gwahanol iawn yw ugain llinell olaf enghraifft A, fel y gwelir isod.

Priodolir y cywydd i Rys Goch Glan Ceiriog yn B, D, E, G, I, J, N, O, U a V; i Ddafydd ap Gwilym yn A, K ac L; i Fedo Brwynllys yn C, H a T; i Rys Goch Glyndyfrdwy yn M ac W; i Rys Goch yn F; i Fedo Brwynllys neu Rys Goch Glan Ceiriog yn P, Q, S; i Ddafydd ap Gwilym neu Fedo Brwynllys neu Rys Goch Glan

---

<sup>320</sup> Golygwyd y cywydd hwn gan Rhiannon Ifans yn GSDT, tt. 97 – 9, 209 – 15.

<sup>321</sup> Dyma hefyd linell olaf y cywydd brud sy'n dechrau â'r llinell '*Dilid (neu Dilyn) y broffwydoliaeth*', a briodolir gan rai i Ieuan ap Gruffudd Leiaf a sawl bardd arall. Gweler yr adran *Gwaith Ieuan ap Gruffudd Leiaf* uchod.

Ceiriog yn R. Fe'i cynhwyswyd yn BDG,<sup>322</sup> eithr nis ceir yn DGG<sup>2</sup>, ac yn GDG y mae Syr Thomas Parry yn ei wrthod fel gwaith dilys Dafydd ap Gwilym.

Ceir dau gopi yn llawysgrif CM 27 (1630), un ohonynt (sef H) yn gywydd 42 linell, a briodolir i Fedo Brwynllys, a'r llall yn gywydd 56 linell (sef I), a briodolir i Rys Goch Glan Ceiriog. Ar wahân i fân wahaniaethau orgraffyddol ac ychydig newid yn nhrefn y cwpledi, enghraifft I gyda saith cwpled wedi'u hepgor yw enghraifft H.

Cynhwyswyd enghraifft R yn nhraethawd M.A. Robert Stephen (Robin Eryri) ar waith barddonol y Tri Bedo.<sup>323</sup> Yn y llawysgrif, y mae'r copiwr yn cynnig Dafydd ap Gwilym, Bedo Brwynllys a Rhys Goch Glan Ceiriog fel awduron posibl y cywydd (er nad yw Robert Stephen ond yn nodi enw Dafydd ap Gwilym).

Amrywia nifer y llinellau yn yr enghreifftiau gwahanol fel a ganlyn:-

<b>Nifer y llinellau</b>	<b>Nifer y llawysgrifau</b>	<b>Y llawysgrifau</b>	<b>Nodiadau</b>
58	1	A	Ll. 2: <i>gorau crefft...</i> Diwedd gwahanol (20 llinell olaf)
56	2	I, Q	52 ll. + dwy ddihareb
52	6	B, D, G, N, O, P	Ll. 2: caru <i>beunydd</i>
50	3	E, J, U	Ll. 2: E—caru <i>crefft</i> ; J, T—caru <i>beunydd</i>
46	1	T	Ll. 2: caru <i>crefft</i>
44	1	C	Ll. 2: caru <i>crefft</i>
42	6	H, K, L, M, R, S, V, W	Ll. 2: caru <i>crefft</i> ac eithrio M— <i>kreft</i> H— <i>beunydd</i>
36	1	F	Ll. 2: karv <i>krest</i>

Dyma'r unig gerdd a briodolir yn y llawysgrifau i'r bardd Rhys Goch Glan Ceiriog. Ni olygir y cywydd hwn yma.

<sup>322</sup> BDG, tt. 240 – 1.

<sup>323</sup> Stephen, Robert, 'The Poetical Works of Bedo Aerddrem, Bedo Brwynllys and Bedo Phylip Bach' (Traethawd M.A. Prifysgol Cymru [Bangor], 1907), t. 261.

## 19. Marwnad Siôn ap Rhosier, mab Rhosier ap Siôn Pilstwn o Emral

- Blin ydyw gan blanedau  
Yn troi oes dyn i'n tristáu.  
O ddeuddeng arwydd blwyddyn  
4 A'i deuddeng mis, dewis dyn,  
Ni wnaeth un flwyddyn i ni  
Elyniaeth ond eleni.  
Am a wnaeth ynn, im ni thau,  
8 O'i misoedd y mae eisiau.  
Nid Rhagfyr am eryr mawr  
A'n diwynodd, ond Ionawr.  
Calan llawen am bennaeth  
12 Yn drais mawr drosom a aeth.  
Bore y daeth heb awr daw  
I ni Ystwyll annistaw.  
Gŵyl oer i ddwyn galarwisg,  
16 Oera' gŵyl i wŷr a'i gwisg.  
Un mab, ond y Gŵr a'n medd,  
Gorau aeth i'r drugaredd:  
Siôn, deg ei waneg a'i wên,  
20 Ap Rhosier, fwa presen.  
Ei ddaearu oedd irad,  
A'i ddwyn o dai'i addwyn dad.  
Ef aeth i gynnal ei fyd  
24 A'i frig aur i fro gweryd  
A gwialen i'w galyn,  
A chroes ac arch, a chrys gwyn.

Galw yr wyf am fymgeledd,  
28 Siôn fyth, a chusanu'i fedd,  
A thybied y'm gwrthebai  
Yn y bedd, pe yno bai.  
Os mud heb ddoedyd ydyw,  
32 Nid oedd fud pan ydoedd fyw.  
Os gyda'r saith gysgadur  
A fu'n faith dan faen o fur,  
Os huno mae, naws anhun,  
36 Och wŷr y byd, hyd yw'r hun.  
Och fawrDduw, na châi feirddion  
Salmau tad Selau i Siôn.  
Pan dorrwyd oll, poen drud oedd,  
40 Bron Iesu, Brenin oesoedd,  
Calonnau prennau fel pres  
Yn y deri a dorres.  
Gŵyl Yswitan amdanaw  
44 Oedd i'n gwlad gan ddinau glaw,  
Ac eilchwyl o'i hen gilchwyrn  
I'r difiog coch dyfu cyrn.  
Pob calon am Siôn y sydd  
48 Yn ysig ac yn uswydd.  
Os oer emylau'r lleuad,  
Oerach yw bron don ei dad.  
Beth oeraï wŷr yn y byd?  
52 Byw'n ôl heb ei anwylyd.  
Beth o brudd a'i dyhuddai?  
Bod ei fab yn fyw bed fai.

- Ystyried fy mhost dewrwyd,
- 56 Er bwrw un gainc, barwn gwych,  
Er torri brig caterwen,  
’E dyf brig i’r difai bren.  
O thorrir unwaith irwydd,
- 60 Ef â'n goed o fonau gwŷdd.  
O bwrw ei ddail, ebrwydd waith,  
Deilio a wna’r coed eilwaith.  
Diau fel mab i dēyrn
- 64 Y bwrw yr hen garw ei gyrn,  
Ac y rhoddir carw rheiddiog  
Erbyn Awst ar ei ben og.  
Oeres gwlad a fu araul,
- 68 Aeth ystlys Powys heb haul.  
O dewisodd Duw Iesu  
Siôn a’i fam, da iesin fu,  
Rhoed i’r tad o lwyth Adam
- 72 Ar ei ôl fab o’r ail fam,  
Ac i’r ail rhoi gwroliaeth,
- 74 A rhoi nef i’r hwn a aeth.

### *Ffynonellau*

A—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 180 B—Pen 82, 98 C—LIGC 3051D [= Mos 148], 239 D—LIGC 8497B, 182a E—BL Add 14977, 57a F—Pen 84, 247 G—BL Add 14866, 261b H—LIGC 5272C, 35b I—Brog 1.2, 473r J—Bodewryd 1, 312 K—BL Add 24980, 95a L—CM 312, 24 M—BL Add 14978, 137b N—Llst 135, 19 O—Pen 112, 819 P—LIGC 727D, 198 Q—Card 4.101 [= RWM 83], 182a R—Pen 89, 8+1 S—LIGC 552B, 137b T—J 101 [= RWM 17], 632 U—Card 3.37 [= RWM 20], 73 V—Llst 124, 189 W—LIGC 644B, 141 X—Pen 198,



138 Y— LIGC Mân Adnau 1206 [= Tanybwlech], 269 Z—CM 11, 285 AA—LIGC 1706B, 96.

*Trefn y llinellau*

A, H: 1-16, 43-44, [45, 46], 17-22, ‘ac yroedd yw hynaf ras| a braint temyl garbron tomas’, 23-32, 35-36, 33-34, 37-42, 47-48, 67-68, 49-58, ‘vynghvn ef a ddamvnir|y keidw i oes val koed ir’, 59-66, 69-74 (76 o linellau).

B: 1-8, [9, 10], 11-42, [43-50], 51-74 (64 o linellau).

C, D, U, V: 1-74 (74 o linellau).

E: 1-16, 43-44, 17-42, [45-48], 67-68, 51-54, 49-50, 55 – 66, 69-74 (68 o linellau).

F: 1-16, 43-44, 17-22, ‘ag yr oedd yw hynaif ras| abraint temyl garbron tomas’, 23-32, 35-36, 33-34, 37-42, [45, 46], 47-48, ‘fo a wyled am filwyr| fo r hallt athynv gwallt gwyr’, 67-68, 49-58, ‘fynghvn ef a ddamvnir| i keidw i oes fel koed ir’, 59-66, 69-74 (78 o linellau).

G: 1-16, [17, 18], 43-44, [45, 46], 19-42, 47-48, 67-68, 49-66, 69-74 (70 o linellau).

I, J: 1-16, 43-44, 17-22, ‘ac yroedd yw hynaf ras| a braint temyl garbron tomas’, 23-32, 35-36, 33-34, 37-42, [45, 46], 47-48, 67-68, 49-58, ‘vynghvn ef a ddamvnir|y keidw i oes val koed ir’, 60, 59, 61-66, 69-74 (fel A, H ar wahân i drefn llinellau 59-60) (76 o linellau).

K: 1-22, ‘ac yroedd yw hynaf ras| a braint temyl garbron tomas’, 23-32, 35-36, 33-34, 37-42, [43-46], 47-48, 67-68, 49-58, ‘fynghvn ef a ddamunir|y keidw i oes fal koed ir’, 59-66, 69-74 (74 o linellau).

L: 1-16, 43-44, 17-20, 23-26, 21-22, ‘i roedd yn hynaf o ras| a braint aml garbronn tomas’, 27-32, 35-36, 33-34, 37-42, [45, 46], 47-48, 67-68, 49-56, ‘fynghvn efo a ddamvnir| i ceidw i oes fal coed ir’, 57-66, 69-74 (76 o linellau).

M: 1-66, [67, 68], 69-74 (72 o linellau).

N: 1-16, 43-44, 17-20, 23-32, 35-36, 33-34, 37-38, 21-22, 39-42, [45, 46], 67-68, 47-66, 69-74 (72 o linellau).

O: 1-16, 43-44, 17-42, [45, 46], 47-48, 67-68, 49-66, 69-74 (72 o linellau).

P: 1-44, [45, 46], 47-74 (72 o linellau).

Q: 1-44, [45, 46], 47-58, [59, 60], 61-74 (70 o linellau).

R: 1-16, 43-44, 17-32, [33-36], 37-42, [45, 46], 47-48, 67-68, 49-58, ‘ynghvn ef a ddymynir|ceydw i oes fel coed ir’, 59-66, 69-74 (70 o linellau).

S: 1-16, 43-44, 17-20, [21, 22], 23-38, [39-42], [45-48], 51-54, [55, 56], 67-68, 49-50, 59-60, 57-58, [61, 62], 63-66, 69-74 (60 o linellau).

T: 1-16, 43-44, 17-22, ‘ir oedd yw hynaif dras|a braint aml garbron tomas’, 23-32, 35-36, 33-34, 37-42, [45, 46], 47-48, 67-68, 49-58, ‘fynghvn ef a ddamynir|i keidw i oes fal y koed ir’, 60, 59, 61-66, 69-74 (fel A, H ar wahân i drefn llinellau 59-60) (76 o linellau).

W: 1-16, 43-44, 17-20, [21, 22], 23-38, [39-42], [45-48], 51-54, 67-68, 49-50, [55-56], 59-60, 57-58, [61-62], 63-66, 69-74 (60 o linellau).

X: 1-16, 43-44, 17-22, ‘ag i roedd iw hynaf rês|a braint teml garbron Tomas’, 23-32, 35-36, 33-34, 37-42, [45-46], 47-48, ‘E fo wyled am filwÿr|for hallt a thyny gwallt gwyr’, 67-68, 49-58, ‘fynghvn ef a ddymynir|i ceidw i oes fal coed ir’, 59-66, 69-74 (78 o linellau).

Y: 1-16, 43-44, 17-22, ‘Ag ir oedd yw hynaf rês|A braint teml gar bron Tomas’, 23-32, 35-36, 33-34, 37-42, [45-46], 47-48, ‘[ ] fo wyled am filwyr|[ ]allt a thynny gwallt gwyr’, 67-68, 49-58, ‘Fy nghwyn ef a ddyminir|I ceidw i oes fal coed ir’, 59-66, 69-74 (78 o linellau).

Z:<sup>324</sup> 1-16, 43-44, 17-20, 23-26, 21-22, ‘Yr oedd yn hynaf rês|A braint teml gar bron Tomas’, 27-32, 35-36, 33-34, 37-42, [45, 46], 47-48<sup>325</sup>, 67-68, 49-56, ‘Fy nghun ef a ddymunir|Y ceidw ei oes fel coed ir’, 57-66, 69-74 (76 o linellau).

AA: 1-32, [33-36], 37-38, [39-46], 47-48, 67-68, 49-58, ‘Fy Nghûn ef a ddymunir|Y ceidw ei oes fel coed ir’, 60, 59, 61-66, 69-74 (64 o linellau).

### *Darlleniadau Amrywiol*

**1** B, C, E, F, J, K, L, P, Q, U, W, X: blaenedav; M: blaynedav; O: [ ] gan blanedau; R: Blin ydoedd; S: [ ]n ydiw gan blaenedav; (Z: *ydyw* wedi'i danlinellu ac *ydym* uwchlaw mewn llaw ddiweddarach); **2** B, C, H, U, V: yn tori; D: torri; G, O: yn treio; M: treio oes dyn in tristay; N: droi oes dyn vn tristay; S: [ ]n tristav; W: troi oes dyn ein tristav; **3** C, H, K, M, N, P, U, V: harwydd; E: ddevddec arwydd y

---

<sup>324</sup> Ychwanegwyd newidiadau a nodiadau helaeth i'r testun gwreiddiol mewn llaw a ymddengys yn ddiweddarach. Nodir hwynt yn yr adran *Darlleniadau Amrywiol*.

<sup>325</sup> Awgrymwyd gan y llaw ddiweddarach y dylai'r cwpled ‘Efo wylwyd gan filwÿr|for hallt a thyny gwallt gwyr’ ddod ar ôl llinell 48.

flwyddyn; F: harwydd flwydd; G, O, W: deuddeg arwydd y flwyddyn; I, J, R, T, AA: o ddevddeg; L, Z: gan ddevddeg; P: harwydd blwyn; S: [ ]arwydd y flwyddyn; X, Y: y flwyddyn; **4** D, L, V, Z, AA: ai deūdddeg; E: ai ddevddec mis yn dewis dyn; G, O: a deuddeg mis; I, J, T, W: o ddevddeng; P: ai ddevddeng; S: [ ]mis dewis dyn; Y: Oi deuddeng; **5** B: i mi; C, D, S: ni naeth; E: ni wnaeth ni wnaeth vn flwyddyn [ ]; L, P, Q, U, V, X, Y, Z: a ni; R: vn blwyddyn; W: ni neth; **6** E, I, J, M, T, AA: hyd yleni; P: ylyniaeth ond y leni; **7** A, B, E: mi nithav; C, D, F, G, H, I, J, K, L, M, O, Q, R, S, T, U, Z: mi ni thav; N: Am y naeth hon mi ny thay; P: am a wnaeth vm vn ne ddav; U: am a wnaeth ynn mi ni thai; W: am neth vn mi ni thav; X: Am y wnaeth vn min ni thaü; Y: yn nyni ni thau; AA: min ni thau; **8** M: oi missoedd mae yn eissia; N, U, V: y mayn eissia; S, W: may ym eisav; **9** F: rraagfyr; K, M, N, R: Ragfyr; W: yr eryr; **10** C, I: diwnodd; D: am diwynodd; L, Z<sup>326</sup>: an diwnodd onid ionawr; M: am diywnodd onid Ionawr; N: yn difwynoeth; P, U, V: onid ionawr; R, T: am diwnodd; S: nin diwynodd onid ionawr; W: nin diwynodd; **11** O: Kalan lawen; S, W: kalan llawen fv yn penaeth; T: kalon; X, Y: am beniaeth; **12** A, E, F, G, H, I, J, O, R, T, W: drosom aeth; B: o drais mawr drosom aeth; C, M: heb drais mawr drosom aeth; D: eb drais mawr drosom aeth; N, U: O drais mawr drossom aeth; P: i aeth; Q: o drais mawr drossom i aeth; V: o drais; **13** A, E, G, K, L, N, O, T, V: y bore y daeth heb awr daw; B, D: eb awr; H, I, J, M, P, Q, S, T, W, Z, AA: y bore doeth; R: bore doeth; **14** C: ysdwyll; D: ysdwyll anisdaw; F: ystwyllt; S: [ ]ni; W: imi; **15** D: gwyl; J: gwyr; N: y roi galarwisk; **16** A: ora gwyl; D: gwyl; E: ir gwyr ai gwisc; M, U, V: i wr; N: y gwisk; **17** A, F, M, R, S, W, X, Y: y mab; E: [ ] mab; G, H, I, J, K, L, O, T, Z, AA: y mab ond y gwr ai medd; N: y mab ond y gwr yn medd; **18** O, S, AA: i drugaredd; **19** A, S: john dec; AA: ai waneg; **20** A: vap Roeser; B: fab Roser fwar presen; C: ab proisier; E: fab Roesier fwia presen; F, S: fab rroessier; G, O: ai fwa; I, J, T: fab rhosser; K, N: vab Roessier; L, Z<sup>327</sup>: fowyd pressen; M: fwa p[ ]; P, Q: ap Roisier; R: fab Roeser fwya bressen; U: ab Roisier; W: fab Rosier fwya presen; X, Y: fap Rossier fwya presen; AA: fab Rhosier; **21** M: i dday ary oedd [ ]; N: y ddayaryf oedd eirad; O: Ei ddayaru oedd [ ]d; R: eirad; **22** A, E, G, H, J, L, P, Q, U, V, Z: i addwyn dad; I, T: addwyn i dad; M, AA<sup>328</sup>: o dy; N: y ddwyn; O: ai ddwyn o da[ ]wyn dad; **23** F, K, L, N, R, X, Y, Z, AA: fo aeth; O: Ef aeth i gynn[ ]yd; W: Ef a aeth; **24** B, C, D, M, Q, S, U, V: o frig avr; J, T: i fro gwryd; O: ai vric aur [ ]gweryd; S: i fro a gweryd;

<sup>326</sup> Ychwanegwyd *An diwynodd ond Ionawr* ar ochr dde'r llinell.

<sup>327</sup> Y gair *fywyd* yn y testun gwreiddiol wedi'i danlinellu a'r gair *fwyaf* wedi'i ychwanegu ar ochr dde'r llinell.

<sup>328</sup> Yn llawysgrif AA, ychwanegwyd *Bu farw Sion o vlaen ei Dad. qu* ar ochr dde'r llinell hon.

**25** A, R: a gwialen aeth y galyn; B, E, P, Q: gwialen aeth yw galyn; C, F, K, M, W, X, Y, Z: a gwialen aeth yw galyn; O: A gwialen y[ ]lyn; **26** M: ach roes; O: a chroes ac a[ ]rys gwynn; R: a chroes a galch; **27** B: galw rwyf am fam geledd; E, L: galw y bvm; H, P, AA: galw rwyf; J: galw awyf; M: galw rwy; N, X, Y: galw ydd wyf; O: Galw ir wyf [ ]ymgeledd; W: galwy; Z: Galw bum; **28** D, X, Y: chûsanû vedd; O: Sion vyth a [ ]sanu ei vedd; V, W: ei fedd; **29** E: a thybio; D: a in gwrthebai; G: ai tybied nam attebai; M: athybiaid nam gwrthebae; N, X: ym hatebai; O: Ai tybied na[ ]bai; P: a thybiaid nad gwrthebai; Q: yn tybiaid im attebai; U, V, Y: im atebai; **30** A, C, I, J, L, Q, S, T, U, W, X, Y: y bai; B: pei yn i bai; E: sion or bedd os yno bai; F, H, P, V: yny bedd pe yno i bai; G, K, N: Sion or bedd os yno i bai; M: pei yno ba[ ]; O: Sion or be[ ]yno i bai; R: sion or bedd pei yno i bay; **31** A, C, E, G, I, K, N, T, AA: heb ddywedvd; B, F, H, J: heb ddwedvd; D: eb ddwedûd; O: Os mud heb ddy[ ]yd ydyw; S, W: mvd heb ddwydvd ydiw; X: heb ddweydyd; (Z: Y geiriau *twyll gynghanedd* wedi'u hychwanegu ar ochr dde'r llinell hon); **32** A: ni byddai vvd pan oedd vyw (neb ar ddiwedd y llinell); B, I, J, L, T, U, V, Z, AA: ni byddai fvd ban oedd fvw; C: ni byddai fvd pe bai fyw; D: ni byddai vûd be bai vyw; E: nid ai yn fvd yn i fyw; F: ni bydd ai fvd pen oedd fyw; H, K, N, X, Y: ni byddai fvd pan oedd fyw; M: ni byddai vvd bei bai vyw; O: nid oed fud pan [yd]oedd vyw; P: ni byddai fvd pe bai byw; Q: ni byddai fvd be bai byw; R: ni bydda fvd pen oedd fyw; S: ni doedd yn fvd pan oedd fiw; W: nid oedd yn fyd pen oedd fyw; **33** B: faith gysgadwr; E: gida y saith; G, H: gysgiadur; N: os gyda yr saith kysgadyr; O: Os gida r saith[ ]adur; **34** A, F, M, U, V: a vv yn vaith; B: dann faen a fvr; E: a [ ] yn faith dan faen ne fvr; G: dan y faen für; I, J, K, T: a fy n faith; L, Z: a fv n faith dan faen ne fvr; N: y vyn faith dan faen o vyrr; O: a fu n faith d[ ] y faen fur; S, W: yno yn faith dan faen ne fyr; Y: dan fain o fur; **35** B, C, D, P, Q, U, V: dann naws anv n; E: [ ] yn oes anv n; G, S, W: os yno mae naws annyn; M: os yno dan naws anv n; N: mew n naws annyn; O: Os yno mae n[ ]annun; **36** B: hyd yw hv n; G: och wyr byd; M, S: hyd i hv n; W: hyd yw ei hv n; **37** C: och wir fair na chae feirion; D: och wirddû n; M: nach ay; P: och fair am na chae feirion; R: och wirddü w; S: och wir ddvw nach[ ]y feir[ ]; U, V: och wir ddvw nae chae feirddion; W: och wir dduw na chyfeirieddion; Y: na chane feirddion; **38** C: psalmav; E: tad seliav sion; I, J, T: a sion; L, Z: att sion; N: sawlmedd tad seledd if ion; O: psalmaw; R, U, V: selav sion; S, W: dad selav; (AA: ychwanegwyd *Salmau Dafydd, yr hwn oedd Dad i Solomon – Selyf – Selau* ar ochr dde'r llinell hon); **39** A, F, H, I, J, K, T, X, Y: pan dored; B: pan dored oll peun drvd oedd; C: pan dorres oll pen drvd oedd; D, Q, V: pan dorred oll pen drûd oedd; G, O: pan dryd oedd; N: pen dorred oll pyn dryd oedd; P, U: pann dorred oll pan drvd oedd; R:

pen dorred; **40** B: bron iesv briwiau oasoedd; D, F, G, H, I, J, O, T, X, Y: vronn Jesu vrenin oesoedd; R: pvrion Iesv; (Z: Tanlinellwyd *Bron a Brenin* yn y testun gwreiddiol, ac ychwanegwyd *Fron a frenin* ar ochr dde'r llinell hon); **41** C: klonav; E: preniav pres; F, X, Y: kalonav r prenav; G: calonnau ~~fa~~ prennau pres; H, P, Q: prenniav; L, Z<sup>329</sup>: ar pres; **42** A, F: yn y derw yna a dores; E: yn y deri yna a dores; H, I, J, T, X: yn y derw yna dorres; K: yn y derw yno dores; N: nny deri yna y dorres; P: yn y deri yna dores; Q: yn y deri yno dores; Y: yn y derw yno a dores; (Z: Y llinell wreiddiol, sef *Yn y deri a dores*, wedi'i thanlinellu, ac *yn y derw yma dores* wedi'i hychwanegu ar ochr dde'r llinell); **43** A: gwyl switan; F: yscwitan; S: ystwidan; U: [g]wyl; W: ystwydai; **44** A: im gwlad; C, D, U, V: gan ddinam glaw; E: gan [ ]; F: yn ddine glaw; G, O: ar ddineu glaw; I, T: ddefniav glaw; J: ddafnav glaw; N: genddinef glaw; P, Q: gann ddinad glaw; R: am ddinaw glaw; S: yn gwlad gan ddinad agylaw; W: mewn gwlad gan nad ag wylaw; X: yn ddyddie glaw; Y: yn ddiwrnod glaw; **45** C: ag eilchwedel; M: ag eilchwel oi hein gylchwyrn; U, V: eilchwel; **46** C: ir difiog hen dyfv kyrn; D, U, V: hir dyfû cyrn; **47** R: [ ]alon am sion y sydd; **48** M: ag yn wysswydd; **49** D, F: emyleûr lleûad; E: ymylav i llevad; N: emyle yr lleyad; O: Os oer emylau r [ ]; R: os oer yw y mylav yr lleûad; **50** O: oerach yw bron d[[n ei dad; R: tad; S, W: dy dad; **51** A, E, F, K: beth i wr oera yn y byd; C, M, P, Q, S, U, V, W: beth oera i wr yn y byd; G: beth fydd oera yn y byd; H, I, J, T, X, Y: beth i wr oera n y byd; L, Z<sup>330</sup>: ba oer i wr yn y byd; N: beth y wr oyra ny byd; O: Beth fydd oera [ ]; R: beth yw r oera yn y byd; AA: Hir iawn boen – oer yn y byd; **52** E, F, I, K, N, R, S, T, U, V, W, AA: byw yn ol; M: byw yn ol i anwylyd; O: byw n ol heb [ ]; **53** A, E, H, J, L, Y, Z<sup>331</sup>, AA: beth vy nvdd; F: beth fy nvdd ai dy hvddai; G: beth weithiau ai diddanai;<sup>332</sup> I, T: beth yn nydd; K, R: beth bevnvdd; N: beth y nydd ay dehyddai; O: Beth o brud [ ]; S: beth yn ydd; W: beth y nydd; X: Beth (n) fy nydd ai dyhyddaü; **54** A, H, K, X, Y, AA: ped vai; C: pe bai; D, U, V: be bai; F: ped faai; N: byd vai; O: bod ei fab y[ ] fai; **55** B, C, D, Q, U, V: ysdyria; E: ystyria fy mhost irwych; F, K, X, Y: evrwych; G: ystyria yngwas dewrwych; H: ystyriaid; I, J, T: fynghost; L: ystyrrid; M: ysdyria ym host [eir]rwych; O: ystyria y[ ]y[ ]; P: ysdyrafymhost irwych; R: ym host evrwych; (Z: Tanlinellwyd *dewrwych* a chynigiwyd *eurwych* gan y llaw ddiweddarach); **56** B, C,

<sup>329</sup> Yn llawysgrif Z, tanlinellwyd *ar* yn y llinell wreiddiol, ac ychwanegwyd *fal* (wedi'i danlinellu) ar ochr dde'r dudalen.

<sup>330</sup> Z: Tanlinellwyd *Ba oer i* yn y llinell wreiddiol, ac ychwanegwyd *Beth i ûr* ar ochr dde'r dudalen.

<sup>331</sup> Yn llawysgrif Z, tanlinellwyd *ai dyhuddai* yn y llinell wreiddiol, ac ychwanegwyd *gormod odlau* ar ochr dde'r llinell.

<sup>332</sup> Ar ochr dde'r llinell ychwanegwyd '*beth o brud ai dyhuddai*'.

U, V: bwrw; D, N, P, Q: bwrw vn gainc y barwn gwyh; E: a bwrw gaingk y barwn gwyh; F: er bwrw vn gaingk barwn; O: er bwrw un [ ] gwyh; AA: un gwr; **57** A: gad tori bric kad derwen; B: kadterwen; C, D: bric; E: gad tori bric kadterwen; F: gad tori bric; H, K, L, R, Z: gad torri; I, J, T: kyd torri; N: kat derwen; O: Er torri bric [ ]; R: gatterwen; S, W: kaderwen; X: Gad tori brig koed derwen; Y: Gad torri brig Gaterwen; AA: Caid torri; **58** A, D, F, J: vo dyf; B, H, N: fe dyf; I: fo a dyf; L, Q, R, S, U, V, X, Z: fo dy brig; M: ef a dy brig ir daf bren; O: e dyf bric [ ]nn; W: fo a dy brig; Y: Fe du brig; AA: Daw fwy brig ar difai bren; **59** B: o thored; O: O thorrir [ ]; T: kyd torri; **60** A, R: vo a yn goed; B, K, L, Z: fo an goed; C: fo dy bric; F: fo an koed; G: gw[ ]dd; I, T: fo an goeg o fannav gwydd; J: fo a n goed o fannav gwydd; M: ef ai yn goed o von y gwydd; N: [ ]an goed o vonay yr gwydd; O: ef [ ]; S, U, V, W: ef a yn goed; T: fo a dyf brig iw difai bren; X: fo; Y: fe; AA: Fo iawn goed o fannau gwydd; **61** O: O bwrw [ ]; U, V: er bwrw; X: A bwrw ddail; Y: A bwrw ei ddail; **62** A: delio a wynar koed; E, F: delio; I, J, T: kydeilon y koed eilwaith; L: ef ai deilia duw eilwaith; N: y na yr koed; O: deilio a w[ ] eilwaith; P, X: deilio wna y koed eilwaith; R: [ ] a wna r coed eilwaith; Y: a wna y coed; Z: Ef ai deiliai Duw eilwaith;<sup>333</sup> AA: Cu deilia y coed eilwaith; **63** A, H, I, J, T: val mad; F: deirynn; G: a diau fanwyl deyrn; O: A diau fanwy[ ]yrn; P: medd mab; AA: fel nôd; **64** C, E, I, J, T, U, V: i bwrw hen garw i gyrn; F, G, H, L, P, Q, S, W, X, Y, AA: i bwrw r hen garw i gyrn; O: y bwrw yr hen ga[ ]gy[ ]; R: a bwrw r hen garw i girn; **65** A, K: ac yrrydd garw rreiddioc; B, M: ag i rroddir garw heiddioc; C: ag irhoddir ir karw heiddioc; D: ag y rhoddir carwrheiddioc; E: ac i daw ir karw eiddioc; F: ag ir rydd garw heiddoc; G, O: ag ir rhwydd garw rheiddioc; H: ac i rrydd garw rhieddoc; I, T: ag ar yr hudd garw rheiddioc; J: a gar hvdd garw rheiddioc; L, Z: ag ir hydd garw rry eiddioc; N: ag yr hidd garw heyfiog; P: ag i rhydd i garw heiddioc; Q: a rhoddir ir karw heiddiawc; R, X, Y: ag ir hydd garw heyddioc; S, W: ag yr hydd y karw heiddioc; U: ag irhoddir ir karw heiddioc; V: ir carw; AA: E ga'r hÿdd Garw rhywiog; **66** I, T: ar benn i og; **67** A: oeres gwlad a vv aravl; C, R: arael; J, AA: gwlad fv aravl; N: ysy arael; U: arayel; X: Oerodd; **68** A: ystys pwys; D: ep haûl; H: eb havl; N: yslys pywys; R: hael; **69** N: o dewissoedd; T: a dewisodd; **70** A: john; B: sion ai fab da iesv yn fv; C, D, Q: daliesin fv; E: [ail] Iesin fv; G: sion ai fam a grysyn fu; J, T: ai fab; L, S, W, Z: sion ai fam iessin a fv; N: da iessyn y vy; O: Sion ai vam a gryssyn fu; P: val iessin fv; U, V: dal iesin fv; X: da Iessu fû; AA: Sion fab, dewis iawn a fû; **71** A, K, N, S, W: Roed duw dad; B, M, U: Roed; C: [ ] ir tad; E: Roi ir tad o frig llwyth adam; F, H,

<sup>333</sup> Cynigiwyd *Deilio una coed eilwaith* gan y llaw ddiweddarach.

I, J, T, X, Y: rroed düw dad; G, O, R, AA: rhoed duw tad o lwyth adam; L, Z<sup>334</sup>: rroed yw dad frig llwyth adam; **72** C: [ ] Reiol fab or ail fam; D, M, P, Q: y reiol; G: reiol fab wch or ail fam; O: reiol vab ywch or ail fam; U, V: ereiol fab; X, Y: ir ail fam; **73** A, B, M, N: roi; C: [ ] ail Roi; D, E, F, O, Q, R, S, W, Z: rhoi; H, I, L, T, V, X, Y: rhoi gwrolaeth; J, K, P: roi gwrolaeth; **74** A, C, U: ir hwn aeth; E, N, W: a Roi nef ir hwn aeth; F, J: a rroi nef ir hwn aeth; M: aroi roi nef ir hwn aeth; P, S: a roi nef; R: ai rhoi ne ir hwn aeth;

### *Rhaglith*

**G:** marwnad sion ap Rossier; **H:** Marwnad John pulstwn ap Roger; **J:** Sion ap Rhosser pilstwn o faelor; **K:** kowydd marwnad Sion Pilstwn ap Roissier; **L:** cowydd marwnad i sion pilstwn o emral brawd syr Roizier pilstwn; **P:** marwnad am John ap Roger o faelor; **Q:** marwnad John pilsdwn o emral; **R:** m[ ]nad siôn ap Roeser; **S:** kowydd marwnad i sion Roissier o bowys; **U:** Cowydd marnad John pilsdwn aer emral a fv farw yn wr ifank brawd hyna syr roisier – pilsd[wn]; **V:** Cyw: mar: Sion Pilstwn aer Emral a fv farw yn wr ifanc brawd hyna Syr Rosier Pilstwn; **W:** Cowydd Marwnad i Sion Roissier o Bowys; **X:** Marwnad Sion Pilstwn; **Y:** Marwnad Sion Pilsdwn; **Z:** Cywydd Marwnad i Sion Pilstwn o Emral Brawd Syr Roger Pilstwn. R. G. G. D.; **AA:** Marwnad Sion ab Rosier Pilstwn.

### *Olnod*

**A:** Rs goch glyndyfrdwy ai kant; **B:** Rys goch o lynn dyfrdwy ai kant; **C:** Rys goch o lyn Dyfr Dwy; **G:** nis gwyddai r dyn ai dyfod ai dafod leferydd powy ai cant tebig mai Llowdden ne Llwn ap y moel. Rhys goch o lyn dyfyrdwy meddai; **H:** Rys goch glyndyfrdwy; **I:** Rhys goch glyndyfrdwy; **J:** Rys goch glandyfrdwy ai kant; **K:** Rys Goch glyn dyfrdwy ai kant yn dda; **L:** Rys goch glynn dyfrdwy; **M:** Rys goch glyndyfrdwy ai k; **N:** Rh goch aryri ay k; **O:** Rys Goch o lynn Dyfdwy a: k; **P:** Rys goch glynn dyfrdwy; **Q:** Rys goch glynn dyfrdwy; **R:** Rees goch glyn dwfrdwy ai kant yn dda; **S:** Robin ddv ai kant;

**T:** Rhys Goch Glyndyfrdwy ai kant; **U:** Rys goch glyn dyfrdwy ai kant; **V:** Rys Goch Glyn Dyfrdwy ai cant; **W:** Robin ddv ai kant; **X:** R: goch Glyndyfrdwy ai cant; **Y:** Rhys gôch Glyn Dyfrdwy; **Z:** Rhÿs Gôch Glyn Dyfrdwy a'i cant; **AA:** Rhys goch Glyn Dyfrdwy.

<sup>334</sup> Yn llawysgrif Z, cynigiwyd *Rhoed Duw Dad o lwyth Adam* fel dewis arall gan y llaw ddiweddarach.





**20. Cywydd i anfon y lleuad i chwilio am Rhys ac Ithel ab Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda, a hwythau'n garcharorion mewn castell.**

- Duw a roes, nid yw resyn,  
Da rodd ar hyd awyr ynn,  
Lleuad dros frig a llewych,  
4 Llyna drol un llun â drych.  
Siwrneiwwraig fel draig a dry,  
Seren burwen a bery.  
Hyffordd ei llwybr mewn wybren  
8 Hi a wŷr yn awyr nen,  
Ac wrth ei rhwydd gyfrwyddyd,  
Fel buarth, bob parth i'r byd.  
Estynned, na rwystred restr,  
12 Ei ffunen i bob ffenestr,  
Im wybod ai byw meibion  
Bleidiau mawr a blodau Môn.  
Ysbïed, chwiliad yn chwyrn  
16 Gestyll Lloegr, gost wyll, llugyrn,  
Am frodyr o Dudur daid,  
Ithel a Rhys, benaethiaid,  
Y sydd yn yr ynys hon,  
20 Eryrod, yn garch'rorion.  
Bid lawen o'r lle'r henyw  
Galon eu tad, galawnt yw  
Byw yw Ithel ab Ieuan  
24 A Rhys. Ni chais neb eu rhan.  
Oes brud yn Ynys Brydain

- A wŷr a fydd rhydd y rhain?  
 Gwyddom obeithio gwiwdda,  
 28 O obeithiaw y daw da.  
 Byddant draw a baeddant drin,  
 Buddiant i bawb o'u byddin,  
 Wyrion Adda ab Iorwerth  
 32 A wnânt i holl Gymru nerth.  
 Gair Merddin, dewin diwyd,  
 Oedd gael o gudd budd i'r byd.  
 Duw a ddwg i'n diddigiaw  
 36 Dau unben o'r Drewen draw,  
 Dau lew mewn arfau tewion,  
 Dau flaenor Maelor a Môn.  
 Duw o nef, down i'w ofyn,  
 40 A wnêl y ddwy blaid yn un.  
 Deuent, lle cyrchent bob cad,  
 Lawlaw fel gwŷr Eliwlad.  
 Hoedl fo i geirw Nanheudwy,  
 44 Amen, heb gynddrygedd mwy.

*Ffynonellau*

A—LIGC 17113E [= Gwysanau 24], 8 B—LIGC 3037B [= Mos 129], 227 C—LIGC 8497B, 190<sup>v</sup> D—LIGC 3049D [= Mos 146], 498 E—BL Add 14978, 136<sup>v</sup> F—Card 4.101 [= RWM 83], 139<sup>v</sup> G—L1st 122, 308 H—LIGC 3027E [= Mos 96], 296 I—Card 4.10 [= RWM 84], 1119 J—BL Add 31072, 69<sup>v</sup>.

*Trefn y llinellau*

A, B, C, D, F, G, I: 1 – 44;

E, J: 1 – 18, [19-20], 21 – 24, [25-32], 33 – 38, 41 – 42, 39 – 40, 43 – 44;

H: 1 – 18, 'Yn frodyr tarianwyr trin | Yn farwniaid i Frenin', 19 – 44.

### *Darlleniadau Amrywiol*

**1** A, B, C, G, H, I: ... oedd resyn; **2** C: da or od ... ; I: Da e Rêd hyd awyr un; **3** A, B, G, I: ... a llewyrch; D, F: llevad tros fro a llewyrch; **4** A: llena drol ...; **6** I: seren bburwen y beru; **7** D, F: hyffordd yn llwybr yr wybren; E, I: ... hyd wybren; **8** D, F: ... y nenn; G: ... awyr wen; H: ... awyr a nen; **9** F, I: Ag wrthi ... ; **10** D, E, F, J: ... y byd; **12** E, J: ... drwy bob ffenestr; **16** A: gestyll lloygyr gorffwyll y gyrrn; B, G, H, I: ... gorffwyll gyrrn; C, E: ... gorffwyllgyrrn; D: ... gosd dwyll llvgyrrn; J ... gorwyllysgyrrn; **17** H: Am Produr ... ; **20** D, F: eryrod garcharorion; H Eryrod'n garcharorion; **21** A, F, H: bid llawen ... ; B: bid llawen o ller heniw; D: bid llawen or lle henyw; E: bid llawen or lleir henyw; G: Bid lawen o ble i heniw or lle'r; I: Byd lawen ... ; J Bid llawen or lle'r heinyw; **22** A, B, C, D, E, F, J: galon i tad galawnt yw; G, H, I: galon ei tad ... ; **23** C, G, I: Pe byw Ithell ap Iefan; **24** A, C, D: ... ni chayff ... ; E: Rys nich aiff neb i ran; F: ... ni cheir ... ; G: ... ni chaid ... ; I: ... ni chae ei rhann; J: Rhys ni chaiff neb i ran; **25** F: oes bvdd ... ; G: oes bryd ... ; **26** B: a wyr a fydd rydd yr hain; I: A wyr fydd ... ; **28** A, G, H, I: gobeithiaw a ddaw yn dda; B, C: gobeithiaw addaw yn dda; **29** A: byddan draw beydda yn y drin; B: byddan draw yn benna yn y drin; C: byddan draw bey ddaû yn y drin; G: byddan draw baeddav'n y drin; H: Byddan Draw'n benna'n y drin; I: Byddan draw Baeddau'n drin; **30** B, H: ... o byddin; **31** C: ... ap Ierwerth; D: ... ag ierwerth; F: ... a Ierwerth; I: ... Addaf ... ; **32** A, C: a wnen i holl gymerv nerth; B a neyn ... ; H: A wnaen ... ; I: A naen ... ; **33** B, C, E, H, I, J: ... ddewin ddiwyd; **34** D, F: ... bvdd y byd; I oedd gael o hudd ... ; **36** C, I dau vn bren ... ; **38** A dau blaynor ... ; **39** A, B, G, I: Dvw nef down yw ofyn; C: dwv nef down yno ofyn; J: O Dduw nef ddawn i ofyn; **40** E, J: a wnel y ddwy wlad yn vn; **41** A, B, C, E, G, H, I: deven kyrchen bob kad; J Deufan cyrchan bob Cad; **42** A, B, C, F, H, J: y liwlad; E: y liw lad; G: Yliwlad; I: Eliowlad; **43** A: hoydyl i geirw nan hevdwy; B, H: hoydl i geirw hvdwy; C, D, I: hoedl i geirw nanhevdwy; E, G, J: hoydl i geirw nanhvdwy; **44** I: Amen hedd ... .

### *Rhaglith*

**B** kowydd i feibion Ieuan vchan ap Ieuan ap adda oedd ynghastell y drewen yng harchar drwy roi o Ric trevor ap Ed. ap dd ap eddn o gam; **C** kywydd i Ithel a Rys meibion Iefan vchan ap Iefan ap Adda pan oeddynt yn gharchar yn ghasstell y drewen drwy waith Risiart ap Trevor a wnaeth Rhys goch o lyn dyfrdwy; **D** kowydd i feibion Ieuan vchan ap Ieuan ap adda a fwreawyd yn i karchar; **F** kowydd i yrv r

lleuad im ofyn am feibion Ieuan vychan ap Ieuan ap adda; **H** Cowydd i Feibion Ifan Uchan ap Ifan ap Adda oedd ynghastell Drewen yngharchar drwy i roi o Risiart Trefor ap Edwart ap Dafydd ap Ednyfed Gam. O waith Rhys goch o Lyn Dyfrdwy; **J** Y Lleuad / c. Rhun 10.106.

*Olnod*

**A** RRys goch o lyn dyfyrdwy Ai kant / I feibion Ifan fychan ap Ifan ap adda oedd ynghassdell y dre wen yngharchar drwy roi [ ] Rys trefor ap edward [ap] davyd ap dynyved gam [ ]; **B** Rys goch o lyn dyferdwy ai kant; **D** Rys goch glynn Dyfrdwy; **E** howel kilan; **F** Rys goch glynn dyfrdwy; **G** Rys Goch Glyndyfrdwy ai cant; **H** Rhys goch o Lyn Dyfrdwy ai Cant; **I** Rhys Gôch Glyn Dyfrdwy;

**21. Cywydd moliant i bum mab Llywelyn ap Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed, Bodedern, Môn.**

Mi awn draw, myned yr wyf,  
Nid er oedi da'r ydwyf,  
I dir Môn er dŵr Menai  
4 Ar draws traeth ond aros trai.  
Mawr o'n iaith, yn 'y marn i,  
Fu sôn dynion amdani;  
Deufwy, fal coed am dyfu,  
8 Yw'r sôn am Fôn nag a fu.  
Tery'r glêr i'r tir â'r glod,  
Trawiad afon trwy dyfod.  
Nid wyf na byddar na dall  
12 Mewn goror mwy nag arall;  
Clywed yr wyf clod i rai  
Ceirw 'Môn, lle y cair mwnai.  
Mae rhygeirw mawr eu rhagor,  
16 Meibion llew Môn, gerllaw môr.  
Meurig hael am aur y caf,  
Mal Rhun yw'r milwr hynaf.  
Henw difai, hynod ofyn,  
20 Huw ydyw'r ail, hyder ynn.  
Da fydd hwn, Dafydd hynod,  
Dewi'r glêr ydyw ar glod.  
Gruffydd, dwyn bedydd, ni bu  
24 Ŵr well ei air a'i allu.  
Rhys roddiad a roes ruddaur,

Rhys Wyn ail, rhoes hwnnw aur.  
 Llyna saint llawen y sydd,  
 28 Llyna ym bum llawenydd.  
 Pump a gad o benadur,  
 Pum post aur, pum pais dur;  
 Pum Sul gwyn, pum sâl y gwŷr,  
 32 Pum gŵn, pum clariwn clerwyr;  
 Pum tŵr yn dwyn pum tarian,  
 Pum caregl aur, pum carw glân.  
 Pyst cerdd, pum rhan y Werddon,  
 36 Pumwyr mawr, pum eryr Môn;  
 Pum angel o Lywelyn,  
 Pwy mor hael â'r pumwyr hyn?  
 Pe aur tyfod y frodir,  
 40 Y rhain ynn a'i rhôi yn wir.  
 Pe dillad fai'r farchnad faith,  
 Y rhain ŵyl a'u rhoen' eilwaith.  
 O bai'r tiroedd, bert werin,  
 44 Mawr yn aur a'r môr yn win,  
 Pe bai'n fedd pob afon fawr,  
 Y rhain ynn a'u rhôi'n unawr.  
 Pe arian bedwar ban byd,  
 48 Yn hafog y'i rhoen' hefyd.  
 Am hyn mi a weddi'af,  
 Dduw gwyn, a'm gweddi a gaf.  
 "Er ei gur a'i arw goron,  
 52 Gwedi'i friw a gwaed ei fron;  
 Er dolur y Mowrnur mau

O lawer o welïau,  
Rhodder i'r pumwyr rhyddion

56 Einioes faith yn Ynys Fôn.”

### *Ffynonellau*

A—LIGC 17114B, 493 B—Card 5.167 [= Thelwall], 108b C—Ba(M)5, 93a D—Pen 84, 225 E—Pen 78, 165 F—J 137 [= RWM 12], 242 G—Pen 64, 217 H—Bodewryd 1, 421 I—Bodewryd 1, 442 J—LIGC 6681B, 339<sup>335</sup> K—Bodewryd 2, 158 L—Pen 221, 9 M—CM 27, 40 N—Card 3.37 [= RWM 20], 183 O—Pen 312 ii, 58 P—Llst. 49, 123 Q—LIGC 5273D, 58b R—LIGC 3048D [= M 145], 452 S—Brog 3, 156 T—Ba 1269, 13 U—LIGC 9166B, 69 V—BL Add 14901, 17a W—Mân Adnau 1206 [= Tanybwllch], 669 X—Llst 133, 127 Y—Llst 133, 679 Z—LIGC 1246, 62 AA—BL Add 15010, 45b AB—BL Add 15000, 127b AC—CM 454, 130 AD—BL Add 14958, 86a AE—LIGC 170C, 176

### *Trefn y llinellau*

A, B, J(a), J(b) 1 – 56; C, H, I, K, M, N, O, P, Q, R, S, V, W, X, Z, AA, AD 1 – 28, ‘pvm broder ynt an gweryd | pvm bonedd gwynedd i gyd’, 29, 31, 33 – 56; D 1 – 24; E 1 – 6, 9 – 28, ‘pvm broder ynt an gweryd | pvm bonedd gwynedd i gyd’, 29, 31, 33 – 56; F 1 – 29, 31, 33 – 56; G 1 – 28, ‘pvm broder ynt an gweryd | pvm bonedd gwynedd i gyd’, 29 – 56; L 1 – 2; T 1 – 28, ‘pvm broder ynt an gweryd | pvm bonedd gwynedd i gyd’, 29, 31, 34, 33, 35 – 56; U 1 – 28, ‘pvm broder ynt an gweryd | pvm bonedd gwynedd i gyd’, 29 – 56 (eithr dilewyd llinellau 51 – 54 gan law arall); Y, AB, AC 1 – 28, ‘pvm broder ynt an gweryd | pvm bonedd gwynedd i gyd’, 29 – 50, 55 – 56; AE 1 – 18, 20, 19, 21 – 28, ‘pvm broder ynt an gweryd | pvm bonedd gwynedd i gyd’, 29 – 50, 55 – 56.

### *Darlleniadau Amrywiol*

---

<sup>335</sup> Enghraifft ac iddi lawer o newidiadau i'r copi gwreiddiol yw hon. Ymddengys fod y newidiadau yn yr un llaw, ac o ystyried taclusrwydd y gwaith, credir mai cynnig darlleniad amgen y mae'r copi ydd yn hytrach na chywiro. Yn yr adran *Darlleniadau Amrywiol*, cyfeiria J(a) at y fersiwn gwreiddiol, a J(b) at y fersiwn ar ôl y newidiadau. Defnyddir J pan nad oes newid i'r llinell wreiddiol. Sylwer bod y fersiwn gwreiddiol yn debyg iawn i'r fersiynau yn llawysgrifau A a B.

**1** A, B, D: y rwy; C: mynd; E: mïaf draw myned irwy; G: myned yr [ ]; I, N, S: y rwyf; J: myned irwyf; K: Awn Draw myned ei rwyf; M, V: mi a wn draw myned i rwyf; O: Mi a wn draw myned yr wy; P, R: Mi a wn draw mynd ir wyf; Q: I mewn draw myned i rwy; T: Mi wn draw myned Irwy; V: Mi a wnn draw; Y: A awn draw a myned yr wyf; Z: Mi wn draw myned yr wyf; **2** A: ond er oidi da yr ydwy; B: ond ir oedi da yr ydwy; C: da i rydwyf; D: nid ir oidi da [ ]ydwy; E, F, S: da ir ydwy; H, V: nad er oedi da yr ydwyf; J, L: ond er oedi da yr ydwyf; K: nid er oedi Da ei rydwyf; M, N, P, R, Z, AA, AD: da ir ydwyf; O: da yr ydwy; Q: nid i roi da'r ydwy; T: nid er oidi da I rydwy; X: nad er oedi; **3** C: i dwr menai; D: a dwr menai; F, G, J(b), Y, AB, AE: ar dorr menai; K: ei dir mon; O: Men[ ]; P: i dir menai; Q: ar dwr menai; R: rhydd dwr menai; Z: dros dŵr menai. **4** F, G, J(b), M, T, U, Y, AB, AC: Dros y traeth; O: ar draws traeth [ ] trai; AE: Tros y traeth. **5** A, B: mwr on iaith ar vy marn i; E: mawr a maith; J(a): ar fy marn i; T: hiaeth; Y: i n hiaith. **6** A, B: fv son; I: [ ] son dynion am deni; P: sy am dani; AD: Y sôn. **7** Q: fal clôd am dyfû. **8** R: yw sôn; T: iwr yr son am fon nag y fu; Y: Fydd son; AA: Yw son am Fôn nag y fû; AD: Y sôn. **9** C: eryr y gler; E, H, I, K, N, S, V, X: trwvr tir; F: e roe i r gler ar y wir glod; G, J(b): E roe r gler ar y wir glod; O: eryr gler drwy r tir ar glod; P, R, Z: Eryr y gler ar wir glod; Q: teûrer glêr y tir ar glôd; T: ceri yr gler y tir ar glod; U, AB, AE: eroe r gler ar wir glod; W, AA: Teuru r glêr trwy r tir ar glôd; Y: I roi i gler a r wir glod; AC: troe'r gler, ar wir glod; AD: Taru'r Gler trwy'r tir y glod. **10** F, G, M, T, U, AB, AE: drawiad afon drwy dyfod; Y: Troiad afon trwy dyfod; AC: Drawiad afon drwy dyfod\*tywo(↑a)d. **11** R: bythar. **12** D: goror mwyn. **13** K: Clowed ei rwyf Glôd ei rhai; N: klowed ir wyf [ ]; O: clod ei rai. **14** A, B, D, J(a), O, Q: keirw mon y kair mwnai; E: i mwnai; I: keirw mon y kair y mwnai; K: Keirw môn a Gair mwynai; M, P, R, U, V, X, Y, AC: keirw môn lle kair mwnai; N: kairw mon [ ]; S, W: keirw mon kair i mwnai; T, AB, AE: lle ceir mwnai; AA Ceirw Môn cair ei mwnai; AD cair eu Mwnai. **15** A, B, J(a): i rragor; C, F, G, I, M, R: mwy i rhagor; E, I: mae Rhyw geirw mawr rygoror; H, V: mae rhyw geirw mwy rhagoror; K: mae rhiw Geirw mawr rhagoror; N: mae rhyw geirw [ ] rhagoror; P: Mae Rhygeirw mwy ragor; S, W, AA: mae rhyw geirw mawr rhagoror; T, AB, AE: mae rhyw geirw mwy rhagor; U, AC: mae rhyw geirw mwy i rhagor; X: Mae rhyw geirw mwy ragoror; Y: Mae rhyw geirw a mwy rhagor; Z: mae rhiwgeirw mwy eu rhagor; AD: Mae Rhyw Geirw mewn Rhagoror. **16** H: [ ]eibion llew [ ] gerrllaw mor; N: meibion llew garllaw mor; X: lle Mon; AD: gerllaw'r Môr. **17** A, G: mevric; D: i kf; E, F: meirig; H: mieirig hael [ ] avr i kaf; J(b): a mawr i kaf; K: ei kaf;<sup>336</sup> T: meirib hael; AE: [ ]hael aur y caf. **18**

<sup>336</sup> Yn y llawysgrif hon, cyplysyr y llinell hon a'r llinell ganlynol â bach cyrliog ar ochr dde'r cwpled hwn i Feirig, ac ar ochr dde'r bach y geiriau canlynol: *Hynaf Bodowen*. Yn yr un



C, F, G, I, J(b), M, P, R, T, U, Z, AB, AC, AE: moler hwn milwr hynaf; N, S: mal rvn; Q: mal yr hyn milwr hyna; Y: molir hwn milwr hynaf. **19** H: henw dif[ ] hynod ofyn; Z: hoen difai. **20** D: hyder [ ]; H: huw y[ ] r ail hyder yn; Q: hyder vn; AA: Huw ydyw. **21** A, B, J(a): dd henw divai hynod; D: Dafydd [ ] difai hynod; E, H, I, N, O, Q, S, V, X, AA, AD: da fydd henw dafydd hynod; G: [ ]a vydd; K: Difai yw henw dafydd hynod; AC: da a fydd hwn. **22** C, G, J(b), U, AB, AC, AE: da wr i glod; F, M, T: da yw i glod; H: D[ ]gler ydyw ar glod; K: dewi y Glêr ydiw ar Glod; P, R: Dewr y gler da wr ei glod; Q: dewr y glêr ydyw'r glôd; W: ydiw r glôd; Y: O wr glan ei air a i glod; Z: dewr y gler da gwyr glod. **23** A: [ ] dwyn bedvdd ni bv; B: gruff dwyn bedydd; E: gryffydd bedydd ni bv; H: gry[ ]dd; P, Z: Gryffydd yn; Q: dwyn beynydd; AC: in bu; AD: dwyn bŭdd ni bu. **24** W, Y: nai allu. **25** A, B: yw rroes; J(a), O, S: Rhys rhoddiad yw rhoes rhvddavr; C, J(b): rhvddavr; E: roddiad yw; F: Rys roddid; H: e roes; I: rhys roddiad yw rhoes rŭddavr; K, AD: yw rhos Rhyddair; M: Rhŷs rhoddid rhoes i rhvddavr; N: Rys rhoddiad yw rross rhvddavr; Q: Rys rroddiod ywr oes rrŭddavr; P, R, Z: roddiad; T: Rhys roddyd rhoes i ruddaur; U, V, AC: Rys roddiad; W, AA: Rhus rhoddiad yw rhos rhuddaur; X: Rys roddiad e roes ruddaur; Y: rhoddes rhuddaur; AB, AE: Rhŷs ai roddiad rhoes ruddaur. **26** A: Rys wyn ail rroes hwnw aur; B: Rys wyn ail rroes hwn aur; C, F, G, J(b), M, P, R, AC: rhwydd yw swydd y rhoddes avr; E: rys wyn avr roes hwnw avr; H: Rys wynn rhoes hwnw i avr; I, J(a), W, AA, AD: Rhys wynn ail rhoes hwnw avr; K: Rhees Wynn ail rhoes Hwnnw aŭr; N: Rys wynn ail rhoes hwnnw avr; O: Rhys wynn rhoes hwnnw aur; Q: Rys wynn yw rroes hwnny aur; S: Rhys wynn ail rhoes hwnnw avr; T: rhwydd i swydd i rhoddes aur; U: rhwydd yw i swydd; V: Rys wynn rhoes hunnw i aur; X: Rys wyn rhoes hwnw ei aur; Y: Rhyw yw ei swydd rhoddes aur; Z, AB: rhwydd yw y swydd rhoddes aur; AE: Rhwydd yw ei swydd rhoddes aur. **27** E: llyma; N: Sant; P: llyna sant llawer y sydd; Q: yn llawen; T: llawen A sydd; Y: Llyna r saint. **28** C, F, G, H, I, J(b), K, M, N, O, P, R, S, T, U, V, W, X, Y, Z, AA, AB, AC, AD, AE: a llynar pvm llawenydd; E: a llymar; Q: a llyna y pvmb llawenydd. **29** AA, AD: Pump a Gaed. **30** J(a): pvm post ynt; J(b), AB, AC, AE: pvm post ym; U: pvm past ym; Y: pum post im iw pum pais dur. **31** E, I: pym sel gwiw pvm sal gwyr; H, W: pvm sel gwiw pvm sal y gwyr; K: pŭm sel Gwiw pŭm salau gwyr; M, R, T, Y, AB, AE: pvm sail y gwŷr; N: pvm ssel gwiw pvm ssail gwin; O: pum sal yw gwyr; Q: pvm salm gwyr; S, W, AA, AD: pvm insel gwiw pvm sail gwyr; V: pum sel gwyw; Z: pum sêl y gwŷr. **32** G, U, AC: pvm gwin klariwns y

---

modd, ceir *Hynaf Prysaddfed* ar oche dde'r cwpled dilynol i Huw, *heb blant* ar ochr dde'r cwpled i Ddafydd, *hynaf Llanddyfnan* yn achos y cwpled i Ruffydd, a *hynaf Bodychen* yn achos y cwpled i Rys.

klarwyr; J(b): pvm gwin klariwn o y klerwyr; Y: pum clared pumpeu clerwyr; AB, AE: pum cwns Clariwns y Clerwyr. **33** E: pvm twr o dan y pvm tarian; H, K, N, V, X: pvm twr tan y pvm tarian; I, S, W, AA, AD: pvm twr dan y pvm tarian; M: tarain. **34** J(b): pvm karw glam; O: pum caregl [ ] pum carw glan; P: car glan. **35** B: pysc kerdd; E: pysg kerdd pvm ran ywerddon; G: rrann y werddon; H, I, S: ywerddon; O, Q: Post cerdd pum rhann ywerddon; T: pym rhan ywerddon; X, Y, Z, AC: Iwerddon; AA: pym; **36** N: pvm o wyr; Y: pum wyr mawr pum aer ym Mon. **37** F, G, J(b), M, O, R, T, U: pvm hangel; K: Anghel o Llywelyn; P: hangl; W: [ ] o Lywelyn. **38** P, W: pumwr hyn. **39** C, F, G, J(b), M, R, T, U, AC: tywod y brodir; E: tyfod yn y brodir; H: pei avr tyfai yn brodir; I, K: tyfod yn brodir; N, S, V, X: pei avr tyfod yn brodir; O: Pe aur, tyfod oi brodir; P: tyfod y brodyr; Q: pe bai dwod y brodir; W: pei aur tyfod yn brodir; Y: pe bai r tywod ar grodir; AA, AD: Pei aur Tyfod ein Brodir; AB, AE: tyfod eu Brodir. **40** C, F, G, J(b), M, R, T, U, Z, AB, AC, AE: y rhain oll; O: ai roe n wir; P: y rhain oll ai rhanna n wir; Y: A rhai'n yn aur yw rhoi n wir. **41** E, F, G, I, J(b), O, Q, T, U, Z, AB, AC, AE: pe dillad y farchnad faith; Y: pe bai n ddillad farchnad faith. **42** F: ai rren eilwaith. **43** C, F, G, J(b): pe bair tiroedd pert werin; E: pei bair; H, I, V, X: pe bai r; K: pei bai r; M, O, P, Q, R, T, U, AB, AC, AE: pe bae r tiroedd pert werin; N, S, W, AA, AD: pei bai; Y: O bai r tywod bert werin; Z: pe bai tiroedd pert werin. **45** E: pei bain; G: pob awon; K: bob Afon fawr; N, S, W, AD: pei bae fedd pob afon fawr; Y: bob afon fawr; AA: pe bai Fedd. **46** T: y rhain yn vn ai rhoi yn unawr; Z: 'rhain inni ai rhoe'n unawr; AE: y rhain yw. **47** E: pei arian; H, O, Q, U, V, X, AB, AC, AE: pedwar; J(a): pe arian bydeirhan byd; K: pei Arian pedwar ban byd; N, AA, AD: pei bae arian pedwar ban byd; S: pedwar man byd; W: pe bae arian pedwar ban byd; Y: pe n arian; Z: pe Arian. **48** M: yn hafog nhwy roen hefyd; Q, T: yn hafog nhwy ai rroen hefyd. **49** Y: Ac ar hyn i gweddaf; AB, AE: Ar hyn. **50** K: a Gweddi; O, P, T: duw; Q: dŵw gwyn am gwrando a gaf; U, AC: ar dduw gwyn; Y: Ar Dduw gwyn a r weddi gaf; AB, AE: ar dduw Gwyn a'r weddi a gâf; AD: ein Gweddi. **51** H, V, X: er i gŵr ai wayw goron; Q, AA, AD: er y gwr ai arw goron. **52** A, B, E, I, S, X: gwedi vriw; C, P, W, Z: gwedi i friw; F, G, M, T: gwedi i friw a gwaedv i fron; H: [ ]wedi friw a gwaed oi fronn; J, U: gwedi i friw a gwaedv oi fron; N: gwedi i frie a gwaed i fron; O: gwedi ei vriw ar gwaed oi vronn; Q, R, AA, AD: gwedi i friw a gwaed oi fron; V: oi fronn. **53** A, B: y mowr nvr mav; C, F, G, J(b), M, P, R, T, U, Z: ai gvr yn gwav; E, I, N, S, W: y mowrddvr mav; H: [ ]r Dolŷr ar mowrgvr mav; J(a): y mowrnvr mav; K, V, X: a mawrgur maŷ; O: y modur mau; Q: y madŷr maŷ; AA, AD: a mowrddur mau. **54** J, P, R, S, U, W, X, AA, AD: oi weliaŷ; V: ai weliaŷ. **55** V, X: rhwyddion; A, B: Rodded; J(a): Rhodded ... rhwyddion; C, E, O, P, U, W, AA, AD: rhoddi; F,

I, K, N, R, S, AB, AE: rhoddi ... rhwyddion; G: Roddi; H: [ ]dder ir pvm wyr rhwyddion; J(b): rhoddid ... rhwyddion; M: rhoddi ir pvm wŷr rhwyddion; Q: rrodded; T: rodidi ... rhwyddion; Y: Roddi i r pumwyr rhwyddion; Z: rodidi; AC: Rhoddi ir pum wyr rhuddion. **56** A, B, J(a): enioes; E, F, G, I, J(b), K, M, N, O, P, Q, R, S, T, U, V, W, X, Y, Z, AA, AB, AC, AD, AE: fawr; H: [ ]es fawr yn ynys fon.

### *Rhaglith*

**B** moliant v mab mevrn o von; **F** kwydd moliant i bvm maib llw ap hwlkyn o fon; **H** k. ir pvm brodvr o fon; **I** mae hwn or blaen; **J** kywydd moliant, i bvm maib llywelyn ap hwlkyn ap hywel, o von; **K** moliant pum mab llewelyn ap Hwlkin o Bresaddfed; **M** kowydd moliant i bum mab llywelyn ab hwlkyn o fon o waith Rys goch glyn Dyfrdwy; **N** Cowydd ir pvm brodyr o fon; **P** Cowydd moliant ei bum mab Llywelyn ab Hwlkyn o Fôn; **Q** Cywydd i bvm mab llywelyn ap hwlkyn; **R** Cow: mol: i bvm mab Llywelyn ap Hwlcyn o Fôn; **S** kowydd ir pvm brodero fon; **T** Cowydd I bym mab llywelyn ap hwlcyn o sir fon; **U** kowydd i bŷm mab llen ap hwlkin o waith Res goch o lyn dyfrdwy; **V** Co: i bŷm brodyr o fôn; **W** Cywydd i byn ab Hwlkyn; **X** Cywydd i'r pump brodyr o Fôn; **Y** Cywydd i Bum Meib llewelyn ab Hwlcyn; **Z** Cywydd canmoliaeth i Lewelyn ap Hwlcŷn o Fôn; **AA** Cowydd i Bum mab Llywelyn ap Hwlcyn o Brŷsaddfed; **AB** Cywydd i bum mab Llewelyn ab Hwlcyn o Fôn; **AC** cowydd i bum mab Llewelyn ap Hwlkin o Fôn: o waith Rhys Goch Glyndyfrdwy; **AD** Cywydd i Bum mab Llewelyn ap Hwlcyn o Brysaddfed; **AE** Cywydd i Bum Mab Llewelyn ab Hwlcyn o Fon (a'r Burwyn).

### *Olnod*

**A** Rs goch gvto or glyn *mewn llaw arall*: nid R. G. o'r Yri ai cant R. Goch Glyn Dyfrdwy mae'n debyg; **B** Rys goch ai kant; **C** Rhys goch glyn dyfrdwy; **E** rys goch glyn dyfrdwy; **F** Rhys goch glyn dyferdwy ai kant; **G** Rys goch glynn dyfrdwy; **H** Rrys goch glynn dyfrdwy ai kant; **I** Rhys goch glynn dyfrdwy ai kant; **J** Rhys Goch o Ryri (glyn dyfrdwy) ai kant: D:v; **K** Rhees Gôch Glyndyfrdwy ai kant; **M** Rhŷs gôch glynn dyfrdwy ai kant; **N** Rys goch glyn dyfrdwy; **O** Rys Goc Glynn Dyfyrddwy: a. c.; **P** Rhys Goch glyn dyf[]dwy ai cant; **Q** Rys goch glyn Dyfrdwy; **R** Rhys Goch Glyn Dwfrdwy; **S** Rys goch glyn dyfrdwy; **T** Rhys goch glyn Dyfrdwy Ai cant; **U** (*mewn llaw arall*) Rys goch o lyn dyfrdwy ai ka[ ]; **V** Rhys goch Glyñ Dwfrdwy ai k[ ]; **W** Rhys goch glyn dyfrdwy ai Cant; **X** Rhys Goch Glyn Dyfrdwy a'i cant; **Y** Rhys Goch Glyndyfrdwy; **Z** Rhŷs Gôch Glyn Dyfrdwy ai Cant; **AA** Rhys Goch

Glyndyfrdwy; **AB** Rhys Gôch Glynn Dyfrdwy a'i Ct. floruit Anno; **AC** Terfyn. Rhys Goch, Glyn Dyfrdwy, ai cant; **AD** Rhys Gôch Glyndyfrdwy; **AE** Rhys Goch Glynn Dyfrdwy a'i Cânt.

## 22. Moliant i Rhosier ap Siôn (Pilstwn) o Emral ym Maelor Saesneg.

Rhwydda' gŵr, hawdd ei garu,  
Rhosier lid, rhyswyr ei lu,  
Cenau Siôn, cynnwys anant,  
4 Cymro a gâr Cymry gant.  
Gŵr o gorff gorau a gaid,  
Gorwyr y marchog euraid.  
[ ] Joedd dy deidiau di,  
8 Tyrch euraid dewrwyd Harri,  
[A] chwithau ellwch, weithian,  
Gwedi'r rhain, gadw eu rhan.  
Ceidwad doeth yn cadw tir,  
12 Wyd diarswyd i deirsir.  
Y gair a ddoetych a gaid  
Mal gair mil o gywiriaid.  
Llu a roed i'r lle'r ydwyd,  
16 Llywio'r aur o'r llaw yr wyd.  
Llawer yn ein hamser ni  
Fry a ddaw i fro Ddewi,  
[A] deufwy sydd yn dyfod,  
20 Dewi'r glêr, i'th dai â'r glod.  
Hynod yw'r ffyrdd heb henu  
I'r lle'r aeth Elen a'i llu.  
Mae'r ffyrdd i Emral hoff, wen,  
24 Mal ar ôl milwyr Elen.  
Pawb a red, pybyr ydwyd,  
O myn dda i'r man ydd wyd.

Ym Mynyw buum unwaith,  
 28 Emral deg ym yw'r ail daith.  
 Nid hawdd maddau Tyddewi,  
 Nid haws ym fod hebot ti.  
 O'th dai, Nudd, nid ym luddir  
 32 Nes lluddio'r gwynt i'w hynt hir.  
 [G]yrru *Ieithor* fel gwrthallt  
 Yw gyrru niwl o gorun allt.  
 [Llu]ddias y ffordd i Ddole  
 36 [O]edd lluddias ym nawras ne'.  
 Megaist fi, farglwyddiaeth,  
 Magiad myn magod fu'r maeth.  
 Lle macer pob aderyn,  
 40 Llyna fyth y llwyn a fyn.  
 Un o'r adar, lle carwy',  
 Y sydd ym mharadwys wy'.  
 Un ofal yn dy galyn  
 44 Wyf â'r pysg sy'n llysg y llyn  
 Yn rhodio dwylan Banna,  
 Rho Duw deg, lle rhaid y da,  
 Ac yn Emral dy galyn;  
 48 A allai ddim well i ddyn?  
 A'th gellwair, iaith ddigolled,  
 Ac yno cael ugain ced,  
 A gweled beirdd y gwyliau:  
 52 Gweled teg yw'r golud tau.  
 Gweled llawer o werin,  
 Gweled gweilch ac yfed gwin;

Gweled dwyoes i Roesier

56 Oedd dda iawn ym, O! Dduw Nêr.

*Ffynonellau*

A—LIGC 6471B, 187

*Darllenïadau amrywiol*

1 A: Rhwydd a gwr hawdd i garü; 2 A: i lü; 3 A: a enant; 4 A: kymrû gant; 5 A: gwr ogorff goraü i gaid; 7 A: [ ]oedd dy daidiaü di; 8 A: harri; 9 A: [ ] chwithe; 10 A: gwedü rhain i gadw rhan; 12 A: wyd di arswyd i dair sir; 13 A: i gaid; 15 A: lle rydwyd; 16 A: llowio r aur; 17 A: llawer yn yn hamser ni; 18 A: frü; 19 A: [ ] deüfwy; 22 A: ir lle raeth; 23 A: emrael; 25 A: pawb ared pübür y dwyd; 26 A: i ddwyd; 27 A: y myniw büm vnwaith; 28 A: emrael; 29 A: madde ti ddewi; 30 A: hebod ti; 31 A: im llüddir; 32 A: nes llüddiawr; 33 A: [ ]yrrü Iei thon fel gwrth allt; 34 A: yw gyrrü; 35 A: [ ]ddias y ffordd i ddole; 36 A: [ ]edd lüddias ym nowras ne; 38 A: magod fyr maeth; 42 A: ymheradwys; 47 A: ag yn emrael dy galün; 48 A: well y ddyn; 50 A: ag yno kael igain ked; 54 A: ag vfed gwin; 55 A: oes y rossier;

*Rhaglith*

A: Cowüdd rossier ap sion; (ychwanegwyd 'puleston' mewn llaw arall)

*Olnod*

A: Rhys goch or yrri ai kant;

**23. Cywydd i ofyn dau hyddgi gan Siencyn ab Ieuan ap Llywelyn o Blas yn Iâl dros Siôn Hanmer o'r Llai**

- Y carw, serch y cywiriaid,  
Siencyn, Arthur ynn wrth raid,  
Fab Ifan, diogan dad,  
4 O Lywelyn, ail Liwlad,  
O gorff hwn da gŵyr ffynnu,  
Gruffudd Llwyd, gorhoffedd llu.  
Digon maith, araith eiriach,  
8 I un dyn oedd dwyn dy iach.  
Mae iti, rhyglyddi glod,  
Pedair iach fel Pedr uchod.  
Pob un o'r rhain, bai ni bydd,  
12 O'i galw yn uwch na'i gilydd.  
D'enaid a'th gorff dianach  
A geidw'r iawn gyda'r iach.  
Da troes Duw yt ras deuwr,  
16 Ffortyn wych a phryd da'n ŵr.  
Dyn drwg ni'th gâr, fy marwn,  
Da ni'th gasâ, fo'th gais hwn.  
Câr di lle bo cywir da,  
20 Cared Duw y cywira'.  
Cywir y'th edir i'th ddydd  
Clod union, clyw dy 'wenydd.  
Mae hydd myngddu heb hual -  
24 Oes un a ddiengis o Iâl?  
Cneifiwr gardd ni waharddo,



Carw ffyrf a yrr ci ar ffo.  
 Cwrs hwn, cyd bo croesanaeth,  
 28 Goframu er saethu saeth.  
 Moes gŵn i ymwasg annudd;  
 Â chroen hwn ni chwery un hydd.  
 Dau lew'n eu byrflew barflaes,  
 32 Dau gigydd mynydd a maes;  
 Dwy ddraig fuansaig fenswn,  
 Dwy arth lawn carth ar lun cŵn;  
 Dwy osail arw i'm arwain,  
 36 Dwy olwyn fyw'n dâl i ên fain.  
 Dau orau eu peisiau pan,  
 Abl williaid a'u blew allan;  
 Dau a red heb un bedol,  
 40 A dwy ffon hirion o'u hôl.  
 Gwirblaid i'r defaid y dôn',  
 Ac i lwynog gelynion.  
 Ei ddaint a rydd mewn tir iach,  
 44 Amlwg, cwyn ym mlew ceinach;  
 Llithrwr hydd uwch llethr y rhos,  
 Lluwch a ŵyr llechu i'w aros.  
 Medr Lluwch bei uwch na'i ben  
 48 O'i dorch i farw dywarchen.  
 Ci ar faes, gwaed ceirw a fyn,  
 Blewog, colerog, claerwyn.  
 A'r ail yn ei own a red,  
 52 A'i flew gwyn fel y'i ganed.  
 Daliwn, pes cawn i'm dwylaw,

Lluwch gydag Amlwg i'm llaw.

Gwyn yw'r croen a'r gŵn a'r crys,

56 Ac un lliw gown a llewys.

Pan ollynger cŵn Fferyll,

Crwyn a chig y ceirw ni chyll.

Siôn o Hanmer, nid eres,

60 O'r Llai, wyf dy nai, on'd nes?

Ydd wyf yn gâr yt, farwn,

Dy gâr a ddiolch dy gŵn.

### *Ffynonellau*

A—LIGC 3051D [= Mos 148], 341 B—LIGC 3051D [= Mos 148], 214 C—LIGC 3049D [= Mos 146], 321 D—Wy 1, 290 E—Card 3.37 [= RWM 20], 130 F—BL Add 14971, 26 G—Coleg yr Iesu 140 [= RWM 15], 256 H—LIGC 21248D, 193<sup>v</sup> I—Llst 124, 204 J—Pen 184, 48 K—LIGC 3044B [= Mos 136], 62 L—LIGC 644B, 5<sup>v</sup> M—Pen 198, 239 N—Pen 239, 143 O—LIGC 10748D, 16 P—BL Add 10313, 208 Q—BL Add 31095, 124

### *Trefn y llinellau*

A, C, F, G, J, K, M, N, P, Q 1-62 (62 o linellau)

B 1-50, 52-62 (60 o linellau)

D 1-24, 27-28, 25-26, 'i chwi mae Ivor o chaid | y mae dewis meûdwyaid', 31-32, 29-30, 33-36, 39-40, 37, 'ar ddau wisg e beisie â bais', 38, 41-52, 55-56, 'gennyh mae deugi vniawn | a blew n i cylch val blaen cawn', 53-54, 57-62 (66 o linellau)

E 1-16, 19-60 (60 o linellau)

H 1-32, 34, 33, 35-62 (62 o linellau)

I 1-16, 19-62 (60 o linellau)

L 1-4 (4 o linellau)

O 1-56, [57], 58-62 (62 o linellau)

*Darlleniadau Amrywiol*

**1** A, B: karw serch y kowirriaid; E, F, H, I, J, K, L, M, N, O, P, Q: karw; D: oserch cywiriad; G: Carw serch kyw[ ]; **2** D: wyn wrth raid; E: vn wrth raid; G: Siank[ ]in; H: rym wrth raid; J: vn wrth raid; N: Croes ar ochr dde'r gair Siancyn, a nodyn cyfatebol<sup>337</sup> ar ochr dde'r dudalen; Q: yn wrthiad; **3** A, C: vab ivan; B: di ogan; **4** E: Lewylyn; G: ai liwlad; Q: lai liwlad; **5** A, C: da i gwyr ffynny; B, E, H, I, J: da i gwyr; D: dai gwyr; **6** E: gorhoffedd [ ]; F, K: gorhoffwydd; G: gryffudd llwyd g[ ]hoffe[ ] llu; H: gor hoff wydd; P: gorhoffaidd; Q: gor hoffwydd; **7** D: gormodd gwaith; M, N, O: Digon o waith; **8** A: oydd; B, C, F, K: ddwyn; D: oedd i vn dyn ddwyn; G: ddwyn; J: ddwyn dy âch; M, N, O: yw dwyn; **9** B: y glod; E, I: arglwyddi glod; **10** A: val pedr; B: mal peder; E, I: myn peder; H, N, O: fal peder; J: pedair âch fel pedair vchod; M: Pedair Ach; P, Q: mal Pedr; **11** A: pob vn o rhain bai ni y bydd; B: or rhai n bai; C: or rain; D: pob vn o rhain bai ni [ ]; F, P, Q: o rhain; G: vn [ ] rhain; H: or hai; J: or hain; **12** A: noi gilydd; B, E, H, J, N, O, Q: yw galw; C: yw galw [y] ywch; D: oi galw yn vwch noi g[ ]; F, K, P: yn galw; G: yn galw n vwch na gilüdd; I, M: iw galw'n vwch; **13** B: di anach; D: [ ]naid ath gorff dianach; F, K, P: Enaid oth gorff; H: gorff di yn [ir]ach; Q: V'enaid; **14** B: ageidw r iawn; C: da yw i roi gida r iach; D: da yw i roi gyd ar iach; E: ageidw yr iawn gida yr iach; F, J, P: i gadwr iawn; G: gei dw r; **15** A: da troys; B, E, H, I: da i troes; D: ras de[ ]r; G: deywr; M: Da rhoes; **16** A: ffortvn wych a ffryd ta n wr; B, I: ffryd ta n wr; C: ffrÿt da yn wr; D: da n [ ]r; E, J: a ffryd ta yn wr; F: ffortyn ywch a ffarti yn wr; G: ffrud da i wr; H: ffryd tai n w'r; K, P, Q: ffortyn vwch a pharti n wr; **17** B: fym arwnn; D: gar [ ]wn; **18** A, M, P: gasha; B: da [n]-ith nith gasa fo th gais vn; D: gassa [ ]is hw[ ]; G: dan[ ] gassaü foth gais hwn; **19** A, M, O: kar di lle r hepkorer da; B, N: lle r hepgorer da; C: lle r hepgore r da; D: hepgore[ ]; E: lle i bo kwyrvl da; G: lle hepgorer da; H: kweryl da; I: llei bo cwervl da; J: lle r hepgorir da; **20** A: kerid dw y kowiro; B, E, I: cerid tww; C: kerid dw a hepgora; D: cerid dŵw a [ ]; F: kerid dw y kowira; G: kerüd dŵw i kywira; H: kerid tww y kowiara; J: kerof duw; K, P, Q: cerid duw y cywira; M, N, O: Cared; **21** A, B, C, E, G, H, I, J, M: kowir; K: odir; **22** A: klod innion; C: klod annwyl; D: clod anwyl clyw d'awenydd; G: klod einion klyw dy wenüdd; K, P, Q: clud vnion; M, N, O: d'awenydd; **23** A: may; D: eb hual; G: hüdd mynged; P: Hudd; **24** A: oys vn; B: addiengis; F, K, P, Q: a ddiengis oi wal; G: oes; H: a dengys i wal; **25** C: keneiviwr; D: a waharddo; G: knefyiwr; I: an waharddo; J: [im] gwaharddo; **26** E: ayr ki i ffo; H: a yw ki i ffo; I: i ffo; M: ffyrf yr ci; **27** A, B, E, I, M, N, O:

<sup>337</sup> Dyma gynnwys y nodyn: *Margaret Merch ac Etifeddes Siancyn ab Ifan ab Llywelyn o Lys Fasi oedd Guraig Elisau Griffith ab Einion a mam Gryffydd Lloyd ab Elisau o Ragad*

gwres hwnn kyd bo grysanaeth; C: kryssanay[ ]; F, K, Q: Gwres ... groesanaeth; G: gwres hwn kŭd bo gryssynaeth; H: gwers hwn kyd bi gorsa naeth; J: gwres hwn kyd bo gresynach; P: Gwres hwn hyd bo groesanaeth; **28** A: gofranmv er sevthv saeth; D: govramv er seŭthŭ saeth; K, P: ar seythu; N: saith; Q: govranu; **29** A: moys gwnn i ymwasg annydd; B, C, E, J, K, M, N, O, P, Q: annydd; D: moes gwn [ ]; G: ni ymwasg; H: moes gwn ym I ymasc a nydd; I: a nydd; **30** A: ni chwey vn hydd; B, C: yn hydd; D: ni chwery n hy[ ]; E, H, I: o chawn hyn; G: chwery n hŭdd; J: a chroen ni chwerv vn hydd; M: chwerŭ n hydd; Q: achwen hwn; **31** A: yn i; B: dav lew n- i byrflew barflays; C: lew n ibyrflew; D: daŭlew nid byrrvlew barvlaes; E, H, J: dav lew yn i; F, K, P, Q: mewn byrflew; G: yn i byrflew barflas; I, N, O: yn ei; M: dau lew n i; **32** D: mynydd [ ] maes; G: mynudd; **33** A: fyansaig; C: d[av] ddraig; D: daŭ ddraig *v* vansaig venswn; F: fansaig i fenswn; G: dau ddraig fŭan saig fenswn; K: fansaig o fenswn; P: fansaig fenswn; Q: Drwy ddraig vansaig i venswn; **34** C: lawn garth; D: daŭ arth; M, O: law carth; **35** C: arw ith yw harwain; D: dwy oseil arw oi harwain; F, K, P: osel; G: dwy o sai larw yn arwain; H: o sail; I: i 'marwain; M, N, O: yw harwain; Q: Drwy osel arw ini arwain; **36** A, B, C, F, K, M, P, Q: i en fain; D: dwy olwyn vyw n dal en (i en)<sup>338</sup> vain; E: fyw dal ien fainn; G: fwyn dal en fain; H: olwyn fwyn; I: fyw dal i en fain; J: fyw n dalien fain; N, O: yn dal i ên fain; **37** A, B, C, D, E, F, G, H, J, K, M, N, O, P, Q: i peisiav; **38** A, B, E, F, G, I, J, K, M, N, O, Q: ai blew; C: dwbl williaid ai blew allan; D: williaid [ ]ŭ blew; H: a blew; **39** D, H: eb vn; E, G: dav ared; **40** A, B, F, K, M, N, O, Q: yw hol; D: oi hol; G: oi hol; **41** C: devaid lle idon; D: yn (gwir)<sup>339</sup> blaid I: gwir plaid; J: o don; **42** A, D: ag; B: ag i lwynog gylynion; F, G, J, K, P, Q: akw i lwynog; **43** A, B, C, D, E, F, G, H, J, K, P, Q: i ddaint; C: imawn tir iach; **44** A, H: y mlew; B, J: ymlew; C: amlwg gwyn ymylew keinach; D: gwyn; G: gwyn ym lew; N, O: gwyn ymlew; P, Q: Amlwg Cwn; **45** A, B, M: rhyd llethr; C: yr rros; E: llethro yr hydd vwch llether yrhos; F, K, P: llathrwr rhwydd rhyd llethr y rhos; G: llythwr hŭdd rhyd llethr rhos; H: llithiwr hydd Ryd llethr Ros; I: llethv'r hydd; J: llithrwr hydd Ryd llether Ros; N, O: rhyd llethr y rhos; Q: Llathrwr hwyr rhyd llethr y rhos; **46** A, B, J: yw aros; C: [ai] aros; D: oi haros; E, H: llwch awyr; **47** A, B, M, N, O: be vwch; C, H, J: meder llwch be ywch noi ben; D: medr y llwch bei vwch noi ben; E: meidr llwch lle vwch i ben; F, K, P, Q: Nid a llwch pe vwch noi ben; G: meder llwch be uwch oi ben; I: meidr llwch lle vwch ei ben; **48** A: dwarchen; D: i varw; E, G, I: dowarchen; J: yw farw; **49** A, B, J: faes a gwaed; C, E, F, I, K, P, Q: ki ar fayth gwayd; D: ci ar vae[ ] gwaed ceirw

<sup>338</sup> Ychwanegiad uwchlaw'r gair *en*, gan yr un copiwr yn ôl y llawysgrifen.

<sup>339</sup> Ychwanegiad uwchlaw'r gair yn, gan yr un copiwr eto mae'n debyg.

a vynn; M: ar faes gwaed ceirw fyn; **50** A: kla[ ]ynn; **51** A, C, E, F, J, P: i own; D: yn olwyn i own;<sup>340</sup> G: yn *im* awn; H: yr ail yn i own; I: yr ail yn ei own; Q: O'r ail; **52** A: fal i ganed; C, E, F, G, H, I, J, P: i ganed; D: ai vlew gwyn val i ganed; M, N, O: O flew ... y ganed; **53** B, G: bes cawn; C: pei kawn; D: bei cawn; E, F, K, P, Q: pe kawn; H: pe i kawn; I: pe cawn am; **54** A, B, C, F, H, I, J, K, M, N, P, Q: amlwg; D: gydac amlwg; E: gida ag amlwg; G: gada g amlwg; O: gida Amlwg; **55** A: kroyn ar gown; B, C, E, F, H, I, J, K, M, N, P, Q: gown; G: gown ar krüs; O: gown a[r C]rys; **56** A, B: ag vn lliw; D: ag vn lliw gŵn a llewys; G: ag vn lliw gown a llewüs; O: llewy[ ]; **57** A, F, J, K, Q: pen ollynger; C, E: ban ollynger; D: pheryll; G: fferüll; H: Pan y llynged; I: ban ollyner; **58** C, H: krwyn na chig keirw; D: croen na chig ceirw ni chyll; E: krwn achig; F, M, Q: chig keirw; G: kroen a *chig* keirw ni chüll; I, J: crwn a chig ceirw; O: crwy[n] a chig y [ ]; **59** A, B: y hanmer; C: [ ]ion o hangmer; D, E, I: o hangmer; F: y hangmer yn eres; G: *er* es; H: sion hangmer; K, P, Q: y hanmer yn eres; M: A Sion Hanmar; N: a Hanmer; O: Sion a hanm[ ]; **60** B: or llaif wyf dy naif ond nes; E, I: dynai or llai wyf er lles; F, P, Q: or llai dy nai wyf a nes; G: ar llai wy; J: wy[ ] dy nai; K: or llai dy [ ] nes; **61** A: i ddwyf; C, F, H, K, P, Q: yr wyf; D: yd varwn; E, I: yr ydwyf yn gar vt farwn; **62** B, D, F, K, N, O, P, Q: ddiylch; M: gar ddiylch;

### *Rhaglith*

F Kywydd i ofyn kwpl o fytheiaid; H kowydd i ofyn dav filgi; I Cyw: i ofyn dau filgi i hela carw gan Siancyn ap Ifan ap llywelyn dros Sion o Hangmer; J kowydd i ofyn dav filgi; L Cowydd i ofvn milgwn; M Cowydd i ofyn Cŵn o waith Rhys Goch Glyndyfrdwy; N Cowydd i ofyn Cŵn o waith Rhys Goch glyndyfrdwy i Ryffydd Llwyd ab Elisau o Ragad Esq. ac Arglwydd Gwyddelw[er]n; O Cowydd i Ofyn Cwn o waith Rhys Goch Glyndyfrdwy; Q Ky i ovyn kwpl o vytheiaid.

### *Olnod*

A Rys goch glynn dyfrdwy ai kant; B Rhys goch glynn dyfrdwy; C Ien ap Tudr penllyn; D Rh Goch glyn dyfrdwy Robert Leiaf ai Ieuan ap teudr penllyn; E Rys goch glyn dyfrdwy ai kant; F Tvdvr Penllyn ai kant; G: Rrüs goch glynfvdwy ai kant; H Rys goch glyn dyfrdyw ai kânt; I Rys Goch Glyn Dyfrdwy ai cant; J Rys Goch glyn dyrfdwy ai kant; K Tudur Penllyn; M Rhys Goch Glyndyfrdwy ai cant; P Tudur Penllyn; Q Tudur Penllyn.

<sup>340</sup> Y mae'r llythyren 'w' yn *i own* yn wahanol i'r un yn *olwyn*.

## 24. Cywydd hiraeth am Rhosier ap Siôn Pilstwn ac Emral.

Y mae hiraeth i'm hoeri,  
Morwyn oer yw fy mron i.  
Megis afal yw 'nghalon,  
4 Mamaeth i hiraeth yw hon.  
Oes awch ar gleddau neu saeth  
A'i torrai onid hiraeth?  
Y mab yw yr hiraeth mau  
8 A'i torres yn gwarterau.  
Un gŵr, a'i enw a garwn,  
Ym a wnaeth yr hiraeth hwn.  
Rosier, rymuster aestalch,  
12 Roes inni win, ryw Siôn walch.  
Yr wyf yn ei arofyf,  
Am gur da y megir dyn.  
Morgannwg, mawr yw gennyf,  
16 Ei gwŷr a'i da uwch Gaer Dyf.  
Mae'r pethau gorau a gaid  
Yno i gynnal enaid:  
Bwyd ac arian 'Morgannwg,  
20 A'i gwin a'i llyn uwch Gwaun Llwg.  
Ag aur rhudd y'm dyhuddir,  
A geiriau teg gwŷr y tir,  
A d'wedyd, a da ydyw,  
24 A wnân' fod Owain yn fyw.  
Minnau sydd yn nydd a nos  
I nai Owain yn eos.

Anllad oedd ym ei adaw,  
 28 A'm lles ei adael o'm llaw.  
 Chwannog mab pan gychwynno;  
 Adwyth a fydd i'w daith fo,  
 A dau chwanogach o'i daith  
 32 I Faelor adref eilwaith.  
 Y mae yn rhyfedd heddiw  
 Yn awr am Faelawr ym fyw.  
 Gyrraf i ddwyn, rhyw swyn serch,  
 36 I'm gwlad gennad ac annerch.  
 Gorau cennad a garaf  
 Wyd, yr haul, lle'r aud yr haf.  
 Ef a'th gad yn gennad gynt,  
 40 Orwen haul, i'r un helynt:  
 Gruffudd Llwyd, awenydd llawn,  
 A'th gafas am iaith gyfiawn.  
 Tithau'r haul, tuthia i'r rhiw,  
 44 I'r unllwybr, bêl arianlliw.  
 I'r dwyrain, ryw blygain, rhed,  
 O'r dwyrain mewn awr dyred.  
 Hanner dydd bydd gan dy bwyll  
 48 Uwch fy mhen, geinwen gannwyll.  
 Fel mam Bedr yr wy'n edrych  
 Fry ar y nef, forwyn wych.  
 Dyn ni phaid, dianoff wyf,  
 52 Â'th wilied oni'th welwyf.  
 Ai iach yw Rosier, f'eryr?  
 Iach yw fo, iach ef a'i wŷr.

- Ni chwynaf, od wyf afiach,  
56 Os efe y sy' fyw iach.  
Dos yno, nid oes anair,  
Myn weled, merch arffed Mair.  
Af finnau lle mae f'annwyl,  
60 Yfory'r af i fwrw'r wyl.  
Pe bai nef fy nghynefin,  
Mi awn i'w dai, Gwalchmai gwin,  
Ac ni wnafl, od af i'w dŷ,  
64 Ado hwn wedi hynny.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14967, 110 B—LIGC 17114B, 178 C—Pen 78, 172 D—CM 312, 49  
E—Bodewryd 1, 444 F—Pen 100, 417 G—LIGC 675, 30 H—Llst 133, 132 I—  
BL Add 14901, 17b J—CM 11, 306 K—BL Add 15003, 188a L—BL Add 15003,  
58b M—BL Add 31080, 28a N—CM 109, 63

### *Trefn y llinellau*

A: 1 – 4, 7 – 8, 5 – 6, 9 – 64.

B: 1 – 32, 35 – 38, 41 – 64.

C, E, F: 1 – 4, 7 – 8, 11 – 44, 47 – 48, 45 – 46, 49 – 64.

D: 1 – 4, 7 – 8, 5 – 6, 9 – 54, 57 – 58, 61 – 64.

G: 1 – 64.

H: 1 – 4, 7 – 8, 11 – 30, 32, 31, 33 – 44, 47 – 48, 45 – 46, 49 – 64.

I: 1 – 4, 7 – 8, 11 – 44, 47 – 48, 45 – 46, 49 – 64.

J: 1 – 4, 7 – 8, 5 – 6, 9 – 54, 57 – 58, 61 – 64.

K: 1 – 4, 7 – 8, 11 – 29, 31, 30, 32 – 44, 47 – 8, 45 – 46, 49 – 64.<sup>341</sup>

---

<sup>341</sup> Nid yw trefn llinellau 29 – 31 yn gwbl glir yn y llawysgrif. Dewiswyd y drefn a gynigir yma o ystyried yr hyn a geir yn y llawysgrif ynghyd ag anghenion odli'r cywydd.



L: 1 – 4, 7 – 8, 5 – 6, 11 – 34, ‘Oer gwynion i Forganwg|Brwd wyf am Ewybr au dwg’, 35 – 64.<sup>342</sup>

M: 1 – 4, 7 – 8, 5 – 6, 9 – 64.

N: 1 – 4, 7 – 8, 11 – 44, 47 – 48, 45 – 46, 49 – 64.

### *Darlleniadau Amrywiol*

**1** B, C: hoiri; **2** A: vymroni; B: y moron i; C: mor wyn oer; D: morwyn (merwin<sup>343</sup>)oer yny mronn i; E: ~~morwyn oer yw~~ (*mae r ia n oer yn*<sup>344</sup>)fymron i; F, H, I, K, L, N: mae r ia n oer yn fy mron i; G: mor wann oer yw y mron i; J: Merwin oer yn y mron i; M: vy mron; **3** A, B, M: aval; K: afal i nghalon; L: megais ofal i nghalon; **4** C: mameth i [ ] vw hon; L: iw hiraeth; **5** B: gledde; D, J: na saeth; G: ar gledd; **6** B: torre; **7** A, C, G: y mab yw yr hiraeth mav; B: a mab ywr hiraeth mav; D, J: a mab yw yr hiraeth mav; E, F, H, I, K: y mab maeth ywr hiraeth mav; L: Hiraeth am y mab maeth mau; M: Y mab yw'r hiraeth mau; **8** A: yn chwarteriav; G, J, M: yn chwarterau; **9** D, J: i enw; **10** B: awynaeth; D, J: a naeth ym; **11** A: roersier rymster mastalch; B: Roeser remyster; C: risier rymysder awstwalch; E, F, I: awstwalch; G: rvmysder asgalch; M: rymyster mastalch; N: Rhoser; **12** A: roes yñ win; B: rroes ymi win; D, E, F: rroes ynnv win rryw sion walch; G: rroes ym i win rryw sion walch; H, I, J, K: Rhoes ... rhyw ... ; M: Roes yn i win; N: win rhyw' Sion walch; **13** A: yni arovyn; B: y rwyf yn i arovyn; C: ir wyf yniar ofyn; J: orafyn; M: Yr wyv yni arovyn; N: yr wyf fi yn arovyn; **14** A, B: ar dir da y megir dyn; D, J: am gvr da i megir dyn; **15** A: mor ganwc mawr ar gynydd; B: morganwc mawr ar gynydd; D: yw gynnyf; G, M: ar gynnydd; **16** A, M: Ai gwyr ai dwc vwch gaer dydd; B: i gwyr ai da hyd gaer dydd; C, F: i gwin ai dwr hyd gaer dyf; D: y gwyr ai dwg hyd gaer dyf; E, H, I, K, L: i gwyr ai Dwr hyd gaer dyf; G: i gwyr ai dwr vwch gaer dydd; J: y gwr ai dwg i Gaef dÿf; N: Ei gwyr ai dwr hyd Caer dyf; **17** D, J: mae bathav; N: petheu goreu; **19** A: mor ganwc; B: morganwc; M: ag arian; **20** A: Ai gwin æ yn llyn vwch gwavn[ ]; B: llwc; C: y gwin ai llyn vwch gaer llwg; D, J: a gwin yn llynn ywch gwain llwg; E, F, I, K, L: i gwin ai llynn vwch gwavn llwg; G: yn llyn; M: yn llyn uwch gwayn llwg; N:

<sup>342</sup> Mae Iolo Morgannwg yn cymharu'r fersiwn yn ei lyfr ei hun â'r un sydd yn '*Llyfr y parchedig Peter Williams o Lan Rug yn Arfon*'. Ymddengys mai Peter Bailey Williams (1763 – 1836), mab yr enwog Peter Williams (1723 – 1796), yw'r dyn dan sylw, a llyfr a gynhwysodd naill ai fersiwn D neu fersiwn J fu ganddo, a J yn fwy tebygol o ystyried llinell 39.

<sup>343</sup> Mewn llaw ddiweddarach ar ochr chwith y ddalen.

<sup>344</sup> Y cymal 'morwyn oer yw' wedi'i ddileu, a 'mae r ia n oer yn' wedi'i ysgrifennu uwch ei ben.



edrych; H: maw bedr; I: beder; J: Ag fel mam Bedr yn edrych; M: Val; N: Mal mam; **50** A, B: vry ar y nef vorwyn wych; C: fry ar y noe; M: Vry ar y nev vorwyn wych; **51** A: dyn *nithav* dianoeth wy; B: ffaid; C: dyn niffaid dianoff wyf; G: dianoff yw; M: Dyn ni thau dianoeth wy; N: di anhoff; **52** A, M: Ath wiliaid on ith welwy; C: ith wilied; D: wiliaid am ith; G: welwy; N: A wilied; **53** A, C, E, F, H, I, K, L, M: Roeser vy<sup>345</sup> eryr; B: ai iach Roeser vy eryr; D, J: yn iach roessier fy eryr; N: Ai iach Rhoser fy eryr; **54** A, B: vo; C: iach yw fo iach a fo i wyr; D, J: na cha fo n iach efo i wyr; E, F, H, I, K, L: iach yw ef iach yw i wyr; G: iach efo i wyr; M: Iach yw vo iach ev ai wyr; N: Iach yw ef iach yw ei wyr; **55** A: Nichwynaf o dŵy afiach; G: ni chwyna o dwy afiach; L: cyd bwyf afiach; M: Ni chwynav od wyv aviach; **56** A, B: os y vo sy vyw a iach; E: os ef; G, M: Os y vo sy vyw ag iach; A, K, L: os y vo sy vyw a iach; I: os efo sy fyw iach; N: Os efo sy fyw a iach; **58** D, J: anerch ferch ar arffed mair; **59** A: Af mav lle mae vanwyl; B: Af inav lle mae vanwyl; E, F: af mav lle y mae fanwyl; G, I: lle i mae; H: lley mae f'anwyl; M: Av innau lle mae v'anwyl; **60** A, M: y vore raf i vwrwr wyl; B: y vory yr af i vwrw yr wyl; C, E, F, H, I, N: y fory r af; G: y forv yr af; K, L: y foru'r af i fwrw yr wyl; M: Y vore'r hav i vwrw'r wyl; **61** A: im kynevin; B: y nef vynghynevin; D, J: petai nef; G: pei bae; M: nev im kynevin; **62** A, D, J, M: i dai; B: mawn yw dai gwalchmai y gwin; E, F, G, K, L, N: gwalchmai r gwin; **63** A: Ac ni naf o daf yw dy; B: ac niwynaf o daf yw dy; M: Ag ni wnav od av yw dy; **64** B: a do; D, G, J, L: adv hwnn;

### *Rhaglith*

**A:** Mawl Roesser (mewn llaw arall) **D:** Cowydd Roger ap John pulston (*a gant Rhys Goch Glyndyfrdwy* mewn llaw arall); **F:** i Roesser o Forgannwg; **G:** I annerch Rossier ap John; **J:** Cywydd i Roger ap Sion Pilstwn R. G. G. D clôd Morganwg; **K:** Cywydd i Rosier ----- o Forganwg (Rhosier Sion yn Llyfr Iago ab Dewi); **L:** Cywydd i ddanfôn yr haul I annerch Rhosier Sion o Forganwg. (al. Cywydd i Rhosier ap Sion Pilstwn, medd Llyfr y parchedig Peter Williams o Lan Rug yn Arfon.<sup>346</sup> Mss. of I. Morg. and P. Wms compared; **M:** ~~Marwnad~~ (*Annerch*) Rosier Sion (*o Vorganwg*) | *Rhys goch Glynn dyvrduw yn ddiammeu a gant hwn* (mewn llaw arall); **N:** Cywydd i anfon yr haul i annerch Maelor.

<sup>345</sup> Dot uwchben y gair 'vy' yn llawysgrif A.

<sup>346</sup> Gw. troednodyn 62 uchod.

## Olnod

**A:** Rys goch ai kant nef yw enaid; **B:** R goch glyndyfrdwy ai k y penill; **C:** Rys goch [ ] dyfrdwy; **D:** Rys goch glynn dyfrdwy; **E:** Rhys goch glynn dyfrdwy ai kant; **F:** Rhys goch glyn dyfrdwy ai Kant; **G:** Rys goch glyn dyfrdwy; **H:** Rhys Goch Glyn Dyfrdwy a'i cant; **I:** Rhys Goch Glyn Dyfrdwy ai cant; **J:** Rhys Goch Glyn Dyfrdwy; **K:** Rhys Goch Glyn Dyfrdwy ai cant; **L:** Rhys Goch Glynn Dyfrdwy ai cant | Yn amser Owain Glynn Dwr y canwyd y cywydd uchod, y mae'r pennill 'Dywedyd, a da ydyw | A wna'n fod Owain yn fyw' yn cadarnhau peth ar y traddodiad y sydd ym Morganwg i Owain Glyn Dyfrdwy fyw ar encil yno amryw flynyddoedd mewn hen ogfeydd lle buasid gynt yn gweithio mwyn plwm, dan yr enw Sion Gwddffellow y mwynwr, ond fe wnaeth rhyw was Brenin (sef yw hynny Gwas Diawl) ei frad ef, ag nis gallasant ei geraint ai gyfeillion ddwyn ymborth iddo fyth wedi hynn, ag Owain druan y mwyaf o bob mawr a fu erioed yng Nghymru, a fu farw o newyn yn yr ogof. Dangosir hyd heddyw'r mann lle bu ar gudd ac encil, sef Coed y Marchog ym Mhlwyf Llanddunwyd yn agos i'r Bont faen ym Morganwg. | A.<sup>347</sup> os Iw faelor Ll yw'r darlleniad cywir, y mae'n lled amlwg mae Gwlad neu Frodir yn gyffredin yw ystyr Maelor yma. ag aml yn yr ystyr hynn ai ceir yng Ngwaith Prydyddion Deheubarth. | B.<sup>348</sup> Gruff. Llwyd Dafydd ap Einion Lygliw a gant y cywydd i anfon yr haul i annerch Morganwg, a ddechreu fal hyn | Yr haul deg ar fy neges , Ll | yr hon a welir mewn llawer hen lyfr dan enw Dafydd ap Gwilym. Iolo Morganwg; **M:** Rhys Goch | *Dw Rhys goch Glyn Dyfrdwy* mewn llaw arall; **N:** Rhys Goch Glyndyfrdwy.

---

<sup>347</sup> Cyfeiriad at linell 32.

<sup>348</sup> Cyfeiriad at linell 41. Ynghylch y llinell hon, gw. ymhellach y nodiadau ar y cywydd hwn.

## Nodiadau

### 19

Marwnad yw hon i Siôn ap Rhosier (m. 1467), mab ac unig blentyn Rhosier ap Siôn Pilstwn o Emral, m. 1479, o'i wraig gyntaf, Cecily, ferch Syr Randel Brereton o Falpas.<sup>349</sup> Bu farw'r mab hwn heb blant.

O drefgordd Pyvelesdon (sef Puleston erbyn heddiw) ar ochr ogleddol Casnewydd yn Swydd Amwythig y daeth teulu'r Pilstwniaid yn wreiddiol. Daeth llys Emral a'i diroedd ym Maelor Saesneg i feddiant Syr Roger de Pyvelesdon ryw bryd rhwng 1279 a 1284, ar ôl i Emma, gweddw Gruffudd ap Madog, tywysog Powys, gael ei difeddiannu o'i holl diroedd ym Maelor Cymraeg a Maelor Saesneg. Lladdwyd Syr Roger de Pyvelesdon yng Nghaernarfon ym 1294, yn ystod gwrthryfel yn erbyn trethi trwm Edwart I y bu Syr Roger yn gyfrifol am eu casglu.

Priododd wŷr Syr Roger Pyvelesdon (sef Syr Roger Pyvelesdon arall, m. c. 1339) â Margred, ferch Llywelyn ab Ynyr o Iâl. Ymhlith eu plant yr oedd Rhisiart (m. c. 1388), a briododd â Lleucu ferch Madog Foel ab Ieuan o Eglwysegle,<sup>350</sup> rhan o arglwyddiaeth Brwmffild. Cawsant dri o blant, gan gynnwys Robert, a briododd â Lowri ferch Gruffudd Fychan, arglwydd Glyndyfrdwy. Yr oedd Lowri felly yn chwaer i Owain Glyndŵr. Cafodd Robert a Lowri bump o blant, gan gynnwys Siôn, a ddaeth yn Syr Siôn Pilstwn (m. c. 1444). Priododd Syr Siôn ag Angharad, merch Gruffudd Hanmer a'i wraig Gwerfyl (ferch Tudur ap Gronw). Plentyn Syr Siôn ac Angharad oedd Rhosier ap Siôn, tad gwrthrych y farwnad dan sylw.<sup>351</sup>

Priododd y tad eilwaith ym 1468, a chafodd bedwar mab gan yr ail wraig, sef Sioned Bwclai, gan gynnwys Siôn arall, ac at yr ail Siôn hwn y cyfeiria llinell 72. Ceir hanes y Pilstwniaid yn ByCy, t. 768 a'r Atodiad, tt. 148 – 150; Charles, R. Alun, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', *Llên Cymru* XII (1972), 22 – 26; Harrison, Sunter, *The Early Pulestons* (Whitchurch, 1975), tt. 1 – 7.

3.           **deuddeng arwydd** yw'r ffurf safonol heddiw, ond diddorol yw nodi yma i wyth o gopiwyr ragddodi 'arwydd' â 'h'.
7.           **tau** = 3ydd prs. un. amser pres. y ferf 'tawaf, tewi'.

---

<sup>349</sup> Gweler WG2, 'Puleston (C<sub>1</sub>)'.

<sup>350</sup> Gweler Richards, Melville, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969), t. 64; Palmer, Alfred Neobard & Owen, Edward, *A History of Ancient Tenures of Land in North Wales and the Marches* (2il arg., 1910), tt. 48, 248.

<sup>351</sup> Gweler WG1, 'Puleston'.

10. **diwynodd** = difwynodd, difethodd, dinistriodd, gwnaeth yn ddiwerth.
12. Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.
14. **Ystwyll** eg. Gŵyl Gristnogol (6ed Ionawr) sy'n coffáu amlygiad Crist i'r Doethion. Gw. GPC, t. 3868.
20. **bwa presen** gallu'r wlad, neu adeiladwaith ar ffurf bwa sy'n cynnal y wlad. Gweler GPC, t. 350, 2877.
25. **gwialen** eb. ffon hirfain a ddefnyddid yn wreiddiol i fesur corff marw a'r bedd y cleddid ef ynddo. Mewn rhai manau yng Nghymru, fe'i rhoid gyda'r corff yn y bedd. Gweler GPC, t. 1653.
27. A chymryd mai saith sill sydd i'r llinell hon, y mae'r darlleniadau amrywiol yn awgrymu efallai nad oedd pob copiwr yn gytūn ynghylch nifer y sillafau yn y gair *galw*.
31. **doedyd** < dwedud < dywedud (-yd); gw. WG, t. 54; GPC, t. 1152.
33. **saith gysgadur** Yn rhan o *Chwedl Euraid* Jacobus de Voragine, sonnir am saith Gristion o Effesus yn ystod teyrnasiad yr Ymherodr Decius a ddewisodd ymguddio mewn ogof er mwyn osgoi eilunaddoliaeth. Clywodd Decius am hyn, a gorchynnodd i'w ddynton gau genau'r ogof. Pan ailagorwyd yr ogof dros ddau gan mlynedd yn ddiweddarach, daeth y saith allan, gan feddwl eu bod wedi cysgu am ddiwrnod. Bu'r chwedl hon yn boblogaidd yn yr oesoedd canol, ac nid yn unig yn ei ffurf Gristnogol. Crynhowyd y chwedl hon o lyfr de Voragine, Jacobus, *The Golden Legend*, trans. Ryan, William Granger (Princeton University Press, 1993), tt. 401 - 4.
38. **tad Selau** = tad Selyf = Dafydd Frenin. Priodolir nifer o salmau yn llyfr y Salmau yn yr Hen Destament iddo. Gweler AHD, tt. 257 - 9.
42. Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.
43. **Gŵyl Yswitan (Switan)** S. 'St. Swithin's day' (2<sup>il</sup> a 15<sup>fed</sup> Gorffennaf), gw. GPC, 1760. Esgob Eingl-Sacsonaidd oedd Swithun (m. 862). Y mae'r traddodiad o law a gysylltir â'i enw yn drosiad priodol iawn i wylo'r wlad yn y llinell ddilynol. Gweler BLS iii, tt. 108 - 9.
46. Cynghanedd groes 'r' wreiddgoll.
55. **post** ystyr ffigurol sydd i'r enw yma, sef cynhaliwr. Gw. GPC, 2860.
56. Cynghanedd groes 'r' wreiddgoll.

57. Cynganedd draws ‘r’ wreiddgoll.
64. Os derbynnir mai llinell saith sill ydyw hon, yna awgryma’r amrywiadau nad oedd cysondeb o ran nifer y silliau yn y gair *burw*. (Tybir yma mai gair unsill yw ef, megis yn y gair *carw*).
66. **og** Mae ystyr ffigurol amlwg yn yr achos hwn.
72. **fab o’r ail fam** Gweler y nodiadau uchod.

## 20

Cywydd yw hwn i anfon y lleuad i chwilio am ddau frawd, sef Rhys ac Ithel ab Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda ab Iorwerth Ddu ab Ednyfed Gam o Bengwern, Llangollen. Gofynnir i’r lleuad chwilio yng nghostyll Lloegr (ll. 16), lle mae’r brodyr yn garcharorion (ll. 20), ac yn llinellau 35 - 6 erfyn y bardd ar Dduw i ddwyn y brodyr ‘*o’r Drewen draw*’. Yn rhaglith y gerdd hon yn llawysgrifau B, C ac H (ac yn olnod y gerdd yn llawysgrif A) dywedir mai Rhisiart Trefor ab Edwart ap Dafydd ab Ednyfed Gam, sef aelod o gangen arall teulu Ednyfed Gam, a fu’n gyfrifol am garcharu’r ddau frawd. Yn llinell 40 y mae’r bardd yn ymbil ar Dduw i wneud *y ddwy blaid yn un*, ac yn gorffen ei gerdd â’i ddeisyfiad na fyddo *gynddrygedd mwy* (ll. 44). Awgryma’r ddwy linell hyn mai rhyw anghydfod rhwng y ddwy gangen deuluol a arweiniodd at y carcharu.<sup>352</sup>

Cyfansoddwyd cywydd arall ynghylch carcharu Rhys ac Ithel, gan Ruffudd Nannau, a fu’n fardd teulu i Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda (a oedd hefyd yn fardd). Yn y gerdd hon mae Gruffudd yn erfyn ar Fwrog Sant am ryddhad y meibion o gastell a leolir ger y môr:

*Mwrog gwna ynn ymwarded*  
*Am ddau o ben creiriau Cred.*  
*Gwyddost lle mae dau flaenor*  
40 *Mewn castell ym machell môr.*  
*Cyfod dy fagl yn draglew,*  
*Cur y tŵr a’r cerrig tew.*  
*Tyn er dy fendith Ithael*  
44 *O’r tyrau hwnt, ŵr tra hael.*

<sup>352</sup> Gweler Carr, A. D., ‘The Mostyn Family and Estate, 1200 – 1642’ (Traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru [Bangor], 1976), tt. 36 – 40 am drafodaeth fanwl ar garcharu a thynged y ddau frawd, ac yn enwedig y cyfeiriad at linellau 37 – 38 yng nghywydd Guto’r Glyn i Ieuan ab Einion o’r Cryniarth a’r Hendwr (GGG1, tt. 41 – 43 a 323).

*Pâr unwaith help i'r Ynys*  
*I Wlad yr Haf weled Rhys*<sup>353</sup>

Er y gellir derbyn nad yw'r cyfeiriad at *Wlad yr Haf* (ll. 46) yn gyfeiriad pendant at leoliad y castell dan sylw, nid yw'r *castell ym machell môr* (ll. 40) y sonnir amdano yma yn gyson â lleoliad castell y Drewen, man carcharu'r brodyr yn ôl rhai cofnodion hanesyddol.

Yn ôl *Hanes Powys Fadog*,<sup>354</sup> lladdwyd y ddau frawd yng nghastell y Drewen ar ddydd Iau olaf mis Gorffennaf, 1457. Wrth gyfeirio at y cofnod hwn yn eu llyfr ar hanes teulu Mostyn, dywed Arglwydd Mostyn a T. A. Glenn <sup>355</sup> mai '*they were slain at the siege of Whittington Castle, on the last Thursday in July, 1457*',<sup>356</sup> ac i'r anghydfod rhwng y canghennau teuluol fod yn gysylltiedig â Rhyfeloedd y Rhosynnau; Ithel a Rhys yn cefnogi'r Lancastriaid, mae'n debyg, a Rhisiart Trefor yn cefnogi'r Iorciaid.<sup>357</sup> Ar y llaw arall, mae A. D. Carr yn tynnu sylw at ddiffyg tystiolaeth ynghylch gwarchae ar gastell y Drewen, boed hynny ym 1457 neu unrhyw flwyddyn arall,<sup>358</sup> a cheir cyfeiriad yn WG2, 'Tudur Trefor' 13(C<sub>1</sub>), at y ddau frawd yn cael eu carcharu yng nghastell y Waun a'u lladd ym 1467. Y mae D. J. Bowen yn tynnu sylw at sawl cerdd yn ymwneud â charcharu, yn ogystal â thrafod cywydd Rhys Goch, a chywydd Gruffudd Nannau uchod: gweler Bowen, D. J., 'Carcharu Ithel a Rhys ab Ieuan Fychan', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. 8, rhif 1 (Haf 1953), 119 – 120. Gweler hefyd Williams, Gruffydd Aled, 'The Literary Tradition to c. 1560', yn Smith, J. B. a Smith, Ll. B., *A History of Merioneth, Vol. 2* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2001), tt.566 – 7, ac yn enwedig troednodiadau 410 – 12 ar dudalen 567.

Canodd Guto'r Glyn gywydd moliant i feibion Edwart ap Dafydd ab Ednyfed Gam,<sup>359</sup> sef Robert Trefor, Siôn Trefor ac Edwart Trefor yn ogystal â'r Rhisiart Trefor y soniwyd amdano uchod. Yn ddiweddarach, canodd farwnad i Edwart ap Dafydd ab Ednyfed Gam,<sup>360</sup> ac wedyn i Robert Trefor.<sup>361</sup> Ceir hefyd cywydd ganddo 'i ofyn cymod' Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda.<sup>362</sup>

---

<sup>353</sup> Darlleniad llawysgrif Llst 167, 335, llinellau 37 – 46, a'r orgraff wedi'i ddiwygio.

<sup>354</sup> HPF iv, tudalen 147.

<sup>355</sup> Lord Mostyn, Glenn, T. A., *History of the family of Mostyn of Mostyn* (London, 1925), t. 50.

<sup>356</sup> Fodd bynnag, nid yw HPF yn sôn am warchae.

<sup>357</sup> Lord Mostyn a Glenn, T. A., *op. cit.*, 50, 51 a 51, troednodyn 1.

<sup>358</sup> Carr, A. D., 'The Mostyn Family and Estate, 1200 – 1642', t. 37.

<sup>359</sup> GGGl, tt. 44 – 5.

<sup>360</sup> GGGl, tt. 46 – 8.



1. Dehongliad amgen o'r llinell hon yw *Duw a roes, nid i'w resyn*, a'r gair gresyn yn enw yn hytrach nag ansoddair.
10. **buarth** eg. cyrchfa, mangre, cynullfan. Credir bod yr ystyr *cylch tân* sef yr effaith a geir trwy droi ffagl wenfflam mewn cylch yn yr awyr (megis plentyn yn troi ffon wreichion ar noson Guto Ffowc) hefyd yn addas yn y cyswllt hwn. Gweler GPC, t. 343 o dan *buarth baban*. Ceir enghraifft adnabyddus o'r ystyr hwn ym marwnad Lewys Glyn Cothi i'w fab, *Marwnad Siôn y Glyn* (GLGC, 237.31).
17. **Dudur daid** Cyfeiriad at Tudur ap Gronwy o Dreicastell, Môn. Angharad ferch Ednyfed ap Tudur ap Gronwy oedd nain Rhys ac Ithel ar ochr eu tad. Gweler, er enghraifft, Roberts, Glyn, 'Teulu Penmynydd', *Traf. Anrh. Gymdeithas y Cymmrodorion* (1959), 37; Carr, A. D., 'The Mostyn Family and Estate, 1200 – 1642' (Traethawd Ph.D., Prifysgol Cymru [Bangor], 1976), t. 35.
42. **Eliwlad** Nai Arthur Frenin yn y traddodiad Arthuraidd cyn Sieffre o Fynwy. Gw. TYP<sup>3</sup>, 346 a 514.

## 21

Cywydd moliant yw hwn, i bum mab Llywelyn ap Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed, Bodedern, Ynys Môn, sef Meurig, Huw, Gruffudd, Dafydd a Rhys.<sup>363</sup> Ceir hefyd foliannau i'r pum brawd gan Guto'r Glyn a Hywel Cilan,<sup>364</sup> yn ogystal chanu i'r brodyr unigol gan sawl bardd arall.

Bu'r tad yn rhaglaw Llifon ym 1419 – 20, yn rhingyll Talybolion 1421 – 2 ac eto rhwng 1448 a 1454. Meurig a sefydlodd deulu Bodeon (Bodowen) ym Malltraeth, a'r ffenestr liw ddwyreiniol yn eglwys Llangadwaladr yn goffa iddo a'i wraig (a hefyd i'w fab Owain a'i wraig ef).<sup>365</sup> Huw (a adwaenid fel Huw Lewys) a etifeddodd Brysaeddfed, ac yntau'n rhaglaw Malltraeth ym 1471 – 2.<sup>366</sup> Gruffydd

---

<sup>361</sup> GGGI, tt. 49 – 51.

<sup>362</sup> GGGI, tt. 73 – 5. Ynghylch y cywydd hwn, gweler [www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net), cerdd 106 a'r nodiadau cysylltiedig.

<sup>363</sup> WG1, 'Hwfa' 8; WG2, 'Hwfa' 8(C<sub>1</sub>).

<sup>364</sup> GGGI, 38 – 40; GHC, 32 – 4.

<sup>365</sup> Gweler, er enghraifft, Lord, Peter, *Diwylliant Gweledol Cymru: Gweledigaeth yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), t. 224.

<sup>366</sup> Cafwyd cywydd gofyn gan Robert Leiaf, i ofyn âb gan Siôn Moel Hen dros Huw Lewis; gweler cerdd 11 a'r nodiadau uchod.

oedd hendad teulu Chwaen. Rhys a gychwynnodd deulu Bodychen ym mhlwyf Bodwrog.<sup>367</sup> Canodd Guto'r Glyn foliant i Huw Lewys ar ôl iddo fynd i drafferthion wrth groesi cors Malltraeth, a bron â boddi.<sup>368</sup> Canodd Ieuan Deulwyn gywydd gofyn am osawg gan Huw Lewys,<sup>369</sup> a cheir moliant gan Tudur Penllyn i Huw a'i wraig Sioned Bwlclai.<sup>370</sup> Canodd Lewys Môn farwnad i Huw,<sup>371</sup> a dwy gerdd foliant ynghyd â marwnad i Rys.<sup>372</sup>

Cafwyd golygiad o'r cywydd hwn yn Wiliam, Dafydd Wyn, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedern Môn' (traethawd M.A. Prifysgol Cymru [Bangor], 1970), tt. 277 - 82.

2. Cynghanedd groes 'n' wreiddgoll.
4. Cynghanedd groes 'r' wreiddgoll, 'n' ganolgoll.
18. **Rhun** cyfeiriad posibl at Rhun ap Maelgwn Gwynedd (*fl.* 550), o ystyried bod y bardd yn cyfarch Meurig fel 'milwr' yn yr un llinell. Gweler WCD, tt. 563 - 4; TYP<sup>3</sup>, tt. 491 - 2.
19. **Henw** Y mae'r amrywiad 'henw' ar 'enw' yn hen arfer: gweler TC, t. 464 a WG, tt. 187 - 8.
22. **Dewi'r glêr** Cymharer â GGGI, XLII.2 (t. 112) ac [www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net), 37.2n a 44.58n. Ceir trosiadau megis 'hydd', 'eryr', 'caterwen' a 'bwa' i ddisgrifio gwrthrychau'r canu mawl, ond ystyrid gan Thomas Roberts mai rhywbeth a gysylltir yn arbennig â Guto'r Glyn yw defnyddio enw Dewi Sant gydag enw cyffredin yn y cyflwr genidol fel hyn (gweler Roberts, Thomas, 'Guto'r Glyn', *Y Llenor*, cyf. XXVI (1947), tt. 39 - 40). Dyma, fodd bynnag, enghraifft yng ngwaith Rhys Goch Glyndyfrdwy.
24. Yn C. C., pan geid ansoddair yn y radd gymharol yn dilyn enw mewn cymal negyddol, arferid treiglo'r ansoddair yn feddal (gweler TC, tt. 66 - 67). Y mae'r rheol hon yn esbonio *Ŵr well* yn y llinell.

---

<sup>367</sup> Carr, A. D., *Medieval Anglesey*, Llangefni 1982, tt. 215 - 6.

<sup>368</sup> Gweler Wiliam, Dafydd Wyn, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedern Môn', *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn* (1969 - 70), tt. 75 - 77; gwefan Guto'r Glyn ([www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net)), o dan cerdd 64).

<sup>369</sup> GID, 39 - 42.

<sup>370</sup> GTP, 16 - 8.

<sup>371</sup> GLM, 13 - 15.

<sup>372</sup> GLM, 36 - 45.

26. **Rhys Wyn ail** Ystyr *ail* yw ‘mab, etifedd’ yn y cyd-destun hwn.
28. **pum llawenydd** sef pum llawenydd Mair: Cyfarchiad, Genedigaeth, Atgyfodiad, Dyrchafael, a’i Choronni ei hun yn y Nef. Gweler, er enghraifft, GDE, LXII.37 – 48; GPC, t. 2928; Breeze, Andrew, ‘The Blessed Virgin’s Joys and Sorrows’, CMCS, 19 (1990), tt. 41 – 54; Duffy, Eamon, *The Stripping of the Altars* (Yale University Press, 2<sup>nd</sup> arg., 2005), tt. 257 – 8.
35. **y Werddon** ‘llecyn glas mewn diffeithwch, man gwyrdd’ yw gwerddon, gw. GPC, 1642 (ond dylid nodi mai o 1690 – 1 y daw’r enghraifft gynharaf a roddir yma). O ystyried y cyd-destun, cyfeiriad at y pum rhan o Ynys Môn yr oedd y pum brawd yn berchenogion arnynt yw *pum rhan y Werddon*, mae’n debyg. Llai debygol, efallai, yw’r darlleniad ‘Iwerddon’, fel a geir mewn sawl copi.
36. **Pumwyr** e. ll. ac eg. pump o wŷr, pum dyn. Gweler GPC, t. 2929.
48. **yn hafog** = yn hael, gw. GPC, 1810.
53. **Mownur** = mawr + nur eg. Arglwydd, arwr, gwron. Gweler GPC, t. 2599.

## 22

Fel y tystia ysgrifennydd anhysbys yr unig enghraifft lawysgrifol wybyddus, cywydd moliant i Rosier ap Siôn (Puleston) o Emral (ym Maelor Saesneg) yw hwn.<sup>373</sup> Collwyd darnau helaeth o ymylon dalennau’r llawysgrif, a chollwyd sawl gair ar ddechrau llinell o’r herwydd. Y mae’r llawysgrifen yn ddarllenadwy. Priodolodd yr ysgrifennydd y gerdd i Rys Goch Eryri, eithr o gofio mai ail hanner y pymthegfed ganrif oedd cyfnod Rhosier ap Siôn, prin y gellir credu hynny. Cytunir yma â barn Dylan Foster Evans, sef bod y cywydd hwn yn debygol o fod yn waith Rhys Goch Glyndyfrdwy (gweler GRhGE, t. 39).

2. **rhyswyr ei lu** Geill ‘ei lu’ gyfeirio at gyndadau Rhosier ap Siôn, llawer ohonynt yn rhyfelwyr (sef ‘rhyswyr’).
3. **cynnwys anant** *kenau sion kynwys a enant* yw darlleniad y llawysgrif, llinell wyth sill. Cynghanedd groes a geir yma, a *sion* yn orffwysfa iddi. Ymddengys nad yw *enant* yn ffurf hysbys ar y ferf *genni* neu *geni* (gweler GMW, tt. 152 - 3), a chynigir yn betrus *anant* (sef ‘beirdd’) yn lle *a enant*, newid sydd yn gostwng nifer y sillau i saith. Yn ôl y darlleniad hwn, mae

<sup>373</sup> WG1, ‘Puleston’; WG2, ‘Puleston’ (C<sub>1</sub>).

*cynnwys* yn ferf ('y mae ef yn croesawu', gweler GPC, t. 788), neu gall fod yn ansoddair yn golygu 'derbyniol', 'a groesewir', gweler GPC, t. 797.

6. **Gorwyr y marchog euraid** Yr oedd Syr Dafydd Hanmer, marchog a thad Gruffudd Hanmer, yn hendaidd i Rosier ap Siôn ar ochr ei fam, Angharad ferch Gruffudd Hanmer.
7. Gwyddys y dylai'r darn coll gynnwys o leiaf un enghraifft o'r gytsain 'd' (a heb fod yn y darn hwnnw unrhyw gytsain arall), er mwyn y gynghanedd.  
**dy deidiau** Yr oedd Robert Pilstwn, a briododd Lowri, chwaer Owain Glyndŵr, yn daid i Rosier ar ochr ei dad; Gruffudd Hanmer, mab Syr Dafydd Hanmer oedd ei daid ar ochr ei fam. Dylid cofio, fodd bynnag, fel y gallai'r ymadrodd gyfeirio at y tad, yn ogystal â phobl ymhellach yn ôl yn yr ach deuluol.
8. **Tyrch euraid dewrwyd Harri** Harri V (1386 – 1422) neu Harri VI (1422 – 1461 a 1470 – 1471) yw'r brenin dan sylw yma (efallai'r ddau), mae'n debyg, a'r bardd yn cyfeirio at gydymdeimladau'r teulu â'r achos Lancastraid. (Yr oedd Angharad ferch Tudur ap Goronwy yn fam i Angharad ferch Gruffudd Hanmer, a Tudur ap Goronwy yntau'n daid i Owain Tudur ac yn orhendaidd i Harri VII).
10. Llinell chwe sill.
11. Llinell chwe sill.
12. **diarswyd i deirsir** O Sir Amwythig yr hanai teulu Rhosier ap Siôn, ac yr oedd ei lys Emral yn Sir y Fflint. Yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau, ymladdodd yn erbyn yr Iorciaid yn Sir Ddinbych (a manau eraill).
13. **doetych** 2il pers. un. modd amodol pres. y ferf doedaf (dywedaf). Gweler GPC, 1071.
20. **Dewi'r glêr** Gweler 21.22 a 21.22n uchod. Bron yr un llinell yw hon, mewn gwirionedd.
22. Cynghanedd draws 'r' wreiddgoll.
- 22 – 24. **Elen a'i llu** Elen Luyyddog, arwres *Breuddwyd Macsen Wledig*; gweler 18.3 – 4n uchod; CLC<sup>2</sup>, t. 228. Wedi iddo ddarganfod Elen yn y gaer yn Aber Saint a chysgu gyda hi, adeiladodd Macsen dair gaer iddi, yn Arfon, Caer Llion a Chaer Fyrddin, fel rhan o'i thâl morwynol.

Ac yna fe feddyliodd Elen wneud ffyrdd llydain o bob caer i'w gilydd ar draws Ynys Prydain, ac fe wnaed y ffyrdd. Ac

oherwydd hynny y gelwir hwy yn Ffyrdd Elen Luyddog  
oherwydd ei bod hi'n hanfod o Ynys Prydain ac na wnâi gwŷr  
Ynys Prydain y lluoedd mawr hynny i neb ond iddi hi.

(YM, t. 80).

23. bai ar y gynghanedd yn ôl safonau heddiw (twyll gynghanedd '1).
- 23 – 24. Y mae cwrs yr hen ffordd Rufeinig o Gaer (Deva) i Gaerwrygion (Viroconium Cornoviorum) yn mynd yn agos at hen safle Emral (Margary, Ivan D., *Roman Roads in Britain, Volume 2* (Phoenix, 1957), tt. 48 – 9).
27. **buum** Gynt yr oedd *bûm* yn air deusill, bu-um, a bûm (sef buum) a geir yn y llawysgrif. Gweler WG, tt. 36, 67, 350.

**Mynyw** Menefia, sef Tyddewi. Yr oedd Tyddewi yn gyrchfan pwysig i bererinion ar ôl i'r pab Calixtus II (1119 – 24) ordeinio bod dwy bererindod i Dyddewi yn gyfartal ag un i Rufain, a thair i Dyddewi yn gyfartal ag un i Gaersalem. Mae'n debyg iawn mai ar bererindod oedd y bardd pan aeth i Dyddewi. Yr oedd teithio o Dreffynnon i Dyddewi yn boblogaidd i bererinion yr oesoedd canol, a dilynent ffordd neilltuol a'u galluogai i ymweld â sawl mynachlog ar y ffordd. Gweler Hartwell Jones, G., *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (Hon. Soc. Cymmrodorion, 1912), tt. 369 – 72. Mae'n bur bosibl mai'r ffordd hon yr oedd y bardd wedi ei dilyn. Posibiliad arall yw iddo ddilyn olion hen ffyrdd Rhufeinig (gweler Margary, Ivan D., *loc. cit.*, a'r map Ordnans 'Roman Britain', er enghraifft).

29. **maddau** Yr ystyr yma yw 'ymadael â'. Gweler GPC, t. 2303.  
Y bai 'crych a llyfn' ar y gynghanedd (draws anghytwys ddisgynedig) 'n' wreiddgoll; gweler CD, t. 156.
30. Cynghanedd draws 'n' wreiddgoll.
31. **Nudd** mab Senyllt a chefnder Rhydderch Hael a Mordaf Hael.
33. **Ieithor** Ymddengys mai *Iei thon* sydd yn y llawysgrif. Cynigir y gair 'Ieithor' (GPC, t. 2011) yn betrus.
34. Llinell wyth sill.
35. **lluddias y ffordd** = rhwystro'r ffordd. Gweler GPC, t. 2220.

**Dole** enw lle (pentref, trefgordd, fferm), mae'n debyg. Mae 'Dole' yn enw ar bentref bychan ryw bum milltir i'r gogledd-ddwyrain o Aberystwyth, a gallai'r bardd fod wedi mynd trwyddo ar ei ffordd yn ôl i ardal Emral, gan ddilyn llwybr y pererinion neu'r hen ffordd Rufeinig sy'n mynd trwy Lanio (Bremia) a Phennal (gweler Margary, Ivan D., *loc. cit.*, a'r map 'Roman Britain'). Posibiliad arall yw iddo ddilyn yr hen ffordd Rufeinig sy'n mynd trwy Gaerfyrddin, Llanymddyfri, Llandrindod, Y Drenewydd, Trefaldwyn, Caerwrygion a'r Eglwys Wen (gweler y map 'Roman Britain' eto). Ymddengys fod yna le o'r un enw yn ardal Trefaldwyn. (Gweler, er enghraifft, y rhestr o danysgrifwyr yn Pughe, W. Owen, *A Dictionary of the Welsh Language, Explained in English* (Vol. 1, Thomas Gee, 1832). Yno ceir y cofnod dilynol: 'George Mears, Esq. Dole, Montgomeryshire'. Gweler hefyd Rowley-Morris, E., 'Beander Mill and Lands, Newtown', *Collections Historical & Archaeological Relating to Montgomeryshire and Its Borders*, Cyf. 17, tt. 70 – 72. (Posibiliad arall yw bod *Dole* yn ffurf lafar ar 'Dolau'; rhaid i union lwybr y bardd aros yn gêl).

36. **nawras ne'** sef nawradd nef Dionysius yr Areopagiad, a fu'n fyw ddiwedd y 5fed / dechrau'r 6ed ganrif. Gweler Hartwell Jones, G., *Celtic Britain and the Pilgrim Movement* (Hon. Soc. Cymmrodorion, 1912), t.298; Parker, Rev. John, *The Works of Dionysius the Areopagite*, Part 1 (James Parker & Co. London, 1897), yr adran 'On the Heavenly Hierarchy'.

37. **megaist fi** 'peraist imi ffynnu' yw ystyr tebygol 'megaist fi' yn y cyswllt hwn; hynny yw, yr oedd Rhosier yn peri i'r bardd ffynnu trwy fod yn noddwr iddo.

38. **myn magod** = epil pesg yr afr. Gweler GPC, t. 2533, o dan 'myn<sup>2</sup>'. Cymharer â'r llinell ganlynol o'r cywydd 'I'r Tafod', o waith Llywelyn ab y Moel: 'Megaist fal y myn magod' (gweler IGE<sup>2</sup>, t. 210 (ll. 9), GDBMW, 12.71 (t. 105).

**farglwyddiaeth** Gair pedair sill, ffurf arall ar y gair teirsill *arglwyddiaeth*. Cyfarch yr arglwydd Rhosier y mae'r bardd (S. *my lord*).

Y mae 'fu'r' y golygiad (*fyr* yn y llawysgrif) yn amharu ar y gynghanedd, a fuasai fel arall yn gynghanedd groes.

41 – 42. **adar ... ym mharadwys** Gweler GPC, t. 12: 'adar Paradwys: (supposed) birds of Heaven'. Gweler GRhGE, t. 73 (6.75 – 76) a'r nodyn cysylltiol ar d. 196; hefyd GRhGE, t. 100 (10.65 – 66).

44. **llysg** = llys eg. llysnafedd. Gweler GPC, tt. 2278 (llysg2) a 2276 (llys2).
45. **dwylan Banna** Mae Nant Emral, a'i llwybr yn mynd trwy hen ystâd Emral ac yn agos i safle llys Emral (sydd erbyn hyn wedi'i ddymchwel), yn tarddu yn agos i'r pentref Llannerch Banna (S. *Penley*), ac yn cael ei bwydo gan nentydd eraill sy'n tarddu yn y dyffrynnoedd coediog ar ochr ogleddol y pentref. Enw ar un o'r rhain, neu efallai enw arall ar nant Emral ei hun, oedd nant Banna, mae'n debyg.

## 23

Cywydd yw hwn i ofyn am ddau hyddgi gan Siencyn ab Ieuan ap Llywelyn o Blas yn Iâl dros Siôn Hanmer o'r Llai, Wrecsam. Ychydig a wyddys am Siencyn ab Ieuan; priododd ei ferch Margred ag Elis ap Gruffudd ab Einion, barwn Gwyddelwern ac o linach tywysogion Iâl.<sup>374</sup> Yn fab i Syr Siencyn Hanmer,<sup>375</sup> bu Siôn Hanmer yn ddistain Maelor Saesneg,<sup>376</sup> yn gefnogwr brwd i'r Lancastraiid, a chyda Rhosier Pilstwn yn arweinydd y Lancastraiid yng Ngogledd Cymru yn chwedegau'r bymthegfed ganrif.<sup>377</sup> Ceir cyfeiriad at uchelgyhuddiad Siôn Hanmer, a'i fab William, ynghyd â Rhosier Pilstwn ac *Edward of Madoc*, mewn llythyr gan John Paston III (m. 1504) at ei dad John Paston I (m. 1466).<sup>378</sup> Yr oedd John Paston III yn gwasanaethu yng nghastell Holt ar y pryd. Bu farw Siôn Hanmer ym 1480.<sup>379</sup>

Dilyna'r bardd drefn arferol y *genre*. Yn llinellau 1 - 16 y mae'r bardd yn annerch a moli'r darpar roddwr, sef Siencyn ab Ieuan (Ifan) ap Llywelyn ap Gruffudd Llwyd o Allt Llwyn Dragon (Plas yn Iâl) yn nhrefgordd Bodanwydog yn Iâl.<sup>380</sup> Yna, yn llinellau 17 - 30 cyflwyno'r bardd ei gais, gan egluro pa rodd a

<sup>374</sup> Gweler, er enghraifft, Cledwyn Fychan, "Tudur Aled", *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. 23 (i) (haf 1983), t. 60.

<sup>375</sup> Marchog, a chefnogwr brwd Owain Glyndŵr, a laddwyd ym mis Gorffennaf, 1403, ym mwrwydr Amwythig; WG1, 'Hanmer' 1; HPF, 2, 150.

<sup>376</sup> WG1, 'Hanmer' 1, troednodyn 2.

<sup>377</sup> Evans, H. T., *Wales and the Wars of the Roses*, tt. 86 - 87, 89.

<sup>378</sup> Fenn, J. & Mrs. Archer-Hind (gol.), *The Paston Letters* (2 gyf., London, J. M. Dent & Sons, 1951), cyf. 1, tt. 242 - 44.

<sup>379</sup> Am ragor o wybodaeth am yr Hanmeriaid, gweler, er enghraifft, Charles, R. Alun, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', *Llên Cymru* XII (1972), tt. 15 - 19, ac yn enwedig t. 19.

<sup>380</sup> WG1, 'Sandde Hardd' 2 a 'Sandde Hardd' 10; HPF, 6, tt. 4 - 5.

ddeisyfir. Nid yw pob copi yn cynnwys llinellau 17 – 18, ac nid ydynt yn gytûn ynghylch llinell 19. Er hwylustod, cynigir yma aralleiriad o linellau 17 – 22:<sup>381</sup>

- 17 Nid yw dyn drwg yn dy garu di, fy marwn,  
Nid yw (dyn) da yn dy gasáu di; y mae hwn yn dy geisio di,  
Lle bo dyn cywir a da, y mae ef yn dy garu di,
- 20 Bydded i Dduw garu'r cywiraf.  
Un teyrngar a ganiateir i'th oed  
Canmoliaeth onest. Clyw dy fardd.

Yn llinellau 23 - 28 eglura'r bardd y broblem sydd gan yr eirchiad, sef carw myngddu haerllug sy'n difetha cnydau, yn gyrru cŵn (arferol) ar ffo ac yn *goframu er saethu saeth!* Yr hyn a ddeisyfir gan yr eirchiad yw cŵn arbennig na fydd yr un carw yn chwarae â hwynt (ll. 29 - 30). Yn llinellau 31 - 58 y mae'r bardd yn dyfalu'r cŵn hyn (dau gi mewn gwirionedd). Er bod y bardd yn defnyddio llais yr eirchiad trwy'r cywydd, ni ddatguddir mai Siôn Hanmer yw ef tan linell 59, sef dechrau'r diweddglo. Yn ôl llinell 60, nai Siancyn ab Ieuan yw Siôn Hanmer, ond dylid cofio fel yr oedd y gair 'nai' yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd lawer mwy llac yn yr Oesau Canol (gweler GPC, t. 2549). Ymddengys fod yna gysylltiadau teuluol rhyngddynt. Dangosir y cysylltiadau yn y ddau dabl canlynol, lle mae symud un rhes yn uwch (is) yn golygu symud un genhedlaeth yn ôl (ymlaen). Ffordd o gyflwyno rhan o achres yw'r tablau hyn, felly. Yn tabl (a) isod, er enghraifft, mae Llywelyn Ddu ap Gruffudd yn dad i Angharad ferch Llywelyn Ddu, a hithau yn ei thro yn fam i Syr Siencyn Hanmer. Mae dau enw yn yr un rhes ag arwydd '=' rhyngddynt yn dynodi bod y ddau unigolyn dan sylw yn gwpwl priod. Yn tabl (a), cafodd Iorwerth Foel ab Iorwerth Fychan a'i wraig Gwladus ferch Iorwerth ap Griffri (o leiaf) dau fab, sef Gruffudd ab Iorwerth Foel a Madog Llwyd ab Iorwerth Foel. Un o ddisgynyddion Gruffudd oedd Siôn Hanmer, tra un o ddisgynyddion Madog oedd Siencyn ab Ieuan ap Llywelyn:-<sup>382</sup>

---

<sup>381</sup> Ynghylch llinellau 17 – 18, gweler WG, tt. 277 – 8.

<sup>382</sup> Cafwyd hyd i'r cysylltiadau teuluol hyn trwy ddefnyddio'r meddalwedd ar y wefan <https://histfam.familysearch.org/>, sef gwefan Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diweddaf (Eglwys y Mormoniaid). Er mai gwaith Bartrum yw'r ffynhonnell gydnabyddedig yn y maes hwn, y mae gwefan Eglwys y Mormoniaid yn un ddefnyddiol iawn, sydd yn cynnwys cyfeiriadau at waith Bartrum yn ogystal ag at ffynonellau eraill.



(a)

	Iorwerth Foel ab Iorwerth Fychan (Tudur Trefor 12)	=	Gwladus ferch Iorwerth ap Griffri (Mael Maelienydd 1)		
Gruffudd ab Iorwerth Foel (Tudur Trefor 15)			Madog Llwyd ab Iorwerth Foel (Tudur Trefor 12)		
Llywelyn Ddu ap Gruffudd (Tudur Trefor 17)			Gwladus Drahaus ferch Madog Llwyd (Tudur Trefor 12)		
Angharad ferch Llywelyn Ddu (Hanmer 1)			Nest ferch Rhys (Marchudd 16)		
Syr Siencyn Hanmer (Hanmer 1)			Angharad [1af] ferch Ieuan (Sandde 9)		
<b>Siôn Hanmer (Hanmer 1)</b>			Lleucu ferch Llywelyn (Tudur Trefor 43)	=	<b>Siencyn ab Ieuan ap Llywelyn (Sandde 10)</b>

(b)

	Yr Hen Ddafydd (Sandde 3)	=	Annes ferch Iorwerth Goch ap Madog (Mabon Glochydd 1)		
Iorwerth ab yr Hen Ddafydd (Sandde 04)			Angharad ferch yr Hen Ddafydd (Tudur Trefor 24)		
Gronwy ab Iorwerth (Sandde 04)			Gwenhwyfar ferch Madog (Tudur Trefor 24)		
Dafydd ap Gronwy (Sandde 04)			Ednyfed ap Gruffudd (Tudur Trefor 43)		
Efa ferch Dafydd (Hanmer 1)			Llywelyn ab Ednyfed (Tudur Trefor 43)		
<b>Siôn Hanmer (Hanmer 1)</b>			Lleucu ferch Llywelyn (Tudur Trefor 43)	=	<b>Siencyn ab Ieuan ab Llywelyn (Sandde 10)</b>

Yn ogystal, y oedd Mawd ferch Gruffudd Hanmer, brawd Siôn Hanmer, yn wraig i Lewys Iâl, mab Siencyn ab Ieuan ap Llywelyn (Bartrum, Sandde Hardd 10).

Canodd Guto'r Glyn gywydd moliant i Siôn Hanmer, ynghyd â chywydd gofyn cylllell hela drosto gan Ruffudd ap Rhys o Iâl (GGG1, LXIII, LXXX; [www.gutorglyn.net](http://www.gutorglyn.net), 75, 76). Canodd Tudur Aled gywydd yn gofyn gŵn llwyd ganddo dros Gutun Wilcog o'r Wyddgrug (GTA, CXXI). Ceir hefyd gywydd gofyn march gan Ruffudd ap Rhys ap Dafydd ap Hywel o Ddinmael dros Siôn Hanmer gan Utun Owain (OPGO, IX).

1. **Carw serch y cywiriad** yw'r llinell gyntaf ym mhob llawysgrif ac eithrio C a D. Defnyddir *Y carw* yn y fersiwn golygedig er mwyn sicrhau llinell seithsill.
2. **Siencyn** Siencyn ab Ieuan ap Llywelyn o Blas-yn-Iâl, Llandegla.
3. **Ifan** Ieuan ap Llywelyn.
4. **Lliwlad** Eliwlad, fab Madog fab Uthr, nai y brenin Arthur. Gweler TYP<sup>3</sup>, tt. 346 a 514. Gweler hefyd 20.45.
6. **Gruffudd Llwyd** Gruffudd Llwyd ap Maredudd ap Llywelyn ab Ynyr. Gweler Bartrum, Sandde Hardd 02 a 01.  
**gorhoffedd** eg. edmygedd, anwylyd (nid math o ganu ymfrostgar yma).
10. **Pedair iach** taid a nain o ochr y tad a'r fam.
11. Cynganedd sain ag iddi odl gudd.
21. **Cywir** eg. un teyrngar i ryw unigolyn, cefnogwr ffyddlon. Gweler GPC, t. 834.
22. **'wenydd** = awenydd eg.b. bardd, prydydd. Gweler GPC, t. 241.
35. **i'm arwain** Dyna sydd gan y rhan fwyaf o'r enghreifftiau. Ynghylch yr arfer C. C. o beidio ag ychwanegu 'h' ar ôl 'm genidol, gweler TC, t. 153.
36. **tâl** eg. rhagfur, talcen. Gweler GPC, t. 3425 o dan tâl<sup>2</sup>.  
Llinell wyth sill.
43. Twyll gynghanedd 'm'.
44. **Amlwg** Enw'r ci cyntaf. Mae'n bosibl mai enw go iawn y ci oedd Amlwg; ar y llaw arall gallai'r bardd fod wedi defnyddio'r enw yn drosiadol.
46. **Lluwch** Enw'r ail gi, hefyd yn drosiadol os felly yw'r cyntaf.

57. **cŵn Fferyll** sef cŵn Fyrsil, bardd Lladin adnabyddus ac awdur y gerdd yr *Aeneid*, sy'n adrodd hanes taith y milwr *Aeneas* o adfeilion Caerdroea i'r Eidal a sefydlu dinas y datblygodd Rhufain ohoni. Mae'n bosibl mai cyfeiriad at Cerberus, ci ac iddo dri phen yr oedd *Aeneas* yn gorfod ei basio er mwyn mynd i'r isfyd, yw 'cŵn Fferyll'. Ar y llaw arall, o ystyried lliw'r dau gi (ll. 50, 55 – 56) a'r cysylltiad â hela carw, mae'n fwy tebyg mai yr hyn sydd yma yw cyfeiriad at gŵn Annwn yng nghainc gyntaf y *Mabinogi* (gweler, er enghraifft, YM, t. 1). Ystyrid *Fferyll* yn ddewin yn yr Oesau Canol, a cheir sawl cyfeiriad ato yng ngwaith y cywyddwyr (er enghraifft, GDG, 32.32, 84.58; GGG1, XLIX.22; GLGC, 118.29; GTA, LXIII.64, CII.35; GLM, XXVII.51; GIF, 27.12 a 27.12n; GSDT, 16.23, 16.23n). Ni chafwyd cyfeiriad arall at *cŵn Fferyll*, fodd bynnag.

## 24

Yn ôl copiyydd anhysbys llawysgrif D, cywydd i *Rosier ap Siôn Pilstwn* yw hwn. Cytuna David Ellis yn llawysgrif J, eithr cywydd yw hwn i *Roesser o Forgannwg* yn ôl John Davies Mallwyd (enghraifft F) ac i *Rosier--- o Forganwg* yn ôl Iolo Morganwg yn K. Yn L, fodd bynnag, mae Iolo yn cymharu'r hyn sydd ganddo ef ag enghraifft yn *Llyfr y Parchedig Peter Williams o Lan Rug yn Arfon*, ac ymddengys i'r clerigwr hwnnw briodoli'r gerdd i *Rhosier ap Sion Pilstwn*. Mae'n bur sicr mai Peter Bailey Williams yw'r clerigwr dan sylw yn hytrach na'i dad,<sup>383</sup> ac o gymharu'r gwahaniaethau a gofnodir gan Iolo Morganwg gyda'r darlleniadau amrywiol uchod, ymddengys mai enghraifft J (yn llawysgrif CM 11) oedd y fersiwn yn *Llyfr y Parchedig Peter Williams*. Yn ôl John Gwenogvryn Evans, y Parchedig D. Ellis, curad Amlwch, a ysgrifennodd llawysgrif CM 11,<sup>384</sup> ac felly buasai'n hawdd i Peter Bailey Williams fod wedi benthyg y llawysgrif ganddo.

Yn y cywydd, ymddengys fod y bardd wedi mynd i Forgannwg, ac yntau'n hiraethu ac yn pryderu ynghylch ei noddwr yn Emral. Nid yw'r bardd yn datgelu'r rheswm dros ei bresenoldeb yno, ond o ystyried y cyfeiriad at Owain (Glyndŵr), y mab darogan, yn llinellau 23 – 26, dichon fod a wnelo Rhyfeloedd y Rhosynnau â chefnidir y cywydd.

---

<sup>383</sup> Bu'n rheithor Llanrug a Llanberis o 1792 hyd ei farwolaeth ym 1836; gweler er enghraifft, ByCy, tt. 1000 – 1001.

<sup>384</sup> Ym 1777; gweler RWM ii, t.895.

Yn llinellau 1 – 8 y mae'r bardd yn disgrifio ei hiraeth, ac yn llinellau 9 – 14 datgelir mai hiraeth am Rhosier ap Siôn sydd ar y bardd. Ymddengys fod y Cymry wedi meddiannu'r wlad *uwch Gaer Dyf* (llinellau 15 – 16), ac yn llinellau 17 – 20 disgrifia'r bardd rinweddau'r sir. Dywed Rhys Goch yn llinellau 21 – 22 iddo gael *aur rudd a geiriau teg* i'w ddyhuddo. Eithr bardd Rhosier ap Siôn yw ef (llinellau 25 – 26), ac oherwydd ei hiraeth am ei noddwr, mae Rhys Goch am ddod yn ôl i Faelor (llinellau 27 – 34). Trawiadol gywrain a choeth yw llinellau 34 – 58, a'r bardd yn anfon yr haul at Rosier ap Siôn. Fel y dengys llinell 41, ceir yma adlais bwriadol gan Rys Goch o gywydd enwog Gruffudd Llwyd i anfon yr haul i gyfarch Morgannwg (ond o chwith). Yn y diwedd glo (llinellau 59 – 64), addawa'r bardd yr â ef i fwrw'r wyl gyda'i noddwr, a byth ei adael wedi hynny.

7. Ceir yr ansoddair 'maeth' yn dilyn yr enw 'mab' yn llawysgrifau E, F, H, I, K, L ac N.
16. Y mae'r enghreifftiau llawysgrifol yn amrywio'n fawr o ran geiriad (ac ystyr) y llinell hon.
20. **Gwaun Llwg** Ffurf ar Gwynllywiog, sef y rhan honno o'r hen frenhiniaeth Glywysing (Morgannwg) a etifeddwyd gan Gwynllyw, mab y brenin Glywys ap Solor (gweler WCD, tt. 288 – 9, 355 – 356; Richards, Melville (gol. Bedwyr Lewis Jones), *Enwau Tir a Gwlad* (Gwasg Gwynedd, 1998), tt.12 – 13; Jones, Bedwyr Lewis, *Yn ei Eلفen* (Gwasg Carreg Gwalch, 1992), t. 62; Pierce, Gwynedd O., *Place-Names in Glamorgan* (Merton Priory Press, 2002), t. 29). Erbyn heddiw y mae'r ardal yn rhan o Fynwy.
24. Ynghylch y llinell hon, gweler (gan gofio mai dychymyg Iolo Morganwg sydd ar waith) yr olnod a geir yn enghraifft L. Y mae Rhys Goch yn dweud *fod Owain yn fyw* yn yr ystyr ei fod yn fab darogan.
26. **nai Owain** Yr oedd Siôn ap Rhobert (bu farw tua 1444), tad Rhosier ap Siôn, yn nai i Owain Glyndŵr, trwy briodas Rhobert Pilstwn â Lowri, ferch Gruffudd Fychan a chwaer Owain Glyndŵr.
40. **Orwen haul** *Orwyn haul* a geir yn J ac L. Mae'r ddau ddarlleniad yn iawn, gan y gallai 'haul' fod yn fenywaidd neu'n wrywaidd (gweler GPC, t. 1826). Llawysgrifau o ail hanner y ddeunawfed ganrif yw J ac L, ond yn K (o drothwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg), cadwyd at *Orwen haul*. Ystyrir 'haul' yn enw gwrywaidd heddiw.

41. **Gruffudd Llwyd** sef Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion Lygliw, bardd ac uchelwr o Langadfan, Powys, a flodeuai c. 1380 – 1410 (gweler, er enghraifft, ByCy, t. 294; GGLl, tt. 75 – 89). Yr oedd Gruffudd Llwyd yn un o feirdd disgleiriaf ei oes, ac yn athro barddol i Rys Goch Eryri, a ganodd farwnad iddo. Canodd Gruffudd Llwyd gywydd moliant i'r haul ac i Forgannwg (GGLl, tt. 113 – 123, 234 – 240), a dyma'r cywydd y cyfeiria Rhys Goch Glyndyfrdwy ato yn y cwpled yn llinellau 41 – 42.
43. **tuthia** ail bers. un. modd gorch. tuthio, tithio be. symud yn gyflym, brysio. Gweler GPC, t. 3655. Ceir *teithia* yn A.
49. **mam Bedr** Ynghylch y treigladd meddal, gweler TC, t. 101. Cyfeiriad efallai at iachâd chwegr yr apostol Pedr gan yr Iesu: gweler Mathew 8: 14 – 15, Marc 1: 29 – 31, Luc 4: 38 – 41.
58. **merch arffed Mair** sef yr haul, un o'r prif ddelweddau a gysylltir â'r Forwyn Fair. Gweler, er enghraifft, Dat. 12.1 – 5; Cartwright, Jane, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod* (Caerdydd, 1999), tt. 51 – 52; GGapM, cyf. 2, 10.5n (t. 197).
60. **af i fwrw'r wyl** Yn ôl Statud Gruffudd ap Cynan, caniateid i fardd ymweld â noddwr ar y tair gŵyl arbennig, sef y Pasg, y Sulgwyn a'r Nadolig. (Gweler, er enghraifft, Thomas, Einir Gwenllian, 'Astudiaeth Destunol o Statud Gruffudd ap Cynan' (Traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru [Bangor], 2001), tt.84, 749; Thomas, Gwyn, *Eisteddfodau Caerwys* (Caerdydd, 1968), t. 66.
62. **Gwalchmai gwin** Cyfeiriad at y cymeriad chwedlonol Gwalchmai ap Gwyar (yn hytrach na'r bardd Gwalchmai ap Meilyr); arwr a gysylltir â'r Arthur chwedlonol, a 'gwin' yn cyfeirio at ei statws bonheddig (yr oedd yn nai i Arthur). Gweler, er enghraifft, WCD, tt. 303 – 4; TYP<sup>3</sup>, tt. 9 – 10, 367 – 71.

## Geirfa

**ail** eg. mab, etifedd. 21.26, 21.26n

**adwyth** eg. drwg, aflwydd, anffawd. 24.30

**aestalch**, astalch eb., ll. estylch. tarian. 24.11

**amlwch** eg. cyflawnder. 23.54

**anair** eg. b. gwarth, drygair, gogan, anghlod. 24.57

**anant** e.ll. beirdd, cerddorion. 22.3, 22.3n

**anllad** a. anniwair, annheyrngar. 24.27

**annerch** eb.g. cyfarchiad, anerchiad. 24.36

**annudd** eg. gorchudd, cuddiad. 23.29

**arffed** eb. y plyg lle y cyferfydd gwaelod y bol â'r cluniau. 24.58

**arofyn** = gofyn. 24.13

**awenydd** eg. b. bardd, prydydd. 23.22, 23.22n

**brud** eg. darogan, proffwydoliaeth. 20.25

**buarth** eg. cyrchfa, mangre, cynullfan. Hefyd *cylch tân*, sef yr effaith a geir trwy droi ffagl wenfflam mewn cylch yn yr awyr (megis plentyn yn troi ffon wreichion ar noson Guto Ffowc). 20.10, 20.10n

**buddiant** eg. lles, mantais, llwyddiant, elw. 20.30

**buum** Gynt yr oedd *būm* yn air deusill, bu-um, a būm (sef buum) a geir yn y llawysgrif. 22.27, 22.27n

**bwa presen** gallu'r wlad, neu adeiladwaith ar ffurf bwa sy'n cynnal y wlad. 19.20, 19.20n

**cad** = cafwyd. 24.39

**cafaf** = cafodd. 24.42

**calyn** = canlyn bg.a. dyfod neu fyned ar ôl, dilyn, gwasanaethu. 19.25, 22.43

**caregl** eg. cwpan, ffiol; y cwpan a ddefnyddir yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaid. 21.34

**carth** eg. brethyn garw. 23.34

**caterwen** eb. ll. caterw, cateri. Derwen fawr lydanfrig, yn ffigurol am bendefig cadarn. 19.57

**ced** eb.g. rhodd, anrheg. 22.50

**ceinach** eb. ysgyfarnog. 23.44

**cennad** eb.g. negesydd, llysgennad, cynrychiolydd. 24.37, 24.39

**clêr** eb. tf. (a) beirdd, (b) dosbarth isel o feirdd heb hyfforddiant swyddogol. 21.9, 21.22, 21.22n, 22.20, 22.20n.

**cwarterau** e.ll. (un. g. cwarter). Y pedair rhan gyfartal y rhennir peth. 24.8

**cynddrygedd** eg. malais, llid, casineb. 20.44

**cywir** eg. un teyrngar i ryw unigolyn, cefnogwr ffyddlon. 23.21, 23.21n

**cilchwyrn** e.ll. (un. g. cilchwyrnyn) chwarennau; chwydd neu haint ar chwarren. 19.45

**clariwn** eg. math o drwmped cyfyng ei bib a chyffrous ei sain a ddefnyddid yn fynych mewn rhyfel. 21.32

**croesanaeth** eg.b. ymddygiad nodweddiadol o sarhaus, haerllug. 23.27

**cwrs** eg. trefn, rheol, arfer. 23.27

**cyfrwyddydd** = cyfrwydd-der eg. parodrwydd, hwylustod, rhwyddineb. 20.9

**cynnwys** = 3dd prs. un. amser pres. modd myn. cynhwysaf ba. croesawu, cynnal. 22.3, 22.3n

**cywir** eg. un teyrngar i ryw unigolyn, cefnogwr ffyddlon. 23.21, 23.21n

**cywiriaid** ffurf luosog cywir eg. un teyrngar i ryw berson neu achos; un y gellir ymddiried ynddo; person didwyll ac union. 22.14, 23.1

**chwannog** a. awyddus, eiddgar. 24.29

**deuwr** = dau ŵr. 23.15

**dianach** a. o uchel dras. 23.13

**dianoff** = dianhoff a. hoffus, hawddgar, cymeradwy. 24.51

**diengis** = 3<sup>ydd</sup> prs. un. amser gorff. y ferf 'dianc'. 23.24

**difiog** a. ffyrnig, creulon, anhydrin. 19.46

**dinau** bg.a. ymdywallt, ymarllwys. 19.44

**diogan** a. difai, dianair. 23.3

**diwyno** be. difwyno, difetha, dinistrio, gwneud yn ddiwerth. 19.10, 19.10n

**doedyd** < dwedud < dywedud (-yd). 19.31, 19.31n

**doetych** 2<sup>il</sup> brs. un. amodol pres. y ferf *doedaf* (h. y. *dywedaf*). 22.13, 22.13n

**dyhuddo** ba. diddigio, cymodi, heddychu, tawelu. 19.53, 24.21

**eilchwyl** adf. Eilwaith, drachefn, eto, unwaith yn rhagor. 19.45

**eiriach** be. cadw rhag, arbed; hepgor, sbario. 23.7

**emylau** e.ll. (un. g.b. emyl). ymylon, gororau, ffiniau. 19.49

**eres** a. hynod, rhyfedd, aruthr, yn peri syndod. 23.59

**estynned** = 3ydd prs. un. modd gorch. y ferf estyn. 20.11

**fenswn** eg. cig carw; anifail a helir, yn enwedig carw. 23.33

**ffortyn** eb. ll. -au siawns, tynged, ffawd. 23.16

**ffunen** eb. rhwymyn. 20.12

**ffyrf** a. g. (b. fferf) cadarn, grymus, nerthol, sylweddol. 23.26

**gado** = gadael, gw. WG, 381. 24.64

**galawnt** a. a hefyd eg. cwrtais a mawrfrydig, bonheddig, dewr; dyn(ion) dewr.  
20.22

**goframu** bg.a. rhechain; amharchu, sarhau; herio. 23.28

**gorhoffedd** eg. edmygedd, anwylyd (nid math o ganu ymfrostgar yma). 23.6, 23.6n

**goror** eg.b. bro, ardal yw'r ystyr yma. 21.12

**gorwen** a.b. (g. gorwyn) disglair, gloyw, hyfryd, harddiawn. 24.40

**gosail** eb.g. sail, sylfaen, cynhalbren. 23.35

**gwaneg** eb. ffurf, dull, pryd, gwedd, ymddangosiad. 19.19

**gwelïau** e. ll. (un. g. gweli) Briw gwaedlyd, archoll, anaf. 21.54

**gwerddon** eb. llecyn glas mewn diffeithwch, llannerch, cilfach werdd neu fan  
gwyrdd. 21.35, 21.35n

**gweryd** eg. pridd, daear; yn *ffig*. bedd; gwardigaeth, iachawdwriaeth. 19.24

**gwialen** eb. ffon hirfain a ddefnyddid yn wreiddiol i fesur corff marw a'r bedd y  
cleddid ef ynddo. Mewn rhai manau yng Nghymru, fe'i rhoid gyda'r corff yn  
y bedd. 19.25, 19.25n

**gwilied** = gwylied bg.a. aros yn obeithiol neu'n hyderus. 24.52

**gwrthallt** eb. llethr gyferbyn, dibyn gyferbyn. 22.33



**gwrthebu** bg.a. ateb, ymateb. 19.29

**Gŵyl Yswitan** (Switan) S. *St. Swithin's day* (2il a 15fed Gorffennaf). 19.43, 19.43n

**gwyll** a. tywyll, trymlyd, du, llawn cysgodion. 20.16

**hafog** a. hael. 21.48, 21.48n

**henu** bg.a. heneiddio, llesgáu, gwano,dirywio, pallu. 22.21

**henw** eg. amrywiad ar 'enw' a arferid gynt. 21.19, 21.19n

**henyw** 3ydd un. pres. myn. y ferf hanfod, sef bod (o), deillio (o). 20.21

**hyffordd** a. hawdd ei dramwyo, hwylus, parod; cyfarwydd, hyddysg. 20.7

**iach** = ach. 23.8

**iesin** a. teg, tlws, hardd, prydferth. 19.70

**irad** eg. a hefyd fel a. tristwch, gofid, galar; cwynfanus, trist, alaethus; echrydus, ofnadwy, erchyll. 19.21

**llewych** eg. goleuni, disgleirdeb, llewyrch. 20.3

**lluddias y ffordd** = rhwystro'r ffordd. 22.35, 22.35n

**lluddio** ba. ac abs. gwahardd, gwarafun, gomedd. 22.32

**llugyrn** eg. llusern, goleuad (yn enwedig yr haul neu'r lloer). 20.16

**llysg** = llys eg. llysnafedd. 22.44, 22.44n

**maddau** be. 'ymadael â'. 22.29, 22.29n

**magiad** eg. meithrinwr, magwr, porthwr. 22.38

**magod** a.bfl. wedi ei faethu, magedig. 22.38, 22.38n

**mamaeth** eb. gwraig sy'n meithrin neu'n magu plentyn gwraig arall. 24.4

**moes** = dyro, 2il bers. un. modd gorch. y ferf rhoi. 23.29

**Mownur** = mawr + nur eg. Arglwydd, arwr, gwron. 21.53, 21.53n

**mwnai** e.tf. ac eb. pres, cyfoeth, trysor, hefyd yn *ffig*. 21.14

**myn magod** = epil pesg yr afr. 22.38, 22.38n

**nawras ne'** sef nawradd nef Dionysius yr Areopagiad, a fu'n fyw ddiwedd y 5fed / dechrau'r 6ed ganrif. 22.36, 22.36n

**og** eb. offeryn amaethyddol a lusgir dros dir fel y bo'n barod i dderbyn hadau, hefyd yn *ffig*. 19.66, 19.66n

**pan** a. wedi ei guro er mwyn ei lanhau a'i dewhau. 23.37

**pedair iach** taid a nain o ochr y tad a'r fam. 23.10, 23.10n

**penadur** eg. rheolwr, pennaeth, arglwydd, uchelwr, pendefig. 21.29

**post** eg. cynhaliwr (ystyr ffigurol y gair). 19.55, 19.55n

**presen** eb.g. a hefyd fel a. y byd hwn, y ddaear; yn perthyn i'r byd hwn. 19.20

**pum llawenydd** sef pum llawenydd Mair: Cyfarchiad, Genedigaeth, Atgyfodiad, Dyrchafael, a'i Choronni ei hun yn y Nef. 21.28, 21.28n

**pumwyr** e. ll. ac eg. pump o wŷr, pum dyn. 21.36, 21.36n, 21.55

**rhagor** eg. rhagoriaeth; rhinwedd. 21.15

**rheiddiog** a. mawr ei wialen. 19.65

**rhoddiad** eg. rhoddwr (hael), anrhegwr, cyfrannwr. 21.25

**rhwystred** = 3ydd prs. un. modd gorch. y ferf rhwystro. 20.11

**rhygeirw** e. ll. (un. g. rhygarw) ceirw gwych, fel arfer yn *ffig.* gwŷr o fonedd, gwŷr urddasol. 21.15

**rhyglyddi** 2<sup>il</sup> berson amser pres. y ferf 'rhyglyddu'; haeddu, teilyngu. 23.9

**rhyswyr** e. ll. (un. g. rhyswr) arwyr, rhyfelwyr, milwyr. 22.2, 22.2n

**rhyw** eg.b. teulu neu linach yw'r ystyr yma. 24.12

**saith gysgadur** saith Gristion o Effesus a ddewisodd ymguddio mewn ogof er mwyn osgoi eilunaddoliaeth. Caewyd genau'r ogof. Pan ailagorwyd yr ogof dros ddau gan mlynedd yn ddiweddarach, daeth y saith allan, gan feddwl eu bod wedi cysgu am ddiwrnod. 19.33, 19.33n

**sâl** eb.g. gwobr, budd, elw, hefyd yn ffigurol. 21.31

**tad Selau** = tad Selyf = Dafydd Frenin. 19.38, 19.38n

**tâl** eg. rhagfur, talcen. 23.36, 23.36n

**tau** = 3ydd prs. un. amser pres. y ferf 'tawaf, tewi'. 19.7, 19.7n

**ton** a. b. (g. twn) toredig, drylliog, ysig. 19.50

**torch** eb. cadwyn, coler. 23.48

**torres** = 3ydd prs. un. amser gorff. y ferf 'torri'. 19.42

**trol** eb. olwyn. 20.4

**tuthia** ail bers. un. modd gorch. y ferf 'tuthio', 'tithio' be. symud yn gyflym, brysio.  
24.43, 24.43n

**tyfod** eg. tywod. 21.10

**tyrch** e. ll. (un. b. torch). Cadwyn o fetel cyfrodedd a wisgir am y gwddf neu'r  
fraich. Hefyd yn drosiadol ac yn ffigurol. 22.8

**unben** eg. rheolwr, pennaeth, uchelwr. 20.36

**uswydd** (yswydd) e.ll. ac hefyd fel a. darnau, drylliau, malurion. 19.48

**weithian** adf. yn awr, y dyddiau hyn, o hyn allan, bellach. 22.9

'**wenydd** gweler **awenydd**. 23.22, 23.22n

**ymgeledd** eg.b. gofal, swcwr, cynhaliaeth, nawdd. 19.27

**ymwasg** bg.a. gwasgu; glynu, ymlynu; dynesu, agosáu. 23.29

**ynn** = i ni. 20.2, 23.2

**ysig** a. cleisiedig, briwedig, toredig. 19.48

**Ystwyll** eg. Gŵyl Gristnogol (6ed Ionawr) sy'n coffáu amlygiad Crist i'r Doethion.  
19.14, 19.14n

**ytt** = iti. 23.15

## **Enwau Personau**

Adda ab Iorwerth 20.31

Arthur 23.2

Dafydd ap Llywelyn ap Hwlcyn 21.21

Dewi 21.22, 21.22n, 22.18, 22.20, 22.20n

Elen Luyddog 22.22, 22.22n, 22.24

Eliwlad 20.42, 23.4

Fferyll 23.57, 23.57n

Gruffydd ap Llywelyn ap Hwlcyn 21.23

Gruffudd Llwyd (ap Dafydd ab Einion Llygliw) 24.41, 24.41n

Gruffudd Llwyd (ap Maredudd ap Llywelyn ab Ynyr) 23.6, 23.6n

Gwalchmai 24.62, 24.62n

Ifan 23.3, 23.3n

Lliwlad 23.4, 23.4n

Siôn Hanmer 23.59

Harri 22.8, 22.8n

Huw Lewis ap Llywelyn ap Hwlcyn 21.20

Iesu 19.40, 19.69

Ithel ab Ieuan Fychan 20. 18, 23

Llywelyn ap Hwlcyn 21.37

Mair 21.41, 24.58, 24.58n

Merddin 20.33

Meurig ap Llywelyn Hwlcyn 21.17

Nudd 22.31, 22.31n

Owain Glyndŵr 24.24, 24.26, 24.26n

Pedr 23.10, 24.49, 24.49n

Rhosier ap Siôn Pilstwn 22.2, 22.55, 24.11 – 12, 24.53

Rhun 21.18, 21.18n

Rhys ab Ieuan Fychan 20.18, 24

Rhys ap Llywelyn ap Hwlcyn 21.25, 21.26, 21.26n

Saith gysgadur 19.33, 19.33n

Selau 19.38, 19.38n

Siencyn ab Ieuan ap Llywelyn ap Gruffudd Llwyd 23.2 – 6, 23.2n

Siôn ap Rhosier 19.19 – 20, 28, 38, 47, 70

Siôn ap Rhobert Pilstwn 22.3

Tudur ap Gronwy o Dre Castell, Môn 20.17, 20.17n

Yswitan 19.43, 19.43n

## **Enwau Lleoedd**

Banna 22.45, 22.45n

Caer Dyf 24.16

Cymru 20.32

Dole 22.35, 22.35n

Emral 22.23, 22.28, 22.47

Gwaun Llwg 24.20, 24.20n

Iâl 23.24

Iwerddon 21.35

Lloegr 20.16

Maelor 20.38, 24.32, 24.34

Menai 21.3

Môn 20.14, 20.38, 21.3, 21.8, 21.14, 21.16, 21.36, 21.56

Morgannwg 24.15, 24.19

Mynyw 22.27, 22.27n

Nanheudwy 20.43

Powys 19.68

Y Drewen 20.36

Y Llai 23.60

Ynys Brydain 20.25

## Llawysgrifau

---

Pwrpas yr adran hon yw cyflwyno peth o wybodaeth ynghylch y llawysgrifau a ddefnyddiwyd yn y golygiad. Nid disgrifiad manwl a geir yma; yn hytrach, digon at bwrpas y gwaith golygu yn unig. Defnyddiwyd yr wybodaeth a geir mewn cyfrolau megis MWM, RWM a'r llyfryddiaeth ar ddiwedd yr adran, cyn belled ag y bo'r rheiny yn berthnasol. Cafwyd y fraint o weld copi gweithiol cyfrolau arfaethedig Daniel Huws, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes*, ac estynnir diolchiadau cynhesaf iddo am ei haelioni. Defnyddir 'RWMS' isod i ddynodi cyfeiriad at y gwaith hwn.

Weithiau y mae llawysgrif yn cynnwys darnau a ysgrifenyddwyd ar adegau gwahanol neu gan gopiwr gwahanol. Pan fo hyn yn digwydd, nodir isod rhifau'r dalennau lle dechreu'r cerddi perthnasol yn y llawysgrif, ar ôl enw'r llawysgrif. Pan fo mwy nag un gerdd, rhoddir y dilyniant o rifau mewn cromfachau (gweler llawysgrif **Bangor 401** isod, er enghraifft). Cyfyngir disgrifiad y llawysgrif i'r darnau perthnasol.

### ***Llawysgrifau yng nghasgliad Prifysgol Bangor***

**Bangor 6:** Llaw gynnar Owen Jones ('Owain Myfyr'), 1768. Gw. 'Catalogue of Bangor MSS General Collection' 1 - 1217 (cyfrol anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Bangor), dan rif y llawysgrif; GDG, clxv – clxix; RWMS.

**Bangor 401, (13, 205):** Llawysgrif gyfansawdd a ffurfiwyd c. 1700. Rhan (i), tt. 1 – 276, mewn llaw anh.. Gw. 'Catalogue of Bangor MSS General Collection' 1 - 1000 (cyfrol anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Bangor), dan rif y llawysgrif; RWMS.

**Bangor 1267:** Roland Lewis, 1643. Gw. 'Catalogue of Bangor MSS General Collection' 1217 – 3133 (cyfrol anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Bangor), dan rif y llawysgrif. O hen lyfrgell Ty'n y Braich.

**Bangor 1269:** O hen lyfrgell Ty'n y Braich, Dinas Mawddwy. Mewn un llaw o ail rhan yr 17g., nid cyn 1678. Gw. 'Catalogue of Bangor MSS General Collection' 1217 – 3133 (cyfrol anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Bangor), dan rif y llawysgrif; RWMS.

**Bangor 13512:** Richard Owens, Isallt, Caerdybi, c. 1750. Gw. 'Catalogue of Bangor MSS General Collection' 13473 - 16978 (cyfrol anghyhoeddedig Prifysgol Cymru Bangor), dan rif y llawysgrif; RWMS.

**Bangor (Mos) 5:** Llaw gynnar Thomas Wiliems o Drefriw, c. 1570 – 90, yn ôl E. Gwynne Jones & A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection', i (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1967), a Huws, Daniel, *Cynnull y Farddoniaeth* (Aberystwyth, 2004), t. 35. Nid llaw Thomas Wiliems yn ôl RWMS.

**Bangor (Mos) 9:** Llaw anh., ail chwarter yr 17g. Gw. E. Gwynne Jones & A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection', i (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1967), dan rif y llawysgrif.

### ***Llawysgrifau yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain***

**BL Add 10313:** Dafydd Jones, Trefriw, canol y 18g., gw. CAMBM 1836, 29; W Gerallt Harries, 'Un arall o lawysgrifau Dewi Fardd', B xxvi (1974 – 6), 161 – 8.

**BL Add 14866 [=RWM 29]:** David Johns, ficer Llanfair Dyffryn Clwyd, 1586 – 7, gw. RWM ii, 1022 – 38.

**BL Add 14870 [=RWM 53]:** Lewis Morris, c. 1748, yn ôl yr wynebdden, eithr dim ond 'a small proportion of the MS. is in his autograph' yn ôl J. Gwenogvryn Evans. Gw. RWM ii, 1144 – 51; LWLM, t. 1.

**BL Add 14874 [=RWM 51], 59:** Dalennau 7 – 84 yn waith sawl copïwr, nid cyn 1601 ond yn fuan wedyn, yn ôl pob tebyg. Gweddill y llawysgrif (dalennau 85 – 301) yn waith sawl copïwr yn ysgrifennu yn y 1650'au. Gw. RWM ii, 1131 – 5; RWMS.

**BL Add 14876:** Richard Morris, 1722 – 49. Gw. CAMBM 1844, 19 – 20.

**BL Add 14882 [=RWM 31]:** Wiliam ap Wiliam ap Robert, Tregarweth, Môn, 1591, gw. RWM ii, 1048 – 53; CAMBM 1844, 21 – 2.

**BL Add 14881, 87:** Llaw anh., 1600 – 1650. Gw. RWM ii, 1130 – 1131; RWMS.

**BL Add 14886 [= RWM 47]:** Dalennau 1 – 75 yn llaw David Williams, 1643 – 7. Gw. RWM ii, 1108 – 10; Llyfrgell Brydeinig, Adran Llawysgrifau, catalog ar-lein o dan rif y llawysgrif;<sup>385</sup>RWMS.

**BL Add 14887 [=RWM 35]:** Un llaw anh., c. 1600. Gw. RWM ii, 1071 – 3.

**BL Add 14891:** William Rowland, c. 1694. Gw. CAMBM 1844, 24 – 5.

**BL Add 14892:** Wiliam Bodwrda a'i gynorthwywyr, c. 1647. Gw. CAMBM 1844, 25 – 6; R. Geraint Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i

---

<sup>385</sup><http://www.bl.uk/catalogues/manuscripts/HITS0001.ASP?VPath=html/11909.htm&Search=14886&Highlight=F>



John Price o Fellteyrn), *Cylchg. LLGC* viii, (1953 – 4), 349 – 50; Dafydd Ifans, 'Wiliam Bodwrda (1593 – 1600)', *Cylchg. LLGC* xix (1975 – 6), 300 – 10.

**BL Add 14896 [=RWM 43], 23** : Llawysgrif gyfansawdd. Dalennau 11 – 64 mewn llaw 1625 – 1675. Gw. RWM ii, 1098 – 1100; RWMS.

**BL Add 14901**: llaw anh., dechrau'r 18g., nid cyn 1705. Gw. CAMBM 1844, 28 – 29; RWMS.

**BL Add 14906 [=RWM 45], 83**: Wiliam ap Wiliam ap Robert, Tregarweth, Môn, 16/17g., gw. RWM ii, 1101 – 1104; CAMBM 1844, 29 – 30.

**BL Add 14908, 1**: Wiliam Owen [Pughe], 18g./19g. Gw. CAMBM 1844, 31; RWMS.

**BL Add 14932**: Wiliam Morris, 1740 – 55. Gw. CAMBM 1844, 36.

**BL Add 14934**: Lewis Morris (1722 – 60), gw. CAMBM 1844, 36 – 7; LWLM, tt. 76 – 9; LWLM, tt. 76 – 8; RWMS.

**BL Add 14966, 384**: Wiliam Bodwrda a'i gynorthwyr, c. 1644 - 1648. Gw. CAMBM 1844, 46 – 7; R. Geraint Gruffydd, *op. cit.* 349 – 50; Dafydd Ifans, 'Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593 – 1600)', M.A. Cymru (Aberystwyth), 1974, 266 – 340; *id.*, 'Wiliam Bodwrda (1593 – 1660)', *Cylchg. LLGC* xix (1975 – 6), 300 – 10; RWMS.

**BL Add 14967 [=RWM 23], 110**: llaw anh., 1527 – 1547, gw. RWM ii, 996 – 1014, CAMBM 1844, 47.

**BL Add 14969, (446, 459, 474)**: Tomas Prys, Huw Machno ac eraill, dechrau'r 17g. Gw. CAMBM 1844, 48; RWMS.

**BL Add 14971 [=RWM 21]**: Cyfrol gyfansawdd. Dalennau 7 – 235 yn llawysgrifen John Davies, Mallwyd, c. 1617. Dalennau 236 – 312 yn llawysgrifen John Jones Gellilyfddy (c. 1580 – 1658). Gw. CAMBM 1844, 49; RWM ii, 977 – 86; Rh. F. Roberts, 'Bywyd a Gwaith Dr. John Davies, Mallwyd', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru [Bangor] (1950), 342; Daniel Huws, 'John Davies and his Manuscripts', yn Ceri Davies (Ed.), *Dr John Davies of Mallwyd* (Cardiff, 2004), tt. 109 – 10.

**BL Add 14977, 57**: llaw anh., 16g. / 17g. Gw. CAMBM 1844, 52 – 3; RWMS.

**BL Add 14978, (40, 93, 136, 137)**: sawl llaw anh., c. 1600, gw. CAMBM 1844, 53; RWMS.

**BL Add 14979, (17, 32, 63, 175)**: Llawysgrif gyfansawdd. John Ffowk, c. 1577 - 90. Gw. CAMBM 1844, 53 – 4; RWMS.

**BL Add 14984**: llaw anh. canol yr 17g. Gw. CAMBM 1844, 55 – 6; RWMS.

- BL Add 14985:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., nid cyn 1611. Yn cynnwys marwnadau i deulu'r Fedw Deg, Penmachno. Gw. CAMBM 1844, 56; RWMS.
- BL Add 14990:** Hugh Maurice, c. 1800. Gw. CAMBM 1844, 57; RWMS.
- BL Add 14991:** Owen Jones 'Owain Myfyr' a Hugh Maurice, 18g./19g., CAMBM 1844, 57 – 8.
- BL Add 14994, (48r, 56r):** Llawysgrif gyfansawdd, Owen Jones 'Owain Myfyr', c. 1800, gw. CAMBM 1844, 60; RWMS.
- BL Add 14998 [=RWM 33], 23:** llaw anh., c. 1589, gw. RWM ii, 1066 – 8; CAMBM 1844, 60; RWMS.
- BL Add 14999, 97:** llaw anh., canol yr 16g., nid cyn 1527. Gw. CAMBM 1844, 60; RWMS.
- BL Add 15003, (58, 188) :** Edward Williams (sef 'Iolo Morgannwg') a William Owen Pughe, c. 1799 – 1800. Gweler CAMBM 1844, 62 – 63; RWMS.
- BL Add. 15010:** William Roberts, Llwynrhudol, 1757 – 63, gw. CAMBM 1844, 65.
- BL Add 15011:** llaw gynnar William Owen Pughe, c. 1785. Gw. CAMBM 1844, 65, RWMS.
- BL Add 15022, (53 – 55):** llaw ddiweddar Owen Jones ('Owain Myfyr'), 1773 – 99. Gweler CAMBM 1844, 67 – 9.
- BL Add 15027, 33:** llaw anh., 1789 – 1807. Gw. CAMBM 1844, 71 – 2.
- BL Add 24980 [=RWM 39]:** llaw anh., c. 1600, gw. RWM ii, 1082 – 7.
- BL Add 31055 [= RWM 32]:** Thomas Wiliems, 1591 – 6, gw. CAMBM 1876 – 81, 154; RWM ii, 1053 – 65.
- BL Add 31056:** Thomas Roberts, ail hanner yr 17g. (ar ôl 1658). Gw. CAMBM 1876 – 81, 154; RWMS.
- BL Add 31057, (14, 49, 67):** Llawysgrif gyfansawdd. Rhan (i), llaw anh., 16g./17g., gw. CAMBM 1876 – 81, 154; RWMS.
- BL Add 31058, (19, 34, 111):** Llawysgrif gyfansawdd. Rhan (i), dalennau 1 – 90, tair llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. Rhan (ii), dalennau 92<sup>v</sup> – 206, llaw anh., canol yr 17g. Gw. CAMBM 1876 – 81, 154; RWMS.
- BL Add 31060, 171:** Llawysgrif gyfansawdd. Rhan (ii), dalennau 139 – 220, Edward Davies, Henblas, Llangedwyn, c. 1636 – 40. Gw. CAMBM 1876 – 81, 154; RWMS.

**BL Add 31069:** Owen Jones a Hugh Maurice, yn gynnar yn y 19g., gw. CAMBM 1876 – 81, 154.

**BL Add 31072:** Owen Jones ‘Owain Myfyr’ a Hugh Maurice, 1804 (yn ôl yr wynebdden), gw. CAMBM, 1876 – 81, 154?

**BL Add 31080:** Owen Jones (‘Owain Myfyr’) a Hugh Maurice, 1804 (yr wynebdden), gweler CAMBM 1876 – 81, 154.

**BL Add 31084:** Owen Jones ‘Owain Myfyr’ a Hugh Maurice, 18g./19g., gw. CAMBM 1876 – 81, 154.

**BL Add 31095:** Owen Jones ‘Owain Myfyr’, 18g./19g., gw. CAMBM 1876 – 81, 154.

**Stowe 959 [= RWM 48]:** Llaw anh., 16g. / 17g., gw. RWM ii, 1110 – 26; RWMS.

***Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth***

**Bodewryd 1, (312, 421, 442, 444):** Humphrey Davies, 1618 x 1635, gw. ‘Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 1932), 1; RWMS.

**Bodewryd 2, 158:** Llawysgrif gyfansawdd. Rhan (ii), 79 – 414. Robert Lewis a William Davies, hanner cyntaf yr 17g. c(y dudalen dan sylw yn llaw Robert Lewis. Gw. ‘Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents’, cyfrol anghyhoeddedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1-2; D. Huws, ‘Robert Lewis of Carnau’, *Cylchg. LIGC* xxv (1987–8), 118; RWMS.

***Llawysgrifau yn Llyfrgell Bodley, Rhydychen***

**Bodley Welsh e.1, (32<sup>r</sup>, 58<sup>r</sup>, 110<sup>v</sup>):** Huw Machno, Ifan Siôn, c. 1612 x 1623. Gw. SCWMBLO vi, 53; G. H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648 - 1722* (Caerdydd 1953), 46 – 7; RWMS.

**Bodley Welsh e.3, 50:** Cywyddau o’r 16g. / 17g., y ddalennau perthnasol yn llaw Wiliam Bodwrda. Gw. SCWMBLO vi, 53; Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648 – 1722* (Caerdydd, 1953), 47 – 8; RWMS.

**Bodley Welsh e.6:** John Jones Gellilyfdy, 1604. Gw. SCWMBLO vi, 216.

**Bodley Welsh e.8:** llaw anh., ail hanner yr 17g. Gw. SCWMBLO vi, 216.

***Llawysgrifau yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth***

**Bro (y gyfres gyntaf) 2:** Humphrey Davies, 1599, gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents', i (cyfrol anghyhoeddedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1937), 3 - 5; E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylch LIGC*, v (1947 - 48), 234 - 6.

**Bro (y gyfres gyntaf) 3, 156:** Llawysgrif gyfansawdd. Rhan (i), y dudalennau perthnasol mewn llaw anh., c. 1618 - 37. Gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents', i (cyfrol anghyhoeddedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1937), 6 - 7; E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylch LIGC*, vi (1949 - 50), 1 - 42; RWMS.

**Bro (y gyfres gyntaf) 4:** Wiliam Bodwrda a'i gynorthwywyr, c. 1649. Gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents', i (cyfrol anghyhoeddedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1937), 8 - 9; E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylch LIGC*, v (1947 - 48), 234 - 6; RWMS.

**Bro (y gyfres gyntaf) 5:** llaw anh., c. 1683. Gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents', i (cyfrol anghyhoeddedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1937), 10 - 12; E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylch LIGC*, v (1947 - 48), 237 - 57; RWMS.

***Llawysgrifau yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd***

**Card 1.18:** Lady Elizabeth Phillips, 1850, gw. Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *Summary Catalogue of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the "Cardiff MSS"*, Aberystwyth, 1994, 2 - 3.

**Card 1.20:** Elizabeth Phillips, 1850. Gw. Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *Summary Catalogue of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the "Cardiff MSS"*, Aberystwyth, 1994, 3.

**Card 1.5 [= RWM 23]:** Foulk Owen, 1673 x 1691. Gw. RWM ii, 206 - 210; Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary Catalogue of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the "Cardiff MSS"*, Aberystwyth 1994, 1.

**Card 1.550:** David Richards, ail hanner y 18g. Gw. Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff*

*Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”, Aberystwyth 1994, 57; RWMS.*

**Card 2.114 [= RWM 7]:** *‘The Book of the Vicar of Woking’* (gw. RWM ii, 110 – 128). Llaw anh., 1564 – 6. Gw. Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”, Aberystwyth 1994, 88; RWMS.*

**Card 2.13 [= RWM 34]:** llaw anh., c. 1819, gw. RWM ii, 231; RWMS.

**Card 2.202 [= RWM 66], 250:** John Davies, *Y Goetre*, 1690–4, gw. RWM ii, 289–93; RWMS.

**Card 2.40 [= RWM 26]:** John Morgan, *Matchin*, c. 1714. Gw. RWM ii, 214 – 24; Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”, Aberystwyth 1994, 79.*

**Card 2.616:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. (ar ôl 1618). Gw. Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”, Aberystwyth 1994, 142.*

**Card 2.617 [= Hafod 3]:** Huw Machno ac eraill, c. 1620 x 25, gw. RWM ii, 302 – 6; Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”, Aberystwyth 1994, 142.*

**Card 2.68 [= RWM 19]:** llaw anh., c. 1624, gw. RWM ii, 178 – 93; Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”, Aberystwyth 1994, 82.*

**Card 3.37 [= RWM 20]:** llaw anh., 1614 x 1636. Gw. RWM ii, 193 – 202; RWMS.

**Card 3.4 [= RWM 5]:** *‘Llyfr Elis Gruffydd’*. Elis Gruffydd, c. 1527, gydag ychwanegiadau diweddarach. Gw. RWM ii, 96 - 103); RWMS.

**Card 4.10 [= RWM 84]:** Dafydd Jones, *Trefriw*, ac eraill, canol y 18g. (nid cyn 1736) Gw. RWM ii, 790 – 3; Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”, Aberystwyth 1994, 315, RWMS.*

**Card 4.101 [=RWM 83], (139, 182):** Huw Machno ac eraill, c. 1600 – 36, gw. RWM ii, 783 – 9; RWMS.

**Card 4.110 [= RWM 47]:** Llawysgrif gyfansawdd, y ddwy ran yn llaw Y Parchedig David Ellis, 1771 x 95, o lyfr Hugh Hughes. Gw. RWM ii, 239 – 43; Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”*, Aberystwyth 1994, 328; RWMS.

**Card 4.156 [= RWM 64]:** Margaret Davies, 1736 – 7, gw. RWM ii, 272 – 85; Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”*, Aberystwyth 1994, 334.

**Card 4.330 [= Hafod 26]:** Thomas Wiliems, c. 1574, gw. RWM ii, 336 – 45.

**Card 5.11 [= RWM 33]:** llaw anh., ail hanner y 18g., gw. RWM ii, 230; Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”*, Aberystwyth 1994, 437.

**Card 5.10i [= RWM 48]:** William Griffith, Dolgellau, c. 1750. Gw. RWM ii, 244 – 8; RWMS.

**Card 5.167 [= Thelwall], (22v, 108v):** Richard Langford a'i gynorthwywyr, c. 1565 - 72, gw. Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary Catalogue of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”*, Aberystwyth 1994, 451; BaTh, 303 a 311 – 2; RWMS.

**Card 5.44:** ‘*Llyfr Hir Llanharan*’. Llywelyn Siôn, cwblhawyd 1613. Gw. Graham C. G. Thomas & Daniel Huws, *Summary of the Manuscripts of South Glamorgan libraries, Cardiff Central Library, commonly referred to as the “Cardiff MSS”*, Aberystwyth 1994, 440; RWMS.

***Llawysgrifau yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth***

**CM 5, 415:** Llawysgrif gyfansawdd. Rhan (i), tt. 71 – 476, Edward Owen, Hengwrt, c. 1600. Gw. RWM ii, 878–86; B.G. Owens & R.W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 5–6; RWMS.

**CM 10:** David Ellis, Cricieth, 1766, gw. RWM ii, 890–5; B.G. Owens & R.W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 11.

- CM 11:** Llawysgrif gyfansawdd. David Ellis, 1775 – 83. Gw. RWM ii, 895 – 900; B. G. Owens & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 12 – 13; RWMS.
- CM 14:** Lewis Morris, 1725 – 45. Gw. RWM ii, 903 – 8; B. G. Owens & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 17; Dafydd Wyn Wiliam, *Cofiant Lewis Morris 1700/1 – 42*, Llangefni 1997, 142.
- CM 25:** Wiliam Bodwrda, c. 1644. Gw. RWM ii, 924 – 5; B. G. Owens & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 28.
- CM 27:** David Elis, 1630, a dau amanuensis. Gweler RWM ii, 925 – 32, B. G. Owens & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 30 – 31; RWMS.
- CM 40, (14, 69):** Llawysgrif gyfansawdd. Rhan (i), tt. 1 – 138, Robert Williams, Aber-erch, 18/19g., nid cyn 1804. Gw. RWM ii, 847 – 51; B. G. Owens & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 45 – 6; RWMS.
- CM 109:** Charles Saunderson ('Siarl Wyn o Benllyn'), c. 1810 – 32, gweler B. G. Owens & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 140.
- CM 207:** Thomas ap Edward, hanner cyntaf yr 17g., gw. B. G. Owens & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 244; RWMS.
- CM 242:** llaw anh., nid cyn 1811, gw. B. G. Owens & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts i*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 278.
- CM 312:** llaw anh., c. 1600, gw. B. G. Owens, Rh. F. Roberts & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts ii*, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1993), 370; E. I. Rowlands, 'Llaw dybiedig Siôn Brwynog', *Cylch. LlGC*, vii (1951 – 2), 381 – 2.

**CM 381:** John Williams Dolgellau ('Ioan Rhagfyr'), 1783, gweler B. G. Owens & R. W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts* ii, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1993), 435; GDG clxviii – clxix.

**CM 448:** Margaret Davies, 1725, gw. B.G. Owens, Rh.F. Roberts & R.W. McDonald, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts* ii, (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1993), 502.

**CM 476, 109:** Llawysgrif gyfansawdd. Rhan (ii), tt. 85 – 116 yn llaw Robert Williams (Robin Llys Padrig), 18g. / 19g. Gweler RWMS.

### ***Llawysgrifau yng nghasgliad Esgair yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth***

**Esgair 1:** Morys Oliver, 17g. / 18g.. Gw. 'Schedule of Esgair and Pantperthog MSS. and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1950), 1 – 11; RWMS.

### ***Llawysgrifau yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies yn Llyfrgell Prifysgol Bangor***

**Gwyn 2, 123:** Llawysgrif gyfansawdd, rhan (ii), dalennau 117 – 228 yn llaw Watkin Lloyd, Llanegryn, c. 1611 – 1613. Gw. GSCMB, t. 30; RWMS.

**Gwyn 3:** Jaspar Gryffyth, c. 1600, gw. GSCMB, t. 30; I. Williams (gol.), *Gwyneddion 3* (Caerdydd 1931), tt. v – xii; B. F. Roberts, *Early Welsh Poetry: Studies in the Book of Aneirin* (Aberystwyth 1988), t. 46; RWMS.

**Gwyn 16:** Peter Bailey Williams, Llanrug, 1796 - 7. Gw. GSCMB, t. 31; RWMS.

**Gwyn 19:** David Ellis, curad Amlwch, 1776 – 92. Gw. GSCMB, t. 31; RWMS.

### ***Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg yr Iesu, Rhydychen***

**J 101 [=RWM 17]:** Llaw anh., c. 1625 - 75. Ymddengys fod y llawysgrif yn adysgrif o lawysgrif Brog 2. Gw. RWM ii, 68 – 86; 'Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1932), 1; E. D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', *Cylchg. LIGC*, v (1947 – 8), 234 – 6, plât rhif 32; RWMS.

**J 137 [=RWM 12], (74, 242):** llaw anh., c. 1600, gw. RWM ii, 41 – 6; RWMS.



**J 138 [=RWM 16]:** Robert Davies, Gwysanau, 1628, gw. RWM ii, 64 – 8.

**J 139 [= RWM 14]:** Adysgrif Card 2.114, llaw anh., c. 1630. Gw. RWM ii, 56 – 7 (gwall yw ‘early xvith century’); E. D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg. LIGC* vi (1949 – 50), 223; RWMS.

**J 140 [= RWM 15]:** llaw anh. (yr un llaw anh. â J 139), c. 1630, gw. RWM ii, 57 – 64; E. D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, *Cylchg. LIGC* vi (1949 – 50), 223; RWMS.

***Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth***

**LIGC 37B:** William Jones, Llangadfan, c. 1787. Gw. NLWCM, 81 – 4; RWMS.

**LIGC 170C:** Edward Jones, ‘Bardd y Brenin’, 18/19g., gw. NLWCM, 140 – 2.

**LIGC 408A:** William Davies, curad Llangoed, hanner cyntaf yr 17g., HMNLW i, 11; RWMS.

**LIGC 436B:** llaw anh., c. 1710 x 1730, gw. NLWCM 325 – 35; RWMS.

**LIGC 552B:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gweler HMNLW i, 33.

**LIGC 558B:** Llyfr Cyfeiliog. Llaw anh., ail hanner y 18g.

**LIGC 642B:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. HMNLW i, 43.

**LIGC 644B:** llaw anh., canol yr 17g., nid cyn 1608. Gw. HMNLW i, 44; RWMS.

**LIGC 659A:** llaw anh., 19g., gw. HMNLW i, 45.

**LIGC 668C:** William Jones, Llangollen, 19g., gw. HMNLW i, 46.

**LIGC 670D:** William Jones, Llangollen, 19g., gw. HMNLW i, 46 – 7.

**LIGC 672D:** Edward Williams, Penmorfa, c. 1797 - 1845, gw. HMNLW i, 47; RWMS.

**LIGC 722B:** Yn llaw Huw ab Elise, dechrau'r 17g. (nid cyn 1603), gw. HMNLW i, 53; RWMS.

**LIGC 727D:** Huw Machno, 1610 x 1626, gw. HMNLW i, 53.

**LIGC 834B:** Amanuensis Dr John Davies, Mallwyd, c. 1610 - 20, gw. HMNLW i, 64; Daniel Huws, ‘John Davies and his Manuscripts’, yn Ceri Davies (Ed.), *Dr John Davies of Mallwyd* (Cardiff, 2004), tt. 99, 110 – 11.

